# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH<br>18 GORFFENNAF 2023<br>10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY<br>18 JULY 2023<br>10.00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR** | | **HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN COMMITTEE ROOM 1** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2023.

4 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 11 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

5 **CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2022/23 A DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU** (Tudalennau 23 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

6 **POLISI A STRATEGAETH RHEOLI RISG** (Tudalennau 43 - 86)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 **YMESTYN CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** (Tudalennau 87 - 96)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

8 **MABWYSIADU CYNLLUN DEISEBAU DRAFFT** (Tudalennau 97 - 108)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfawyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

9 **STRATEGAETH MODERNEIDDIO CYMUNEDAU DYSGU A DATBLYGU'R GYMRAEG** (Tudalennau 109 - 196)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

10 **MODERNEIDDIO YSGOLION MÔN – ADOLYGU DALGYLCHOEDD YSGOL Y GRAIG AC YSGOL TALWRN** (Tudalennau 197 - 284)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

11 **DARPARIAETH CINIO AM DDIM - YSGOL BODFFORDD** (Tudalennau 285 - 290)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

12 **CYNLLUN RHEOLI ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) – DRAFFT TERFYNOL** (Tudalennau 291 - 408)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

13 **CYNLLUN RHEOLI CYRCHFAN 2023-2028** (Tudalennau 409 - 456)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

14 **GWELLA DIBYNADWYEDD A CHYDNERTHEDD AR DRAWS Y FENAI** (Tudalennau 457 - 548)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

15 **PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN – DIWEDDARIAD** (Tudalennau 549 - 562)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

16 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 563 - 564)

Ystyried mabwysiadau'r canlynol –

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni."

17 **PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN –LLYWODRAETHIANT, SEFYDLU A RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 565 - 586)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2023

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Gary Pritchard, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Pennaeth y Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Rheolwr Blynyddoedd Cynnar (DT) (ar gyfer eitem 10)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Alun Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Douglas Fowlie, Glyn Haynes, Derek Owen |

---

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim materion i'w hadrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2023 i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 30 Mai, 2023 yn gywir yn amodol ar addasu'r cyfeiriad dan eitem 1 yn y fersiwn Gymraeg er mwyn nodi mai dim ond gwraig y Cynghorydd Robin Williams sy'n cael ei chyflogi gan Bwyd Da Môn, ac nid y Cynghorydd ei hun.**



DRAFT

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth sy'n cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf, 2023 a Chwefror 2024 i'w hystyried.

Diweddarodd y Pennaeth Democratiaeth y Pwyllgor Gwaith ynghylch newidiadau i'r Blaen Raglen Waith a nodwyd y canlynol –

- Eitemau 11 a 12 (Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd a Chynllun Trawsnewid Cerbydau Fflyd yn y drefn honno) fel penderfyniadau dirprwyedig ar gyfer Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ar gyfer mis Medi, 2023.
- Eitem 19 (Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2023-28) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 26 Medi, 2023.
- Eitem 21 (Prynu Tir yn Orfodol – Tir cyflogaeth yn Llangefni) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 26 Medi, 2023.
- Eitem 28 (Strategaeth Cartrefi Gwag 2023-2028) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 28 Tachwedd, 2023.
- Eitem 32 (Strategaeth Gyfalaf) yn amodol ar gadarnhau eitem newydd ar gyfer cyfarfod 23 Ionawr 2024 y Pwyllgor Gwaith.
- Eitemau 34 i 36 (Adroddiadau Monitro Ariannol Chwarter 3) fel eitemau newydd ar gyfer cyfarfod 20 Chwefror, 2024 y Pwyllgor Gwaith.
- Eitem 37 (Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 20 Chwefror, 2024.
- Eitem 38 (Strategaeth Rheoli Asedau (Gwasanaethau Tai) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 20 Chwefror, 2024.
- Eitem 39 (Asesiad o'r Farchnad Tai Lleol) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod 20 Chwefror, 2024 y Pwyllgor Gwaith.

Eitemau nad ydynt ar y Blaen Raglen Waith a gyhoeddwyd i'w hychwanegu at gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf, 2023 –

- Polisi a Strategaeth Rheoli Risg
- Darpariaeth Prydau Ysgol am Ddim – Ysgol Bodffordd,
- Gwella Gwydnwch a Dibynadwyedd ar draws y Fenai

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Rhaglen Waith diwygiedig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Gorffennaf 2023 – Chwefror 2024 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 5. CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 4 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid sy'n cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r adroddiad cerdyn sgorio yn portreadu sefyllfa diwedd blwyddyn y Cyngor yn erbyn materion yn ymwneud â gwasanaeth cwsmeriaid, pobl a rheolaeth ariannol a rheoli perfformiad.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer a roddodd grynodeb o'r cynnwys gan gadarnhau bod 91% o'r dangosyddion yn perfformio'n unol â'r targed, neu o fewn 5% iddo. Yn yr adroddiad tynnwyd sylw at nifer o straeon cadarnhaol am berfformiad mewn perthynas ag atal digartrefedd, Gwasanaethau Oedolion, gwneud penderfyniadau cynllunio'n brydlon, gwelliannau i gyflwr ffyrdd, glendid strydoedd, nifer y tai gwag sy'n cael eu defnyddio eto a chodi nifer yr ymwelwyr i ganolfannau hamdden yn ôl i'r lefelau cyn y pandemig. Mae'r cyfraniad a wnaed gan staff y Cyngor i'r perfformiad cadarnhaol hwn dros y flwyddyn yn cael ei gydnabod a'i ganmol. Yn achos unrhyw faes sydd heb gyrraedd y targed o ran



DRAFT

perfformiad, ymchwilir i'r meysydd hynny, yn benodol canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymdrinnir â nhw o fewn yr amserlen, nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerir i gyflwyno Grant Cyfleusterau i'r Anabl a chanran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd a chânt eu monitro gan y Tîm Arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Wrth symud ymlaen i flwyddyn newydd y Cyngor, mae'r un mor bwysig monitro tueddiadau a chynnydd perfformiad yn erbyn dangosyddion boed yn wyrdd neu'n felyn yn enwedig o ystyried yr heriau parhaus sy'n ymwneud â chyllid a gwariant, recriwtio staff a chapasiti. Bydd cadw llygad ar dueddiadau'n helpu i gynnal y lefel bresennol o berfformiad da ac yn cyfrannu at welliant parhaus dros amser. I orffen dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones ei fod yn gobeithio bod yr adroddiad yn rhoi sicrwydd bod perfformiad yn bwysig i'r Cyngor, ei fod yn cael ei reoli'n gadarn a'i fod yn cael sylw dyledus yn wleidyddol ac yn weithredol.

Oherwydd problemau cysylltu gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y pwynt hwn, camodd y Pennaeth Democratiaeth i'r adwy i adrodd am gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 20 Mehefin lle cafodd Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 4 2022/23 ei ystyried a'i drafod yn fanwl. Codwyd a thrafodwyd nifer o faterion gan gynnwys y trefniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r perfformiad cadarnhaol, gwasanaeth cwsmeriaid mewn perthynas â monitro galwadau ffôn ac ansawdd yr ymatebion, darparu grantiau ac addasiadau Cyfleusterau i'r Anabl, rheoli plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant - perfformiad yn benodol yn erbyn Dangosydd 23 a sut y gellir adrodd ar hyn i roi cyfrif mwy ystyrlon o berfformiad gan gytuno bod y dangosydd yn cael ei archwilio gan Banel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol. Ystyriwyd y tanwariant a ragwelir ar gyllideb 2022/23 o ran sut y gallai helpu'r Cyngor i fynd i'r afael â phwysau gwasanaeth ychwanegol disgwyliedig yn 2023/24. Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch sut y caiff camau i fynd i'r afael â meysydd/dangosyddion sy'n tanberfformio eu monitro i sicrhau eu bod yn bodloni nodau ac amcanion perfformiad. Ar ôl ystyried y materion hyn a'r ymateb iddynt, penderfynodd y Pwyllgor argymell adroddiad Cerdyn sgorio Chwarter 4 a'r mesurau lliniaru ynddo, i'r Pwyllgor Gwaith.

Croesawodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yr adroddiad fel tystiolaeth o waith caled a chydymdrech y staff ar draws y Cyngor i gynnal a gwella perfformiad yn wyneb heriau parhaus mewn blwyddyn anodd ar adegau. Cyfeiriwyd at yr ychydig feysydd lle na chyrhaeddwyd targedau a nododd yr Aelodau nad yw'r sgôr CAG bob amser yn rhoi darlun llawn o berfformiad yn enwedig lle mae yna gymhlethdodau ac fe nodwyd Dangosydd Perfformiad 23 *(Yr amser cyfartalog a dreuliodd pob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, ac a gafodd eu dadgofrestru yn ystod y flwyddyn*) lle'r oedd y perfformiad yn dangos fel coch, fel enghraifft o hynny. Eglurwyd bod plant ar y gofrestr amddiffyn plant ond yn cael eu dadgofrestru pan fydd yn ddiogel gwneud hynny ac nad oes risg o niwed yn berthnasol ac y byddai'n anghywir gwneud hynny yn rhy fuan er mwyn cyrraedd targed. Felly, mae angen edrych yn ochelgar ar y dangosydd oherwydd heb gyd-destun a naratif eglurhaol nid yw'n rhoi darlun cyflawn o'r holl ffactorau dan sylw. Yn yr un modd o ran nifer y diwrnodau a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl lle na chyflawnwyd amserlenni yn rhannol oherwydd prinder contractwyr sy'n fater sector cyfan.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod wedi ei galonogi yn sgil y dealltwriaeth o natur gymhleth Dangosydd 23 a dywedodd y gallai plant ar y gofrestr amddiffyn plant am fwy o amser hefyd fod yn destun proses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus lle mae'r Awdurdod Lleol yn cael trafodaeth gyda'r teulu a'u cynrychiolydd cyfreithiol ynghylch cadw plentyn yn ddiogel a thrwy hynny ddarparu amddiffyniad ychwanegol. Mae gan y Gwasanaeth brosesau mewnol hefyd lle mae achosion unigol yn cael eu trafod a'u hadolygu. Felly nid yw'r DPA yn adlewyrchu'r sefyllfa yn llawn a bydd opsiwn arall mwy ystyrlon ar gyfer adrodd yn cael ei ystyried ar gyfer y cerdyn sgorio newydd eleni.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod 2022/23 wedi bod yn flwyddyn anodd ar sawl ystyr, yn enwedig Chwarter 4 gydag effeithiau'r argyfwng costau byw, caledi tanwydd a phwysau'r

gaeaf yn golygu bod mwy o alw am sawl gwasanaeth gan y Cyngor. Mae'r heriau hyn yn gwneud perfformiad cyffredinol y flwyddyn yn fwy clodwiw. Mae'r cyd-weithio, yr arweinyddiaeth a'r cyfeiriad a roddwyd gan reolwyr ac ymrwymiad staff rheng flaen oll wedi bod yn ffactorau allweddol wrth sicrhau canlyniad mor gadarnhaol ar adeg o ansicrwydd.

Wrth gloi, cyfeiriodd y Cadeirydd at feysydd lle mae perfformiad wedi gwneud gwahaniaeth ym mywydau pobl e.e. canran yr aelwydydd a gafodd eu hatal rhag dod yn ddigartref, nifer y tai gwag sy'n cael eu defnyddio eto, glendid strydoedd, y cynnydd yn nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden sydd â buddion corfforol ac iechyd meddwl, dyma rai enghreifftiau o sut mae'r data perfformiad yn cael ei ddefnyddio i lywio camau gweithredu a sbarduno gwelliannau. Mae'r gweithlu y tu ôl i'r gweithgareddau hyn a gweithgareddau eraill yn ogystal â phartneriaid y Cyngor a'r holl ofalwyr di-dâl yn haeddu diolch a gwerthfawrogiad y Pwyllgor Gwaith am ganlyniadau Chwarter 4 a'r perfformiad ar hyd y flwyddyn.

**Penderfynwyd derbyn adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 2022/23 a nodi'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol fel yr amlinellwyd.**

**6. DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL 2023-2024**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid sy'n cynnwys y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2023/24 er mwyn i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried a'i gymeradwyo.

Cyflwynwyd y Ddogfen Gyflawni Flynyddol gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer fel amlinelliad o raglenni gwaith blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24 sydd wedi'u cynllunio i gyflawni disgwyliadau Cynllun y Cyngor. Diolchodd i'r Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad am ddogfen addysgiadol, gryno oedd wedi'i chyflwyno'n glir. Mae'r Cynllun Cyflawni yn nodi'r camau allweddol sydd i'w cymryd gan y Cyngor yn 2023/24 i'w helpu i gyflawni'r amcanion strategol yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 ac mae'n adlewyrchu dyheadau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn. Datblygwyd y ddogfen mewn cydweithrediad â gwasanaethau ar draws y Cyngor ac mae'r rhaglenni gwaith y mae'n eu nodi wedi'u costio'n llawn a byddant yn cael eu cyflawni o fewn yr adnoddau a bennir fel rhan o'r gyllideb a osodwyd ar gyfer 2023/24. Bydd y gwaith yn cael ei wneud ochr yn ochr â chynnal y Cyngor o ddydd i ddydd a'i rwymedigaethau statudol. Bydd pob aelod o staff rheng flaen a staff cymorth yn chwarae rhan annatod i sicrhau bod y ddogfen yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad y bydd diweddariadau chwarterol ar gynnydd gweithgarwch yn cael eu darparu i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni ei ddisgwyliadau ar gyfer y flwyddyn.

Rhoddodd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adborth o gyfarfod 20 Mehefin y Pwyllgor lle craffwyd ar Ddogfen Gyflawni 2023/24. Adroddodd fod y materion a godwyd gan y Pwyllgor yn cynnwys yr heriau a'r risgiau wrth geisio gwireddu'r blaenoriaethau a osodwyd ar gyfer 2023/24, y trefniadau a roddwyd ar waith i fonitro'r cynnydd o ran darparu'r rhaglenni gwaith fel yr amlinellwyd, i ba raddau y mae'r Cynllun yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sicrhau bod staff yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o'i chyflawni. Ar ôl trafod y materion hyn ac ar ôl ystyried yr ymateb a ddarparwyd, penderfynodd y pwyllgor argymell y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor Gwaith.

Cydnabu aelodau'r Pwyllgor Gwaith y weledigaeth oedd yn y Ddogfen ac roeddent yn edrych ymlaen at weithredu'r camau ar gyfer y portffolios yr oeddent yn gyfrifol amdanynt. Dywedodd y Cadeirydd, er bod y chwe amcan strategol yn benodol, fod y rhaglenni gwaith o dan bob un wedi'u cydblethu e.e. mae datblygu tai newydd nid yn unig yn darparu cartrefi i bobl ond yn helpu i gefnogi'r diwydiant adeiladu ac yn dod â budd economaidd. Mae

cyflwyno'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2023/24 hefyd yn cyd-fynd â lansio Cynllun y Cyngor 2023-28 yn gyhoeddus ac yn dangos o'r cychwyn bod y Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni ei uchelgeisiau ar gyfer y cynllun pum mlynedd.

**Penderfynwyd mabwysiadu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer ei chyflawni yn ystod 2023/24.**

## 7. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – ALLDRO 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 4, 31 Mawrth 2023 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid yr adroddiad a rhoddodd rywfaint o gyd-destun gan ddweud bod y Cyngor wedi gosod cyllideb net ar gyfer 2022/23 gyda gwariant net ar sail gwasanaeth o £158.365m i'w ariannu o incwm Treth y Cyngor, NDR a grantiau cyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys cyfanswm ar gyfer argyfyngau cyffredinol ac eraill oedd yn dod i gyfanswm o £3.110m. Cafodd y gyllideb ar gyfer y Premiwm Treth Cyngor ei chynyddu £0.436m i £1.950m. Gosodwyd cyllideb gytbwys gyda chynnydd y cytunwyd arno yn Nhreth y Cyngor o 2%. O ran y flwyddyn flaenorol, nid oedd yn ofynnol i wasanaethau wneud arbedion. Roedd y cynnydd o 9.2% mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn gynnydd i'w groesawu ond roedd yn ofynnol i'r Cyngor ymrwymo i gynnydd yn y gyllideb mewn nifer o feysydd gan gynnwys gofal cymdeithasol a digartrefedd. Daeth cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant cysylltiedig â Covid i ben hefyd. Mae'r sefyllfa ariannol gyffredinol ar gyfer 2022/23 gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a Chronfa Treth y Cyngor yn danwariant o £1.212m a ragwelir sef 0.76% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2022/23.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, er bod y canlyniad ar ddiwedd y flwyddyn yn gadarnhaol ac yn gwella sefyllfa ariannol y Cyngor, mae nifer o eitemau untro sydd wedi cyfrannu at y tanwariant wedi helpu hynny. Mae'r rhain yn cynnwys grantiau anghylchol gan Lywodraeth Cymru, gwell lefelau incwm nag y cyfrifwyd ar eu cyfer, defnyddio cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a lefel uchel o swyddi gwag staff - byddai'r sefyllfa wedi bod yn wahanol iawn hebddynt gyda gorwariant o £2.867m yn cael ei adrodd a fyddai wedi creu bwlch sylweddol yn y gyllideb wrth wynebu 2023/24. Ni fydd y rhan fwyaf o'r manteision ariannol sydd wedi cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddiwedd 2022/23 yn digwydd eto i'r un graddau yn 2023/24 sy'n golygu y bydd y Cyngor yn dal i wynebu pwysau ariannol yn 2023/24 a thu hwnt. Ailadroddodd y Cynghorydd Williams, fel Aelod Portffolio Cyllid ei fod bob amser wedi cymryd agwedd ddarbodus tuag at y gyllideb gan edrych ar y sefyllfa yn y tymor hir, cynnal cronfeydd wrth gefn, a pheidio â rhuthro i wneud penderfyniadau yn wyneb galwadau i beidio â chodi Treth y Cyngor. Pwysleisiodd fod Ynys Môn yn parhau i fod yn un o'r awdurdodau sy'n codi'r tâl isaf yng Nghymru ar gyfer Treth y Cyngor ac Ynys Môn yw'r isaf yng Ngogledd Cymru. Pwrpas y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yw cydbwyso'r gyllideb o'r naill flwyddyn i'r llall ac nid ei gynyddu heb fod angen.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at ansicrwydd parhaus mewn perthynas â blynyddoedd ariannol 2023/24 a 2024/25. Er bod y tanwariant yn golygu bod sefyllfa balansau'r Cyngor ar £10.2m wrth symud ymlaen, £1.4m yn uwch na'r isafswm gwerth a argymhellir sef 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2023/24 ar ôl ystyried hefyd y £3.8m a ymrwymwyd fel cyllid ar gyfer cyllideb 2023/24, mae materion heb eu datrys o hyd ynghylch codiadau cyflog staff gydag undebau nad ydynt yn athrawon wedi gwrthod y cynnig tâl ar gyfer 2023/24 ac mae tâl athrawon wedi'i setlo tan fis Awst 2023 yn unig heb ddim sicrwydd ynghylch yr hyn y cytunir arno wedi hynny neu a fydd Llywodraeth Cymru yn ariannu unrhyw gynnydd ychwanegol. Bydd chwyddiant os yw'n parhau'n uchel, yn effeithio ar gostau'r Cyngor yn 2023/24 ac ymlaen i 2024/25 a gallai hefyd arwain at alwadau am godiadau cyflog uwch a fyddai'n creu pwysau ychwanegol yn y cyfnod cyn gosod cyllideb 2024/25. Mae'r sefyllfa ar gyfer 2024/25 yn ymddangos yn heriol ac er nad oes ffigurau

dangosol wedi'u darparu eto, yr awgrym yw na fydd cyllid ychwanegol ar gyfer lefel 2023/24 yn cael ei ddarparu er bod y Cyngor yn dal i wynebu costau cynyddol a galw cynyddol am wasanaethau. Bydd balansau'r Cyngor yn caniatáu rhywfaint o liniaru yn erbyn y pwysau hwn ond ar ôl eu defnyddio, ni fyddant ar gael i'w defnyddio drachefn gan adael y posibilrwydd y gallai fod angen toriadau mewn gwariant i gydbwyso'r gyllideb yn 2024/25. Er nad yw'r sefyllfa ariannol cystal ag y mae'n edrych, mae'r Cyngor mewn sefyllfa well na llawer o awdurdodau i reoli'r heriau sydd o'n blaenau a bydd y prosesau sydd ganddo ar waith i fonitro'r sefyllfa ariannol yn barhaus yn gymorth i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniadau.

Cydnabu aelodau'r Pwyllgor Gwaith yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod y blynyddoedd nesaf a diolchodd i'r Swyddog Adran 151 am ei werthusiad gonest o'r sefyllfa. Nododd yr Aelodau fod trafodaethau ynglŷn â chyllidebau, balansau a Threth y Cyngor yn ymwneud â'r gwasanaethau y gall y Cyngor eu darparu mewn gwirionedd ar adeg pan fo'r galw ar y gwasanaethau hynny, yn enwedig atal digartrefedd, gofal cymdeithasol plant a gofal pobl hŷn yn cynyddu. Dyma'r gwasanaethau hanfodol sy'n darparu cymorth i rai o'r unigolion mwyaf agored i niwed o fewn cymunedau y mae'r Cyngor wedi ceisio eu diogelu wrth ystyried y data ariannol a gosod y gyllideb. Cyfeiriwyd hefyd at sefyllfa ysgolion gan nodi nad oes gan unrhyw ysgol ar yr Ynys ddiffyg ariannol ar hyn o bryd. O ystyried y prognosis ariannol, gofynnwyd cwestiynau am y tebygolrwydd y bydd y sefyllfa honno'n newid yn 2023/24 a thu hwnt.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y cyllid ychwanegol a ddarparwyd i ysgolion gan Lywodraeth Cymru fel cymorth Covid ynghyd â chau ysgolion a gwariant llai yn ystod y cyfnod hwnnw wedi helpu i gryfhau cyllid rhai ysgolion a allai fod wedi wynebu diffyg ariannol fel arall. Mae ysgolion hefyd wedi defnyddio'r cyllid ychwanegol i helpu disgyblion i ddal i fyny â'u dysgu. Er bod balansau cronfeydd wrth gefn ysgolion bellach yn £6.7m, mae cyfran sylweddol o'r swm hwnnw wedi'i glustnodi gan ysgolion yn 2023/24 i gydbwyso eu cyllidebau ac osgoi gorfod gwneud toriadau; mae'n debygol y bydd y sefyllfa hon yn cael ei hailadrodd yn 2024/25 wrth i gyllidebau dynhau gan olygu y bydd y £6.7m o falansau yn lleihau cyn bo hir. Dim ond balansau bychain sydd gan rai ysgolion a bydd ambell ysgol gynradd yn arbennig yn ei chael hi'n anodd cydbwyso eu cyllidebau. I rai ysgolion, mae'r fformiwla ariannu yn gweithio i'w hanfantais, gan na roddir dyraniad digonol i dalu am lefel y staffio sydd ei angen arnynt ar gyfer eu cymysgedd o grwpiau oedran a'r ffordd y mae'n rhaid trefnu'r rheini. Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda'r ysgolion hynny sydd mewn perygl o ddiffyg ariannol i ddatblygu a chynllunio eu defnydd o falansau yn 2023/24 ond mae'n rhagweld y bydd yn rhaid iddynt wneud gostyngiadau yn y gyllideb yn 2024/25 ac y bydd mwy o ysgolion mewn sefyllfa debyg wrth i'r sefyllfa ariannol ddod yn fwy heriol.

Dywedodd y Cadeirydd, er na fu angen i wasanaethau wneud arbedion am y ddwy flynedd flaenorol, fod y Cyngor wedi gorfod dod o hyd i ostyngiadau yn y gyllideb dros y blynyddoedd o lymder sy'n golygu nad yw wedi gallu buddsoddi mewn gwasanaethau yn y cyfnod hwnnw yn y ffordd y byddai wedi hoffi. Er bod addysg ac ysgolion wedi cael eu diogelu cyn belled ag y bo modd, maent bellach yn dod o dan bwysau cynyddol. Felly, mae'n bwysig bod yna ymwybyddiaeth o'r aberthion sydd wedi eu gwneud a dealltwriaeth bod pwysau costau a'r galw ar wasanaethau bellach yn fwy ac ar gynnydd. Dywedodd fod achos dros lobïo Llywodraeth Cymru am gyllid gwell ac, o ystyried bod cynghorau'n allweddol wrth ymateb i'r pandemig a'u bod wedi eu canmol fel y pedwerydd gwasanaeth brys bryd hynny, roedd hi'n gobeithio y bydden nhw'n cael eu hystyried yn werth ymladd drostynt ac y dylid eu hariannu'n deg ac i lefel sy'n eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau a chynnal gwasanaethau.

**Penderfynwyd nodi'r canlynol –**

- **Y sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yr adroddiad mewn perthynas ag alldro ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2022/23;**
- **Y crynodeb o’r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2022/23 y manylir arnynt yn Atodiad C;**
- **Y modd y caiff costau asiantaethau ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2022/23 yn Atodiadau CH, D a DD.**

## 8. ALLDRO CYFALAF 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 (yn amodol ar archwiliad) i'r Pwyllgor Gwaith.

Rhoddodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid drosolwg o'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2022/23 a gwariant fel y'i crynhoir yn y tabl ym mharagraff 1.2 o'r adroddiad. Ar ôl ystyried y llithriad o 2021/22, cynlluniau ychwanegol ers gosod y gyllideb ac addasiadau i'r Gyllideb Cyfrif Refeniw Tai, cyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 oedd £54.564m. Cyfanswm y gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2023 oedd £40.690m gan adael tanwariant o £13.874m. Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant yn ymwneud â phrosiectau mawr (Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, seilwaith a phrosiectau cynllun llifogydd yn ogystal â gwariant CRT) y gall nifer o ffactorau ddylanwadu arnynt. Ym mhob achos, mae'r cyllid ar gyfer y prosiectau wedi'i sicrhau a bydd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2023/24 heb golli adnoddau i'r Cyngor.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at bwysigrwydd cyllid grant yn rhaglen gyfalaf y Cyngor gyda 40% o'r gyllideb a 56% o'r gwariant gwirioneddol yn cael ei ariannu drwy grantiau cyfalaf. O'r £11.110m o gynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd at y rhaglen gyfalaf ers gosod y gyllideb wreiddiol, mae £9.9m yn cael ei ariannu drwy gyllid grant, (mae Atodiad C yn cyfeirio atynt). Er bod y Cyngor yn derbyn rhai grantiau fel rhan o ddyraniad Cymru gyfan, dim ond ar ôl proses gystadleuol y mae llawer yn eu dyfarnu, gyda staff y Cyngor yn gorfod gwneud cais am grantiau. Er bod y pwysau ar wariant refeniw y Cyngor wedi'i danlinellu, mae'r gyllideb gyfalaf hefyd yn dod yn fwyfwy tynn gyda'r cyllid cyfalaf y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar ffurf y Grant Cyfalaf Cyffredinol a benthyca â chymorth wedi aros yr un fath i raddau helaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bellach prin yn talu costau cynnal asedau presennol. Felly, mae prosiectau buddsoddi newydd yn dibynnu fwyfwy ar gyllid grant i'w cyflawni.

Er bod Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cydnabod pwysigrwydd cyllid grant ar gyfer cyflwyno rhaglen gyfalaf y Cyngor, a oedd i’w groesawu, tynnwyd sylw at yr anawsterau sy’n codi pan na chadarnheir dyfarniadau grant mewn pryd i gynllunio ar eu cyfer a'u cynnwys yn y rhaglen gyfalaf flynyddol ar ddechrau'r flwyddyn gyda rhai grantiau yn cael eu dyfarnu'n hwyr yn y flwyddyn ariannol ar gyfer cynlluniau nad ydynt efallai'n flaenoriaeth leol i'r Cyngor.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod gan y Cyngor hanes da o ddenu cyllid grant a chyflwyno cynlluniau o fewn y gyllideb a'r amserlen. Fodd bynnag, mae’r gwaith o amcangyfrif costau cyfalaf wedi dod yn fwyfwy heriol ac felly’n creu mwy o risg i'r Cyngor ac er ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn parhau i gystadlu am gyllid grant, mae angen iddo wneud hynny heb ddod yn rhy agored i risgiau ychwanegol. Y broblem gyda grantiau sy'n cael eu cyhoeddi yn ystod neu'n hwyr yn y flwyddyn yw eu bod yn creu gwaith ychwanegol ac yn dargyfeirio adnoddau i ffwrdd o waith a gynlluniwyd er mwyn ymateb i'r cyfle i sicrhau grant. Yna caiff prosiectau y mae'r Cyngor wedi'u cynllunio ac wedi ymrwymo iddynt eu neilltuo tra bod adnoddau staffio prin yn mynd ati i wneud ceisiadau am grantiau. Mae hyn yn golygu bod y dasg o reoli perfformiad yn fwy heriol ond mae'n angenrheidiol os yw'r Cyngor yn dymuno cyflawni mwy o ran y rhaglen gyfalaf na dim ond cynnal yr asedau sydd ganddo. Mae lle i wella'r broses o adrodd ar wariant cyfalaf er mwyn i’r cyhoedd ddeall yr hyn y gall y Cyngor ei gyflawni gyda'i



DRAFT

gyllid cyfalaf craidd a'r hyn y mae'n ei gyflawni oherwydd bod ganddo'r hyder i gystadlu yn erbyn eraill am grantiau ychwanegol gan gydnabod hefyd y bydd hyn yn cael effaith ar weithgareddau o ddydd i ddydd.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi sefyllfa alldro drafft Rhaglen Gyfalaf 2022/23 fydd yn destun archwiliad, a**
- **Cymeradwyo i ddwyn ymlaen £13.477m i 2023/24 ar gyfer y tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriad. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2023/24 yn unol â pharagraff 4.3, Atodiad A. Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 yw £51.439m.**

## 9. ALLDRO Y CYFRIF REFENIW TAI 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai am y flwyddyn rhwng mis Ebrill, 2022 a mis Mawrth, 2023 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid yr adroddiad gan roi trosolwg o sefyllfa diwedd blwyddyn y CRT. Mae'r adroddiad yn dangos y gyllideb refeniw gyda gwarged a gynlluniwyd o £6,218k. Y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23 oedd £15,024k ac roedd disgwyl iddi gael ei hariannu'n rhannol drwy grantiau (£2,688k) i ddechrau. Roedd cyfuniad o’r gyllideb refeniw a’r gyllideb gyfalaf wedi’i haddasu’n rhoi diffyg a gynlluniwyd o £6,128k, a fyddai’n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT. Mae’r CRT wedi’i glustnodi i’w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo ei gronfeydd wrth gefn i’r Gronfa Gyffredinol ac ni ellir defnyddio’r Gronfa Gyffredinol i gyllido’r CRT. Roedd diffyg o £225k ar alldro (gan gyfuno refeniw a chyfalaf), ac mae hyn yn cymharu â diffyg o £2,187k a ragwelwyd yn Chwarter 3. Mae’r rhesymau am y newid wedi’u nodi yn adran 4 o’r adroddiad.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod adnoddau CRT yn deillio o incwm rhentu, cyllid grant a chronfeydd wrth gefn CRT. Balans agoriadol y CRT oedd £12,333k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu defnyddio £6,128k o'r balans hwn. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa alldro yn dangos mai dim ond £225k fydd ei angen o gronfa wrth gefn y CRT yn 2022/23 gan adael balans wrth gefn o £12,108k sydd ar gael i ariannu gwariant CRT yn y dyfodol yn unig. Bydd y balans yn cael ei ddefnyddio yn ystod 2023/24 i ariannu gwariant cyfalaf gan gynnwys parhau i ddatblygu eiddo newydd. Bydd y balans CRT yn cael ei leihau i oddeutu £1 miliwn, sef y lefel isaf a nodir yng Nghynllun Busnes CRT. Unwaith y cyrhaeddir y lefel isaf, bydd buddsoddiad pellach yn cael ei ariannu o'r gwarged refeniw a gynhyrchir a thrwy fenthyca allanol gydag incwm y Cyfrif Refeniw yn talu'r gost ohono. Mae Atodiad C yn darparu rhestr o ddatblygiadau newydd ar y gweill yn 2022/2023 yn ogystal â chynlluniau nad oedd gwariant wedi'i gynllunio ar eu cyfer yn 2022/23 a fydd yn cael eu gweithredu yn 2023/24 sy'n cynnwys dros 100 o unedau newydd.

Pwysleisiodd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith fod y datblygiadau tai newydd a restrir yn Atodiad C yn rhan o gyflawni gweledigaeth Cynllun y Cyngor y dylai "pawb gael rhywle i'w alw'n gartref" ac yn cyd-fynd â'r buddsoddiad parhaus pwysig yn stoc tai presennol y Cyngor.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa a amlinellwyd mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2022/23.**



DRAFT

## 10. ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT

Cyflwynwyd adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cynnwys Asesiad a Chynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant 2022 ynghyd ag adroddiad cynnydd 2023 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Gary Prichard, Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Thai yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant fel gofyniad statudol sy'n nodi'r amcanion allweddol a fydd yn helpu i gefnogi twf a chadw darparwyr gofal plant ar yr Ynys a thrwy hynny sicrhau sector gofal plant cynaliadwy sy'n cynnig cyfleoedd datblygu sylfaenol i blant tra cefnogir rhieni/gofalwyr i weithio. Mae Canllawiau Asesu Digonolrwydd Gofal Plant statudol 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gyflwyno'r ddogfen asesu a'r Cynllun Gweithredu i Lywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Digonolrwydd Gofal Plant wedi'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel mater a neilltuir i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn o dan y Fframwaith Polisi.

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y ddogfen Asesu wedi'i pharatoi ar y cyd â phartneriaid y Gwasanaeth sy'n ymwneud â darpariaeth gofal plant ar Ynys Môn. Mae'r asesiad yn gwerthuso darpariaeth gofal plant ar yr Ynys ac mae'r gwaith yn parhau gyda Dechrau'n Deg a phartneriaid eraill yn y sector i fynd i'r afael â bylchau a datblygu a sicrhau darpariaeth ddigonol.

Croesawodd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yr adroddiad fel gwerthusiad cynhwysfawr o'r sefyllfa a diolchodd i Reolwr y Blynyddoedd Cynnar am y wybodaeth. Gofynnwyd cwestiynau am y ddarpariaeth yng Nghaergybi a oedd yn ymddangos yn isel ar gyfer ardal boblog, sut mae'r asesiad yn cefnogi cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg ac a oedd unrhyw bryderon ynghylch rhwystrau i ddarpariaeth gofal plant yn enwedig ynghylch costau o ystyried mai dyma'r rheswm a nodwyd amlaf pam nad yw rhieni/gofalwyr yn cael mynediad at gymorth gyda gofal plant.

Roedd Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar yn cydnabod yr angen am fwy o ddarpariaeth gofal plant yng Nghaergybi yn enwedig darpariaeth ar ôl ysgol a dywedodd fod darpariaeth gofal drwy'r dydd wedi'i chynllunio ar y safle yn Ysgol Llanfawr a gobeithio y bydd ar gael erbyn mis Medi. O ran yr iaith Gymraeg, mae'r gwasanaeth yn arwain gyda rhaglen Taith i Iaith sy'n cynnwys cefnogi darparwyr i gyrraedd safon arian a/neu aur yn y Gymraeg. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i'r ddarpariaeth yn Ysgol Llanfawr a fydd, fel ysgol sy'n derbyn grant iaith Gymraeg, yn cynnig darpariaeth Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth Gymraeg a safon darpariaeth y blynyddoedd cynnar wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae costau gofal plant yn bryder ledled Cymru ac yn fater sydd wedi cael ei godi gyda Llywodraeth Cymru. Mae ffactorau sy'n ymwneud â chymwysterau, cynnydd a chyflog hefyd yn broblemau yn y sector.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod teithio, tueddiadau gwaith, dewis personol, y ffaith nad oes teulu'n byw'n agos, oll yn dylanwadu ar sut a ble mae rhieni a gofalwyr yn cael mynediad at ofal plant ac yn ffactorau sy'n anodd ymateb iddynt a chynllunio ar eu cyfer. Er y gall yr Awdurdod gynllunio'r ddarpariaeth, mae mapio'r tueddiadau hyn yn fwy heriol, ond mae'n bwysig gan fod llawer o benderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud ar sail yr hyn sy'n cyd-fynd â'r diwrnod gwaith.

**Penderfynwyd derbyn dogfen Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022, Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant a'r adroddiad cynnydd blynyddol atodol i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn am gymeradwyaeth fel rhan o Fframwaith y Polisi (paragraff 3.2.2.1.1 y Cyfansoddiad) ac os caiff ei gymeradwyo, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**

DRAFT

## 11. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, penderfynwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd.**

## 12. DATBLYGIAD TAI CYNGOR NEWYDD – STAD PARC Y COED, LLANGEFNI

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Tai oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i'r Gwasanaeth Tai symud ymlaen i brynu 10 tŷ newydd yn Stad Parc y Coed, Llangefni i'w ystyried. Byddai'r eiddo ar gael i drigolion lleol eu rhentu yn seiliedig ar delerau rhentu canolraddol y Gwasanaeth Tai fel cartrefi fforddiadwy mewn ymateb i'r her dai leol.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaeth Tai wybodaeth gefndirol am Ystâd Parc y Coed sy'n ddatblygiad tai preifat sy'n cynnwys dros 100 o gartrefi newydd y mae traean ohonynt eisoes wedi'u hadeiladu a'u prynu. O dan delerau'r caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad, roedd amod Adran 106 yn ei gwneud yn ofynnol i ganran o'r datblygiad gynnwys tai fforddiadwy. Mae'r Cyngor eisoes wedi prynu 12 o dai fforddiadwy ar yr ystâd gyda chyfnod 4 y datblygiad i ddechrau'n fuan a fydd yn cynnwys 10 o dai fforddiadwy ychwanegol sydd wedi'u cynnig i'r Cyngor. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith, bydd angen i'r Cyngor ymrwymo i gytundeb gyda'r datblygwr i adeiladu'r 10 eiddo, y bwriad yw sicrhau eu bod ar gael i'w rhentu ar sail rhent canolradd (*intermediate rent)* fel tai fforddiadwy, gan fod y rhan fwyaf o dai rhent cymdeithasol yn Llangefni yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd gan gymdeithasau tai sy'n cynnig mathau eraill o denantiaethau i drigolion lleol. Dyma fyddai'r ffordd orau i ymateb i anghenion tai lleol. Ystyrir bod y cynllun yn hyfyw ar ôl cael ei asesu yn erbyn y model ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer asesu hyfywedd ariannol datblygiadau tai newydd. Mae hefyd yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor ar gyfer datblygu tai newydd.

Wrth ystyried y cynnig gwnaed cais gan aelodau'r Pwyllgor Gwaith fod pob adroddiad o'r fath yn cynnwys gwybodaeth am y gymysgedd o dai fel bod yn glir pa fath o unedau sy'n cael eu prynu yn ogystal â chadarnhad y bydd y tai yn cael eu hadeiladu i safonau effeithlonrwydd carbon isel y Cyngor.

**Penderfynwyd rhoi caniatâd i'r Gwasanaethau Tai fynd ymlaen i brynu 10 cartref newydd yn Stad Parc y Coed, Llangefni ar yr amodau a nodwyd o fewn yr adroddiad fydd ar gael ar gyfer trigolion lleol i'w rhentu, yn seiliedig ar delerau rhentu canolradd y Gwasanaethau Tai, fel cartrefi fforddiadwy mewn ymateb i'r her dai leol.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 18 Gorffennaf 2023 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Democratiaeth |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Medi 2023 – Ebrill 2024;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael y Saesneg / This document is also available in English.

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy’. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |



Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael y Saesneg / This document is also available in English.

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Medi 2023 – Ebrill 2024 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael y Saesneg / This document is also available in English.

## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
### Cyfnod: Medi 2023 – Ebrill 2024

Diweddarwyd 4 Gorffennaf 2023

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.  Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb.  Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau.  Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2023 – Ebrill 2024

Diweddarwyd 4 Gorffennaf 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Medi 2023** | | | | | | |
| 1 | **Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd** | Deilydd Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Medi 2023 | |
| 2 | **Cynllun Trawsnewid Cerbydau Fflyd** | Deilydd Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Medi 2023 | |
| | | | | | | | |
| 3 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| 4 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 19.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2023 – Ebrill 2024

Diweddarwyd 4 Gorffennaf 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>07.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| 6 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>07.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| 7 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>07.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| 8 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2022/23** | | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>19.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | Cyngor Llawn<br><br>26 Hydref 2023 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2023 – Ebrill 2024

Diweddarwyd 4 Gorffennaf 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus 2023-28** | | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | Cyngor Llawn<br><br>26 Hydref 2023 |
| 10 | **Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn – Drafft Terfynol** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 19.04.23 19.09.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| 11 | **Prynu Tir Gorfodol – Tir cyflogaeth yn Llangefni** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Medi 2023 | |
| | | | | **Hydref 2023** | | | |
| 12 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Hydref 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2023 – Ebrill 2024

Diweddarwyd 4 Gorffennaf 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Tachwedd 2023** | | | |
| 13 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 14 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>21.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 15 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>08.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 16 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>08.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |

*  *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2023 – Ebrill 2024

Diweddarwyd 4 Gorffennaf 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>08.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 18 | **Strategaeth Tai Gwag 2023-2028** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>21.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| | **Rhagfyr 2023** | | | | | | |
| 19 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Rhagfyr 2023 | |
| 20 | **Cynllun Bioamrywiaeth – Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Nicola Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Rhagfyr 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2023 – Ebrill 2024

Diweddarwyd 4 Gorffennaf 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ionawr 2024** | | | | | | |
| 21 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2024 | |
| 22 | **Strategaeth Gyfalaf** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2024 (dyddiad i'w gadarnhau) | |
| | **Chwefror 2024** | | | | | | |
| 23 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 24 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>15.02.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2023 – Ebrill 2024

Diweddarwyd 4 Gorffennaf 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>15.02.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 26 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>15.02.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 27 | **Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>18.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 28 | **Strategaeth Rheoli Asedau (Gwasanaeth Tai)** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>18.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 29 | **Asesiad y Farchnad Dai Leol** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>18.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2023 – Ebrill 2024

Diweddarwyd 4 Gorffennaf 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mawrth 2024** | | | | | | | |
| 30 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Mawrth 2024 | |
| 31 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 12.03.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Mawrth 2024 | |
| **Ebrill 2024** | | | | | | | |
| 32 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ebrill 2024 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **18 GORFFENNAF 2023** |
| **Pwnc:** | **CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2022/23 A DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN W WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD / DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (Adnoddau) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | BETHAN HUGHES-OWEN / CLAIRE KLIMASZEWSKI<br>01248 752663<br>bethanowen2@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft ar gyfer 2022/23 a'r Fantolen ddrafft fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2023.

Darperir gwybodaeth fwy manwl am falansau cyffredinol y Cyngor a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig ac mae'r adroddiad yn rhoi manylion am sut y bwriedir defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau yn 2023/24 ac yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad yn nodi lefelau'r balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig sydd, ym marn broffesiynol Swyddog Adran 151 y Cyngor, y lefelau sydd eu hangen i gwrdd ag unrhyw risgiau ariannol a wynebir gan y Cyngor, i gwrdd ag unrhyw ymrwymiadau cyllido presennol a wnaed ac mae'n ystyried unrhyw gyfyngiadau penodol ar ddefnydd y cyllid e.e. cyfyngiadau a osodir gan amodau grant. Gall lefel y risg a wynebir gan y Cyngor newid a chedwir golwg ar lefelau'r balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig dros y misoedd nesaf.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigyrau hyn wedi cael eu harchwilio ac y gallant newid o'r herwydd. Ar ôl cwblhau'r archwiliad, cyflwynir adroddiad ar y Datganiad Cyfrifon terfynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor llawn.

Argymhellion:-

1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer 2022/23. Cyhoeddir y Datganiad Cyfrifon llawn drafft ar gyfer 2022/23 ar y ddolen a ganlyn:-

   https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cyllideb-y-Cyngor/Datganiad-or-cyfrifon.aspx

2. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran y balansau cyffredinol, sef £13.967m, a'i fod yn cymeradwyo creu'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig newydd a nodir yn Nhabl 3, a ddaw i gyfanswm o £4.320m.

3. Bod y Pwyllgor Gwaith yn ystyried Atodiad 4 ac yn cymeradwyo'r balans o £19.638m fel cyfanswm y cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar gyfer 2022/23 (£23.18m yn 2021/22). Mae hyn £3.544m yn is na 2021/22, ac mae'n cynnwys £4.320m o gronfeydd wrth gefn newydd, fel yr argymhellir uchod, a gostyngiad cyffredinol o £7.471m yn y cronfeydd wrth gefn presennol, er bod hyn yn cynnwys symiau sydd wedi cynyddu a gostwng yn y cronfeydd wrth gefn presennol.

4. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran balansau ysgolion, sef £6.716m.

5. Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balans y CRT o £12.107m.

6. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo’r Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso newydd gyda balans o £0.407m fel y nodir yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn Atodiad 4.

7. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo trosglwyddo £1.365m o’r cronfeydd wrth gefn gwasanaethau yn ôl i’r gronfa wrth gefn gyffredinol er mwyn cynyddu hyblygrwydd a gwydnwch ariannol y Cyngor.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith**

Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau wedi’i ddirprwyo i’r Pwyllgor Gwaith yn unol â phenderfyniad y Cyngor ynghylch cyllideb refeniw a chyfalaf y Cyngor ar 9 Mawrth 2023.

**CH – A yw’r polisi hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**DD – Asesu’r effaith bosib (os yw’n berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae’r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Dyluniwyd y defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau i fynd i’r afael â rhai risgiau a materion y mae’r Cyngor yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Bydd hyn yn caniatáu i’r Cyngor ymgymryd â phrosiectau fydd yn ei gynorthwyo i gwrdd ag anghenion hirdymor yr Ynys a’i phreswylwyr. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?** | Ydi - bydd mynd i’r afael â’r risgiau yn awr yn lliniaru’r risgiau hynny ac yn atal costau yn y dyfodol. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod â’r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.** | Na |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini a effeithir yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Esboniwch sut.** | Na |
| 5 | **Nodwch unrhyw effeithiau posibl byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a amddiffynnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.** | Nid yw’r penderfyniad y gofynnir amdano yn yr adroddiad hwn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y grwpiau hynny a amddiffynnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddai unrhyw gynlluniau i ddefnyddio’r cyllid yn ystyried yr effaith ar y grwpiau hyn cyn gwneud penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen ag unrhyw brosiect. |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rheini sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.** | Nid yw'r penderfyniad y gofynnir amdano yn yr adroddiad hwn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Byddai unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r cyllid yn ystyried yr effaith ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol cyn gwneud penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen ag unrhyw brosiect. |
| **7** | **Nodwch unrhyw effeithiau posibl byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.** | Dim effaith ar yr iaith Gymraeg. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae'r Prif Weithredwr a'r TA wedi ystyried yr adroddiad cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Ymgorfforwyd sylwadau aelodau'r TA yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Roedd y Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am adolygu'r adroddiad. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA ac ystyriwyd unrhyw sylwadau a wnaed ynghyd â holl sylwadau aelodau'r TA. |
| **4** | **Adnoddau Dynol** | Ymgynghorwyd â'r Pennaeth Gwasanaeth mewn perthynas â chynigion sy'n cael effaith ar faterion AD. |
| **5** | **Eiddo** | Ymgynghorwyd â'r Pennaeth Gwasanaeth mewn perthynas â chynigion sy'n cael effaith ar eiddo'r Cyngor. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Ymgynghorwyd â'r Pennaeth TG mewn perthynas â chynigion sy'n cael effaith ar wasanaeth TG y Cyngor neu systemau TG. |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Bydd y datganiad cyfrifon drafft yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 27 Gorffennaf 2023. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |

**F – Atodiadau**

- Atodiad 1 – Adroddiad ar y prif ddatganiadau ariannol, balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig
- Atodiad 2 – Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Drafft 2022/23
- Atodiad 3 – Mantolen Ddrafft fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2023
- Atodiad 4 – Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn 2022/23
- Atodiad 5 – Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2023

**FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

**Atodiad 1**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1.** Mae'r adroddiad yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 ac mae'n cyflwyno crynodeb o falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig y Cyngor. Mae'r adroddiad yn nodi lefelau'r balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig sydd, ym marn broffesiynol Swyddog Adran 151 y Cyngor, y lefelau sydd eu hangen i gwrdd ag unrhyw risgiau ariannol a wynebir gan y Cyngor, i gwrdd ag unrhyw ymrwymiadau cyllido presennol a wnaed ac mae'n ystyried unrhyw gyfyngiadau penodol ar ddefnydd y cyllid e.e. cyfyngiadau a osodir gan amodau grant.

## 2. CEFNDIR

**2.1.** Mae Rheoliad 10 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y diwygiwyd nhw gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018, yn nodi bod rhaid i'r prif swyddog ariannol cyfrifol lofnodi a dyddio'r datganiad cyfrifon a thystio ei fod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor erbyn dim hwyrach na 31 Mai yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Yna mae'n rhaid i'r Cyngor gymeradwyo a chyhoeddi ei ddatganiadau ariannol archwiliedig erbyn 31 Gorffennaf yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Cafodd y dyddiadau hyn eu hymestyn yn ystod blynyddoedd ariannol 2019/20 i 2021/22 oherwydd effaith  Covid-19 ar adnoddau staff.

**2.2.** Serch hynny, ar gyfer 2022/23, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod, tra gallai'r pandemig barhau i effeithio ar adnoddau staff awdurdodau lleol, cafwyd problemau technegol cyfrifeg yn 2021/22 ac roedd cyfrifon terfynol pob cyngor yng Nghymru yn hwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y dyddiad cau i 31 Gorffennaf 2023 ar gyfer  y cyfrifon drafft, a 31 Rhagfyr 2023 ar gyfer y cyfrifon terfynol archwiliedig. Rhaid i bob cyngor gyhoeddi y bydd oedi wrth gyhoeddi'r cyfrifon drafft, gan nodi'r rhesymau pam, ar ôl 31 Mai 2023.

**2.3.** Llofnodwyd y datganiadau ariannol drafft ar gyfer 2022/23 gan Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor ar 30 Mehefin 2023, a bydd y gwaith o archwilio'r cyfrifon yn dechrau ym mis Awst 2023. Y bwriad yw y bydd yr archwiliad yn cael ei gwblhau yn ystod yr haf ac y bydd y cyfrifon archwiliedig terfynol yn cael eu cymeradwyo erbyn y 30 Tachwedd 2023.

## 3. DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR DRAFFT 2022/23

**3.1.** Caiff y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) Drafft ar gyfer 2022/23 ei gyflwyno yn Atodiad 2.

**3.2.** Mae'r datganiad yn crynhoi'r gost o ddarparu gwasanaethau yn 2022/23 yn unol â'r gofynion cyfrifo statudol ac mae'n cynnwys Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) mewn un datganiad ariannol. Mae'r CIES yn cynnwys costau cyfrifo statudol, megis dibrisiant ac addasiadau ar gyfer pensiwn, na chodir amdanynt yn erbyn y Dreth Gyngor ac, felly, maent yn cael eu canslo allan cyn penderfynu ar y sefyllfa derfynol mewn perthynas â balansau cyffredinol, cronfeydd wrth gefn clustnodedig, balans cyfrif y CRT a balansau ysgolion. Felly, nid oes modd tynnu cymhariaeth uniongyrchol rhwng y CIES a'r adroddiadau alldro a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Mehefin 2023.

**3.3.** Mae'r CIES yn dangos mai £179.355m oedd cost net y gwasanaethau, gyda gwarged o £15.993m ar ddarparu gwasanaethau. Yna gwneir addasiadau ar gyfer ailbrisio asedau ac ail-fesur y rhwymedigaethau pensiwn, a rhydd hynny warged net terfynol ar gyfer y flwyddyn o £132.769m. Yna gwneir addasiadau, fel y dangosir yn Nhabl 1 isod, i benderfynu ar y symudiadau i gronfeydd wrth gefn a balansau. Manylir ar yr addasiadau yn nodyn 6 yn y Datganiad Cyfrifon drafft.

**Tabl 1**

**Cysoni'r CIES i'r Cyfraniad i neu o'r Cronfeydd Wrth Gefn a'r Balansau ar gyfer 2022/23**

| | £'m | £'m |
|---|---|---|
| Cyfanswm Cost / (Gwarged) yn unol â'r CIES | | (132,769) |
| Gwrthdroi'r gwarged ar Ailbrisio Asedau ac Ail-Fesur y Rhwymedigaeth Pensiwn | 148,762 | |
| Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Cyllido o dan Reoliadau | (12,735) | |
| | | 136,027 |
| **Cyfraniad (i) / o gronfeydd wrth gefn a balansau y gellir eu defnyddio** | | **(3,258)** |

Dangosir y symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn a balansau'r Cyngor yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**

**Crynodeb o'r Symudiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn a Balansau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2023**

| | Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol Cronfa'r Cyngor | Cronfa Wrth Gefn Clustnodwyd - Cronfa'r Cyngor | Cronfa Wrth Gefn Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | Cronfa Wrth Gefn Ysgolion | Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Ddefnyddwyd | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Gellir eu Defnyddio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eitemau sy'n effeithio ar Gronfeydd Wrth Gefn y Cyngor 2022/23** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Balans Agoriadol Cronfa wrth gefn Cyffredinol y Cyngor ar 1 Ebrill 2022 | (12,278) | (23,181) | (12,333) | (7,827) | (2,381) | - | (58,000) |
| Gor/(tan) wariant net 2022/23 | (1,212) | - | 226 | - | - | - | (986) |
| Balans y Cyngor ar ôl gor / (tan) wariant | (13,490) | (23,181) | (12,107) | (7,827) | (2,381) | - | (58,986) |
| Trosglwyddiadau net i/(o) Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer cyllid â Gymeradwywyd | (477) | 3,544 | - | 1,111 | 473 | (407) | 4,244 |
| **Balans Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol ar 31 Mawrth 2023** | **(13,967)** | **(19,637)** | **(12,107)** | **(6,716)** | **(1,908)** | **(407)** | **(54,742)** |

## 4. MANTOLEN DDRAFFT FEL AG YR OEDD AR 31 MAWRTH 2023

**4.1.** Mae'r fantolen ddrafft fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2023 i'w gweld yn Atodiad 3.

**4.2.** Bu cynnydd o £132.769m yng ngwerth asedau net y Cyngor, o £272.233m y llynedd i £405.002m ar 31 Mawrth 2023. Bu cynnydd o £20.918m yng ngwerth asedau tymor hir y Cyngor, oherwydd gwariant cyfalaf ar eiddo, offer a chyfarpar ac ailbrisio asedau presennol y Cyngor. Roedd gostyngiad o £13.392m mewn asedau cyfredol o ganlyniad i ostyngiad o £9,738m ym malansau arian y Cyngor. Cafwyd gostyngiad hefyd o £4.142m hefyd mewn dyledwyr tymor byr.

**4.3.** Roedd gostyngiad o £7.356m, i £43.901m, yn y rhwymedigaethau cyfredol, sydd yn galonogol gan bod yr asedau cyfredol wedi gostwng hefyd. Mae benthyca tymor byr, credydwyr a darpariaethau yn debyg iawn i'r llynedd ac, felly, mae'r gostyngiad oherwydd bod llai o lawer o grantiau tymor byr wedi'u derbyn ymlaen llaw. Mae rhwymedigaethau tymor hir hefyd wedi gostwng o £249.337m i £131.450m. Mae credydwyr tymor hir a darpariaethau tymor hir yn debyg

iawn i'r llynedd. Mae benthyca tymor hir wedi lleihau gan £1.1m fel ag yr oedd pethau 31 Mawrth 2023 wrth i fenthyciadau a oedd yn aeddfedu yn ystod y flwyddyn gael eu had-dalu. Mae grantiau tymor hir a dderbyniwyd ymlaen llaw wedi cynyddu o £888k i £5.4m yn 2022/23, mae hyn yn gysylltiedig â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB).

**4.4.** Mae'r newid sylweddol o ganlyniad i ailbennu gwerth y Gronfa Bensiwn at ddibenion cyfrifo. Ar 31 Mawrth 2022, pennwyd gwerth y Gronfa Bensiwn fel rhwymedigaeth o £121.199m. Mae hyn wedi newid i ased o £19.815m, sef y y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd i'r Gronfa gael ei phrisio fel ased yn hytrach na rhwymedigaeth. Wrth gynnal y prisiad hwn, mae'r Actiwari'n diystyru'r rhwymedigaethau yn y dyfodol h.y. pensiynau a fydd yn cael talu mewn blynyddoedd i ddod, gan ddefnyddio'r gyfradd gilt i bennu'r swm a fydd yn cael ei ddiystyru. Mae'r gyfradd gilt wedi cynyddu wrth i economi'r DU wanhau yn ddiweddar ac, o ganlyniad, mae ffactor y disgownt y rhwymedigaethau'n uwch, sy'n lleihau eu gwerth presennol ac, felly,5.1 mae asedau'r gronfa'n uwch na'r rhwymedigaethau. Nid yw hyn yn effeithio ar falansau Cronfa'r Cygnor gan ei fod yn addasiad cyfrifo statudol. Ni chaiff ei gofnodi fel ased ar fantolen y Cyngor yn unol â'r safonau cyfrifo, sydd ddim yn caniatáu cofnodi asedau pensiwn net ar y fantolen yn achos y rhan fwyaf o gronfeydd pensiwn. Dyma ddull darbodus ac mae'n adlewyrchu'r ffaith na all y Cyngor gau'r gronfa a chrisialu gwerth amcanol yr ased pensiwn. Mae'r rhwymedigaeth pensiwn wedi'i nodi fel £0 ar y fantolen o ganlyniad i'r sefyllfa o ran yr asedau net.

## 5. BALANS Y GRONFA GYFFREDINOL

**5.1.** Roedd Balans Cronfa Gyffredinol ddrafft y Cyngor ar 31 Mawrth 2023 yn £13.967m, sydd yn cyfateb i 8.8% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2022/23. Mae hyn yn seiliedig ar y cyfrifon drafft a gallant newid ar ôl cwblhau'r archwiliad a'r cyfrifon terfynol. Roedd y Pwyllgor Gwaith wedi pennu isafswm o 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer Balans y Gronfa Gyffredinol, a byddai hyn yn cyfateb i £7.9m. O ganlyniad, mae Balans y Gronfa Gyffredinol £6.067m yn uwch na'r lleiafswm hwn. Mae hyn yn cynnwys y symiau a drosglwyddwyd yn ôl o gronfeydd wrth gefn y gwasanaethau fel y nodir yn 5.2 isod. Mae hyn yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa well i ymdopi â'r cyd-destun ariannol cyfredol yn cynnwys chwyddiant uchel a phwysau sylweddol o ran costau.

**5.2.** Yn 2019/20, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith bolisi newydd ar gyfer cronfeydd wrth gefn gwasanaethau. Roedd hyn yn caniatáu i wasanaethau roi eu tanwariant net, sef hyd at 2.5% o gyllideb refeniw net y gwasanaeth neu £75k, mewn cronfa wrth gefn eu gwasanaeth penodol. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, trosglwyddwyd cyfanswm o £1.365m o falansau gweddilliol y cronfeydd wrth gefn gwasanaethau yn ôl i'r gronfa wrth gefn cyffredinol er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd a gwydnwch ariannol i'r Cyngor wrth i'r argyfwng chwyddiant fynd rhagddo. Mae disgwyl i'r argyfwng costau byw a wynebir gan deuluoedd achosi cynnydd posib yn y galw am wasanaethau a fyddai'n achosi cynnydd pellach mewn costau.

## 6. CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG

**6.1.** Mae gan y Cyngor Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig er mwyn lliniaru risgiau posib yn y dyfodol, cwrdd â chynnydd yn y galw am rai gwasanaethau, cyllido prosiectau cyfalaf, cyllido gwelliannau mewn prosesau busnes a darparu gwasanaethau yn y dyfodol, nad ydynt yn cael eu cyllido yn y gyllideb refeniw flynyddol, ac i ddal grantiau a dderbyniwyd ond sydd heb eu gwario, ynghyd â chyfraniadau eraill. Mae cadw cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn rhan hanfodol o strategaeth ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod ganddo ddigon o wydnwch ariannol i gwrdd ag unrhyw risgiau a heriau ariannol yn y dyfodol ac er mwyn ei alluogi i fuddsoddi mewn asedau a gwasanaethau. Mae'r cronfeydd wrth gefn newydd a grëwyd yn ystod 2022/23 i'w gweld yn Nhabl 3 a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo, yn ffurfiol, creu'r cronfeydd wrth gefn newydd hyn sydd werth cyfanswm o £3.927m.

**Tabl 3 – Cronfeydd wrth gefn clustnodedig newydd y gofynnwyd amdanynt ar gyfer 2022/23**

| Gwasanaeth | Enw’r Cronfa Wrth Gefn | Cyfanswm Cronfa Wrth Gefn | Rheswm dros greu Cronfa wrth gefn clustnodedig | Pwrpas y Gronfa wrth Gefn |
|---|---|---|---|---|
| | | **£** | | |
| Tai | Darpariaeth Digartref | 325,171 | Cwrdd â chost y galw cynyddol am atal digartrefedd yn y blynyddoedd i ddod | Cyllido costau i atal unigolion a theuluoedd rhag mynd yn ddigartref. |
| Corfforaethol | Cyllido Cronfeydd wrth gefn Cyffredinol ar gyfer Prosiectau'r Cap Heb eu cymhwyso | 1,821,000 | Cyllido prosiectau cyfalaf yn y dyfodol | Trosglwyddo cyllid o'r gronfa wrth gefn cyffredinol fel y cytunwyd fel rhan o Raglen Gyfalaf 2022/23. |
| Tai | Symiau Gohiriedig Datblygwr Tai A106 | 807,807 | Cyllido prosiectau cyfalaf yn y dyfodol | Bydd cyfraniadau a dderbynnir gan ddatblygwyr tai yn cael eu defnyddio i gyllido prosiectau cyfalaf yn y dyfodol. |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | Cytundeb A106 Mannau Agored | 24,872 | Cyllido prosiectau cyfalaf yn y dyfodol | Cyllido prosiectau gan ddatblygwyr yn unol â'r cytundebau A106 perthnasol. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Lab Calibradu | 9,400 | Cyllido prosiectau cyfalaf yn y dyfodol | Cyllido’r gwaith addasu o sefydlu Lab Calibradu yn 2023/24. |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | Rhwydwaith Bysiau Teithwyr | 220,976 | Grant nas defnyddiwyd, i’w ddefnyddio yn 2023/24 | Cwblhau'r prosiectau rhwydwaith bysiau teithwyr a gyllidir gan grant. |
| Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau | Talnet / Llyfrgelloedd | 14,040 | Grant nas defnyddiwyd, i’w ddefnyddio yn 2023/24 | Cyllid grant wedi'i neilltuo i fuddsoddi yn Talnet. |
| Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau | Ôl 16 ACL | 82,185 | Grant nas defnyddiwyd, i’w ddefnyddio yn 2023/24 | Grant wedi'i glustnodi ar gyfer gwariant ar addysg ôl-16. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Grant SLSP Cefn Gwlad | 37,573 | Grant nas defnyddiwyd, i’w ddefnyddio yn 2023/24 | Grant wedi'i neilltuo i barhau â gwaith cefn gwlad yn unol ag amodau'r grant. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Grant SLSP Llywodraeth Cymru | 46,425 | Grant nas defnyddiwyd, i’w ddefnyddio yn 2023/24 | Grant wedi'i glustnodi i'w wario yn unol ag amodau'r grant ar hyrwyddo bioamrywiaeth, datgarboneiddio a chymunedau gwyrdd. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Grant Ysgol Rithwir Cymru | 60,000 | Grant nas defnyddiwyd, i’w ddefnyddio yn 2023/24 | Grant wedi'i glustnodi i'w wario ar ysgol rithwir i bobl ifanc sy'n derbyn gofal neu'n gadael gofal. |
| Adnoddau – Budd-daliadau | Grant Gweinyddu Prydau Ysgol am Ddim | 85,557 | Grant nas defnyddiwyd, i’w ddefnyddio yn 2023/24 | Grant wedi'i neilltuo i barhau i weinyddu prydau ysgol am ddim. |
| Tai | Cartrefi ar gyfer Wcráin | 467,047 | Grant nas defnyddiwyd, i’w ddefnyddio yn 2023/24 | Clustnodedig. |
| Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau | Addysg – Addasu Swyddfa | 35,000 | Cyllido prosiect yn 2023/24 | Cyllido addasiadau i'r Swyddfa Addysg yn ystod 2023/24 er mwyn caniatáu gweithio hybrid. |
| Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau | TGCh – PSBA Ysgolion | 108,283 | Cyllido costau PSBA | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Y Brifysgol Agored – Hyfforddeion Gweithwyr Cymdeithasol | 80,000 | Cyllido costau cynllun hyfforddeion gweithwyr cymdeithasol yn y dyfodol | |
| Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau | Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw Ysgolion Uwchradd | 94,308 | Cyllido prosiectau cyfalaf yn y dyfodol | |
| | **CYFANSWM** | **4,319,644** | | |

**6.2.** Mae Atodiad 4 yn cynnwys manylion llawn am y cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar 31 Mawrth 2023, ond maent yn cael eu crynhoi, yn ôl eu pwrpas, yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**

**Crynodeb o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2023**

| | Balans agoriadol ar 1 Ebrill 2022 £ | Cyfraniadau i / (o) yn ystod 2022/23 £ | Balans ar 31 Mawrth 2023 £ |
|---|---|---|---|
| Risgiau Corfforaethol a Gwasanaeth Parhaus | **6,197,795** | **(57,125)** | **6,140,670** |
| Risgiau Corfforaethol a Gwasanaeth Penodol | **408,614** | **(182,442)** | **226,172** |
| Cyllido Gwariant Cyfalaf y Dyfodol | **5,999,906** | **1,070,815** | **7,070,721** |
| Gwelliannau prosesau busnes | **790,859** | **(790,859)** | **0** |
| Cyllidebau Wrth Gefn heb eu Defnyddio sydd eu hangen ar gyfer y blynyddoedd i ddod | **751,772** | **262,400** | **1,014,172** |
| Cronfeydd wrth gefn dal grantiau - Cyfyngedig | **3,473,699** | **(1,633,103)** | **1,840,596** |
| Cronfeydd wrth gefn Cyfyngedig Eraill | **659,906** | **(355,711)** | **304,195** |
| Cronfeydd wrth gefn eraill wedi'u clustnodi ar gyfer prosiectau penodol | **2,597,038** | **78,901** | **2,675,939** |
| Cronfeydd wrth gefn dal Grant - Heb Gyfyngiadau | **938,141** | **(573,037)** | **365,104** |
| Cronfeydd wrth gefn Gwasanaeth | **1,364,244** | **(1,364,244)** | **0** |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG** | **23,181,974** | **(3,544,405)** | **19,637,569** |

## 7. CRONFA WRTH GEFN GRANTIAU CYFALAF HEB EU CYMHWYSO

**7.1.** Crëwyd y gronfa wrth gefn grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso ar gyfer cario £407k ymlaen o’r gronfa grantiau cyfalaf cyffredinol ar gyfer 2022/23. Mae’r llythyr cynnig grant yn caniatáu cario unrhyw grantiau cyfalaf cyffredinol sydd heb eu gwario o 2022/23 i 2023/24. Nid yw hon yn gronfa wrth gefn glustnodedig gan ei fod yn gronfa wrth gefn benodol ar gyfer grantiau cyfalaf heb amodau, er enghraifft, nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi pa brosiect cyfalaf y bydd yn ei gyllido. Maent yn grantiau heb eu cymhwyso gan na fyddant wedi cael eu gwario’n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 8. BALANSAU YSGOLION

**8.1.** Mae lefel balansau Ysgolion wedi gostwng o £7.827m ar ddechrau’r flwyddyn ariannol i £6.716m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae gan bob ysgol warged, yn cynnwys y tair ysgol oedd â diffyg y llynedd. Mae Tabl 5 isod yn crynhoi’r balansau fesul sector:-

**Tabl 5**
**Crynodeb o Falansau Ysgolion**

| Sector | Balansau ar 1 Ebrill 2022 £'000 | Symud yn y Flwyddyn £’000 | Balansau ar 31 Mawrth 2023 £’000 |
|---|---:|---:|---:|
| Cynradd | 4,940 | (1,247) | 3,693 |
| Uwchradd | 2,789 | (27) | 2,762 |
| Arbennig | 98 | 163 | 261 |
| **CYFANSWM** | **7,827** | **(1,111)** | **6,716** |

## 9. BALANS Y CYFRIF REFENIW TAI

**9.1.** Balans agoriadol y Cyfrif CRT ar 1 Ebrill 2022 oedd £12.333m. Y warged am y flwyddyn yng nghyllideb refeniw'r CRT yw £1.374m. Yn ystod y flwyddyn, mae'r gwasanaeth wedi bwrw ymlaen â'i raglen i adeiladu anheddau newydd a phrynu sawl eiddo, yn cynnwys cyn dai Cyngor a thai o'r sector breifat, maent i gyd yn cael eu hadnewyddu. Bydd hyn yn cynyddu anheddau'r Cyngor ac yn darparu mwy o dai cymdeithasol er mwyn lleihau'r rhestr aros am gartrefi y mae mawr eu hangen. Parhaodd y gwasanaeth hefyd i wella ei stoc dai bresennol. Cyllidwyd gwaith cyfalaf gwerth £7.398m drwy'r CRT. £11.180m oedd cyfanswm y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, a oedd yn cynnwys cyllid grant gan Lywodraeth Cymru. £226k oedd y gostyngiad net refeniw a chyfalaf ar gyfer y flwyddyn, ac ar 31 Mawrth 2023 £12.107m oedd balans y CRT.

**ATODIAD 2**

## DATGANIAD GWARIANT AC INCWM CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

| 2022/23 | | | | | 2021/22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** | **Gwasanaethau** | **Nodyn** | **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** |
| 87,060 | (16,529) | 70,531 | Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau | | 77,543 | (18,415) | 59,128 |
| 48,488 | (13,242) | 35,246 | Gwasanaethau Oedolion | | 46,593 | (16,887) | 29,706 |
| 22,165 | (7,088) | 15,077 | Gwasanaethau Plant | | 18,826 | (6,201) | 12,625 |
| 8,162 | (7,186) | 976 | Tai | | 8,214 | (6,484) | 1,730 |
| 33,982 | (9,829) | 24,153 | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | | 31,252 | (9,192) | 22,060 |
| 17,196 | (9,520) | 7,676 | Rheoleiddio ac Economaidd | | 14,734 | (9,333) | 5,401 |
| 7,481 | (340) | 7,141 | Trawsnewid | | 6,653 | (291) | 6,362 |
| 27,808 | (16,802) | 11,006 | Adnoddau | | 31,969 | (22,723) | 9,246 |
| 2,337 | (217) | 2,120 | Busnes y Cyngor | | 2,337 | (427) | 1,910 |
| 4,458 | (722) | 3,736 | Costau Corfforaethol a Democrataidd | | 2,996 | (781) | 2,215 |
| 671 | - | 671 | Rheolaeth Corfforaethol | | 588 | - | 588 |
| 93 | - | 93 | Costau heb eu ddosbarthu | | 26 | - | 26 |
| 20,871 | (19,942) | 929 | Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | | 16,029 | (19,457) | (3,428) |
| **280,772** | **(101,417)** | **179,355** | **Diffyg ar weithrediadau sy'n parhau** | | **257,760** | **(110,191)** | **147,569** |
| | | | | | | | |
| | | 15,570 | Gwariant gweithredu arall | 10 | | | 17,076 |
| | | 10,990 | Cyllido ac incwm a gwariant buddsoddi | 11a | | | 9,559 |
| | | (189,922) | Trethiant ac incwm grant amhenodol | 12 | | | (180,266) |
| | | **15,993** | **(Gwarged) / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | | **(6,062)** |
| | | | | | | | |
| | | - | Colledion amhariad ar asedau anghyfredol sydd wedi eu rhoi yn erbyn y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn | 9b | | | 1,924 |
| | | (12,306) | Gwarged ar ailbrisio asedau anghyfredol | 9b | | | (31,870) |
| | | (136,456) | Ailfesur y rhwymedigaeth Pensiwn Net | 9c & 34 | | | (72,063) |
| | | **(148,762)** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(102,009)** |
| | | | | | | | |
| | | **(132,769)** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(108,071)** |

# MANTOLEN FEL AG YR OEDD AR 31 MAWRTH 2023

| | Nodyn | 31 Mawrth 2023<br>£'000 | 31 Mawrth 2022<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 13 | 487,355 | 466,935 |
| Asedau Treftadaeth | 15 | 2,277 | 2,283 |
| Eiddo Buddsoddi | 16 | 6,579 | 6,117 |
| Asedau Anniriaethol | | 356 | 472 |
| Dyledwyr tymor hir | 18 | 1,234 | 1,076 |
| **Asedau tymor hir** | | **497,801** | **476,883** |
| | | | |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | | 1,065 | 672 |
| Rhestrau stoc | | 392 | 297 |
| Dyledwyr tymor byr | 18 | 38,855 | 42,997 |
| Buddsoddiadau tymor byr | 35a | 10,000 | 7,500 |
| Arian a chywerthoedd arian | 19 | 32,240 | 44,478 |
| **Asedau Cyfredol** | | **82,552** | **95,944** |
| | | | |
| Benthyca tymor byr | 35b | (4,110) | (4,564) |
| Credydwyr tymor byr | 20 | (34,354) | (34,573) |
| Darpariaethau tymor byr | 21 | (702) | (505) |
| Derbyniadau grantiau ymlaen llaw | 30 | (4,735) | (11,615) |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | **(43,901)** | **(51,257)** |
| | | | |
| Credydwyr tymor hir | 20 | (158) | (162) |
| Darpariaethau tymor hir | 21 | (4,335) | (4,411) |
| Benthyca tymor hir | 35b | (121,557) | (122,677) |
| Derbyniadau grantiau tymor hir ymlaen llaw | 30 | (5,400) | (888) |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 34 | - | (121,199) |
| **Rhwymedigaethau tymor hir** | | **(131,450)** | **(249,337)** |
| **Asedau net** | | **405,002** | **272,233** |
| | | | |
| Cronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio | MIRS | 54,742 | 58,000 |
| Cronfeydd wrth gefn nad na ellir eu defnyddio | 9 | 350,260 | 214,233 |
| | | | |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn** | | **405,002** | **272,233** |

# DATGANIAD SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN 2022/23

| | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor (Nodyn 7) £'000 | Balans CRT (Datganiadau Ariannol Atodol) £'000 | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf (Nodyn 8) £'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio | Balansau Ysgolion £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio (Nodyn 9) £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn (y Cyngor) £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2021** | **11,437** | **14,079** | **9,723** | **767** | **-** | **3,974** | **39,980** | **124,182** | **164,162** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn** | | | | | | | | | |
| Addasiad i'r balans agoriadol | | | | | | | **-** | | **-** |
| Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau | (1,068) | - | 7,130 | - | - | - | **6,062** | **-** | **6,062** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall | - | - | - | - | - | - | **-** | **102,009** | **102,009** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(1,068)** | **-** | **7,130** | **-** | | **-** | **6,062** | **102,009** | **108,071** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 6) | 14,129 | - | (3,785) | 1,614 | - | - | **11,958** | **(11,958)** | **-** |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig** | **13,061** | **-** | **3,345** | **1,614** | **-** | **-** | **18,020** | **90,051** | **108,071** |
| Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig (Nodyn 7) | (12,220) | 9,102 | (735) | - | - | 3,853 | **-** | **-** | **-** |
| **(Gostyngiad) / Cynnydd yn ystod y flwyddyn** | **841** | **9,102** | **2,610** | **1,614** | **-** | **3,853** | **18,020** | **90,051** | **108,071** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **12,278** | **23,181** | **12,333** | **2,381** | **-** | **7,827** | **58,000** | **214,233** | **272,233** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn** | | | | | | | | | |
| **Addasiadau i'r balans agoriadol** | | | | | | | | | |
| Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau | (17,421) | - | 1,428 | - | - | - | (15,993) | - | (15,993) |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall | - | - | - | - | - | - | - | 148,762 | 148,762 |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(17,421)** | **-** | **1,428** | **-** | **-** | **-** | **(15,993)** | **148,762** | **132,769** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 6) | 14,837 | | (1,654) | (448) | - | - | 12,735 | (12,735) | - |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig** | **(2,584)** | **-** | **(226)** | **(448)** | **-** | **-** | **(3,258)** | **136,027** | **132,769** |
| Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | 4,273 | (3,544) | - | (25) | 407 | (1,111) | **-** | **-** | **-** |
| **(Gostyngiad) / Cynnydd yn ystod y flwyddyn** | **1,689** | **(3,544)** | **(226)** | **(473)** | **407** | **(1,111)** | **(3,258)** | **136,027** | **132,769** |
| **Balans ar Mawrth 2023** | **13,967** | **19,637** | **12,107** | **1,908** | **407** | **6,716** | **54,742** | **350,260** | **405,002** |

**ATODIAD 5**

# CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG AR 31 MAWRTH 2023

| Gwasanaeth | Cronfa wrth Gefn | Disgrifiad | Balans 1 Ebrill 2022 £ | Trosglwyddo i mewn £ | Trosglwyddo Allan £ | Balans 31 Mawrth 2023 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Pwysau Gofal Cymdeithasol | Cyllido costau posibl mewn gofal cymdeithasol yn y dyfodol sy'n deillio o galw cynyddu a / neu bwysau chwyddiant. | 1,109,836 | 196,410 | -1,162,555 | **143,691** |
| Gwasanaethau Plant | Contractau Staffio Gofal Cymdeithasol | Cyllido costau staffio astagaeth ychwanegol os oes angen adnoddau staffio ychwanegol oherwydd cynnydd mewn nifer. | 271,714 | - | -22,582 | **249,132** |
| Corfforaethol | Yswiriant | I dalu am golledion heb yswiriant ac uwchlaw'r polisi. | 1,340,732 | 163,797 | -254,529 | **1,250,000** |
| Corfforaethol | Setliad refeniw ychwanegol 2021/22 ar gyfer pwysau chwyddiant | Mae'n darparu cyllid ychwanegol ar gyfer costau uwch oherwydd chwyddiant cynyddol. | 2,256,150 | 2,065,000 | -1,143,635 | **3,177,515** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Cynllun Salwch Ysgolion Cynradd | Talu am gost salwch mewn ysgolion cynradd. Mae pob ysgol sy'n cymryd rhan yn talu premiwm i'r gronfa wrth gefn. | 350,939 | - | -43,407 | **307,532** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Cronfa wrth gefn Cau Ysgolion | Cyllido cost adeiladau gwag / costau sefydlu ar gyfer ysgolion newydd. | 93,149 | - | - | **93,149** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Addysg y Tu Allan i'r Sir | Cyllido cynnydd yn y galw neu bwysau chwyddiant ar gyfer Plant mewn lleoliadau allsirol. | 500,000 | - | - | **500,000** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Plant | Cronfa wrth gefn cyllido ar y Cyd | Yn cwmpasu'r posibilrwydd o golli incwm o gyrff cyhoeddus eraill sy'n cyllido ar y cyd. Ni ellir ei gynnwys fel rhan o'r ddarpariaeth dyledion drwg - yn dychwelyd i'r warchodfa gyffredinol. | 180,795 | - | -180,795 | **-** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cynnal a Chadw'r Gaeaf | Cyllido costau graeanu / llifogydd gormodol yn ystod tywydd garw'r gaeaf. | 94,480 | - | - | **94,480** |
| Tai Cyffredinol | Darpariaeth Digartrefedd | Lleihau digartrefedd ar yr Ynys. | Newydd | 325,171 | | **325,171** |
| Eiddo | Cynllun Atgyweiriadau a Cynnal a Chadw Cynradd | Mae balans cyllid nas defnyddiwyd yn cael ei gadw i gwrdd â chostau uwch posibl yn y blynyddoedd i ddod. | - | - | - | **-** |
| **CYFANSWM RISGIAU CORFFORAETHOL A GWASANAETH PARHAUS** | | | **6,197,795** | **2,750,378** | **-2,807,503** | **6,140,670** |

| Gwasanaeth | Cronfa wrth Gefn | Disgrifiad | Balans 1 Ebrill 2022 £ | Trosglwyddo i mewn £ | Trosglwyddo Allan £ | Balans 31 Mawrth 2023 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Rhesymoli ysgolion | Talu costau ychwanegol sy'n deillio o foderneiddio ysgolion, gan gynnwys costau diswyddo. | 190,917 | 147,182 | -254,743 | **83,356** |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Cynllun Datblygu Lleol | Cyllido costau ychwanegol cynhyrchu'r cynllun datblygu nesaf. | 152,697 | - | -9,881 | **142,816** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Melin Llynnon | I gyllido cost gwaith adfer i'r Felin. | 65,000 | - | -65,000 | **-** |
| **CYFANSWM CRONFA WRTH GEFN RISG CORFFORAETHOL A GWASANAETH PENODOL** | | | **408,614** | **147,182** | **-329,624** | **226,172** |
| Corfforaethol | Cyfraniadau Refeniw Heb eu Defnyddio | Fe'i defnyddir fel ffynhonnell cyllid cyfalaf yn ôl yr angen. | 2,106,557 | 3,077,244 | -2,210,177 | **2,973,624** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Addysg – Symiau Cymudo | Symiau wedi'u clustnodi gan ddatblygwyr i'w defnyddio yn unol â'r cytundeb. | 219,936 | 126,657 | - | **346,593** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cyfraniad Datblygwr – Priffyrdd | Symiau wedi'u clustnodi gan ddatblygwyr i'w defnyddio yn unol â'r cytundeb. | 120,408 | 42,014 | - | **162,422** |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwelliannau hamdden | Cyllido buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol mewn Canolfannau Hamdden. | 762,154 | - | - | **762,154** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Cronfa Suddo TG Ysgol | Cyllido dyfeisiau newydd mewn ysgolion a gyllidwyd yn wreiddiol gan Grant HWB Llywodraeth Cymru. | 300,000 | 300,000 | -139,000 | **461,000** |
| | Cytundeb Adran 106 | Cyllido gwelliannau yn unol â chytundeb Adran 106. | Newydd | 24,872 | | **24,872** |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Lab Calibradu | I gyllido gwaith lab calibradu. | Newydd | 9,400 | | **9,400** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Canolfan Addysg y Bont Trwsio To | I gyllido gwaith sylweddol i do Canolfan Addysg Y Bont. Mae swm y cronfeydd wrth gefn yn cynrychioli'r swm a ryddhawyd o falansau cyffredinol, llai costau a gofwyd yn 2021/22 | 2,490,851 | - | -2,490,851 | **-** |
| Tai Cyffredinol | Cyfraniadau Datblygwyr Tai A106 | Cyllido prosiectau i gynyddu tai fforddiadwy a gyllidir gan gyfraniadau datblygwr A106. | Newydd | 807,807 | - | **807,807** |

| Gwasanaeth | Cronfa wrth Gefn | Disgrifiad | Balans 1 Ebrill 2022 £ | Trosglwyddo i mewn £ | Trosglwyddo Allan £ | Balans 31 Mawrth 2023 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw Ysgolion Uwchradd | Cyllido gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion uwchradd i atal risgiau iechyd a diogelwch. | Newydd | 94,308 | | **94,308** |
| Amryw | Cyllid a gymeradwywyd arian o'r gronfa wrth gefn gyffredinol | Cyllid cymeradwy o'r gronfa wrth gefn gyffredinol ar gyfer prosiectau cyfalaf penodol. | Newydd | 1,821,000 | -392,459 | **1,428,541** |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN GWARIANT CYFALAF Y DYFODOL** | | | **5,999,906** | **6,303,302** | **-5,232,487** | **7,070,721** |
| Corfforaethol | Cost Newid | Cronfa wrth gefn gyffredinol sydd wedi cyllido prosesau gwella busnes. | 181,735 | -181,735 | - | **-** |
| Corfforaethol | Buddsoddi i Arbed | Y balans o £1m a ddyrannwyd yn 2016/17 i gyllido prosiectau penodol. | 43,704 | - | -43,704 | **-** |
| Corfforaethol | Adfer Covid | £115k o gyllidebau teithio nas defnyddiwyd yn 2020/21, £250k o Barc Adfer, £200k o Gyfraniadau Refeniw heb ei gymhwyso. | 565,420 | - | -565,420 | **-** |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN GWELLA BUSNES** | | | **790,859** | **-181,735** | **-609,124** | **-** |
| Tai | Tai Fforddiadwy | Balans yr ail gartref a'r premiwm cartref gwag heb ei ddefnyddio. | 421,368 | 1,099,668 | -903,921 | **617,115** |
| Corfforaethol | Prosiectau a gyllidir gan gronfeydd wrth gefn | Cyllido llithriad mewn prosiectau clustnodedig a gyllidir gan gronfeydd wrth gefn. | 102,090 | 49,850 | -30,000 | **121,940** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | STEM | I gyllido prosiectau STEM. | 75,000 | - | -50,000 | **25,000** |
| NWEAB | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) | Balans cyfran y Cyngor o gronfeydd wrth gefn clustnodedig. | 153,314 | 112,766 | -15,963 | **250,117** |
| **CYFANSWM CYLLIDEBAU WRTH GEFN NAS DEFNYDDIWYD** | | | **751,772** | **1,262,284** | **-999,884** | **1,014,172** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cronfa wrth gefn Gwastraff / Ailgylchu | Cymerodd Grant Economi Gylchol le'r gyllideb graidd. Arbedion cyllideb craidd a roddir wrth gefn i dalu am brosiectau gwyrdd. | 500,000 | - | -400,000 | **100,000** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Priffyrdd - Maes Awyr | Grant Maes Awyr Môn sydd heb ei ddefnyddio. | 40,433 | - | -40,433 | **-** |

| Gwasanaeth | Cronfa wrth Gefn | Disgrifiad | Balans 1 Ebrill 2022 £ | Trosglwyddo i mewn £ | Trosglwyddo Allan £ | Balans 31 Mawrth 2023 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cronfa wrth gefn Grantiau Cyfyngedig Priffyrdd - Grant Llifogydd | Grant llifogydd nas defnyddiwyd - gellir ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol neu i gyllido costau refeniw. Angen gwirio gyda'r gwasanaeth. | 36,473 | - | - | **36,473** |
| Tai | Cefnogi Gweinyddiaeth Pobl | Grant nas defnyddiwyd sy'n cyllido costau staffio ychwanegol sy'n cefnogi pobl, nad ydynt yn dod o dan y grant. | 554,945 | - | -143,566 | **411,379** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Seilwaith Safle Bws | Wedi'i ddefnyddio yn 2022/23. | 85,671 | - | -85,671 | **-** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Grantiau Ysgolion Bach a Gwledig | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | 23,921 | - | -14,897 | **9,024** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Diogelwch Covid mewn Ysgolion | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | 9,056 | - | - | **9,056** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Grant Storm | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | 146,491 | - | -146,491 | **-** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | ACL<br>Cynnal a chadw a Digidol | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | 100,415 | - | -86,892 | **13,523** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Strategaeth ADY | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | 15,363 | - | - | **15,363** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Ôl-16 | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | 69,394 | - | -69,394 | **-** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Cerddoriaeth mewn Ysgolion | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | 129,481 | - | -98,201 | **31,280** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Rhwydwaith Bysiau Teithwyr | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | Newydd | 220,976 | - | **220,976** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Ôl 16 ACL | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | Newydd | 82,185 | - | **82,185** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Talnet / Llyfrgelloedd | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | Newydd | 14,040 | | **14,040** |
| Rheoleiddio ac Economaidd | Grant SLSP Cefn Gwlad | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | Newydd | 37,573 | - | **37,573** |

| Gwasanaeth | Cronfa wrth Gefn | Disgrifiad | Balans 1 Ebrill 2022 £ | Trosglwyddo i mewn £ | Trosglwyddo Allan £ | Balans 31 Mawrth 2023 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwelliannau amgylcheddol | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | Newydd | 46,425 | | **46,425** |
| Busnes y Cyngor | Diwygio Etholiadol | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | 11,230 | - | - | **11,230** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | TRAC | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | 201,392 | - | -61,927 | **139,465** |
| Adnoddau | Taliadau Dewisol Cost Byw | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | 585,163 | - | -585,163 | **-** |
| Gwasanaethau Oedolion | Cerbydau Trydan | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | 200,000 | 50,000 | -200,000 | **50,000** |
| Gwasanaethau Plant | Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion Rhithwir Cymru | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | Newydd | 60,000 | - | **60,000** |
| Adnoddau | Staff Budd-daliadau Grant (Cinio Ysgol am Ddim) | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | Newydd | 85,557 | - | **85,557** |
| Tai Cyffredinol | Cartrefi ar gyfer Wcráin | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | Newydd | 467,047 | - | **467,047** |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Grant Adfer Economaidd | Grant nas defnyddiwyd i gario ymlaen i 2023/24. | 764,271 | - | -764,271 | **-** |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN GRANT CYFYNGEDIG** | | | **3,473,699** | **1,063,803** | **-2,696,906** | **1,840,596** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Incwm prosesau ailgylchu | Cyflwr y SWMG bod incwm o ailgylchu yn cael ei ddefnyddio i gyllido costau / prosiectau ailgylchu. Dyma balans yr incwm nas defnyddiwyd. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth benderfynu sut i'w ddefnyddio. | 635,130 | - | -380,000 | **255,130** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Cronfa Brynu'r Amgueddfa | Rhoddion i'r Oriel i brynu eitemau newydd. Nid yw ar gael i gyllido gwariant y Cyngor. | 11,363 | 1,887 | - | **13,250** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Ffioedd Corff Cymeradwyo Cynaliadwy (SAB) | Ffioedd o geisiadau cynllunio i'w defnyddio i gyllido costau yn y dyfodol mewn perthynas â'r ceisiadau. | 4,540 | 27,865 | - | **32,405** |
| Tai | Tai - Hamperi Nadolig | I gyllido hamperi Nadolig. | 8,873 | 10,224 | -15,687 | **3,410** |

| Gwasanaeth | Cronfa wrth Gefn | Disgrifiad | Balans 1 Ebrill 2022 £ | Trosglwyddo i mewn £ | Trosglwyddo Allan £ | Balans 31 Mawrth 2023 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG ERAILL** | | | **659,906** | **39,976** | **-395,687** | **304,195** |
| Adnoddau | Ffi weinyddol Taliadau Hunan-ynysu | Grant gan Lywodraeth Cymru i dalu am y gost o brosesu taliadau hunan-ynysu. Ar hyn o bryd yn cyllido aelod ychwanegol o staff. | 70,813 | - | -70,813 | **-** |
| Corfforaethol | Trawsnewid Digidol | Grant gan Lywodraeth Cymru i gyllido prosiectau i wella trawsnewid digidol. | 83,957 | - | -83,957 | **-** |
| Corfforaethol | Cyllido Caledi Covid - Casgliad y Dreth Gyngor | Grant gan Lywodraeth Cymru i dalu am y golled yn incwm y Dreth Gyngor oherwydd cynnydd posibl yng ngwerth dyledion y bu'n rhaid eu dileu o ganlyniad i Covid. | 783,371 | - | -418,267 | **365,104** |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN GRANT HEB GYFYNGIAD** | | | **938,141** | **-** | **-573,037** | **365,104** |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Cronfa Wrth Gefn Ynys Ynni | Cyllido cost asesu a chefnogi datblygiadau Ynys Ynni yn y dyfodol. | 269,020 | 9,320 | -6,573 | **271,767** |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Cronfa Wrth Gefn Datblygiadau Mawr | Dyma gydbwysedd y cyllid a dderbynnir mewn perthynas ag amser Prif Swyddogion drwy'r PPA. | 177,352 | - | - | **177,352** |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Datblygiadau Mawr – Ffioedd Cynllunio | Dyma'r ffioedd cynllunio ychwanegol o ddatblygiadau mawr, a fyddai wedi cyllido'r gost o ddelio â'r ceisiadau yn y blynyddoedd i ddod. | 392,456 | - | - | **392,456** |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwaith Archaeolegol yn Wylfa | Cyfraniad terfynol gan Horizon i gyllido gwaith yn y dyfodol. | 625,000 | - | -102,580 | **522,420** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Astudiaeth Ddichonoldeb – Ysgol Uwchradd Caergybi | Cyllido cost asesu pellach o gyflwr y to yn Ysgol Uwchradd Caergybi. | 15,000 | - | - | **15,000** |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Model Rhagfynegiad Dŵr Ymdrochi | I dalu am y gost o gynnal yr offer monitro. | 9,285 | - | -3,931 | **5,354** |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gallu Cynllunio a Chapasiti | Mae'n rhaid ailfuddsoddi canran y ffioedd cynllunio yn y gwasanaeth cynllunio. | 267,657 | - | -75,934 | **191,723** |
| Trawsnewid - AD | Cynllun Hyfforddeion | Mae'n darparu cyllid ar gyfer recriwtio ar gyfer nifer o rolau dan hyfforddiant ar draws y Cyngor i helpu i ddarparu staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda mewn rolau sy'n aml yn anodd recriwtio iddynt. | 219,060 | 82,720 | -16,037 | **285,743** |
| Trawsnewid | Cynnal | Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei defnyddio i gyllido unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o derfynu gwasanaethau cymorth TGCh Cynnal ar gyfer ysgolion. | 88,200 | - | -88,200 | **-** |

| Gwasanaeth | Cronfa wrth Gefn | Disgrifiad | Balans 1 Ebrill 2022 £ | Trosglwyddo i mewn £ | Trosglwyddo Allan £ | Balans 31 Mawrth 2023 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion | Ffi weinyddol Cyllideb Gyfun | Cyfraniad i'r costau gweinyddol a geir gan yr awdurdod arweiniol wrth weinyddu'r gyllideb gyfun Gwasanaethau Oedolion. | 10,000 | - | - | **10,000** |
| Gwasanaethau Plant | Cyfraniad Cynorthwyydd Addysgu Gwasanaethau Plant | Cyllido cynorthwywyr addysgu sy'n arbenigo mewn cefnogi plant ag anghenion gofal cymdeithasol. | 200,000 | 24,076 | -70,000 | **154,076** |
| Rheoleiddio – Datblygu Economaidd | Stâd Ddiwydiannol Penrhos – adroddiad menter ar y cyd | Casglu cyfran y Cyngor o incwm net blynyddol o brydlesu unedau diwydiannol Penrhos i gyfrannu tuag at gyllido prynu allan Llywodraeth Cymru ar ôl gweithredu am 15 mlynedd, yn unol â'r cytundeb menter ar y cyd. | 7,818 | 12,779 | - | **20,597** |
| Rheoleiddio - Gwarchod y Cyhoedd | Sefydlu'r Awdurdod Porthladd Iechyd | Mae'r Cyngor wedi dod yn Awdurdod Iechyd Porthladd ar ôl i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd. Bydd y gronfa wrth gefn hon yn helpu i gyllido'r costau sefydlu. | 100,000 | 89,978 | - | **189,978** |
| Corfforaethol | Ad-daliad Benthyciad Salix | I gyllido taliadau terfynol MRP heb eu cyllidebu ar fenthyciadau Salix sydd wedi eu oedi. | 216,190 | - | - | **216,190** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Addasiad swyddfa | Addasiad swyddfa. | Newydd | 35,000 | - | **35,000** |
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Addysg - PSBA TGCh | Parhau i lithro gwelliannau band eang TGCh mewn ysgolion sydd wedi llithro. | Newydd | 108,283 | - | **108,283** |
| Gwasanaethau Plant | Hyfforddeion y Brifysgol Agored | Cynyddu staff hyfforddedig yn Gwasanaethau Plant. | Newydd | 80,000 | - | **80,000** |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG AR GYFER PROSIECTAU PENODOL YN Y DYFODOL** | | | **2,597,038** | **442,156** | **-363,255** | **2,675,939** |
| Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaeth | Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaeth | Gwasanaethau i'w defnyddio yn ôl yr angen. | 1,364,244 | | -1,364,244 | **-** |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG** | | | **23,181,974** | **11,827,345** | **-15,371,752** | **19,637,567** |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Y PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **18 GORFFENNAF 2023** |
| Pwnc / Testun: | **POLISI A STRATEGAETH RHEOLI RISG** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **JULIE JONES**<br>**01248 752609**<br>juliejones@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Mae'r argymhellion canlynol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried:

**Argymhelliad**
1. Bod y Pwyllgor yn ystyried y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg ac yn gwneud sylwadau ar ei gynnwys.
2. Bod y Pwyllgor yn derbyn ac yn cymeradwyo'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn cynghori bod y Polisi Rheoli Risg yn swyddogaeth y Pwyllgor Gwaith. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i oruchwylio polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod, a'u gweithredu'n ymarferol, yn unol â'r Cyfansoddiad (3.4.8.8.1).

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Amherthnasol

## D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | Helpu i nodi risgiau a all greu costau / dibyniaethau ynghyd â mesurau i'w lliniaru. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygaeth Gofal Cymru, Estyn, a Zurich Municipal i gyd wedi cael cyfle i rhoi sylw ar y ddogfen. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amherthnasol |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Dim |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | Dim |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae'r Tim Arweinyddiaeth yn gefnogol i'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Amherthnasol |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| Atodiad A : Polisi a Strategaeth Rheoli Risg<br><br>Atodiad B : Canllawiau Rheoli Risg |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
| --- |
| Dim |

# Polisi a Strategaeth Rheoli Risg



Fersiwn 1.0 (Mai 2023)

**Am y polisi hwn**

Mae’r ddogfen hon, ynghyd a’r canllawiau cysylltiedig, yn darparu fframwaith y Cyngor as gyfer rheoli risg.  Mae’r fframwaith yn berthnasol o holl staff ac Aelodau’r Cyngor.

**Hanes Adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | Mai 2023 | |

| Dyddiad yr adolygiad nesaf | |
|---|---|
| Adolygir y polisi ar: | Mai 2026 |
| Cynhelir yr adolygiad gan: | Rheolwr Risg & Yswiriant |

**Manylion cyswllt: Julie Jones (juliejones@ynysmon.llyw.cymru)**

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg. This document is available in English.

## Rhagair

Mae risgiau ynghlwm â phob agwedd ar fywyd a busnes.  Fel sefydliad amrywiol, mae'r risgiau sy'n wynebu Cyngor Sir Ynys Môn yn eang ac amrywiol.  Rydym yn credu na ddylai'r Cyngor anwybyddu risg ond yn hytrach ceisio ei reoli'n rhagweithiol.  Bydd hyn yn caniatáu inni nid yn unig ddiwallu anghenion heddiw, ond hefyd fod yn barod i ymateb i heriau'r dyfodol.

Rydym yn cydnabod bod risgiau'n fygythiad ond eu bod hefyd yn cyflwyno cyfleoedd i arloesi.  Felly, mae angen dealltwriaeth dda ac ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n ein hwynebu os ydym am fynd ati'n llwyddiannus i gyflawni'r nodau a'r amcanion sydd yng Nghynllun y Cyngor, cynlluniau cyflenwi gwasanaethau a chynlluniau prosiect, a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth lawn.

Mae rheoli risg yn rhan sylfaenol o lywodraethu da a rheolaeth fewnol ac mae'n elfen hanfodol wrth gyflawni ein nodau a'n hamcanion.   Mae'r ddogfen hon a'r canllawiau atodol yn nodi'r ymddygiadau a'r arferion rheoli risg da yr ydym yn eu disgwyl drwy'r Cyngor ac a fydd yn ein helpu i ddatblygu diwylliant sy'n ymwybodol o risg.

Mae gan y Pwyllgor Gwaith â'r Tîm Arweinyddiaeth ddarlun clir o'r risgiau sy'n bygwth y gallu i gyflawni ein hamcanion a lefel yr amlygiad i risg yr ydym yn fodlon ei dderbyn.  Bydd rheoli'r risgiau hyn yn effeithiol a sicrhau eu bod yn cael eu hystyried pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud, yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gryfach i ddarparu gwasanaethau o safon, cyflawni ein hamcanion, sicrhau gwerth am arian, ac ymateb i broffil risg sy'n newid.



**Cynghorydd Llinos Medi**
**Arweinydd y Cyngor**



**Dylan Williams**
**Prif Weithredwr**

# Cynnwys


Rhagair ..... 3
1 Cyflwyniad ..... 5
1.1 Amcanion y Polisi a Strategaeth Rheoli Risg ..... 5
1.2 Diffiniad o Risg a Rheoli Risg ..... 5
1.3 Rhesymau dros Reoli Risg ..... 6
2 Polisi Rheoli Risg ..... 7
3 Strategaeth Rheoli Risg ..... 8
3.1 Gytuno ar barodrwydd y Cyngor i dderbyn risg ac aeddfedrwydd risg ..... 8
3.2 Datblygu diwylliant sy’n ymwybodol o risg ..... 8
3.3 Diffinio rolau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu yn glir ..... 9
3.4 Darparu proses rheoli risg ..... 10
3.5 Monitro perfformiad rheoli risg ..... 11
4 Y Parodrwydd i Dderbyn Risg ac Aeddfedrwydd ..... 12
4.1 Y Parodrwydd i Dderbyn Risg ..... 12
4.2 Aeddfedrwydd Risg ..... 14
5 Rolau a Chyfrifoldebau ..... 15
6 Adolygiad ..... 18

# 1 Cyflwyniad

Mae'r polisi a'r strategaeth rheoli risg, a'r canllawiau atodol yn amlinellu egwyddorion a dull Cyngor Sir Ynys Môn o reoli risg.

Y nod yw darparu proses gyson sy'n sail i'r gwaith o reoli risg ledled y Cyngor, sy'n adlewyrchu lefel a natur ein gwahanol swyddogaethau, a defnyddio ein sgiliau a'n gallu i'r eithaf.

Mae'r dogfennau hyn yn berthnasol i holl weithwyr ac Aelodau'r Cyngor. Dylid annog unrhyw sefydliadau partner i groesawu'r egwyddorion sydd yn y dogfennau.

## 1.1 Amcanion y Polisi a Strategaeth Rheoli Risg

Amcanion y ddogfen hon yw:

- Datblygu diwylliant sy'n ymwybodol o risg sy'n treiddio drwy weithgareddau'r Cyngor.
- Ei fod yn arwain at broses fwy cyson a gwybodus o wneud penderfyniadau ar bob lefel, gan wella atebolrwydd a thryloywder.
- Galluogi i'r Cyngor ragweld ac ymateb i newid a rheoli'r risgiau a'r cyfleoedd a allai effeithio ar ei amcanion fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor, cynlluniau darparu gwasanaethau a chynlluniau prosiect.
- Sicrhau bod gan weithwyr ac Aelodau etholedig y wybodaeth, y sgiliau a'r adnoddau i ddeall yr angen i reoli risg, a manteision hynny, a chymryd cyfrifoldeb am reoli risg o fewn eu maes.
- Bod y Cyngor yn sefydliad sy'n ymdrin â rheoli risg mewn dull mwy aeddfed sy'n monitro cynnydd yn erbyn targedau, yn dysgu, ac yn addasu pan nad yw pethau'n mynd i'r cynllun.

## 1.2 Diffiniad o Risg a Rheoli Risg

Mae **risg** yn cael ei ddiffinio fel "effaith ansicrwydd ar amcanion." [1] Hynny yw, y posibilrwydd y gall digwyddiad godi neu beidio â chodi a'i fod yn effeithio ar gyflawni amcan. Gall yr effaith fod yn negyddol neu'n gadarnhaol.

Ni ddylid camgymryd neu gymysgu rhwng risg a mater sy'n ddigwyddiad neu'n sefyllfa sydd eisoes yn bodoli.

**Diffinnir Rheoli Risg** fel "gweithgareddau cydgysylltiedig i gyfarwyddo a rheoli sefydliad o ran risg"[2]. Hynny yw, y broses o fynd i'r afael yn drefnus â'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gyda'r nod o sicrhau budd parhaus o fewn pob gweithgaredd ac ar draws yr holl weithgareddau.

---

[1] ISO 31000 2018
[2] ISO 31000 2018

## 1.3 Rhesymau dros Reoli Risg


Mae sawl rheswm dros reoli risgiau gan gynnwys:

- Mae'n cynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant, ac yn lleihau'r tebygolrwydd o fethiant a'r ansicrwydd o ran cyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad.
- Mae'n gwella'r broses o wneud penderfyniadau, cynllunio a blaenoriaethu drwy ddarparu fframwaith sy'n fodd i weithgarwch yn y dyfodol gael ei gynnal mewn modd cyson a dan reolaeth.
- Gall helpu rheolwyr i ddangos trefniadau llywodraethu da, ac mae'n arwain at well dealltwriaeth o'r proffil risg ac yn lliniaru risg.
- Gall yrru'r gwaith o gyflawni amcanion yn effeithiol a defnyddio / dyrannu adnoddau'n effeithlon drwy ganolbwyntio sylw uwch reolwyr ac aelodau etholedig ar y risgiau a'r cyfleoedd posibl i hybu llwyddiant.
- Mae rheoleiddwyr a phartneriaid yn gofyn fwyfwy am dystiolaeth o arferion rheoli risg da, ac mae hyn hefyd yn ofynnol i lawer o gytundebau dan gontract.
- Yn allanol gall helpu i wella cefnogaeth wleidyddol a chymunedol a diogelu a gwella enw da. Fodd bynnag, gall methu â nodi, asesu a rheoli risgiau arwain at wariant sylweddol heb ei gyllidebu a niwed i enw da.

## 2 Polisi Rheoli Risg

Mae'r Cyngor yn sefydliad amrywiol sydd wedi ymrwymo i gyflawni ei nodau a'i amcanion fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor, cynlluniau Darparu Gwasanaethau a chynlluniau prosiect. Mae risg yn rhan na ellir ei osgoi o gyflawni'r cynlluniau hyn, ac mae yna beryglon eraill sydd y tu allan i gynlluniau o'r fath a allai effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau o safon i drigolion Môn a'r rhai sy'n ymweld ac yn gweithio ar yr ynys. Mae'r Cyngor yn cydnabod fod risg yn gallu bod yn fygythiad ai fod yn gallu cynnig cyfleoedd.

Polisi'r Cyngor yw mabwysiadu dull rhagweithiol a chyson o reoli ei risgiau o fewn parodrwydd cydnabyddedig i dderbyn risg. Mae'r dull rhagweithiol a chyson hwn o nodi, asesu, rheoli a monitro risgiau allweddol yn rhan annatod o'n prosesau rheoli ar lefelau strategol a gweithredol, ac yn sicrhau diwylliant o gymryd risg ar sail gwybodaeth. Bydd gwreiddio trefniadau rheoli risg drwy'r holl brosesau, prosiectau a phenderfyniadau strategol yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gryfach i ddarparu gwasanaethau o safon, cyflawni amcanion, sicrhau gwerth am arian, ac ymateb i broffil risg sy'n newid.



# 3 Strategaeth Rheoli Risg

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut rydym yn anelu at gyflawni'r polisi rheoli risg, a phwy sy'n gyfrifol am reoli risgiau.  Caiff hyn ei gyflawni drwy:

## 3.1 Gytuno ar barodrwydd y Cyngor i dderbyn risg ac aeddfedrwydd risg

Parodrwydd i dderbyn risg yw'r lefel a'r math o risg y mae'r Cyngor yn anelu at ei dderbyn. Trwy gytuno ar ei barodrwydd i dderbyn risg, mae'r Cyngor yn gosod ffiniau iddo'i hun o ran lefel y risg sy'n dderbyniol a pha risgiau y mae'n ceisio eu rheoli os yw am wireddu ei amcanion.

Aeddfedrwydd risg yw lefel, dealltwriaeth ac effeithiolrwydd rheolaeth y Cyngor o risg.  O bryd i'w gilydd gofynnir i barti annibynnol gynnig sicrwydd am aeddfedrwydd risg y Cyngor a'r farn p'un ai a yw'r prosesau rheoli risg yn addas i'r diben, a nodir meysydd lle mae angen gwella ymhellach.

Mae'r Pwyllgor Gwaith a'r Tîm Arweinyddiaeth wedi cytuno ar barodrwydd y Cyngor i dderbyn risg ac mae hyn wedi'i amlinellu a'i esbonio'n fanylach yn Adran 4 y ddogfen.

Bydd y Pwyllgor Gwaith a'r Tîm Arweinyddiaeth yn adolygu y parodrwydd i dderbyn risg o leiaf unwaith yn ystod pob gweinyddiaeth.

## 3.2 Datblygu diwylliant sy'n ymwybodol o risg

Mae diwylliant risg yn cyfeirio at werthoedd, agweddau a dealltwriaeth staff ac Aelodau'r Cyngor mewn perthynas â'r risgiau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.  Pan fydd sefydliad yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gan wybod yn llawn beth yw'r risgiau dan sylw, disgrifir y diwylliant risg fel un **sy'n ymwybodol o risg**.

Er mwyn datblygu diwylliant sy'n ymwybodol o risg, bydd angen i staff ac Aelodau ddeall yn well y risgiau sy'n berthnasol i'w maes gwaith a sut i werthuso risgiau.  Mae integreiddio, hyfforddiant, a chyfathrebu i gyd yn cael dylanwad cadarnhaol ar ddiwylliant risg.

Mae pawb yn rheoli risg ac yn manteisio ar gyfleoedd i ryw raddau yn eu rôl o ddydd i ddydd. Trwy integreiddio rheoli risg i'n prosesau a'n gweithgareddau, ein nod yw bod staff ac Aelodau yn deall, gwerthfawrogi a chyflawni mesurau rheoli risg, gan arwain at ddod yn sefydliad sy'n ymwybodol o risg.

Bydd hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i Aelodau, rheolwyr ar bob lefel, a'r rhai sydd â rolau rheoli risg penodol.  Ein criw o hyfforddeion yw rheolwyr ac uwch arweinwyr posibl y dyfodol.  Felly, mae'n bwysig datblygu eu dealltwriaeth o reoli risg trwy roi sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth briodol iddynt.


Drwy gyfathrebu'r polisi a'r strategaeth rheoli risg, a'r canllawiau atodol i staff ac Aelodau bydd pwysigrwydd egwyddorion rheoli risg effeithiol yn ein gweithgareddau bob dydd yn cael eu hamlygu.  Bydd y dogfennau felly ar gael ar fewnrwyd y Cyngor (MonITor) a'u cynnwys fel polisi y mae'n ofynnol i rai staff sydd â chyfrifoldebau rheoli ac Aelodau ei dderbyn drwy'r Porth Polisi.

## 3.3 Diffinio rolau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu yn glir

Mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u cynnwys yn Adran 5 o'r ddogfen hon.

Mae cydlynydd risg yn rôl newydd a gofynnir i bob Gwasanaeth ddynodi swyddog a dirprwy priodol i ymgymryd â rôl eu Cydlynydd Risg fel rhan o'u dyletswyddau. Dylai hyn sicrhau bod pwysigrwydd rheoli risg yn cael ei ddeall a'i wreiddio ar draws y Gwasanaeth.

Ein nod yw gwella'r trefniadau llywodraethu ynghylch rheoli risg trwy annog cyfeiriad at risgiau ym mhob adroddiad sy'n gofyn am benderfyniad, a sicrhau bod cofrestri risg yn cael eu hystyried fel mater o drefn ar y lefel briodol. Er enghraifft, mae'r siart hwn yn dangos y berthynas rhwng cofrestri risg strategol a gwasanaeth ac yn esbonio pwy sy'n berchen ar y risgiau a phwy sydd angen sicrwydd o'r risgiau.





Mae'r Gofrestr Risg Strategol yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith Annffurfiol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn.

Caiff risgiau eu hadolygu a'u trafod yn rheolaidd ar lefel Gorfforaethol / Strategol, a chaiff risgiau allweddol eu huwchgyfeirio gan Wasanaethau.

## 3.4 Darparu proses rheoli risg

Mae proses rheoli risg generig yn cynnig dull cyson o reoli risg drwy'r sefydliad. Mae'r canllawiau rheoli risg sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon yn nodi'r broses rheoli risg fanwl ac fe'i crynhoir yn y diagram canlynol.




Mae canfyddiadau pob cam o'r broses rheoli risg yn cael eu cofnodi yn y gofrestr risg. Mae'r Cyngor yn cadw Cofrestr Risg Strategol, Cofrestri Risg Gwasanaethau, cofrestri risg project a rhaglenni, a chofrestri risg penodol ar gyfer gweithgareddau eraill yn ôl y gofyn.

Mae asesu tebygolrwydd ac effaith pob risg a'u plotio ar fatrics risg yn rhoi sgôr risg i bob risg ac mae'n fodd i risgiau gael eu cymharu a'u blaenoriaethu. Asesir pob risg ar sail cynhenid (senario waethaf), gweddilliol (sefyllfa bresennol), a tharged (sefyllfa a ddymunir). Datblygwyd matricsau risg ar wahân ar gyfer risgiau Strategol, Gwasanaeth, a Phrosiect, ac ar gyfer Cyfleoedd, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y canllawiau atodol.

## 3.5 Monitro perfformiad rheoli risg

Mae'r Cyngor wedi datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) i fonitro cynnydd a chyflawniadau'r strategaeth rheoli risg. Mae'r DPA yn cynnwys:

- risgiau a chofrestri risg a adolygwyd ar lefelau strategol a gwasanaeth
- sicrwydd a ddarparwyd yn ymwneud ag effeithiolrwydd rheolaethau
- staff ac aelodau sydd wedi derbyn hyfforddiant
- staff ac aelodau sydd wedi derbyn y polisi ar y Porth Polisi

Y Tîm Archwilio Mewnol a Rheoli Risg sy’n gyfrifol am gyfrifo'r DPA hyn a bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad Risg blynyddol a adroddir i'r Tîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith.

Mae dangosyddion risg allweddol (DRA) yn rhoi arwydd cynnar o newid yn yr amlygiad i risg, a dangosyddion rheoli allweddol (DRhA) yn rhoi arwydd cynnar o reolaethau aneffeithiol neu lai effeithiol, gan ddarparu cyfle cynnar i adolygu'r risgiau a lle bo angen cyflwyno rheolaethau ychwanegol. Felly, lle bo'n briodol ac yn berthnasol, bydd DRA a DRha yn cael eu datblygu ar y cyd â'r cydlynwyr risg a'r tîm perfformio.

# 4 Y Parodrwydd i Dderbyn Risg ac Aeddfedrwydd

## 4.1 Y Parodrwydd i Dderbyn Risg

### 4.1.1 Diffiniad

Diffinnir parodrwydd i dderbyn risg fel "Lefel a math o risg y mae sefydliad yn barod i'w geisio, derbyn neu oddef"[3] neu lefel y risg y mae'r Cyngor **yn anelu** at weithredu o'i fewn.

Ni ddylid camgymryd hyn neu ddrysu rhwng hyn â goddefiant risg, sef y lefel risg eithaf y bydd y Cyngor yn gweithredu o'i fewn.

Diffinnir isod lefelau parodrwydd i dderbyn risg:

| Parodrwydd i dderbyn risg | Disgrifiad | Parodrwydd i dderbyn risg yn uchel |
|---|---|---|
| Awyddus | Awyddus i fod yn arloesol ac i ddewis opsiynau sy'n cynnig buddion a allai fod yn uwch er gwaethaf mwy o risg | |
| Agored | Yn barod i ystyried yr holl opsiynau cyflawni posibl a dewis yr un sydd fwyaf tebygol o arwain at gyflawni'n llwyddiannus gan hefyd sicrhau lefel dderbyniol o fudd, gwerth am arian, a risg gymedrol / uchel. | |
| Gofalus | Ffafrio opsiynau cyflawni diogel sydd â lefel risg isel ac a allai fod â photensial cyfyngedig yn unig o ran budd. | |
| Ychydig iawn | Ffafrio opsiynau cyflawni busnes diogel iawn sydd â lefel risg isel a photensial am fudd cyfyngedig yn unig. | |
| Osgoi | Osgoi risg ac ansicrwydd yn un o brif amcanion y sefydliad. | Parodrwydd i dderbyn risg yn isel |

Dylai lefel is o barodrwydd am risg gael ei adlewyrchu gan ffocws rheoli risg uwch.

[3] ISO 31000 2018

### 4.1.2 Datganiad Parodrwydd i dderbyn risg

Mae'r tabl canlynol yn mynegi parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg ar gyfer pob categori risg, fel y cytunwyd gan y Tîm Arweinyddiaeth.

| Categori Risg | Parodrwydd i dderbyn risg |
|---|---|
| Amcanion | Awyddus |
| Darparu Gwasanaethau | Agored |
| Ariannol | Gofalus |
| Enw da | Agored |
| Pobl (I&D / diogelu) | Ychydig iawn |
| Rheoleiddio | Gofalus |
| Amgylcheddol | Agored |

### 4.1.3 Pam fod Parodrwydd i Dderbyn Risg yn Bwysig?

Drwy ddiffinio ei barodrwydd i dderbyn risg, mae'r Cyngor yn gosod ffiniau iddo'i hun o ran faint o risg sy'n dderbyniol a pha risgiau y mae'n ceisio eu rheoli os yw am wireddu ei amcanion.

Rhai o fanteision mabwysiadu parodrwydd i dderbyn risg:

- Mae'n arwain at wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth
- Lleihau ansicrwydd
- Gwella cysondeb ar draws dulliau llywodraethu a phenderfyniadau
- Helpu i wella perfformiad
- Canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth
- Yn llywio'r adolygiad gwariant a phrosesau blaenoriaethu adnoddau

## 4.2 Aeddfedrwydd Risg

Aeddfedrwydd risg yw lefel, dealltwriaeth ac effeithiolrwydd trefniadau sefydliad i reoli risg.

Mae sefydlu Model Aeddfedrwydd Risg yn agwedd allweddol ar fonitro ac adrodd cynnydd, yn rhoi sicrwydd bod prosesau rheoli risg yn addas i'r diben, ac yn nodi meysydd lle mae angen gwella ymhellach. Mae lefel yr aeddfedrwydd yr anelir ati yn gydbwysedd o'r adnoddau sydd ar gael a'r parodrwydd i dderbyn risg.

Model aeddfedrwydd risg y Cyngor:

| | | Lefel Aeddfedrwydd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Anaeddfed** | **Cyflawnir** | **Rheolir** | **Rhagweladwy** | **Aeddfed** |
| Paramedrau Gweithredu | Defnyddio Safonau, adnoddau a thechnegau | Ddim yn defnyddio | Ymwybodol ond dim defnydd ffurfiol ohonynt | Yn defnyddio | Defnydd rheolaidd, canlyniadau cyson | Dealltwriaeth gadarn, defnydd da o adnoddau |
| | Gwybodaeth am y ddisgyblaeth rheoli risg | Ychydig o wybodaeth | Ymwybodol ond ansicr o'r budd | Dealltwriaeth ar draws rhai rhannau o'r sefydliad | Gwybodaeth gadarn am ddisgyblaeth a gwerth | Lefel uchel o ymwybyddiaeth a gwybodaeth |
| | Gweithgareddau rheoli risg wedi'u cynnal | Dim | Rhai ad-hoc, dim digon o adnoddau | Fframwaith ar gael ac yn cael ei ddefnyddio pan fydd amser yn caniatáu | Rhaglen ffurfiol | Wedi'u gwreiddio wrth wneud penderfyniadau |
| | Ymwybyddiaeth o fudd a gwerth rheoli risg | Ansicr o'r budd | Ymwybodol ond ansicr o'r budd | Ymwybodol o rai buddion | Ymwybodol o fuddion ac fe'u defnyddir ar draws y sefydliad | Wedi'u hymgorffori wrth gynllunio busnes a meddwl strategol |

Cafodd Lefel Aeddfedrwydd Risg y Cyngor ei asesu'n annibynnol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2018 gan Zurich Risk Engineering, a phenderfynwyd ei fod yn Lefel 3 'Rheolir', gan ddefnyddio Model Aeddfedrwydd Risg tebyg, hefyd yn cynnwys pum lefel o aeddfedrwydd. Mae'r Cyngor wedi trefnu i gwmni Zurich Risk Engineering gynnal adolygiad annibynnol arall yn ystod 2023.

# 5 Rolau a Chyfrifoldebau

| | Rôl | Cyfrifoldebau |
|---|---|---|
| Aelodau | Y Pwyllgor Gwaith | • Sicrhau bod risg yn cael ei hystyried wrth gytuno ar y cyfeiriad y mae'r Cyngor yn mynd iddo.<br>• Cytuno ar gyflawni'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg.<br>• Adolygu'r gofrestr Risg Strategol yn rheolaidd.<br>• Gweithio gyda'r Tîm Arweinyddiaeth i nodi risgiau newydd neu sy'n rai dod i'r amlwg.<br>• Ystyried risg yn rhan annatod o gynllunio strategol a phenderfyniadau.<br>• Pob Aelod Gweithredol i oruchwylio risgiau'n ymwneud â'u portffolio. |
| | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | • Goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg.<br>• Adolygu pa mor briodol yw'r prosesau rheoli risg a sicrwydd a chyngor ar unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth.<br>• Deall rôl a gweithgareddau'r Tîm Arweinyddiaeth mewn perthynas â rheoli risg. |
| | Pwyllgorau Sgriwtini | • Craffu ar risgiau critigol mawr.<br>• Herio penderfyniadau a wnaed gan Aelodau Gweithredol lle nad yw risgiau wedi cael eu hystyried yn briodol. |
| | Aelodau Etholedig | • Ystyried risg yn rhan annatod o gynllunio strategol a gwneud penderfyniadau. |

| | Rôl | Cyfrifoldebau |
|---|---|---|
| Rheolwyr | Prif Weithredwr | • Arweinyddiaeth gyffredinol ar gyfer rheoli risg yn effeithiol gan gynnwys y gofrestr risg Strategol, Polisi a Strategaeth Rheoli Risg.<br>• Rhoi gwybod am gynnydd a newid mewn perthynas â rheoli risg i Aelodau. |
| | Tîm Arweinyddiaeth | • Gosod y cywair o'r brig a hyrwyddo manteision rheoli risg.<br>• Sicrhau bod pob risg yn cyd-fynd ag amcanion corfforaethol<br>• Trafod ac adolygu'r gofrestr risg Strategol ac adroddiadau cysylltiedig yn rheolaidd gan sicrhau bod y gofrestr risg Strategol yn gywir.<br>• Gweithio gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol i nodi risgiau strategol newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg.<br>• Sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r holl ofynion llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |
| | Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth | • Sicrhau bod trefniadau rheoli risg effeithiol yn eu Gwasanaeth yn unol â'r polisi a'r strategaeth rheoli risg, a'r canllawiau cysylltiedig<br>• Cymryd perchnogaeth o risgiau o fewn eu Gwasanaeth a sicrhau bod cofrestri risg, gan gynnwys cofrestri prosiect a phartneriaethau, yn cael eu trafod, eu hadolygu, a'u diweddaru yn rheolaidd a bod risgiau allweddol i Wasanaethau'n cael eu huwch gyfeirio fel y bo'n briodol.<br>• Nodi risgiau trawsbynciol sy'n effeithio ar gyflawni amcanion y Gwasanaeth.<br>• Sicrhau bod cofrestri risg a chamau'r Gwasanaeth yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Tîm Arweinyddiaeth ac Aelod Gweithredol perthnasol.<br>• Sicrhau bod adroddiadau allweddol am benderfyniadau yn cynnwys risg gytbwys sydd wedi'i hystyried.<br>• Sicrhau bod goblygiadau risg yr holl gynigion newid busnes newydd yn cael eu hystyried yn foddhaol.<br>• Lle mae gwasanaethau allweddol i'w darparu drwy drefniant partneriaeth, bod llinellau clir o berchnogaeth risg ac atebolrwydd yn cael eu sefydlu. |
| | Timau Rheoli Gwasanaeth | • Sicrhau bod y rheolaeth risg o fewn eu maes cyfrifoldeb yn cael ei gweithredu yn unol â'r polisi a'r strategaeth Rheoli Risg, a'r canllawiau atodol<br>• Cymryd perchnogaeth am y risgiau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb, gan sicrhau bod y gofrestr risg yn cael ei thrafod, ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd a nodi, dadansoddi, blaenoriaethu a rheoli risgiau gyda'r Gwasanaeth fel rhan o'r broses gynllunio busnes.<br>• uwch gyfeirio risgiau i sylw'r Cyfarwyddwr / Pennaeth Gwasanaeth pan fo angen<br>• Sicrhau bod camau lliniaru yn cael eu cwblhau a bod effeithiolrwydd rheolaethau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd |

| | Rôl | Cyfrifoldebau |
|---|---|---|
| Swyddogaeth Risg | Tîm Archwilio Mewnol a Rheoli Risg | • Sicrhau adolygiad annibynnol rheolaidd o'r dull corfforaethol o reoli risg a chydymffurfio ag ef.<br>• Cyfrannu at gywirdeb a dilysrwydd cofrestri risg o ran effeithiolrwydd camau lliniaru.<br>• Datblygu'r polisi a'r strategaeth Rheoli Risg, a'r canllawiau atodol a'u hadolygu o bryd i'w gilydd.<br>• Gweithredu fel cynghorydd corfforaethol ar gyfer risg a chydlynu mentrau risg strategol, gan sicrhau bod rheoli risg wedi'i integreiddio o fewn yr holl strategaethau a gweithdrefnau corfforaethol.<br>• Darparu cyngor a chefnogaeth gorfforaethol ar sail gwasanaeth i sicrhau bod rheolaeth risg briodol yn cael ei chynnwys ym mhob penderfyniad ac adroddiadau eraill gan Aelodau.<br>• Hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o ymwybyddiaeth risg, gan ddangos y gallu i wella canlyniadau.<br>• Sicrhau bod rheoli risg yn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau arloesol a heriol.<br>• Annog partneriaid allanol y Cyngor i fabwysiadu dull effeithiol a thryloyw o reoli risg yn rhagweithiol.<br>• Cefnogi'r Tîm Arweinyddiaeth i gadw'r Gofrestr Risg Strategol a nodi risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.<br>• Sicrhau y cynllunnir ac y gweithredir yn systematig bolisïau, gweithdrefnau ac ymarferion ar gyfer nodi, asesu, ymdrin, monitro ac adrodd ynghylch risg.<br>• Cynllunio gwaith archwilio i ystyried risgiau allweddol, a pha mor effeithiol y cânt eu rheoli gan ddarparu sicrwydd i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, y Gofrestr Risg Strategol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| | Perchnogion Risg | • Rheoli pob agwedd ar risgiau a bennir iddynt<br>• Cael adnoddau neu gefnogaeth ychwanegol yn ôl y galw i reoli a monitro risgiau a bennir iddynt<br>• Sicrhau bod risgiau a bennir iddynt yn cael eu diweddaru'n rheolaidd mewn cofrestri risg<br>• Penderfynu ar unrhyw gamau sydd eu hangen i liniaru risgiau, sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n llawn ac yn effeithiol, a sicrhau bod y sgôr risg yn adlewyrchu effeithiau'r camau hyn. |
| | Cydlynwyr Risg | • Sicrhau bod y polisi a'r strategaeth Rheoli Risg, a'r canllawiau atodol yn cael eu hyrwyddo ac y cedwir atynt yn gyson ar draws y Gwasanaeth<br>• Sicrhau bod cofrestri risg yn cael eu datblygu, eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd ar gyfer y Gwasanaeth cyffredinol, ac adrannau / timau unigol yn ôl y galw<br>• Rhoi gwybod am gofrestr risg y Gwasanaeth i'r Tîm Rheoli Gwasanaethau yn rheolaidd, ac o leiaf unwaith bob chwarter<br>• Sicrhau bod y Gofrestr Risg Gwasanaeth yn cael ei hadrodd yn rheolaidd i'r Tîm Arweinyddiaeth ac yn rhan o Her y Gwasanaeth<br>• Bod trefniadau ar waith i ddarparu hyfforddiant, gwybodaeth, arweiniad ar reoli risg i'r holl staff perthnasol |

| | Rôl | Cyfrifoldebau |
|---|---|---|
| Pawb | Pob aelod o staff | • Datblygu dealltwriaeth ac ymgyfarwyddo â'r polisi a’r strategaeth Rheoli Risg, a’r canllawiau atodol a mynychu hyfforddiant rheoli risg yn ôl y galw.<br>• Bod yn ymwybodol o beryglon a chymryd camau i reoli risg fel rhan o'u rôl.<br>• Rhoi gwybod am risgiau ac unrhyw reolaethau aneffeithiol i reolwyr. Mae hyn yn cynnwys adrodd ynghylch damweiniau a rhai fu bron â digwydd |

## 6 Adolygiad

Bydd y ddogfen hon yn cael ei adolygu pob tair blynedd.

# Canllawiau Rheoli Risg



## Fersiwn 1.0 (Mai 2023)

**Hanes Adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | Mai 2023 | |

**Manylion cyswllt: Julie Jones ([juliejones@ynysmon.llyw.cymru](mailto:juliejones@ynysmon.llyw.cymru))**

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg. This document is available in English.

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 3
2. Proses Rheoli Risg ........ 4
   2.1. Sefydlu'r Cyd-destun ........ 5
   2.2. Asesu Risg ........ 5
   2.3. Gwerthuso Risg ........ 9
   2.4. Ymdrin â Risg ........ 10
   2.5. Cofnodi, Monitro ac Adrodd ynghylch Risg ........ 11
3. Cyfle i Reoli Risg ........ 15
4. Atodiadau ........ 17
   4.1. Terminoleg ........ 17
   4.2. Risgiau Gwasanaeth ........ 18
   4.3. Matricsau Risg ........ 19
   4.4. Canllaw 4risk ........ 21
   4.5. Dulliau i Nodi Risgiau ........ 21

# 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar y broses rheoli risg a ddefnyddir ledled Cyngor Sir Ynys Môn, boed y rhain yn risgiau strategol, gwasanaeth, prosiect, neu'n risgiau eraill.

Y nod yw sicrhau diwylliant a dull cyson a rhagweithiol o reoli risgiau, gan gydnabod gwahaniaethau rhwng risgiau strategol, gwasanaeth, prosiect neu risgiau eraill a chyfrifoldeb cyfunol am reoli risgiau sy'n wynebu'r Cyngor yn gyffredinol.

Ychydig o risgiau a chynlluniau gweithredu risg sy'n aros yn eu hunfan; mae risgiau'n newid, mae blaenoriaethau'n newid, mae camau gweithredu'n cael eu cwblhau, gall rheolaethau risg a oedd unwaith yn effeithiol ddod yn amherthnasol. Felly mae'n hanfodol monitro ac adrodd ynghylch â risgiau'n rheolaidd.


## 2. Proses Rheoli Risg

Mae'r broses rheoli risg yn barhaus. Mae'n cynnwys adnabod, blaenoriaethu ac ymdrin â risgiau.  Argymhellir bod risg yn eitem sefydlog ar raglen cyfarfodydd y tîm rheoli, gweithgorau / fforymau, byrddau prosiect a rhaglenni.

Mae'n fwy effeithiol cynnwys nifer o unigolion yn y broses risg er mwyn osgoi safbwyntiau goddrychol a chanfyddiadau risg unigol a all arwain at gamgymryd risg oherwydd effaith ffactorau hewristig a rhagfarn. Yn aml caiff pobl eu dylanwadu gan ragfarn fel:

- Gorhyder – tuedd i orbwysleisio'r tebygolrwydd y bydd canlyniadau'n gadarnhaol
- Meddwl ar sail grŵp – tuedd i gydymffurfio â safbwyntiau’r grŵp
- Angori – tuedd i ddibynnu ar un darn o wybodaeth yn hytrach na chwilio am un arall
- Cadarnhad – tuedd i chwilio am wybodaeth sy'n cefnogi'r gred sy'n bodoli eisoes.

Mae'r diagram canlynol yn darlunio'r broses rheoli risg:



## 2.1. Sefydlu'r Cyd-destun

Y cam cyntaf yw sefydlu cyd-destun y risg. Mae hyn yn fframio'r risg o ran cwmpas, amcanion / cynlluniau busnes, parodrwydd i dderbyn risg, ac unrhyw ragdybiaethau a wneir.

**Strategol**

- Y cyd-destun ar gyfer risgiau strategol yw Cynllun y Cyngor

**Gwasanaeth**

- Y cyd-destun ar gyfer risgiau gwasanaeth yw eu cynllun darparu gwasanaeth, a nodau, amcanion a phwrpas y gwasanaeth neu uned fusnes.

**Prosiect a Rhaglen**

- Y cyd-destun ar gyfer risgiau prosiect a rhaglen yw eu cynllun prosiect.

**Partneriaethau**

- Mae partneriaeth a chydweithio yn rhan annatod o'r ffordd y mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni ei uchelgeisiau. Mae'n ffordd bwysig o feithrin capasiti ac mae'n hanfodol i ddull y Cyngor o gyflawni blaenoriaethau a rennir.
- Mae risgiau'n gysylltiedig ag unrhyw bartneriaeth sydd angen ei rheoli o'r cychwyn cyntaf. Mae bob partneriaeth angen diwylliant sy'n cefnogi trefniadau wedi'u hystyried yn drylwyr o ran cymryd risg ac arloesi drwy integreiddio rheoli risg o fewn y trefniadau llywodraethu a gweithredu prosesau risg a rheoli yn gyson drwy'r holl weithgareddau partneriaethau.
- Y cyd-destun ar gyfer partneriaethau yw cynllun busnes, telerau a threfniadau llywodraethu'r bartneriaeth

## 2.2. Asesu Risg

Wedi sefydlu'r cyd-destun, mae angen asesu'r risg. Mae asesiad risg yn cynnwys tri cham - adnabod, dadansoddi, a gwerthuso risg.

### Adnabod risg

Adnabod risg yw'r broses o benderfynu pa risgiau a allai atal y Cyngor rhag cyflawni nodau ac amcanion. Mae hwn yn weithgaredd parhaus, gan mai anaml y bydd ffactorau mewnol ac allanol yn aros yn eu hunfan ac felly mae effaith a/neu debygolrwydd bod y risgiau'n digwydd yn newid yn rheolaidd.

Dylid adnabod risg mewn ffordd drefnus er mwyn sicrhau bod yr holl weithgareddau o bwys wedi'u nodi a'r holl risgiau sy'n deillio o'r gweithgareddau hyn wedi'u diffinio. Mae hyn yn gofyn am wybodaeth fanwl o'r maes / gweithgareddau sy'n cael eu hasesu a'r amgylchedd cyfreithiol, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol ehangach y mae'n bodoli ynddo. Mae cynnal dadansoddiad SWOT neu ddadansoddiad 'tei bo' neu gynnal gweithdai neu sesiynau gwyntyllu syniadau yn arbennig o ddefnyddiol wrth nodi risgiau ar gyfer maes neu weithgaredd newydd. Argymhellir sganio'r gorwel yn rheolaidd i nodi risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

**Gwasanaeth**


- Dylai ganolbwyntio ar nodau ac amcanion y gwasanaeth fel y nodir yn eu cynllun darparu gwasanaethau a'u risgiau i'r modd y gweithredir y gwasanaeth o ddydd i ddydd.
- Mae risgiau wrth ymgysylltu â chontractwyr. Mae'r rhain yn cynnwys y gallu i ddarparu gwasanaeth os yw'r contractwr yn methu â gwneud hynny neu'n methu â darparu'r nwyddau sy'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu gwasanaeth. Dylai risgiau o'r fath gael eu cofnodi yng nghofrestr risg y Gwasanaeth perthnasol.
- Mae rhestr o risgiau y dylid eu hystyried wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.2

**Prosiect a Rhaglen**

- Dylid ganolbwyntio ar y risgiau a allai effeithio ar gyflawni amcanion y prosiect / rhaglen, yr amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect / rhaglen, ac adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r prosiect / rhaglen.
- Mae angen dull deublyg o reoli risg ar gyfer partneriaethau, sef:
    - **O'r Tu Allan yn Edrych i Mewn** - y risgiau i'r Cyngor wrth gymryd rhan neu fod yn rhan o'r bartneriaeth. ***Dylid cynnwys y risgiau hyn yn y gofrestr risg gwasanaeth berthnasol***. Enghreifftiau:
        - Bod y gost i'r Cyngor o fod yn rhan o'r bartneriaeth yn uwch na chost darparu'r gwasanaeth yn uniongyrchol.
        - Nad yw'r bartneriaeth yn darparu anghenion y Cyngor na'i thrigolion.
        - Bod yr adnoddau o ran amser staff sy'n ofynnol gan y bartneriaeth yn drech na'r buddion.
    - **O'r Tu Mewn Allan** - y risgiau i'r bartneriaeth gyflawni ei hamcanion.
- Dylai pob partneriaeth o bwys ddatblygu eu cofrestr risg eu hunain sy'n berthnasol i amcanion a chynllun y bartneriaeth. Dylid datblygu hyn ar y cyd â'r holl bartneriaid. Enghreifftiau:
    - Gwahaniaethau sylfaenol mewn agendâu gwleidyddol neu bartneriaid yn gweithredu o dan drefniadau llywodraethu gwahanol.
    - Bod strategaeth a'r amcanion ar draws y bartneriaeth ddim yn cyd-fynd.
    - Diffyg sgiliau perthnasol ar draws y bartneriaeth i gyflawni'r amcanion
    - Cyfathrebu gwael neu beidio â derbyn rolau a chyfrifoldebau pob partner.

## Disgrifio Risg

Unwaith y bydd risg wedi'i adnabod, rhaid ei ddisgrifio er mwyn ei ddeall yn glir. Mae tair elfen hanfodol i'r disgrifiad:



Er mwyn cadw'r disgrifiad mor fyr â phosibl, mae'n ddefnyddiol nodi'r achosion a'r effeithiau ar wahân. Mae'r dull hwn hefyd yn ddefnyddiol o ran cyfyngu ar nifer y risgiau lle mae sawl achos ac effaith yn gysylltiedig ag un risg. Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio â bod yn rhy annelwig gan y bydd amwysedd yn gwneud y gwaith o ddadansoddi a gwerthuso'r risg yn anodd.

Enghraifft: Gallai diffinio risg fel "Staffio" gael ei ddehongli fel sawl risg gwahanol, tra bod "y risg na ellir cadw gweithwyr allweddol" yn gliriach.

## Achos ac Effaith

Mae adnabod beth allai achosi i'r digwyddiad risg ddigwydd ac effaith y digwyddiad risg yn helpu i ddewis dulliau posibl i ymdrin â risg. Mae dulliau rhagweithiol neu ataliol yn cael gwared ar yr achos neu'n lleihau'r achos ac felly'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd y digwyddiad risg yn digwydd. Mae mesurau ymatebol i ymdrin â risg yn dylanwadu ar yr effaith ac felly'n lleihau effaith y digwyddiad risg pe bai'n digwydd. Lle mae sawl achos neu effaith posibl, dylai pob un ohonynt gael eu rhestru. Enghraifft:

- Risg: methu â chadw gweithwyr allweddol.
- Achos: tâl anghystadleuol, amodau gwaith, lefelau uchel o absenoldeb neu swyddi gwag.
- Effaith: amharu ar wasanaethau, cynnydd mewn costau staffio dros dro, pwysau cynyddol ar y tîm recriwtio.

## Perchennog Risg

Mae'n rhaid i bob risg gael perchennog sy'n gyfrifol am y maes risg ac sydd ar lefel ddigon uchel i fynnu bod camau'n cael eu cwblhau.

**Strategol**

- aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth

**Gwasanaeth**

- Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Gwasanaeth neu aelod o'r Tîm Rheoli Gwasanaethau.

**Prosiect a Rhaglen**

- noddwr prosiect neu Uwch Swyddog Cyfrifol

## Dadansoddi Risg

Y cam nesaf yw dadansoddi'r risg drwy ystyried y **tebygolrwydd** y bydd y risg yn digwydd a'r **effaith** ar y sefydliad pe bai'r risg honno'n digwydd .



Gall dadansoddi risg fod yn feintiol, lled-feintiol neu ansoddol o ran y tebygolrwydd y bydd yn digwydd a'r effaith bosibl.  Mae darparu disgrifwyr o gymorth i ddadansoddi’r risg ac yn sicrhau bod y broses yn gyson.

Mae plotio'r **sgôr risg** ar gyfer pob risg ar **fatrics risg** yn golygu bod modd cymharu a blaenoriaethu risgiau.

Datblygwyd matricsau risg ar wahân ar gyfer risgiau strategol, gwasanaeth, prosiect, ac ar gyfer cyfleoedd, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.3.  Dylai pob partneriaeth ddatblygu a chytuno ar feini prawf asesu risg yn seiliedig ar baramedrau'r bartneriaeth. Er enghraifft, dylai'r raddfa tebygolrwydd adlewyrchu amserlen y bartneriaeth.

Nodwch, os yw risg yn ddigon sylweddol i'w hystyried ar lefel wahanol, mae angen ail-werthuso'r risg yn erbyn y matrics risg perthnasol.  Er enghraifft, os am ystyried risg gwasanaeth fel risg strategol mae'n rhaid ei hail-werthuso gan ddefnyddio'r matrics risg strategol.


Ar gyfer pob matrics, mae'r tebygolrwydd a'r effaith yn cael eu mesur yn rhifiadol - 1 yw’r lleiaf tebygol a'r effaith leiaf.   Er enghraifft, bydd risg strategol a ystyrir sy’n cael effaith Sylweddol os yw'n digwydd a bron yn sicr o ddigwydd yn cael sgôr risg o 25.

Mae'r lliw sy'n gysylltiedig â'r sgôr risg yn dangos **lefel y risg**, mae'r ymatebion cyffredinol i bob lefel risg wedi'i nodi yn y tabl canlynol.

| Lefel y Risg | Ymateb |
|---|---|
| Critigol | Risgiau blaenoriaeth; Uwchgyfeirio a monitro'n weithredol; Neilltuo adnoddau i liniaru |
| Mawr | Uwchgyfeirio a monitro’n rheolaidd; Yn debygol o fod angen mesurau lliniaru |
| Cymedrol | Monitro'r risg o leiaf ddwywaith y flwyddyn; Lliniaru os yw’n amlwg ac yn gost-effeithiol |
| Isel | Derbyn ond parhau i fonitro o leiaf yn flynyddol; Lliniaru os yw’n amlwg ac yn gost-effeithiol |

## Risg Gynhenid

Mae pob risg yn cael ei ddadansoddi i ddechrau ar sail gynhenid. Dyma lefel y risg cyn i fesurau i ymdrin â hi a'r rheolaethau presennol gael eu hystyried, neu mewn geiriau eraill, **y senario waethaf.**




## Rheolaethau Risg

Dyma'r dulliau sydd eisoes ar waith i leihau'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd, neu leihau effaith y risg pe bai'n digwydd.  Mae’n anghyffredin y bydd un rheolaeth risg yn dylanwadu ar yr effaith a'r tebygolrwydd. Gall dulliau ymdrin â risg fod ar ffurf gweithdrefnau, cynlluniau wrth gefn, hyfforddiant ac ati.

## Risg Weddilliol

Rhaid hefyd dadansoddi pob risg ar sail risg weddilliol.  Dyma'r lefel sy'n weddill o’r risg ar ôl i unrhyw reolaethau risg presennol gael eu hystyried neu mewn geiriau eraill, **y lefel bresennol o risg**.  Rhaid gwneud y dadansoddiad hwn gan ddefnyddio'r un matrics risg a ddefnyddir ar gyfer dadansoddi'r risg gynhenid.

### Effeithiolrwydd Rheoli Risg a Llinellau Sicrwydd

Mae'r risg weddilliol yn tybio bod yr holl reolaethau a nodwyd yn effeithiol.  Fodd bynnag, os yw rheolaeth yn methu neu'n aneffeithiol, bydd yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd neu'r effaith pe bai'r risg yn digwydd, ac yn effeithio ar y penderfyniad a oes angen triniaeth ychwanegol.  Felly mae angen asesu effeithiolrwydd pob rheolaeth.

Mae **llinellau sicrwydd** yn rhoi tystiolaeth o ba mor effeithiol yw rheolaeth risg, neu pa mor effeithiol y rheolir y risg gyfan.   Mae'r Cyngor yn defnyddio model 'Tair llinell sicrwydd'.

| Llinell Sicrwydd | Darperir gan |
|---|---|
| 1af | Perchennog y risg neu'r rheolaeth. |
| 2il | Swyddogaeth cymorth canolog, e.e. cyllid, Adnoddau Dynol, perfformiad a chyfreithiol. |
| 3ydd | Ffynonellau annibynnol e.e. archwiliad mewnol neu allanol, rheoleiddwyr allanol. |

Mae amlder a lefel y sicrwydd yn lleihau o'r llinell sicrwydd gyntaf, i'r ail linell sicrwydd, ac yna i'r trydydd lefel sicrwydd annibynnol.  Mae'r tair lefel yn bwysig a dylid eu cyflwyno a'u cofnodi.

Swyddogion sy'n gyfrifol am roi'r sicrwydd sy'n gyfrifol am ychwanegu'r sicrwydd at y gofrestr risg, gyda'r Tîm Perfformiad yn mewnbynnu ffynonellau o sicrwydd allannol.

## 2.3. Gwerthuso Risg

Pan fydd y broses dadansoddi risg wedi'i chwblhau, mae angen gwerthuso neu gymharu'r risg weddilliol yn erbyn parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg.  Mae gwerthuso risg yn helpu i benderfynu pa mor sylweddol yw risg, p'un a ddylai gael ei derbyn neu a ddylid ymdrin â hi, a blaenoriaethir risgiau ar gyfer ymdrin â nhw.

**Parodrwydd i dderbyn risg** yw'r lefel a'r math o risg y mae'r Cyngor yn fodlon ei derbyn.  Ni ddylid cymysgu neu ddrysu rhwng hyn â goddefgarwch risg, sef y lefel eithaf o risg y bydd y Cyngor yn gweithredu o'i mewn.  Mae parodrwydd y Cyngor i dderbyn wedi'i nodi yn y Ddogfen Polisi a Strategaeth Rheoli Risg ac yn gosod y ffiniau o ran faint o risg mae'r Cyngor yn credu sy'n dderbyniol a pha risgiau y mae'n anelu at eu rheoli os yw am wireddu ei amcanion.

## 2.4. Ymdrin â Risg

Mae pedwar opsiwn sylfaenol i ymdrin â risg.

| Terfynu | Ymdrin |
|---|---|
| Osgoi neu stopio proses neu weithgaredd penodol yn llwyr. Fel arall, gellid gwneud y gweithgaredd mewn ffordd wahanol | Gweithredu camau lliniaru neu fesurau rheoli i leihau'r tebygolrwydd neu effaith y risg. Mae'n anghyffredin y bydd un rheolaeth risg yn lleihau'r tebygolrwydd a'r effaith.<br>Dylid monitro rheolaethau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol.<br>Mae'r mwyafrif helaeth o opsiynau i ymdrin â risg yn dod o fewn y categori hwn. |
| Enghraifft: os yw prosiect penodol yn risg uchel iawn ac nad oes modd lliniaru'r risg gellid penderfynu canslo'r prosiect. | Enghraifft: Gall gwirio gosodiadau trydanol leihau'r tebygolrwydd o dân a gall gosod system chwistrellu leihau effaith y tân. |
| **Trosglwyddo** | **Goddef** |
| Trosglwyddo cost y risg i barti arall sy'n ysgwyddo'r risg gyfan neu ran ohoni. Nodwch, lle mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i weithredu (e.e. casglu sbwriel) mae'r atebolrwydd am fethu â gweithredu yn aros gyda'r Cyngor ac ni ellir ei drosglwyddo i'r contractwr sy'n cyflawni'r ddyletswydd ar ran y Cyngor. | Derbyn y risg a gwneud dim i'w lliniaru. Efallai na fydd bob amser yn angenrheidiol neu'n briodol cymryd camau i ymdrin â risgiau.<br>Os dangosir y risg fel un 'gwyrdd' ar ôl camau lliniaru yna mae'n debyg y gellir ei goddef.<br>Mae angen monitro ac adolygu risgiau sy'n cael eu derbyn o hyd. |
| Enghraifft: Allanoli maes gwaith i gontractwr neu brynu yswiriant. | Enghraifft: bod y gost o ymdrin â risg yn fwy na'r manteision posibl. |

Bydd angen ymdrin âg unrhyw risg sydd ar lefel uwch na'r hyn y mae'r Cyngor yn barod i'w derbyn.

Wrth werthuso pa opsiynau i'w defnyddio, ystyriwch:

- Arferion gorau presennol i ymdrin â'r risg.
- Rheolaethau critigol a fydd yn lleihau'r risg fel rhan o ymdrin â'r risg neu'r cynllun lliniaru.
- Costau sy'n gysylltiedig ag opsiynau gwahanol i ymdrin â'r risg yn erbyn buddion cysylltiedig.
- Sut mae sefydliadau eraill yn lliniaru'r un risg.

Felly, dylid canolbwyntio amser ac adnoddau ar risgiau lle mae'r risg weddilliol ar lefel uwch na'r hyn y mae'r Cyngor yn barod i'w derbyn neu ar lefel gritigol (coch).

### Cynllun Gweithredu

Pan fo'r perchennog risg yn credu bod angen cymryd cam ychwanegol, dylent gofnodi pa gamau gweithrdu sydd eu hangen, gan bwy, ac erbyn pryd yn y gofrestr risg a chyfathrebu hyn i berchennog y gweithred. Os yw penderfyniad o'r fath y tu allan i awdurdod perchennog y risg, mae'n rhaid iddyn nhw uwchgyfeirio'r penderfyniad i sylw rhywun sydd ag awdurdod.

Dylai'r camau gweithredu a nodwyd fod yn rhai CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol.)

Perchnogion camau gweithredu sy'n gyfrifol am ddiweddaru'r gofrestr risg o ran camau a bennir iddynt, yn enwedig os caiff y gwaith o gwblhau cam gweithredu ei ohirio neu os yw'n annhebygol o ddigwydd, a rhaid iddynt gadarnhau pan fydd gweithred wedi'i gwblhau.

Unwaith y bydd cam gweithredu wedi'i gwblhau, dylai'r perchennog risg ystyried yr effaith ar y sgôr risg weddilliol neu os oes rheolaeth newydd.

### Risg Darged

Os bydd camau gweithredu ychwanegol yn cael eu gweithredu, dylid cynnal dadansoddiad o'r sgôr risg disgwyliedig ar ôl cwblhau'r weithred.  Dyma'r **risg darged** ac fe'i cyfrifir gan ddefnyddio'r un matrics risg ag a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddi'r lefelau risg cynhenid a gweddilliol.

## 2.5. Cofnodi, Monitro ac Adrodd ynghylch Risg

### Cofrestr Risg

Mae canfyddiadau pob cam o'r broses rheoli risg yn cael eu cofnodi yn y gofrestr risg.  4risk yw'r dull sy'n cael ei ffafrio gan y Cyngor ar gyfer cofnodi cofrestri risg.

**Strategol**

- Bydd y Rheolwr Risg ac Yswiriant yn hwyluso'r gwaith o gynnal a diweddaru'r gofrestr risg strategol ar ran y Tîm Arweinyddiaeth.

**Gwasanaeth**

- Bydd pob Gwasanaeth yn cynnal ac yn diweddaru eu cofrestr risg eu hunain.
- Efallai bydd gwasanaethau mawr neu'r rhai sydd ag unedau busnes penodol yn penderfynu cadw cofrestri risg ar gyfer pob un neu rai timau o fewn y gwasanaeth.  Bydd cyfrifoldeb dros gynnal cofrestri risg o'r fath yn cael ei benderfynu o fewn y gwasanaeth.

**Prosiect a Rhaglen**

- Bydd rheolwyr prosiect a rhaglen yn cynnal a diweddaru cofrestri risg prosiect a rhaglen

### Monitro

Mae’n hanfodol monitro bob cam o'r broses rheoli risg yn rheolaidd.

Mae monitro risgiau unigol yn rheolaidd yn sicrhau bod y tebygolrwydd a'r effaith yn parhau i fod yn gynrychioliadol, bod y rheolaethau'n parhau i fod yn berthnasol, a ph’un ai a yw camau gweithredu ar y trywydd iawn.  Mae amlder yr adolygiad yn dibynnu ar lefel y risg; po uchaf fo lefel y risg, yr amlaf y cynhelir yr adolygiad.  Hefyd dylid adolygu risgiau ar ôl unrhyw ddigwyddiad arwyddocaol. rhyddhau deddfwriaeth newydd neu ganllawiau'r llywodraeth ac ar ôl archwiliad.

Mae monitro cofrestri risg yn eu cyfanrwydd yn rheolaidd yn sicrhau eu bod yn rhoi cynrychiolaeth gyffredinol deg o'r risg i'r sefydliad a bod lefel y risgiau'n dal yn gymharol â'i gilydd.

Dylai risgiau ymddangos fel eitem sefydlog ar agenda timau rheoli (ar bob lefel o fewn y sefydliad), gweithgorau/ fforymau corfforaethol lle bo hynny'n briodol, byrddau prosiect a rhaglen, a chyfarfodydd partneriaeth, fel y gellir nodi a chofnodi risgiau. Dylai trafodaethau ar risg gynnwys y canlynol:

- oes unrhyw risgiau ar goll o'r gofrestr risg.
- adolygu'r risgiau presennol
- effeithiolrwydd y rheolaethau presennol
- ydi'r camau gweithredu ar y trywydd iawn
- materion a risgiau newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg

**Strategol**

- Bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn adolygu'r gofrestr risg Strategol yn ei chyfanrwydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn.
- Bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn adolygu nifer fechan o risgiau strategol bob mis.

**Gwasanaeth**

- Mae gwasanaethau yn gyfrifol am fonitro a diweddaru eu cofrestri risg. Anogir gwasanaethau i adolygu eu cofrestri risg o leiaf unwaith y chwarter.

**Prosiect a Rhaglen**

- Dylid monitro risgiau ar ddechrau pob cam o'r prosiect / rhaglen er mwyn sicrhau nad ydynt yn effeithio ar gerrig milltir allweddol.

**Partneriaeth**

- Dylai'r bartneriaeth gytuno ar y gwaith parhaus o fonitro'r proffil risg a chynnydd y cynllun gweithredu, ac amlder a chynnwys adroddiadau risg

## Effeithiolrwydd Rheoli Risg

Mae monitro effeithiolrwydd rheolaethau yn rheolaidd yn sicrhau bod y sgôr risg weddilliol yn adlewyrchiad cywir o'r risg. Mae gwahanol ddulliau o fonitro effeithiolrwydd rheolaethau gan gynnwys:

- adolygiadau cyfnodol lle gwneir dyfarniad
- llinellau sicrwydd
- dulliau ffurfiol o brofi'r rheolaethau
- sefydlu dangosyddion rheoli allweddol (DRhA)

## Dangosyddion Allweddol

Gall y rhain helpu'r broses fonitro.

| Dangosyddion Perffomriad Allweddol | Dangosyddion Risg Allweddol | Dangosyddion Rheoli Allweddol |
|---|---|---|
| • monitro cynnydd a'r hyn a gyflawnwyd gan y strategaeth rheoli risg. | • dangosyddion rhybudd cynnar i fonitro achos y risg, sicrhau bod y broses o fonitro risg yn rhagweithiol yn hytrach nag yn ymatebol.<br>• dangosydd newid o ran y tebygolrwydd neu effaith risg, yn rhoi arwydd cynnar o'r cynnydd yn yr amlygiad i risg ac o gymorth i'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer lliniaru risg | • dangosyddion rhybudd cynnar ar gyfer rheolaethau risg allweddol<br>• Pan fo rheolaethau'n aneffeithiol neu'n llai effeithiol, dylid adolygu lefel y risg weddilliol. |

## Adrodd ynghylch Risg ac Uwchgyfeirio

### Uwchyfeirio Risg

Mae hyn yn sicrhau bod risgiau sylweddol yn cael eu huwchgyfeirio a'u dwyn i sylw'r person neu'r grŵp priodol ac mae'n angenrheidiol i sicrhau bod y penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud a chamau'n cael eu gweithredu i liniaru'r risg.

Mae sicrhau bod gwybodaeth risg ar gael yn amserol i'r bobl gywir yn hanfodol i'r broses o uwchgyfeirio risg. Nid oes cyfyngiad ar yr hyn y gellir ei uwchgyfeirio i weithredu arno; y meini prawf allweddol yw bod angen rhyw fath o ymyrraeth gan reolaeth sy'n uwch.

Perchnogion risg unigol sy'n gyfrifol am uwchgyfeirio risgiau drwy'r hierarchaeth reoli arferol. Er y gallai fod yn briodol cynnwys risg mewn cofrestr risg wahanol, gall y cyfrifoldeb am fynd i'r afael â'r risg aros gyda'r perchennog risg gwreiddiol.  Dylid hysbysu'r Tîm Arweinyddiaeth o unrhyw risg sy'n uwch na lefel parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg; fodd bynnag, bydd cyfrifoldeb dros reoli'r risgiau hynny fel arfer yn aros gyda pherchennog y risg ond gyda mwy o graffu gan y Tîm Arweinyddiaeth.

### Adrodd ynghylch Risg

Mae adrodd ynghylch risg yn cynnig llawer o fanteision gan gynnwys caniatáu i sefydliadau ddangos dealltwriaeth o'r risgiau sy'n eu hwynebu a'r ffordd orau o ddelio â nhw. Mae hyn yn rhoi mwy o hyder yng ngallu'r sefydliad i liniaru risg a sicrwydd bod risgiau'r Cyngor yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n dda.  Mae hefyd yn dangos arweinyddiaeth effeithiol a bod y gwaith o reoli risg yn cael ei integreiddio i'r trefniadau llywodraethu ehangach.

Dylai'r broses o adrodd risg ddilyn trefn adrodd arferol y Cyngor i gefnogi gwell penderfyniadau a sicrhau bod cynllunio a rheoli yn rhan annatod a thryloyw.  Mae cyfathrebu risg yn llorweddol ac yn fertigol o fewn y Cyngor yn hanfodol i'r broses hon gan nad oes modd ystyried risgiau ar wahân a gall rheoli un risg effeithio ar un arall.

Nid oes un ffordd benodol o adrodd ynghylch risg, fodd bynnag, mae adroddiadau cryno gyda ffocws sy’n seiliedig ar wybodaeth o ansawdd da yn allweddol i sicrhau bod adroddiadau'n hawdd i’w deall, yn ymarferol ac y gellir eu defnyddio'n hawdd wrth wneud penderfyniadau. Dylai data sy'n cael ei goladu ar gyfer dadansoddi fod yn ystyrlon i gefnogi’r broses o wneud penderfyniadau ac wedi'i gyflwyno mewn ffordd gryno a hygyrch sy'n canolbwyntio ar bwyntiau allweddol.

Os oes angen penderfyniad, dylid mynegi unrhyw risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad yn glir mewn ffordd gryno a hygyrch i'r rhai sydd â'r awdurdod i wneud y penderfyniad hwnnw. Mae hyn yn cynnwys risgiau a chyfleoedd i fwrw ymlaen â gweithgaredd neu roi'r gorau iddo, a pheidio â bwrw ymlaen â gweithgaredd neu roi'r gorau i weithgaredd.

**Strategol**

- Yn adrodd i'r Pwyllgor Gwaith anffurfiol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y gofrestr risg strategol gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau i'r risgiau strategol, unrhyw risgiau newydd a nodwyd ac unrhyw risgiau sydd wedi'u cwblhau i'r pwyllgorau hyn ddwywaith y flwyddyn.

**Gwasanaeth**

- Craffir ar risgiau i wasanaeth yn ystod cyfnodau Her y Gwasanaeth
- Dylid cyflwyno cofrestri risg gwasanaeth i'r Aelod Portffolio o leiaf bob blwyddyn

**Prosiect a Rhaglen**

- Dylid integreiddio adrodd ynghylch risg gyda threfn adrodd a sefydlwyd. Fel arfer y Rheolwr Prosiect > Uwch Swyddog Cyfrifol > Bwrdd Prosiect > Tîm Arweinyddiaeth

**Partneriaethau**

- Dylai pob partner dderbyn copïau o'r gofrestr risg ac unrhyw adroddiadau risg o leiaf unwaith y flwyddyn ac uwchgyfeirio pryderon o fewn y broses reoli arferol

## 3. Cyfle i Reoli Risg

Os mai dim ond risgiau sy'n fygythiad a reolir, y canlyniad gorau a ddisgwylir yw bodloni'r amcanion a addawyd ond heb fyth wella arnynt. Mae nodi a rheoli cyfleoedd felly yn cael eu hannog o fewn parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg. Mae'r broses ar gyfer cyfle i reoli risg yn parhau i fod yn debyg i'r hyn a amlinellir yn adran 2 gyda'r ystyriaethau canlynol:

### Asesu Risg

Mae'n bwysig adnabod cyfleoedd go iawn ac nid yn unig cofnodi'r ochr arall i fygythiadau. Mae dadansoddiad SWOT yn adnodd defnyddiol i adnabod cyfleoedd.

### Matrics Risg

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TEBYGOLRWYDD** | Canlyniad ffafriol yn debygol o gael ei sicrhau mewn llai na 12 mis | Tebygol | 3 | | | |
| | Siawns resymol o gael canlyniad ffafriol yn y 2 flynedd nesaf | Posibl | 2 | | | |
| | Rhywfaint o siawns o gael canlyniad ffafriol yn y 5 mlynedd nesaf | Annhebygol | 1 | | | |
| | | | | 1 | 2 | 3 |
| | | | | Mân | Cymedrol | Sylweddol |
| | | Amcanion | | Ychydig o effaith neu ddim effaith bositif | Rhywfaint o effaith bositif | Effaith gadarnhaol nodedig |
| | | Darparu Gwasanaeth | | Ychydig o effaith ar naill ai ansawdd neu ddarpariaeth | Gwella ansawdd neu ddarpariaeth | Gwelliant nodedig mewn ansawdd a darpariaeth |
| | | Budd Ariannol | | <£250k | £250k - £1m | >£1m |
| | | Enw da | | Ychydig o effaith neu ddim effaith | Cydnabyddiaeth leol | Cydnabyddiaeth genedlaethol |
| | | **EFFAITH** | | | | |

## Ymdrin â Chyfleoedd

Bydd y parodrwydd i dderbyn risg yn cael dylanwad ar sut yr ymdrinnir â chyfleoedd.

Mae pedwar ymateb sylfaenol i gyfleoedd.

| Manteisio | Rhannu |
|---|---|
| Manteisio yw pan na chymerir unrhyw gamau ond os yw'r risg yn digwydd, yn hytrach manteisir ar y risg, a'i ddefnyddio. | Gweithio gyda sefydliad arall i rannu'r gost, yr adnoddau a'r wybodaeth er mwyn gwireddu'r cyfle. |
| Enghraifft: Gwerthu cyfranddaliadau os yw'r pris yn codi i lefel na welwyd ei debyg o'r blaen. | Enghraifft: Sefydlu cwmni newydd dan berchnogaeth ar y cyd â sefydliad arall. |
| **Gwella** | **Gwrthod** |
| Cymryd camau i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd digwyddiad yn digwydd a / neu effaith pe bai'r cyfle yn digwydd. Nid yw hyn yr un peth â Manteisio, ond bydd gwneud rhai pethau yn rhoi mwy o siawns fod y cyfle ar gael. | Nodi cyfle ond penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau. |
| Enghraifft: Ychwanegu mwy o adnodd i leihau amser neu cynnig hyfforddiant i wella ansawdd. | Enghraifft: Mae'r gost / adnoddau ychwanegol sydd eu hangen yn fwy na'r enillion posibl. |

## Monitro ac Adrodd

Dylid integreiddio monitro ac adrodd am gyfleoedd gyda threfn adrodd risg a sefydlwyd. Hefyd, dylid amlygu cyfleoedd yn glir mewn adroddiadau ochr yn ochr ag unrhyw risgiau.

# 4. Atodiadau

## 4.1. Terminoleg

| Gair/term | Diffiniad |
|---|---|
| Cam / Cynllun Gweithredu | Cam ychwanegol i liniaru'r risg ymhellach. Mae'r cynllun gweithredu yn nodi'r hyn sy'n ofynnol, gan bwy ac erbyn pryd. |
| Perchennog Cam Gweithredu | Yr unigolyn neu'r grŵp o bobl sydd â'r dasg o gwblhau cam gweithredu. |
| Sicrwydd (Llinellau) | Tystiolaeth o ba mor effeithiol y mae risg yn cael ei rheoli. |
| Achos | Amgylchiadau a allai arwain at ddigwyddiad risg. |
| Rheolaeth | Y camau sydd eisoes ar waith i leihau'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd, neu leihau effaith y risg pe bai'n digwydd. |
| Perchennog sy'n Rheoli | Yr unigolyn neu'r grŵp o bobl sydd â'r dasg o weithredu rheolaeth. |
| Effaith | Y canlyniad os bydd digwyddiad risg yn digwydd. |
| Risg Gynhenid | Lefel y risg cyn i'r camau a'r mesurau rheoli presennol gael eu hystyried - y senario gwaethaf. |
| Mater | Digwyddiad neu sefyllfa sydd eisoes yn bodoli. |
| Tebygolrwydd | Pa mor ddibygol yw'r risg o ddigwydd. |
| Cyfle | Canlyniad neu effaith positif risg. |
| Partneriaeth | Trefniant gwaith ar y cyd lle mae'r partneriaid fel arall yn gyrff annibynnol, yn cytuno i gydweithredu er mwyn cyrraedd nod cyffredin o gydlyniant cymunedol a'i gyflawni, creu strwythur neu broses sefydliadol a rhaglen y cytunwyd arni. |
| Rhaglen | Strwythur sefydliad hyblyg dros dro a grëwyd i gydlynu, cyfarwyddo a goruchwylio'r gwaith o weithredu set o brosiectau a gweithgareddau cysylltiedig. |
| Prosiect | Strwythur dros dro sy'n cael ei greu er mwyn darparu un neu fwy o amcanion busnes yn unol ag achos busnes y cytunwyd arno. |
| Risg Weddilliol | Lefel y risg sy'n ar ôl wedi i unrhyw reolaethau risg presennol gael eu ystyried - y lefel risg bresennol. |
| Risg | Effaith ansicrwydd ar amcanion. |
| Asesu Risg | Y broses o adnabod, dadansoddi a gwerthuso risg. |
| Parodrwydd i Dderbyn Risg | Y lefel a'r math o risg y mae sefydliad yn ceisio ei gadw / ei gymryd. |
| Cydlynydd Risg | Y swyddig sydd yn arwain ar hyrwyddo a gwreiddio rheoli risg o fewn eu Gwasanaeth. |
| Diwylliant Risg | Gwerthoedd, agweddau a dealltwriaeth sefydliad mewn perthynas â'r risgiau y mae'n eu hwynebu. |
| Digwyddiad Risg | Set arbennig o amgylchiadau. |
| Lefel Risg | Arwyddocâd y risg o ran tebygolrwydd ac effaith a ddangosir fel coch, ambr, melyn neu wyrdd. |
| Rheoli Risg (Proses) | Y broses o nodi, asesu, a mynd i'r afael â'r risgiau sydd ynghlwm â gweithgareddau yn drefnus. |
| Matrics Risg | Darlun gweledol o'r berthynas rhwng tebygolrwydd ac effaith risg. |
| Aeddfedrwydd Risg | Lefel, dealltwriaeth ac effeithiolrwydd y modd y rheolir risg gan sefydliad. |
| Perchennog Risg | Yr unigolyn neu'r grŵp o bobl sydd â'r dasg o reoli, monitro ac adrodd ynghylch risg. |
| Cofrestr Risg | Y ddogfen sy'n cofnodi canlyniad yr asesiad risg a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig. |
| Sgôr Risg | Y cyfuniad o'r tebygolrwydd a'r effaith. |
| Ymdrin â Risg | Y broses o ddewis a gweithredu mesurau i addasu'r risg. |
| Risg Darged | Y lefel ddisgwyliedig o risg unwaith y bydd y cynllun gweithredu'n cael ei gwblhau. |

## 4.2. Risgiau Gwasanaeth

Mae'r tabl isod yn cynnwys rhai o'r risgiau a allai fod yn berthnasol i wasanaethau.

| Categori | Enghreifftiau |
|---|---|
| Partneriaethau | • y risg i'r Gwasanaeth o fod yn rhan o bartneriaeth o ran gwerth am arian, effeithlonrwydd, niwed i enw da ayb |
| Data | • colli neu ddatgelu ar gam<br>• atal mynediad<br>• cadw a dinistrio<br>• gwybod pa ddata a gedwir a ble<br>• ansawdd y data a gedwir<br>• hygyrchedd y data yn y dyfodol |
| Iechyd a diogelwch | • staff<br>• defnyddwyr gwasanaeth<br>• contractwyr<br>• aelodau o'r cyhoedd |
| Parhad busnes | • colli TG neu deleffoni<br>• argaeledd staff<br>• colli adeiladau / llety<br>• mynediad i gofnodion |
| Polisi'r Gymraeg | • torri'r safonau |
| Contractau | • caffael nwyddau a gwasanaethau<br>• rheoli contract<br>• risgiau'r gadwyn gyflenwi |
| Staffio | • salwch<br>• absenoldeb<br>• swyddi gwag<br>• hyfforddiant a sgiliau<br>• rheolaeth |
| Twyll | • gan staff<br>• gan bartïon allanol |
| Amgylcheddol | • effaith tywydd eithafol<br>• llygredd<br>• ôl troed carbon |
| Ariannol | • cyllideb termau real llai |
| Deddfwriaeth | • newidiadau mewn deddfwriaeth<br>• deddfwriaeth newydd |

## 4.3. Matricsau Risg

### Matrics Risg Strategol

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TEBYGOLRWYDD | O fewn y 3 mis nesaf | Bron yn sicr | 5 | | | | | |
| | O fewn y 12 mis nesaf | Tebygol | 4 | | | | | |
| | O fewn y 2 flynedd nesaf | Posibl | 3 | | | | | |
| | O fewn y 5 mlynedd nesaf | Annhebygol | 2 | | | | | |
| | Ddim o fewn y nesaf mewn 25 mlynedd | Prin | 1 | | | | | |
| MÂN | | CYMEDROL | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| MAWR | | CRITIGOL | | Dibwys | Mân | Cymedrol | Mawr | Sylweddol |
| Amcanion | | | | Mân oedi cyn cyflawni amcanion | Gostyngiad yng nghwmpas neu ansawdd amcan eilaidd | Mae gostyngiad mewn cwmpas neu ansawdd prif amcan neu gyflawniad amcan eilaidd yn cael ei ohirio'n sylweddol | Cyflawni prif amcan yn cael ei ohirio'n sylweddol neu ni ellir bodloni amcan eilaidd | Ni ellir bodloni prif amcan |
| Enw da | | | | Pryder y cyhoedd wedi'i gyfyngu i gwynion lleol | Ychydig o sylw negyddol lleol / cyhoeddus yn y cyfryngau | Sylw negyddol sylweddol yn lleol neu ychydig yn negyddol yn rhanbarthol neu genedlaethol yn y cyfryngau | Beirniadaeth ranbarthol neu genedlaethol negyddol ddifrifol | Condemniad rhanbarthol a chenedlaethol hir |
| Cost ariannol | | | | <£100k | £100k - £500k | £500k - £2m | £2m - £5m | >£5m |
| Iechyd a Diogelwch | | | | Damwain fu bron digwydd neu fân anaf ddim angen unrhyw driniaeth feddygol broffesiynol | Mân anaf angen triniaeth feddygol broffesiynol | Anaf difrifol | Anaf sy'n newid bywyd | Marwolaeth |
| Diogelu | | | | Dim effaith diogelu | Un achos o ddiffyg cydymffurfio â gweithdrefnau | Parhau i beidio â chydymffurfio â gweithdrefnau | Un achos o ddiogelu | Digwyddiadau diogelu lluosog a chysylltiedig |
| Rheoleiddio | | | | Dim effaith rheoleiddio | Digwyddiad adroddadwy i'r rheoleiddiwr, dim angen dilyn i fyny | Adrodd am dorri rheoliadau i reoleiddiwr sy'n gofyn am gamau unioni ar unwaith | Cosb gan reoleiddiwr sy'n arwain at ddirwyon neu ymyrraeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael prosiect i unioni'r sefyllfa | Cosb gan reoleiddwyr sy'n arwain at ddirwyon sylweddol ac/neu ymyrraeth ar raddfa fawr |
| Amgylcheddol | | | | Mân effaith tymor byr | Effaith tymor byr nad oes angen fawr o adnoddau i'w datrys | Effaith tymor byr sy'n gofyn am adnoddau sylweddol i'w datrys | Effaith tymor byr difrifol neu ryw effaith hirdymor | Effaith ddifrifol a hirdymor |
| EFFAITH | | | | | | | | |

## Matrics Risg Gwasanaeth

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TEBYGOLRWYDD | O fewn y 3 mis nesaf | Bron yn sicr | 5 | | | | | |
| | O fewn y 12 mis nesaf | Tebygol | 4 | | | | | |
| | O fewn y 2 flynedd nesaf | Posibl | 3 | | | | | |
| | O fewn y 5 mlynedd nesaf | Annhebygol | 2 | | | | | |
| | Ddim o fewn y nesaf mewn 25 mlynedd | Prin | 1 | | | | | |
| MÂN | | CYMEDROL | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| MAWR | | CRITIGOL | | Ansylweddol | Bach | Cymedrol | Mawr | Catastroffig |
| Gwasanaeth | | | | Dim effaith ar ansawdd gwasanaeth; mân oedi cyn darparu gwasanaethau sydd ddim yn hanfodol | Mân effaith ar ansawdd y gwasanaeth, oedi byr iawn o ran darparu un gwasanaeth critigol, neu oedi sylweddol i weithrediadau eraill | Gostyngiad sylweddol yn ansawdd y gwasanaeth, tarfu yn y tymor byr ar wasanaethau critigol, neu tarfu am hir ar weithrediadau eraill | Tarfu am hir ar un gwasanaeth critigol | Tarfu am hir ar wasanaethau critigol lluosog |
| Enw da | | | | Pryder y cyhoedd wedi'i cyfyngu i gwynion lleol | Ychydig o sylw negyddol lleol / cyhoeddus yn y cyfryngau | Sylw negyddol sylweddol yn lleol neu ychydig yn negyddol yn rhanbarthol neu genedlaethol yn y cyfryngau | Beirniadaeth ranbarthol neu genedlaethol negyddol ddifrifol | Condemniad rhanbarthol a chenedlaethol hir |
| Cost ariannol (% o gyllideb Gwasanaeth net) | | | | <1% | 1% - 10% | 10% - 25% | 25% - 50% | >50% |
| Iechyd a Diogelwch | | | | Damwain fu bron digwydd neu fân anaf ddim angen unrhyw driniaeth feddygol broffesiynol | Mân anaf angen triniaeth feddygol broffesiynol | Anaf difrifol | Anaf sy'n newid bywyd | Marwolaeth |
| Diogelu | | | | | Achos prin o ddiffyg cydymffurfio â gweithdrefnau | Parhau i beidio â chydymffurfio â gweithdrefnau | Achos prin o ddiogelu | Digwyddiadau diogelu lluosog a chysylltiedig |
| Rheoleiddio | | | | | Digwyddiad adroddadwy i'r rheoleiddiwr, dim angen dilyn i fyny | Adrodd am dorri rheoliadau i reoleiddiwr sy'n gofyn am gamau unioni ar unwaith | Cosb gan reoleiddiwr sy'n arwain at ddirwyon neu ymyrraeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael prosiect i unioni'r sefyllfa | Cosb gan reoleiddwyr sy'n arwain at ddirwyon sylweddol ac/neu ymyrraeth ar raddfa fawr |
| Amgylcheddol | | | | Mân effaith tymor byr | Effaith tymor byr nad oes angen fawr o adnoddau i'w datrys | Effaith tymor byr sy'n gofyn am adnoddau sylweddol i'w datrys | Effaith tymor byr difrifol neu ryw effaith hirdymor | Effaith ddifrifol a hirdymor |
| EFFAITH | | | | | | | | |

## Matrics Risg Prosiect

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TEBYGOLRWYDD | Bron yn sicr | 5 | | | | |
| | Tebygol | 43 | | | | |
| | Posibl | 3 | | | | |
| | Annhebygol | 2 | | | | |
| | Prin | 1 | | | | |
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| | | | Dibwys | Mân | Cymedrol | Mawr |
| Cwmpas / Amcanion | | | ychydig | angen cymeradwyaeth SRO | angen cymeradwyaeth y Bwrdd | methu â bodloni amcanion neu gwmpas |
| Cost | | | cynnydd <5% | cynnydd 5%-10% | cynnydd 10%-20% | cynnydd >20% |
| Amserlen | | | mân lithriad | cynnydd 5%-10% | llithriad sylweddol | cynnydd >20% |
| EFFAITH | | | | | | |

## 4.4. Canllaw 4risk

Mae canllaw defnyddwyr ar wahân ar gael ar gyfer 4risk.

## 4.5. Dulliau i Nodi Risgiau

### Dadansoddiad SWOT

Mae dadansoddiad SWOT yn adnodd cynllunio sy'n ceisio adnabod Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a'r Bygythiadau sy'n rhan o brosiect neu sefydliad. Mae'n fframwaith ar gyfer paru nodau, rhaglenni a chapasiti sefydliad i'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo.

Dim ond ymarfer casglu data yw'r 'SWOT' ei hun - mae'r dadansoddiad yn dilyn yn ddiweddarach.


- **Cryfderau** – nodweddion diriaethol ac anniriaethol cadarnhaol, yn fewnol i'r sefydliad ac o fewn rheolaeth y sefydliad.
- **Gwendidau** – ffactorau mewnol o fewn rheolaeth sefydliad sy'n amharu ar allu'r sefydliad i gyrraedd y nod a ddymunir. Pa feysydd allai'r sefydliad eu gwella?
- **Cyfleoedd** – ffactorau deniadol allanol sy'n cynrychioli'r rheswm i sefydliad fodoli a datblygu. Pa gyfleoedd sydd ar gael yn yr amgylchedd, a fydd yn hywyddo'r sefydliad? Nodwch nhw yn ôl eu 'hamserlen'.
- **Bygythiadau** – ffactorau allanol sydd y tu hwnt i reolaeth y sefydliad a allai olygu bod cenhadaeth neu weithrediad y sefydliad mewn perygl. Gall y sefydliad elwa drwy gael cynlluniau wrth gefn i fynd i'r afael â nhw pe baent yn digwydd. Dylid eu dosbarthu yn ôl eu difrifoldeb a'u tebygolrwydd o ddigwydd.

| FFACTORAU MEWNOL | |
|---|---|
| Cryfderau | Gwendidau |
| | |
| **FFACTORAU ALLANOL** | |
| Cyfleoedd | Bygythiadau |
| | |

## Dadansoddiad 'Tei Bo'

Darlun graffigol o'r llwybrau o achosion digwyddiad neu risg i'w ganlyniadau yw dadansoddiad 'bow tie'.

Gall adnabod gwahanol achosion a all arwain at y risg helpu adnabod rheolaethau i atal neu leihau'r tebygolrwydd fod y risg yn digwydd. Yn yr un modd, gall nodi'r gwahanol effeithiau pe bai'r risg yn digwydd helpu i adnabod camau lliniaru y gellir eu rhoi ar waith i leihau'r effeithiau hynny.



This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer: | **Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn** |
| Dyddiad: | **28/06/2023, 18/07/2023, 12/09/2023** |
| Pwnc / Testun: | **Ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Cynghorydd Carwyn Elias Jones (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer)** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro) lynnball@ynysmon.llyw.cymru** |
| Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost: | **Mared Wyn Yaxley (Cyfreithiwr Llywodraethu Corfforaethol) 01248 752568 maredyaxley@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Nid yw'n fater lleol** |

## A – Argymhelliad

**Argymhelliad:**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio dod i gytundeb ynglŷn ag ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (y PGD) i gynnwys y ddarpariaeth ganlynol:

> *"Pan fydd angen trafodaeth, penderfyniad ar ddewis lleol neu ymateb i ymgynghoriad mewn perthynas â materion cyfansoddiadol, gall y Swyddog Monitro, gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor, gyflwyno materion o'r fath i'w hystyried gan y Pwyllgor cyn gwneud unrhyw argymhelliad terfynol i'r Cyngor llawn neu cyn anfon unrhyw ymateb i ymgynghoriad ("y cynnig")"*

- Gofynnir i'r PGD argymell bod y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn yn cymeradwyo'r cynnig;
- Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell y cynnig i'r Cyngor llawn ynghyd â'r newidiadau angenrheidiol i Gyfansoddiad y Cyngor yn sgîl hynny; a
- Gofynnir i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r cynnig a'r newidiadau cyfansoddiadol angenrheidiol o ganlyniad i'r newid/ychwanegiad i gylch gorchwyl y PGD.

## A – Rhesymau

**Rhesymau:**



**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

1. **Y trefniadau presennol ar gyfer newid y Cyfansoddiad:**

1.1. Rhaid i bob Cyngor fabwysiadu a chynnal Cyfansoddiad sy'n cynnwys gwybodaeth benodol ynglŷn â threfniadau llywodraethu'r Cyngor.

1.2. Mae dwy ffordd y gellir newid Cyfansoddiad y Cyngor:-

1.2.1. gan y Cyngor llawn, wedi i'r mater gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith (adran 2.15.2 o'r Cyfansoddiad) neu

1.2.2. gan y Swyddog Monitro o dan yr awdurdod cyfyngedig sydd wedi ei ddirprwyo iddynt ar gyfer gwneud newidiadau cyfansoddiadol ôl-ddilynol (Adran 3.5.3.6.6 o'r Cyfansoddiad).

2. **Y cynnig:**

2.1. Yn achos rhai materion, sy'n debygol o arwain at newidiadau cyfansoddiadol a fydd yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn, mae'n bwysig bod yr opsiynau / manteision / anfanteision yn cael eu trafod yn fanwl cyn y gwneir penderfyniad. Nid yw'n bosib trafod materion mewn llawer o fanylder yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn.

2.2. Felly cynigir bod y PGD, dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn 2.1 uchod, yn gwneud y gwaith hwn ar ran y Cyngor. Bydd y PGD hefyd yn ymateb i ymgynghoriadau yn ymwneud â materion cyfansoddiadol.

2.3. Mae'r opsiynau eraill yn cynnwys sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen unigol ar gyfer pob darn o waith, neu sefydlu is-bwyllgor sefydlog o'r Cyngor. Fodd bynnag, awgrymir mai newid cylch gorchwyl y PGD yw'r ateb mwyaf ymarferol, oherwydd:

(a) Mae'r PGD yn ofyniad statudol ac mae wedi'i sefydlu'n barod;

(b) Mae'n Bwyllgor â chydbwysedd gwleidyddol; ac

(c) Mae'r cynnig yn cydweddu'n dda â rôl statudol y PGD.

3. **Cylch gorchwyl deddfwriaethol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:**

3.1. O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n rhaid i'r Cyngor benodi PGD.

3.2. Mae cylch gorchwyl y PGD hefyd wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth, ac mae'n cynnwys penodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â'r

ddarpariaeth honno (adran 11 o Fesur 2011). Mae'r materion a ystyrir yn "swyddogaethau gwasanaethau democrataidd" wedi'u rhestru yn adran 9 o Fesur 2011.

3.3. Mae cylch gorchwyl cyfredol y PGD wedi'i gynnwys yn adran 3.4.12 o Gyfansoddiad y Cyngor.

## 4. Ymestyn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

4.1. Er bod Mesur Llywodraeth Leol 2011yn mynnu bod rhaid i'r Cyngor sefydlu PGD, mae'n ei atal rhag dyrannu swyddogaethau i'r pwyllgor sydd y tu hwnt i'w ddyletswyddau statudol (adran 16).

4.2. Awgrymir bod y cynnig yn ddehongliad rhesymol, ond cyffredinol, o ddyletswydd statudol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i "*adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, llety ac* ***adnoddau eraill*** *[pwyslais gennyf i] i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd*".

## 5. Y cynnig i ymestyn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

5.1. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys cylch gorchwyl cyfredol y PGD, gyda'r newidiadau arfaethedig wedi'u marcio.

5.2. Ni ragwelir y bydd pob newid cyfansoddiadol yn cael ei ystyried neu ei drafod gan y PGD; bydd hynny'n digwydd dim ond pan fydd angen trafodaeth neu benderfyniad ar ddewis lleol neu er mwyn cytuno ar ymateb i unrhyw ymgynghoriad ar faterion sy'n effeithio ar Gyfansoddiad y Cyngor. Y Swyddog Monitro, gyda chytundeb Cadeirydd y PGD, fydd yn penderfynu p'un ai a fydd mater penodol yn cael ei adolygu gan y PGD.

5.3. Bydd gan y PGD y pŵer i gyflwyno argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â newidiadau cyfansoddiadol arfaethedig yn unig; ni fydd ganddo'r pŵer i wneud y newidiadau hynny.

## 6. Newidiadau o ganlyniad:

6.1. Yn ogystal â newid cylch gorchwyl y PGD, rhaid newid Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn adlewyrchu rôl ychwanegol y PGD mewn perthynas â materion cyfansoddiadol.

6.2. Mae'r geiriad arfaethedig yn **Atodiad 2** yr adroddiad yn adlewyrchu'r newid hwn, ac mae'r newidiadau wedi'u marcio.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| **<u>Dim newid:</u>**<br><br>Nid yw'r trefniadau presennol yn caniatáu edrych yn fanwl ar newidiadau cyfansoddiadol; yn enwedig pan fo mwy nag un opsiwn ar gael. Byddai'n fanteisiol pe byddai cyfle o'r fath ar gael. Mae angen llawer iawn o drafodaeth wrth ymateb i ymgynghoriadau yn ogystal, ac nid yw hyn yn bosib yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn. Hefyd, nid yw amserlenni ymgynghoriadau a chyfarfodydd y Cyngor bob amser yn cyd-fynd. Byddai hefyd yn fanteisiol fel rhan o'r broses pe byddai'r PGD yn meithrin arbenigedd o ran materion cyfansoddiadol.<br><br>**<u>Opsiynau eraill:</u>**<br><br>Eir i'r afael â'r rhain yn adran 2.3 uchod ac maent yn cynnwys:<br>- sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen yn ôl y galw, neu<br>- sefydlu is-bwyllgor sefydlog o'r Cyngor.<br><br>Fodd bynnag, bernir mai diwygio cylch gorchwyl y PGD yw'r opsiwn mwyaf ymarferol oherwydd bod y PGD eisoes wedi'i sefydlu fel Pwyllgor statudol, mae ganddo gydbwysedd gwleidyddol ac mae'r cynnig yn cyd-fynd yn rhesymol â chyfrifoldebau cyfredol y PGD. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Dim ond y Cyngor all gymeradwyo newidiadau i gyfansoddiad Pwyllgorau'r Cyngor (Paragraff 3.2.3.5 o Gyfansoddiad y Cyngor).<br><br>Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig. (Paragraff 2.15.2 o Gyfansoddiad y Cyngor). |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'r newidiadau i gylch gorchwyl y PGD, ac felly i Gyfansoddiad y Cyngor, yn unol â'r darpariaethau statudol a chyfansoddiadol. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / | |

CC-022755-LB/00758807

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

| | | |
|---|---|---|
| | dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Nid yw 1-7 yn berthnasol yn uniongyrchol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Wedi'i ystyried gan y TA ar 26/6/2023 |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Aelod o'r TA |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Awdur yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |
| 10 | Arall | Mae'r Swyddog Monitro wedi cyflwyno'r cynnig i Gadeirydd y PGD, a'r Arweinyddion Grŵp, ac roeddent |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| | | yn gefnogol o’r newidiadau a awgrymwyd. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| **Atodiad 1** – Cylch Gorchwyl cyfredol y PGD (fel ac y mae’n ymddangos yn adran 3.4.12 o Gyfansoddiad y Cyngor) ynghyd â’r newidiadau arfaethedig er mwyn ymestyn y cylch gorchwyl, yn unol â’r cynnig yn yr adroddiad hwn, sydd wedi’u marcio.<br><br>**Atodiad 2** – Adran 2.15.2 o Gyfansoddiad y Cyngor (delio â Newidiadau i’r Cyfansoddiad) gyda’r newidiadau wedi’u marcio. |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Dim |


**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

**Atodiad 1 – adran 3.4.12 o Gyfansoddiad y Cyngor (Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) gyda'r newidiadau wedi'u marcio**

## 3.4.12 Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

3.4.12.1 Mae gofyn i bob awdurdod lleol benodi pwyllgor o'r Cyngor i ddynodi'r Pennaeth Democratiaeth, i oruchwylio gwaith y Gwasanaethau Democrataidd, i sicrhau bod adnoddau digonol ar gyfer y gwaith ac i adrodd i'r Cyngor llawn yn unol â hynny.

### 3.4.12.2 Aelodaeth

3.4.12.2.1 Naw aelod i fod yn wleidyddol gytbwys.

3.4.12.2.2 Cyfyngir aelodaeth o'r pwyllgor i gynghorwyr.

3.4.12.2.3 Yn unol â'r ddeddfwriaeth, ni chaiff mwy nag un aelod o Bwyllgor Gwaith y Cyngor fod yn aelod. Mae gwahoddiad sefydlog i Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ddod i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Byddai o fantais i'r Eiriolydd Aelodau fod yn aelod.

3.4.12.2.4 Ni chaiff Arweinydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor fod yn aelod o'r pwyllgor.

### 3.4.12.3 Cadeirio'r Pwyllgor

3.4.12.3.1 Penodir y Cadeirydd gan y Cyngor llawn

3.4.12.3.2 Ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o grŵp a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith (ac eithrio mewn awdurdodau lle mae'r holl grwpiau gwleidyddol yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith, ac yn yr achos hwnnw, ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith).

3.4.12.3.3 Caiff yr Is-gadeirydd ei (h)ethol gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

3.4.12.3.4 Penodir cadeiryddion unrhyw is-bwyllgorau gan y Pwyllgor.

### 3.4.12.4 Cyfarfodydd ac ati

Mae'r darpariaethau sy'n llywodraethu cyfarfodydd y Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys:

3.4.12.4.1 bod y Pwyllgor (ac is-bwyllgor) yn medru galw tystion (y bydd dyletswydd arnynt i fynychu os ydynt yn aelodau neu'n swyddogion o'r awdurdod, ond ni fydd tyst o unrhyw ddisgrifiad yn gorfod ateb unrhyw gwestiwn y byddai ganddynt hawl i wrthod ei ateb mewn, neu mewn cysylltiad gyda, achosion llys yn Lloegr a Chymru);

**Atodiad 1 – adran 3.4.12 o Gyfansoddiad y Cyngor (Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) gyda'r newidiadau wedi'u marcio**

3.4.12.4.2 bod cyfarfodydd, papurau a chofnodion y pwyllgor (a'r is-bwyllgor) yn destun gofynion ynghylch mynediad, cyhoeddi ac arolygu fel y cânt eu hamlinellu yn Rhan VA Deddf 1972.

3.4.12.4.3 Yn unol â'r ddeddfwriaeth, bydd y Pwyllgor yn dynodi Swyddog o'r Cyngor i fod yn Bennaeth Democratiaeth, ond nid y Prif Weithredwr, a'r Swyddog Adran 151.

**3.4.12.5 Adroddiadau ac argymhellion gan y Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd**

3.4.12.5.1 Os bydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi unrhyw adroddiad neu yn gwneud argymhellion ynghylch y ddarpariaeth o staff, llety ac adnoddau eraill gan yr awdurdod lleol ar gyfer cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, rhaid anfon copi at bob aelod o'r awdurdod nad yw'n aelod o'r pwyllgor, cyn gynted ag y bo modd. Rhaid cynnal cyfarfod o'r cyngor llawn i ystyried adroddiadau neu argymhellion o'r fath cyn pen tri mis iddynt gael eu hanfon at aelodau'r awdurdod.

3.4.12.6 Cylch gorchwyl y Pwyllgor

3.4.12.6.1 ~~Ymestynnir~~Mae ~~-~~cylch gorchwyl y Pwyllgor yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac fe'i ymestynnir i ymgymryd â chyfrifoldebau mewn perthynas â'r rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer Aelodau, gan gynnwys sgiliau TG a chefnogaeth ar gyfer y sgiliau hynny.

3.4.12.6.2 Pan fydd angen trafodaeth, penderfyniad ar ddewis lleol neu ymateb i ymgynghoriad mewn perthynas â materion cyfansoddiadol, gall y Swyddog Monitro, gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor, gyflwyno materion o'r fath i'w hystyried gan y Pwyllgor cyn gwneud unrhyw argymhelliad terfynol i'r Cyngor llawn neu cyn anfon unrhyw ymateb i ymgynghoriad.

3.4.12.7 Bydd y Pwyllgor yn cynnal tri chyfarfod cyffredin yn ychwanegol at ei Gyfarfod Blynyddol ym mhob Blwyddyn Ddinesig gyda'r hawl i drefnu cyfarfodydd eraill yn ôl yr angen.

**Atodiad 2 - Newidiadau Cyfansoddiadol eraill**

**2.15.2 Newidiadau i'r Cyfansoddiad**

**2.15.2.1 Cymeradwyaeth**

2.15.2.1.1. Bydd y broses ar gyfer newid y Cyfansoddiad yn amrywio yn ddibynnol ar y math o newid sydd ei angen.

Yn amodol ar baragraff 3.5.3.6.6, a 3.4.12.6.2, ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig.

Ni fydd y Pwyllgor Gwaith na'r Cyngor Sir yn ystyried yr un newid i'r Cyfansoddiad a fyddai'n rhagfarnu'nr anghymesur hawliau neu fuddiannau grŵp/iau lleiafrifol o fewn y Cyngor heb yn gyntaf dderbyn argymhelliad/argymhellion y Pwyllgor Safonau ac ystyried y rheini'n briodol. Y Prif Weithredwr fydd yn penderfynu os oes unrhyw anghydfod ynghylch a ydyw newid/newidiadau yn mynd i ragfarnu'r anghymesur hawliau neu ar fuddiannau grŵp/grwpiau lleiafrifol.

2.15.2.1.2 Rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd o dan baragraff 3.4.12.6.2

Pan fydd angen trafodaeth neu benderfyniad ar ddewis lleol mewn perthynas â materion cyfansoddiadol, gall y Swyddog Monitro, gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor, gyflwyno materion o'r fath i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd cyn gwneud unrhyw argymhelliad terfynol i'r Cyngor llawn yn unol â pharagraff 3.4.12.6.2.

2.15.2.1.3 Rôl y Swyddog Monitro o dan baragraff 3.5.3.6.6

Y Swyddog Monitro fydd yn gyfrifol am adolygu a diweddaru Cyfansoddiad y Cyngor o bryd i'w gilydd a gwneud mân newidiadau yn unol â pharagraff 3.5.3.6.6.

**2.15.2.2 Newid i drefn weithredol gyda maer neu i fath arall o drefn weithredol neu i drefniadau gwahanol eto.**

Rhaid i'r Cyngor gymryd camau rhesymol i ymgynghori ag etholwyr lleol a phobl eraill sydd â diddordeb yn yr ardal wrth lunio cynigion a rhaid iddo gynnal refferendwm ymrwymol os ydyw'n ystyried newid i ddull o drefn weithredol gyda Maer.

**2.15.2.3 Newid yn y system bleidleisio ar gyfer ethol Cynghorwyr i'r Cyngor**

**2.15.2.3.1 Dwy system bleidleisio**
(1) Mae dwy system ar gyfer ethol Cynghorwyr i'r Cyngor pan gynhelir pleidleisiau mewn etholiadau a ymleddir—

(a) system mwyafrif syml, neu

(b) system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

2.15.2.3.2 Ystyr "system mwyafrif syml" yw system etholiadol pan fo -

(a) pob pleidleisiwr yn cael bwrw pa faint bynnag o bleidleisiau ag sydd o swyddi i'w llenwi;

(b) yn achos etholiad ar gyfer un swydd, yr ymgeisydd sy'n cael y nifer uchaf o bleidleisiau yn cael ei ethol;

(c) yn achos etholiad i lenwi mwy nag un swydd, yr ymgeiswyr sy'n gyfartal â nifer y swyddi sydd i'w llenwi sy'n cael y nifer uchaf o bleidleisiau yn cael eu hethol.

Ystyr "system pleidlais sengl drosglwyddadwy" yw system etholiadol pan fo—

(a) yn achos etholiad i lenwi mwy nag un swydd—

pleidleiswyr yn mynegi dewis cyntaf o ran un ymgeisydd a chaniateir iddynt fynegi ail ddewis a dewisiadau pellach o ran ymgeiswyr eraill;

(ii) cwota ar gyfer ethol yn cael ei gyfrifo ar sail nifer y pleidleisiau a'r swyddi sydd i'w llenwi;

(iii) y dewisiadau cyntaf yn cael eu cyfrif ac unrhyw ymgeisydd y mae'r pleidleisiau dewisiadau cyntaf ar ei gyfer yn cyfateb i'r cwota neu uwchlaw'r cwota yn cael ei ethol;

(iv) os yw nifer yr ymgeiswyr a etholir o dan is-baragraff (iii) yn annigonol, y gyfran o bleidleisiau ymgeisydd a etholwyd sydd uwchlaw'r cwota yn cael ei hailddosbarthu yn ôl dewisiadau pellach y pleidleiswyr;

(v) yr ymgeiswyr sy'n cyrraedd y cwota bryd hynny yn cael eu hethol a'r ymgeisydd sydd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau yn cael ei eithrio;

(vi) pleidleisiau'r ymgeisydd a gafodd ei eithrio yn cael eu hailddosbarthu yn ôl dewisiadau pellach y pleidleiswyr;

(vii) os yw nifer yr ymgeiswyr a etholir o dan is-baragraffau (iv) i (vi) yn annigonol, y camau a ddisgrifir yn yr is-baragraffau hynny yn cael eu hailadrodd hyd nes y bo'r holl swyddi wedi eu llenwi;

(b) yn achos etholiad ar gyfer un swydd—

(i) pleidleiswyr yn mynegi dewis cyntaf o ran un ymgeisydd a chaniateir iddynt fynegi ail ddewis a dewisiadau pellach o ran ymgeiswyr eraill;

(ii) mwyafrif absoliwt o bleidleisiau er mwyn ethol ymgeisydd yn cael ei gyfrifo ar sail nifer y pleidleisiau;

(iii) y dewisiadau cyntaf yn cael eu cyfrif ac, ac os yw'r pleidleisiau dewisiadau cyntaf ar gyfer yr ymgeisydd yn cyfateb i'r mwyafrif absoliwt o'r pleidleisiau neu uwchlaw'r mwyafrif absoliwt hwnnw, yr ymgeisydd hwnnw yn cael ei ethol;

(iv) os na chaiff unrhyw ymgeisydd ei ethol o dan is-baragraff (iii), bydd yr ymgeisydd sydd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau'n cael ei eithrio, pleidleisiau'r ymgeisydd a gafodd ei eithrio yn cael eu hailddosbarthu yn ôl dewisiadau pellach y pleidleiswyr ac ymgeisydd sydd yn cyrraedd y mwyafrif absoliwt bryd hynny yn cael ei ethol;

(v) os na chaiff unrhyw ymgeisydd ei ethol o dan is-baragraff (iv), y camau a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) yn cael eu hailadrodd hyd nes y bo ymgeisydd yn cael ei ethol.

2.15.2.3.2 Mae'r system mwyafrif syml y darperir ar ei chyfer gan reolau etholiadau lleol yn gymwys yn y cyngor, oni bai a hyd nes y bo'r Cyngor yn newid y system bleidleisio am y tro cyntaf.

2.15.2.3.3 Caiff y Cyngor newid y system bleidleisio sy'n gymwys i ethol Cynghorwyr i'r Cyngor i system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Yn y dyfodol, os y system pleidlais sengl drosglwyddadwy y darperir ar ei chyfer gan reolau etholiadau lleol yw'r system bleidleisio sy'n gymwys i Gyngor am y tro, caiff y Cyngor ei newid i'r system mwyafrif syml.

2.15.2.3.4 Nid yw'r pŵer i newid y system bleidleisio;
(a) i fod yn gyfrifoldeb i Bwyllgor Gwaith y Cyngor o dan drefniadau Gweithrediaeth
(b) yn swyddogaeth y mae adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys iddi.

2.15.2.3.5 Cyn i'r Cyngor arfer ei bŵer i newid ei system bleidleisio rhaid iddo ymgynghori ag—

(a) y personau sydd â hawl i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad llywodraeth leol yn ei ardal;

(b) pob cyngor cymuned yn ei ardal;

(c) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â nhw.

(4) Ar ôl i'r Cyngor newid ei system bleidleisio am y tro cyntaf, mae'r system y mae'r Cyngor wedi penderfynu newid iddi yn fwyaf diweddar yn gymwys.

(5) Os yw'r Cyngor yn newid ei system bleidleisio, mae'r newid yn cael effaith yn yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer Cynghorwyr sy'n digwydd ar ôl i'r Cyngor basio'r penderfyniad a bydd yn parhau i gael effaith oni bai a hyd nes y bo'r system yn cael ei newid eto.

(6) Ond, mewn pleidlais mewn etholiad i lenwi swydd Cynghorydd sy'n digwydd dod yn wag a gynhelir cyn yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer Cynghorwyr ar ôl i'r Cyngor basio'r penderfyniad, mae'r system bleidleisio a oedd yn gymwys yn yr etholiad cyffredin diwethaf yn gymwys.

Caiff Cyngor newid y system bleidleisio sy'n gymwys i ethol Cynghorwyr i'r Cyngor.

(1) Os y system mwyafrif syml y darperir ar ei chyfer gan reolau etholiadau lleol yw'r system bleidleisio sy'n gymwys i'r Cyngor am y tro, caiff y Cyngor ei newid i'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy y darperir ar ei chyfer gan y rheolau hynny.

(2) Os y system pleidlais sengl drosglwyddadwy y darperir ar ei chyfer gan reolau etholiadau lleol yw'r system bleidleisio sy'n gymwys i'r Cyngor am y tro, caiff y Cyngor ei newid i'r system mwyafrif syml y darperir ar ei chyfer gan y rheolau hynny.

(3) Nid yw'r pŵer i newid y system bleidleisio o dan yr adran hon—

(b) yn swyddogaeth y mae adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys iddi.

(4) Cyn i'r Cyngor arfer ei bŵer i newid ei system bleidleisio rhaid iddo ymgynghori ag—

(a) y personau sydd â hawl i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad llywodraeth leol yn ei ardal;

(b) pob cyngor cymuned yn ei ardal;

(c) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â nhw.

haid i bŵer y Cyngor i newid ei system bleidleisio gael ei arfer drwy benderfyniad y Cyngor

- rhaid i benderfyniad i arfer y pŵer gael ei basio gan o leiaf ddau draean o gyfanswm y seddau Cynghorwyr ar y Cyngor.
- rhaid i'r cynnig gael ei ystyried mewn cyfarfod a gynullwyd yn arbennig at y diben hwnnw
- rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig am y cyfarfod i'r holl gynghorwyr, a
- rhaid cynnal y cyfarfod ar ôl diwedd cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir hysbysiad.

2.15.2.3.6.1 Rhaid pasio cynnig i arfer y pŵer cyn 15 Tachwedd yn y flwyddyn sydd dair blynedd cyn y flwyddyn y bwriedir i'r etholiad cyffredin nesaf ar gyfer y Cyngor gael ei gynnal.

2.15.2.3.6.2 Ar ôl i'r Cyngor arfer y pŵer, nid yw penderfyniad pellach i arfer y pŵer yn cael unrhyw effaith oni fod dau etholiad cyffredin ar gyfer y Cyngor wedi eu cynnal o dan y system bleidleisio y'i newidiwyd iddi.

2.15.2.3.6.3 Nid yw penderfyniad i arfer y pŵer sy'n cael ei basio yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin olynol i'r Cyngor yn cael unrhyw effaith os yw'r Cyngor wedi pleidleisio yn flaenorol ar benderfyniad i arfer y pŵer yn ystod y cyfnod hwnnw mewn cyfarfod a gynhaliwyd at y diben hwnnw.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Y Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn** |
| Dyddiad: | **18/07/2023, 12/09/2023** |
| Pwnc / Testun: | **Mabwysiadu Cynllun Deisebau Drafft** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Cynghorydd Carwyn Elias Jones<br>(Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer)** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>lynnball@ynysmon.llyw.cymru** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>lynnball@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Ddim yn fater lleol** |

## A – Argymhelliad

**Y Pwyllgor Gwaith**

1. I ystyried y Cynllun Deisebau ("y Cynllun") drafft yn **Atodiad 1** yr Adroddiad hwn, a gwneud argymhellion, os o gwbl, i'r Cyngor llawn ynghylch. mabwysiadu'r Cynllun.

**Y Cyngor**

2. I ystyried y Cynllun yn **Atodiad 1** yr Adroddiad hwn a'i fabwysiadu.

3. Caniatáu'r Swyddog Monitro i addasu Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn ymgorffori'r Cynllun.

4. Rhoi awdurdod i'r Swyddog Monitro wneud addasiadau bach i'r Cynllun, er mwyn sicrhau y gellir ei weithredu'n ddidrafferth, a bydd unrhyw newidiadau materol yn cael eu hawdurdodi gan y Cyngor llawn yn unig.

5. Caniatáu'r Pennaeth Democrataidd i weithredu'r Cynllun cyn gynted â bo'n bosibl, a sicrhau y dilynir y camau priodol i hyrwyddo'r Cynllun i'r cyhoedd.

6. Gofyn i'r Pennaeth Democrataidd baratoi adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar weithrediad y Cynllun cyn gynted â phosibl 12 mis ar ôl y dyddiad gweithredu.

## A – Rhesymau

1.1 Mae Adran 42 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Deisebau. Cyhoeddwyd y Canllawiau drafft perthnasol ym mis Ebrill 2023.

1.2 Mae'r Cynllun hwn yn ychwanegol at drefniadau presennol Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor sy'n galluogi aelodau etholedig i gyflwyno deisebau yng nghyfarfodydd y Cyngor. Nid yw'r Cynllun yn disodli'r trefniadau.

1.3 Mae'r Cynllun, yn **Atodiad 1** yr Adroddiad hwn, yn bodloni gofynion statudol newydd, gan gynnwys darparu eglurhad am yr hyn a ystyrir yn ddeiseb ddilys, pwy all gyflwyno deiseb, sut i gyflwyno deiseb a sut fydd y Cyngor yn delio â'r deisebau mae'n eu derbyn.

1.4 Bydd deisebau dilys yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Bydd deisebau electronig hefyd yn ymddangos ar wefan y Cyngor gan ddefnyddio meddalwedd Modern.Gov, sy'n cefnogi'r system bwyllgorau.

1.5 Nodir yn arbennig na fydd y Cynllun yn berthnasol os oes proses ymgynghori statudol eisoes ar waith e.e. ym maes cynllunio, trwyddedu a moderneiddio ysgolion.

1.6 Cafodd y Cynllun ei ystyried gan y Tîm Arweinyddiaeth ar 5/12/2022 a 26/6/2023, a chynhaliwyd ymgynghoriad yn ei gylch gan y Penaethiaid Gwasanaeth a swyddogion perthnasol eraill yn ystod mis Rhagfyr 2022 a Ionawr 2023. Cafodd ei gyflwyno i'r Arweinyddion Grwpiau ar 22/3/2023 ac roedd yn agored i ymatebion ymgynghoriad gan yr Arweinyddion Grwpiau rhwng 22/3/2023 a 28/4/2023.

1.7 Bydd y Cynllun yn cael ei weithredu a'i reoli gan y Gwasanaethau Democrataidd, a gyda chaniatâd y Cyngor, bydd yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ymhen 12 mis ar ôl dechrau gweithredu'r Cynllun.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill gan fod mabwysiadu Cynllun sy'n cydymffurfio bellach yn ofyniad statudol. Roedd / mae rhai elfennau o'r Cynllun yn fater o ddewis lleol. Trafodwyd y rhain gyda'r Tîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, swyddogion perthnasol eraill ac Arweinyddion Grwpiau. Mae

| |
|---|
| cynnwys y Cynllun yn cynrychioli safbwynt y mwyafrif o'r Arweinyddion Grwpiau a'r Uwch Swyddogion. Os bydd yr elfennau hynny angen eu hadolygu ymhellach, gall y Cyngor wneud newidiadau yn y dyfodol. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Bydd newidiadau i'r Cyfansoddiad yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn yn unig, ar ôl ystyried y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith (Adran 2.15.2 y Cyfansoddiad) |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae newidiadau i'r Cyfansoddiad yn unol â darpariaethau statudol newydd. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Dim goblygiadau cyllidebol ar hyn o bryd. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Amherthnasol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Na, ond mae'r Cynllun yn darparu mecanwaith ychwanegol fel y gall dinasyddion Ynys Môn godi materion sy'n peri pryder, ac sydd o bwysigrwydd lleol, gyda'r Cyngor. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd y Cynllun yn agored i unrhyw un dros 16 oed sydd â chysylltiad lleol perthnasol, fel y disgrifir yn y Cynllun.<br><br>Gall deisebau fod ar bapur neu'n electronig a bydd y Cyngor hefyd yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | ystyried barn y cyhoedd mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae rhai enghreifftiau wedi'u cynnwys yn y Cynllun Deisebau drafft. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Rydym yn galluogi ac yn annog y rheiny sydd eisiau cyflwyno deiseb i wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Cafwyd ymgynghoriad ar 5/12/2022 a 26/6/2023. Yn cefnogi'r argymhellion. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Ymgynghorwyd fel rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth. Cefnogi'r ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r broses honno. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Awdur yr Adroddiad. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Rhan o'r ymgynghoriad gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a ddigwyddodd ym mis Rhagfyr 2022 a Ionawr 2023. Ni dderbyniwyd gwrthwynebiad. |
| 5 | Eiddo | Rhan o'r ymgynghoriad gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a ddigwyddodd ym mis Rhagfyr 2022 a Ionawr 2023. Ni dderbyniwyd gwrthwynebiad. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Cydweithio â Rheolwr y Tîm TG mewn perthynas ag elfennau technegol y prosiect. Argymhellwyd defnyddio'r system Mod.Gov. Gwaith yn parhau rhwng y tîm TG a'r Gwasanaethau Democrataidd. |



**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 7 | Caffael | Amherthnasol gan nad oes angen ymarferiad caffael. |
| 8 | Sgriwtini | Amherthnasol. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |
| 10 | Arall | Rheolwr Polisi a'r Gymraeg – cyngor ar yr iaith Gymraeg a materion cydraddoldeb. Ymgorfforwyd y cyngor yn y Cynllun. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 – Cynllun Deisebau Drafft. |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.<br><br>Canllawiau Statudol ac Anstatudol ar gyfer Prif Gynghorau Cymru – cefnogi darpariaeth o fewn Deddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. |

**Cynllun Deisebau Drafft**
**Cyngor Sir Ynys Môn**

| **1.** | **Cyflwyniad** |
|---|---|
| Mae'r broses ddeiseb hon yn rhoi cyfle i'r cyhoedd ddylanwadu ar benderfyniadau/blaenoriaethau gwleidyddol, a chodi pryderon sy'n bwysig iddyn nhw/eu cymunedau. | |
| **2.** | **Pwnc y Deisebau** |
| Gall y cyhoedd gyflwyno deisebau'n ymwneud â materion y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt, sy'n effeithio ar yr ardal, neu mae gan y Cyngor ddiddordeb gwirioneddol ynddynt. | |
| **3.** | **Pwy all gyflwyno deiseb?** |
| Gall unrhyw un sy'n byw, sy'n gweithio, sy'n berchen busnes, perchennog tir neu sy'n astudio ar yr Ynys drefnu/llofnodi deiseb; gan gynnwys y rheiny sy'n 16 oed a hŷn. | |
| **4.** | **Sut i gyflwyno deiseb** |
| Gellir cyflwyno deiseb ar bapur neu'n electronig<br><br>Dylid anfon deisebau papur at y Pennaeth Democratiaeth (drwy XXXXXXXX)<br><br>Fel arall, gellir cyflwyno deisebau electronig ar-lein gan ddefnyddio dolen | |
| **5.** | **Gofynion ar gyfer deiseb ddilys** |
| 1. | Mae'n rhaid i bwnc y ddeiseb gydymffurfio â pharagraph 2 uchod. |
| 2. | Mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n trefnu'r ddeiseb, a'r llofnodwyr, fodloni'r gofynion cymhwystra a nodwyd ym mharagraff 3 uchod. |
| 3. | Rhaid cael o leiaf 100 o lofnodion dilys. Bydd y Cyngor yn defnyddio'i ddisgresiwn os derbynnir llai na 100 o lofnodion mewn achosion lle mae cefnogaeth leol glir ar gyfer gweithredu (er enghraifft, cymuned fechan sy'n ceisio mesurau gostegu traffig). |
| 4. | Rhaid cynnwys datganiad clir, cryno, sy'n delio â phwnc y ddeiseb ac sy'n nodi'r penderfyniad/au, gwerthred/oedd y gofynnir i'r Cyngor eu cymryd/eu gwneud. Ni fydd deisebau amwys yn ddilys |

DRAFT

5. Rhaid cynnwys y manylion cyswllt llawn (enw, cyfeiriad, unrhyw gyfeiriad e-bost a rhifau ffon trefnydd y ddeiseb). Bydd yr unigolyn hwn yn bwynt cyswllt i'r Cyngor ar gyfer cydnabod y ddeiseb ac unrhyw gyfathrebiadau ynghylch y ddeiseb. **Ni fydd** manylion cyswllt trefnydd y ddeiseb yn cael eu cyhoeddi gan y Cyngor.

6. Rhaid cynnwys enw, manylion cyswllt a llofnod pob unigolyn sy'n cefnogi'r ddeiseb. Bydd y gofyniad hwn yn berthnasol i ddeisebau ar bapur ar ôl eu derbyn ac e-ddeisebau pan fydd y ddeiseb honno'n cau ar gyfer derbyn llofnodion ar wefan y Cyngor. **Ni fydd** manylion cyswllt y bobl sy'n llofnodi'r ddeiseb yn cael eu cyhoeddi gan y Cyngor.

## 6. Deisebau Electronig

1. Mae'r Cyngor yn croesawu e-ddeisebau sy'n cael eu creu a'u cyflwyno drwy ein gwefan, drwy'r ddolen hon.
2. Mae'n rhaid i e-ddeisebau ddilyn yr un egwyddorion â deisebau ar bapur.
3. Bydd yn rhaid i drefnydd y ddeiseb ddarparu eu henw, eu cyfeiriad post, cyfeiriad/au e-bost a rhif/au ffôn i'r Cyngor.
4. Bydd trefnydd y ddeiseb hefyd angen penderfynu am ba hyd y bydd y ddeiseb ar agor i dderbyn llofnodion ar wefan y Cyngor; hyd at uchafswm o 3 mis o'i chyhoeddi.
5. Os bydd y Cyngor o'r farn na all gyhoeddi e-ddeiseb, am unrhyw reswm, bydd y Cyngor yn cysylltu â threfnydd y ddeiseb cyn pen 5 diwrnod gwaith o dderbyn y ddeiseb i egluro'r rhesymau am ei gwrthod. Yna, gellir newid/addasu deiseb a'i hail-gyflwyno am ystyriaeth bellach.
6. Pan fydd e-ddeiseb yn cau ar gyfer derbyn llofnodion bydd y trefnydd yn derbyn cydnabyddiaeth gan y Cyngor cyn pen 5 diwrnod gwaith, a bydd y ddeiseb yna'n cael ei thrin yn yr un modd ag unrhyw ddeiseb ar bapur
7. Gofynnir i unrhyw un sydd eisiau llofnodi e-ddeiseb ddarparu eu henw, cod post a chyfeiriad e-bost dilys. Ar ôl cyflwyno'r wybodaeth hon, bydd yr anfonwr yn derbyn neges e-bost i'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd. Bydd y neges e-bost hon yn cynnwys dolen y mae'n rhaid i'r derbynnydd glicio arni er mwyn cadarnhau bod y cyfeiriad e-bost yn ddilys. Ar ôl cwblhau'r cam hwn, bydd y 'llofnod damcaniaethol' yn cael ei ychwanegu'r i'r ddeiseb.
8. Bydd y rheiny sy'n pori'r e-ddeiseb yn gallu gweld enwau'r rheiny sydd wedi'i llofnodi, ond ni allant weld manylion cyswllt llofnodwyr.

## 7. A oes unrhyw ddeisebau na ellir eu derbyn?

Er bod y Cyngor yn credu bod Cynllun Deisebau effeithiol yn un o'r ffyrdd y gall fynd i'r afael â phryderon a blaenoriaethau'r cyhoedd/cymunedau, mewn rhai amgylchiadau, bydd deisebau'n cael eu gwrthod. Gall hyn gynnwys deisebau:

1. Nad ydynt yn bodloni un, neu fwy, o'r gofynion yn Adran 5 a 6 uchod.

2. Sy'n cynnwys iaith sarhaus, ddirmygus neu gythruddol. Yn ogystal â rhegi ag enllibion amlwg, mae hefyd yn cynnwys unrhyw iaith y gallai unigolyn rhesymol ei hystyried yn sarhaus.

3. Sy'n cynnwys datganiadau ffug neu ddifenwol.

4. Sy'n cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i hatal rhag ei chyhoeddi yn ôl Gorchymyn Llys, corff neu unigolyn gyda phwerau cyffelyb.

5. Sy'n cynnwys deunydd a all fod yn gyfrinachol, yn fasnachol sensitif neu a all achosi trallod neu golled personol.

6. Hyrwyddo unrhyw gynnyrch, gwasanaeth neu ddatganiadau a ystyrir yn hysbysebion.

7. Sy'n enwi unigolion, neu'n rhoi gwybodaeth a ellir ei defnyddio i adnabod unigolion yn hawdd.

8. Nad ydynt y sianel briodol (er enghraifft, gohebiaeth ynghylch mater personol neu fater sy'n destun achos Llys).

9. Ar faterion sydd eisoes yn destun penderfyniad gan yr Ombwdsmon (neu rywun a phwerau cyffelyb).

10. Sy'n geisiadau rhyddid gwybodaeth, sylwadau, cwynion neu ganmoliaeth. Bydd 'deisebau' o'r fath yn cael eu hanfon ymlaen at wasanaeth priodol er mwyn cael ymateb addas.

11. Sy'n codi materion yn ymwneud â chamymddwyn honedig gan Gynghorwyr neu weithwyr y Cyngor; byddant yn cael eu trin fel cwynion sy'n codi dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, a byddant yn cael eu hadrodd i'r Swyddog Monitro yn hytrach na chael eu hystyried dan y Cynllun Deisebau.

12. Ynghylch mater sy'n destun ymgynghoriad, neu gyfnod ymateb statudol; ymdrinnir â'r ddeiseb yn unol â'r trefniadau o fewn amserlen sydd wedi'i pharatoi ar gyfer y broses honno.

13. Sydd yr un fath, neu mae'r rhan fwyaf ohoni'r un fath â deiseb a gyflwynwyd o fewn y chwe mis blaenorol.

14. O system deiseb ar-lein eraill; er mwyn sicrhau nad yw deisebau wedi'u copïo neu eu haddasu.

15. Sy'n ffurfio rhan o nifer o ddeisebau a dderbyniwyd ar yr un pwnc / pynciau tebyg, sy'n ceisio'r un canlyniad / canlyniadau tebyg. Mewn achos o'r fath, dim ond un trefnydd a all gyflwyno eu deiseb i'r Cyngor. Bydd y Pennaeth Democratiaeth yn cysylltu â threfnydd pob deiseb a gofynnir iddynt gysylltu â'i gilydd er mwyn ystyried opsiynau, gan gynnwys cyfuno deisebau, a phenderfynu pa drefnydd fydd yn cyflwyno deiseb i'r Cyngor. Os na ellir dod i benderfyniad, bydd y ddeiseb gyda'r nifer uwch/uchaf o lofnodion yn cael ei derbyn a'i chyflwyno i'r Cyngor.

**8. Sut fydd y Cyngor yn delio â deisebau?**

1. Unwaith bydd y Cyngor wedi derbyn deiseb, bydd yn cael ei chydnabod cyn pen 5 diwrnod gwaith o'i derbyn. Dywedir wrth drefnydd y ddeiseb yr hyn mae'r Cyngor yn fwriadu ei wneud â'r ddeiseb, a phryd allant ddisgwyl clywed yn ôl gan y Cyngor.

2. Bydd yr holl ddeisebau dilys yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae hyn yn cyfeirio at ddeisebau sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Deisebau. Os bydd angen gwneud archwiliad pellach ar bwnc y ddeiseb, bydd y Cyngor yn hysbysu trefnydd y ddeiseb honno ynghyn â'r camau i'w cymryd a'r amserlen debygol.

3. Os bydd y Cyngor yn penderfynu nad yw deiseb yn ddilys/derbyniol, am unrhyw reswm/rhesymau, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i drefnydd y ddeiseb, yn egluro'r rhesymau ac yn cynnig cyngor i'r trefnydd ynghylch sut ellir addasu'r ddeiseb fel ei bod yn cyd-fynd â'r Cynllun Deisebau.

4. Bydd deisebau a dderbynnir mewn perthynas â chynllunio, trwyddedu neu geisiadau grant / apeliadau, nad ydynt wedi'u penderfynu, yn cael eu cyfeirio at y swyddog arweiniol, ac yn cael eu trin fel ymateb ymgynghori mewn perthynas â'r gais / apêl ac ati.

5. Bydd y gydnabyddiaeth/dilysiad cyntaf ar gyfer deiseb yn cael ei anfon at y trefnydd, a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

6. Bydd deiseb sydd wedi cael ei derbyn/dilysu yn cael ei chyfeirio at y Cyngor llawn, neu'r Pwyllgor Gwaith, aelod perthnasol o'r Pwyllgor Gwaith neu'r Pwyllgor Sgriwtini neu unrhyw bwyllgor arall sydd â'r cylch gorchwyl mwyaf addas at bwnc y ddeiseb.

7. Bydd y Pennaeth Democratiaeth yn ystyried cais am ddeiseb, a bydd yna'n pennu dilysiad y ddeiseb honno. Yn ychwanegol at hynny, bydd yn trosglwyddo'r ddeiseb at bwyllgor/aelod Pwyllgor Gwaith perthnasol. Bydd y broses hon yn digwydd ar ôl derbyn deiseb bapur ac ar ddiwedd y cyfnod llofnodi ar gyfer e-ddeiseb.

| | | |
|---|---|---|
| 8. Bydd gan drefnydd y ddeiseb yr hawl i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod sy'n ystyried y ddeiseb. | | |
| **9.** | **Os gwrthodir deiseb, a oes hawl i apelio?** | |
| Os bydd trefnydd deiseb o'r farn nad yw ei ddeiseb wedi'i hasesu/clustnodi'n briodol, mae ganddo/ganddi'r hawl i ofyn i'r Swyddog Monitro adolygu'r penderfyniadau a wnaed. Bydd y Swyddog Monitro'n ystyried y cais cyn pen pum diwrnod gwaith o'i dderbyn. Os penderfynir nad yw'r Cyngor wedi ymdrin â'r ddeiseb yn briodol, bydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei diddymu, a bydd y ddeiseb yn cael ei hystyried o'r newydd yn unol a'r egwyddorion a nodwyd yn y Cynllun hwn.<br><br>Ar ôl cwblhau adolygiad, bydd trefnydd y ddeiseb yn cael gwybod y canlyniad.<br><br>Bydd canlyniadau'r adolygiad hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. | | |
| **10.** | **Sut gwneir penderfyniad ynghylch deiseb** | |
| Os bydd deiseb yn cael ei chyfeirio at y Cyngor / Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor, bydd trefnydd y ddeiseb yn cael 5 munud i gyflwyno'r ddeiseb mewn unrhyw gyfarfod ffurfiol, ac ar ôl hynny, bydd y ddeiseb yn destun trafodaeth ymhlith y Cynghorwyr a oedd yn bresennol. Caniateir uchafswm o 15 munud i drafod y ddeiseb, ond efallai y bydd hyn yn cael ei ymestyn yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.<br><br>Bydd y Cyngor/Pwyllgor ac yn y blaen, yn penderfynu sut i ymateb i'r ddeiseb. Efallai y penderfynir gohirio'r drafodaeth tra bod ymholiadau/archwiliadau pellach yn cael eu cwblhau; ar ôl hynny, efallai y bydd y ddeiseb yn cael ei dychwelyd i'r Cyngor/Pwyllgor am drafodaeth /penderfyniad pellach ar ddyddiad arall. Efallai y penderfynir gwneud y penderfyniad/dilyn y camau a geisiwyd yn y ddeiseb. Efallai y byddant yn gwrthod gwneud y penderfyniad/dilyn y camau a geisiwyd yn y ddeiseb, am y rhesymau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth. Efallai y byddant yn cyfeirio'r mater i ddwylo corff arall, at wasanaeth penodol neu uwch swyddog.<br><br>Bydd trefnydd y ddeiseb yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad terfynol a bydd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor | | |
| **11.** | **A oes unrhyw ffyrdd eraill y gall y cyhoedd sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried?** | |
| Bydd y Cyngor yn ystyried safbwyntiau'r cyhoedd drwy'r Cynllun Deisebau hwn, yn ogystal â nifer o ffyrdd eraill. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dderbyn adborth am ei fod yn helpu i wneud y penderfyniadau gorau o ran polisi a phenderfyniadau strategol, yn ogystal â datblygu ac adolygu gwasanaethau. Gall y cyhoedd ddweud eu dweud mewn ffyrdd eraill gan gynnwys:- | | |

DRAFT



**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

- Cysylltu â'ch Cynghorydd Sirol Lleol: [Cyngor Sir Ynys Môn (ynysmon.gov.uk)]
- Gwneud cwyn drwy Weithdrefn Gwynion Corfforaethol y Cyngor: [Sut i wneud cwyn swyddogol (llyw.cymru)]
- Siarad yn gyhoeddus ar geisiadau cynllunio unigol o flaen y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion: [y cyhoedd yn siard yn y pwyllgor cynllunio (llyw.cymru)]
- Siarad yn gyhoeddus ym Mhwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y Cyngor: [Siarad cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini (llyw.cymru)]
- Siarad yn gyhoeddus yn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio: [Siarad cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini (llyw.cymru)]
- Cyfrannu at ymgynghoriadau statudol ac anstatudol ynghylch materion corfforaethol allweddol, megis Cynllun pum mlynedd y Cyngor, yr Hunanasesiad Blynyddol, ac Asesiad Perfformiad pum mlynedd y Panel.
- Gellir hefyd cyfrannu at ymgynghoriadau ar faterion materol sy'n berthnasol a gwasanaethau: https://www.anglesey.gov.wales/en/browse/Get-involved/Consultations/

**Fersiwn Drafft 3**

Dyddiad mabwysiadu:

Dyddiad yr adolygiad nesaf:

**TROEDNODYN**

1. Cyn trefnu/cyflwyno deiseb, cynghorir trefnydd deiseb i wirio a yw'r Cyngor eisoes yn gweithredu ar y mater y bwriedir ei gynnwys fel pwnc y ddeiseb, gyda'u Cynghorwyr Sirol lleol, neu Wasanaeth perthnasol yn y Cyngor.

2. Dylai trefnydd deiseb hefyd ystyried ai'r Cyngor Sir yw'r corff mwyaf priodol i dderbyn y ddeiseb. A yw pwnc y ddeiseb o fewn y cwmpas perthnasol, fel y nodwyd yn Adran 2 uchod. Yn ogystal, efallai y bydd deisebau'n fwy priodol ar gyfer corff cyhoeddus arall, megis cyngor tref neu gymuned.



DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Y Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 18 Gorffennaf 2023 |
| **Pwnc:** | Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cynghorydd Dafydd Roberts |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc B Hughes |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Arwyn Hughes |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i holl Aelodau'r Cyngor |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Cefndir**

Ymgymerodd y Cyngor ag ymgynghoriad cyhoeddus ar y 'Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg' ddrafft o 31 Mawrth 2023 – 18 Mai 2023. Derbyniwyd bron i 300 o ymatebion, ac mae crynodeb o'r adborth wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ymgynghori (Atodiad A).

Mewn ymateb i adborth a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori, mae swyddogion y Cyngor wedi ystyried y pwyntiau a godwyd, ac mae'r newidiadau canlynol wedi eu gwneud i'r strategaeth ddiwygiedig:

a. Par: Amserlen Weithredu – Cam 3 – 2025 ymlaen.
Roedd y strategaeth ddrafft yn nodi:
"Darpariaeth ôl-16 yn ei newydd wedd yn **weithredol**."
Mae hyn wedi'i ddiwygio i:
"**Penderfyniadau wedi'u gwneud** mewn perthynas â darpariaeth ôl-16 yn Ynys Môn"

b. Par: Ffynonellau a ofynnwyd amdanynt – Mae adran newydd wedi ei hychwanegu i ddiwedd y 'Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg' i adnabod y ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd i boblogi'r data yn y strategaeth. Pennawd yr adran hon yw '**Ffynonellau Gwybodaeth**'.

c. Par: Model llywodraethu – Mae'r adran 'Monitro, Rheolaeth a Llywodraethiant' wedi'i **diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau llywodraethiant.**

Mae data o fewn y Strategaeth hefyd wedi ei ddiweddaru o ganlyniad i ddata mwy cyfredol yn dod yn gyhoeddus yn ystod y broses ymgynghori, i sicrhau bod y data mwyaf cyfredol posib yn cael ei ystyried.

Nid yw'r newidiadau uchod yn effeithio ar weledigaeth y Strategaeth.

**Argymhellion**
1.1 Mabwysiadu'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg, yn weithredol o 18 Gorffennaf 2023.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| --- |
| Amherthnasol ar y cam hwn. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| --- |
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. |

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydy - Cynllun y Cyngor 2023-2028. Nodir un o'r amcanion allweddol fel a ganlyn:

- Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

Nodir y ffrwd waith allweddol a ganlyn, sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcan hwn:

- o Mabwysiadu a chyflenwi strategaeth newydd ar gyfer Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg.

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ar y cam hwn, gan na wneir unrhyw gynnig penodol.<br><br>Gallai gynigion penodol i'r dyfodol gael eu cyllido drwy:<br>- Cyllid grant Llywodraeth Cymru drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.<br>- Derbyniadau cyfalaf drwy werthu safleoedd dros ben<br>- Benthyca di-gefnogaeth<br>- Ymgymryd â datblygiadau drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru<br>- Arbedion refeniw |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 20 Mehefin 2023 i gefnogi'r argymhelliad i gyflwyno'r Strategaeth ddiwygiedig i'r Pwyllgor Gwaith. |
| **9** | **Arweinydd y Cyngor a Deilydd Portffolio** | Sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **10** | **Rhanddeiliaid** | Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda rhanddeiliaid.  Mae'r ymatebion wedi eu hystyried ac wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Ymgynghori<br>Atodiad B – Asesiad Effaith<br>Atodiad C – Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu’r Gymraeg |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Cod Trefniadaeth Ysgolion (11/2018)<br>Cynllun y Cyngor 2023-2028<br>Ffurflen Monitro Cydraddoldeb<br>Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion<br>Adroddiad arolwg Estyn o Wasanaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyfrifiad<br>Stats Cymru<br>Data gan y Gwasanaethau Eiddo ar Gyflwr Adeiladau<br>Ymatebion i’r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y strategaeth ddrafft |

# ADRODDIAD YMGYNGHORI

## STRATEGAETH MODERNEIDDIO CYMUNEDAU DYSGU A DATBLYGU'R GYMRAEG

**Canlyniad yr ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng**

**31 Mawrth 2023 a 18 Mai 2023**

**MAI 2023**

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

**Gellir cael copïau caled o'r adroddiad hwn ar gais, trwy anfon e-bost at ysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru**

**CYNNWYS**


**1. CYFLWYNIAD** ..... 3

**2. TREFNIADAU'R YMGYNGHORIAD** ..... 3

**3. YMATEBION A SYLWADAU** ..... 5

**3.1 Crynodeb o'r ymatebwyr** ..... 5

**3.2 Crynodeb o'r Ymatebion** ..... 6

**3.2.1 Thema 1 – Nifer a digonolrwydd ysgolion ac adeiladau ysgol** ..... 6

**3.2.2 Thema 2 – Y Gymraeg** ..... 8

**3.2.3 Thema 3 – Eglurder a Manylion** ..... 9

**3.2.4 Thema 4 – Yr Agenda Sero Net** ..... 9

**4. CASGLIAD** ..... 9

**5. ARGYMHELLION** ..... **Error! Bookmark not defined.**

## 1. CYFLWYNIAD

O fewn Cynllun y Cyngor 2023-28 a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ddiweddar, roedd yn nodi 6 amcan strategol y mae'n gweithio tuag atynt. Nodir un o'r amcanion allweddol hyn fel a ganlyn -

- Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol

Nodir y ffrwd waith allweddol a ganlyn, sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcan hwn -

    - Mabwysiadu a chyflenwi strategaeth newydd ar gyfer Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg

Dechreuwyd y gwaith yr ymgymerwyd ag ef yn ddiweddar er mwyn cyflawni'r ffrwd waith uchod, ac mae gwneud hyn yn dangos ymrwymiad y Cyngor i geisio barnau ei breswylwyr ac unrhyw bartïon eraill â diddordeb yng nghyswllt materion fel y drafft o 'Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg'.

O 31 Mawrth 2023 i 18 Mai 2023, cynhaliodd y Cyngor broses ymgynghori ffurfiol ar y 'strategaeth ddrafft'.

Pan wedi ei fabwysiadu, bydd y 'Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg' yn cymeryd lle'r 'Strategaeth Addysg Ynys Môn (Moderneiddio Ysgolion)' gyfredol.

Diben ymgymryd â'r ymgynghoriad hwn oedd ceisio barnau rhanddeiliaid / partïon â diddordeb ar y strategaeth ddrafft.

Diben yr adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad yw rhoi gwybod i randdeiliaid / partïon â diddordeb am ganlyniad yr ymgynghoriad trwy:

- Grynhoi'r materion a godwyd gan randdeiliaid / partïon â diddordeb, sy'n cynnwys barnau plant a phobl ifanc, ynghyd â dod i gasgliad o ran p'un a yw'r strategaeth ddrafft yn addas i'r diben ac yn addas i'w mabwysiadu ai peidio.

## 2. TREFNIADAU'R YMGYNGHORIAD

Ar 21 Mawrth 2023, cymeradwyodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor y fersiwn drafft o'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 31 Mawrth 2023 a 18 Mai 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, gwahoddwyd rhanddeiliaid/partion â diddordeb i fynegi eu barnau ar y strategaeth ddrafft.

Cylchredwyd y ddogfen ymgynghori ei hun i randdeiliaid / partion â diddordeb (a oedd yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i Benaethiaid, Llywodraethwyr Ysgol, Rhieni, Disgyblion, Cynghorau Tref / Cymuned, Estyn, Gwe ac ati), ac fe gyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor www.ynysmon.llyw.cymru

Cynghorwyd yr ymgyngoreion i ddefnyddio'r dulliau a ganlyn i ymateb i'r ymgynghoriad:

- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein, neu
- Cwblhau ffurflen ymateb ar bapur, a'i hanfon trwy'r e-bost at ysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

Neu ei phostio at:
Arwyn Hughes
Gwasanaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

Roedd copïau caled o 'Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg' ar gael ar gais hefyd.

Cynhaliwyd sesiynau briffio i gyflwyno'r dogfennau ymgynghori ac i egluro'r broses ymgynghori i Benaethiaid, a Llywodraethwyr Ysgol. Eglurwyd i'r ymgyngoreion pa mor bwysig oedd ymateb i'r ymgynghoriad, gan na fyddai unrhyw gofnodion ffurfiol yn cael eu cymryd yn y sesiynau briffio eu hunain.

| **Dyddiad** | **Lleoliad/Dull** | **Rhanddeiliaid** | **Amser** |
|---|---|---|---|
| 28 Ebrill 2023 | Neuadd y Dref Llangefni | Penaethiaid Cynradd | 9 yb – 10 yb |
| 2 Mai 2023 | Ar-lein (Zoom) | Llywodraethwyr Ysgol | 6 yh – 7 yh |
| 11 Mai 2023 | Pencadlys y Cyngor | Penaethiaid Uwchradd | 9 yb – 10 yb |

Ystyriwyd bod barnau Plant a Phobl Ifanc yn angenrheidiol fel rhan o'r broses, a threfnodd swyddogion y cyngor bum cyfarfod ymgynghori gyda disgyblion o'r sector cynradd (un ar gyfer yr ysgolion o fewn bob dalgylch uwchradd), pryd y gofynnwyd i bob ysgol enwebu tri disgybl i gymryd rhan.

Fe aeth swyddogion o'r Cyngor ati hefyd i gynnal un cyfarfod ymgynghori gyda disgyblion o'r sector uwchradd, ynghyd ag un cyfarfod gyda disgyblion o Ganolfan Addysg Y Bont.

Cyflwynwyd y wybodaeth a ddarparwyd i'r cyfranogwyr mewn modd oedd yn berthnasol i'w hoedran a'u lefel o ddealltwriaeth, ac yn unol â'r arferion a gytunwyd â'r Penaethiaid ymlaen llaw.

Gellir gweld crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd gan y plant a'r bobl ifanc yn Atodiad 4.

Iw gymharu gyda'r ymgynghoriad ar 'Strategaeth Addysg Ynys Môn' 2018, mae'r broses ymgynghori hon wedi bod yn fwy crynodedig, gyda mwy o ffocws ar ymgynghori gyda plant a phobl ifanc

## 3. YMATEBION A SYLWADAU

### 3.1 Crynodeb o'r ymatebwyr

Yn ystod y cyfnod ymgynghori 6 wythnos, derbyniodd y Cyngor 293 o ymatebion trwy'r arolwg ar-lein, ynghyd â 5 ymateb ar ffurf llythyrau a thrwy'r e-bost, sydd yn uwch na'r nifer ymatebion a dderbynwyd yn 2018. Categoreiddiwyd y 298 o ymatebion fel a ganlyn:

| Categorïau'r ymatebwyr | Nifer yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Llywodraethwr Ysgol | 26 | 9% |
| Staff (Ysgol) | 51 | 17% |
| Staff (Arall) | 11 | 4% |
| Rhiant / Gwarcheidwad | 126 | 42% |
| Aelod Etholedig | 4 | 1% |
| Cynghorydd Tref / Cymuned | 16 | 5% |
| Preswylydd | 50 | 17% |
| Arall | 14 | 5% |
| **Cyfanswm** | **298** | **100%** |

* O'r 14 o ymatebion a gategoreiddiwyd fel 'Arall' yn y tabl uchod, roedd y rhain yn cynnwys:

- Partïon â Diddordeb
- Unigolion a oedd yn dod o fewn mwy nag un o'r categorïau uchod, e.e. Athro a Rhiant
- Myfyrwyr
- Teidiau a Neiniau
- Undeb Athrawon – Nid oedd yr ymatebwr wedi nodi ar ran pa Undeb Athrawon yr oedd yn ymateb
- Grŵp Ymgyrch Addysg – Cymdeithas yr Iaith
- Grŵp Llandrillo Menai
- Mudiad Meithrin

Mae'r tabl uchod yn dangos bod 298 o bobl wedi ymateb i o leiaf un cwestiwn yng nghyswllt y 'Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg' ac y daeth y mwyafrif o'r ymatebion (126 neu 42%) gan Rieni / Gwarcheidwaid, tra cafwyd (51 neu 17%) o'r ymatebion gan staff a leolwyd yn yr ysgolion.

Roedd 65% o'r ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn cydraddoldeb dewisol yng nghyswllt 'oedran') rhwng 35 a 54 mlwydd oed, ac roedd y mwyafrif ohonynt yn fenywaidd.

Gellir gweld yr ymatebion llawn a dderbyniwyd ar ran Cymdeithas yr Iaith, Grŵp Llandrillo Menai, a Mudiad Meithrin yn Atodiadau 5, 6 ac 7, yn y drefn honno.

**3.2 Crynodeb o'r Ymatebion**

Roedd yr holiadur wedi'i strwythuro yn y fath fodd a oedd yn ysgogi atebion penodol trwy gwestiynau caeedig, wrth ganiatáu ymatebion mwy agored a rhydd i gwestiynau eraill. Fe'i drafftiwyd er mwyn caniatáu i unigolion gael y cyfle i godi materion ac i roi gwybod i'r Cyngor am bryderon o ran rhoi'r strategaeth sy'n datblygu ar waith.

Wrth ystyried yr atebion i'r cwestiynau caeedig, ymddengys bod y mwyafrif yn cytuno â'r rhesymau y tu ôl i pam fod angen newid parhaus (55%), y weledigaeth a'r egwyddorion arweiniol (58%), ynghyd â gyrwyr newid ac amcanion strategol (53%) y strategaeth ddrafft bresennol.

Cafwyd ymateb ddwyochrog o ran datblygu'r Gymraeg, gyda rhai'n cytuno i ddatblygu'r Gymraeg ymhellach fel rhan o'r strategaeth, tra bo eraill yn credu bod gormod o sylw'n cael ei roi eisoes ar ddatblygu'r Gymraeg mewn ysgolion.

Mewn ymateb i'r cwestiynau agored, ymddengys bod 4 thema'n deillio o'r ymatebion hynny. Mae'r themâu'n ymwneud â -

Nifer a digonolrwydd ysgolion ac adeiladau ysgol

Y Gymraeg

Eglurder a Manylion

Yr Agenda Sero Net

Mae Cyswllt agos rhwng y themau hyn, a'r amcanion strategol sydd wedi ei adnabod o fewn Cynllun Y Cyngor

**3.2.1 Thema 1 – Nifer a digonolrwydd ysgolion ac adeiladau ysgol**
Roedd y thema hon yn deillio o'r ffaith bod nifer o ymatebwyr yn amau neu'n cwestiynu dilysrwydd cael ysgolion o wahanol feintiau (o'r rhai bach i'r rhai mawr), ynghyd â'r manteision canfyddedig a'r amheuon sy'n gysylltiedig â'r mathau gwahanol hynny o ysgolion.

Cafwyd ymateb ranedig glir o blith y sylwadau a ddaeth o dan y thema hon, gyda rhai o'r ymatebwyr eisiau gweld y ddarpariaeth addysg yn cael ei chanoli a'i moderneiddio, tra bo eraill yn dweud nad oeddent eisiau gweld addysg yn cael ei chanoli a'u bod yn gwrthwynebu'r posibilrwydd o gau ysgolion.

Roedd y rhesymau a roddwyd gan rai ymatebwyr, o ran eu bod eisiau gweld ysgolion yn cael eu moderneiddio / rhesymoli, yn cynnwys:

Er mwyn gwario mwy o'r gyllideb addysg ar addysgu, yn hytrach nag ar redeg / cynnal a chadw adeiladau.

I roi mynediad i ddisgyblion i gyfleusterau, adnoddau a thechnolegau sydd wedi'u huwchraddio.

I fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu ysgolion llai.

I wella cyflwr yr ystâd adeiladau ysgol, gan fod rhai o'r ysgolion (yn enwedig yn y sector uwchradd) mewn cyflwr gwael, neu ddim yn addas i'r diben.

Nodwyd hefyd y teimlai rhai ei fod yn siomedig i rai disgyblion orfod symud o Ysgolion Cynradd 21ain Ganrif newydd i Ysgol Uwchradd nad oedd o'r un safon.

O'r ymatebion a oedd yn dod o fewn y categori o ymatebwyr nad oeddent eisiau gweld addysg yn cael ei chanoli / cau ysgolion, nodwyd rhesymau fel a ganlyn:

Nid oeddent yn credu y byddai symud i ysgol fwy yn arwain at berfformiad gwell.

Byddai cau ysgolion yn golled i nifer o gymunedau clos. Roedd hwn yn bwynt allweddol a godwyd o fewn yr ymateb gan Gymdeithas yr Iaith, a oedd yn nodi y gall ysgolion lleol sydd ar agor i gymunedau chwarae rôl o fewn adfywiad economaidd cymdeithasol.

Gallai cau ysgolion arwain at lai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol – yn enwedig o fewn ardaloedd difreintiedig.

Y posibilrwydd o niferoedd disgyblion yn cynyddu - o bosibl o ganlyniad i'r porthladd rhydd neu ragor o dai fforddiadwy'n cael eu darparu.

Dylai'r Cyngor wneud mwy i fynd i'r afael â nifer y bobl ifanc sy'n symud oddi ar yr ynys i fyw, a chredir bod gan ysgolion rôl i'w chwarae o safbwynt hyn.

Cafwyd ymateb i'r ymgynghoriad gan yr Undeb Athrawon hefyd. Nodwyd ganddi na fyddai creu ysgolion traws-sector yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu athrawon. Bydd yr angen yn parhau am yr un nifer o arbenigwyr pwnc penodol. Ni fydd cael disgyblion 3-11 oed fel rhan o'r ysgol yn helpu i ddenu athrawon pwnc penodol ar gyfer y sector uwchradd. Pwysleisiwyd hefyd pa mor bwysig yw sicrhau nad yw darpariaeth ôl-16 yn dirywio o ganlyniad i unrhyw adolygiad, a chwestiynwyd y modd y caniatawyd i gyflwr ysgolion uwchradd ddirywio i gyflwr mor wael, o gymharu â chyflwr ysgolion cynradd.

Mae'r sylwadau hyn yn dangos nad oedd unrhyw gytundeb penodol o ran un farn a oedd yn fwy amlwg nag eraill o safbwynt y strategaeth, ac yn wir, ceir ragor o dystiolaeth o'r farn hon yn yr ymatebion a gafwyd gan ddisgyblion a gymerodd ran yn y cyfarfodydd ymgynghori.

Dywed disgyblion o rai ysgolion ei bod yn well ganddynt fynychu ysgol fechan, a'u bod yn fwy cyfforddus yn mynychu ysgol lai, tra bo eraill yn teimlo bod manteision o ran mynychu ysgolion mwy. Ychwanegodd rhai disgyblion y dylid trin pawb yn gyfartal, ac y dylent gael yr un cyfleoedd. Roedd rhai'n dymuno cael mwy o le, neu eisiau gweld adeiladau ysgol yn cael eu moderneiddio.

Fel rhan o'u hymateb nhw, nododd Mudiad Meithrin y gallent ddeall y sail resymegol i'r strategaeth, ar ôl gweld y gostyngiad yn nifer y plant - cyfrifiad 2021. Fodd bynnag, roeddent yn credu bod angen i'r Cyngor ystyried effaith cyfuno ysgolion ar y Grwpiau Meithrin, a phe bai hyn yn cael ei wireddu, amlinellwyd ganddynt yr angen i ystyried darparu cludiant ar gyfer plant o oedran anstatudol (rhai 2-3 oed), i sicrhau bod darpariaeth feithrin ar gael i bawb.

Gallai Mudiad Meithrin weld manteision cael lleoliadau mwy, o ganlyniad i allu cynnig oriau hirach, ynghyd â mwy o gyfleoedd i staff ddatblygu. Fodd bynnag, teimlent y dylid cadw grwpiau meithrin mewn rhai cymunedau lleol.

Darparodd Grŵp Llandrillo Menai adborth ar yr ymgynghoriad hefyd, gan nodi eu bod yn croesawu'r ymgynghoriad, ac yn cytuno â'r gyrwyr newid a nodwyd, ynghyd â sicrhau bod y ddarpariaeth addysg yn gynaliadwy ar yr ynys at y dyfodol.

Gellir gweld rhagor o enghreifftiau o'r mathau o sylwadau a wnaed yn Atodiad 1.

**3.2.2 Thema 2 – Y Gymraeg**
Unwaith eto, cafwyd barnau a oedd yn gwrthdaro yng nghyswllt y Gymraeg, gyda rhai'n awyddus i weld y Gymraeg yn cael ei datblygu a'i hyrwyddo ymhellach trwy gyfrwng y strategaeth, tra bo eraill yn teimlo bod gormod o sylw eisoes ar y Gymraeg mewn ysgolion.

O'r ymatebion a oedd yn gwrthwynebu datblygu'r Gymraeg ymhellach trwy gyfrwng y strategaeth, roedd eu rhesymau'n cynnwys y canlynol:

- Gall fod yn anodd i blant sy'n dod o aelwydydd nad ydynt yn siarad Cymraeg ddilyn yr addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, os mai dim ond dealltwriaeth sylfaenol sydd ganddynt o'r iaith. Roedd pryderon y gallai hyn atal disgyblion rhag cyflawni eu potensial.
- Dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'r Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal / ffafriol eisoes.
- Dylid cael strategaeth ar wahân ar gyfer datblygu'r Gymraeg a Moderneiddio Cymunedau Dysgu. Teimlai rhai ei bod yn bwysig datblygu'r Gymraeg, ond roeddent yn anghytuno o ran a ddylid gwneud hyn mewn ysgolion. Dylid gwneud hyn mewn cymunedau, neu trwy ddefnyddio adeiladau ysgol efallai fel adnodd cymunedol gyda'r nos, er mwyn hyrwyddo a hwyluso gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae angen datblygu disgyblion ar gyfer cyfleoedd gwaith at y dyfodol, gyda mwy a mwy o gyfleoedd i bobl leol ddilyn gyrfaoedd a chael cyflogaeth y tu hwnt i Gymru, yn enwedig o ystyried y symudiad tuag at fwy o weithio o bell.

O'r ymatebwyr a oedd eisiau datblygu'r Gymraeg ymhellach, roedd rhai ohonynt o'r fan y byddai'r strategaeth yn ei ffurf bresennol yn datblygu'r Gymraeg ymhellach, tra bo gan eraill bryderon y gallai'r strategaeth fod yn niweidiol i ddatblygiad y Gymraeg. Y rheswm mwyaf cyffredin o bell ffordd am y pryderon hyn oedd yr argraff ganfyddedig y byddai'r strategaeth yn arwain at gau ysgolion llai. Dywedodd nifer o ymatebwyr eu bod yn credu y byddai cau ysgolion yn niweidiol i'r Gymraeg. Roed Cymdeithas yr Iaith yn rhannu'r pryder hwn. Nodwyd ganddynt mai ysgolion cymunedol bach yw'r ddolen gyswllt rhwng y gymuned a'r Gymraeg, ac mai dyma'r modd i gymhathu mewnfudwyr. Gwnaeth yr Undeb Athrawon y sylw hefyd y byddai uno ysgol a chanddi ganran uchel o siaradwyr Cymraeg ag ysgol arall a chanddi lai o siaradwyr Cymraeg yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg.

Roedd gan Gymdeithas yr Iaith bryderon hefyd oherwydd yr ymrwymiad llac a awgrymir gan "addysg Gymraeg a Dwyieithog". Teimlent ei bod yn bwysig cydnabod ysgolion o fewn y categori uchaf o ysgolion Cymraeg i osgoi unrhyw ansicrwydd.

Pwysleisiodd yr Undeb Athrawon bwysigrwydd sicrhau bod pob dewis ôl-16 yn ddwyieithog.

Roedd Mudiad Meithrin yn cydnabod yr angen i gynyddu nifer y plant sy'n gallu siarad Cymraeg ledled Cymru, ac roeddynt yn credu bod gan y sector Addysg, Gofal a Blynyddoedd Cynnar rôl i'w chwarae. Mae Mudiad Meithrin yn credu bod trochi plant yn y Gymraeg yn bwysig yn ystod y blynyddoedd cynnar, er mwyn sefydlu sail gadarn i blant adeiladu arni yn ystod eu haddysg statudol.

Gwnaed sawl awgrym o ran sut y gellid datblygu'r Gymraeg ymhellach, o blith yr ymatebion ar-lein, ynghyd â'r adborth o'r cyfarfodydd ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc.

Cynhwyswyd enghreifftiau yn atodiad 2 ac atodiad 3, yn y drefn honno, a gan fod y strategaeth yn datgan mai'r nod yw "datblygu a chryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithrwydd yn yr ystafell ddosbarth ac mewn cyd-destunau anffurfiol", yna bydd angen ystyried y ffactorau hyn ar yr adeg y bydd ei chyfnod gweithredu'n cychwyn.

**3.2.3 Thema 3 – Eglurder a Manylion**
Gwnaed rhai sylwadau o dan y thema 'Eglurder a Manylion'. Rhestrwyd y sylwadau a wnaed yn Atodiad 1. Yr adborth mwyaf cyffredin oedd nad yw'r Strategaeth yn cynnwys digon o fanylion am y cynlluniau arfaethedig.

Diben y strategaeth hon yw dod i gytundeb ynghylch gweledigaeth y Cyngor, ynghyd â'i amcanion strategol a'r gyrwyr newid. Ar ôl mabwysiadu'r strategaeth, bydd y Cyngor yn ystyried opsiynau ar gyfer ardaloedd penodol ac yn eu gwerthuso'n ofalus cyn gwneud cynnig. Bydd hyn yn darparu'r manylion a'r eglurder a fynnir gan ymatebwyr yng nghyswllt y cynnig penodol hwnnw, ac yn cynnwys y data angenrheidiol.

Derbyniwyd adborth hefyd trwy'r arolwg ar-lein, a thrwy'r sesiynau ymgynghori gyda Phlant a Phobl Ifanc, a oedd yn nodi nad yw'r strategaeth yn ategu ei data trwy ddarparu'r ffynonellau gwybodaeth cysylltiedig. Cafodd hyn ei nodi, ac fe'i hystyrir ymhellach cyn cyflwyno'r strategaeth ar gyfer ei mabwysiadu.

Fel rhan o'r ymatebion ar-lein, nodwyd bod y nod o roi darpariaeth ôl-16 newydd ar waith ledled Ynys Môn erbyn 2025 yn rhy uchelgeisiol, ac y dylid ailystyried y rhan hon o'r strategaeth.

**3.2.4 Thema 4 – Yr Agenda Sero Net**
Cafodd rhywfaint o'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ei gategoreiddio o dan thema'r 'Agenda Sero Net'.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Mae nifer o ysgolion bach yn creu lefel uchel o allyriadau carbon.
- Bydd cau ysgolion yn arwain at orfod teithio'n bellach. Bydd hyn yn arwain at gynyddu'r ôl-troed carbon.
- Byddai cynnal gwaith ôl-osod ar adeiladau presennol yn well nag adeiladu ysgolion newydd.

Derbyniwyd y sylwadau hyn trwy'r arolwg ar-lein, a thrwy'r sesiynau ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc.

Roedd Cymdeithas yr Iaith wedi nodi hefyd y bydd cau ysgolion cymunedol yn golygu y bydd angen teithio mwy, gan felly amlinellu mater a fyddai'n gofyn am sylw ac ystyriaeth ofalus wrth ddatblygu cynigion at y dyfodol.

## 4. CASGLIAD

Yn ystod y cyfnod ymgynghori 6 wythnos, derbyniwyd cyfanswm o 298 o ymatebion, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r rhesymau o ran 'pan fod angen newid parhaus', y 'weledigaeth a'r egwyddorion arweiniol' a'r 'gyrwyr newid'.

Fel rhan o arolwg yr ymgynghoriad, roedd cyfle i ymatebwyr roi sylwadau ynghylch y strategaeth, yn ogystal â mynegi eu barn o ran sut y bydd y strategaeth yn effeithio'r Gymraeg, ac yn benodol, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd cyfle hefyd i ymatebwyr wneud awgrymiadau o

ran sut y gellid newid y strategaeth i gael effeithiau cadarnhaol, neu i gael mwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mewn ymateb i'r cwestiynau agored, ymddengys bod 4 thema'n deillio o'r ymatebion hynny:

1. Nifer a digonolrwydd ysgolion ac adeiladau ysgol
2. Y Gymraeg
3. Eglurder a Manylion
4. Yr Agenda Sero Net

O fewn y themâu hyn, codwyd nifer o bwyntiau dilys, a bydd angen eu hystyried ymhellach wrth ddatblygu cynigion. Ni fyddai pob un o'r pwyntiau dilys hyn yn golygu bod angen adolygu neu addasu'r strategaeth.

## 5. ARGYMHELLION

Mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori, mae Swyddogion y Cyngor wedi ystyried y pwyntiau a godwyd, ac argymhellir y dylid gwneud y newidiadau a ganlyn i'r strategaeth ddrafft -

a. Ynghylch: Yr Amserlen Weithredu – Cam 3 – 2025 Ymlaen.
   Roedd y strategaeth ddrafft yn nodi:
   "Darpariaeth ôl-16 yn ei newydd wedd yn **weithredol**."
   Caiff hyn ei ddiwygio i:
   "**Penderfyniadau wedi'u gwneud** yng nghyswllt darpariaeth ôl-16 ar Ynys Môn"

b. Ynghylch: ffynonellau a fynnwyd – Caiff rhan newydd ei hychwanegu ar ddiwedd y 'Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg' i gydnabod y ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd i gael y data o fewn y strategaeth. Gelwir y rhan hon yn **'Ffynonellau Gwybodaeth'**

c. Ynghylch: y model llywodraethu – Mae'r rhan 'Monitro, Rheolaeth a Llywodraethiant' wedi'i **diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau o safbwynt llywodraethiant**

Nid yw'r newidiadau uchod yn effeithio gweledigaeth y strategaeth.

Yn dilyn y diwygiadau uchod i'r strategaeth, o ganlyniad i'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, argymhellir y dylai'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo a mabwysiadu'r 'Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg' ddiwygiedig, ynghyd â chyfarwyddo swyddogion i fwrw ymlaen â'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, yn unol â'r strategaeth ddiwygiedig.

**ATODIAD 1 – Rhagor o enghreifftiau o sylwadau a wnaed trwy'r arolwg ar-lein mewn ymateb i'r cwestiwn:**

**"Oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar y 'Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg' ddrafft?"**

| THEMA 1: NIFER A DIGONOLRWYDD YSGOLION AC ADEILADAU YSGOL | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Enghreifftiau / Crynodeb o'r math o sylwadau a wnaed** |
| 1 | Nid yw'r pwysau i gau ysgolion bach yn ystyried y ddarpariaeth ffantastig a ddarperir ganddynt. |
| 2 | Bydd y posibilrwydd o gau ysgolion yn golled i nifer o gymunedau clos. |
| 3 | Nid oes unrhyw dystiolaeth bod perfformiad yn well mewn ysgolion mwy nag mewn ysgolion bach. Nododd rhai hefyd bod ysgolion mwy yn wynebu'r un heriau ag ysgolion llai, e.e. recriwtio. |
| 4 | Rydym yn cefnogi ysgolion ardal / canoli addysg. Ymhlith y rhesymau am hyn yr oedd:<br>Dylid gwario'r gyllideb addysg ar addysgu, nid ar gynnal a chadw / rhedeg adeiladau.<br>I ymateb i'r gostyngiad mewn niferoedd disgyblion.<br>I fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu ysgolion llai. |
| 5 | Mae posibilrwydd y bydd niferoedd y plant yn cynyddu yn y dyfodol, yn enwedig os wnaiff y Porthladd Rhydd wireddu ei ddisgwyliadau, neu os datblygir cartrefi fforddiadwy newydd. |
| 6 | Roedd dymuniad i weld buddsoddiad yn y sector uwchradd. Ymhlith y rhesymau am hyn yr oedd:<br>Mae arian wedi cael ei fuddsoddi yn y Sector Cynradd yn barod.<br>Nid yw adeiladau ac adnoddau Uwchradd yn addas i'r diben.<br>Mae'n siomedig gweld disgyblion yn symud o ysgolion modern newydd i ysgolion uwchradd nad ydynt yn addas i'r diben ac sydd o ansawdd wael. |
| 7 | Yn cefnogi moderneiddio cymunedau dysgu, ynghyd â rhoi mynediad i ddisgyblion i gyfleusterau a thechnolegau sydd wedi'u huwchraddio. |
| 8 | Ffactorau economaidd sy'n sbarduno'r pwysau i gau ysgolion. |
| 9 | Cwestiynwyd y gost o gynnal rhai agweddau ar adeiladau ysgol newydd. |
| 10 | Yr angen i sicrhau bod y cynnig ar gyfer disgyblion ôl-16 yn un o ansawdd uchel, sy'n addas ar gyfer anghenion Ynys Môn at y dyfodol. |
| 11 | Mae angen un ysgol uwchradd yn llai. |
| 12 | Yn poeni ynghylch datblygu ysgol 3-16 / 3-18. Nid yw rhai disgyblion uwchradd bob amser yn ymddwyn yn briodol. Gallai hyn arwain at bryderon o ran diogelwch, ynghyd â disgyblion iau ddim eisiau mynd i'r ysgol. |
| 13 | Mae'n bwysig rhoi sylw i lesiant yn y gweithle. |
| 14 | Mae'n bwysig datblygu ysgolion fel hybiau cymunedol. |

| THEMA 2: Y GYMRAEG | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Enghreifftiau / Crynodeb o'r math o sylwadau a wnaed** |
| 1 | Ceir gormod o sylw ar y Gymraeg, yn hytrach nag ar sgiliau ar gyfer cael gyrfa yn y dyfodol. Gallai hyn atal disgyblion rhag cyflawni eu potensial. Dylid dysgu'r ddwy iaith yn gyfartal. |
| 2 | Bydd cau ysgolion yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg. |
| 3 | Mae gormod o bobl ifanc yn gadael yr ynys i ddod o hyd i waith. Mae pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg sy'n symud i'r ynys i ymddeol yn cyfrannu at y broblem hon, trwy wthio prisiau tai Ynys Môn i fyny. Mae angen buddsoddiad i ddenu cwmnïau i Ynys Môn. Byddai hyn yn darparu swyddi er mwyn i bobl leol aros ar Ynys Môn, a byddai'n gwarchod y Gymraeg. |
| 4 | Dylid cael strategaethau ar wahân ar gyfer 'Moderneiddio Cymunedau Dysgu' a 'Datblygu'r Gymraeg', gan eu bod yn ddau fater ar wahân. |

| THEMA 3: EGLURDER A MANYLION | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Enghreifftiau / Crynodeb o'r math o sylwadau a wnaed** |
| 1 | Nid yw'r Strategaeth yn cynnwys digon o fanylion / byddai'n dda cael rhagor o eglurder o ran y cynllun arfaethedig. |
| 2 | Yn teimlo fel pe bai'r penderfyniad wedi'i wneud yn barod. |
| 3 | Mae'r arolwg wedi'i eirio fel na fedrwch chi ond cytuno â'r datganiad. |
| 4 | Mae cael darpariaeth Ôl 16 newydd yn weithredol ar draws Ynys Môn erbyn 2025 yn rhu uchelgeisiol. |

| THEMA 4: YR AGENDA SERO NET | |
|---|---|
| **Cyf.** | **Enghreifftiau / Crynodeb o'r math o sylwadau a wnaed** |
| 1 | Byddai gwneud gwaith ôl-osod ar adeiladau presennol yn fwy effeithlon ac yn rhatach na chau ysgolion a chreu adeiladau newydd. |
| 2 | Bydd cau ysgolion yn golygu bod angen teithio'n bellach a bydd angen bysiau – yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Bydd hyn yn arwain at ôl-troed carbon mwy. |

**ATODIAD 2 - Rhagor o enghreifftiau o sylwadau a wnaed trwy'r arolwg ar-lein mewn ymateb i'r cwestiwn:**

**"Hoffem gael eich barn ar effaith y 'Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg' ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?**

**Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?"**

| Cyf. | Enghreifftiau / Crynodeb o'r math o sylwadau a wnaed |
|---|---|
| 1 | Bydd cau ysgolion yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg. |
| 2 | Mae'r Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal / ffafriol yn barod. |
| 3 | Mae gormod o sylw'n cael ei roi'n barod ar ddatblygu'r Gymraeg mewn ysgolion. |
| 4 | Dylai pob ysgol fod yr un mor gyfrifol am ddatblygu'r Gymraeg, trwy ddarparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| 5 | Nid oes unrhyw gefnogaeth yn cael ei rhoi i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg i allu cefnogi eu plant wrth ddysgu. |
| 6 | Dylai ysgolion weithio mwy gyda chwmnïau trydydd parti a'r gymuned i ddatblygu'r Gymraeg. |
| 7 | Dylid cynnal adolygiad i weld p'un a yw'r canolfannau dysgu Cymraeg yn darparu gwerth am arian. |
| 8 | Dylid gwneud rhagor o ddefnydd o'r canolfannau iaith. |
| 9 | Dylai'r holl staff dysgu fod yn rhugl yn y ddwy iaith, a dylid cael lleiafswm o lywodraethwyr ysgol y dylent fod yn siaradwyr Cymraeg ar bob corff llywodraethu. Dylai cyrff llywodraethu gynnal cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| 10 | Mae angen annog rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg adref. |
| 11 | Dylai Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg ddod o dan ddwy strategaeth ar wahân. |
| 12 | Os caiff ei gweithredu'n effeithiol, dylai'r strategaeth gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. |
| 13 | Mae angen mwy o gyllideb ar ysgolion i ganiatáu rhagor o adnoddau i ddatblygu'r Gymraeg. |
| 14 | Mae meithrinfeydd o fewn cymunedau'n cyfrannu tuag at ddatblygu'r Gymraeg. |
| 15 | Bydd dileu darpariaeth ôl-16 yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg. |
| 16 | Dylid asesu sgiliau ieithyddol plant yn annibynnol. |
| 17 | Bydd ysgolion 3-16 / 3-18 yn cael effaith andwyol ar sgiliau ieithyddol plant iau. |
| 18 | Nid oes digon o fanylder o fewn y strategaeth sy'n nodi sut y caiff datblygiad y Gymraeg ei fesur. |

| Cyf. | Enghreifftiau / Crynodeb o'r math o sylwadau a wnaed |
|---|---|
| 19 | Mae angen rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc allu aros ar Ynys Môn. |
| 20 | Mae angen rhagor o gynnwys Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol. |
| 21 | Mae angen symleiddio cyfathrebiadau ysgrifenedig yn y Gymraeg – i fod yn debycach i'r iaith lafar. |

**ATODIAD 3 - Rhagor o enghreifftiau o sylwadau a wnaed trwy'r arolwg ar-lein mewn ymateb i'r DATGANIAD:**

**"Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r 'Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg' gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwn sicrhau na fydd effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg."**

| Cyf. | Enghreifftiau / Crynodeb o'r math o sylwadau a wnaed |
|---|---|
| 1 | Bydd cau ysgolion bach / gwledig yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg. |
| 2 | Dylid cynnal gweithgareddau allgyrsiol ar safleoedd ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| 3 | Dylid hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion – roedd ambell un wedi ychwanegu y dylai hyn gynnwys rhieni hefyd. |
| 4 | Mae angen rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc aros ar Ynys Môn. |
| 5 | Dylai gwersi Cymraeg fod ar gael yn lleol – efallai o safleoedd ysgol. |
| 6 | Mae'r Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal / ffafriol yn barod. |
| 7 | Mae gormod o sylw'n cael ei roi i ddatblygu'r Gymraeg mewn ysgolion yn barod. |
| 8 | Dylid datblygu'r Gymraeg mewn cartrefi a chymunedau, yn ogystal â mewn ysgolion. |
| 9 | Dylai Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg ddod o dan ddwy strategaeth ar wahân. |
| 10 | Os caiff ei gweithredu'n effeithiol, dylai'r strategaeth gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. |
| 11 | Mae angen mwy o gyllideb ar ysgolion i ganiatáu rhagor o adnoddau i ddatblygu'r Gymraeg. |
| 12 | Mae meithrinfeydd o fewn cymunedau'n cyfrannu tuag at ddatblygu'r Gymraeg. |
| 13 | Dylai'r holl ddarpariaeth ôl-16 fod yn ddwyieithog. |
| 14 | Cyfuno a lleihau nifer yr ysgolion. |
| 15 | Mae angen mynd i'r afael â'r tueddiad i ddefnyddio'r Saesneg yn y coridorau / iard yr ysgol mewn ysgolion uwchradd. |
| 16 | Mae angen monitro sut mae datblygiadau eraill wedi effeithio'r Gymraeg. |
| 17 | Mae angen i bolisïau fod yn fwy ffafriol tuag at y Gymraeg. |
| 18 | Mae angen rhagor o gynnwys Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol |

## ATODIAD 4 – YMGYNGHORI GYDA PHLANT A PHOBL IFANC

### Y Trefniadau

Cynhaliodd swyddogion y Cyngor gyfarfodydd ymgynghori gyda disgyblion ysgol gynradd ac uwchradd i glywed eu barnau am y strategaeth ddrafft.

O ran y sector cynradd, cynhaliwyd pum cyfarfod ymgynghori trwy Zoom. Cafwyd un sesiwn ar gyfer ysgolion cynradd o fewn bob un o'r dalgylchoedd uwchradd.

Gofynnwyd i bob ysgol gynradd enwebu 3 disgybl o'u hysgol i gymryd rhan.

Cynhaliwyd cyfarfod ar wahân ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn hefyd trwy Zoom. Gofynnwyd i bob ysgol uwchradd enwebu 3 disgybl i gymryd rhan yn y sesiwn ymgynghori.

Cynhaliwyd sesiwn wyneb yn wyneb gyda 3 disgybl o Ganolfan Addysg Y Bont.

Cynhaliwyd sesiwn ychwanegol gennym hefyd i roi ail gyfle i unrhyw un oedd wedi methu â mynychu'r sesiwn oedd wedi'i neilltuo ar eu cyfer.

Paratowyd cyflwyniad ar gyfer bob grŵp, ac fe'i cyflwynwyd mewn modd oedd yn berthnasol i'w hoedran a'u galluoedd dysgu. Cafodd cynnwys y cyflwyniadau ei gytuno gyda'r Penaethiaid ymlaen llaw.

Atgoffwyd y plant am Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

'Mae gan blant yr hawl i ddweud yr hyn y maent yn meddwl a ddylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i eraill ystyried eu safbwyntiau.'

### Sesiynau Ymgynghori Cynradd

Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn i'r plant cynradd:

Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â'r rhesymau 'Pam bod angen newid'?

Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Beth rydym eisiau ei gyflawni'?

Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Sut rydym yn awgrymu y dylid gwneud hyn'?

Oes gennych chi unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y cynllun / strategaeth?

Oes gennych chi unrhyw syniadau o ran sut y gallwn sicrhau bod y cynllun / strategaeth yn cefnogi ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

Roedd disgyblion o 23 ysgol gynradd wedi cymryd rhan yn y sesiynau ymgynghori. Cafwyd cymysgedd o Enethod a Bechgyn, ynghyd â chynrychiolaeth dda o blith ysgolion bach, canolig a mawr o ran maint.

Roedd disgyblion o 16/23 (70%) o'r ysgolion cynradd a gymerodd ran yn cytuno â'r rhesymau o ran 'Pam bod angen newid'.

Cafwyd cefnogaeth gref ymhlith y disgyblion i'r cwestiwn 'Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Beth rydym eisiau ei gyflawni'?' - roedd disgyblion o 91% o'r ysgolion a gymerodd ran yn cytuno, roedd 9% yn ansicr, ac neb yn anghytuno.

Roedd yr ymateb i'r cwestiwn 'Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Sut rydym yn awgrymu y dylid gwneud hyn'?' yn debyg i'r ymateb i'r cwestiwn cyntaf, gyda disgyblion o 68% o'r ysgolion a gymerodd ran yn cytuno.

**Sesiynau Ymgynghori Uwchradd**

Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn i'r plant uwchradd:

Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â'r rhesymau 'Pam bod angen newid?'

Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda gweledigaeth y Cyngor?

Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda'r 'Gyrwyr Newid / Amcanion Strategol'?

Oes gennych chi unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y 'Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg'?

Oes gennych chi unrhyw syniadau o ran sut y gallwn sicrhau bod y cynllun / strategaeth yn cefnogi ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

Roedd disgyblion o 4 ysgol uwchradd wedi cymryd rhan yn y sesiwn ymgynghori.

Roedd y disgyblion o'r 4 ysgol yn cytuno gyda'r:

Rhesymau o ran 'Pam bod angen newid'

'Gweledigaeth y Cyngor'

'Gyrwyr Newid / Amcanion Strategol'

Roedd tebygrwydd unwaith eto rhwng y negeseuon a dderbyniwyd gan ddisgyblion, ac o ran yr adborth ar yr arolwg, er enghraifft:

Mae angen i'r gwariant fod yn fwy cyfartal / Dylid rhoi cyfleoedd cyfartal i ddisgyblion

Dylai ysgolion helpu cymunedau

Byddai disgyblion yn croesawu buddsoddiad yn yr adeiladau ysgol

Nid yw'r strategaeth yn cynnwys digon o wybodaeth / tystiolaeth i gefnogi datganiadau

Cefnogaeth i ddatblygu'r Gymraeg

Gellir gweld rhagor o fanylion o fewn y cofnodion isod a gytunwyd.

**Sesiwn Ymgynghori Canolfan Addysg Y Bont**

Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn i ddisgyblion o Ganolfan Addysg Y Bont:

Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â'r rhesymau 'Pam bod angen newid?

Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda gweledigaeth y Cyngor?

Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda'r 'Gyrwyr Newid / Amcanion Strategol'?

Oes gennych chi unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y 'Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg'?

Oes gennych chi unrhyw syniadau o ran sut y gallwn sicrhau bod y cynllun / strategaeth yn cefnogi ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

Roedd tri disgybl o Ganolfan Addysg Y Bont wedi mynychu'r sesiwn ymgynghori (2 Fachgen ac un ferch, yr oedd pob un ohonynt yn 16 – 18 mlwydd oed).

Roedd pob un o'r cyfranogwyr yn cytuno gyda'r cwestiynau:

Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â'r rhesymau 'Pam bod angen newid?

Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda gweledigaeth y Cyngor?

Roedd dau o'r tri chyfranogwr yn cytuno â'r cwestiwn "Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda'r 'Gyrwyr Newid / Amcanion Strategol'?", ond roedd un disgybl yn ansicr.

Gellir gweld eu sylwadau o fewn y cofnodion isod a gytunwyd.

**Y cofnodion a gytunwyd o'r sesiynau ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc**

| **Ysgolion Cynradd o fewn Dalgylch Ysgol David Hughes** | |
|---|---|
| Faint o blant a fynychodd y sesiwn? | Cynrychiolwyr o Ysgol Llanfairpwll, Llangoed a Llandegfan, cyfanswm o 9 o blant (9-11 oed) 5 Merch / 4 Bachgen, cynhaliwyd y cyfarfod ar 10-5-23.<br><br>Un dosbarth cyfan o Barc Y Bont (Blynyddoedd 5 a 6), cynhaliwyd y cyfarfod ar 18-5-23. |
| **Cwestiwn** | **Atebion** |

| Ysgolion Cynradd o fewn Dalgylch Ysgol David Hughes | |
|---|---|
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â'r rhesymau 'Pam bod angen newid? | Llanfairpwll - ddim yn siŵr, mae angen i ysgolion gael eu moderneiddio ond dydyn ni ddim eisiau iddyn nhw gau.<br>Llangoed - ddim yn siŵr, ddim eisiau gweld ysgolion yn cau.<br>Llandegfan – yn cytuno, ond mae angen gwario'r arian yn gyfartal.<br>Parc y Bont – yn cytuno oherwydd yr hinsawdd/amgylchedd. |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Beth rydym eisiau ei gyflawni'? | Llanfairpwll – yn cytuno, mae'r Gymraeg yn bwysig.<br>Llangoed - yn cytuno, mae'n bwysig i bawb fod yn hyderus wrth siarad y Gymraeg.<br>Llandegfan – yn cytuno, mae llesiant yn bwysig.<br>Parc y Bont - yn cytuno, rydym yn meddwl ei bod yn bwysig i blant fod yn rhugl yn y Saesneg a'r Gymraeg, felly os ydym ni'n symud i ffwrdd, mi gawn ni'r un cyfleoedd â phawb arall. Mae gennym lawer o le y tu allan i'r ysgol, ond mae'r ysgol yn eithaf bach y tu mewn. Dydy'r ystafelloedd dosbarth ddim yn ddigon mawr i bawb. |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Sut rydym yn awgrymu y dylid gwneud hyn'? | Llangoed - ddim yn siŵr, angen gwella technoleg yr ysgol, dydy'r rhyngrwyd ddim y gorau. Mae angen gwario ar adeiladau i'w gwella.<br>Llandegfan - ddim yn siŵr sut y byddai'n effeithio ein hysgol.<br>Llanfairpwll - ddim yn siŵr, mae angen gwella adeiladau.<br>Parc y Bont - yn cytuno, dylai Penaethiaid fod yn yr ystafelloedd dosbarth hefyd, er mwyn iddyn nhw gael dod i adnabod y disgyblion. Mae bob Pennaeth wedi cymhwyso i ddysgu felly byddai'n wastraff ar gymhwyster os nad oedden nhw'n dysgu. Mwy o ffrindiau mewn ysgolion llai. |
| Oes gennych chi unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y cynllun / strategaeth? | Llanfairpwll - mae'r tai'n ddrud sy'n golygu bod pobl yn gorfod symud i ffwrdd ac felly mae yna lai o blant yn ein hysgol.<br>Parc y Bont – sut mae'r cynllun yma am effeithio ysgolion llai fel ein un ni? |
| Oes gennych chi unrhyw syniadau o ran sut y gallwn sicrhau bod y cynllun / strategaeth yn cefnogi ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg? | Llangoed - Clwb Cymraeg o fewn a'r tu allan i'r ysgol.<br>Llanfairpwll – ymweld ag ysgolion eraill a chynnal gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Llandegfan – cynyddu faint o Gymraeg sy'n cael ei siarad, angen mwy o ddathliadau Cymreig. Mae'r Urdd yn gwella'r Gymraeg. |

| Ysgolion Cynradd o fewn Dalgylch Ysgol David Hughes | |
|---|---|
| | Parc y Bont – mwy o bosteri Cymraeg o gwmpas y lle, yn y gymuned, i hybu'r Gymraeg. |

| Ysgolion Cynradd o fewn Dalgylch Ysgol Gyfun Llangefni | |
|---|---|
| Pwy fynychodd y sesiwn? | Cynrychiolwyr o Ysgol Corn Hir, Esceifiog, Talwrn, Santes Dwynwen, Y Graig, Llanbedrgoch a Henblas, cyfanswm o tua 30 o blant ynghyd â dosbarth cyfan o Ysgol Bodffordd (Blynyddoedd 4,5,6), cynhaliwyd y cyfarfod ar 10-5-23. |
| **Cwestiwn** | **Atebion** |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â'r rhesymau 'Pam bod angen newid? | Corn Hir – yn cytuno<br>Bodffordd – yn cytuno<br>Esceifiog – yn cytuno<br>Talwrn - ddim yn siŵr, rydych chi'n cael ymdeimlad mwy cymunedol mewn ysgol lai<br>Santes Dwynwen - ddim yn siŵr, mae gennym ysgol newydd ond mae yno lawer o leoedd gwag<br>Graig – yn cytuno<br>Llanbedrgoch - ddim yn siŵr, rydym yn mwynhau cael ysgol fechan, mae pawb yn adnabod ei gilydd<br>Henblas - yn cytuno |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Beth rydym eisiau ei gyflawni'? | Santes Dwynwen – yn cytuno<br>Graig – yn cytuno<br>Llanbedrgoch – yn cytuno<br>Corn Hir – yn cytuno<br>Bodffordd – yn cytuno<br>Talwrn – yn cytuno<br>Esceifiog – yn cytuno<br>Henblas – yn cytuno, siarad mwy o Gymraeg |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Sut rydym yn awgrymu y dylid gwneud hyn'? | Henblas – yn cytuno<br>Esceifiog – yn cytuno<br>Santes Dwynwen – yn cytuno<br>Graig – yn ansicr, mae'n ymddangos bod yr arian yn mynd i ysgolion mwy, mae angen ei ddosbarthu'n gyfartal<br>Bodffordd – yn cytuno, ynghyd â rhannu popeth yn deg<br>Llanbedrgoch – yn cytuno, mae ysgolion bach yn bwysig<br>Corn Hir - yn cytuno |
| Oes gennych chi unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y cynllun / strategaeth? | Esceifiog – mwy o Gymraeg, efallai'r defnydd o dechnoleg i hybu'r Gymraeg. Mae angen talu staff yn well er mwyn iddyn nhw aros yn eu swyddi. Rydym angen ffenestri a drysau newydd hefyd, i gadw'r gwres yn yr adeilad. Mae angen ystafell gelf newydd, ynghyd â mwy o le yn gyffredinol<br>Henblas – gwersi Cymraeg yn y pentref<br>Corn Hir – rhagor o lyfrau Cymraeg yn yr ysgol<br>Graig – sgrin werdd ar gyfer rhagor o ddyfeisiau technolegol, ynghyd â llai o ddefnydd ar dechnoleg ar gyfer bwlio<br>Bodffordd – rhagor o ymweliadau gan bobl o'r tu allan i'r ysgol i siarad am wahanol bethau, gwahanol weithgareddau<br>Santes Dwynwen – gormod o gartrefi gwyliau yn yr ardal, dim tai ar gyfer bobl leol<br>Llanbedrgoch – rhagor o weithgareddau |
| Oes gennych chi unrhyw syniadau o ran sut y gallwn | Graig – sticeri ar gyfer pwy bynnag sy'n siarad mwy o Gymraeg, mae angen rhagor o raglenni teledu Cymraeg hefyd |

| Ysgolion Cynradd o fewn Dalgylch Ysgol Gyfun Llangefni | |
|---|---|
| sicrhau bod y cynllun / strategaeth yn cefnogi ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg? | Santes Dwynwen – mae mwy o Gymraeg yn cael ei defnyddio yn yr ysgol yma nag yn yr hen ysgol (cyn iddyn nhw ymuno)<br>Llanbedrgoch – gwneud rhagor o ddefnydd o'r Canolfannau Iaith er mwyn addysgu'r plant<br>Henblas – mwy o feddalwedd Cymraeg<br>Esceifiog – rydym angen clywed rhagor o fandiau roc Cymraeg<br>Bodffordd – gwobrwyo'r rhai sy'n siarad Cymraeg |

| Ysgolion Cynradd o fewn Dalgylch Ysgol Uwchradd Bodedern | |
|---|---|
| Faint o blant? | Cynrychiolwyr o Ysgol Y Ffridd, Llanerchymedd, Bodedern a Rhyd y Llan, cyfanswm o 14 o blant (9-11 oed) 5 Merch / 9 Bachgen, cynhaliwyd y cyfarfod ar 10-5-23 |
| **Cwestiwn** | **Atebion** |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â'r rhesymau 'Pam bod angen newid? | Ffridd – yn cytuno<br><br>Llanerchymedd – yn cytuno<br><br>Bodedern – yn cytuno, ond does dim angen i rai ysgolion newid unrhyw beth<br><br>Rhyd y Llan – yn cytuno |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Beth rydym eisiau ei gyflawni'? | Rhyd y Llan – yn cytuno, mae angen rhagor o Gymraeg yn y gymuned<br><br>Llanerchymedd – yn cytuno<br><br>Bodedern - yn cytuno, yn bwysig i ddeall Cymraeg, angen i bobl Saesneg ddysgu Cymraeg<br><br>Ffridd - yn cytuno gyda Rhyd y Llan. Mae gen i lawer o ffrindiau yng Nghaergybi sydd ddim yn siarad Cymraeg. |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Sut rydym yn awgrymu y dylid gwneud hyn'? | Bodedern – yn cytuno, mae'r adeilad yn addas, ond byddem yn gallu defnyddio rhagor o le. Nifer o blant ond ddim digon o le.<br><br>Llanerchymedd – yn cytuno, mae angen moderneiddio ein hysgol, mae'r adeilad yn hen, mae o angen ffenestri a drysau newydd.<br><br>Ffridd – yn ansicr, yn derbyn llai o sylw mewn ysgolion mawr oherwydd bod yna fwy o blant mewn ysgolion mawr. Dydy'r plant ddim yn cael yr un cyfleoedd, sylw, a phrofiadau â phlant mewn ysgolion llai.<br><br>Mewn ysgolion bach, rydym i gyd yn gallu chware pêl-droed, mwy o gyfleoedd mewn ysgolion bach. |
| Oes gennych chi unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y cynllun / strategaeth? | Bodedern – dim byd i'w ychwanegu<br><br>Ffridd – dydy ysgolion llai ddim yn cael cymaint o arian ag ysgolion mwy<br><br>Rhyd Y Llan – a fydd ysgolion yn cau?<br><br>Llanerchymedd – dim byd i'w ychwanegu |
| Oes gennych chi unrhyw syniadau o ran sut y gallwn sicrhau bod y cynllun / strategaeth yn cefnogi | Ffridd - mae'n bwysig cael 2 iaith, potensial i gael gwell swydd yn y dyfodol. Mae'n ymddangos bod mwy o Saesneg yn cael ei siarad ers Covid. Awgrym y dylid cael dosbarthiadau ar wahân ar gyfer myfyrwyr Cymraeg a Saesneg. |

| Ysgolion Cynradd o fewn Dalgylch Ysgol Uwchradd Bodedern | |
|---|---|
| ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg? | Bodedern – Clwb Cymraeg yn y Neuadd Bentref, ynghyd â siartiau iaith. Mae nifer o weithgareddau Cymraeg yn digwydd yn Adran Bro Alaw ar y penwythnos. Band yr wythnos (bandiau Cymraeg)<br><br>Ffridd – mae angen i rieni ddysgu Cymraeg, cael 'ap' Cymraeg efallai? |

| Ysgolion Cynradd o fewn Dalgylch Ysgol Syr Thomas Jones | |
|---|---|
| Faint o blant? | Cynrychiolwyr o Ysgol Amlwch , Cemaes, Garreglefn, cyfanswm o 9 o blant (10-11 oed) 6 Merch / 3 Bachgen, cynhaliwyd y cyfarfod ar 15-5-23 .<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Ysgol Rhosybol ar 18-5-23 |
| **Cwestiwn** | **Atebion** |
| Ydych chi’n anghytuno neu’n cytuno â’r rhesymau ‘Pam bod angen newid? | Amlwch – yn cytuno, mae angen i ni newid i wella. Mae ein hysgol yn ysgol fawr, yn ceisio gwella ein Cymraeg.<br><br>Cemaes – yn anghytuno, fyddai ysgol fwy ddim yn gwneud unrhyw wahaniaeth o ran yr addysg<br><br>Garreglefn – yn anghytuno, mae’n well gennym ysgol lai<br><br>Rhosybol – yn cytuno, ond mae angen rhagor o wybodaeth. Pe bai ysgolion llai yn cau, fyddai neb eisiau byw yn Rhosybol heb ysgol |
| Ydych chi’n anghytuno neu’n cytuno gyda ‘Beth rydym eisiau ei gyflawni’? | Cemaes – yn ansicr<br><br>Amlwch – mae’n bwysig cael potensial, ynghyd â siarad yn ddwyieithog er mwyn i ni gael cyfleoedd gwaith gwell. Mae angen i ysgolion fod yn eco-gyfeillgar hefyd<br><br>Garreglefn – yn ansicr<br><br>Rhosybol – yn cytuno, mae angen i bawb gael yr un cyfleoedd. Rydym angen ystafelloedd dosbarth mwy. Mae angen tegwch i bawb |
| Ydych chi’n anghytuno neu’n cytuno gyda ‘Sut rydym yn awgrymu y dylid gwneud hyn’? | Garreglefn – yn anghytuno, yn teimlo’n fwy cyfforddus mewn ysgol lai<br><br>Amlwch – yn cytuno, rydym yn eithaf lwcus gan fod gennym Ganolfan Hamdden gerllaw. Mae ein Pennaeth yn gallu rheoli yn lle dysgu. Mae nifer o ysgolion llai yn creu carbon.<br><br>Cemaes – pe gai gennym ysgol newydd, efallai y byddai rhaid i ni yrru yno, fyddai’n creu rhagor o garbon<br><br>Rhosybol – rydym angen rhagor o fanylion, does ddim digon o wybodaeth ar y sleidiau, beth ydy’r cynnig gwell? |
| Oes gennych chi unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y cynllun / strategaeth? | Amlwch – dydy newid ddim bob amser yn golygu cau ysgolion.<br><br>Garreglefn – beth fydd yn digwydd i’r hen ysgolion os fydd yr ysgolion yn dechrau uno?<br><br>Rhosybol – pe bai rhagor o swyddi ar yr ynys byddai mwy o bobl yn aros yma |

| Ysgolion Cynradd o fewn Dalgylch Ysgol Syr Thomas Jones | |
|---|---|
| Oes gennych chi unrhyw syniadau o ran sut y gallwn sicrhau bod y cynllun / strategaeth yn cefnogi ac yn cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg? | Cemaes – mae’r ysgol hon bob amser yn siarad Cymraeg, yn ystod amser cinio hefyd. Mae pawb yn gyfeillgar.<br><br>Amlwch – mae angen i ragor o bobl siarad Cymraeg, efallai creu posteri neu fathodynnau. Gall y ‘Sgwad Safonau’ fod yn syniad da ar gyfer ysgolion eraill. Rhoi gwobr iddynt os ydynt yn siarad Cymraeg.<br><br>Garreglefn – dim syniadau hyd yma<br><br>Rhosybol – defnyddio’r Canolfannau Iaith |

| Ysgolion Cynradd o fewn Dalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi | |
|---|---|
| Pwy fynychodd y sesiwn? | Cynrychiolwyr o Ysgol Cybi, Llanfawr a Thywyn, cyfanswm o 9 o blant (10-11 oed) 5 Merch / 4 Bachgen, cynhaliwyd y cyfarfod ar 10-5-23 |
| **Cwestiwn** | **Atebion** |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â'r rhesymau 'Pam bod angen newid? | Cybi – yn cytuno<br>Llanfawr – yn cytuno<br>Tywyn - yn cytuno |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Beth rydym eisiau ei gyflawni'? | Cybi – yn cytuno<br>Llanfawr - yn cytuno, rydym angen i fwy o gwmnïau/busnesau ddod i'r ysgol i roi sgyrsiau, mwy o brofiad gwaith<br>Tywyn - yn cytuno |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Sut rydym yn awgrymu y dylid gwneud hyn'? | Llanfawr – yn cytuno<br>Tywyn – yn cytuno, ond ddim eisiau teithio'n bell i fynd i'r ysgol<br>Cybi – yn cytuno, yn mwynhau'r ysgol newydd. Gwneud y gwaith yn gyfartal a sicrhau bod pob pwnc yn cael ei ddysgu'n gyfartal. Efallai dysgu rhieni i siarad mwy o Gymraeg adref. |
| Oes gennych chi unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y cynllun / strategaeth? | |
| Oes gennych chi unrhyw syniadau o ran sut y gallwn sicrhau bod y cynllun / strategaeth yn cefnogi ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg? | Llanfawr – dylai rhieni weithio ar eu Cymraeg, cael plant i ddysgu oedolion? Coginio trwy gyfrwng y Gymraeg? Ei wneud yn hwyl?<br>Tywyn – rhagor o wersi i rieni er mwyn iddyn nhw allu dysgu i siarad Cymraeg adref gyda'r plant<br>Cybi – dylai siopau ac efallai lleoedd sy'n gwerthu bwyd cyflym siarad mwy o Gymraeg, rhoi bwyd am ddim os ydych yn siarad Cymraeg. Lawrlwytho rhagor o 'apiau' Cymraeg. |

| Ysgolion Uwchradd | |
|---|---|
| Faint o blant? | Cynrychiolwyr o:<br>Ysgol Uwchradd Caergybi (YUC), cynhaliwyd y cyfarfod ar 18-5-23<br>Ysgol Uwchradd Bodedern, David Hughes (YDH) a Syr Thomas Jones (YSTJ), cynhaliwyd y cyfarfod ar 15-5-23<br>Cyfanswm o 10 disgybl a Chriw Cyngor YSTJ (13-18 oed)<br>7 Merch / 3 Bachgen |
| **Cwestiwn** | **Atebion** |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â'r rhesymau 'Pam bod angen newid? | Bodedern – gormod o wahaniaeth rhwng bob ysgol o ran gwariant, mae angen i'r gwariant fod yn fwy cyfartal<br>YSTJ – yn cytuno bod angen newid ond yn ansicr o ran pa fath o newid<br>YDH – yn cytuno, rydym yn deall bod rhai ysgolion yn eithaf hen ond mae gennym Neuadd Chwaraeon newydd<br>YUC – yn cytuno, ond roedd un ysgol fechan wedi cau yng Nghaergybi i uno mwy nag un ysgol, fe gafodd 150 o dai eu hadeiladu, felly ydi'r carbon wedi lleihau go iawn? |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Beth rydym eisiau ei gyflawni'? | YSTJ – yn cytuno gyda'r weledigaeth, yn hapus gyda rhai pethau ond mae angen newid o ran rhai agweddau<br>Bodedern – yn cytuno, ond gallai'r ysgol helpu'r gymuned hefyd, mae angen i'r arian wasanaethu'r gymuned hefyd<br>YDH - yn cytuno, ond ddim yn siŵr<br>YUC - yn cytuno, os oes gennym adeiladau newydd, mae myfyrwyr yn dueddol o'u parchu nhw'n well. Mae angen mwy o weithgareddau yn yr ysgol. Does gennym ni ddim cae chwarae i chwarae pêl-fasged/pêl-rwyd, mae'r campfeydd yn hen, mae'r nenfwd yn disgyn, risg o ran Iechyd a Diogelwch |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Sut rydym yn awgrymu y dylid gwneud hyn'? | YDH – yn cytuno gyda'r rhesymau dros newid, ond rydym eisiau gwybod sut. Fydd modd i ddisgyblion roi eu barnau?<br>YSTJ – yn cytuno, angen gwella'r pethau sydd angen eu gwella. Does dim angen ychwanegu unrhyw beth newydd, mae angen gwella beth sydd gennym ni'n barod.<br>Bodedern – yn cytuno, sut fyddech chi'n helpu bob plentyn o safbwynt dwyieithog? Mae ein hysgol yn eithaf bach, ydi pawb yn cael yr un safon o addysg? |

| Ysgolion Uwchradd | |
|---|---|
| | YUC – syniadau da ond dydi'r canlyniadau i fyfyrwyr ddim yn glir, ynghyd â pha effaith mae hyn am ei gael arnom ni. Mae angen i'r ddogfen fod yn fwy eglur, ac felly, at ei gilydd, rydym yn ansicr. |
| Oes gennych chi unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y cynllun / strategaeth? | Bodedern – dim sylwadau ychwanegol<br>YDH – dim sylwadau i'w hychwanegu<br>YSTJ – dim<br>YUC – rydym yn teimlo eto nad oes yna unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r cwestiynau, rydym angen rhagor o wybodaeth |
| Oes gennych chi unrhyw syniadau o ran sut y gallwn sicrhau bod y cynllun / strategaeth yn cefnogi ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg? | Bodedern – ydi o'n bosib cael Uned Iaith yr ochr yma i'r ynys? Rydym yn ymwybodol bod yna un ym Moelfre.<br>YDH – rydym yn ymwybodol bod yr Uned Iaith yn gweithio, a fyddai'n bosib cael rhywbeth fel yna yn yr ysgol yn lle gorfod mynd trwy'r Unedau?<br>YUC – rydym yn teimlo bod yna bwyslais ar y Gymraeg mewn ysgolion cynradd, felly mae'n fantais pan fydd plant yn mynd i'r ysgol uwchradd, mae'n beth positif. |

| Canolfan Addysg Y Bont | |
|---|---|
| Faint o blant? | 3 disgybl (16-18 oed) 1 Merch / 2 Bachgen, cynhaliwyd y cyfarfod ar 16-5-23 |
| **Cwestiwn** | **Atebion** |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â'r rhesymau 'Pam bod angen newid? | Yn cytuno – byddai bywyd yn ddiflas heb newid |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Beth rydym eisiau ei gyflawni'? | Yn cytuno – bydd y newidiadau'n helpu mwy o bobl |
| Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda 'Sut rydym yn awgrymu y dylid gwneud hyn'? | Roedd 2 ddisgybl yn cytuno ac 1 disgybl ddim yn siŵr |
| Oes gennych chi unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y cynllun / strategaeth? | Cael gwahanol fwydlenni bwyd a mwy ohono fo. Byddem ni'n hoffi mwy o le i chwarae |
| Oes gennych chi unrhyw syniadau o ran sut y gallwn sicrhau bod y cynllun / strategaeth yn cefnogi ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg? | Darllen mwy o lyfrau Cymraeg yn yr ysgol, cael mwy o lyfrau darllen yn y Gymraeg, siarad mwy o Gymraeg gyda'r disgyblion |

**ATODIAD 5 – Ymateb gan Gymdeithas yr Iaith**

Mae'n anodd derbyn fod y ddogfen yn ymgais ddifrifol I werthuso opsiynau I "foderneiddio" cymunedau dysgu nac i ddatblygu'r Gymraeg. Yn hytrach mae swyddogion y Cyngor wedi dychwelyd at yr obsesiwn parhaus a amlygwyd dros y ddwy ddegawd ddiwethaf o gau ysgolion pentrefol Cymraeg fel yr unig opsiwn. Yn hyn o beth, nid yw diwylliant y Cyngor wedi newid o gwbl, nid yw wedi dysgu dim o gyfnod ymyrraeth y Comisiynwyr – ac yn enwedig y Comisiynydd Addysg Gareth Jones – yn 2013, nac wedi dysgu chwaith o ymyrraeth y Gweinidog Addysg dair blynedd yn ôl.

Nid yw'r ymgais i wisgo hen obsesiwn a rhagfarn yn nillad newydd agenda gwrth-dlodi na lleihau ôl-troed carbon yn argyhoeddi chwaith. Mae'n amlwg fod cau ysgolion mewn cymunedau pentrefol yn gorfodi mwy o deithio, ac yn effeithio teuluoedd tlawd waethaf. Dadleuir fod demograffeg y sir wedi newid a bod cyfran llai o bobl ifainc yn ein cymunedau. Ond o gau ysgol mewn pentre, bydd yn llai tebyg fyth y bydd teuluoedd ifainc yn ymgartrefu ynddynt.

Daw'r wers gyntaf o'r gorffennol o gyfnod y Comisiynydd Addysg Gareth Jones 2013 **https://golwg.360.cymru/newyddion/cymru/79132-cyngor-ynys-mon-am-ail-ymgynghori-ar-ddyfodol-tair-ysgol**.
Ar y pryd, cynigiodd Mr Jones strategaeth ragorach i foderneiddio cymunedau dysgu, gydlynu darpariaeth addysg a sicrhau arbedion cyllidol. Ei gynllun oedd i ddarparu addysg fesul dalgylch ysgol uwchradd gydag un bwrdd llywodraethol ar gyfer y dalgylch fel cyngor cynrychioladol i gymryd penderfyniadau o ran rhannu adnoddau rhwng ysgolion, cynllunio gweithgareddau ar y cyd, hyrwyddo trosglwyddiad o'r cyfnod cynradd i uwchradd, gweinyddu a phwrcasu canolog gan ryddhau prifathrawon ysgolion unigol i ganolbwyntio ar arweinyddiaeth addysgol ac addysgu gyda phwyllgorau cyswllt cymunedol lleol. Deuai'r arbedion wedyn o'r drefn weinyddol yn hytrach na thrwy amddifadu cymunedau o ddarpariaeth addysgol. Gallai ysgolion 3-16 oed mewn ardaloedd trefol fod yn rhan o aildrefnu o'r math. Nid yw'r ddogfen yn trafod nac yn gwerthuso hwn nac unrhyw opsiwn amgen.

Mae'r strategaeth hon yn camddeall yn llwyr polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Dywedir fod y Gweinidog Addysg yn ceisio hyrwyddo "Ysgolion Bro". Ond nid ysgolion canolog (wedi cau ysgolion pentrefol) yw ystyr yr ymadrodd, ond yn hytrach ysgolion sy'n agored i'w cymunedau, ac yn gallu bod yn gyfraniad at adfywiad cymdeithasol-economaidd. Wrth ganoli darpariaeth addysgol, byddai'r Cyngor o ddiffiniad yn symud addysg yn bellach o gyfranogiad cymunedau – o ran cefnogi addysg eu plant ac o ran defnyddio adnoddau eu hunain.

Mae'r dehongliad o addysg gymunedol yn rhy simplistaidd. Wrth gwrs fod angen datblygu adnoddau arbennig mewn mannau canolog. Byddai'r rhain at wasanaeth disgyblion yr ysgol ganolog a disgyblion ysgolion cylchynol ac hefyd oedolion tu allan i oriau ysgol. Ond mae gweithgareddau eraill o ran addysg gymunedol – rhai anffurfiol yn bennaf – lle mae'n fwy addas i ddarparu'r addysg gymunedol yn yr ysgol bentre (weithiau gyda chymorth mudiadau gwirfoddol) e.e. Llythrennedd, dysgu teuluol, cylchoedd cyn-ysgol a chymhathu mewnfudwyr gyda gwersi Cymraeg ac addysg bro fel y teimlant berchnogaeth ar yr addysgu. Mae angen cynllunio addysg gymunedol fesul cylch.

Mae'n anhygoel fod y strategaeth hon yn awgrymu mai'r ffordd i "ddatblygu'r Gymraeg" yw tynnu ysgolion pentrefol Cymraeg allan o gymunedau. Dyma'r sefydliadau sy'n sicrhau cyswllt rhwng y gymuned a'r Gymraeg ac yn foddion cymhathu mewnfudwyr. Pryderwn hefyd am y defnydd llac o ymadroddion fel "addysg Gymraeg a dwyieithog". Mae'n bwysig fod y Cyngor yn ymateb i drefn categoreiddio ieithyddol newydd y Llywodraeth drwy ddynodi'r ysgolion yn ysgolion Cymraeg yn y categori uchaf er mwyn osgoi unrhyw ansicrwydd.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion – hyd yn oed cyn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig 2018 a nawr hyd yn oed yng nghyd-destun ysgolion nas rhoddwyd ar restr swyddogol Ysgolion Gwledig – yn mynnu fod ystyried a gwerthuso opsiynau yn hytrach na mabwysiadu strategaeth o gau ysgolion fel dewis cyntaf.
Cyfeirir yn arbennig at Ffedereiddio; dylid edrych hefyd ar y cynllun a ffefrir gan yr Aelod Senedd Rhun ap Iorwerth, sef ysgolion bro aml-safle, ac mae hefyd y cynllun mwy uchelgeisiol gan Gareth Jones y cyfeiriwyd ato. Nid yw'r ddogfen hon yn gwerthuso unrhyw opsiynau amgen.
O ran cost cynnal adeiladau, trafodwyd mewn siroedd eraill y posibiliad o drosglwyddo adeilad ysgol at ymddiriedaeth gymunedol ( a allai ddenu cyllid o ffynonellau gwahanol i wella'r adeilad) a rhentu ond y gofod yr oedd ei angen i drefnu ysgol ynddo. Ni bydd yn ddigonol i ddatgan yr ystyrir yr opsiynau amgen (mewn modd "cut & paste" clasurol) pan ddaw cynigion unigol i gau ysgolion. Bydd y ddogfen hon yn ffurfio safbwynt cychwynnol yr Awdurdod wrth fynd i mewn i unrhyw broses statudol, ac felly'n cynrychioli'n ymarferol ragdyb yn erbyn cadw ysgol wledig ar agor, yn gwbl groes i Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.
O fabwysiadu'r strategaeth ddrafft hon, byddai'r Cyngor yn gadael ei hun yn agored naill ai i heriau cyfreithiol drudfawr neu i ymyrraeth gan Lywodraeth ganolog. Ni ddymuna Cymdeithas yr Iaith weld y naill neu'r llall o'r senarios hyn yn digwydd gan y credwn yn angerddol mewn democratiaeth leol, ac felly erfyniwn ar y Cyngor i ddewis yn awr llwybr cydweithio gyda chymunedau lleol.

Mae Adran 3.1 o'r Côd Trefniadaeth Ysgolion yn amlygu fod y wybodaeth a roddir yn y strategaeth ddrafft hon yn ffeithiol anghywir. Dywedir yn eglur "Mae'r gyfraith achosion wedi pennu y dylai'r broses ymgynghori gael ei chynnal pan fydd cynigion yn dal ar gam ffurfiannol". Mewn geiriau eraill, y mae rheidrwydd ar y Cyngor i gynnal trafodaethau anffurfiol "gyda meddwl agored" yn gyntaf gyda llywodraethwyr a'r gymuned leol cyn ffurfio unrhyw gynnig. Ond mae'r Strategaeth Ddrafft hon yn dweud yn glir o dan "Proses Ddeddfwriaethol" mai cam 1 yw fod swyddogion yn paratoi Papur Cynnig ac wedyn yn ceisio caniatâd cynghorwyr fynd at ymgynghoriad ar eu cynllun nhw – yn hytrach na ffurfio cynnig mewn cydweithrediad a'r gymuned leol.
Mae diwylliant "Yn ein barn proffesiynol" a dirmyg at farn cymunedau lleol yn rhedeg trwy'r strategaeth ddrafft hon. Hyd yn oed os newidir yr union eiriad nawr – o'i wrthgyferbynnu ag ailystyried yn gyfan-gwbl y strategaeth – bydd modd cyfeirio at y ddogfen hon i brofi fod yr Awdurdod wedi ffurfio rhagdyb YN ERBYN cadw ysgolion pentrefol mewn unrhyw brwydrau unigol.

Mae'r rheidrwydd statudol i drafod yn anffurfiol ac anstatudol gyda chymunedau lleol cyn ffurfio cynigion, a'r rheidrwydd i adolygu'n llwyr y strategaeth ddrafft hon yn golygu fod yr amserlen gweithredu arfaethedig yn gwbl anymarferol. OND ni ddylai hynny olygu oedi ceisiadau am gyllid o Gronfa Cymunedau Dysgu – fel y bu oedi yn achos Ysgol Corn Hir tra

bu ymdrechion ofer i gau Ysgol Bodffordd. Mae llythyr gan y Gweinidog Addysg presennol at Gymdeithas yr Iaith yn amlygu na raid i gais am gyllid o'r Gronfa fod yn ddibynnol ar gau ysgolion eraill, a bod modd gwneud cais am gyllid i uwchraddio ysgolion bach hefyd. Dylai'r strategaeth hon ddatgan yn glir fod hawl gan gymunedau gwledig hefyd i fuddsoddiad, wedi degawdau o esgeulustod.

Mae "Canllawiau Llywodraeth ar gyfer ffurfio ceisiadau am gyllid o gronfa Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy" (Cronfa Ysgolion a Cholegau 21ain ganrif ynghynt) yn datgan yn gwbl eglur:

*"Mewn cais dylai hefyd fod ymrwymiad at wella gwasanaethau cyhoeddus a defnydd cymunedol. Ymhlith yr ystyriaethau yma –*
** A yw'r opsiwn yn dderbyniol yn gymdeithasol/wleidyddol ?*
** Ydyn nhw'n cefnogi dysgwyr sy'n cerdded a reidio i'r ysgol ?*
** Mae cais am gyllid llai na £5miliwn yn symlach ac angen ond un ddogfen "Achos Cyfiawnhad Busnes"*
** Geiriau allweddol yn dynodi gwariant Refeniw - "Atgyweirio, Cynnal a Chadw, Newid, tebyg am debyg, Adfer neu Adnewyddu "*

Dyma ganllawiau eglur iawn yn rhybuddio'n erbyn ymgais i wthio trwodd newidiadau biwrocrataidd ar gymunedau anfodlon ac yn gwahodd ceisiadau cymedrol i wella adeiladau presennol ysgolion bach. Ni raid canolbwyntio'n ecsliwsif ar geisiadau mawr ar gyfer ysgolion newydd sy'n denu sylw.

Mae cryn bwyslais yn y ddogfen ar ofod mewn ysgolion pentre nad sy'n cael ei ddefnyddio. Ond mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn annog Awdurdodau i chwilio am ddefnydd amgen o ofod dros ben, at ddibenion cymunedol neu at ddibenion y Cyngor, yn hytrach na bod yn rheswm i gau ysgol. Gellid hefyd dad-gomisiynu gofod felly, neu greu ynddo Gofod Celf at ddibenion disgyblion ysgolion lleol a'r gymuned.

Mae pwyslais mawr hefyd ar "Cost y Pen" o addysgu disgyblion. Fformiwla mathemategol yw hwn gan mai'r un yw'r gost real o gynnal yr ysgol, ac mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion eto'n rhybuddio'n erbyn gorbwysleisio y ddadl hon wrth benderfynu ar ddyfodol ysgolion gwledig. Wrth gwrs fod pob gwasanaeth cyhoeddus yn costio'n fwy i'w gyflwyno mewn ardal wledig nag mewn ardal drefol boblog, ond mae llai o wasanaethau cyhoeddus yn gyfan gwbl mewn ardaloedd gwledig ac felly y mae'r gwariant cyfan y pen yn debyg o fod yn llai. Cydnabyddwn mai pryder diffuant sydd yma nad oes cyllido digonol ar gyfer costau ychwanegol darparu addysg mewn ardaloedd gwledig. Ond dylid unioni'r cam trwy bwysau gwleidyddol ar lywodraeth ganolog yn hytrach na thrwy amddifadu cymunedau gwledig o fwy fyth o wasanaethau fel na all ond mewnfudwyr cyfoethocach fforddio byw ynddynt.

Ni ellir ond casglu fod hon yn strategaeth ddigalon a di-ddychymyg, yn barhad o ddiwylliant biwrocrataidd o drefnu addysg, ac yn ddiffygiol o unrhyw ymgais i harneisio egni cymunedol i wella'n haddysg ac adfywio ein cymunedau. Galwn ar Aelodau etholedig y Cyngor i fynnu ymagwedd cwbl newydd, ond i fynd ymlaen yn ddi-oed o ran ceisiadau am gyllid lle mae achos wedi ei baratoi. Ni raid i geisiadau cadarnhaol am gyllid lle mae mawr angen gwelliannau ac adnoddau newydd fod yn ddibynnol ar benderfyniadau negyddol i amddifadu cymunedau eraill o'u hysgolion.

Grŵp Addysg Cymdeithas yr Iaith
Mai 2023

**ATODIAD 6 – Ymateb gan Grŵp Llandrillo Menai**

“Rydyn yn croesawu yn  fawr bod yr ymgynghoriad yn digwydd ac yn cytuno gyda'r gyrwyr ar gyfer newid sydd yn cael ei hadnabod yn y papur ynghyd â'r angen i sicrhau bod y ddarpariaeth addysg, gynradd ac uwchradd ac ol-16, yn gynaliadwy ar yr Ynys i'r dyfodol.

Fel sefydliad addysg pwysig ar yr Ynys edrychwn ymlaen yn fawr iawn i gydweithio gyda'r awdurdod i wireddu ei gweledigaeth ac i chware rôl greiddiol yn y datblygiadau. Credwn fod gennym gyfraniad sylweddol i'w wneud i'r broses fel sefydliad sydd â pherthynas strategol rhagorol gyda'r awdurdod, amlygir gyda'r Memorandwm Cydweithio arwyddwyd gennym yn ddiweddar. Credwn yn gryf y gallwn fod yn bartner gwerthfawr a chyflawn mewn trafodaethau i'r dyfodol.”

**ATODIAD 7 – Ymateb gan Mudiad Meithrin**

A ydych yn anghytuno neu'n cytuno â'r rhesymau 'Pam bod angen parhau i newid'? (fel a nodir yn y '**Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg')**

☐ Anghytuno'n gryf
☐ Anghytuno
☐ Ddim yn siwr
☐ Cytuno
☐ Cytuno'n gryf

A ydych yn anghytuno neu'n cytuno gyda'r 'weledigaeth a'r Egwyddorion Arweiniol'? (fel a nodir yn y '**Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg')**

☐ Anghytuno'n gryf
☐ Anghytuno
☐ Ddim yn siwr
☐ Cytuno
☐ Cytuno'n gryf

A ydych yn anghytuno neu'n cytuno gyda'r 'Gyrwyr Newid / Amcanion Strategol'? (fel a nodir yn y '**Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg')**

☐ Anghytuno'n gryf
☐ Anghytuno
☐ Ddim yn siwr
☐ Cytuno
☐ Cytuno'n gryf

Oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar y '**Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg'** ddrafft?

Siom o weld cymaint mae niferoedd plant wedi disgyn a'r rhagolygon ar gyfer niferoedd plant i'r dyfodol. Yn hynny o beth, mae modd deall y cymhelliant sydd tu ôl y cynlluniau moderneiddio.
Er mwyn cynllunio at y dyfodol, rhaid rhoi sylw i gynlluniau polisi ehangach y sir fydd yn creu cyfleoedd i deuluoedd a phobl ifanc i aros ar yr ynys yn hytrach na symud i lefydd trefol / dinesig. Mae'n bwysig bod adrannau yn cydweithio er mwyn ymateb i'r her diboblogi. Yn yr un modd mae angen cymryd i ystyriaeth goblygiadau'r newidiadau ar drosglwyddiad iaith o fewn teuluoedd.
Er cydnabod yr angen i gynllunio at y dyfodol, rhaid hefyd ystyried pa effaith y mae datblygiadau mewn meysydd polisi eraill yn eu cael ar ddarpariaethau gofal ac addysg ar draws yr ynys. A yw sicrhau a cynllunio ar gyfer darpariaeth gofal ac addysg digonol yn

cael sylw mewn cynlluniau datblygu lleol, polisïau cynllunio tai a datblygiadau economaidd eraill yr Ynys?
Cyfuno ysgolion – pa effaith fydd hyn yn ei gael ar allu Cylchoedd Meithrin i ddarparu gwasanaeth cyn-oed ysgol yn y cymunedau? Mae'n bwysig cynnwys y sector blynyddoedd cynnar a'r sector nas gynhelir wrth gynllunio i foderneiddio addysg yr ynys. Yn y CM mae nifer helaeth o blant yn cychwyn ac yn symud ymlaen I'r ysgolion. Credwn fod lle i barhau i gynnal rhai CM bach gwledig o fewn rhai cymunedau, ac uno cylchoedd i greu cylchoedd mwy mewn llefydd eraill, ond rhaid cydweithio a MM i gynllunio yn y dyddiau cynnar. Gall uno CM hefyd gyfrannu at yr her o fewn ein sector i recriwtio gweithlu cymwys sydd yn medru'r Gymraeg. Yn yr un fodd, yr un egwyddor yw hi wrth recriwtio aelodau pwyllgor rheoli a sydd i Lywodraethwyr lle bydd angen recriwtio llai, ond defnyddio'r cyfle i gryfhau arbenigeddau a sgiliau unigolion.
Pa effaith bydd cael ysgolion cymunedol yn ei gael ar allu Cylchoedd Meithrin i ddarparu gwasanaeth Dechrau'n Deg i deuluoedd o fewn pellter gwthio pram o'u cartrefi – dadlwn fod lle i gylchoedd bach mewn rhai llefydd er mwyn sicrhau mynediad at ofal ac Addysg gynnar Cymraeg i bob plentyn.
Rhaid ystyried goblygiadau uno/ adleoli i gylchoedd meithrin e.e ail gofrestru'r ddarpariaeth gydag AGC, diswyddo neu uno staff ( TUPE, ymgynghori ac ati), cau elusennau a chreu strwythurau newydd, costau adleoli ynghyd a gwaith gweinyddol. Dylid ystyried buddsoddiad i gynorthwyo'r darpariaethau hynny fydd angen cau/ uno/ symud i dir ysgol.
A fydd trafnidiaeth yn cael ei ddarparu i gludo plant 2 – 4 oed o'u cymunedau i'r darpariaethau mwy? Peryg mawr i deuluoedd sydd ddim yn gyrru golli allan oherwydd methu cyrraedd y ddarpariaeth. Mae trafnidiaeth I'r Blynyddoedd Cynnar yn hanfodol os am gau ysgolion bach. Nid yw'n dderbyniol cynnig trafnidiaeth i blant oed statudol yn unig. Rydym yn gwybod bod nifer helaeth o rieni yn dewis ysgolion neu ofal plant sydd yn hwylus i gyrraedd yn hytrach na chyfrwng iaith. Nid yw trafnidiaeth cyhoeddus yn gynaliadwy i blant bach na chwaith yn fforddiadwy yn ddyddiol ac felly rhaid ystyried effaith hon ar rieni a gofalwyr.
Rhaid gallu creu ymdeimlad o berthyn i'r darpariaethau cymunedol os nad oes Cylch Meithrin neu ysgol ymhob pentref
Ydi cyd-leoli gwasanaeth yn golygu y bydd lle digonol o'r dechrau ar gyfer gofal ac addysg cyn-oed ysgol? Teimlwn ei bod yn allweddol i Mudiad Meithrin fod yn rhan o'r broses gynllunio o'r dechrau
Teimlwn bod cyd-weithio a chyd-gynllunio yn bwysig a gall Cynllun Sefydlu a Symud Mudiad Meithrin fod o fudd i ehangu lleoliadau sy'n bodoli eisoes a gweithio i agor darpariaethau newydd
Mae Cylchoedd Meithrin wedi datblygu arbenigedd ym maes gofal ac addysg plant o 2 – 4 oed dros y 50eg mlynedd diwethaf, angen dal gafael yn yr arbenigedd yma a pharhau i'w ddefnyddio a'i ddatblygu. Mae enghreifftiau gwych ar draws Gymru o GM yn cydweithio'n agos gydag ysgolion, darparu gwasanaeth ar dir ysgol a staff y cylch a'r ysgolion yn rhannu arbenigeddau. Mae'r cynlluniau yma hefyd yn cyd-fynd a gweledigaeth ECEC Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd mae ystod o weithgareddau atodol megis grwpiau Cymraeg i Blant a Chylchoedd Ti a Fi yn chwarae rôl allweddol o ran creu siaradwyr newydd ac mae'n holl bwysig o ran hyfywedd y Gymraeg fod rhain hefyd yn parhau. Mae'r grwpiau CIB a Chylchoedd Ti a Fi yn allweddol mewn cymunedau bach i greu ymdeimlad o berthyn ac yn fodd i bontio i GM ac addysg gynnar. Dylai'r sir fuddsoddi yn y grwpiau yma.

Gweld mantais o leoliadau mwy gan y gallent gynnig oriau hirach a gwell llwybr datblygiad gyrfa i staff. Gall darparu gofal dydd llawn gyfrannu at yr economi lleol gan ganiatáu i rieni ddychwelyd I'r gwaith. Fe fydd cynnig oriau hirach/ llawn amser yn denu ymarferwyr I'r gweithlu  Fodd bynnag mae'n bwysig sicrhau bod trefniadau i ddatblygu ac adeiladu gweithlu wedi'u cymhwyso i lefel uchel yn cael blaenoriaeth ystyried buddsoddi yng nghynllun hyfforddiant CWG a chynllun ysgolion MM
Arbenigedd hyfforddi ar gael trwy gynllun Cam Wrth Gam i sicrhau gweithlu cymwysedig all weithio trwy gyfrwng y Gymraeg
Cost y pen y disgybl, fyddai cael llai o ddarpariaethau bach yn golygu byddai rhagor o gyllid ar gael i ariannu addysg i blant 3 oed mewn darpariaethau mwy o faint?   Ydy hwn yn gyfle i gysoni'r cyfradd y pen boed yn CGP neu DD
Cymraeg yw unig iaith ar gyfer addysg a gofal mewn Cylchoedd Meithrin.  Wrth ddod yn aelod mae Cylchoedd yn ymrwymo i'r Polisi Iaith ac ni allent arddel yr enw Cylch Meithrin oni bai eu bod yn ymrwymo i hyn. Wrth foderneiddio addysg ar yr Ynys, ydy hwn yn gyfle i ddatblygu gofal ac addysg BC i fod yn wasanaethau Trochi yn unig? Gan mai'r weledigaeth yw i greu siaradwyr dwyieithog pur ar ddiwedd ysgol, yna onid yw Cylchoedd Meithrin yn rhoi'r sylfaen gadarn hynny i'r daith?  Cei'r gefnogaeth a chynlluniau iaith gan MM a Cwlwm gall gynorthwyo'r sector cyfrwng Saesneg i symud ar hyd y continwwm iaith mewn darpariaethau gofal plant.
Colli ysgolion a Chylchoedd Meithrin o'r cymunedau yn golygu colli calon cymuned, wrth gau ysgol mewn pentref mae effaith yn bell gyrhaeddol, pobl yn colli adnabod ar ei gilydd, siopau'n cau .... Ble mae rôl i fudiadau eraill megis yr Urdd, Aelwydydd, Menter iaith? Dyma gyfle i sicrhau mewnbwn gall barhau i gynnal cymunedau.
Beth fydd goblygiadau cyllido CM os oes angen uno, neu rhai yn penderfynu parhau o fewn eu cymunedau? Mae angen diogelu swyddi lleol.
Beth yw goblygiadau hyn i blant sydd ag ADY? Sut mae sicrhau mynediad Iir plant hynny at ddarpariaeth GP neu ysgol os nad yw o fewn y gymuned?
Rhaid ystyried teuluoedd o gymunedau ethnig amrywiol, ydy symud yr ysgol gymunedol yn rhwystr iddynt, yn enwedig rheini sydd yn dymuno addysg neu ofal cyfrwng Cymraeg i'w plant.

Hoffem gael eich barn ar effaith y '**Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg'** ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?

Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Nodwn bod canlyniadau Cyfrifiad 2021 wedi amlygu'r angen i weithredu'n bwrpasol er mwyn cynyddu'r niferoedd sydd yn medru siarad Cymraeg ar draws Cymru, a bod gan y system addysg a'r sector gofal ac addysg blynyddoedd cynnar rôl annatod i'w chwarae wrth symud tuag at y nod hwn.
Mae yna berthynas gref rhwng argaeledd gofal ac addysg blynyddoedd cynnar Cymraeg yn y sector nas gynhelir a chychwyn taith addysg statudol y plentyn yn y sector statudol. Ni allwn or-ddweud pwysigrwydd cyd-weithio gyda Mudiad Meithrin a Cwlwm er mwyn cynllunio i sicrhau darparu gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, o fewn cyrraedd hwylus i bob cymuned yn Ynys Mon, i wireddu'r nod o greu a cynyddu'r galw am addysg statudol cyfrwng Cymraeg yn ei chymunedau.
Mae'n holl bwysig cydnabod rôl cynlluniau megis Cymraeg i Blant sy'n cefnogi rhieni trwy eu grwpiau cefnogi cymunedol i ddysgu a throsglwyddo'r Gymraeg i'w plant yn y cartref yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o fanteision addysg Gymraeg.
Rhaid hefyd ystyried cefnogaeth ieithyddol I'r gweithlu a sut fedrwn datblygu gweithlu ifanc i gymryd yr awenau yn y dyfodol.
Mae trafnidiaeth cyn statudol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at ofal ac addysg Gymraeg

7. Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r **'Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg'** gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwn sicrhau na fydd effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y, Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
Mae sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gwbl ddwyieithog ac yn gall defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol yn un o'r egwyddorion arweiniol. Er mwyn cyrraedd y nod hwn, rhaid bod y cynlluniau yn sicrhau bod y Gymraeg, a darpariaethau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn weledol ym mhob un o gymunedau Ynys Môn. Trochi sydd yn bwysig yn y BC fydd yn gosod sail gadarn i blant wrth symud ymlaen i'w haddysg statudol. Mae partneriaid Cwlwm wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau ieithyddol darpariaethau gofal plant (ag eithrio CM) er mwyn cefnogi'r gweithlu sector Saesneg / dwy ieithog i symud ar hyd y continwwm iaith.
Mae Mudiad Meithrin yn barod i gwrdd ac i drafod gyda Cyngor Sir Ynys Môn i drafod sut y gallwn gyd-weithio i sicrhau parhad i ddarpariaethau a gwasanaethau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ar draws yr ynys yn y dyfodol.
Wrth weithredu unrhyw strategaeth moderneiddio, bydd angen datblygu amserlen ar y cyd gyda partneriaid, yn cynnwys Mudiad Meithrin a phartneriaid eraill Cwlwm, er mwyn sicrhau parhad a datblygiad i'r gwasanaethau hyn.

Bydd hefyd angen ystyried effaith polisi gofal plant 2 a 3 oed Llywodraeth Cymru ar unrhyw ddatblygiadau a newidiadau sydd yn effeithio (yn fwriadol neu'n anfwriadol) ar argaeledd a'r galw am wasanaethau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar i'r teuluoedd hyn.
Rhaid hefyd cofio bod darparu gwasanaethau megis grwpiau Cymraeg i Blant a Cylchoedd Ti a Fi) yn rhan bwysig o sicrhau presenoldeb y Gymraeg a tyfu'r teimlad o gymuned ymysg teuluoedd ifanc.  Bydd angen hefyd ystyried sut y mae'r cynigion yn effeithio ar gallu grwpiau llai ffurfiol parhau i wasanaethu cymunedau, mewn achos ble bydd cau ysgol yn arwain at gau'r unig gyfleusterau addas yn yr ardal.
Sut y gallwn sicrhau fynediad i gymunedau o gefndiroedd ethnig gwahanol at addysg Gymraeg os yw'r ysgol lleol yn cau? Sut fedrwn osgoi'r rhwystr yma iddynt?
Rhaid ystyried yr her costau byw ac effaith gorfod teithio i'r ysgol Gymraeg agosaf i deuluoedd difreintiedig. Gall fod costau teithio fod yn heriol os nad oes trafnidiaeth, ac os oes trafnidiaeth, sut mai dwyn perswâd ar rieni i adael ei plant 3 oed i deithio ar fws ysgol? Mae angen meddwl am ddal dwylo rhieni drwy'r broses hon er mwyn iddynt weld gwerth yn yr ymdrech i ddewis addysg Gymraeg.,

**Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb** (gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1 | 05/06/23 ymlaen | Fersiwn Cyntaf |
| | | |
| | | |



| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| 1 - Beth sy'n cael ei asesu? | Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg |
| 2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes? | Mae'r Strategaeth hon yn un newydd, sydd wedi ei selio ar y 'Strategaeth Moderneiddio Addysg' a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 15 Hydref 2018. |
| 3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma? | Adnabod yr heriau presennol sydd angen sylw. Cytuno ar 'Weledigaeth ac Egwyddorion Arweiniol' yn ogystal â'r 'Gyrwyr Newid / Amcanion Strategol'.<br><br>Pan fydd y strategaeth wedi ei mabwysiadu, bydd yr ystyriaethau uchod yn cael eu defnyddio i asesu gwahanol opsiynau wrth symud y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (LIC) yn ei blaen. |

| **Cam 1: Y Cefndir** | | |
|---|---|---|
| 4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu? | Marc B Hughes – Cyfarwyddwr Dysgu, Sgiliau a Phobl Ifanc | |
| 5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma? | Arwyn Hughes - Rheolwr Rhaglen Corfforaethol | |
| 6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma? | Aaron Evans – Uwch Rheolwr Sector Uwchradd<br><br>Gethin Morgan - Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad<br><br>Alun Roberts – Rheolwr Rhaglen Corfforaethol<br><br>Emrys Bebb – Rheolwr Rhaglen Corfforaethol<br><br>Carol Sorahan – Rheolwr Rhaglen Corfforaethol | |
| 7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill? Er enghraifft, oes yna unrhyw gynigion neu bolisïau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu'r effaith? | Oes – Mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd â'r amcanion / yr angen sydd wedi eu hadnabod yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028.<br><br>Mae hefyd wedi ei selio ar y Strategaeth Moderneiddio Addysg a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 15 Hydref 2018.<br><br>Bydd y Strategaeth hefyd yn cyd-fynd â'r Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025. | |
| 8 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br><br>Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grŵp a warchodir. | Dileu camwahaniaethu ac aflonyddu | ✓ |
| | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | ✓ |
| | Meithrin perthynas dda | ✓ |
| | Diogelu hyrwyddo hawliau dynol | ✓ |

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| 9 - Ydy'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os hynny, mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol - gweler atodiad 1. | Ydi |
| 10 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?<br><br>**Os yw'r penderfyniad yn un strategol,** sicrhewch eich bod yn ystyried yn benodol a fyddai'r cynnig yn effeithio mwy ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau economaidd gymdeithasol llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas(gweler atodiad 1). | Nid oes cynnig penodol yn cael ei wneud ar y cam hwn, fodd bynnag mae'r strategaeth yn amlygu gyrwyr newid. Pe byddai'r strategaeth yn cael ei mabwysiadu bydd cynigion i'r dyfodol yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn. Bydd cynigion ar gyfer moderneiddio cymunedau dysgu yn y dyfodol yn ystyriol o'r gyrwyr newid sy'n cael eu hamlygu gan y strategaeth.<br><br>Pan fydd cynigion newydd a phenodol yn cael eu gwneud, bydd asesiad effaith unigol yn cael ei baratoi mewn perthynas â phob cynnig.<br><br>Gan fod y strategaeth yn dylanwadu ar gynigion penodol i'r dyfodol, gellir dod i gasgliad y gall effeithio ar nifer o rhanddeiliaid, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i):<br><br>- Disgyblion<br><br>- Rhieni<br><br>- Staff ysgol<br><br>- Llywodraethwyr<br><br>- Cymdogion Lleol a.y.y.b<br><br>Gall hyn gynnwys pobl sy'n byw mewn amgylchiadau economaidd gymdeithasol llai ffafriol ac sy'n perthyn i'r grwpiau gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |

| Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | |
|---|---|
| 11 - A yw y cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir? | Mae datblygu'r iaith Gymraeg yn rhan allweddol o'r strategaeth hon.<br><br>Os bydd y strategaeth yn cael ei mabwysiadu, byddwn yn sicrhau nad ydi'r Gymraeg gael yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddatblygu cynigion penodol. Bydd cynigion penodol yn destun asesiad mwy cynhwysfawr ar yr effaith ar y Gymraeg |

| **Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** | |
|---|---|
| 12 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Pwysleisir eto nad oes cynnig penodol yn cael ei wneud ar y cam yma. Fodd bynnag, os bydd y Strategaeth yn cael ei mabwysiadu, ac wrth i ni symud ymlaen i edrych ar gynigion newydd, mae'r strategaeth yn nodi y bydd, 'Cyfleoedd i ddatblygu a chryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithrwydd yn yr ystafell ddosbarth ac mewn cyd-destunau anffurfiol' (yn cynnwys ar lefel gymunedol).<br><br>Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei roi wrth ddatblygu cynigion penodol. |
| 13 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr? | Fel yr uchod |
| 14 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned? | Roedd barn gymysg gan rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y pwynt hwn. Roedd rhai yn mynegi ei barn y byddai'r strategaeth fel y mae yn cael effaith ffafriol ar hyrwyddo'r Gymraeg, fodd bynnag roedd eraill yn mynegi pryder. Y prif reswm am y pryder hwn oedd dehongliad ymysg rhai ymatebwyr y byddai'r strategaeth yn gallu golygu cau ysgolion bach / gwledig. Bu i sawl un fynegi y byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cymuned. Fe nodwyd hyn hefyd fel rhan o ymateb y Grŵp Ymgyrch Addysg, Cymdeithas yr Iaith. Gweler enghreifftiau o'r sylwadau fel rhan o'r adroddiad ymgynhori.<br><br>Pwysleisir eto nad oes cynnig penodol yn cael ei wneud ar y cam yma. Fodd bynnag, os bydd y Strategaeth yn cael ei mabwysiadu, ac wrth i ni symud ymlaen i edrych ar gynigion newydd, mae'r strategaeth yn nodi y bydd, 'Cyfleoedd i ddatblygu a chryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithrwydd yn yr ystafell ddosbarth ac mewn cyd-destunau anffurfiol' (yn cynnwys ar lefel gymunedol). |

Er mwyn eich cynorthwyo i ateb y cwestiynau uchod, mae'r **Canllawiau Asesu Effaith** corfforaethol yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Fodd bynnag:

- Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisïau, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu
- Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trin yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;

**dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg**. Mae templed ar wahân ar gael ar MonITor. Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach .

| Cam 2.2: Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998 | |
|---|---|
| 15 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd? | (Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 2).<br>Bydd y strategaeth yn cydymffurfio gyda'r holl hawliau dynol. |

| Cam 2.3: Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | | |
|---|---|---|
| 16 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 3) | Cymru lewyrchus | ✓ |
| | Cymru gydnerth | ✓ |
| | Cymru iachach | ✓ |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | ✓ |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | ✓ |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | ✓ |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | ✓ |

| **Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth**<br>Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| 17 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig yma? | Bu i'r Cyngor ymgynghori ar y strategaeth ddrafft o 31 Mawrth 2023 tan 18 Mai 2023. Ysgrifennwyd yn uniongyrchol at ysgolion a rhanddeiliaid eraill (yn gynnwys prifathrawon, llywodraethwyr, cynghorau tref a chymuned, Menter Môn, GwE, Estyn, undebau llafur, aelodau seneddol lleol a rhanbarthol, ac eraill) yn ei hysbysu o'r cyfnod ymgynghori.<br><br>Gofynnwyd hefyd i'r penaethiaid ysgolion rannu'r neges gyda rhieni'r ysgol, drwy ein dull cyfathrebu arferol. Fe gafodd yr ymgynghoriad hefyd ei hysbysebu trwy ein cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan y Cyngor. |

| **Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth**<br>Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| | Cynhaliwyd sesiynau briffio gyda'r holl aelodau, penaethiaid ysgolion a llywodraethwyr a chynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc.<br><br>Derbyniwyd bron i 300 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r holl ymatebion wedi eu hystyried cyn cyflwyno'r strategaeth hon. Ar y cyfan, roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno, gyda'r rhesymau 'pam bod angen parhau i newid', y 'Weledigaeth ac Egwyddorion Arweiniol' ac y 'Gyrwyr Newid / Amcanion Strategol'. Fodd bynnag, fe noder rhai gonsyrn am agweddau o'r strategaeth. Y consyrn mwyaf oedd y gallai cau ysgolion bach / gwledig gael effaith negyddol ar y Gymraeg ac ar gymunedau.<br><br>Bu drafftio a dod i gytundeb ar y strategaeth hefyd yn rhan annatod sydd yn cael ei gydnabod fel gweithred yng Nghynllun y Cyngor newydd gafodd ei ymgynghori arno yn helaeth. Gofynnwyd i holl ddinasyddion, fusnesau a phartneriaid i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar Gynllun y Cyngor, a derbyniwyd dros 2,500 o ymatebion i'r ymgynghoriad. |
| 18 – Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei ddefnyddio fel rhan o'ch asesiad? Rhestrwch unrhyw adroddiadau, gwefannau ayyb a ddefnyddiwyd yma a chynnwys y dystiolaeth berthnasol a gafwyd yn y tabl yng Ngham 3 isod. | - Cynllun y Cyngor<br>- PLASC – Data Niferoedd<br>- Adroddiad Arolygu Estyn ar Gyngor Sir Ynys Môn<br>- Data Cyfrifiad<br>- Stats Cymru<br>- Data Cyflwr Adeiladau – Adran Eiddo<br>- Ymatebion i'r ymgynghoriad ar y strategaeth |
| 19 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | Na – Mae'r wybodaeth a gasglwyd hyd yma yn gyflawn i bwrpas cyflwyno'r strategaeth. |

**Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru**

20 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma. *Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewisiwch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| **Y grŵp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| Oed | Nid oes cynnig penodol yn cael ei wneud ar y cam yma. Os bydd y Strategaeth yn cael ei mabwysiadu, ac wrth i ni symud ymlaen i edrych ar gynigion newydd, byddwn yn ystyried effaith y cynnig ar y grŵp hwn fel rhan o'r asesiad effaith ar y cynnig hwnnw. | | |
| Anabledd | | Noder mai un o amcanion strategol a gweledigaeth y strategaeth fydd sicrhau bod lles a chynhwysiant dysgwyr yn flaenoriaeth ac yn graidd i unrhyw fater addysgol. | |
| Rhyw | | Nid oes cynnig penodol yn cael ei wneud ar y cam yma. Os bydd y strategaeth yn cael ei mabwysiadu, ac wrth i ni symud ymlaen i edrych ar gynigion newydd, byddwn yn ystyried effaith y cynnig ar y grŵp hwn fel rhan o'r asesiad effaith ar y cynnig hwnnw.<br>Nid oes tystiolaeth weladwy bod gwahaniaethu ar sail rhyw yn digwydd.<br>Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. | |
| Newid Rhyw | | Nid oes cynnig penodol yn cael ei wneud ar y cam yma. Os bydd y Strategaeth yn cael ei mabwysiadu, ac wrth i ni symud ymlaen i edrych ar gynigion newydd, byddwn yn ystyried effaith y cynnig ar y grŵp hwn fel rhan o'r Asesiad Effaith ar y cynnig hwnnw.<br>Nid oes tystiolaeth weladwy bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn digwydd. | |

| **Y grŵp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| | | Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | | Nid oes cynnig penodol yn cael ei wneud ar y cam yma. Os bydd y Strategaeth yn cael ei mabwysiadu, ac wrth i ni symud ymlaen i edrych ar gynigion newydd, byddwn yn ystyried effaith y cynnig ar y grŵp hwn fel rhan o'r Asesiad Effaith ar y cynnig hwnnw.<br>Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. | |
| Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd | | Nid oes cynnig penodol yn cael ei wneud ar y cam yma. Os bydd y Strategaeth yn cael ei mabwysiadu, ac wrth i ni symud ymlaen i edrych ar gynigion newydd, byddwn yn ystyried effaith y cynnig ar y grŵp hwn fel rhan o'r Asesiad Effaith ar y cynnig hwnnw.<br>Nid oes tystiolaeth weladwy bod gwahaniaethu ar sail hil yn digwydd.<br>Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. | |
| Crefydd neu Gred | | Nid oes cynnig penodol yn cael ei wneud ar y cam yma. Os bydd y Strategaeth yn cael ei mabwysiadu, ac wrth i ni symud ymlaen i edrych ar gynigion newydd, byddwn yn ystyried effaith y cynnig ar y grŵp hwn fel rhan o'r Asesiad Effaith ar y cynnig hwnnw. | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | | Nid oes cynnig penodol yn cael ei wneud ar y cam yma. Os bydd y Strategaeth yn cael ei mabwysiadu, ac wrth i ni symud ymlaen i edrych ar gynigion newydd, byddwn yn ystyried effaith y | |

| Y grŵp / a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | cynnig ar y grŵp hwn fel rhan o'r Asesiad Effaith ar y cynnig hwnnw.<br>Nid oes tystiolaeth weladwy bod gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn digwydd.<br>Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | | Nid oes cynnig penodol yn cael ei wneud ar y cam yma. Os bydd y Strategaeth yn cael ei mabwysiadu, ac wrth i ni symud ymlaen i edrych ar gynigion newydd, byddwn yn ystyried effaith y cynnig ar y grŵp hwn fel rhan o'r Asesiad Effaith ar y cynnig hwnnw.<br>Nid oes tystiolaeth weladwy bod gwahaniaethu ar sail priodas neu bartneriaeth sifil yn digwydd.<br>Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. | |
| | | | |
| Yr iaith Gymraeg | | Fel rhan o'r weledigaeth ac egwyddorion arweiniol, mae'r strategaeth yn adnabod: "Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gwbl ddwyieithog ac yn gallu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol" fel un o brif egwyddorion y Gwasanaeth Dysgu. | |
| Hawliau Dynol | | Nid oes tystiolaeth o unrhyw wahaniaethu ar sail hawliau dynol yn digwydd. Os oes problemau'n codi, ymdrinnir â hwynt yn sensitif. | |
| Unrhyw fater perthnasol arall | | | |

| **Y grŵp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| Mae cysylltiadau clir rhwng materion cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall camwahaniaethu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol. Os y daw unrhyw faterion o'r fath yn amlwg wrth asesu materion sydd ddim yn rai strategol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt a'u cofnodi o dan y grwp gwarchodedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall' uchod. | | | |

| **Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol (gweler atodiad 1)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
| A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol? | | Yn yr adran Amcanion Strategol / Gweledigaeth, mae'r strategaeth yn nodi:<br>▪ Ysgolion sydd wedi eu ffocysu ar eu cymunedau (ysgolion bro), gyda rhanddeiliaid a phartneriaethau'n cyfrannu at y rôl hon.<br>▪ Sicrhau bod lles a chynhwysiant dysgwyr yn flaenoriaeth<br><br>Gall y ddau bwynt uchod helpu i leihau'r effaith ar rai o'r grwpiau sydd yn profi anfantais economaidd gymdeithasol, er enghraifft:<br><br>Drwy sicrhau bod ysgolion yn ffocysu ar gymunedau, gall hyn arwain at weithgareddau ac adnoddau yn dod ar gael i grwpiau na fyddai fel arall yn cael mynediad atynt, er enghraifft oherwydd tlodi, neu costau byw. | |

**Cam 4 – Canlyniad yr asesiad**

Mae pedwar canlyniad posibl – cadwch y rhain mewn cof wrth gwblhau'r rhan nesaf:

- **Dim newid mawr -** Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.
- **Addasu'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu problemau posibl neu gyfleoedd a fethwyd. Addaswch y cynnig i oresgyn rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.
- **Parhau â'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu'r potensial am effaith niweidiol neu gyfleoedd a fethwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Amlinellwch yn glir y cyfiawnhad dros barhau ag ef. Dylai'r cyfiawnhad gael ei gynnwys yn yr asesiad a rhaid iddo fod yn unol â'r ddyletswydd i roi ystyriaeth briodol. Ar gyfer y cynigion perthnasol pwysicaf, bydd angen rhesymau cymhellol.
- **Atal a dileu'r cynnig -** Mae'r cynnig yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosibl. Rhaid ei atal a'i ddileu neu ei newid. (Mae'r codau ymarfer a'r arweiniad ar bob un o ddyletswyddau'r sector cyhoeddus ar wefan y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon)



| **Cam 4 – Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| 21 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol (sef crynodeb o'r tabl/au yng ngham 3). | Rhagwelir bydd y cynnig yn cael effaith niwtral, os nad cadarnhaol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg a'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Gall y Strategaeth arwain at effaith gadarnhaol o ran cydraddoldeb, drwy:<br><br>▪ "Sicrhau bod lles a chynhwysiant dysgwyr yn flaenoriaeth"<br><br>Gall y Strategaeth arwain at effaith gadarnhaol o ran yr iaith Gymraeg, drwy:<br><br>"Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gwbl ddwyieithog ac yn gallu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol"<br><br>Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (gan gynnwys ymateb Cymdeithas yr Iaith) yn nodi ei pryder y gallai cau ysgolion mewn cymunedau gael effaith negyddol ar ddefnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned, gan bod yr ysgol yn chwarae rôl bwysig o ran sicrhau cyswllt rhwng y gymuned a'r Gymraeg ac yn fodd o gymhathu mewnfudwyr.  Roedd Cymdeithas yr Iaith |

| Cam 4 – Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| | hefyd yn pryderu am ddefnydd llac o ymadroddion fel “addysg Gymraeg a dwyieithog”. Roeddent yn teimlo y dylai’r Cyngor ddynodi ysgolion i fod yn ysgolion Cymraeg yn y categori uchaf er mwyn osgoi unrhyw ansicrwydd.<br><br>Pe byddai’r strategaeth yn cael ei mabwysiadu, bydd y pwyntiau hyn yn cael ystyriaeth bellach wrth ddatblygu cynigion penodol.<br><br>Gall y Strategaeth arwain at effaith gadarnhaol ar y rhai sydd yn profi anfantais economaidd gymdeithasol, drwy:<br><br>“Sicrhau bod lles a chynhwysiant dysgwyr yn flaenoriaeth”, a drwy gael<br><br>“Mwy o ffocws cymunedol - mwy o gyfleusterau (aml-bwrpas a ellir eu defnyddio gan y gymuned yn ogystal â’r ysgol), oriau defnydd estynedig, mwy o ddefnydd gan y gymuned, hwb cymunedol”. Wrth ddatblygu cynigion penodol, byddwn hefyd yn ystyried os fydd y cynnig yn arwain at fwy o deithio. |
| 22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a’r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i’r rhai sy’n wynebu anfantais economaidd, | Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu’r Strategaeth, bydd cynigion unigol yn cael ei gwneud fesul ardal i bwrpas symud y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn ei blaen. Bydd Asesiadau Effaith unigol yn cael eu gwneud ar gyfer pob cynnig. Fel rhan o’r asesiadau, bydd ystyriaeth bellach yn cael ei roi o safbwynt hyrwyddo cydraddoldeb a’r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, ac i sicrhau gwell canlyniadau i’r rhai sy’n wynebu anfantais economaidd.<br><br>Byddwn yn rhagweld i fabwysiadu’r strategaeth gael effaith niwtral neu gadarnhaol ar hyrwyddo Cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, ac y rhai sydd yn profi anfantais economaidd gymdeithasol, fel a disgrifir uchod.<br><br>Mae’r Strategaeth hefyd yn cyfeirio at:<br><br>“Sicrhau bod penderfyniadau a wneir heddiw’n cyfrannu’n effeithiol tuag at faterion amgylcheddol a newid hinsawdd.” Byddwn yn rhagweld i hyn gyfrannu tuag at cyflawni nodau’r Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 |

| **Cam 4 – Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| 23 - A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | Na |
| 24 - A oes angen edrych ar beth y gellid eu gwneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Na |
| 25 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru? | Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw effaith negyddol wedi ei adnabod, fodd bynnag mae rhai pryderon wedi eu codi fel rhan o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn bennaf, yr effaith gallai gau ysgolion pentref ei gael ar y gymuned, y Gymraeg a phellter teithio.<br><br>Petai cynnig i gau ysgol yn cael ei wneud, bydd y Cyngor yn ystyried sut gellir lliniaru'r effeithiau hyn, a byddai Asesiad Effaith penodol yn cael ei gynnal ar gyfer y cynnig penodol hwnnw. |
| 26 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Bydd y Strategaeth yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf 2023. Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu mabwysiadu'r strategaeth, bydd cynigion unigol yn cael eu datblygu a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i bwrpas symud y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn ei blaen, yn unol â disgwyliadau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. |
| 27 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny? | Mae trefniadau llywodraethiant wrthi'n cael ei sefydlu ar gyfer gwireddu'r strategaeth. Bydd y trefniadau Llywodraethant yn cynnwys:<br><br>• Grŵp Llywio Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu – bydd rôl y grŵp yn cynnwys Cyfrannu tuag at, herio, sicrhau cydymffurfiaeth |

| Cam 4 – Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| | a'r cod trefniadaeth a monitro cynnydd y Rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu.<br>• Grwp Gweithredol Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu – bydd rôl y grŵp yn cynnwys:<br>- rhoi arweiniad i swyddogion ar faterion gweithredol sy'n ymwneud a'r rhaglen moderneiddio<br>- Adnabod a rheoli risgiau'r rhaglen.<br>- Blaenoriaethu adnoddau<br><br>Wrth i unrhyw gynigion penodol gael eu ffurfio, bydd Asesiad Effaith unigol hefyd yn cael ei ddatblygu. Dogfennau byw fydd rhain, fydd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd wrth i'r cynnig ddatblygu. Byddwn yn asesu effaith y cynnig o safbwynt cydraddoldeb, y gymuned a'r iaith Gymraeg. Petai effaith negyddol yn cael ei ragweld, byddwn yn ystyried yn ofalus sut bydd posib ei liniaru.<br>Wrth i brosiectau ddatblygu (ble bydd gofyn am gyfraniad cyllidol gan Llywodraeth Cymru), bydd gofyn paratoi achosion busnes i gyflwyno i banel buddsoddi y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - Llywodraeth Cymru. Bydd y panel buddsoddi yn asesu'r cynigion yn ofalus, gan ystyried beth yw buddion ag effaith y cynigion cyn penderfynu os i gefnogi'r cynnig. |

**Cam 5 – Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyflwyno'r Strategaeth i'r Pwyllgor Gwaith | Marc B Hughes | 18 Gorffennaf |
| 2 | Ystyried gwahanol fathau o ddarpariaeth addysg, e.e. ysgolion 3-16 oed neu 3- 18 oed | Marc B Hughes | 2023 ymlaen |
| 3 | Edrych i wella effeithlonrwydd ysgolion, a sicrhau ariannu teg. | Marc B Hughes | 2023 ymlaen |
| 4 | Ymchwilio i'r posibiliadau o wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth ôl-16. | Marc B Hughes | 2023 ymlaen |

**Atodiad 1 - Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol**

## Beth yw'r Ddyletswydd?

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Pwy sydd yn debygol o brofi anfanteision economaidd-gymdeithasol?

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn 'cymunedau buddiant' a hefyd mewn 'cymunedau lle', gan arwain at fwy o anghydraddoldeb o ran canlyniadau, ac mae croestoriad o'r ddau yn gallu dwysau hynny:

**Cymunedau buddiant** – grwpiau sydd â phrofiad cyffredin, ee bod yn ddigartref; neu bobl sydd â'r un hunaniaeth, ee unig rieni, gofalwyr. Hefyd pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion garchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Cymunedau lleoedd** – pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd lle maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser yno.

**Croestoriad** – yn ei hanfod, mae croestoriadedd yn ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhyw, hil neu ddosbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol. Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

## Pa bryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Cyfeiriad a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)
- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
- Datblygu polisïau strategol.

## Atodiad 2 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

**Cymru lewyrchus:**
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

**Cymru gydnerth:**
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru iachach:**
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal:**
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

**Cymru o gymunedau cydlynus:**
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu:**
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:**
Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

# STRATEGAETH MODERNEIDDIO CYMUNEDAU DYSGU A DATBLYGU'R GYMRAEG

**Gorffennaf 2023**

**Statws – SWYDDOGOL**

**Paratowyd gan:**

Marc Berw Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc

# Cynnwys

Cyflwyniad

Cynllun y Cyngor – Y Cylch Strategol

Yr Hyn Sydd Wedi ei Gyflawni

Y Sefyllfa Bresennol – Pam Bod Angen Parhau i Newid

Gweledigaeth y Gwasanaeth ac Egwyddorion Arweiniol

Gyrwyr Newid / Amcanion Strategol

Heriau i Wireddu’r Strategaeth

Amserlen Gweithredu

Ein Dyfodol – Profiad Defnyddwyr

Proses Deddfwriaethol

Monitro

Ffynonellau Gwybodaeth

# Cyflwyniad

**Ym Medi 2022, dywedodd Jeremy Miles, Gweinidog Addysg Cymru:**

*‘’Mae mynd i’r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn hanfodol os ydym am sicrhau dyheadau a safonau uchel i bawb. Rydym yn gwybod bod y cartref a’r gymuned yn dylanwadu’n fawr ar gyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc a bod angen rhagor o gymorth ar athrawon i fynd i’r afael â’r materion y mae rhai plant a phobl ifanc yn eu hwynebu. Drwy fuddsoddi mewn ysgolion bro, rydym yn sicrhau bod gan ddysgwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i wireddu eu potensial.*


*Mae ysgolion bro yn datblygu partneriaethau ag ystod o sefydliadau, ac yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn lleol i deuluoedd ac i’r gymuned ehangach. Maent yn defnyddio eu cyfleusterau a’u hadnoddau er budd y cymunedau y maent yn eu gwasanaethau, gan wella bywyd plant, cryfhau teuluoedd ac adeiladu cymunedau cryfach.*

*Yn anad dim, cenhadaeth ein cenedl yw mynd i’r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a gosod safonau uchel i bawb. Rwyf i am i bob person ifanc gael uchelgeisiau mawr ar gyfer eu haddysg a’u gyrfaoedd yn y dyfodol ac mae hynny’n golygu defnyddio pob dull sydd gennym i’w cefnogi nhw.’’*

Er mwyn ymateb i hyn a sicrhau bod dysgwyr ar draws Ynys Môn yn derbyn yr addysg y maent yn ei haeddu, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi adolygu ei gynllun Moderneiddio Addysg a Chryfhau'r Iaith Gymraeg.  Rhoddwyd sylw cadarnhaol i hyn yn adroddiad arolygu Estyn ar Gyngor Sir Ynys Môn yn 2022:

*“Mae gweledigaeth glir ar gyfer ad-drefnu a moderneiddio ysgolion, sy’n seiliedig ar sicrhau bod yr ysgolion yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ac yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg fodern. Rhoddir sylw blaenllaw i ddatblygu’r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o fewn y strategaeth moderneiddio. Mae rhai elfennau o’r weledigaeth ar waith, ac yn cael effaith gadarnhaol, er enghraifft ehangu darpariaeth canolfannau iaith a lleihau llefydd gweigion ysgolion. Mae rhai agweddau o’r weledigaeth, er enghraifft moderneiddio addysg ôl 16 ar yr ynys, yn eu dyddiau cynnar.*

# Cynllun y Cyngor – Y Cylch Strategol




Mae'r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd gan y Cyngor yn eu lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion, maent yn adnabod beth sydd angen ei gyflawni, sut rydym am gyflawni hyn a pham.  Mae Cynllun y Cyngor a'r cynlluniau strategol yn datgan gweledigaeth y Cyngor, ynghyd â'r egwyddorion cyffredinol a meysydd blaenoriaeth allweddol. Mae'r strategaeth hon yn un o gynlluniau strategol y Cyngor a bydd yn gynllun annatod er mwyn cefnogi'r weledigaeth a'r amcanion allweddol o fewn Cynllun y Cyngor.

# Yr Hyn sydd wedi ei Gyflawni

Ers cyhoeddi'r strategaeth wreiddiol yn 2013, mae'r Awdurdod wedi cydweithio gyda phenaethiaid ac aelodau etholedig i foderneiddio'r stoc ysgolion ar yr ynys drwy gyfuno 10 o ysgolion cynradd llai ac adeiladu ysgolion 21ain ganrif mewn pedair ardal. Mae prosiect arall ar waith ar hyn o bryd, ble mae penderfyniadau wedi eu gwneud i ehangu un ysgol, a chau un ysgol. Erbyn cwblhau'r prosiect hwn, bydd y Cyngor wedi cau 11 ysgol fach, wedi diweddaru ac ymestyn dwy ysgol, ac wedi agor pum adeilad ysgol 21ain ganrif mewn pedair ardal, sy'n cynnwys adeilad cyntaf sero carbon net Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae'r prosiectau sydd wedi eu cwblhau hyd yma:

- Wedi cael effaith gadarnhaol ar lefydd gweigion ysgolion cynradd yr ynys, gyda sefyllfa bresennol yn dangos mai 13% o lefydd gweigion sy'n perthyn i'r sector cynradd yn Ionawr 2023 (i'w gymharu â 28% yn 2011).
- Wedi arwain at arbedion refeniw drwy'r fformiwla cyllido ysgolion o dros £300k, ac wedi arwain at leihad yn y costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o dros £2m.

Bydd y prosiect sydd ar waith ar hyn o bryd yn arwain at arbediad pellach mewn costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o tua £0.5m ychwanegol.

Erbyn cwblhau'r prosiect sydd ar waith (2024), rhagdybir y bydd tua 25% o ddysgwyr cynradd Ynys Môn yn derbyn eu haddysg mewn adeiladau'r 21ain ganrif.

Mae Adroddiad Estyn (Mehefin 2022) yn cydnabod bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth foderneiddio trefniadaeth ysgolion:

"*Mae'r awdurdod wedi buddsoddi mewn ystod o brosiectau cyfalaf yn ystod camau cyntaf rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Maent yn gwneud cynnydd da o ran sicrhau bod yr ysgolion addas o'r math priodol yn y lleoedd priodol i fodloni anghenion ei ddysgwyr*"

# Y Sefyllfa Bresennol – Pam Bod Angen Parhau i Newid

### Canran Uchel o Ysgolion Bach

Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r *Gorchymyn Addysg (Ysgolion Bach) (Cymru) 2014*, yn diffinio ysgolion bach fel ysgolion sydd â llai na 91 disgybl.  Er bod y nifer o ysgolion sy'n cyrraedd y diffiniad wedi gostwng yn sylweddol dros y degawd diwethaf ym Môn (ar sail niferoedd Ionawr 23), mae dal **17 (43%) ysgol yn Ynys Môn** sy'n cael eu hystyried i fod yn ysgolion bach yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru.

Mae'r heriau canlynol yn wynebu ysgolion bach:

- Addysgu dosbarthiadau oedran cymysg yn cynnwys mwy na 2 neu 3 o grwpiau oedran;
- Maint cyfyngedig grwpiau cymheiriaid a digonolrwydd her;
- Cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol;
- Anawsterau gyda recriwtio a chadw staff;
- Beichiau gormodol ar staff a'r arbenigedd uwch sy'n ofynnol i gefnogi disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Tra bod yr heriau hyn yn wynebu'r ysgolion, mae'n bwysig nodi ei fod yn mynd yn anoddach i gydbwyso'r gyllideb gorfforaethol yn flynyddol.

### Newid Demograffeg

Mae'n amlwg o ddata cyfrifiad bod poblogaeth Ynys Môn wedi, ac yn parhau i heneiddio.  Yn ôl cyfrifiad 1981, roedd 23% o boblogaeth yr ynys o fewn grŵp oedran dan 15, gyda dim ond 15% o'r boblogaeth yn 65 mlwydd oed neu hyn.  Erbyn cyfrifiad 2021, mae'r canran o'r boblogaeth o oedran dan 15 wedi gostwng i 16%, a'r canran o'r boblogaeth o oed 65+ wedi cynyddu i 26%.  Rhagdybir erbyn 2031 bydd y canran o blant o dan 15 oed wedi gostwng ymhellach i 13% gyda'r canran o bobl 65+ yn cynyddu i 28%.

Yn Ionawr 2023, roedd 5,029 o ddisgyblon (Bl Derbyn – Bl6) yn mynychu ysgolion cynradd Môn, tra bod 4,024 o ddisgyblion (Bl 7 – Bl12) yn mynychu ysgolion uwchradd Môn.

Ar sail y newid mewn demograffeg a nodir uchod, amcangyfrifir y bydd y niferoedd hyn yn lleihau i 4,142 o ddisgyblion cynradd, a 3,314 o ddisgyblion uwchradd erbyn 2031.  Mae hyn yn gyfystyr â lleihad o 887 disgybl cynradd, a 710 disgybl uwchradd. Mae hyn yn cyfateb â'r angen am tua 7 ysgol gynradd yn llai (ar sail cyfartaledd o 130 disgybl ym mhob ysgol), ac 1 ysgol uwchradd yn llai (heb ystyried y llefydd gweigion presennol).

Mae’r data hefyd yn dangos bod llai o blant oed ysgol rhwng 3 a 15 oed ar Ynys Môn yn siarad Cymraeg o’u cymharu â degawd yn ôl. Bu gostyngiad o 3.5% rhwng 2011 a 2021. Fel arfer, mae’r gallu i siarad Cymraeg yn y grŵp oedran hwn yn uwch na phob grŵp oedran arall.

**Nifer Disgyblion**

Tra bod y canran o lefydd gweigion yn yr ysgolion cynradd wedi lleihau’n sylweddol, mae’r rhagolygon a dderbyniwyd gan benaethiaid ysgolion yn rhagweld y gall niferoedd disgyblion cynradd leihau o 401 o ddisgyblion ymhellach erbyn 2027. Bydd yn bwysig felly bod y nifer o lefydd gweigion yn parhau i gael ei asesu. Mae Llywodraeth Cymru’n diffinio ‘nifer sylweddol o lefydd gweigion’ fel 25% neu fwy o gapasiti’r ysgol. Mae **13 o ysgolion cynradd Ynys Môn** yn cwrdd â’r diffiniad hwn o hyd.

Yn yr uwchradd, mae’r canran o lefydd gweigion (22%) yn bryder (“yn gymharol uchel” nodwyd yn adroddiad Estyn). Yn sgil hyn, bydd angen rhoi ystyriaeth i leihau nifer yr ysgolion uwchradd neu newid yn natur yr ysgolion os am sicrhau dyfodol addysg uwchradd mewn rhai rhannau o’r sir.

**Pwysau Cyllidol**

Mae materion byd-eang, gan gynnwys y rhyfel yn Wcráin, cynnydd mewn costau ynni a phroblemau ynglŷn â’r cadwyni cyflenwi, wedi ac yn parhau i gael effaith sylweddol ar chwyddiant. O ganlyniad, roedd angen cynyddu cyllideb y Cyngor tua £17m (10%) o 2022/23 i 2023/24. Mae cyllideb y Gwasanaeth Dysgu’n cyfrifo am tua 36% o gyllideb net y Cyngor.

Mae gwahaniaeth sylweddol yng nghost y pen ysgolion, gydag amrywiaeth o £3,686 i £17,200 yn y cynradd, ac £5,862 i £6,941 yn yr uwchradd.

Gellid dadlau bod y ffaith fod ysgolion cynradd llai yn derbyn yr hyn sy’n gyfystyr ag arian ychwanegol i gynnal isafswm o lefelau staffio’n golygu bod yr ysgolion mwyaf, sy’n aml yn gwasanaethu’r ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn derbyn llai o gyllid. Nid yw hyn yn gynaliadwy at y dyfodol, yn enwedig os bydd costau’n parhau i godi. Gyda’r rhagdybiaeth sydd wedi ei chyfrifo uchod parthed y newid mewn demograffeg, bydd niferoedd disgyblion yn gostwng ymhellach erbyn 2031. Canlyniad hyn yw y bydd yn debygol y bydd mwy o’r ysgolion bach yn cael eu gwarchod, ac o ganlyniad, bydd llai o gyllid i’w rannu rhwng gweddill yr ysgolion. Golyga hyn y bydd yr amrywiaeth mewn cost y pen yn cynyddu.

Wrth symud ymlaen gyda’r rhaglen, bydd rhaid sicrhau bod adnoddau’n cael eu defnyddio mewn modd sy’n deg ac yn effeithlon, a defnyddio’r cyfle i sicrhau fod y fformiwla ariannu ysgolion yn addas o ystyried newidiadau a ddaw trwy foderneiddio, fel y nodir gan Estyn.

**Cyflwr Adeiladau**

Mae Llywodraeth Cymru'n categoreiddio cyflwr adeiladau ysgol ar raddfa A-D.

Gweler isod ddiffiniad o'r gwahanol gategorïau:

A – Fel newydd

B – Yn weithredol ddiogel ac yn arddangos mân ddirywiad yn unig

C – Angen atgyweirio neu amnewid gweithredol ond mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig

D – Risg difrifol o fethiant

Tra bod stoc ysgolion cynradd Ynys Môn i gyd wedi ei asesu i fod yn radd cyflwr 'A' neu 'B' ac eithrio un ysgol, mae 4/5 o ysgolion uwchradd Ynys Môn wedi eu hasesu i fod yn radd cyflwr 'C'. Mae hyn yn amlygu'r angen i roi sylw i gyflwr ein hadeiladau ysgol uwchradd.

Mae costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ysgolion yn codi o flwyddyn i flwyddyn. Rhagwelwyd costau o £22.3m pan gafodd yr asesiad ei gwblhau yn Rhagfyr 2021, gyda £9.3m yn gysylltiedig â'r 40 adeilad cynradd, tra bod dros £13m yn gysylltiedig â'r 5 adeilad uwchradd. Nid oes gan y Cyngor y gyllideb i fynd i'r afael â'r gwaith hwn. Mae hyn yn amlygu'r angen i resymoli ein stoc o adeiladau, fel bod modd buddsoddi mwy yn yr adeiladau fydd yn parhau.

**Datgarboneiddio**

Wrth ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn sefydliad carbon sero net erbyn 2030. Er mwyn cyrraedd y targed hwn, mae'r Cyngor (ar holl sector cyhoeddus) yn wynebu heriau a phenderfyniadau amryfal i leihau allyriadau carbon ac i ymateb i newid hinsawdd.

Mae o leiaf 12/40 (30%) o ysgolion cynradd Ynys Môn yn perfformio'n waeth na'r arferol o safbwynt effeithlonrwydd ynni, gyda thair ysgol yn y categori gwaethaf posibl.

Bydd angen gwella effeithlonrwydd ynni ein stoc o ysgolion yn sylweddol os am gyrraedd y targed o fod yn sefydliad carbon sero net.

Yn sgil yr uchod, noder bod y Strategaeth Moderneiddio Addysg a Chryfhau'r Iaith Gymraeg hon wedi ei llunio er mwyn:

- Sefydlu trefniadaeth ysgolion sy'n addas ar gyfer y deng mlynedd ar hugain nesaf er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau i'n plant a'n pobl ifanc ffynnu a manteisio ar y cyfleoedd byd gwaith sydd ar y gorwel;
- Parhau i weithredu'n ddidrugaredd i sicrhau bod safonau a darpariaeth yn ein hysgolion ymysg y gorau;
- Sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon drwy ddatblygu trefniadaeth sy'n fwy cyfartal o safbwynt cost y pen ar draws ysgolion a sefydlu patrwm addas ar gyfer addysg ôl-16;
- Sicrhau bod pob ysgol yn gosod sylfeini cadarn i sicrhau bod pob dysgwr yn cyrraedd lefel o hyfedredd yn y ddwy iaith sy'n berthnasol i'w gallu;
- Creu'r amgylchiadau i benaethiaid lwyddo drwy sicrhau bod amser a chymorth digonol iddynt ar gyfer arwain a rheoli;
- Sefydlu trefn fel bod y gyfundrefn ysgolion yn sicrhau olyniaeth briodol;
- Sicrhau bod y strategaeth yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cyfrannu at 'Gynllunio Lle'.

# Gweledigaeth ac Egwyddorion Arweiniol

**'Yr Ynys Ddysg gyda Chymunedau sy'n Dysgu, Gwasanaeth Dysgu ac Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu'.**

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn yr uchelgais o sicrhau y bydd ein holl blant a phobl ifanc, waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau, yn cyflawni eu llawn botensial gan alluogi pob dysgwr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm, y dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ar Ynys Môn.

Prif egwyddorion y Gwasanaeth Dysgu yw:

- Sicrhau y gall pob plentyn ar yr ynys gyflawni eu llawn botensial a chael y profiadau gorau posibl.
- Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gwbl ddwyieithog ac yn gallu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.
- Ysgolion sydd wedi eu ffocysu ar eu cymunedau (ysgolion bro), gyda rhanddeiliaid a phartneriaethau'n cyfrannu at y rôl hon. Paratoi pobl ifanc ar gyfer anghenion gweithlu'r dyfodol drwy ddatblygu sgiliau a phrofiadau digidol.
- Denu'r staff gorau i'n hysgolion i roi'r profiadau gorau i'n plant.
- Gweithredu yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol, effeithlon, cynhaliol ac ecogyfeillgar.
- Sicrhau bod lles a chynhwysiant dysgwyr yn flaenoriaeth ac yn graidd i unrhyw fater addysgol.
- Sicrhau bod penderfyniadau a wneir heddiw'n cyfrannu'n effeithiol tuag at faterion amgylcheddol a newid hinsawdd.
- Sicrhau cynnig o ansawdd i ddisgyblion ôl-16, sy'n addas i anghenion dyfodol Ynys Môn.

Bydd hyn yn golygu y bydd ein holl blant, pobl ifanc a dysgwyr yn:

- **Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog**
- **Cyfranwyr mentrus, creadigol**
- **Dinasyddion egwyddorol, gwybodus**
- **Unigolion iach, hyderus.**

Bydd y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'n allweddol i wireddu'r weledigaeth uchelgeisiol uchod trwy sicrhau ysgolion effeithiol o'r maint cywir, yn y lleoliadau cywir, gydag amgylchfyd addysgu pwrpasol, sy'n cael eu harwain gan arweinwyr ysbrydoledig. I gyrraedd y nod hwn, bydd angen adolygu'r gyfundrefn bresennol ac ystyried y ffordd orau ymlaen yn seiliedig ar ofynion a natur yr anghenion.

# Gyrwyr Newid / Amcanion Strategol

***Safonau - Darparu'r addysg orau i bobl ifanc yn yr hinsawdd gyllidol yr ydym ynddi fel bod addysg yn gallu ffynnu ar ôl Covid-19, ac ymateb i anghenion dyfodol dinasyddion Ynys Môn.***

Mae'r Awdurdod am sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer dysgwyr drwy sicrhau bod y system yn addas ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Bydd y strategaeth hon yn rhoi sylw i hyn gan edrych i greu'r amodau fel bod penaethiaid, athrawon a disgyblion yn llwyddo. Mae profiadau'r Awdurdod gydag ysgolion llai wedi cadarnhau bod angen cymorth a chefnogaeth uwch na'r disgwyliedig i rai ysgolion llai, ac mae hyn yn fwy amlwg ble mae pryderon am ansawdd yr arweinyddiaeth ac/neu ansawdd yr addysgu mewn dosbarthiadau unigol.

Mewn ysgolion uwchradd llai eu maint, mae'n her i gynnal ansawdd ac ehangder y cwricwlwm. Yn ogystal â hyn, mae'r gallu i gadw staff arbenigol, yn enwedig yn y pynciau craidd ac ar lefel reolaethol, yn heriol.

Wrth i'r cwricwlwm newydd wreiddio, daw cyfleoedd euraidd i sefydlu ysgolion traws-sector [3-16 neu 3-18] sy'n gwneud y mwyaf o arbenigeddau staff a'r cyfleoedd i ddysgu ac addysgu'n drawsbynciol. Mae ysgolion traws-sector hefyd yn rhoi cyfleoedd i osgoi'r 'gostyngiad mewn perfformiad' a welir ymysg dysgwyr wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd.

***Arweinyddiaeth a Rheolaeth - Cynyddu capasiti i ddatblygu arweinyddiaeth effeithiol yn ein hysgolion ac i gynllunio olyniaeth.***

Mae ysgolion effeithiol yn cael eu harwain yn dda. Mae gan ein hysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys llywodraethwyr.

Mae'r heriau sy'n gysylltiedig ag arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu'n sylweddol ac mae'r disgwyliadau'n parhau i gynyddu. Ar hyn o bryd, mae gan nifer o'r penaethiaid cynradd ymrwymiad dysgu penodol sylweddol, yn enwedig yn yr ysgolion bach. Mae penaethiaid ysgolion llai hefyd yn cyflawni ystod o dasgau gweinyddol. Mae recriwtio penaethiaid o dan yr amodau hyn yn heriol.

Mae angen i ysgolion cynradd fod yn faint addas i fod â phennaeth nad yw'n addysgu am ganran sylweddol o amser. Byddai hynny'n rhoi'r amser angenrheidiol i'r pennaeth ymgymryd â swyddogaethau arweinyddol allweddol o fewn yr ysgol neu'r ffederasiwn, wrth gynnig profiadau arwain i aelodau staff a chyfrannu at gynllunio olyniaeth.

***Nifer Disgyblion / Llefydd Gweigion - Darparu Addysg sy'n cyd-fynd â gofynion poblogaeth yr ynys. Lleihad yn y nifer o lefydd dros ben er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.***

Mae oedran yr ynys yn heneiddio. Yn wir, gwelwyd cwymp yn y canran o blant sydd o oed ysgol (0-15) yn ffigyrau'r cyfrifiad diweddar. Os bydd y cwymp hwn yn parhau, rhagwelir gostyngiad o 3% pellach yng nghanran y boblogaeth sydd 'o dan 15 oed' erbyn 2031. O ganlyniad i'r newid hwn mewn demograffeg, a'r lleihad sydd wedi ei brofi yn y nifer o bobl ifanc o oed ysgol sy'n byw ar yr ynys, yn ogystal â'r lleihad pellach a welir mewn rhagolygon penaethiaid am y 5 blwyddyn nesaf, mae'n bwysig bod y Cyngor yn parhau i fonitro'r nifer o lefydd gweigion, i sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau.

Ym Ionawr 2023, roedd bron i hanner ysgolion cynradd Ynys Môn yn cwrdd â diffiniad Llywodraeth Cymru o fod yn ysgolion bach (llai na 91 disgybl), tra bod 33% o'n hysgolion cynradd yn cwrdd â'r diffiniad o fod â nifer sylweddol o lefydd gweigion (25% neu fwy o gapasiti'r ysgol). Roedd hefyd un ysgol uwchradd oedd yn cwrdd â diffiniad o fod â nifer sylweddol o lefydd gweigion gyda 44% (429) o lefydd dros ben.

Bydd y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'n rhoi sylw i hyn trwy adolygu dyfodol pob ysgol ar sail ardaloedd.

***Lles, Gofal ac Iechyd - Gwella mynediad ar gyfer sicrhau lles, gofal ac iechyd yn ein hysgolion.***

Mae'r Awdurdod yn ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid gan gynnwys athrawon, llywodraethwyr a rhieni er mwyn canfod eu barn. O ganlyniad, mae lles, gofal a iechyd yn ein hysgolion yn derbyn blaenoriaeth uchel a pharhaus.

Mae ysgolion effeithiol yn meddu amgylcheddau diogel i ddysgwyr a staff, sydd hefyd yn hyrwyddo parch ac amrywiaeth.

Gall amgylchedd ysgol sydd wedi'i ddylunio'n dda wella iechyd corfforol a meddyliol plant yn ogystal â gwella lles staff a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Ar hyn o bryd, mae 5 ysgol gynradd mewn cyflwr gradd 'A', ac un ysgol arbennig.

Mae tiroedd ysgol sydd wedi'u dylunio'n dda a'u datblygu'n feddylgar yn cyfoethogi cyfleoedd i ddysgu a chwarae. Mae cyswllt a chysylltiad â byd natur yn creu mwy o emosiynau cadarnhaol a theimladau o fywiogrwydd, a llai o emosiynau negyddol; mae hefyd yn cynnig rhyddhad o flinder meddyliol, a'r gallu i ganolbwyntio'n hirach.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i fuddsoddi yn amgylchedd dysgu Ysgolion Bro, drwy gydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol. Bydd y rhaglen Ysgolion Bro yn hwyluso'r Cyngor i fynd

i'r afael â thlodi plant a lliniaru ei effeithiau, yn cynnwys yr anghydraddoldebau addysgol y mae plant yn eu profi o ganlyniad i fyw mewn tlodi.

Drwy fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion, rydym yn gobeithio creu gwell cyfleusterau y gall dysgwyr a'r gymuned ehangach eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys mynediad at ddysgu oedolion, gofal plant a gweithgareddau chwaraeon a hamdden parhaus.

***Darpariaeth Ôl-16 - Cryfhau hawl dysgwyr a phrofiad i ddysgwyr ôl-16.***

Mae'r Cyngor yn gweithredu Partneriaeth Ddysgu Ôl-16 gyda Gwynedd a Grŵp Llandrillo Menai, ac mae'r Bartneriaeth Ddysgu'n derbyn cyfrifoldeb am gomisiynu darpariaeth ôl-16 i gwrdd â gofynion cwricwlwm a gytunwyd yn lleol ar gyfer addysg a hyfforddiant.

Er bod y Bartneriaeth Ddysgu Ôl-16 wedi llwyddo i resymoli'r ddarpariaeth AS ac UA, nid yw'r drefn gyfredol yn gynaliadwy o safbwynt costau teithio a maint dosbarthiadau bach. Ar hyn o bryd, mae nifer o ddosbarthiadau gyda niferoedd y disgyblion yn fach. Yn yr hinsawdd gyllidol bresennol nid yw hyn yn hyfyw, yn gost effeithlon nac yn gynaliadwy. Yn ychwanegol, gan fod ysgolion eisoes wedi rhesymoli nifer y cyrsiau nad ydynt yn hyfyw, mae disgyblion yn treulio cyfnodau rheolaidd o amser yn teithio o un ysgol i'r llall. Mae penaethiaid ysgolion uwchradd y sir yn cydnabod yr angen i adolygu'r sefyllfa bresennol.

O ganlyniad, bydd angen rhoi ystyriaeth i ddyfodol addysg ôl-16 o fewn y sir.

***Adeiladau ac Adnoddau - Sicrhau adeiladau ac amgylchedd dysgu o ansawdd uchel ac yn addas i bwrpas.***

Mae archwiliad o adeiladau ysgolion yn dynodi bod diffygion difrifol yn parhau mewn nifer o safleoedd ac adeiladau, yn enwedig yn y sector uwchradd, sy'n codi cwestiynau dybryd ynghylch hyfywdra hirdymor rhai adeiladau. Nid yw'n gynaliadwy nac yn bosibl cynnal nifer fawr o adeiladau ysgolion sy'n heneiddio.

Bydd rhaid rhesymoli nifer yr adeiladau ysgol mewn rhai ardaloedd ble mae'n bosib cyfuno dwy neu fwy o ysgolion cynradd cyfagos oherwydd bod y gofod ar gael mewn un o'r ysgolion hynny'n barod. Bydd hyn yn arwain at arbedion cyllidol, er yr angen i gludo'r dysgwyr i'r ysgol arall. Bydd hyn yn sicrhau bod adnoddau sy'n crebachu'n cael eu defnyddio i wella profiadau dysgu'r plant yn hytrach nag i gynnal adeilad.

Mae Ynys Môn yn ymrwymedig i sicrhau bod pob adeilad ysgol yn cwrdd â disgwyliadau'r unfed ganrif ar hugain, yn addas i bwrpas, yn y lleoliad cywir, yn cwrdd ag anghenion dysgwyr ac yn adnodd ar gyfer y gymuned yn flaenoriaeth.

***Cwricwlwm i Gymru - Sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau a'r capasiti i yrru Cwricwlwm i Gymru yn ei flaen yn llwyddiannus.***

Wrth i'r cwricwlwm newydd barhau i gael ei ddatblygu a'i gyflwyno o Fedi 2022 ymlaen, bydd yn hollbwysig bod gan ysgolion yr adnoddau i yrru'r cwricwlwm newydd yn ei flaen yn llwyddiannus, i gwrdd â phedwar prif nod:

1. Dysgwyr uchelgeisiol a galluog
2. Mentrus a chreadigol
3. Dinasyddion egwyddorol a gwybodus
4. Iach a hyderus

Bydd y cwricwlwm newydd wedi ei ddylunio gan athrawon, yn ateb anghenion pob person ifanc, ac wedi ei wneud ar gyfer byd sy'n newid yn gyflym.  Bydd yn ffocysu ar ddysgu ar sail cynnydd (yn hytrach nag oedran), gyda phwrpas clir o'r hyn y bydd eisiau ei gyflawni.  Bydd disgyblion yn dysgu am bethau fydd yn eu helpu mewn bywyd bob dydd, ac yn symud ymlaen yn eu dysgu pan yn barod i wneud hynny, nid oherwydd ei oedran.

Mae hyn yn fwy perthnasol nag erioed oherwydd y gwahanol effeithiau y mae'r pandemig Covid-19 wedi eu cael ar ddysgu pobl ifanc. Bydd cydweithio agos rhwng athrawon a disgyblion i gael dealltwriaeth dda o lefelau cynnydd disgyblion unigol.

***Defnydd Cymunedol - Ehangu defnydd o adeiladau a chyfleusterau ysgolion gan rieni, y gymuned a thrigolion hŷn.***

Mae'r Cyngor yn awyddus i optimeiddio defnydd adnoddau ac isadeiledd i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau.  Mae hyn yn golygu cael asedau hyblyg fel bod modd i'r gymuned (gan gynnwys plant, oedolion a phobl hŷn) ddefnyddio'r ased a'r adnoddau.  Bydd hyn yn cefnogi gwytnwch cymunedau, ac yn helpu i osgoi tlodi. Mae hyn yn hynod bwysig ar hyn o bryd yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw.

Rhagwelir mai un o agweddau allweddol y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fydd sicrhau darpariaeth gofal ar gyfer plant cyn oed ysgol ar safle ysgolion newydd neu rai sy'n cael eu haddasu (i gael eu rheoli gyda phartner yn y sector gofal plant lleol), er mwyn darparu gofal rhwng 8.00yb a 6.00yh ar gyfer teuluoedd, ynghyd ag addysg feithrin, gofal cofleidiol a chlybiau gofal ar ôl ysgol/gwyliau.

***Datgarboneiddio - Sicrhau bod ein hysgolion yn gynaliadwy ac yn cyfrannu at agenda Sero Net y Cyngor.***

Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn adeilad carbon sero net erbyn 2030.

Rhan allweddol o'r siwrne i gyrraedd carbon sero net fydd adolygu defnydd a pherfformiad holl asedau'r Cyngor wrth sicrhau’r ôl troed carbon lleiaf posibl tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau.

Ysgolion cynradd yw’r cynhyrchwyr mwyaf o garbon o holl adeiladau’r Cyngor, gyda’r ysgolion uwchradd yr ail uchaf.

Mae amrywiaeth sylweddol mewn allyriadau carbon fesul disgybl, gyda’r uchaf yn 2,079kgCo2e fesul disgybl a’r isaf yn 65kgCo2e fesul disgybl. Yn y cyd-destun hwn, mae’r ysgolion lleiaf yn dueddol o fod tuag at frig y gynghrair.

Bu i’r Cyngor wneud arbediad sylweddol mewn allyriadau carbon yn barod drwy gynlluniau’r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, er enghraifft, drwy gyfuno pedair ysgol i mewn i un yn ardal Rhosyr. Yn 2018/19, gyda’i gilydd roedd allyriadau carbon ysgolion Bodorgan, Dwyran, Niwbwrch a Llangaffo yn 100tCo2e. Yn 2021/22, roedd allyriad Carbon Ysgol Santes Dwynwen yn 26tCo2e.

Bydd adeilad sero carbon net cyntaf Ynys Môn drwy’r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn agor yn 2024, pan fydd Uned Cyfnod Sylfaen newydd Ysgol y Graig wedi ei chwblhau.

Bydd unrhyw adeilad newydd drwy’r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn adeilad carbon sero net, a bydd goblygiadau allyriadau carbon yn ystyriaeth bwysig wrth asesu gwahanol opsiynau drwy’r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

***Cyllidol - Sicrhau bod ysgolion yn gallu gweithredu’n effeithiol o fewn y gyllideb sydd ar gael. Anelu i leihau amrediad gwariant fesul disgybl gan sicrhau mwy o gyfle cyfartal ar draws ysgolion.***

Cydnabyddir amrywiaeth sylweddol mewn cyllid fesul disgybl y mae ysgolion yn ei dderbyn drwy’r fformiwla ddatganoledig cyllido ysgolion. Mae rhai o’r ysgolion cynradd yn derbyn dros dair gwaith cyfartaledd cyllideb y pen ysgolion cynradd Ynys Môn, a dros bedair gwaith yn fwy na rhai o’r ysgolion mwyaf. Nid yw hyn yn gwneud defnydd teg nac effeithlon o’r cyllid sydd ar gael, a bydd angen sicrhau hyn wrth fwrw ymlaen gyda’r rhaglen.

Mae chwyddiant yn debygol o gael effaith sylweddol ar gyllid y Cyngor am y blynyddoedd nesaf, ac mae’r codiad mewn costau ynni hefyd yn debygol o gynyddu costau’n sylweddol. Mae hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau, ac felly mae’n bwysicach nag erioed bod cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn modd effeithlon a theg.

Wrth i gostau cynnal a rhedeg adeiladau gynyddu, bydd angen ystyried opsiynau i resymoli neu gau rhai adeiladau, fel bod cyfran uwch o’r gyllideb yn cael ei gwario ar ddysgu, yn hytrach nag ar redeg a chynnal yr adeiladau.

***Cymraeg - Cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i'n holl ddysgwyr.***

Mae'r Awdurdod yn gweithredu polisi dwyieithog drwy holl ysgolion y sir. Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion fel dysgwyr dwyieithog erbyn diwedd addysg ffurfiol. Disgwylir i bob un o sefydliadau addysgol y sir ddilyn y polisi iaith Gymraeg ysgolion sydd wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Yn sgil hyn, bydd unrhyw gynllun newydd a gyflwynir, megis prosiectau sy'n deillio o'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith.

Mae ein Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cyfeirio at y nod o gynyddu cyfran y disgyblion sy'n cyflawni targedau'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd. Bwriedir hefyd defnyddio modelau gofal plant i gynyddu capasiti gofal plant cyfrwng Cymraeg ar Ynys Môn. Mae gan y model partneriaeth gofal plant y potensial i fod yn gyfrannwr allweddol tuag at uchelgais Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd hefyd yn bwysig ar lefel leol er mwyn cwrdd ag amcanion ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-26.

# Dylunio’r Gweithlu

Mae’n rhaid i’r gweithlu addysg esblygu i gadw i fyny â’r byd sy’n newid yn gyflym ac i wneud y mwyaf o’r cyfleoedd newydd y mae’r newidiadau hyn yn eu cyflwyno. Bydd dysgwyr y dyfodol yn profi ystod eang o ryngweithiadau gydag oedolion, cyfoedion a gyda thechnoleg i gefnogi eu hanghenion dysgu unigol.

Mae ymchwil rhyngwladol yn dangos bod arweinyddiaeth yn ail yn unig i addysgu yn y dosbarth fel dylanwad ar ddysgu a chanlyniadau. Mae pob ymarferydd yn arweinydd boed yn arwain dysgwyr, ymarferwyr eraill neu ysgolion. Rydym wedi ymrwymo i feithrin capasiti arweinyddol drwy annog a chefnogi pob ymarferydd i ddatblygu eu potensial arweinyddol eu hunain a photensial arweinyddol eraill.


Gellir gweld datblygiad arweinyddiaeth blaengar, seiliedig ar ymarfer, hyd oes gyrfa i bawb yn y llwybr datblygu arweinyddiaeth. Mae'r llwybr yn adlewyrchu egwyddorion a strategaethau cenedlaethol ar gyfer datblygu arweinyddiaeth ac mae’n gyson â'r Model Dysgu Proffesiynol.




Athrawon o ansawdd yw’r penderfynydd mwyaf o gynnydd dysgwyr mewn ysgolion. Mae angen cefnogi athrawon yn eu dysgu proffesiynol eu hunain ac i gael cyfleoedd i gydweithio â'i gilydd, i gael cefnogaeth arweinyddol gref ac i gael mynediad at amrywiaeth o arbenigwyr i'w galluogi i dyfu a darparu'r gorau i'r holl ddysgwyr yn eu gofal.

Mae moderneiddio'r gweithlu’n cynnwys amrywiaethu'r gweithlu: gweithwyr proffesiynol addysgu, dysgu, lles, iechyd a chynhwysiant, gyda gwahanol setiau sgiliau a lefelau profiad, yn gweithio gyda'i gilydd mewn timau i ddarparu cymorth addysgu a lles gwahaniaethol wedi'i deilwra ar gyfer anghenion unigol pob plentyn. Byddai hyn, ynghyd ag arweinwyr ysgol ac athrawon rhagorol, gan dynnu gan sectorau eraill a'r gymuned, yn rhoi mwy o gysylltiad i ddysgwyr â'r byd y tu allan i sicrhau bod aliniad rhwng y sgiliau y mae plant yn eu dysgu a'u perthnasedd yn y byd go iawn.

Mae rôl y cymhorthydd dysgu’n allweddol mewn ysgolion. Maent yn gyfrifol am gefnogi plant, gan sicrhau eu bod yn cael y gorau o'u bywyd ysgol a'u datblygiad personol yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn gweithio un-i-un gyda disgyblion, yn ogystal â mewn grwpiau, tra hefyd yn cefnogi'r athro/athrawes wrth gyflwyno gwersi a gweithgareddau. Drwy'r Llwybr Dysgu Cymorthyddion Dysgu, gall cymorthyddion dysgu ddatblygu eu sgiliau trwy gyfres o raglenni blaengar sy'n seiliedig ar ymarfer, a ategir gan y safonau proffesiynol ar gyfer cymorthyddion dysgu.



Mae arweinyddiaeth gref yn yr ysgol yn cefnogi dulliau effaith uchel fel dysgu cydweithredol athrawon. Dylai fod newid oddi wrth arweinwyr yn canolbwyntio ar dasgau gweinyddol. Mae arweinwyr ysgolion yn cefnogi cysyniad lle mai gallu grŵp o bobl ar y cyd yw'r ffordd ymlaen yn hytrach na chanolbwyntio ar ddatblygu sgiliau unigolion i wneud eu gwaith yn well. Trwy weithio ar y cyd mewn timau dysgu, anogir gweithwyr proffesiynol ysgolion i ddarparu addysgu effeithiol drwy dargedu arbenigeddau, dysgu a chefnogaeth ar y swydd, mwy o amser hyfforddi, cymhelliant y gweithlu a chefnogaeth ar gyfer cynhwysiad.

Mae arweinwyr ysgolion yn dod i wynebu'n fwy allanol wrth i allu athrawon dyfu i arwain datblygiad proffesiynol cyfoedion. Maent yn gynyddol yn edrych tuag allan i ddefnyddio adnoddau ac arbenigedd o sectorau a rhwydweithiau ehangach, gan gynnwys ysgolion eraill, sefydliadau cymunedol ac allanol. Mae arweinwyr ysgolion llwyddiannus yn arweinwyr system, yn darparu gwerthusiad ysgol cyfoedion, yn gweithredu fel ffrind beirniadol ac yn hyfforddi cyfoedion yn eu taith gwella ysgol.

Mae cymuned ddysgu’n ffynnu mewn gweithlu amrywiol - gan gynnwys rhwydweithiau o ysgolion, gweithwyr addysg proffesiynol a phartneriaethau traws-sector. Mae staff ysgol sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag arloesi a chymhwyso tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio a'r wybodaeth, data a thystiolaeth a rennir sy'n deillio o hynny, yn creu system sy'n meithrin dysgu, sy’n gallu dysgu ei hun ac sy’n addasu i newid. Mae ysgol sydd â ffocws cymunedol, a gweithlu sy'n cynnwys ystod eang o arbenigedd, yn rhoi cysylltiad i'r tu allan i'r ysgol i ddysgwyr, gan gynnwys y gymuned a gwaith, gan dynnu cefnogaeth gan arbenigwyr cynyddol broffesiynol a rhwydweithiau ysgol bywiog i wella dysgu ac addysgu. Gweithwyr proffesiynol ysgol yn gweithio gyda'i gilydd mewn amrywiaeth eang o dimau sy'n darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer addysgu gwahaniaethol o amgylch anghenion unigol y dysgwr.

Mae recriwtio a chadw staff addysgu a staff ategol yn her, yn enwedig mewn rhai pynciau, meysydd arbenigedd a staff dwyieithog. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad staff ysgol a'r rhai sydd â diddordeb mewn gweithio yn ein hysgolion. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda phrifysgolion a phartneriaethau Addysg Gychwynnol i Athrawon i sicrhau ein bod yn rhagweithiol wrth ymateb i'r heriau hyn ac felly'n gallu ateb anghenion ein plant a'n pobl ifanc.

# Yr Heriau Cysylltiedig

**Yr angen am fuddsoddiad cyfalaf**

Mae’r gost o adeiladu ysgolion newydd yn ddrud. Mae pedair ysgol newydd wedi eu cwblhau hyd yma drwy’r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gyda’r gost yn amrywio o £5.6m i £10.352m. Yn ychwanegol, mae costau adeiladu wedi cynyddu’n sylweddol dros y misoedd diwethaf, o ganlyniad i ddigwyddiadau byd eang.

Tra bod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu tuag at 50% o gostau prosiectau Band A, ac 65% o gostau prosiectau Band B, mae’r gofyn ar y Cyngor i gyfrannu tuag at weddill y gost.

Mae’n bwysig bod y Cyngor yn manteisio ar y cyfle i ddenu cyllid allanol (grant) i wella cyflwr ein stad o adeiladau addysgol. Fodd bynnag, wrth ystyried yr her gyllidol y bydd y Cyngor yn debygol o’i hwynebu dros y blynyddoedd nesaf, bydd rhaid i’r Cyngor flaenoriaethu’r gwaith cysylltiedig.

Parthed blaenoriaethu, rhagwelir yr angen i ail-fodelu’r ddarpariaeth uwchradd dros y blynyddoedd nesaf tra hefyd yn gweithredu penderfyniadau anodd eraill.

**Penderfyniadau Anodd**

Wrth wireddu’r strategaeth, mae’n debygol y bydd angen i’r Cyngor wneud penderfyniadau anodd, sy’n aml yn amhoblogaidd, wrth ystyried dyfodol trefniadaeth ysgolion.

Ble bydd y Cyngor yn cynnig gwneud newid rheoledig, bydd cyfnod ymgynghori a chyfnod gwrthwynebu i ddilyn, sy’n caniatáu i randdeiliaid i roi eu barn ar y cynnig, ac i wneud cynnig newydd. Bydd y Cyngor yn ystyried yr adborth hwn yn ofalus cyn penderfynu un ai i newid, neu i barhau gyda’r cynnig gwreiddiol. Yn ogystal â hyn, bydd Asesiad Effaith yn cael ei gynnal, fydd yn rhoi ystyriaeth benodol ar sut y bydd unrhyw gynnig yn cael effaith ar gymunedau, cydraddoldeb, a’r iaith Gymraeg.

# Amserlen Gweithredu

| Cyfnod Gweithredu | | |
|---|---|---|
| **Cam 1 – 2023 ymlaen** | **Cam 2 – 2024 ymlaen** | **Cam 3 – 2025 ymlaen** |
| Parhau i roi sylw i gyflwr ein hadeiladau ysgolion drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan ystyried gwahanol fathau o ddarpariaeth addysg, e.e. ysgolion 3-16 oed neu 3-18 oed. | Parhau i roi sylw i gyflwr ein hadeiladau ysgolion drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan ystyried gwahanol fathau o ddarpariaeth addysg, e.e. ysgolion 3-16 oed neu 3-18 oed. | Cynlluniau rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'n cael eu gwireddu. |
| Edrych i wella effeithlonrwydd ysgolion, a sicrhau ariannu teg. Blaenoriaethu ysgolion mewn ardaloedd ble mae'r canran o lefydd gweigion uchaf, a'r gost y pen uchaf. | Parhau i wella effeithlonrwydd ysgolion gan leihau'r amrywiad yn y gost y pen, a lleihau llefydd gweigion (cynradd ac uwchradd) gan hefyd ystyried opsiynau o ffederaleiddio ysgolion. | Cynlluniau'n cael eu gwireddu a fydd yn ymateb i'r her amrywiad mewn cost y pen, a lleihau llefydd gweigion. |
| Ymchwilio i'r posibiliadau o wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth ôl-16. | Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth ôl-16. | Penderfyniadau wedi'u gwneud yng nghyswllt darpariaeth ôl-16 ar Ynys Môn. |

# Sut bydd y Strategaeth Moderneiddio Addysg a Chryfhau'r Gymraeg yn effeithio ar brofiad defnyddwyr?

- Mwy o ffocws cymunedol - mwy o gyfleusterau (aml-bwrpas a ellir eu defnyddio gan y gymuned yn ogystal â'r ysgol), oriau defnydd estynedig, mwy o ddefnydd gan y gymuned, hwb cymunedol.

- Arweinyddiaeth - haws penodi arweinwyr ysgol, hyfforddiant mwy effeithiol a chyfarfodydd mwy effeithlon oherwydd llai o gyfranogwyr.

- Cydweithio staff - mwy o gyfleoedd oherwydd bod ar yr un safle e.e. cyd-gynllunio, cyd-hyfforddi, dysgu o'i gilydd, cyfleoedd cronni adnoddau, cyfleoedd all-gwricwlaidd, cyfleoedd gweithio'n ddalgylchol.

- Cydweithio rhwng plant a phobl ifanc – fel rhan o ddysgu ac addysgu, profiadau ehangach drwy amrywiaeth o athrawon.

- Trosglwyddo effeithiol – cryfhau adnabyddiaeth o'r plant sy'n trosglwyddo, cyfleoedd 3-16/18, haws cyfnewid athrawon cynradd ac uwchradd.

- Cyfleoedd i ddatblygu'r a chryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithrwydd yn yr ystafell ddosbarth ac mewn cyd-destunau anffurfiol.

- Cyfleoedd i fod yn fwy effeithlon yn gyllidol - Gwasanaeth Dysgu ac ysgolion unigol.

- Llywodraethwyr yn haws i'w penodi a gan fod angen llai ohonynt, bydd hyfforddiant a chydweithio mwy effeithiol.

- Cyfleoedd ar gyfer gweinyddiaeth ysgol fwy effeithiol ac i ddatblygu rheolwyr busnes dalgylchol.

- Mwy o gyfleoedd i ddatblygu systemau technolegol a defnydd o gyllid Hwb.

- Cyfleoedd i ddatblygu adeiladau'n cynnwys cynnal a chadw mwy effeithiol.

- Cyfleoedd amgylcheddol a llai o wastraff ynni – cyfleoedd net sero.

# Proses Ddeddfwriaethol

Yn unol â'r *Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018*, bydd y Cyngor yn dilyn y broses isod cyn gweithredu ar unrhyw gynllun sy'n cael ei ystyried i fod yn newid rheoledig yn unol â diffiniad y cod. Bydd proses symlach i'w dilyn ar gyfer unrhyw gynnig nad yw'n cwrdd â'r diffiniad hwn.

**Cam 1**

- Datblygu **papur cynnig** i fynd gerbron y Pwyllgor Gwaith i benderfynu os am ymgynghori ar y cynnig.

**Cam 2**

- **Ymgynghori** ar y cynnig (o leiaf 42 diwrnod, gydag o leiaf 20 ohonynt yn ddyddiau ysgol).

**Cam 3**

- **Adroddiad** ar allbwn yr **ymgynghoriad** gerbron y Pwyllgor Gwaith i benderfynu os am barhau gyda'r cynnig, neu os am newid y cynnig. Os yn newid y cynnig, bydd y broses yn ail-gychwyn o cam 1.

**Cam 4**

- O fewn 26 wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad, rhaid cyhoeddi **rhybydd statudol**, gan roi o leiaf 28 diwrnod i rhanddeiliaid wrthwybebu'r cynnig (gyda o leiaf 15 o'r dyddiau hyn yn ddyddiau ysgol).
- Hwn ydi'r cam ble mae cyfle i rhanddeiliadid wrthwynebu'r cynnig (**cyfnod gwrthwynebu**). Nid yw sylwadau anffurfiol yn ystod y cyfnod ymgynghori (cam 2) yn cael ei ystyried fel gwrthwynebiadau.
- ***Yna gellir fynd at gam 5 neu 6 yn dibynnu ar y cynnig.***

**Cam 5**

- **Os bydd angen penderfyniad gan weinidogion Llywodraeth Cymru** (er engraifft os yw'r cynnig yn effeithio ar ddarpariaeth ôl-16)
- Rhaid anfon **adroddiad gwrthwynebu** i'r gweinidog o fewn 35 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.
- Bydd y gweinidog yn anelu at ymateb o fewn 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.


**Cam 6**

- ***Pan nad oes angen i'r penderfyniad gael ei wneud gan weinidogion Llywodraeth Cymru***
- **Adroddiad gwrthwynebu** gerbron y Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniad terfynol os am wireddu'r cynnig neu addasu'r cynnig.

# Monitro, Rheolaeth a Llywodraethant

Mae egwyddorion bod yn agored, uniondeb ac atebolrwydd yn berthnasol ar bob lefel o lywodraethu.  Yng nghyd-destun moderneiddio Cymunedau Dysgu a chryfhau'r Gymraeg, bydd hyn yn cynnwys:

- Gosod pwrpas clir wrth ariannu'r rhaglen foderneiddio;
- Nodi trefn ariannol addas;
- Monitro perfformiad ariannol a gwasanaeth y bwrdd moderneiddio;
- Ystyried y gynrychiolaeth ar y bwrdd moderneiddio'n ofalus;
- Sefydlu terfynau i ymwneud â'r bwrdd moderneiddio;
- Cynnal mynediad archwilio i gefnogi atebolrwydd.




- Fforwm trafodaethau trawsbleidiol a thraws gwasanaethol ar faterion strategol.
- Monitro cynnydd gan sicrhau bod manteision disgwylir yn cael eu gwireddu.
- Darparu trosolwg a chyfeiriad
- Atebol am risgiau a amserlenni
- Cynnig argymhelliad parthed cychwyn prosiectau penodol.

- Cyfrannu tuag at, herio, sicrhau cydymffurfiaeth a'r cod trefniadaeth a monitro cynnydd y Rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu
- Cyfle i fynegi barn a chyfrannu tuag at gynllluniau / strategaethau newydd.
- Rhannu arfer dda, gwersi a ddysgwyd a rhannu llwyddiannau.

- Rhoi arweiniad i swyddogion ar faterion gweithredol sy'n ymwneud a'r rhaglen moderneiddio
- Adnabod a rheoli risgiau'r rhaglen.
- Blaenoriaethu adnoddau
- Derbyn adborth o'r Is-Grwpiau:
  - Technegol;
  - Sgorio Safleoedd Newydd;
  - Paratoi a Gwirio Dogfennau - Cynnig/Ymgynghori
  - Achosion Busnes.

- Gwireddu'r prosiect yn ddyddiol drwy lunio'r gwaith cysylltiedig mewn modd cydlynus.

**Atebolrwydd**

Bydd y Grŵp Llywio Strategaeth MCD yn atebol i, ac yn adrodd yn rheolaidd ar gyrhaeddiad yn erbyn ei nodau i'r Bwrdd Rhaglen Datblygiadau Cyfredol. Caiff cyfarfod y Bwrdd Rhaglen Datblygiadau Cyfredol ei gadeirio gan y Prif-weithredwr.

**Egwyddorion y Rhaglen Moderneiddio Addysg a Chryfhau'r Gymraeg**

**Bydd y rhaglen yn:**

- Mynegi ei gweledigaeth a'i diben yn glir, gan sicrhau aliniad clir rhwng gweledigaeth y rhaglen ac amcan a chyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad
- Mabwysiadu a defnyddio methodoleg rheoli rhaglen broffesiynol
- Bod â throsolwg clir a threfniadau llywodraethu priodol ar waith
- Meddu ar feini prawf clir ar gyfer sut mae cynghorwyr a swyddogion yn ymwneud â'r rhaglen
- Gweithio'n agos â'r gymuned a rhanddeiliaid eraill yn y broses
- Sicrhau bod buddion wedi'u cysylltu'n glir â chanlyniadau gwell i'r gymuned
- Ystyried ac arfarnu opsiynau amgen yn drylwyr
- Datblygu achosion busnes cadarn, gyda rhesymau clir dros ei phenderfyniadau a pheidio â'u seilio ar fantais ariannol gyfyng a all fod yn destun newid
- Bod yn glir ynghylch y risgiau dan sylw, gyda chraffu sy'n gymesur â'r risg
- Dangos yn glir sut y bydd y rhaglen yn sicrhau gwerth am arian.

# Ffynonellau Gwybodaeth

Rhestrir isod ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ffurfio'r Strategaeth hon:

- Cynllun Y Cyngor
  Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)

- Adroddiad Arolygu Estyn ar Gyngor Sir Ynys Môn
  Adroddiad arolygiad Awdurdod Lleol Ynys Môn 2022 (llyw.cymru)

- Ystadegau Medi 22 gan benaethiaid

- Cyfrifiad 2021
  Ffeithiau a ffigyrau Ynys Môn - W06000001 - ONS

- Cyfrifiad blynyddol ar lefel disgyblion (CBLD) (Gwybodaeth 2023 heb ei gyhoeddi eto)
  Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) (llyw.cymru)

- Stats Cymru – Cost Y Disgybl
  Cyllidebau Ysgol Dirprwyedig fesul disgybl, yn ôl ysgol (£) (llyw.cymru)

- Gwybodaeth ar gyflwr adeiladau gan y gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff a Eiddo

- Data ar ddefnydd ynni, ac allyriadau Carbon gan y gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff a Eiddo

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 18 Gorffennaf 2023 |
| Pwnc: | Moderneiddio Ysgolion Môn – Adolygu Dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn |
| Deilydd Portffolio: | Y Cynghorydd Dafydd Roberts |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Marc B Hughes<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Emrys Bebb<br>2919<br>emrysbebb@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Y Cynghorydd Non Dafydd<br>Y Cynghorydd Dylan Rees<br>Y Cynghorydd Paul Ellis |

A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau

**Rhesymau:**
Yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2020, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith:

- Cymeradwyo'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn.

Cytunwyd ar bwyntiau eraill yn y cyfarfod fel dangosir yn y cofnodion.


Pwrpas yr adroddiad hwn yw i adolygu dalgylch Ysgol Talwrn fel crybwyllwyd yn y pwynt bwled uchod drwy asesu opsiynau.

**Opsiynau**
Gweler isod yr opsiynau realistig sy'n bosib:


1. Mae 3 rhan i'r opsiwn yma:
   - Trosglwyddo darn yng ngogledd dalgylch presennol Ysgol Talwrn (fel yn y map isod yn Opsiwn 1) i ddalgylch Ysgol Llanbedrgoch. Byddai hyn yn golygu y byddai unrhyw blant sy'n byw yn y rhan yma yn agosach yn ddaearyddol at Ysgol Llanbedrgoch nag Ysgol y Graig.
   - Trosglwyddo darn yn ne ddwyrain dalgylch presennol Ysgol Talwrn (fel yn y map isod yn Opsiwn 1) i dalgylch Ysgol Pentraeth. Byddai hyn yn golygu y byddai unrhyw blant sy'n byw yn y rhan yma yn agosach yn ddaearyddol at Ysgol Pentraeth nag Ysgol y Graig.
   - Cyfuno gweddill dalgylch Ysgol Talwrn efo dalgylch Ysgol y Graig
2. Cyfuno dalgylch presennol Ysgol Talwrn gyda dalgylch Ysgol y Graig.

A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau

**<u>Opsiwn 1</u> – Newid ychydig ar ddalgylch Ysgol Talwrn a cyfuno gweddill y dalgylch efo dalgylch Ysgol y Graig**




**<u>Opsiwn 2</u> - Cyfuno dalgylch presennol Ysgol Talwrn gyda dalgylch Ysgol y Graig**




Dywed y rhybudd statudol ar gyfer y cynnig gafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Ragfyr 2020 ac ar 15 Mawrth 2021: “Bwriedir trefnu cludiant i’r ysgol gynradd fydd wedi ei ehangu o ddalgylch bresennol Ysgol Talwrn.” Felly pa bynnag opsiwn fydd yn cael ei ffafrio, bydd angen trefnu cludiant i ddisgyblion Ysgol Talwrn fydd yn trosglwyddo i Ysgol y Graig. Bydd hyn yn cael ei wneud yn y misoedd nesaf.

| A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|

Gwelir isod fanteision ac anfanteision y ddau opsiwn:

| | **Opsiwn 1** | **Opsiwn 2** |
|---|---|---|
| Manteision | • Byddai disgyblion sy’n byw yn y rhannau o ddalgylch presennol Ysgol Talwrn all drosglwyddo i ddalgylchoedd Ysgol Pentraeth ac Ysgol Llanbedrgoch wedyn yn byw’n agosach i ysgol uwchradd y dalgylch honno. | • Bydd yn sicrhau fod y plant sydd yn byw yn y dalgylch yn parhau i fod yn yr un dalgylch o’r cynradd i’r ysgol uwchradd<br>• Bydd yn annog plant sydd eisoes wedi bod yn mynychu Ysgol Talwrn i barhau i fynychu yr un ysgol h.y. Ysgol Y Graig o Fedi 2024<br>• Byddai allyriadau carbon o ganlyniad i gludiant yn is (o’i gymharu ag Opsiwn 1). |
| Anfanteision | • Byddai costau cludiant ychwanegol i’r Cyngor ac efallai byddai angen darparu cludiant o’r ddau ran all drosglwyddo gyda chost posib o £60k y flwyddyn.<br>• Posib i rai plant fynd i ysgol uwchradd wahanol i’w ffrindiau<br>• O bosib byddai disgyblion yn trosglwyddo i ysgol sydd o fewn dalgylch uwchradd gwahanol i’w brodyr / chwiorydd. Gall hyn greu problemau i rieni petai ei plant yn mynychu gwahanol ysgolion uwchradd.<br>• Byddai mwy o gludo yn arwain at allyriadau carbon uwch | • Rhagwelir byddai costau cludiant ychwanegol i’r Cyngor o tua £30k. |

**Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith:**
Yn cymeradwyo Opsiwn 2.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Gweler y ddau opsiwn uchod. Dewiswyd opsiwn 2, gan fod Ysgol Y Graig yn yr un dalgylch uwchradd ag Ysgol Talwrn. Bydd y disgyblion yn trosglwyddo i’r un ysgol uwchradd a’i ffrindiau, ac o bosib brodyr / chwiorydd hŷn. Mae’r opsiwn yma hefyd yn fwy cost effeithlon i’r Cyngor, ac bydd yn lleihau allyriadau carbon. |

| C – Pam mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Cytunwyd y cynnig gwreiddiol gan y Pwyllgor Gwaith ac felly mae tu hwnt i bwerau dirprwyedig swyddogion i benderfynu ar ddyfodol y dalgylch. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydy. Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am faterion moderneiddio ysgolion. Mae'n cyd-fynd â'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn (a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith, Hydref 2018). |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Cafodd y prosiect arfaethedig ei gymeradwyo ar ôl ei newid i adlewyrchu'r costau newydd dderbyniwyd o ganlyniad i ail dendro. Cymeradwywyd hyn gan y Pwyllgor Gwaith ar Gorffennaf 19, 2022. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol):<br><br>**Noder** – Mae'r penderfyniad hwn am ddyfodol dalgylch Ysgol Talwrn yn ran o broses sydd yn gysylltiedig a penderfyniad blaenorol sef y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn a cau Ysgol Talwrn wnaethpwyd ar 10 Rhagfyr 2020. Effaith y penderfyniad hwnnw sydd yn cael ei asesu isod. | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r penderfyniad hwn yn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir addysg yn ardal hon o Langefni ac yn sicrhau bod digon o leoedd ysgol i ddiwallu'r anghenion nawr ac i'r dyfodol ar gyfer cenedlaethau o blant newydd.<br>Bydd hefyd yn sicrhau bod adeiladau ysgol newydd yn addas at y diben ac yn cwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif a safonau BREEAM ac yn adeilad Carbon Sero Net. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Ydy – Cafodd ardal Llangefni ei blaenoriaethu fel rhan o'r rhaglen foderneiddio ysgolion, oherwydd diffyg capasiti'r ysgolion. Mae unrhyw gynnig i greu capasiti ychwanegol yn debygol o arwain at gostau ychwanegol, ond bydd yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol y Graig yn galluogi plant y dalgylch i fynd i ysgol leol.<br><br>Bydd y cynnig a ffefrir, h.y. adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd, yn datblygu adeilad ysgol newydd a fydd yn cyfrannu at yr ysgol yn dod yn "Sefydliad sy'n Dysgu" (Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl 2017-2021).<br><br>Yn eu tro, dylai disgyblion gael budd o brofiadau yn yr ysgol fydd yn eu helpu nhw i fod yn oedolion ifanc sy'n:<br>• ddysgwyr uchelgeisiol a medrus, fydd yn barod i ddysgu drwy eu bywydau<br>• gyfranwyr anturus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith<br>• unigolion iach, hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr cymdeithas. |

| | | |
|---|---|---|
| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol):<br><br>**Noder** – Mae'r penderfyniad hwn am ddyfodol dalgylch Ysgol Talwrn yn ran o broses sydd yn gysylltiedig a penderfyniad blaenorol sef y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn a cau Ysgol Talwrn wnaethpwyd ar 10 Rhagfyr 2020. Effaith y penderfyniad hwnnw sydd yn cael ei asesu isod. | | |
| | | Mae'r cynnig yn cael ei ariannu 35:65 gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynlaiadwy..<br><br>Bydd buddsoddiad y Cyngor trwy fenthyciad 60 mlynedd, wedi'i ariannu'n rhannol trwy'r derbyniadau cyfalaf.<br>Bydd yr opsiwn a ffefrir yn dileu'r gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yn y dyfodol yn Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn ac yn cyfrannu at arbedion refeniw. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ydym - Mae'r rhanddeiliaid canlynol wedi cael cyfle i gyfrannu yn ystod y broses ymgynghori statudol:<br>• Aelodau Etholedig Lleol<br>• Aelod Seneddol lleol<br>• Aelod lleol Senedd Cymru<br>• Aelodau Rhanbarthol o'r Senedd<br>• GwE<br>• Estyn<br>• Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Y Comisiynydd Iaith<br>• Awdurdod Lleol cyfagos<br>• Cynghorau Tref a Chymuned lleol<br>• Undebau llafur yn cynrychioli athrawon a staff Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn<br>• Cylch Meithrin Talwrn<br>• Pennaeth Ysgol Gyfun Llangefni<br>• Uwch Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Prif swyddog Ieuenctid Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Partïon eraill â diddordeb |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut. | Do – ymgynghorwyd â rhanddeiliaid ar y cynnig yn ystod yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd rhwng 6 Chwefror 2020 - 20 Mawrth 2020. Cafodd ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad statudol eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori.<br><br>Mae dinasyddion Ynys Môn wedi cael cyfle i gyflwyno opsiynau amgen rhesymol eraill fel rhan o'r broses yn ystod y cyfnod ymgynghori a nodwyd uchod. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol):<br><br>**Noder** – Mae'r penderfyniad hwn am ddyfodol dalgylch Ysgol Talwrn yn ran o broses sydd yn gysylltiedig a penderfyniad blaenorol sef y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn a cau Ysgol Talwrn wnaethpwyd ar 10 Rhagfyr 2020. Effaith y penderfyniad hwnnw sydd yn cael ei asesu isod. | | |
|---|---|---|
| 5 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Gweler yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar y cynnig |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Gweler yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar y cynnig |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg. | Gweler yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar y cynnig |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth ddywedon nhw? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arwain (UDA) (gorfodol) | Mae eu sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Mae eu sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae eu sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| 5 | Eiddo | Mae eu sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Ddim yn berthnasol |
| 7 | Sgriwtini | Ddim yn berthnasol |
| 8 | Aelodau Lleol | Mae'r aelodau lleol yn ymwybodol o'r sefyllfa. |
| 9 | Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill | Mae Cyrff Llywodraethu Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn yn ymwybodol o'r sefyllfa. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Adroddiad ymgynghori |

| Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad i gael unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| 1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 10 Rhagfyr 2020 a 15 Mawrth 2021.<br>2. Dogfennau Ymgynghori Statudol<br>3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Gorffennaf 19, 2022.<br>4. Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.<br>5. Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y cynnig |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# ADRODDIAD YMGYNGHORIAD

## MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL LLANGEFNI

## Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig

**Canlyniad yr ymgynghoriad a gynhaliwyd o**

**6 Chwefror 2020 hyd at 20 Mawrth 2020**

**Ar y cynnig i:**

**"Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"**

| | |
|---|---|
| **Protocol ar gyfer Siarad cyhoeddus mewn cyfarfodydd Rhithiol o'r Pwyllgorau Sgriwtini** | **Gall y cyhoedd gofrestru eu diddordeb ymlaen llaw gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol, i siarad mewn Cyfarodydd Pwyllgorau Sgriwtini.**<br>**Gweler y Protocol ar gyfer siarad cyhoeddus yng nghyfarfodydd rhithiol y Pwyllgorau Sgriwtini :**<br>**Protocol ar gyfer Siarad Cyhoeddus mewn Cyfarfodydd Rhithiol o'r Pwyllgorau Sgriwtini** |

**Rhagfyr 2020**

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

**Mae copïau caled o'r adroddiad hwn ar gael ar gais trwy anfon e-bost at ysgolionmon@ynysmon.gov.uk**

**CYNNWYS**


**1. CYFLWYNIAD** ..... 3
**2. DOSBARTHIAD YR ADRODDIAD YMGYNGHORI** ..... 3
**3. Y CYNNIG** ..... 4
3.1 Manylion arfaethedig yr Ysgol y Graig ehangedig ..... 4
**4. TREFNIADAU YMGYNGHORI** ..... 6
4.1 Methodoleg ..... 6
4.2 Cyfarfodydd Ymgynghori ..... 7
4.3 Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc ..... 7
**5. YMATEBION A SYLWADAU** ..... 8
5.1 Crynodeb o'r Ymatebion ..... 8
5.2 Crynodeb o'r Sylwadau ..... 9
5.3 Sylwadau penodol gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ..... 21
5.4 Ymateb gan Lywodraethwyr Ysgol Y Graig ..... 25
5.5 Ymateb gan Lywodraethwr o Ysgol Talwrn ..... 29
5.6 Llythyr gan staff Ysgol Talwrn ..... 37
5.7 Barnau plant a phobl ifanc ..... 38
5.8 Ymateb Estyn ..... 42
**6. SYLWADAU A DDERBYNIWYD MEWN PERTHYNAS Â'R OPSIYNAU AMGEN A YSTYRIWYD** ..... 47
6.1 Opsiynau Amgen Rhesymol i'r cynnig. ..... 47
6.2 Opsiynau Amgen Rhesymol Eraill A Gynigwyd Gan Randdeiliaid ..... 63
6.3 Opsiynau Amgen Rhesymol eraill a awgrymwyd gan Randdeiliaid y mae angen eu gwerthuso ymhellach ..... 71
**7. CASGLIAD** ..... 80

## 1. CYFLWYNIAD

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswydd statudol i ddiogelu digon o leoedd addas i blant o fewn ysgolion y sir.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) i ymgynghori â rhanddeiliaid wrth ystyried cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion sy'n cyflawni meini prawf penodol.

Rhwng 6 Chwefror 2020 a 20 Mawrth 2020 cynhaliodd y Cyngor broses ymgynghori statudol mewn perthynas â'r cynnig a ganlyn:

"Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"

Diben cynnal ymgynghoriad statudol oedd ceisio barnau rhanddeiliaid/partïon â diddordeb am y cynnig.

Bellach mae'r adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad yn cynrychioli cyfrifoldebau'r Cyngor yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) i lunio adroddiad i hysbysu rhanddeiliaid/partïon â diddordeb am ganlyniad yr ymgynghoriad statudol trwy:

- Grynhoi pob un o'r materion a godwyd gan randdeiliaid/partïon â diddordeb.
- Ymateb i'r materion drwy roi eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon gyda rhesymau i gefnogi hynny.
- Cyflwyno barn Estyn ar y cynnig, gydag ymateb y Cyngor.
- Mynegi barnau plant a phobl ifanc a effeithir gan y cynnig.

## 2. DOSBARTHIAD YR ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cyhoeddwyd yr adroddiad ymgynghori ar wefan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk ac fe gafodd y rhanddeiliaid/partïon â diddordeb a ganlyn wybod yn uniongyrchol am gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori.

- Staff (Addysgu ac Atodol) Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig
- Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarcheidwaid Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig
- Aelodau Etholedig Lleol
- Yr Aelod Seneddol lleol
- Aelod lleol Senedd Cymru
- Aelodau Rhanbarthol Senedd Cymru
- GwE
- Estyn
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Llywodraeth Cymru
- Comisiynydd yr Iaith Gymraeg
- Awdurdod Lleol Cyfagos
- Cynghorau Tref a Chymuned Lleol
- Undebau addysg a staff sy'n cynrychioli Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn
- Cylch Meithrin Talwrn
- Dechrau'n Deg
- Mudiad Meithrin
- Meithrinfa Medra
- Meithrinfa Sêr Bach

- Cylch Meithrin Stryd Y Bont
- Pennaeth Ysgol Gyfun Llangefni
- Canolfan Addysg Y Bont
- Coleg Menai
- Cyngor Sir Ynys Môn – Uwch Swyddogion
- Cyngor Sir Ynys Môn – Prif Swyddog Ieuenctid
- Barnados

## 3. Y CYNNIG

Ymgynghorodd y Cyngor ar y cynnig i "Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"

Byddai'r adeilad ysgol newydd yn cymryd holl ddisgyblion presennol Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn ac yn cwrdd ag amcangyfrif galw'r dyfodol, gan gynnwys darpariaeth feithrin. Byddai Ysgol Talwrn yn cau.

At ddibenion yr adroddiad hwn, bydd yr adeilad ysgol ehangedig yn parhau i gael ei alw'n Ysgol Y Graig.

### 3.1 Manylion arfaethedig yr Ysgol y Graig ehangedig

Nodir manylion arfaethedig yr Ysgol y Graig ehangedig isod:

| Manylion arfaethedig yr Ysgol y Graig ehangedig | |
|---|---|
| Ystod Oedran | 3-11 oed |
| Lleoedd Disgyblion | 480 (4-11 oed) |
| Lleoedd Meithrin | 68 |
| Rhif Mynediad | 68 |
| Lleoliad | Tir ger adeilad presennol Ysgol y Graig, Llangefni. |
| Categori | Cymunedol |
| Categori Iaith | Cyfrwng Cymraeg |
| Cyfleusterau Arfaethedig | Cyfleuster Ysgol 21ain Ganrif i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd, gan gynnwys darpariaeth feithrin a chymunedol. |
| Y Gost a Ragwelir ar gyfer y Prosiect | Tua £6m, wedi ei ariannu 65/35 drwy Raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru a chyfalaf y Cyngor. |

Cynigir y gallai'r estyniad i Ysgol Y Graig, a fyddai'n cynnwys bloc Cyfnod Sylfaen (CS) newydd, gynnwys y canlynol:

- Ystafelloedd Dosbarth Cyfnod Sylfaen (CS)
- Toiledau ac Ystafelloedd Cotiau gyferbyn ag Ystafelloedd Dosbarth CS
- Dosbarthiadau Derbyn
- Toiledau ac Ystafelloedd Cotiau ger Ystafelloedd Dosbarth Derbyn

- Ystafell Ddosbarth Meithrin
- Toiledau ac Ystafelloedd Cotiau ger yr Ystafelloedd Dosbarth Meithrin
- Prif neuadd (ar gyfer darpariaeth cinio ac i'w defnyddio fel campfa);
- Ystafell adnoddau
- Ystafell Grŵp Anogaeth
- Ystafell Gelf/Grŵp hyblyg
- Cegin gyda storfa, swyddfa a thoiled staff; man gweinydd; storfa neuadd
- Swyddfa'r Dderbynfa a llungopïwr
- Swyddfa
- Ystafell hylendid
- Ystafell Cefnogaeth i Ddisgyblion / Archwiliad Meddygol / Cyfweliad
- Ystafell staff gydag ardal waith ar wahân ar gyfer staff
- Toiledau ymwelwyr/staff
- Ystafell Gweinydd TG
- Ardal cleifion
- Mynedfa / Ardal Derbynfa
- Storfa'r Glanhawr
- 1 Ystafell Grŵp Bach

Byddai ardaloedd allanol yn cynnwys mannau chwarae caled, mannau chwarae meddal a gardd. Byddai mannau chwarae ar gyfer plant meithrin a phlant meithrin cyn ysgol ar wahân. Byddai cae chwarae'r Ysgol y Graig bresennol yn cael ei ddefnyddio gan blant y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. O ganlyniad i gynnwys yr uchod cynigir -

- Byddai gan Ysgol Y Graig ehangedig ddigon o leoedd i gwrdd â'r galw.
- Byddai Ysgol Y Graig ehangedig wedi ei hadeiladu'n bwrpasol i ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) newydd.
- Byddai Ysgol Y Graig ehangedig mewn sefyllfa i gynnal ei graddfeydd Estyn Rhagorol a Da a disgwylir iddi gadw ei statws categoreiddio Gwyrdd (A).
- Byddai Ysgol Y Graig ehangedig yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010
- Byddai'r gost fesul disgybl yn yr Ysgol Y Graig ehangedig yn is na'r gost gyfartalog fesul disgybl ar gyfer ysgolion cynradd Ynys Môn.
- Yn yr Ysgol Y Graig ehangedig, rhagwelir na fydd gan y Pennaeth ymrwymiad addysgu penodol.
- Byddai adeilad yr Ysgol Y Graig ehangedig yn adeilad 21ain ganrif wedi'i ddylunio i fod â chostau cynnal a chadw isel ac i gael gradd BREEAM rhagorol.

Mae'r Cyngor yn cynnig darparu trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn ar hyn o bryd i'r Ysgol Y Graig ehangedig, ar gyfer plant sy'n gymwys yn unol â pholisi cludiant y Cyngor i ysgolion.

Byddai'r Cyngor yn darparu cymorth priodol i ddisgyblion ADY. Pe bai gan rieni sydd â phlant sy'n ddisgyblion ADY cofrestredig unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r gefnogaeth a gynigir, gellir trefnu cyfarfodydd unigol â Dr Einir Thomas (Rheolwraig Anghenion Dysgu Ychwanegol), E-bost: einirthomas@gwynedd.llyw.cymru, rhif ffôn 01286 679007.

## 4. TREFNIADAU YMGYNGHORI

Ar 20 Ionawr 2020, rhoddodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor awdurdod i swyddogion gynnal ymgynghoriad statudol yn unol â'r gofynion a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) ar y cynnig isod:

### 4.1 Methodoleg

Cynhaliwyd yr Ymgynghoriad rhwng 6 Chwefror 2020 a 20 Mawrth 2020. Yn ystod y cyfnod hwn, gwahoddwyd rhanddeiliaid/partïon â diddordeb i fynegi eu barnau ar y cynnig i:

**"Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"**

Roedd dolen i'r ddogfen ymgynghori ar gael i'r holl randdeiliaid/partïon â diddordeb yn adran 2, ac fe gyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk.

Roedd y Cyngor wedi codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad drwy rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor hefyd. Rhoddwyd gwybod i'r ymgyngoreion am y cyfleoedd a ganlyn i ymateb i gynnig yr ymgynghoriad, neu i ofyn cwestiynau, drwy:

- Anfon e-bost at ysgolionmon@ynysmon.gov.uk neu
- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein neu
- Cwblhau'r ffurflen ymateb drwy e-bost at ysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Neu ei phostio at:
Rheolwr Rhaglen (Moderneiddio Ysgolion)
Gwasanaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

Roedd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori, neu fformatau amgen, ar gael ar gais.

### 4.2 Cyfarfodydd Ymgynghori

Cynhaliwyd y cyfarfodydd/sesiynau a ganlyn i gyflwyno'r dogfennau ymgynghori ac i egluro'r broses ymgynghori i Staff, Llywodraethwyr, Rhieni/Gwarcheidwaid a'r holl bartïon eraill sydd â diddordeb a oedd yn bresennol. Rhoddwyd gwybod i'r mynychwyr am bwysigrwydd ymateb i'r ymgynghoriad fel y disgrifiwyd yn adran 4.1, gan na chymerwyd unrhyw gofnodion ffurfiol yn y cyfarfodydd ymgynghori.

| Dyddiad | Lleoliad / Ysgol | Rhanddeiliaid | Amser |
|---|---|---|---|
| 10 Chwefror 2020 | Ysgol Talwrn | Staff | 4:00 yh – 5:00 yh |
| | Ysgol Talwrn | Llywodraethwyr | 5:15 yh - 6:15 yh |
| | Ysgol Talwrn | Rhieni/ Gwarcheidwaid | 6:30 yh - 7:30 yh |
| | | | |
| 13 Chwefror 2020 | Ysgol Y Graig | Staff | 4:00 yh – 5:00 yh |
| | Ysgol Y Graig | Llywodraethwyr | 5:15 yh - 6:15 yh |
| | Ysgol Y Graig | Rhieni/ Gwarcheidwaid | 6:30 yh - 7:30 yh |

### 4.3 Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc

Cynhaliwyd y broses ymgynghori gyda Phlant a Phobl Ifanc yn unol ag Adran 3.5 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

Roedd disgyblion o Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig wedi cymryd rhan yn y broses ymgynghori. Bu swyddogion o'r Cyngor yn cyfarfod â'r ddau Gyngor Ysgol a disgyblion eraill yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cyflwynwyd y wybodaeth a ddarparwyd i'r cyfranogwyr mewn modd perthnasol i'w hoedran a'u lefel o ddealltwriaeth, ac yn unol â'r arfer a gytunwyd â'r ddau Bennaeth ymlaen llaw.

Datblygodd y Cyngor ffurflen ymateb A3 a oedd yn hawdd i'r plant ei chwblhau. Cwblhaodd y disgyblion y ffurflen ymateb mewn grwpiau a rhoddwyd y cyfle iddynt siarad yn rhydd a gofyn cwestiynau.

Gellir gweld crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd gan y plant a'r bobl ifanc yn adran 5.7 o'r adroddiad hwn.

## 5. YMATEBION A SYLWADAU

Mae’r adran a ganlyn yn crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion yn ystod yr ymgynghoriad.

### 5.1 Crynodeb o’r Ymatebion

Derbyniodd y Cyngor 57 o ymatebion o’r arolwg ‘smart survey’ a 10 ymateb ar ffurf llythyrau a negeseuon e-bost. Cafodd y 57 ymateb ar-lein eu categoreiddio fel a ganlyn:

| Categorïau’r Ymatebwyr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Llywodraethwr Ysgol | 2 |
| Staff | 5 |
| Rhiant / Gwarcheidwad | 38 |
| Aelod Etholedig | 0 |
| Cynghorydd Tref / Cymuned | 0 |
| Preswylydd Lleol | 5 |
| Arall | 7 |
| **Cyfanswm** | **57** |

| Ymatebwyr yn gysylltiedig ag | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Ysgol Talwrn | 49 (86%) |
| Ysgol Y Graig | 7 (12%) |
| Heb nodi | 1 (2%) |

| Ymateb i’r cwestiwn “A ydych yn cytuno â’r cynnig i “Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn?” | |
|---|---|
| Ydw – 5 | Nac ydw – 52 |

| Nifer y sylwadau ynghylch y cynnig i: “Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn”. |
|---|
| 48 (arolwg ‘smart survey’) – mae’r rhain wedi’u crynhoi yn rhan 5.2 isod. |

| Nifer yr opsiynau amgen rhesymol eraill a dderbyniwyd i barhau gydag Ysgol Talwrn sy’n mynd i’r afael â’r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? |
|---|
| Darparodd 34 o ymatebwyr sylwadau o ran ymateb i’r cyfle i gynnig opsiwn amgen rhesymol newydd drwy’r arolwg ‘smart survey’. Ar ôl dadansoddi’r ymatebion, deuwn i’r casgliad bod 14 opsiwn amgen rhesymol wedi’u hawgrymu, **fodd bynnag, roedd rhai** |

| |
|---|
| **o'r rhain wedi'u hystyried eisoes o fewn y Ddogfen Ymgynghori a'r Papur Cynnig.** Cynhwyswyd crynodeb llawn yn adran 6 isod. |

| Nifer y materion eraill y dylai'r Cyngor eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith |
|---|
| Darparodd cyfanswm o 40 o ymatebwyr sylwadau o ran ymateb i'r cyfle i awgrymu materion eraill y dylai'r Cyngor eu hystyried fel rhan o'r asesiad effaith. Mae Tabl 5.2 isod yn crynhoi'r sylwadau hyn ac yn amlinellu ymateb y Cyngor. |
| Aethpwyd i'r afael â'r materion hyn yn yr Asesiad Effaith – Atodiad 1 |

**5.2 Crynodeb o'r Sylwadau**

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos crynodeb o'r sylwadau (a goladwyd yn ôl themâu) a dderbyniwyd drwy'r arolwg ar-lein yn ystod y cyfnod ymgynghori, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 5.2.1 | **Wedi cytuno neu anghytuno gyda'r cynnig**<br>Roedd 57 o ymatebwyr – roedd 52 (91%) yn anghytuno â'r cynnig, tra bo 5 (9%) yn cytuno â'r cynnig. | Mae nifer yr ymatebwyr yn isel iawn.<br><br>Ceir 336 o ddisgyblion yn Ysgol Y Graig a 38 o ddisgyblion yn Ysgol Talwrn, sy'n dod i gyfanswm o 374 ar draws y ddwy ysgol. Rhoddwyd gwybod i'r holl rieni, staff a llywodraethwyr am y Ddogfen Ymgynghori. Gwahoddwyd rhieni'r ddwy ysgol i fynychu cyflwyniad ar ei chynnwys ynghyd â'r broses ymgynghori. Felly rhoddwyd gwybod i o leiaf 374 o unigolion am yr arolwg.<br><br>Gellir tybio felly mai uchafswm o tua 15% o randdeiliaid Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn wedi'i cyfuno oedd yn teimlo'n ddigon cryf i fynegi eu teimladau drwy'r arolwg. |
| | O'r 52 oedd yn dweud eu bod yn anghytuno â'r cynnig, roedd 48 o'r rhain yn gysylltiedig ag Ysgol Talwrn. | Ym Medi 2019, roedd 38 o ddisgyblion ac 18 o staff neu lywodraethwyr yn Ysgol Talwrn. Gan fod yr holl staff, rhieni ac eraill wedi cael gwybod am yr arolwg, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o randdeiliaid Ysgol Talwrn yn teimlo'n ddigon cryf i fynegi eu teimladau drwy'r arolwg.<br><br>Er bod 91% o'r ymatebwyr yn anghytuno, dywedodd un rhiant o Ysgol Talwrn:<br>"Dwi'n cytuno'n llwyr gyda'r cynnig i gau ysgol fechan sy'n hen, yn ddifflach ac yn gostus er mwyn cael ysgol fwy sy'n costio llai fesul disgybl.<br>Dwi'n credu y gwnaiff hyn roi mwy o gyfleoedd i'm plant ac y bydd yn eu paratoi'n well ar gyfer mynd i'r ysgol uwchradd" |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | O'r 52 o ymatebwyr oedd yn anghytuno â'r cynnig, ni wnaeth 9 (17%) ohonynt unrhyw sylwadau pellach ar y cynnig. | Gellir dehongli hyn mewn sawl modd gwahanol, h.y. –<br>• nid oedd yr unigolion hyn eisiau newid y sefyllfa bresennol<br>• nid oedd yr unigolion eisiau anfon eu plant i Ysgol Y Graig<br>• nid oedd yr unigolion yn teimlo bod angen moderneiddio |
| | Un o'r rhesymau o ran pam nad oedd 15 (26%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig oedd oherwydd bod Ysgol Talwrn yn perfformio'n dda, ac maent yn teimlo y gall yr ysgol ddarparu gwasanaeth personol, gyda phob disgybl yn cael y sylw a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. | Er bod Ysgol Talwrn yn perfformio'n dda ar hyn o bryd, mae risg y gallai hyn fod yn anodd i'w gynnal yn y tymor hir. Po fwyaf o ysgolion sydd ar yr ynys, y mwyaf anodd y bydd i benodi penaethiaid effeithiol, yn enwedig mewn ysgolion llai, lle efallai nad oes cymaint yn cystadlu am swyddi. Pe bai tîm rheoli Ysgol Talwrn yn newid yn y dyfodol, byddai hyn yn risg sylweddol.<br><br>Bydd hefyd yn her i Ysgol Talwrn allu diwallu anghenion y cwricwlwm newydd i Gymru, oherwydd adeilad yr ysgol a'r ychydig gyfleusterau sydd yno ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.<br><br>Mae nifer gyfyngedig o staff mewn ysgol fechan yn golygu bod diffyg amrywiaeth o ran y cwricwlwm, ynghyd â llai o gyfleoedd i gael amrywiaeth o brofiadau allgyrsiol.<br>Gall oedrannau cymysg mewn ysgolion llai fod yn her o ran darparu ar eu cyfer.<br>Mae'n anochel y bydd gan arweinyddion ysgolion lai o amser i arwain oherwydd eu cyfrifoldebau dysgu.<br>Gall fod yn anodd i ysgolion bach drefnu dosbarthiadau o feintiau sy'n gost effeithiol (h.y. meintiau dosbarthiadau sy'n agos i 30).<br>Os yw dosbarthiadau'n aneffeithlon, bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar gyllidebau ysgolion, sy'n golygu nad oes digon o gyllid yn weddill i ariannu agweddau eraill, fel penodi staff arbenigol ym maes anogaeth a gofal bugeiliol. |
| | Un o'r rhesymau pam nad oedd 14 (25%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig oedd eu bod o'r farn y dylai disgyblion lleol gael eu haddysg yn lleol, a chredant y byddai'r cynnig i gau Ysgol Talwrn yn cael effaith niweidiol ar y gymuned. | Ceir sawl enghraifft o gymunedau cryf o fewn pentrefi nad ydynt yn cynnwys ysgol.<br><br>Byddai'r cyfleusterau yn Ysgol Y Graig (o fewn 2 filltir o Ysgol Talwrn) ar gael i'w defnyddio gan gymuned Talwrn. |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | | Yn ogystal, ceir Neuadd Bentref yn Nhalwrn a ddefnyddir ar hyn o bryd i hwyluso llawer o weithgareddau lleol, a gellid ei defnyddio ar gyfer rhagor o weithgareddau.<br><br>Mae effaith penderfyniad o'r fath yn cael ei fynegi'n glir yn yr asesiadau effaith sydd ynghlwm (**Atodiad 1**) |
| | Un o'r rhesymau o ran pam nad oedd 9 (16%) o'r holl ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig oedd eu bod yn ofni efallai y bydd ysgolion yn Llangefni dros eu capasiti yn y dyfodol o ganlyniad i nifer o ddatblygiadau tai o fewn ardal Llangefni. | Datblygwyd y cynnig nid yn unig i gymryd disgyblion ychwanegol o ddatblygiadau tai y cyflwynwyd ceisiadau cynllunio ar eu cyfer, ond mae hefyd wedi ystyried data sy'n cael ei ddal gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, fel dyraniadau tai ar gyfer ardal Llangefni. Roedd adran 5.4 o'r Ddogfen Ymgynghori'n rhoi disgrifiad manwl o effeithiau posibl y datblygiadau tai hyn yn Llangefni ar yr Ysgol Y Graig ehangedig arfaethedig. Roedd y Ddogfen Ymgynghori'n amlinellu y byddai nifer ragamcanol y disgyblion yn Ysgol y Graig yn 383 ym Medi 2023 ac y byddai uchafswm o 419 ym Medi 2027. Daethpwyd i'r casgliad y byddai digon o leoedd yn yr ysgol ar gyfer disgyblion ychwanegol.<br><br>Rhoddodd y cynnig sylw hefyd i nifer y plant 3-11 oed fesul aelwyd ym mhob ward unigol ar ddyddiad y cyfrifiad diwethaf.<br><br>Fodd bynnag, bydd bob amser yn anodd penderfynu nifer ragamcanol gywir y disgyblion mewn ysgol, oherwydd dewis rhieni o ran pa ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn debygol o leihau nifer y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sydd yn ardal y Graig / Talwrn.<br>Os cymeradwyir y cynnig, dylunnir yr Uned Cyfnod Sylfaen newydd ar gyfer Ysgol y Graig i ganiatáu estyniad pellach yn y dyfodol ar gyfer 2 ystafell ddosbarth, a fydd yn diogelu datblygiad yr ysgol ar gyfer y cyfnod i ddod. |
| | Un o'r rhesymau o ran pam nad oedd 9 (16%) o'r holl ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig oedd eu bod yn pryderu fod traffig eisoes yn broblem yng nghyffiniau Ysgol Y Graig, ac y byddai'r cynnig yn gwaethygu'r broblem hon. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr eu bod yn pryderu bod | Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, bydd datblygu'r Uned Cyfnod Sylfaen ar safle newydd yn caniatáu datrys y problemau parcio presennol fel rhan o'r cynllun newydd. Ni ellir ond cyflawni hyn trwy gynyddu arwynebedd y safle i gynnwys darpariaeth barcio ychwanegol. Bydd angen i'r Cais Cynllunio ddangos sut y gellir datrys y problemau parcio presennol er mwyn cael |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | damweiniau'n debygol, ac awgrymwyd y dylai swyddogion o'r Cyngor fynd i arsylwi'r traffig yn yr ardal rhwng 8.30 a 9 o'r gloch y bore ac wedyn tua 3 o'r gloch y prynhawn i sylweddoli pa mor ddrwg oedd y broblem. | cefnogaeth yr Adran Priffyrdd. Os gweithredir y cynnig hwn, mae'n gyfle i liniaru'r pryderon hyn o ganlyniad i'r gwaith gwella arfaethedig.<br><br>Cynhelir Asesiad Effaith Traffig a bydd yn ffurfio rhan o'r Cais Cynllunio. Datblygir y cynigion gyda staff y Cyngor, Ymgynghorydd Effaith Traffig, Pensaer Tirwedd a Pheiriannydd Sifil. Datblygir y cynllun hefyd mewn ymgynghoriad â swyddogion o'r Adran Priffyrdd, cyn cyflwyno'r cais.<br><br>Bydd datblygu'r Uned ar safle newydd yn caniatáu datrys y problemau parcio presennol fel rhan o'r cynllun newydd. Ni ellir ond cyflawni hyn trwy gynyddu arwynebedd y safle i gynnwys darpariaeth barcio ychwanegol. Bydd angen i'r Cais Cynllunio ddangos sut y gellir datrys y problemau parcio presennol er mwyn cael cefnogaeth yr Adran Priffyrdd. |
| | Un o'r rhesymau o ran pam nad oedd 5 (9%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig oedd eu bod yn pryderu y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg. | Mae data CYBLD 2019 yn amlygu bod canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl adref yn uwch yn Ysgol Y Graig (59%) nag yn Ysgol Talwrn (40%).<br><br>Nid oes unrhyw wahaniaeth clir o ran cyflawniadau disgyblion Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn y Gymraeg rhwng 2015 a 2017.<br><br>Ar dudalen 21 o'r Asesiad Effaith oedd ynghlwm i'r Ddogfen Ymgynghori, roedd adran 3.5.6 yn nodi:<br>*"Bydd yr ysgol ehanedig arfaethedig yn ysgol gymunedol, cyfrwng Cymraeg. Bydd yn flaenoriaeth i'r Awdurdod gryfhau a diogelu'r iaith Gymraeg ac addysg ddwyieithog."*<br><br>Felly, os gweithredir y cynnig, cyfrifoldeb tîm arweinyddol yr Ysgol Y Graig ehangedig arfaethedig fydd hybu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg gan y disgyblion yn ystod oriau ysgol. Byddai'r Ysgol y Graig ehangedig arfaethedig yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac ar iard yr ysgol, |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | | yn unol â Siarter Iaith Gymraeg yr Awdurdod. |
| 5.2.2 | **Ymatebwyr o Ysgol Y Graig**<br>Cafwyd 7 ymatebwr oedd yn gysylltiedig ag Ysgol Y Graig. Roedd 4/7 (57%) o'r ymatebwyr oedd yn gysylltiedig ag Ysgol y Graig yn anghytuno â'r cynnig, tra bo 3/7 (43%) o'r ymatebwyr oedd yn gysylltiedig ag Ysgol y Graig yn cytuno â'r cynnig. | Dylid nodi bod canran yr ymatebwyr o Ysgol Y Graig yn eithriadol o isel. Gellid dod i gasgliad felly nad oedd y mwyafrif o unigolion sy'n gysylltiedig ag Ysgol Y Graig y rhoddwyd gwybod iddynt am yr arolwg, yn teimlo'n ddigon cryf i nodi eu bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig trwy'r arolwg 'smart survey'. |
| 5.2.3 | **Adeilad Ysgol Talwrn**<br>Dywedodd rhai o'r ymatebwyr nad oeddynt yn cytuno â'r cynnig eu bod yn meddwl nad oedd yr adeilad presennol yn addas i'r diben. | Mae pob adeilad ysgol yn cael ei arolygu'n rheolaidd gan syrfewyr cymwys. Mae gan Ysgol Talwrn radd cyflwr o B – Boddhaol (Perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad). |
| 5.2.4 | **"Mae cael ymgynghoriad arall yn annheg"**<br>Dywedodd sawl un o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo ei fod yn annheg i Ysgol Talwrn orfod mynd trwy ymgynghoriad arall eto. | Er ei fod yn derbyn y bu Ysgol Talwrn yn destun 4 ymgynghoriad statudol, mae'r Cyngor yn ymroddedig i wrando ar farnau rhanddeiliaid wrth weithredu newid sylweddol a fydd yn effeithio ein preswylwyr. Mae moderneiddio ein stoc ysgolion yn newid o'r fath, ac mae'n bwysig nodi barnau rhieni, staff a phreswylwyr a gallant newid dros gyfnod o amser. Felly mae'r angen i gynnal ymgynghoriadau amserol yn angenrheidiol.<br><br>Mae hefyd yn ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn rhoi camau ar waith i ad-drefnu ysgolion, fel yn achos y cynnig sydd dan ystyriaeth. |
| 5.2.5 | **"Mae arian yn bwysicach"**<br>Dywedodd rhai eu bod yn credu bod arbed arian yn bwysicach i'r Cyngor na safonau addysgol. | Mae'r Cyngor wedi adnabod saith gyrrwr ar gyfer y rhaglen moderneiddio ysgolion, y mae 'cyllidol' yn un ohonynt. Mae'r gyrwyr eraill yn cynnwys –<br>• Safonau<br>• Arweinyddiaeth a Rheolaeth<br>• Lleoedd Ysgol<br>• Adeilad yr Ysgol<br>• Defnydd Cymunedol a<br>• Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg<br><br>Mae'r Cyngor o'r farn bod y cynnig yn perfformio'n dda yn erbyn pob un o'r gyrwyr hyn, wrth fynd i'r afael hefyd â'r heriau |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | | allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig. |
| 5.2.6 | **"Mae ysgolion gwledig yn cael eu cosbi"**<br>Roedd dyrnaid o'r ymatebwyr yn teimlo bod ysgolion gwledig yn cael eu cosbi o ganlyniad i broblemau sy'n bodoli o fewn y trefi, h.y. bod Ysgol Talwrn yn cael ei chau er mwyn helpu i gyllido estyniad i Ysgol Y Graig, gan fod Ysgol Y Graig dros ei chapasiti. | Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn yn ogystal ag Ysgol y Graig, megis:<br>- Mae'n sicrhau bod disgyblion yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau ag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd.<br>- Mae'n darparu cyfleusterau ar gyfer disgyblion sy'n addas i ddiben cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru.<br>- Mae'n sicrhau nad oes gan y pennaeth ymrwymiad addysgu penodol sylweddol.<br><br>Mae'r strategaeth Moderneiddio Ysgolion yn darparu cyfeiriad o ran dyfodol ein stoc ysgolion. Bu hwn yn destun ymgynghori gyda'r ysgolion a'r llywodraethwyr cyfredol ac, yn sicr, fe'i hystyrir yn gyfle i wneud gwelliannau y bydd y genhedlaeth bresennol o blant, yn ogystal â rhai'r dyfodol, yn manteisio arnynt. |
| 5.2.7 | **"Mae'r Ysgol y Graig arfaethedig yn rhy fawr"**<br>Gwnaeth 17 (30%) o'r holl ymatebwyr sylwadau oedd yn awgrymu y byddant yn ystyried y byddai'r Ysgol y Graig arfaethedig (gyda chapasiti o 480) yn rhy fawr i ddisgyblion gael y sylw a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, neu eu bod yn teimlo y byddai rhai disgyblion yn cael trafferth dygymod ag ysgol o'r maint hwn. | Bydd gan ysgol o'r maint hwn yr adnoddau i sicrhau bod yr addysgu yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion pob disgybl, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r disgyblion hynny yr ystyrir eu bod y mwyaf abl a thalentog.<br>Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ysgolion llai yn cael trafferth diwallu anghenion y ddau grŵp hyn (adroddiad Estyn – Maint Ysgolion ac Effeithiolrwydd Addysgol – Rhagfyr 2013)<br>Bydd ysgol o'r maint hwn yn rhoi mwy o amrywiaeth cwricwlaidd oherwydd adnoddau ac addysgu arbenigol h.y. TG, cerddoriaeth.<br>Byddai mwy o gyfle i wneud gweithgareddau allgyrsiol i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion a'u teuluoedd.<br>Oherwydd adnoddau ychwanegol a'r gallu i benodi staff arbenigol, gall ysgolion mwy ddarparu gofal bugeiliol a grwpiau anogaeth. |
| 5.2.8 | **"Mae'r cynnig yn tarfu ar y disgyblion"**<br>Gwnaeth 7 (12%) o'r ymatebwyr sylwadau o ran nad yw'r Cyngor yn poeni am les y disgyblion presennol, bod y disgyblion yn | Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall y newid fod yn anodd i rai disgyblion, yn enwedig disgyblion o Dalwrn. Os yw'r cynnig yn cael ei gymeradwo, gwneir pob ymdrech i wneud |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | hapus yn lle maent, ac y byddai'r cynnig yn tarfu ar y disgyblion. Gwnaed y mwyafrif o'r sylwadau hyn gan rieni / gwarcheidwaid sy'n gysylltiedig ag Ysgol Talwrn. | y trosglwyddiad mor ddi-dor ag y bo modd, drwy gynnal gweithgareddau ar y cyd rhwng disgyblion Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn er mwyn i ddisgyblion wneud ffrindiau â phlant o Ysgol Y Graig cyn iddynt drosglwyddo.<br><br>Yn wir, mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion eisoes wedi gweld 10 ysgol gynradd yn uno i greu 3 ysgol gynradd newydd. Dysgwyd gwersi o ran sut i reoli'r broses a sicrhau trosglwyddiad di-dor o un ysgol i'r llall. Codwyd pryderon tebyg cyn i'r ysgolion cynradd hyn uno a chymerwyd y rhain o ddifrif. I liniaru'r pryderon hyn, cynhaliwyd gweithgareddau ar y cyd rhwng disgyblion yr ysgolion oedd yn uno er mwyn i'r disgyblion gael dod i adnabod ei gilydd. Roedd y gweithgareddau hyn yn llwyddiannus cyn ffurfio Ysgol Cybi, Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Santes Dwynwen. Mae profiad yn dangos hefyd bod plant, ar y cyfan, yn addasu'n rhwydd i newid ysgol.<br><br>Rhaid i'r Cyngor ystyried yr effaith ar genedlaethau'r dyfodol yn ogystal â disgyblion presennol wrth lunio cynigion ar gyfer yr ardal. |
| 5.2.9 | **Ffedereiddio**<br>Gwnaeth 5 (8%) o'r ymatebwyr sylwadau oedd yn awgrymu y byddai'n well ganddynt yr opsiwn o ffedereiddio. | Ychydig iawn o resymau a gafwyd o ran pam roedd ymatebwyr yn ffafrio'r opsiwn o ffedereiddio, ar wahân i hynny a ystyriwyd eisoes o fewn y ddogfen ymgynghori.<br>Roedd sawl opsiwn yn adran 6.3 o'r Ddogfen Ymgynghori yn cynnwys y posibilrwydd o ffedereiddio ysgolion. Fodd bynnag, roedd anfanteision y rhain yn gorbwyso'r manteision. Mae manteision ac anfanteision ffedereiddio ysgolion yn cael eu crynhoi yn nhabl 5.2.11 isod.<br>Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn rhagfarnu yn erbyn ffedereiddio, mae ganddo ffederasiwn ar waith yn Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre. Dechreuodd y ffederasiwn hwn weithredu yn Ionawr 2020. Mae hyn yn dangos parodrwydd yr Awdurdod i ffurfio ffederasiynau, sef yn yr achos hwn, ffederasiwn Gwêl y Glannau. |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 5.2.10 | **Amrywiol**<br>Nododd llai na 5 (9%) o'r ymatebwyr un neu ragor o'r canlynol fel rhesymau pam nad oeddent yn cytuno â'r cynnig: | |
| | ▪ Nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan Ysgol Gyfun Llangefni. | Ystyriwyd yr heriau a'r dewisiadau amgen rhesymol gan gynnwys Ysgol Gyfun Llangefni yn y papur cynnig. Daeth y Cyngor i'r casgliad nad oedd unrhyw opsiwn amgen rhesymol oedd yn mynd i'r afael ag anghenion Ysgol Gyfun Llangefni a'r ysgolion cynradd o fewn yr ardal. Yr unig her sylweddol sy'n wynebu Ysgol Gyfun Llangefni yw cyflwr yr adeilad presennol. Bydd hyn felly'n cael ei ailystyried pan fydd Cyngor Ynys Môn yn dynodi ei gynlluniau ar gyfer Bandiau C a D o'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. |
| | ▪ Mae cost amcangyfrifiedig mynd i'r afael â chostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol Ysgol Talwrn wedi'i gorbwysleisio. | Os rhywbeth, roedd y costau yn y Ddogfen Ymgynghori yn rhy isel. Gellir dadansoddi'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 fel a ganlyn:<br>Gwaith mewnol £29,500<br>Gwaith allanol £80,500<br>Ystafell ddosbarth newydd dros dro £250,000<br>Derbyniwyd pris ar gyfer ystafell ddosbarth dros dro o faint tebyg gan y Cyngor yn Awst 2019 ac roedd yr amcanbris yn dod i gyfanswm o £308,000 (£185k ar gyfer yr ystafell ddosbarth symudol, £11k ar gyfer offer ychwanegol a £112k ar gyfer gwaith sylfaen a chysylltu'r ystafell ddosbarth symudol â'r gwasanaethau cyfleustodau). |
| | • Mae disgyblion Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn yn dod o wahanol gefndiroedd cymdeithasol. Byddai'n haws uno ag ysgolion o gefndir tebyg, neu ag ysgolion o faint tebyg, e.e. Llanbedrgoch a / neu Bentraeth. | Mae disgyblion yn mynychu ysgolion yn ôl dalgylchoedd ac nid cefndiroedd cymdeithasol. Mae Ysgol Pentraeth mewn dalgylch ysgol uwchradd wahanol i Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Talwrn – gallai hyn olygu y byddai disgyblion o'r un ysgol gynradd yn mynd i ysgol uwchradd wahanol, fyddai yn ei dro'n ei gwneud hi'n anoddach i ddisgyblion Blwyddyn 6 pan fyddant yn symud i'r ysgol uwchradd. Nid yw Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Pentraeth yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ond mae'n debygol y byddant yn cael eu hystyried yn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn y dyfodol. Felly ni roddir unrhyw ystyriaeth bellach i'r opsiwn hwn. |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | ▪ Risg pe byddai Ysgol Y Graig yn gweithredu o ddau adeilad ar wahân, y gellir gweld yr ysgol fel dwy ysgol ar wahân. Roedd pryder hefyd y gallai dau adeilad ar wahân greu problemau logistaidd i rieni sydd angen codi disgyblion o fwy nag un safle. Gwnaed y sylwadau hyn gan staff o Ysgol Y Graig. | Bydd yr uwch dîm arweinyddiaeth yn Ysgol Y Graig yn gyfrifol am oruchwylio'r dulliau addysgu, ac am sicrhau bod gan athrawon Cyfnod Allweddol 2 ddealltwriaeth dda o lefelau datblygiad disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Gallai'r uwch dîm arweinyddol hefyd drefnu gweithgareddau sy'n dod ag athrawon a phlant y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ynghyd i wneud y trosglwyddiad o'r Cyfnod Sylfaen mor ddi-dor ag mewn unrhyw ysgol arall. Byddai'r bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn cael ei leoli o fewn tua 90 metr o'r adeilad Cyfnod Allweddol 2, a fydd yn ei gwneud yn haws rheoli 2 adeilad ar wahân, a bydd yn lleihau'r problemau logistaidd i rieni. Byddai monitro a chymorth gan Wasanaeth Addysg y Cyngor yn parhau, a byddai'r gwasanaeth addysg rhanbarthol, GwE hefyd yn parhau i fonitro'r safonau yn yr ysgol. |
| | ▪ Ni fydd disgyblion o Dalwrn yn gallu cerdded neu feicio i Ysgol Y Graig. | Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr anfantais hon o fewn y papur cynnig, y ddogfen ymgynghori a'r asesiad effaith. Bydd effeithiau hyn yn cael eu lliniaru gymaint ag y bo modd, drwy ddarparu gwasanaeth bws am ddim i ddisgyblion cymwys, yn unol â'r polisi cludiant ysgol. |
| | ▪ Nid yw'r cynnig yn darparu gwerth am arian. | Ceir diffyg capasiti yn yr ysgolion o fewn ardal Llangefni, y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef. Bydd ar unrhyw gynllun i greu capasiti ychwanegol angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol gan yr Awdurdod. Mae'r buddsoddiad sydd ei angen gan yr Awdurdod wedi'i leihau'n sylweddol, gan y bydd cyfraniad Llywodraeth Cymru trwy'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn ariannu 65% o'r costau cyfalaf. Mae costau'r cynnig hwn yn unol â'r costau a awgrymwyd yn nogfen 'Safonau o Ran Cost a Maint' Llywodraeth Cymru, ar ôl ystyried costau anarferol, fel costau prynu tir ychwanegol, a chostau datrys problemau parcio ar y safle presennol. Rhagwelir y byddai cost net y cynnig yn tua £33,000 y flwyddyn i'r Awdurdod, am 50 mlynedd. Os na wnaiff yr Awdurdod elwa ar y cyfle sydd ar gael ar hyn o bryd trwy'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, byddai'r gost flynyddol net yn llawer uwch mewn blynyddoedd i ddod. |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | ▪ Dywedodd staff Ysgol Y Graig nad oeddent eisiau i Ysgol Talwrn gau er mwyn i Ysgol Y Graig gael estyniad. | Nid yw'r penderfyniad i gau Ysgol Talwrn yn ganlyniad uniongyrchol i'r ffaith bod Ysgol Y Graig dros ei chapasiti. Byddai'r manteision o gau Ysgol Talwrn a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Y Graig yn cynnwys (ond nid wedi'u cyfyngu i):<br>- Sicrhau bod pob disgybl yn cael ei addysgu mewn dosbarthiadau ag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd.<br>- Sicrhau bod anghenion pob disgybl yn cael eu diwallu, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r disgyblion mwyaf abl a thalentog.<br>- Mae'n darparu cyfleuster dysgu ar gyfer disgyblion cyfredol o Dalwrn, a rhai yn y dyfodol, sy'n addas i'r diben ar gyfer y 21ain Ganrif, gan gynnwys cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru.<br>- Mae'n lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ac yn cyflawni arbedion refeniw. |
| | ▪ Mewn ymgynghoriadau blaenorol, gofynnodd rhieni am ddadansoddiad o gostau cynnal a chadw Ysgol Talwrn, na chawsant eu darparu erioed. | Mae'r Cyngor wedi darparu dadansoddiad i lywodraethwr yn Ysgol Talwrn o gostau cynnal a chadw Ysgol Talwrn, gan gynnwys cost caffael a gosod ystafell ddosbarth symudol newydd ar y safle.<br>I osod ystafell ddosbarth symudol newydd, byddai angen caniatâd i gael mynediad gan y tirfeddiannwr wrth ymyl yr ysgol. Ar ôl cael hyn, byddai angen cwblhau'r camau a ganlyn:<br>▪ Dymchwel yr uned bresennol<br>▪ Gwaith dan y ddaear (sylfeini, ceblau trydan, dŵr, ceblau ffôn a chyfathrebu a phibellau carthion ac ati)<br>▪ Uned ddosbarth newydd (gan gynnwys toiledau i'r plant yn ogystal â thoiled staff / anabl)<br>▪ Caniatad cynllunio a rheoli adeiladu<br>▪ Gwaith logisteg (dymchwel ac ailgodi wal derfyn lydan rhwng yr ysgol a'r cae drws nesaf, dymchwel ac ailgodi terfyn cae wrth ymyl y lôn), defnyddio'r system 'Trackway' ar y cae drws nesaf, cryfhau'r iard o dan y craen ac ati<br>▪ Ramp a stepiau haearn i'r caban newydd<br>▪ Gwaith atgyweirio / gwella'r iard<br>▪ Ffi ar gyfer trefnu a chynnal y gwaith<br>Fel y soniwyd uchod, derbyniwyd pris am ystafell ddosbarth dros dro o faint tebyg yn |

| Rhif | Thema | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | | Awst 2019 gan y Cyngor, a'r pris amcangyfrifiedig oedd cyfanswm o £308,000 (£185k ar gyfer yr ystafell ddosbarth symudol, £11k ar gyfer offer ychwanegol a £112k ar gyfer gwaith ar y sylfeini a chysylltu'r ystafell ddosbarth symudol â'r gwasanaethau cyfleustodau) |
| | Cafodd tri chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Bodffordd, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn gyfarfod a'r Aelod Senedd lleol, ac ysgrifennodd y tri chadeirydd lythyr ar y cyd.<br><br>Ymateb ar y cyd yw hwn gan gadeiryddion y tair ysgol:<br>• Bod taer angen ysgol newydd ar gyfer Corn Hir<br>• Yr egwyddor nad oes rhaid cau ysgolion eraill er mwyn i hyn ddigwydd<br>• Roedd angen ymgynghoriad gwirioneddol dryloyw wrth fynd ati i geisio ymateb amgen<br>• Rydym yn barod i helpu i ddatblygu syniadau all olygu bod cau ysgolion yn anochel.<br>Roeddynt yn cydymdeimlo â sefyllfa'r Cyngor yn nhermau cyllid a chyfeiriad polisi cenedlaethol. | Ystyrir yr ymateb fel rhan o'r ymgynghoriad. |

**Tabl 5.2.11**
Mae manteision ac anfanteision ffedereiddio ysgolion yn cael eu crynhoi yn y tabl isod (parhad o adran 5.2.9 uchod):

| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| 1.Safonau | ▪ Ehangu'r cyfleoedd am weithgareddau i ddisgyblion<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigedd staff ac arfer da<br>▪ Yn fwy posibl i sicrhau cysondeb o ran addysgu | ▪ Ni fyddai unrhyw newid yn amrywiad meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran a addysgir yn nosbarthiadau Ysgol Talwrn. |
| ▪ 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Opsiynau i ddewis uwch strwythur arweinyddiaeth i weddu i strwythur y ffederasiwn gan gynnwys rheolwyr safle ysgolion.<br>▪ Byddai'r pennaeth yn cael mwy o amser digyswllt ynghyd â'r cyfle i ddatblygu | ▪ Gall gostio mwy i'w redeg gan fod angen rheolwyr safle yn y ddwy ysgol ac mae angen ôl lenwi rhai swyddi. |

| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| | uwch dîm rheoli ymhellach i rannu'r baich arweinyddol. | |
| 3.Adeilad Ysgol | ▪ Byddai Ysgol y Graig yn parhau i gydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau. | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad Ysgol Talwrn i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol ar safle Ysgol Talwrn<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yn yr ysgol (£360k yn 2019).<br>▪ Nid yw Ysgol Talwrn ond yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| 4.Lleoedd Ysgol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol y Graig. |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai bob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Rhagwelir arbedion o tua £2k y flwyddyn mewn costau addysgu. | ▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl a chydraddoldeb darpariaeth.<br>▪ Nid yw'n lleihau'r swm a ddirprwyir i ysgolion drwy'r fformiwla cyllido ysgolion.<br>▪ Nid yw'n dileu'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol.<br>▪ Mae'n debygol y bydd costau refeniw yn cynyddu yn y dyfodol. |
| 6. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth dda. | |
| 7. Defnydd cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd cymunedol presennol yn parhau. | |
| 8. Materion cyffredinol | ▪ Byddai darpariaeth addysg yn parhau ar bob safle ysgol.<br>▪ Yn tarfu cyn lleied â phosibl | ▪ Byddai angen cludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'r dalgylch (sydd â lleoedd gweigion), gan nad oes capasiti digonol i gymryd yr holl ddisgyblion o fewn y dalgylch. |

Nid yw ffedereiddio Ysgol Talwrn ag unrhyw ysgol arall ond yn cwrdd â'r heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn yn rhannol, sef:

1. Niferoedd disgyblion – **nid yw'n mynd i'r afael** â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol Y Graig
2. Dim digon o le i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig/hir – byddai'n parhau **heb newid** o ganlyniad i ffedereiddio
3. Cost fesul disgybl - byddai arbedion bach iawn yn golygu y byddai'r gost fesul disgybl yn **parhau i fod yn uwch** na chyfartaledd ysgolion cynradd Ynys Môn
4. Adeilad ysgol – mae ganddi gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 (2019) ynghyd â gradd cyflwr B (Boddhaol – Perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad). Nid yw adeilad Ysgol Talwrn ond yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion a ddisgwylir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – **byddai'r rhain yn parhau heb newid**

5. Safonau – gallai'r safonau cyfredol a welir yn Ysgol Talwrn fod yn anodd i'w cynnal yn y tymor hir – byddai hyn yn parhau i fod yn wir
6. Ymrwymiad Addysgu'r Pennaeth – ymrwymiad addysgu o 70% ar hyn o bryd – yn debygol o newid.
7. Cyllid - mae'n annhebygol y byddai unrhyw fân arbedion o ganlyniad i ffedereiddio yn ddigonol i gyfrannu at y gostyngiad y mae ar y Cyngor angen ei wneud i'w gyllideb

Oherwydd y ffaith nad yw ffedereiddio Ysgol Talwrn gydag unrhyw ysgol arall yn cwrdd â'r heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn, mae'n cael ei ddiystyru.

**5.3 Sylwadau penodol gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg**

Codwyd y pwyntiau a ganlyn gan Gymdeithas yr Iaith:

- **Yr Ymgynghoriad "ddim yn deg a dilys"**
  Mae Cymdeithas yr Iaith yn honni bod y cynnig sydd dan ystyriaeth yn "ailwampiad" o'r "cynnig gwreiddiol" blaenorol a bod hyn "yn profi nad oedd gan y Cyngor feddwl agored wrth ffurfio ei gynnig". Mae'n mynd ymlaen: "Mae bron pob un o'r dadleuon a ddefnyddir gan y Cyngor pan ddaw i'r "heriau" a wynebir gan Ysgol Talwrn ac "anfanteision" yr holl opsiynau, gan gynnwys, cadw Ysgol Talwrn, yn ddadleuon generig yn erbyn POB ysgol wledig neu gymharol fach – nid dadleuon penodol i Ysgol Talwrn ydyw'r rhain, e.e. bydd gan BOB ysgol cymharol fach ddosbarthiadau oedran cymysg ac wrth gwrs bydd y gost fesul disgybl o ddarparu addysg, neu unrhyw wasanaeth, yn uwch mewn ardal wledig. Ond nid yw hyn yn annheg gan fod llai o lawer o wasanaethau mewn ardaloedd gwledig ac felly mae cyfanswm y gwariant y pen yn llai. Mae'n amlwg fod pennaeth yn addysgu ym MHOB ysgol fechan. Mae'r ddogfen felly'n dangos yn glir bod rhagdybiaeth YN ERBYN ysgolion llai oherwydd y dadleuon generig, ac mae hyn yn groes i ofynion y Cod".

  **Gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion**
  Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn gwneud trefniadau arbennig ar gyfer ysgolion gwledig gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau. Mae'r Cod yn nodi "mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, ac wrth ymgynghori ar benderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu cynnig i gau ysgol wledig ac wrth wneud y penderfyniad."

  **Rhaid** i'r rhai sy'n cyflwyno cynigion statudol gyhoeddi dogfen ymgynghori ar ffurf copi caled ac ar ffurf electronig ar eu gwefan neu wefan yr awdurdod lleol perthnasol. **Rhaid** i gopïau caled fod ar gael ar gais. **Dylid** ystyried cyhoeddi mewn fformatau eraill os bydd hygyrchedd yn peri pryder.
  **Rhaid** cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar un o ddiwrnodau ysgol yr ysgol neu'r ysgolion y mae'r cynnig yn ymwneud â hi/nhw, a **rhaid** rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i bobl ymateb i'r ddogfen, gydag 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Ni ddylid cyhoeddi dogfennau ymgynghori ar ddiwrnod ysgol sy'n cynnwys sesiwn ysgol sydd wedi'i neilltuo (yn llwyr neu'n bennaf) i wella safonau addysgu neu arferion rheoli staff yr ysgol (diwrnodau hyfforddiant mewn swydd).
  **Rhaid** rhoi gwybod i'r canlynol (a restrir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018) drwy lythyr neu e-bost bod y ddogfen ymgynghori ar gael (Anfonwyd yr e-bost i'w hysbysu ar 6 Chwefror 2020 am 12:04yp)

  **Ymateb y Cyngor i'r honiad gan Gymdeithas yr Iaith nad oedd ei ymgynghoriad yn 'deg a dilys'**

Rhagdybiaeth weithdrefnol yw'r rhagdybiaeth y cyfeirir ati yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Yn ogystal, nid yw Ysgol Talwrn yn cael ei hystyried yn ysgol wledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Cynhaliwyd y broses ymgynghori yn unol â'r canllawiau statudol yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fel y disgrifir yn y tabl isod:

| **Gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018** | **Camau a gymerwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn** |
|---|---|
| Cyhoeddi dogfen ymgynghori ar ffurf copi called ac ar ffurf electronig ar eu gwefan | Cyhoeddwyd ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn ar 6 Chwefror 2020 ac mae ar gael ar ffurf copi caled |
| **Rhaid** cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol | Fe'i cyhoeddwyd ar 6 Chwefror 2020, **diwrnod ysgol** yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig |
| **Rhaid** rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i bobl ymateb i'r ddogfen | Rhoddwyd o 6 Chwefror 2020 tan 20 Mawrth 2020 i'r ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen - **o leiaf 42 diwrnod** |
| Rhaid rhoi gwybod i ymgyngoreion drwy lythyr neu e-bost bod y ddogfen ymgynghori ar gael | **Rhoddwyd gwybod** i'r ymgyngoreion a restrir yn adran 3.1 o'r Ddogfen Ymgynghori **drwy e-bost** bod y ddogfen ymgynghori ar gael |

Mae'r tabl uchod yn dangos sut y mae'r Awdurdod wedi dilyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, sy'n ei wneud yn ddilys. Asesir yr holl opsiynau amgen rhesymol yn erbyn gyrwyr allweddol y rhaglen moderneiddio. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl opsiynau'n cael eu hasesu mewn modd cyson a theg. Wrth asesu pob opsiwn, rydym yn edrych ar sefyllfa benodol pob ysgol yn unigol gan wneud hynny'n fanwl.

- **Fe aeth y Cyngor ymlaen i gynnal ymgynghoriad statudol yn syth**

Mae Cymdeithas yr Iaith yn credu na ddylai Cyngor Sir Ynys Môn fod wedi mynd ymlaen heb "ymgynghoriad anffurfiol" yn gyntaf. Nid oedd Cymdeithas yr Iaith yn cytuno gyda "chyhoeddi cynnig oedd bron yn derfynol ac adroddiad ar gyfer Pwyllgor Sgriwtini dim ond 4 diwrnod cyn y bleidlais gan y Pwyllgor Gwaith." Teimlant nad oedd hyn "gyfystyr ag ymgynghoriad anstatudol neu anffurfiol cychwynnol yn unol â gofynion y Cod".

**Ymateb y Cyngor**
Yn ôl Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, nid oes unrhyw ofyn statudol i gynigwyr gynnal ymgynghoriadau anffurfiol. Dilynwyd canllawiau statudol a chyfansoddiadol ar gyfer trafod y papur cynnig yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 14 Ionawr 2020 a gan y Pwyllgor Gwaith ar 20 Ionawr 2020.

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn nodi "O bryd i'w gilydd, bydd cynigwyr wedi cynnal ymgynghoriad 'anffurfiol' gyda rhai rhanddeiliaid penodol ynghynt yn y broses o ddatblygu cynigion. **Rhaid peidio ag** ystyried bod ymgynghoriad o'r fath yn disodli unrhyw ran o'r prosesau ymgynghori ffurfiol a amlinellir isod."

Yn adran 3.3. o'r Cod, mae'n nodi: "Nid yw'n ofynnol i gynigwyr gynnal cyfarfodydd ymgynghori er y bydd amgylchiadau lle y bydd cynigwyr o'r farn y

bydd cyfarfod â grwpiau penodol o ymgyngoreion o gymorth mawr wrth ledaenu gwybodaeth ac yn rhoi llwyfan addas i ymgyngoreion leisio eu barn."

Felly, creda Cyngor Sir Ynys Môn nad oes angen iddo gynnal "ymgynghoriad anffurfiol" cyn cynnal ymgynghoriad "ffurfiol" neu statudol. Ac nid oes angen ychwaith i'r Awdurdod "gynnal cyfarfodydd ymgynghori" ond gwnaed hyn yn y ddwy ysgol i hwyluso lledaenu gwybodaeth a rhoi llwyfan addas i ymgynoreion gael lleisio eu barn.

- **Gwerthuso opsiynau amgen rhesymol**
  Yr honiad yn yr achos hwn yw "nad yw'r gwerthusiad o'r opsiynau yn cwrdd â gofynion y Cod". Cynigiodd Cymdeithas yr Iaith opsiwn arall: "trefniant gydag ysgol(ion) i'r dwyrain o Dalwrn …. Ceir dau opsiwn (6.3.10 / 11) y gallai elfennau ohonynt ffurfio rhan o ddatrysiad cynaliadwy sy'n cynnwys creu ffederasiwn - ar ffurf rhyw fodel - a fyddai'n diogelu cefnogaeth y gymuned drwy gadw ysgol yn eu cymuned wrth hefyd greu uned addysgol gref, rhesymoli costau gweinyddol, a darparu llwybr effeithiol o'r sector cynradd i'r sector uwchradd". Roedd Cymdeithas yr Iaith yn honni hefyd bod y Cyngor yn "rhagfarnu yn erbyn ffederasiynau". (Gweler y pwynt isod - Ffederasiwn Cefni)

  **Ymateb y Cyngor**
  - Cynhaliwyd y broses ymgynghori yn unol â'r canllawiau statudol yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Rhoddwyd cyfle i'r holl randdeiliaid ymateb i'r cynnig. Fe gafodd bob opsiwn a drafodwyd yn y ddogfen ymgynghori eu gwerthuso'n gyson a thrylwyr yn erbyn y gyrwyr allweddol sef:
  - Mae angen i **safonau** ar draws pob ysgol fod o leiaf yn dda neu'n rhagorol. Yn ogystal â hyn, byddai disgwyl i ysgolion yn yr ardal fod yn y categori gwyrdd, h.y. ysgolion sy'n perfformio'n dda ac angen y lefel isaf o gefnogaeth.
  - Mae'n rhaid i **arweinyddiaeth a rheolaeth** fod yn dda neu'n well ym mhob ysgol. Yn y cyd-destun hwn, mae ar benaethiaid angen digon o amser digyswllt i gydbwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth ag ymrwymiad addysgu.
  - Mae angen i'r **adeilad ysgol** ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a fydd yn annog bob disgybl i gyflawni eu potensial ar draws pob maes dysgu. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant ag anableddau.
  - Mae angen i **leoedd ysgol digonol** fod ar gael yn yr ardal i gwrdd â galw presennol, rhagolygon niferoedd y dyfodol yn ogystal â lleihau lleoedd gweigion. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau symudiad disgyblion o'r tu mewn a thu allan i'r dalgylch os oes modd.
  - Bydd angen i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal fod yn **gost effeithlon** h.y. mae angen lleihau'r costau refeniw ac unrhyw gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws ysgolion unigol.
  - Bydd angen o leiaf cynnal **darpariaeth cyfrwng Cymraeg** a'i gwella.
  - Mae angen cynnal **defnydd cymunedol** o adeiladau ysgol a chyfleusterau cysylltiedig, a'i gynyddu lle bo'n bosibl.

Ar 25 Tachwedd 2019, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i: “gadarnhau’n derfynol y cynnig i ffedereiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre”. Felly mae gan yr Awdurdod ar hyn o bryd ffederasiwn o ysgolion ar waith, sef Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre. Dechreuodd y ffederasiwn hwn weithredu yn Ionawr 2020. Nid yw’r Awdurdod yn rhagfarnu yn erbyn ffederasiynau. Yn wir, mae’r enghraifft uchod yn dangos ei barodrwydd i ffurfio ffederasiynau, yn yr achos hwn, ffederasiwn Gwêl y Glannau.

- **Ffederasiwn Cefni**
  Cynigiodd Cymdeithas yr Iaith opsiwn arall: “Byddai creu Ffederasiwn Cefni yn cynnwys yr ysgol uwchradd, ysgol(ion) cynradd y dref ac ysgolion Bodffordd a Thalwrn yn creu uned addysgol gref ac arloesol a allai fod yn gynllun peilot ar gyfer Cymru wledig, a fyddai’n ticio holl flychau strategol y llywodraeth ganolog yn nhermau denu cymorth ariannol.”

  **Ymateb y Cyngor**
  Trafodwyd yr opsiwn hwn yn fanwl yn adran 6.3.10 o’r Ddogfen Ymgynghori ac fe’i dadansoddir ymhellach yn yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad. Fodd bynnag, mae’r Cyngor wedi datgan yn gyson na fyddai’r opsiwn hwn yn mynd i’r afael â’r:
  - angen am ragor o leoedd ysgol yn Llangefni – dengys rhagamcanion disgyblion sy’n cynnwys disgyblion o ddatblygiadau tai newydd ei bod yn debygol y bydd 764 o ddisgyblion yn y 4 ysgol gynradd (Bodffordd, Corn Hir, Talwrn a’r Graig) tra bo capasiti presennol y pedair ysgol gynradd yn darparu 646 o leoedd, **sy’n golygu diffyg o 118 o leoedd**.
  - gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar bob un o’r ysgolion - y gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar bob un o’r 4 ysgol gynradd ac Ysgol Gyfun Llangefni yw £4,385,500. **Ni fyddai** cynnig Cymdeithas yr Iaith **yn arwain at leihau’r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol.**
  - safon yr adeiladau ysgol – mae gan Ysgol Y Graig radd cyflwr o A, mae gan Ysgol Talwrn radd cyflwr o B, mae gan Ysgol Bodffordd radd cyflwr o B, mae gan Ysgol Corn Hir radd cyflwr o C, ac mae gan Ysgol Gyfun Llangefni radd cyflwr o C. **Ni fyddai** cynnig Cymdeithas yr Iaith **yn arwain at welliannau yn safon yr adeiladau ysgol heb becyn cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru i wireddu’r gwelliannau hyn.**
  - amrywiad yn y gost fesul disgybl a chydraddoldeb darpariaeth – **ni fyddai’n mynd i’r afael â’r gost fesul disgybl a byddai’n aros yr un fath ag ydyw ar hyn o bryd, lle mae rhai plant yn derbyn tua £1,000 y pen yn fwy na phlant cyfatebol mewn ysgolion eraill** h.y:
    - Ysgol Bodffordd 2019/20=£4,274
    - Ysgol Corn Hir 2019/20=£3,587
    - Ysgol Y Graig 2019/20 = £3,429
    - Ysgol Talwrn 2019/20 = £4,553
    - Ysgol Gyfun Llangefni 2019/20= £5,039

    Byddai Ysgol y Graig yn parhau i gwrdd â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, tra na fyddai’r 3 ysgol gynradd arall yn cwrdd â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010

  Mae’r Cyngor felly’n gwrthod y cynnig hwn fel opsiwn amgen rhesymol.

**5.4 Ymateb gan Lywodraethwyr Ysgol Y Graig**

**5.4.1 Pryder y gallai'r ysgol ddod yn 2 ysgol**
**Ymateb y Cyngor**
Trafodir hyn ymhellach yn adran 5.2.10. Byddai'r uwch dîm arweinyddiaeth yn Ysgol Y Graig yn gyfrifol am oruchwylio'r dulliau addysgu, ac am sicrhau bod gan athrawon Cyfnod Allweddol 2 ddealltwriaeth dda o lefelau datblygiad disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Gallai'r uwch dîm arweinyddiaeth hefyd drefnu gweithgareddau sy'n dod ag athrawon a disgyblion y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ynghyd, i wneud y trosglwyddiad o'r Cyfnod Sylfaen mor ddi-dor ag y byddai mewn unrhyw ysgol arall. Byddai'r bloc Cyfnod Sylfaen newydd wedi'i leoli o fewn tua 90 metr o adeilad Cyfnod Allweddol 2, a fydd yn ei gwneud yn haws rheoli 2 adeilad ar wahân, a bydd yn lleihau'r problemau logistaidd i rieni. Byddai monitro a chymorth gan Wasanaeth Addysg y Cyngor yn parhau, a byddai'r gwasanaeth addysg rhanbarthol, GwE, hefyd yn parhau i fonitro safonau yn yr ysgol.
Rhaid nodi, os yw'n destun pryder i ysgol gael 2 floc gwahanol o fewn 90 metr i'w gilydd, byddai'n creu hyd yn oed mwy o bryder mewn ffederasiwn o 4 neu 5 ysgol, gydag un pennaeth, fel y cynigir gan rai rhanddeiliaid.

**5.4.2 Y sefyllfa o ran traffig a pharcio**
**Ymateb y Cyngor**
Trafodir hyn ymhellach yn adran 5.2.1. Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, bydd creu Uned Cyfnod Sylfaen ar safle newydd yn creu **cyfle** i ddatrys y problemau parcio presennol fel rhan o'r cynllun newydd. Dim ond trwy trwy gynyddu arwynebedd y safle i gynnwys darpariaeth barcio ychwanegol gellir gwneud hyn. Bydd angen i'r Cais Cynllunio ar gyfer yr Uned Cyfnod Sylfaen newydd ddangos sut y gellir datrys y problemau parcio presennol er mwyn cael cefnogaeth yr Adran Priffyrdd. Os gweithredir y cynnig hwn, mae'n gyfle i liniaru'r pryderon hyn o ganlyniad i'r gwaith gwella arfaethedig.

Cynhelir Asesiad Effaith Traffig a bydd yn ffurfio rhan o'r Cais Cynllunio. Datblygir y cynigion gyda staff y Cyngor, Ymgynghorydd Effaith Traffig, Pensaer Tirwedd a Pheiriannydd Sifil. Datblygir y cynllun hefyd mewn ymgynghoriad â swyddogion o'r Adran Priffyrdd, cyn cyflwyno'r cais.

Bydd datblygu'r Uned ar safle newydd yn caniatáu datrys y problemau parcio presennol fel rhan o'r cynllun newydd. Ni ellir ond cyflawni hyn trwy gynyddu arwynebedd y safle i gynnwys darpariaeth barcio ychwanegol. Bydd angen i'r Cais Cynllunio ddangos sut y gellir datrys y problemau parcio presennol er mwyn cael cefnogaeth yr Adran Priffyrdd.

**5.4.3 Mae rhai disgyblion yn gwneud yn well mewn ysgol lai – pryder na fydd disgyblion o ysgolion bach yn dygymod ag Ysgol Y Graig**

**Ymateb y Cyngor**
Yn achos bod disgybl yn ei chael yn anodd dygymod yn yr Ysgol y Graig ehangedig, byddai'r uwch dîm arweinyddiaeth yn Ysgol Y Graig, o dan oruchwyliaeth y Corff Llywodraethu, yn gyfrifol am oruchwylio'r dulliau addysgu ac am sicrhau bod an yr holl athrawon ddealltwriaeth dda o'r mater ynghyd â lefelau datblygiad y disgyblion, i alluogi pob disgybl i ddygymod â'i amgylchedd newydd.

Mae'r Cyngor wedi agor tair ysgol gynradd newydd yn Môn ers 2017, sef Ysgol Cybi, Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Santes Dwynwen. Mynegodd penaethiaid yr

ysgolion cynradd newydd hyn, o'u profiad hwy, bod y disgyblion wedi dygymod yn dda â'r trefniadau newydd.

**5.4.4 Effaith y cynnig ar y Gymraeg a'r Eisteddfod leol**

**Ymateb y Cyngor**
Mae data CYBLD 2019 yn amlygu bod canran y disgyblion sy'n siarad y Gymraeg yn rhugl yn y cartref yn uwch yn Ysgol Y Graig (59%) nag ydyw yn Ysgol Talwrn (40%).

O ran y Gymraeg, nid oes gwahaniaeth clir rhwng cyflawniadau disgyblion Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig rhwng 2015 a 2017.

Ar dudalen 21 o'r Asesiad Effaith oedd ynghlwm i'r Ddogfen Ymgynghori, nodwyd yn adran 3.5.6:
*"Bydd yr ysgol ehangedig arfaethedig yn ysgol gymunedol, cyfrwng Cymraeg. Bydd yn flaenoriaeth i'r Awdurdod gryfhau a diogelu'r iaith Gymraeg ac addysg ddwyieithog."*

Felly, os gweithredir y cynnig, cyfrifoldeb y tîm arweinyddiaeth yn yr Ysgol Y Graig ehangedig arfaethedig fydd hybu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg gan y disgyblion yn ystod oriau'r ysgol. Byddai'r Ysgol Y Graig ehangedig arfaethedig yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac ar iard yr ysgol, yn unol â Siarter Iaith Gymraeg yr Awdurdod.

Dealla'r Cyngor fod eisteddfod y pentref yn cael ei chynnal yn neuadd y pentref. Os gweithredir y cynnig, gellid parhau i gynnal yr eisteddfod y pentref yno.

**5.4.5 Byddem yn hoffi pe bai'r Awdurdod yn rhannu ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran moderneiddio ysgolion**

**Ymateb y Cyngor**
Roedd Strategaeth Moderneiddio Ysgolion yr Awdurdod yn destun ymgynghoriad â phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr pob un o'r 49 ysgol oedd yn bodoli ar y pryd. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o 5 mis, o 30 Ebrill 2018 i 30 Medi 2018. Yn dilyn craffu ar y strategaeth ym Mhwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y Cyngor, fe'i cymeradwywyd gan Bwyllgor Gwaith yr Cyngor ar 15 Hydref 2018. Cyhoeddwyd Strategaeth Moderneiddio Ysgolion yr Awdurdod ar ôl ei chymeradwyo ac mae'r Strategaeth yn parhau i fod yn ddogfen gyhoeddus.

**5.4.6 Pam edrych ar 2 ysgol wledig gyda nifer fechan o leoedd gweigion yn hytrach nag ysgol gynradd gyda nifer uwch o lawer o leoedd gweigion?**

**Ymateb y Cyngor**
Mae'r cynnig hwn yn rhan o Raglen Moderneiddio Ysgolion ehangach. Yn wir, gall ysgolion cynradd eraill ym Môn, a chanddynt fwy o leoedd gweigion, fod yn rhan o'r rhaglen yn y dyfodol. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r ddarpariaeth yn Llangefni oherwydd y diffyg lleoedd yn yr ysgolion.

**5.4.7 Opsiwn amgen rhesymol – adeiladu trydedd ysgol gynradd yn Llangefni**

**Ymateb y Cyngor**
Dyma fanteision ac anfanteision yr opsiwn amgen rhesymol hwn:

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| ▪ Gallai osod safonau da o'r cychwyn cyntaf. Gall fod yn bosibl sicrhau na fydd ystod oedran y dosbarthiadau'n ddim mwy na dwy flynedd. | |
| ▪ Mae'r ysgol yn debygol o fod â mwy o arbenigedd a chapasiti i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy bregus a'r disgyblion mwy abl a thalentog.<br>▪ Posibilrwydd o ddatblygu cysondeb o ran methodoleg addysgu a dysgu o'r cychwyn cyntaf.<br>▪ Ni fydd unrhyw lywodraethwyr a phenaethiaid profiadol yn cael eu colli. | |
| ▪ Byddai'r ysgol yn cwrdd â safonau 21ain ganrif a byddai'n amgylchedd dysgu ysbrydoledig i ddisgyblion.<br>▪ Byddai dyluniad yr ysgol yn creu amgylcheddau dysgu addas y tu allan, a byddai'n cael ei dylunio i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru (CiG). | |
| ▪ Byddai'n debygol o ddarparu 150 o leoedd ysgol gynradd, sef yr un cyfanswm o leoedd ysgol ag y byddai'r cynnig yn ei ddarparu pe'i gweithredir. Byddai'n darparu lleoedd digonol i ddiwallu'r galw cyfredol a rhagamcanion y dyfodol. | ▪ Byddai'n anodd iawn canfod safle 5 erw ar gyfer ysgol gynradd newydd nad oedd yn rhy agos i Ysgol Y Graig ond a fyddai o fewn ffiniau datblygu Llangefni.<br>▪ Gallai hyn hefyd greu gormod o leoedd gweigion. |
| ▪ Ni ragwelir unrhyw gostau cludiant ychwanegol. | ▪ Cost cyfalaf uchel i'r awdurdod, y byddai cyfran sylweddol ohoni'n cael ei hariannu trwy fenthyca digymorth.<br>▪ Mae'n debygol y byddai'r gyllideb a ddirprwyir i ysgolion yn cynyddu.<br>▪ Byddai'r ôl-groniad costau cynnal a chadw o £360,000 yn Ysgol Talwrn a £48,500 yn Ysgol y Graig yn parhau.<br>▪ Byddai'r gost fesul disgybl yn tua £4,610 y pen, sy'n uwch na chyfartaledd Ynys Môn o £3,988. |
| ▪ Yn cynnal y ddarpariaeth. | |
| ▪ Cyfleuster newydd posibl er budd y gymuned.<br>▪ Ni fyddai unrhyw adeiladau cymunedol yn cael eu colli. | |

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| | ▪ Gallai brofi'n anodd i'w orfodi gan fod Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu. |

Byddai'r opsiwn amgen rhesymol hwn yn golygu:

- Byddai angen newid y dalgylchoedd er mwyn i'r nifer ofynnol o ddisgyblion fynychu'r ysgol newydd bosibl yn Llangefni, tra bo gan rieni hawl cyfreithiol i benderfynu pa ysgol y gall eu plentyn/plant ei mynychu.
- Ar y cychwyn, gallai'r opsiwn amgen hwn greu gormodedd o leoedd gweigion.
- Byddai'n anodd iawn canfod safle 5 erw i ysgol gynradd newydd nad oedd yn rhy agos i Ysgol Y Graig ond a fyddai o fewn ffiniau datblygu Llangefni.

Mae'r Cyngor felly'n gwrthod y cynnig hwn fel opsiwn amgen rhesymol.

### 5.4.8 Byddai'r ysgol gynradd newydd arfaethedig yn llenwi'n gyflym?

**Ymateb y Cyngor**

Trafodir y pwynt hwn yn adran 5.4 o'r Ddogfen Ymgynghori. Mae'r Awdurdod o'r farn y byddai'r cynnig sydd dan ystyriaeth yn darparu lleoedd digonol ar gyfer uchafbwynt niferoedd y disgyblion yn yr ysgol yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, h.y. 419. Mae'r rhif hwn yn tarddu o'r ystyriaethau a ganlyn:

Rhwng 2019 a 2024, rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn Ysgol Talwrn yn gostwng o 40 i 37 sy'n ostyngiad o 8%. Yn ystod yr un cyfnod amser, rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn Ysgol y Graig yn cynyddu o 324 i 334 sy'n gynnydd o 3%. Mae'r rhagolygon yn cadarnhau y bydd nifer y disgyblion yn cynyddu i gyfanswm o 371 yn y ddwy ysgol erbyn 2024.

Hefyd, mae angen ystyried datblygiadau tai newydd yn y dalgylch a'r plant oed ysgol gynradd a fydd yn codi o'r rhain. Dangosir nifer y plant oed ysgol gynradd sy'n deillio o'r datblygiadau tai newydd yn y tabl isod:

| Ysgol | Datblygiadau tai arfaethedig yn y dalgylch hyd at 2026 | Nifer gyfatebol y plant* |
|---|---|---|
| Y Graig | 397 | 67 - 143 |
| Talwrn | 6 | 1 - 2 |

* Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan bob tŷ yn Ynys Môn 0.17 o blant o oedran ysgol gynradd ar gyfartaledd. Mae lluosi nifer y datblygiadau tai â 0.17, yn rhoi amcangyfrif o nifer y plant ychwanegol y bydd angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno. Fodd bynnag, yn ward Tudur, mae 0.36 o blant oed ysgol gynradd ar gyfartaledd ym mhob tŷ a gall hyn arwain at gyfanswm o 145 o ddisgyblion yn deillio o'r datblygiadau tai newydd.

Er bod y datblygiadau tai arfaethedig yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, mae yna nifer o ffactorau sy'n effeithio p'un a fydd y datblygiadau arfaethedig hyn yn symud ymlaen yn y broses gynllunio fel a ganlyn. Yn gyntaf, byddai angen eu hasesu i benderfynu a fyddai'r datblygiad(au) arfaethedig yn cwrdd â'r gofynion er mwyn gallu ceisio caniatâd cynllunio ac yna a fyddai caniatâd cynllunio (sy'n ddilys am 5 mlynedd) yn cael ei roi. Hynny yw, amcangyfrif yw

nifer y tai yn y tabl uchod ac nid yw'n sicrwydd y bydd yr holl dai hyn yn cael eu hadeiladu erbyn 2027. Pe bai'r datblygiadau tai arfaethedig hyn yn cael eu hadeiladu, byddai'r datblygwr yn debygol iawn o'u hadeiladu fesul cam. Byddai hyn yn golygu y byddai nifer y disgyblion yn cynyddu'n raddol ac NI fyddai'n golygu y byddai'r nifer uchaf o ddisgyblion h.y. 145 (143 + 2 = 145, o'r tabl uchod) yn dechrau mynychu'r ysgol ar yr un pryd.

Mae'r tabl isod yn dangos y niferoedd disgwyliedig o ddisgyblion yn Ysgol ehangedig arfaethedig y Graig hyd at Fedi 2027, gan ystyried uchafswm y datblygiadau tai arfaethedig a grybwyllir uchod.

| | **Nifer ragamcanol ar y gofrestr ym mis Medi** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** | **2027** |
| Ysgol Y Graig ehangedig | 383 | 404 | 407 | 418 | 419 |

Mae'n bwysig nodi bod rhagamcanion yn anodd gan fod nifer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion o ddalgylchoedd eraill. Ym mis Hydref 2019, roedd gan Ysgol Talwrn 14% o leoedd dros ben, er bod 17% (7 disgybl) o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn yn dod o ddalgylch Corn Hir, ac mae 31% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn (13 disgybl) yn dod o ddalgylch Ysgol Y Graig.

Gall rhieni hefyd ddewis anfon eu plentyn / plant i ba ysgol bynnag y maent yn dymuno.

### 5.5 Ymateb gan Lywodraethwr o Ysgol Talwrn

**5.5.1 Yn gyntaf, dywedodd y Llywodraethwr bod y Cyngor yn cymryd arno ei fod yn ymgynghori**

**Nodir isod ymateb y Cyngor i ddatganiad o'r fath:**
Cynhaliwyd y broses ymgynghori'n unol â chanllawiau statudol Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fel y disgrifir yn y tabl isod:

| **Gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018** | **Camau a gymerwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn** |
|---|---|
| Cyhoeddi dogfen ymgynghori ar ffurf copi caled ac ar ffurf electronig ar eu gwefan | Cyhoeddwyd ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn ar 6 Chwefror 2020 ac mae ar gael ar ffurf copi caled |
| **Rhaid** cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol | Fe'i cyhoeddwyd ar 6 Chwefror 2020, **diwrnod ysgol** yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig |
| **Rhaid** rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i bobl ymateb i'r ddogfen | Rhoddwyd o 6 Chwefror 2020 tan 20 Mawrth 2020 i'r ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen – **o leiaf 42 diwrnod** |
| Rhaid rhoi gwybod i ymgyngoreion drwy lythyr neu e-bost bod y ddogfen ymgynghori ar gael | **Rhoddwyd gwybod** i'r ymgyngoreion a restrir yn adran 3.1 o'r Ddogfen Ymgynghori **drwy e-bost** bod y ddogfen ymgynghori ar gael |

Mae'r tabl uchod yn dangos sut mae'r Awdurdod wedi dilyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac nad "cymryd arno" ei fod yn ymgynghori oedd o. Mae'r Awdurdod wedi cyflawni gwerthusiad cynhwysfawr o gymaint o opsiynau amgen rhesymol ag y bo modd yn erbyn y gyrwyr allweddol a nodwyd o fewn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion. Cynhaliodd y Cyngor gyfarfodydd cyhoeddus gyda rhanddeiliaid o'r holl ysgolion a effeithir, nad yw'n un o ofynion y cod. Cafodd unrhyw sylwadau eu hystyried yn ofalus a darparwyd ymateb iddynt o fewn y ddogfen hon, ynghyd â gwerthusiad llawn o unrhyw opsiynau amgen newydd a awgrymwyd gan randdeiliaid.
Byddir yn parhau i ddilyn y gweithdrefnau a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel y mae'r broses yn parhau.

**5.5.2 Yn ail, dywedodd y Llywodraethwr "Ni ellir ymddiried yn ffigurau'r Awdurdod ar gyfer datblygiadau tai"**

**Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor yn datgan -**
Datblygwyd y cynnig nid yn unig i gymryd disgyblion ychwanegol o ddatblygiadau tai y cyflwynwyd ceisiadau cynllunio ar eu cyfer, ond mae hefyd wedi ystyried data sy'n cael ei ddal gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, fel dyraniadau tai ar gyfer ardal Llangefni. Roedd adran 5.4 o'r Ddogfen Ymgynghori'n rhoi disgrifiad manwl o effeithiau posibl y datblygiadau tai hyn yn Llangefni ar yr Ysgol Y Graig ehangedig arfaethedig. Roedd y Ddogfen Ymgynghori'n amlinellu y byddai nifer ragamcanol y disgyblion yn Ysgol y Graig yn 383 ym Medi 2023 ac y byddai uchafswm o 419 ym Medi 2027. Daethpwyd i'r casgliad y byddai digon o leoedd yn yr ysgol i ddisgyblion ychwanegol ac y byddai'n caniatau cynnydd o 13% yn nifer ragamcanol bresennol y disgyblion.

Rhoddodd y cynnig sylw hefyd i nifer y plant 3-11 oed fesul aelwyd ym mhob ward unigol ar ddyddiad y cyfrifiad diwethaf.

Fodd bynnag, bydd bob amser yn anodd penderfynu nifer ragamcanol gywir y disgyblion mewn ysgol, oherwydd dewis rhieni o ran pa ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn debygol o leihau nifer y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sydd yn ardal y Graig / Talwrn.
Os cymeradwyir y cynnig, dylunnir yr Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig i ganiatáu estyniad pellach yn y dyfodol ar gyfer 2 ystafell ddosbarth, a fydd yn diogelu datblygiad yr ysgol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**5.5.3 Yn drydydd, roedd y Llywodraethwr yn honni mai ar y Cyngor y mae'r bai am beidio â chynnal a chadw adeilad Talwrn**

**Mewn ymateb i'r honiad hwn, mae'r Cyngor yn nodi -**

Nid oes gan y Cyngor yr adnoddau ariannol i gynnal 40 ysgol gynradd, 5 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig i'r lefel a fynnir yn yr hinsawdd bresennol, ac yn dilyn blynyddoedd o gyni ariannol.

Mae'r Cyngor yn cynnal arolwg blynyddol o gyflwr bob ysgol, ac mae'r gwaith a fynnir ym mhob ysgol yn cael ei gategoreiddio (A-D) yn ôl blaenoriaeth am y gwaith, gan ystyried agweddau fel cyflwr yr ased, ac ystyriaethau iechyd a diogelwch. Bydd

gwaith a nodwyd ar gyfer categori D a C yn cael ei flaenoriaethu, tra na fydd gwaith a nodwyd, sy'n dod o fewn categorïau B ac A ond yn cael ei wneud os oes arian yn weddill ar ôl cwblhau'r holl waith yng nghategorïau D a C.

Cyfanswm gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yr holl ysgolion yw tua £22m. Cyfanswm cost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol Ysgol Talwrn yw £360,000 – sef tua 1.6% o'r cyfanswm.

Mae'r tabl isod yn amlygu'r gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar gyfer yr 8 adeilad ym Môn sydd ag arwynebedd o lai na 600m$^2$ (at ddibenion y tabl hwn, nid yw'r gost sy'n gysylltiedig â'r 'Portacabin' yn Ysgol Talwrn wedi'i gynnwys):

| **Ysgol** | **Niferoedd Disgyblion CYBLD 2019** | **Arwynebedd (m$^2$)** | **Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol** |
|---|---|---|---|
| Bodffordd | 70 | 470 | £134,000 |
| Talwrn | 45 | 302 | £110,000 |
| Carreglefn | 23 | 224 | £46,500 |
| Llanbedrgoch | 24 | 320 | £168,500 |
| Llangoed | 69 | 572 | £114,000 |
| Henblas | 86 | 533 | £138,000 |
| Pencarnisiog | 69 | 575 | £98,000 |
| Rhosybol | 58 | 551 | £96,500 |
| **Cyfartaledd** | **56** | **443** | **£113,250** |

Mae'r ffigurau ar gyfer 'Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol' a gynhwysir o fewn y tabl hwn yn cynnwys gwariant fel a ganlyn, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hyn:

- Ailwynebu iardiau ysgol / meysydd parcio
- Gwaith ailbaentio mewnol ac allanol
- Gosod drysau a ffenestri newydd
- Adnewyddu ceginau, ystafelloedd dosbarth, toiledau ac ati
- Ffensys, giatiau a systemau mynediad newydd eraill
- Gosod goleuadau newydd
- Ailweirio
- Gosod toeau newydd

Dengys y tabl hwn bod y gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yn Ysgol Talwrn yn cymharu ag adeiladau ysgol eraill o faint tebyg. Dengys hyn na chafodd Ysgol Talwrn ei thrin yn llai ffafriol nag ysgolion eraill.

**5.5.4 Yn bedwerydd, honnodd y Llywodraethwr bod cyllid ar gael i addasu ac ehangu'r ysgol**

**Mae ymateb y Cyngor yn nodi -**

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, byddai'n rhaid i unrhyw brosiect moderneiddio posibl ar gyfer Ysgol Talwrn gyflawni'r heriau allweddol ar gyfer Ysgol Talwrn. Y rhain yw:

- Niferoedd disgyblion
- Cyfwyno'r cwricwlwm
- Y gost fesul disgybl
- Adeilad yr ysgol
- Safonau
- Ymrwymiad addysgu'r pennaeth **YNGHYD Â**
- Cyllid

Tra gallai'r opsiwn amgen rhesymol hwn gael effaith gadarnhaol ar rai o'r heriau allweddol a nodir uchod, gallai waethygu'r sefyllfa o ran niferoedd disgyblion a lleoedd gweigion. Gallai'r modd y cyflwynir y cwricwlwm wella ond byddai safonau addysgol ac ymrwymiad addysgu'r pennaeth yn debygol o barhau'r un fath o ganlyniad i'r opsiwn amgen hwn. Byddai'r rhan o Ysgol Talwrn lle mae'r estyniad yn cyflawni safonau adeiladu presennol, ond byddai'r gost fesul disgybl yn debygol o gynyddu.

Nid yw'r cyllid ar gyfer Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru'n cynnwys cyllid ar gyfer "gwaith atgyweirio a chynnal a chadw arferol", ac mae cyllid y Rhaglen Ysgolion ac Addysg 21ain Ganrif wedi'i dargedu i gefnogi gwaith "ailfodelu ac ailadeiladu".

**5.5.5 Yn ogystal, honnwyd nad oedd unrhyw fanylion i gefnogi'r £100k o waith cynnal a chadw a fynnir er mwyn cael ystafell ddosbarth newydd dros dro**

**Mae ymateb y Cyngor fel a ganlyn -**

Mae adran 5.2.10 o'r adroddiad yn ymhelaethu ar y pwynt hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y Cyngor wedi darparu dadansoddiad i lywodraethwr yn Ysgol Talwrn o gostau cynnal a chadw Ysgol Talwrn, gan gynnwys cost caffael a gosod ystafell ddosbarth symudol newydd ar y safle.

Gellir dadansoddi'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 a nodir o fewn y Ddogfen Ymgynghori fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwaith mewnol | £29,500 |
| Gwaith allanol | £80,500 |
| Ystafell ddosbarth newydd dros dro | £250,000 |

Derbyniwyd pris ar gyfer ystafell ddosbarth dros dro o faint tebyg gan y Cyngor yn Awst 2019 ac roedd y pris amcangyfrifiedig yn dod i gyfanswm o £308,000. Roedd hyn yn cynnwys £185k ar gyfer yr ystafell ddosbarth symudol, £11k ar gyfer offer ychwanegol a £112k ar gyfer gwaith sylfaen a chysylltu'r ystafell ddosbarth symudol â'r gwasanaethau cyfleustodau. Darparwyd copi o'r pris hwn i'r Llywodraethwr ar ei gais ef, a hynny drwy e-bost ar 24 Chwefror 2020 am 14:21.

Gellir dadansoddi'r cyfanswm o £29,500 ar gyfer gwaith mewnol ymhellach, fel yr amlinellir isod:

| Gwaith mewnol | Cost (£) |
|---|---|
| Gosod uned drws a ffenestr newydd i'r neuadd | 4,500 |
| Adnewyddu'r gegin yn rhannol | 25,000 |

Gellir dadansoddi'r cyfanswm o £80,500 ar gyfer gwaith allanol ymhellach, fel yr amlinellir isod:

| Gwaith allanol | Cost (£) |
|---|---|
| Ailwynebu iard yr ysgol | 24,400 |
| Ailbwyntio'r gwaith cerrig ar wedd flaen (yr adeilad) | 10,000 |
| Ailbaentio'r tu allan i gyd | 4,000 |
| Ailwynebu maes parcio'r staff | 5,100 |
| Gosod rheiliau dur galfanedig newydd ar wedd flaen yr adeilad yn lle'r rhai dur sydd wedi pydru | 3,000 |
| Tynnu'r cerrig crynion sydd wedi'u gosod mewn concrid o amgylch perimedr cefn yr adeilad a gosod tarmac yn eu lle | 15,000 |
| Darparu ffens, giât a system drws mynediad newydd ar ochr yr ysgol | 2,500 |
| Gosod estyll talcen newydd yn lle'r rhai sydd wedi pydru ar wedd flaen yr adeilad | 1,500 |
| Gosod cladin tafod a rhigol (T & G) pren newydd | 15,000 |

**5.5.6 Roedd y llywodraethwr hefyd yn cwestiynu p'un a yw benthyca dros gyfnod o 50 mlynedd yn benderfyniad call ar gyfer adeilad sy'n dirywio dros gyfnod 30 mlynedd?**

**Yn yr ymateb, mae'r Cyngor yn datgan:**

Mae'r Cyngor yn ystyried mai oes economaidd ddefnyddiol adeiladau ysgol yw 50 mlynedd. Felly, mae'r cyfrifiadau o ran benthyca yn seiliedig ar y cyfnod 50 mlynedd hwn. Roedd cyfrifiadau a ddefnyddir mewn achosion busnes ar gyfer adeiladau ysgol newydd fel Ysgol Cybi, Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Santes Dwynwen yn seiliedig ar y cyfnod 50 mlynedd hwn o ran oes economaidd ddefnyddiol adeiladau. Mae'r dull hwn yn gyfarwydd iawn ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r dull hwn o gyfrifo costau benthyca.

**5.5.7 Roedd y llywodraethwr yn honni y byddai cau Ysgol Talwrn yn golygu y byddai eisteddfod y pentref yn dod i ben**

**Ymateb y Cyngor**

Yn seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd ganddo, mae'r Cyngor yn deall y cynhelir yr eisteddfod yn neuadd y pentref. Os gweithredir y cynnig, gellid parhau i gynnal yr eisteddfod yno.

**5.5.8 Dewis amgen – ffedereiddio ag Ysgol Llanbedrgoch**

**Ymateb y Cyngor**

Ceir gwerthusiad o'r opsiwn amgen rhesymol hwn yn adran 6.2 o'r ddogfen hon. Fodd bynnag, nid yw Ysgol Llanbedrgoch yn rhan o'r ymgynghoriad ond efallai y bydd yn cael ei hystyried o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn y dyfodol. Nid oedd yr opsiwn yn cyflawni gyrwyr allweddol y rhaglen moderneiddio ysgolion ar gyfer ardal Llangefni, ac fel y cyfryw ni fydd yn cael ei hystyried ymhellach.

**5.5.9 Nododd y llywodraethwr hefyd "nad oedd disgyblion yn cael llais mewn unrhyw fater arall oedd yn eu heffeithio"**

**Mae'r Cyngor yn dadlau'n gryf yn erbyn yr honiad hwn, ac yn amlygu -**

Adran 5.7 o'r adroddiad hwn sy'n amlinellu'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan swyddogion y Cyngor gyda disgyblion yr ysgolion a effeithir, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac mewn partneriaeth o dan arweiniad y pennaeth perthnasol.

Amlinellir y gofynion hyn yn y tabl isod:

| **Gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018** | **Camau a gymerwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn** |
|---|---|
| Gwneud trefniadau addas hefyd i ymgynghori â disgyblion unrhyw ysgol y bydd y cynigion yn effeithio arni a, lle y bo'n bosibl, blant a phobl ifanc sy'n debygol o fynychu'r ysgolion hynny | Yn ystod y cyfnod ymgynghori, ymwelodd swyddogion y Cyngor ag Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig i ganfod barnau'r disgyblion am y cynnig |
| **Rhaid** i hyn gynnwys, man lleiaf, ymgynghoriad â chynghorau ysgol yr ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt, a **dylai** hefyd gynnwys ymgynghoriad â dysgwyr unigol pan fydd hyn yn briodol ac yn ymarferol | Bu swyddogion o'r Cyngor yn cyfarfod gyda'r ddau gyngor ysgol a disgyblion eraill yn ystod y cyfnod ymgynghori |
| **Rhaid** i'r wybodaeth a roddir i blant a phobl ifanc gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n berthnasol i'w hoedran a'u lefel ddealltwriaeth debygol a'u galluogi i lunio barn ddeallus | Roedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn fersiwn y plant o'r ddogfen ymgynghori yn briodol ac yn berthnasol i'w hoedran a'u lefel ddealltwriaeth debygol, ac mae'n eu galluogi i lunio barn ddeallus. Ymgynghorwyd yn ei chylch gyda'r penaethiaid perthnasol mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 a 24 Ionawr 2020. |
| **Dylai** cynigwyr gyfeirio at Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc a gweithredu'n unol â hwy | Cyfeiriodd swyddogion y Cyngor at y safonau yn Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc a gweithredodd yn unol â hwy. Dyma'r safonau a amlinellir yn y ddogfen:<br>• Gwybodaeth<br>• Chi biau'r dewis<br>• Dim gwahaniaethu<br>• Parch<br>• Bod ar eich ennill<br>• Adborth<br>• Gweithio'n well drosoch chi |
| Cynhyrchu a dosbarthu fersiwn neu fersiynau o'r ddogfen ymgynghori sy'n briodol i oed/oedrannau'r plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt | Cynhyrchwyd a dosbarthwyd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori oedd yn briodol i oedran/oedrannau'r plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt. |

**5.5.10 Cyfansoddiad y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith – a oes gan aelodau gymwysterau mewn addysg ac agweddau ariannol? A oes ganddynt arbenigedd yn y meysydd hyn?**

**Mae ymateb y Cyngor yn nodi:**

Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud darpariaeth ar lefel leol i gyflawni'r gofyn statudol i sicrhau bod buddiannau penodol yn cael eu cynrychioli ar ei bwyllgorau sgriwtini wrth ystyried materion addysg/dysgu. Y rhain yw:
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru
- Rhiant Lywodraethwyr ysgol gynradd
- Rhiant Lywodraethwyr ysgol uwchradd/anghenion dysgu ychwanegol

Gall y pwynt a wneir uchod fod yn cyfeirio at y ffaith y bu 2 o'r 4 sedd yn wag am gyfnod estynedig (y 2 sedd ar gyfer y rhiant lywodraethwyr). Aethpwyd ati i geisio llenwi'r seddi gwag hyn ddwywaith. Fe gafodd y sedd ar gyfer rhiant lywodraethwr ysgol gynradd ei llenwi yn Rhagfyr 2018, a'r sedd ysgol uwchradd/anghenion dysgu ychwanegol ym Medi 2019.

Diwygiodd y Cyngor Sir reolau sgriwtini y weithdrefn yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019, a gwnaeth y penderfyniad a ganlyn mewn perthynas â'r bumed sedd addysg a oedd yn rhan o aelodaeth y ddau bwyllgor sgriwtini blaenorol:

"PENDERFYNWYD bod y Cyngor:
- yn cytuno i dynnu'r gofyniad i gael 'un cynrychiolydd o gredoau neu enwadau eraill' ar Bwyllgor Sgriwtini pan fydd yn delio â materion Addysg (h.y. pan fydd yn cyfarfod fel Pwyllgor Sgriwtini Awdurdod Addysg Lleol) fel sydd wedi'i gynnwys ar hyn o bryd ym mharagraff 4.5.4.4 y Cyfansoddiad;
- yn awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r ffaith fod y gofyniad a nodir uchod wedi'i dynnu."

**5.5.11 Pryderon Amgylcheddol**

**Ymateb y Cyngor**

Pryder gan rai rhanddeiliaid oedd y byddai cau Ysgol Talwrn yn arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon. Dengys cyfrifiadau na fyddai hyn yn digwydd gan fod dros hanner y disgyblion yn Ysgol Talwrn yn dod i mewn o'r tu allan i'w dalgylch.

**5.5.12 Dyluniad y bloc newydd arfaethedig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen**

Gwnaeth dau randdeiliad sylwadau ar yr hyn yr oeddynt yn meddwl y dylid eu cynnwys yn nyluniad y bloc newydd arfaethedig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sef:

i. Y dylid cael cegin yn y bloc newydd a

ii. Dylai'r rhan bresennol o Ysgol y Graig a ddefnyddir gan y Cyfnod Sylfaen gael ei haddasu fel rhan o'r prosiect arfaethedig.

**Ymateb y Cyngor**

Gwneir penderfyniad ar y ffordd ymlaen gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2020. Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, bydd manylion fel y rhai a nodir yn i a ii uchod ond yn cael eu hystyried bryd hynny.

**5.5.13 Meintiau Dosbarthiadau**

Roedd un rhanddeiliad yn pryderu bod meintiau dosbarthiadau Ysgol Y Graig dros 30 yn nosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2. Dywedodd rhai o rieni disgyblion yn Ysgol Talwrn "nid ydi pob disgybl yn gallu ymdopi mewn ystafelloedd dosbarth o 30+".

**Ymateb y Cyngor**

Tra bo meintiau dosbarthiadau yn Ysgol Y Graig weithiau ychydig dros 30, nid oes terfyn statudol ar faint unrhyw ddosbarth yng Nghyfnod Allweddol 2. Fel arfer, y

prif reswm am ddosbarthiadau o 30+ yw oherwydd cyllidebau ysgol cyfyngedig. Defnyddir cyfran o'r gyllideb ysgol i gynnal adeiladau ysgol (trethi, ynni, glanhau, gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ac ati). Po fwyaf yr adeiladau sydd angen eu cynnal, y lleiaf o gyllideb sydd ar gael i'w wario ar adnoddau eraill fel athrawon. Hefyd, mae'r gost fesul disgybl mewn ysgolion bach yn fwy na hynny mewn ysgolion mwy. Gellir dadlau bod yr ysgolion llai yn derbyn yr hyn sy'n gyfwerth â chyllid ychwanegol i gynnal lleiafswm o lefelau staffio, a bod yr ysgolion mwyaf yn colli allan oherwydd hynny. Gellir dadlau felly y bydd y cynnig yn helpu i leihau nifer y dosbarthiadau sy'n cynnwys mwy na 30 o ddysgwyr.

**5.5.14 Cludiant**

Dywedodd rhai o rieni plant yn Ysgol Talwrn "nad ydynt eisiau plant 4 oed yn mynd i Ysgol Y Graig ar fws" pe bai Ysgol Talwrn yn cau.

**Ymateb y Cyngor**

Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol o ganlyniad i'r cynnig, mae'r Awdurdod yn ymrwymo i ddarparu cludiant i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn ar hyn o bryd i'r Ysgol Y Graig ehangedig, yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion. Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, yna gwneid trefniadau cludiant maes o law. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau cludiant hyn o reidrwydd yn golygu y darperir gwasanaeth bws, gan y gellid darparu gwasanaeth tacsi.

**5.5.15 Ymgynghori**

Dywedodd un rhanddeiliad, "o ganlyniad i'r sefyllfa o ran coronafeirws, bydd angen i'r Cyngor ddechrau'r ymgynghoriad eto".

**Ymateb y Cyngor**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â'r canllawiau statudol yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fel y disgrifir yn y tabl isod:

| Gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 | Camau a gymerwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|
| Cyhoeddi dogfen ymgynghori ar ffurf copi caled ac ar ffurf electronig ar eu gwefan | Cyhoeddwyd ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn ar 6 Chwefror 2020 ac mae ar gael ar ffurf copi caled |
| **Rhaid** cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol | Fe'i cyhoeddwyd ar 6 Chwefror 2020, **diwrnod ysgol** yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig |
| **Rhaid** rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i bobl ymateb i'r ddogfen | Rhoddwyd o 6 Chwefror 2020 tan 20 Mawrth 2020 i'r ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen – **o leiaf 42 diwrnod** |
| Rhaid rhoi gwybod i ymgyngoreion drwy lythyr neu e-bost bod y ddogfen ymgynghori ar gael | **Rhoddwyd gwybod** i'r ymgyngoreion a restrir yn adran 3.1 o'r Ddogfen Ymgynghori **drwy e-bost** bod y ddogfen ymgynghori ar gael |

Dengys y tabl uchod sut y mae'r Awdurdod wedi dilyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Fe gaeodd ysgolion ledled Cymru ar ddiwedd y diwrnod ysgol ar 20 Mawrth 2020, ond diwrnod ysgol llawn oedd hwn (fel y diffinnir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 - "Diffinnir diwrnod ysgol yn adran 579 o Ddeddf Addysg 1996 fel unrhyw ddiwrnod pan fydd sesiwn ysgol yn yr ysgol honno. Gall sesiwn ysgol fod yn sesiwn bore neu'n sesiwn prynhawn, felly mae diwrnod ysgol yn golygu unrhyw ddiwrnod pan fydd yr ysgol yn cyfarfod am y diwrnod cyfan neu am ran o'r diwrnod".) Felly, roedd y cyfnod ymgynghori yn o leiaf 42 diwrnod o hyd, ac mae'n cwrdd â gofynion y Cod.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn nodi bod rhaid cyhoeddi cynigion cyn pen 26 wythnos o ddiwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad, fel arall bydd y cynigion yn methu a **rhaid** cyhoeddi dogfen ymgynghori newydd er mwyn eu hatgyfodi. O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, ni fu hyn yn bosibl. Yn yr achos hwnnw, mae'r Cod yn nodi "**Rhaid** gwneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am estyniad amser cyn i'r cyfnod 26 wythnos ddod i ben a **rhaid** iddo nodi'r rhesymau pam yr ystyrir bod angen estyniad."

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gwneud cais am yr estyniad amser hwn, ac mae Gweinidogion Cymru wedi caniatáu estyniad o 6 mis i gyhoeddi'r cynnig. Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn bellach hyd at 19 Mawrth 2021 i gyhoeddi cynnig heb fod angen ymgymryd ag ymgynghoriad arall.

### 5.6 Llythyr gan staff Ysgol Talwrn

Derbyniwyd llythyr gan staff Ysgol Talwrn oedd yn trafod gwahanol agweddau ar yr ysgol:

1. "Mae'n anodd derbyn y gwnaiff cau Ysgol Talwrn arwain yn uniongyrchol at safonau uwch, gan y barnwyd fod y ddwy ysgol yn Dda".
2. Nid yw'n briodol dweud nad yw athrawon yn yr ysgol yn cael yr un cyfle i ddatblygu'n broffesiynol oherwydd maint yr ysgol.
3. Ni wnaeth yr un o'r ymgynghoriadau blaenorol roi gwir ystyriaeth i ddatrys y sefyllfa, e.e. prynu tir cyfagos i ddatblygu cae chwarae i'r ysgol. Ni roddwyd ystyriaeth i gael gwared â'r ystafell ddosbarth symudol ac ymestyn yr ysgol negyddu'r hawl i groesi'r iard (y tu allan i oriau ysgol) sydd gan ein cymdogion ar hyn o bryd. Mae'r ymgynghoriad neu'r cynnig yn gwbl seiliedig ar y ddadl y dylid cau Ysgol Talwrn a chynyddu capasiti Ysgol y Graig."
4. "Nid yw'r niferoedd a nodir yn yr adroddiad yn gwir adlewyrchu nifer y teuluoedd ifanc yn y pentref".
5. "Nid yw cymharu'r gost y pen o reidrwydd yn darparu darlun llawn a theg o'r sefyllfa"
6. "Byddai'r cynnig yn cael cryn effaith ar y pentref"
7. Roedd y staff yn galw ar y Cyngor i ystyried y canlynol:
    - Moderneiddio Ysgol Talwrn drwy Grant Ysgolion 21ain Ganrif
    - Ffedereiddio Ysgol Talwrn ag Ysgol Llanbedrgoch
    - Newid ffiniau dalgylchoedd Llangefni

**Ymateb y Cyngor**

Bydd y Cyngor yn ymateb i bob pwynt yn y drefn y'u codwyd uchod:

1. Safonau addysgol yw un ffactor o'r saith her allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn yr asesir pob opsiwn yn eu herbyn. Hefyd, safonau addysgol yw un ffactor o'r saith gyrrwr a ddisgrifir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion yr Awdurdod.
2. Yr hyn a olygir yw nad oes cymaint o staff mewn ysgol gynradd fechan i ddatblygu arbenigeddau.

3. Mae'r holl ymgynghoriadau wedi cyfeirio at gost prynu tir cyfagos yn ogystal â'r gost o gaffael ystafell ddosbarth symudol newydd. Pwyllgor Gwaith y Cyngor fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.
4. Nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori fod canran y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn o'r tu allan i'r dalgylch yn 67%. I'r gwrthwyneb, mae llawer o ddisgyblion o bentref Talwrn yn mynychu ysgolion cynradd eraill ym Môn.

5. Cyllid neu'r gost y pen yw un ffactor o'r saith her allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn yr asesir pob opsiwn yn eu herbyn. Hefyd, mae'r gost y pen yn un o'r ffactorau o'r saith gyrrwr a ddisgrifir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion yr Awdurdod.
6. Mae effaith bosibl y cynnig, y cyfeirir ati gan y rhanddeiliad yn 5.6.6 uchod, yn cael ei hasesu yn yr Asesiad Effaith ar y Gymuned.
7. Asesir yr opsiynau a gyflwynir yn 5.6.7 uchod yn yr adroddiad hwn.

**5.7 Barnau plant a phobl ifanc**

Ymwelodd swyddogion y Cyngor â'r ddwy ysgol i ganfod eu barnau ar y cynnig. Eglurodd y swyddogion bod y Cyngor yn gyfrifol am ysgolion ym Môn a'u bod yn gweithio fel rhan o dîm i roi cymorth i ysgolion, gyda'r nodau a ganlyn:

- Rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn ddysgu mewn ysgolion rhagorol ar yr ynys.
- Sicrhau adeiladau ysgol diogel a chryf.
- Sicrhau bod arian ar gyfer plant ac ysgolion ym Môn yn cael ei wario'n deg.
- Rhoi'r cyfle i bawb gael llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a sicrhau bod y lleisiau hynny'n cael eu clywed.

Atgoffwyd y plant am Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. 'Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried'.
Eglurwyd y bydd yr wybodaeth a gyflwynir ganddynt yn cael ei throsglwyddo i adroddiad a'i chyflwyno i Gynghorwyr fel rhan o'r Ymgynghoriad Statudol, a fydd wedyn yn gwneud penderfyniad.

Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn i'r plant:

- Beth fyddai'n newid?
- Beth ydych yn ei hoffi am eich ysgol bresennol?
- Oes yna unrhyw beth yr hoffech ei newid / wella yma yn eich ysgol bresennol?
- Sut ydych yn cyrraedd eich ysgol bresennol?
- Sut ydych chi'n teimlo am y cynnig?
- Beth fyddech chi'n ei hoffi am y cynnig?
- Beth fyddech chi ddim yn ei hoffi am y cynnig?
- Oes gennych chi rywbeth arall yr hoffech ei ddweud?

Nodir eu hymatebion isod. Yn ystod rhai sesiynau, ysgrifennodd rhai plant eu sylwadau ar bapur, ac fe'u cyflwynir yn iaith y plant.

**Ysgol Talwrn, Mawrth 5 2020**

| **Ysgol Talwrn 05.03.2020** | **Y Cyngor Ysgol ac eraill** |
|---|---|
| Faint o blant? | 12 plentyn (5-10 oed) 7 Geneth / 5 Bachgen |
| Beth fyddai'n newid? | Efallai y bydd Ysgol Talwrn yn cau ac y bydd disgyblion o Ysgol Talwrn yn symud i Ysgol Y Graig. |
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| Beth ydych yn ei hoffi am Ysgol Talwrn? | • Ysgol fechan – mae pawb yn adnabod ei gilydd / ffrindiau / fel teulu.<br>• Ysgol fechan – ddim yn mynd ar goll. Gwybod o ffordd o gwmpas yr ysgol / lle mae pob dim yn cael ei gadw. |

| Ysgol Talwrn 05.03.2020 | Y Cyngor Ysgol ac eraill |
|---|---|
| | • Yn adnabod yr athrawon yn iawn ac yn gallu mynd at [redacted] i siarad am unrhyw broblemau.<br>• Mae'r athrawon yn ein helpu gyda gwaith ac rydym yn hoffi'r ffordd maen nhw'n dysgu - mae'n hwyl.<br>• Sgiliau garddio.<br>• Llywodraethwr – mae dyn o'r gymuned yn dod i ddarllen efo'r plant.<br>• Mae gan y plant bach ardd i chwarae ynddi hi ac mae gan y rhai hŷn un ar wahân.<br>• Yn hoffi – Bl.4, Bl.5, Bl.6 yn yr un dosbarth i helpu ein gilydd.<br>• Tripiau (e.e. Plas Menai ac ati) – Mae pawb yn cael mynd oherwydd nad oes llawer o blant yn yr ysgol.<br>• Rydym yn cael gwneud llawer o bethau sy'n hwyl. Yn cael gweithio ar wahanol brosiectau (technoleg / animeiddio / y gorffennol a'r presennol).<br>• Gwahanol weithgareddau (e.e. coginio, chwarae Knex, chwaraeon, celf, tyfu llysiau iach eu hunain).<br>• Clwb ar ôl ysgol (e.e. chwarae Nintendo Wii, noson ffilmiau, noson gemau, gweu, pethau neis fel paentio eich ewinedd).<br>• Mae gwaith cartref yn hwyl.<br>• Does dim bwlio.<br>• Mae pawb yn byw'n agos. |
| Oes yna unrhyw beth yr hoffech ei newid / wella yma yn Ysgol Talwrn? | • Cael mwy o le i chwarae (lle glaswellt i chwarae pêl-droed).<br>• Gardd i dyfu rhagor o lysiau.<br>• Ychydig mwy o waith cartref.<br>• Plant i rannu pethau efo fi.<br>• Lle glaswellt i chwarae yn lle chwarae ar yr iard.<br>• Wedi arfer efo'r lle. |
| Sut ydych yn cyrraedd Ysgol Talwrn? | • Car<br>• Cerdded (y rheiny sy'n byw'n agos)<br>• Beic<br>• Tacsi |
| Sut fyddech chi'n teimlo am gau Ysgol Talwrn a symud i Ysgol y Graig? | • Yn drist – cau'r ysgol. Mae'r ysgol wedi bod yma ers 100 mlynedd, mae hi wedi bod yma mor hir.<br>• Yn drist nad ydi rhywun a enwyd gan ddisgybl yn gallu dod i'r ysgol.<br>• Mae'r teulu wedi bod i'r ysgol ac wedi tyfu i fyny yma.<br>• Yn gorfod cystadlu yn erbyn ysgol fawr - pêl-droed.<br>• Ofn – ffrindiau'n cael eu gwahanu.<br>• Ofn – mynd ar goll.<br>• Ddim yn siŵr.<br>• Ddim yn edrych ymlaen am fy mod i'n hoffi Ysgol Talwrn. |
| Beth fyddech chi'n ei hoffi am symud i Ysgol y Graig? | • Dim byd.<br>• Yn adnabod ffrindiau yna'n barod.<br>• Gwneud mwy o ffrindiau.<br>• Mwy o le i chwarae (cae chwarae).<br>• Yn dal i fod efo'r un ffrindiau. |
| Beth fyddech chi ddim yn ei hoffi am symud i Ysgol y Graig? | • Eisteddfod Talwrn – yn colli hwn.<br>• Gormod o blant yn Ysgol Y Graig. |

| Ysgol Talwrn 05.03.2020 | Y Cyngor Ysgol ac eraill |
|---|---|
| | • Mae damweiniau'n digwydd y tu allan a dydyn ni ddim yn teimlo'n saff – ceir / croesi'r ffordd y tu allan i'r ysgol.<br>• Lot o fwlio yno (athrawon ddim yn delio efo'r peth) – wedi symud i'r ysgol yma oherwydd bwlio.<br>• Cael ein gwahanu o ffrindiau.<br>• Ddim yn mynd i adnabod pawb.<br>• Ddim yn gwybod y ffordd o gwmpas yr ysgol – yr ysgol yn rhy fawr.<br>• Teithio yn bellach i'r ysgol.<br>• Tydi'r rheiny sy'n cerdded i Ysgol Talwrn ddim yn gallu cerdded yr holl ffordd i Ysgol Y Graig.<br>• Lot o blant / ofn mynd ar goll.<br>• Ysgol efo lot o blant – a tydi pawb ddim yn gallu mynd ar dripiau.<br>• Bwlio yn Ysgol Y Graig. |
| Oes gennych chi rywbeth arall yr hoffech ei ddweud? | • Dwi'n hoffi'r ysgol yma oherwydd eich bod chi'n adnabod pawb ac yn teimlo'n saff – dwi ddim eisiau iddi gau.<br>• Yn mynd i effeithio'r plant bach sydd dal yma a'r plant sydd i ddod eto.<br>• Triwch beidio â chau'r ysgol - triwch ei chadw ar agor.<br>• Mae rhieni wedi bod yn casglu pres i gadw'r ysgol yn fyw ac maen nhw'n poeni am ein dyfodol – i le wneith y pres fynd?<br>• Eisiau gorffen yn yr ysgol ym Mlwyddyn 6 a ddim eisiau symud.<br>• Mae'n bwysig bod yma am mai ein hysgol ni ydi hi.<br>• Plant ac athrawon a ffrindiau sy'n gwneud ysgol.<br>• Gall ffrindiau gael eu gwahanu.<br>• Efallai na fyddan ni yn yr un dosbarth â'n ffrindiau mewn ysgol arall (oherwydd bod plant o wahanol oedrannau yn yr un dosbarth yn Ysgol Talwrn). |

**Ysgol Y Graig – 27 Chwefror 2020**

| Ysgol Y Graig 27.02.2020 | Y Cyngor Ysgol |
|---|---|
| Faint o blant? | 6 plentyn (9-11 oed) 3 Geneth / 3 Bachgen |
| Beth fyddai'n newid? | Efallai y bydd Ysgol Y Graig yn ehangu.<br><br>Bydd bloc newydd yn cael ei adeiladu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (plant 4-7 oed).<br><br>Bydd plant y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Y Graig yn symud i'r bloc newydd<br><br>A bydd yr holl blant o Ysgol Talwrn yn symud i Ysgol Y Graig a bydd Ysgol Talwrn yn cau. |
| **Cwestiwn** | **Atebion** |
| Beth ydych yn ei hoffi am Ysgol Y Graig? | • Lle chwarae mawr - lle ar gyfer chwaraeon, safle pêl-droed, chwarae cuddio. |

| Ysgol Y Graig 27.02.2020 | Y Cyngor Ysgol |
|---|---|
| | • Dosbarthiadau lliwgar - mae waliau gyda mathemateg a gwahanol themâu yn ein helpu efo'n gwaith.<br>• Mae athrawon da yn gwneud y gwaith yn ddiddorol.<br>• Mae athrawon yn gofalu amdanom ni ac yn ein hadnabod - gallwn siarad efo pawb.<br>• Yn gyfeillgar i blant – yn saff i ni.<br>• Gwahanol weithgareddau (e.e. Gala Nofio, Tîm Pêl-droed, Tripiau i Gaerdydd / Y Gelli Gyffwrdd, coginio ar ôl ysgol (Urdd).<br>• Cyfleoedd i bawb e.e. Eisteddfod, cystadlaethau o bob math.<br>• Mae cael pawb yn chwarae yn helpu'r cyfnod sylfaen.<br>• Gweld ein ffrindiau.<br>• Lot o le – yn teimlo'n gyfforddus.<br>• Mae pawb yn adnabod ei gilydd. |
| Pa bethau nad ydych yn eu hoffi am Ysgol Y Graig? | • Y maes parcio – rhy fach, mae damweiniau'n digwydd am nad oes digon o le i barcio – angen stopio ar ganol y lôn, ar y 'zig zags' neu'r gylchfan.<br>• Dim dyn lolipop - mwy o ddamweiniau ac mae hyn yn gwneud fi'n nerfus i groesi'r ffordd.<br>• Yr iard chwarae'n wlyb.<br>• Wedi colli 2 ystafell gerdd - wedi eu troi'n ystafelloedd dosbarth blwyddyn 2 a 3.<br>• Y toiledau'n fach yng Nghyfnod Allweddol 2.<br>• Y cadeiriau'n fach yng Nghyfnod Allweddol 2. |
| Sut ydych chi'n cyrraedd Ysgol Y Graig? | • Sgwter<br>• Beics<br>• Cerdded<br>• Car |
| Sut fyddech chi'n teimlo am floc newydd (ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) yn cael ei adeiladu a disgyblion Ysgol Talwrn yn symud i Ysgol Y Graig? | • Plant bach yn methu eu brawd / chwaer fawr (Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn) – ddim yn eu gweld mor aml.<br>• Yn hapus – mwy o ffrindiau / newydd.<br>• Plant Talwrn yn cael eu gwahanu.<br>• Yn anodd i blant Talwrn setlo – bydd plant Ysgol Y Graig yn eu croesawu.<br>• Yn drist / ofnus – mwy o sŵn. |
| Beth fyddech chi'n ei hoffi am floc newydd (i'r Cyfnod Sylfaen) yn cael ei adeiladu a disgyblion Ysgol Talwrn yn symud i Ysgol Y Graig? | • Bl. 4, Bl. 5, Bl. 6 yn cael drysau i'w ystafelloedd dosbarth.<br>• Mwy o blant – mwy o siarad.<br>• Medru canolbwyntio'n well.<br>• Mwy o le i fwy o blant gael addysg dda.<br>• Mwy o ffrindiau – llai o blant unig. |
| Beth fyddech chi ddim yn ei hoffi am floc newydd (ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) yn | • Ddim llawer o le i chwarae.<br>• Colli cyfle i wneud ffrindiau newydd – ddim am weld y plant mor aml mwyach. |

| Ysgol Y Graig 27.02.2020 | Y Cyngor Ysgol |
|---|---|
| cael ei adeiladu a disgyblion Ysgol Talwrn yn symud i Ysgol Y Graig? | • Ddim yn gwybod yn lle fydd y bloc – efallai am golli'r cae, iard – diwrnod mabolgampau, cystadleuaeth chwaraeon.<br>• Uno'r ysgolion - a bydd y plant yn teimlo'n gyfforddus yn dysgu mewn lle hollol wahanol - sut fydd y plant yn dod i'r ysgol<br>• Ddim eisiau i blant Talwrn ymuno.<br>• Ddim yn cael gweld brawd / chwaer fach – mewn adeilad gwahanol.<br>• Ddim digon o le i chwarae – yn dibynnu yn lle fydd yr adeilad newydd.<br>• Bydd rhaid i bobl gael tŷ newydd. |
| Oes gennych chi rywbeth arall yr hoffech ei ddweud? | • Mwy o blant felly angen prynu mwy o fwyd.<br>• Yn lle fyddai'r Cyfnod Sylfaen yn cael cinio?<br>• Iechyd a diogelwch plant – niferoedd uwch.<br>• Ni fyddai plant Talwrn yn gallu cerdded i'r ysgol.<br>• Mwy o draffig – plant yn gorfod teithio'n bellach mewn ceir.<br>• Y lle chwarae ar wahân i blant hŷn? - Bydd ar blant yn y bloc newydd angen lle chwarae ar wahân?<br>• Os oes mwy o athrawon – angen mwy o le – ystafelloedd cyfarfod, ystafelloedd staff.<br>• Plant yn gwneud ffrindiau newydd – clwb ffrindiau / gwneud ffrindiau newydd wrth chwarae.<br>• Gormod o blant mewn clybiau gydag un athro – plant yn colli allan.<br>• Efallai bod plant Ysgol Talwrn yn nerfus.<br>• Cael profiad efo pawb.<br>• Efallai y bydd yr adeiladau'n bell o'i gilydd – mae amser gorffen yr Ysgol yn wahanol i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 – bydd rhaid i rieni gasglu plant o'r adeilad newydd a'r ysgol bresennol.<br>• Bydd angen ailddylunio iard Cyfnod Allweddol 2 ar y safle presennol. |

### 5.8 Ymateb Estyn (cynhwyswyd y llythrennau mewn print trwm gan y Cyngor)

Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg yng Nghymru, yn ymgynghorai ym mhob cynnig i ad-drefnu ysgolion. Dyma ymateb Estyn yn llawn: "Darparodd y cynigiwr **wybodaeth ddefnyddiol a manwl** sy'n egluro'r rhesymeg y tu ôl i'w gynnig. Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o leiaf yn nhermau addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer plant yn yr ardal."

Aeth ymateb Estyn ymlaen gan ystyried buddion y cynnig:

**Disgrifiad a buddion**

"Mae'r **rhesymeg o ran y cynnig hwn yn drefnus** a nodwyd y materion yn glir. **Mae'r dystiolaeth yn seiliedig ar ffeithiau ac ystyriaethau dilys**.

Mae'r cynigiwr wedi nodi'r manteision a'r anfanteision disgwyliedig mewn cymhariaeth â'r sefyllfa bresennol. **Amlinellir nifer fawr o gynigion mewn perthynas â chadw Ysgol Talwrn ar agor,** sy'n ystyried nid yn unig safonau, ac arweinyddiaeth a rheolaeth, ond hefyd defnydd y gymuned o'r ysgol, er enghraifft, er mwyn darparu darpariaeth ar gyfer plant cyn ysgol. Cydnabyddir bod Ysgol Talwrn yn gwneud cyfraniad helaeth i'r gymuned a'i bod yn rhan allweddol o'r ardal leol. Fodd bynnag, mae'r cynigiwr yn ystyried nifer o gynigion sy'n cyflawni canlyniadau sy'n cefnogi'r cynnig hwn i gau Ysgol Talwrn.

**Mae opsiynau amgen rhesymol yn cael ystyriaeth lawn**, yn ogystal â barnau'r holl bartneriaid o fewn cymuned yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddilysrwydd y broses ymgynghori ac, yn gyffredinol, mae'r ystyriaethau'n gadarn o blaid gweithredu'r cynnig hwn.

Nodir yr heriau'n glir, sy'n ymgorffori materion, er enghraifft, o ran nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol, lleoedd gweigion, y gost fesul disgybl ac ansawdd ac addasrwydd y ddau adeilad ysgol. **Mae'r heriau hyn yn cael eu hystyried yn effeithiol o fewn y cynigion.**

Amlinellir agweddau pwysig o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, sy'n nodi tystiolaeth fuddiol fel rhan o'r broses ymgynghori, er enghraifft, yr effaith ar fechgyn a genethod, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac ati. **Daw'r asesiad risg i'r casgliad y byddai derbyn y cynnig yn ffafrio'r cynllun hwn yn nhermau cydraddoldeb.**

**Mae'r cynnig hwn yn cydymffurfio â'r Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg**. Ni fyddai unrhyw newid yng nghyfrwng iaith y disgyblion wrth adleoli i'r ysgol ehangedig arfaethedig, sef Ysgol Y Graig. Nodir y bydd darpariaeth feithrin, yn ogystal ag uned gofal plant i blant cyn ysgol, yn cael eu darparu yn Ysgol Y Graig i'r holl ddisgyblion. Bydd hyn yn fanteisiol fel y mae'r plant yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd. Amlinellir hefyd, o ran disgyblion yr ysgol yn ystod oriau ysgol, yn ogystal â'r gymuned ehangach y tu allan i oriau ysgol, bydd cyfleusterau'n annog cyfathrebu naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg. **Mae'r asesiad hwn yn awgrymu y caiff y cynnig effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.**

**Ni fyddai unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar gymuned Ysgol Talwrn yn dilyn gweithdrefnau asesu risg o ran lles**. Byddai derbyn y cynnig hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y saith nod llesiant, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r cynigiwr yn amlinellu gwybodaeth am drefniadau teithio, yn unol â pholisi cludiant ysgol Ynys Môn. Canlyniad yr asesiad hwn yw y bydd 67% o'r disgyblion yn teithio yn bellach. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion i Ysgol Y Graig os ydynt yn byw 2 filltir neu ragor o'r ysgol. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £30k y flwyddyn. Mae asesiad effaith ar draffig wedi'i ddarparu eisoes er mwyn blaengynllunio i liniaru effaith cludiant ychwanegol ar staff a disgyblion yn Ysgol Y Graig."

Dywedodd Estyn y canlynol mewn perthynas ag agweddau addysgol y cynnig:

**Agweddau addysgol y cynnig**

"Mae'r cynigiwr wedi ystyried y cynnig hwn yn ôl ansawdd canlyniadau, darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn dilyn penderfyniad Gweithgor y Cyngor yn Mai 2019, mewn perthynas â moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni, cyfarwyddwyd swyddogion i edrych ar y cynigion o'r newydd, ac ystyried y Cod Trefniadaeth Ysgolion

(011/2018) newydd. Gan ystyried yr opsiynau amgen rhesymol, daeth y cynigiwr i'r casgliad bod angen moderneiddio'r ddarpariaeth addysg yn ardal Llangefni i ddarparu model mwy cynaliadwy, effeithiol ac effeithlon i'r dyfodol.
Mae'r cynigiwr yn nodi y bydd disgyblion ledled yr ysgol yn cael profiad addysgol wedi'i gyfoethogi ag adnoddau perthnasol er mwyn darparu cwricwlwm llawn i bob disgybl, yn ddieithriad. Nid yw'r cynigiwr yn cyfeirio'n benodol at ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen.
Mae gan Ysgol Y Graig ar hyn o bryd ddeng dosbarth un oedran a thri dosbarth oedran cymysg, tra rhennir disgyblion yn Ysgol Talwrn yn dri dosbarth oedran cymysg yn y bore, a dau yn y prynhawn. Byddai darparu cwricwlwm mewn amgylchedd dysgu newydd yn Ysgol Y Graig yn debygol o gyfoethogi profiad cynradd y disgyblion.
Cyfanswm nifer y plant yn y dosbarth meithrin fyddai 68, gyda chapasiti ar gyfer 480 o ddisgyblion (4 - 11 oed) yn yr ysgol. Mae safle Ysgol Y Graig yn ddigon helaeth i gymryd rhagor o ddisgyblion i fynychu'r ysgol.
Byddai cytuno'r cynnig presennol yn golygu newid o ran amgylchedd dysgu'r holl ddisgyblion. Fodd bynnag, cydnabyddir y byddai'r newid efallai'n profi i fod yn fwy heriol i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i sicrhau y bydd hyn yn tarfu cyn lleied ag y bo modd er mwyn sicrhau trefniadau trosglwyddo rhwydd. Bydd disgyblion ADY sy'n mynychu Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig ar hyn o bryd yn parhau i dderbyn y lefel o gymorth sydd ei angen i gwrdd a'u anghenion dysgu unigol. Bydd trefniadau ychwanegol sydd eisoes yn eu lle ar gyfer disgyblion, fel mynediad i gymorth, hefyd yn cael eu hadolygu a'u darparu lle bo angen.
Mae'r cynnig hefyd yn crybwyll y posibilrwydd efallai y bydd angen i staff Ysgol Y Graig ddatblygu ystod ehangach o arbenigedd er mwyn diwallu anghenion disgyblion unigol. Fel rhan o'r broses drosglwyddo, cynigir y dylai'r Cyngor ddarparu cefnogaeth a chymorth priodol i ddisgyblion ADY.
Rhagwelir na fydd gan y pennaeth unrhyw ymrwymiadau addysgu penodol yn Ysgol Y Graig, mewn cymhariaeth ag ymrwymiad addysgu presennol pennaeth Ysgol Talwrn, sef 70% o'r amserlen. **Hefyd bydd datblygu capasiti arweinyddiaeth, drwy beidio â chael unrhyw gyfrifoldebau dysgu, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â'r heriau o ran rheoli, a'r rhai strategol sy'n rhan o redeg ysgol lwyddiannus**. Nid yw'r cynnig yn mynd i fanylion uniongyrchol am broses statudol adleoli neu ddiswyddo staff, yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol. Fodd bynnag, bydd angen i'r Cyngor rannu gwybodaeth bellach ag aelodau staff yn Ysgol Talwrn i sicrhau tegwch a chydweithrediad statudol yn unol â Pholisi Ailstrwythuro a Diswyddo'r Cyngor ar gyfer ysgolion, ynghyd â'i Bolisi Adleoli ar gyfer ysgolion.
Mae'r ddwy ysgol yn y categori 'A' gwyrdd yn nhermau capasiti o ran cymorth, yn unol â'r diffiniadau o'r model cenedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion. Bu Ysgol Y Graig yn y categori hwn yn gyson ers Medi 2015, ac Ysgol Talwrn ers Medi 2019.
Barnwyd fod gan y ddwy ysgol ddeilliannau 'da' ym mhob maes arolygu gan Estyn:

Ysgol Talwrn – Hydref 2018

Ysgol y Graig – Ionawr 2019

Ar y cyfan, mae safonau'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol, yn gyson, yn dda. Wrth ystyried nifer o ffynonellau, mae perfformiad y ddwy ysgol yn gyson, yn gyffredinol."

Ni chafodd unrhyw faterion eu nodi yn ymateb Estyn yr oedd angen i'r Cyngor ymateb iddynt neu eu hegluro.

**5.9** Derbyniwyd llythyr gan **Ysgrifennydd Capel Siloam, Talwrn** (Capel Annibynnol) yn mynegi "gwrthwynebiad aelodau'r Capel i gau Ysgol Gynradd Talwrn".

- Yr ysgol yw "calon y gymuned" ac "mae calon y gymuned yn curo gyflymaf yma".
- Mae aelodau presennol y capel "wedi cael budd mawr o fod yn Ysgol Talwrn".
- Mae'r iaith a thraddodiadau'n bwysig iawn, a chredwn y trosglwyddir y rhain orau mewn ysgol fel Talwrn.
- Mae'r ysgol hon yn gymuned glos sydd wedi cyfrannu llawer i'r gymuned ehangach.

**Ymateb y Cyngor**
Aethpwyd i'r afael â'r materion hyn yn adran 4 o'r Asesiad Effaith – Atodiad 1.

**5.10** Derbyniwyd llythyr gan **Arolygwr Ysgol Sul Siloam, Talwrn** (Capel Cynulleidfaol)

- Cafwyd cydweithrediad hapus rhwng yr Ysgol Sul ac Ysgol Talwrn dros flynyddoedd lawer.
- Heb Ysgol Talwrn, ni fyddai Ysgol Sul.
- Byddai cau Ysgol Talwrn yn "rhwygo'r enaid o'r gymuned".

**Ymateb y Cyngor**
Aethpwyd i'r afael â'r materion hyn yn adran 4 o'r Asesiad Effaith – Atodiad 1.

**5.11** Derbyniwyd llythyr gan breswylydd lleol o gyffiniau Ysgol Talwrn. Crybwyllwyd bod cael nifer o ymgynghoriadau ar ddyfodol Ysgol Talwrn wedi gadael cwmwl dros yr ysgol. Teimlwyd y gallai hyn arwain at leihau cymunedau gwledig.
**Ymateb y Cyngor**
Dyma'r ffigurau a gyflwynwyd yn y Ddogfen Ymgynghori o ran nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn:

| Ysgol | Capasiti (ac eithrio'r Meithrin) | Niferoedd Disgyblion yn Ionawr: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
| Talwrn | 49 | 44 | 47 | 47 | 43 | 45 |

Dengys y ffigurau bod nifer y disgyblion yn Ysgol Talwrn wedi parhau i fod yn weddol gyson mewn blynyddoedd diweddar, er gwaethaf cynnal rhai cyfnodau ymgynghori ar ddyfodol yr ysgol gynradd yn ystod y cyfnod hwn.

**5.12** Mewn llythyr gan breswylydd arall o gyffiniau Ysgol Talwrn, disgrifiwyd sut yr oedd yn meddwl nad oedd y cynnig yn cyflawni'r gyrwyr allweddol, ac roedd o'r farn nad oedd y cynnig "yn ddigon cryf".

**Ymateb y Cyngor**
Yn y Ddogfen Ymgynghori, darparodd yr Awdurdod werthusiad cynhwysfawr o'r cynnig yn erbyn y gyrwyr allweddol a nodwyd o fewn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion ac yn erbyn yr heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn.

**5.13** Dywedodd un o randdeiliaid eraill Ysgol Talwrn: “Tra bo gan adeiladau ac adnoddau rôl bwysig iawn o ran darparu’r addysg orau i’n plant, y ffactor pwysicaf mewn unrhyw ddarpariaeth addysgol yw athrawon cydwybodol ac effeithiol i’n disgyblion.” Roedd y rhanddeiliad yn honni ymhellach “bod Cyngor Sir Ynys Môn, ers gormod o flynyddoedd bellach, wedi taflu cysgod dros Ysgol Talwrn drwy ddychwelyd, dro ar ôl tro, i ail-ymgynghori ar ei dyfodol. Mae’r ysgol bellach yn haeddu cael llonydd i ddal ati i ddarparu’r addysg orau i’w disgyblion ac i barhau i fod yn rhan annatod a phwysig o’r gymuned wledig hon yng nghanol yr ynys.” Roeddynt hefyd yn galw ar y Cyngor i “ddiddymu’r cynnig hwn, ac yna rhoi llonydd i Ysgol Talwrn er mwyn rhoi’r gorau i daflu cysgod parhaol dros ei dyfodol.”

**Ymateb y Cyngor**

Nid yw’r Cyngor yn amau bod athrawon ysgol yn rhan bwysig o unrhyw ddarpariaeth ysgol. Pwyllgor Gwaith y Cyngor fydd y penderfynu p’un ai i weithredu’r cynnig dros yr ychydig fisoedd nesaf.

**5.14** Mewn llythyr byr gan **Gangen Talwrn o Ferched y Wawr**, mynegodd yr Ysgrifennydd wrthwynebiad y Gangen i’r "bwriad i gau Ysgol Talwrn". Gan gyfeirio at brosiect y bu aelodau o’r Gangen yn gweithio arni gyda disgyblion o Ysgol Talwrn, dywedwyd bod Ysgol Talwrn yn “ysgol naturiol Gymraeg mewn tref brysur”. Dywedodd Ysgrifennydd y Gangen hefyd y byddai cau’r ysgol yn gwneud targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn “fwy anghyraeddadwy”.

**Ymateb y Cyngor**

Os gweithredir y cynnig, gallai Cangen Talwrn o Ferched y Wawr ddal i weithio gyda phlant o bentref Talwrn. Mae adran 4.8 o’r Asesiad Effaith yn nodi: “Gellir ymgymryd â chyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol yn Nhalwrn yn yr Ysgol y Graig ehangedig, neu o safleoedd eraill yn Nhalwrn megis neuadd y pentref neu eglwys Talwrn.” Byddai hyn yn wir yn yr achos hwn.

Disgrifir effaith bosibl y cynnig ar y Gymraeg yn adran 3 o’r Asesiad Effaith – Atodiad 1.

**5.15** Ni fyddai’r pennaeth yn adnabod y disgyblion oherwydd maint yr ysgol gyfan.

**Ymateb y Cyngor**

Byddai pob athro’n adnabod ei ddisgyblion. Mae’n debygol y byddai strwythur tîm arweinyddiaeth yr ysgol ehangedig yn cynnwys pennaeth y Cyfnod Sylfaen a phennaeth Cyfnod Allweddol 2. Byddai’r athrawon hyn, yn ogystal â’r pennaeth, yn adnabod y disgyblion.

**5.16** Anghytuno â’r sylw y caiff disgyblion o Dalwrn fwy o gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mewn ysgol fechan, rhaid i bob disgybl gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mewn ysgol fawr, dim ond y rhai mwyaf hyderus neu dalentog sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau o’r fath.

**Ymateb y Cyngor**

Nid oes unrhyw reidrwydd ar ddisgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Fodd bynnag, mae gweithgareddau allgyrsiol yn cynnwys amryw weithgareddau fel clybiau amser cinio neu ar ôl ysgol, ynghyd â chwarae i dîm pêl-droed neu rygbi yn yr ysgol. Yr hyn a olygwyd yma oedd y bydd mwy o gyfle mewn ysgol gynradd fwy i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn oherwydd y bydd mwy o ddisgyblion yn bresennol ynghyd â staff ychwanegol a chanddynt amrywiaeth ehangach o arbenigeddau.

**5.17** Effaith negyddol ar yr amgylchedd – bydd y cynnig yn arwain at gynnydd yn y defnydd o gerbydau.

**Ymateb y Cyngor**
Pryder i rai rhanddeiliaid oedd y byddai cau Ysgol Talwrn yn creu cynnydd mewn allyriadau carbon. Dengys cyfrifiadau na fyddai hyn yn digwydd oherwydd bod hanner y disgyblion yn Ysgol Talwrn yn dod i mewn o'r tu allan i'w dalgylch.

**5.18** Os yw 2 ysgol yn uno, dylai fod yn broses gystadleuol.

**Ymateb y Cyngor**
Roedd adran 12 o'r Ddogfen Ymgynghori'n nodi: "Os cymeradwyir y cynnig, ni fydd unrhyw newidiadau i staff Ysgol Y Graig, ond bydd staff Ysgol Talwrn mewn perygl o gael eu diswyddo a byddai'r Polisi Ailstrwythuro a Diswyddo ar gyfer ysgolion a Pholisi Adleoli ysgolion yn cael ei ddefnyddio."

## 6. SYLWADAU A DDERBYNIWYD MEWN PERTHYNAS Â'R OPSIYNAU AMGEN A YSTYRIWYD

**6.1 Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 mae'n ofyniad i'r cynigiwr ddarparu opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig os yw'n cynnwys cau unrhyw ysgol - mae'r adran a ganlyn yn trafod yr opsiynau amgen rhesymol a gyflwynwyd gan y Cyngor yn y ddogfen ymgynghori, ynghyd ag ymatebion rhanddeiliaid.**

Yn adran 4 o'r Ddogfen Ymgynghori, nodwyd y gyrwyr allweddol fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion. Byddai angen i bob opsiwn amgen rhesymol a gyflwynwyd gwrdd â gofynion y gyrwyr allweddol:

- Mae angen i **safonau** ar draws pob ysgol fod o leiaf yn dda neu'n rhagorol. Yn ogystal â hyn, byddai disgwyl i ysgolion yn yr ardal fod yn y categori gwyrdd, h.y. ysgolion sy'n perfformio'n dda ac angen y lefel isaf o gefnogaeth.
- Mae'n rhaid i **arweinyddiaeth a rheolaeth** fod yn dda neu'n well ym mhob ysgol. Yn y cyd-destun hwn, mae ar benaethiaid angen digon o amser digyswllt i gydbwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth ag ymrwymiad addysgu.
- Mae angen i'r **adeilad ysgol** ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a fydd yn annog bob disgybl i gyflawni eu potensial ar draws pob maes dysgu. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant ag anableddau.
- Mae angen i **leoedd ysgol digonol** fod ar gael yn yr ardal i gwrdd â galw presennol, rhagolygon niferoedd y dyfodol yn ogystal â lleihau lleoedd gweigion. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau symudiad disgyblion o'r tu mewn a thu allan i'r dalgylch os oes modd.
- Bydd rhaid i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal fod yn **gost effeithlon** h.y. mae angen lleihau'r costau refeniw ac unrhyw gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws ysgolion unigol.
- Bydd angen o leiaf cynnal **darpariaeth cyfrwng Cymraeg** a'i gwella.
- Mae angen cynnal **defnydd cymunedol** o adeiladau ysgol a chyfleusterau cysylltiedig, a'i gynyddu lle bo'n bosibl.

Isod ceir rhestr o'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn y dymuna'r Cyngor fynd i'r afael â hwy drwy'r cynnig i gau'r ysgol:

1. Niferoedd disgyblion.
2. Diffyg lle i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i dymor hir.
3. Y gost fesul disgybl – sydd 14% yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Ynys Môn.

4. Adeilad yr ysgol - mae ganddi gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 (2019) a gradd cyflwr B (Boddhaol – Perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad). Nid yw Ysgol Talwrn ond yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion a ddisgwylir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
5. Safonau - gallai'r safonau presennol a welir yn Ysgol Talwrn fod yn anodd i'w cynnal yn y tymor canolig i dymor hir.
6. Ymrwymiad Addysgu'r Pennaeth – mae'r ymrwymiad addysgu penodol yn 70% ar hyn o bryd.
7. Cyllid – mae'r gost fesul disgybl yn Ysgol Talwrn (£4,553) yn uwch na Chyfartaledd Ysgolion Cynradd Ynys Môn (£3,988), a cheir amrywiaeth eang yn y gost fesul disgybl rhwng Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig (£3,429). Mae'n debygol y bydd gofyn i'r awdurdod wneud arbedion sylweddol dros y 3 blynedd nesaf.

Yn y tabl isod, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), mae'r Cyngor yn ystyried sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac yn rhoi ei ymateb drwy ddarparu eglurhad, diwygio'r cynnig neu wrthod pryderon gyda rhesymau i gefnogi hynny.

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| **6.1.1 Adeiladu ysgol gynradd 21ain ganrif newydd i Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a chau'r ddwy ysgol.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £11.4m. | Darparodd 19 o ymatebwyr (allan o 57 neu 33%) sylwadau i awgrymu y byddai'n well ganddynt yr opsiwn hwn yn lle'r cynnig. | Byddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn:<br>▪ Cost refeniw uwch i'r Awdurdod.<br>▪ Mae'r buddsoddiad cyfalaf yn tua £5.5m yn uwch na hynny a glustnodwyd o fewn amlen gyllid Band B Ynys Môn. Felly mae risg y byddai rhaid i'r Awdurdod ariannu'r rhan fwyaf o waith adeiladu o'r fath ac na fyddai'n gallu gwneud y gorau o'r cyfleoedd a ddarperir o dan y rhaglen moderneiddio 21ain ganrif.<br>▪ Mae Ysgol y Graig ychydig dros 10 oed, a byddai unrhyw benderfyniad i gau'r ysgol yn bwrw amheuaeth ar y safbwynt gwerth am arian (GAA) o ran bod gan ysgolion oes o 50 mlynedd.<br>**Am y rhesymau ariannol a restrir uchod, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn a awgrymwyd gan randdeiliaid ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.2 Parhau â'r trefniadau presennol – Gadael Ysgol Talwrn fel y mae hi** | Darparodd 14 o ymatebwyr (25%) sylwadau i awgrymu y byddai'n well ganddynt yr opsiwn hwn yn lle'r cynnig. | Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r holl heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn. |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | ▪ Byddai adeilad Ysgol Talwrn yn ei gwneud hi'n anodd cynnal safonau cyfredol yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Ni fydd unrhyw newid yn yr amrywiad ym maint dosbarthiadau na nifer yr ystodau oedran a addysgir mewn dosbarthiadau yn Ysgol Talwrn.<br>▪ Ni fydd y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich arweinyddiaeth yn cael ei wireddu.<br>▪ Mae ymrwymiad addysgu Pennaeth Ysgol Talwrn yn 70%.<br>▪ Dim ond yn rhannol mae adeilad Ysgol Talwrn yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â mynediad i ddisgyblion anabl.<br>▪ Nid yw adeilad Ysgol Talwrn yn cwrdd â safonau Ysgol yr 21ain Ganrif er mwyn creu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Nid yw adeilad Ysgol Talwrn yn darparu amgylcheddau dysgu allanol i hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly'n sefydlu'r amodau ar gyfer darparu Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r lleoedd gweigion yn Ysgol Talwrn.<br>▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| | | ▪ Ni fyddai'n hyfyw yn ariannol yn y dyfodol oherwydd y costau cynnal a chadw cyfredol uchel fyddai ar ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal. Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y disgwylir i boblogaeth y disgyblion gynyddu. Byddai hyn yn arwain at ddisgyblion yn cael eu cludo i ysgolion y tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti. Disgwylir y byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol yn y dyfodol am gost o tua £60k y flwyddyn.<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.3 Ffedereiddio Ysgol Talwrn gydag Ysgol y Graig**<br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | Awgrymodd cyfanswm o 5 (9%) o ymatebwyr y byddai'n well ganddynt yr opsiwn o ffedereiddio yn lle'r cynnig. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn awyddus i ffedereiddio ag ysgol debyg arall yn hytrach nag Ysgol Y Graig, fel Ysgol Llanbedrgoch neu Ysgol Pentraeth. | Fe gafodd yr opsiwn o ffedereiddio ei werthuso o fewn y ddogfen ymgynghori (adran 6.3.3). Ni fyddai newid y trefniant ffedereiddio o Ysgol Y Graig i Ysgol Llanbedrgoch neu Ysgol Pentraeth yn cael llawer o effaith ar ba mor dda mae'r opsiwn yn perfformio yn erbyn y gyrwyr allweddol.<br>• Ni fyddai unrhyw newid yn amrywiad meintiau'r dosbarthiadau na'r nifer o ystodau oedran a addysgir |

| **Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor** | **Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad** | **Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny** |
|---|---|---|
| | | yn nosbarthiadau Ysgol Talwrn.<br>▪ Dim newid yng nghapasiti'r Arweinyddiaeth a Rheolaeth.<br>▪ Byddai'r patrwm presennol o gydbwyso ymrwymiad addysgu â'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol yn parhau.Yn ogystal â hyn, ni wireddir y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli ymhellach i rannu'r baich Arweinyddol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella adeilad Ysgol Talwrn i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol ar safle Ysgol Talwrn i hybu dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG).<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol adeiladau'r ysgol (costau cynnal a chadw £360k yn 2019).<br>▪ Dim ond yn rhannol y mae adeilad Ysgol Talwrn yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau. Nid yw'n mynd i'r afael â hyn.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl a chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau'r swm a ddirprwyir i ysgolion drwy'r fformiwla cyllido ysgolion. |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| | | ▪ Nid yw'n dileu'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol.<br>▪ Mae'n debygol bydd costau refeniw yn cynyddu yn y dyfodol oherwydd disgwylir i nifer y disgyblion gynyddu, fyddai'n arwain at ddisgyblion yn cael eu cludo i ysgolion y tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol am gost o tua £60k y flwyddyn.<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn ond yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn yn rhannol, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.4 Trefniant clwstwr / cydweithredu - Ysgol Talwrn gydag Ysgol Y Graig**<br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | **Mae'r trefniant clwstwr / cydweithredu - Ysgol Talwrn gydag Ysgol y Graig - yn cael ei wrthod gan y Cyngor gan nad yw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, fel y nodir yn 6.1 uchod.** |
| **6.1.5 Cynnal dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn Ysgol Talwrn a Blwyddyn 1-6 yn Ysgol Y Graig**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol. | Ni ddarparwyd unrhyw sylwadau, fodd bynnag, awgrymwyd dewis amgen tebyg, sef ysgol pob oedran ar fwy nag un safle. | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr ysgolion.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella'r ystâd adeiladau ysgolion cynradd i gwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif a darparu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol i hybu dysgu annibynnol disgyblion ac felly i ddosbarthu'r Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn y tymor byr i'r tymor canolig. |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael a chostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol adeiladau'r ysgolion unigol – nid yw'n hyfyw yn ariannol ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Dim ond yn rhannol y mae adeilad Ysgol Talwrn yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad i ddisgyblion ag anableddau, tra bod Ysgol Y Graig yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br>▪ Ni fyddai o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol y Graig, sydd dros ei chapasiti. Byddai'n rhaid rhoi estyniad ar Ysgol Talwrn ar gyfer y tua 90 o ddisgyblion Meithrin a Derbyn yn Ysgol Talwrn; ei chapasiti yw 49. Byddai hyn yn codi materion o ran mynediad i'r safle ac nid yw'n debygol y byddai digon o ofod ar y safle. Byddai hyn yn golygu bod tua 320 o ddisgyblion yn Ysgol y Graig o flwyddyn 1 i 6<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol<br>▪ Ni fyddai'n lleihau'r gost y disgybl.<br>▪ Ni fyddai'n hyfyw yn y dyfodol yn y dyfodol oherwydd costau cynnal a chadw cyfredol uchel ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n debygol y byddai unrhyw ostyngiad yng nghost gyffredinol addysg yn yr ardal - byddai cynnydd o tua £39k yng nghostau'r adeiladau. Rhagwelir y byddai costau cludiant o dan y ddarpariaeth bresennol yn debyg i gostau'r opsiwn hwn. O dan y ddarpariaeth bresennol, |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| | | byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion i ysgolion y tu allan i'w dalgylch, gan nad oes digon o lefydd yn y dalgylch. O dan yr opsiwn yma, byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol i gludo disgyblion rhwng dalgylch Ysgol Y Graig a dalgylch Ysgol Talwrn.<br>▪ Byddai 35% o'r gost gyfalaf yn cael ei hariannu drwy fenthyca digymorth gyda chost o tua £58k y flwyddyn.<br>▪ Mae'n debyg na fyddai ysgolion yn cadw eu hunaniaeth wreiddiol a byddent yn cael enw newydd.<br>▪ Dim ond yn rhannol mae Ysgol Talwrn yn cydymffurfio'n â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<br>▪ Logisteg - anodd i rieni nôl a danfon plant os ydynt yn mynychu gwahanol safleoedd.<br>▪ Nid yw'r lôn i Ysgol Talwrn yn addas i gerbydau ychwanegol o ganlyniad i'r newid hwn. **Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.6 Defnyddio Ysgol Talwrn fel hwb cymunedol i letya/cefnogi gwasanaethau cymunedol**<br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | **Trafodwyd yr opsiwn amgen rhesymol hwn yn adran 6.3.6 o'r Ddogfen Ymgynghori ac roedd sawl anfantais iddo. Fel mesur moderneiddio ysgol, nid yw'r opsiwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn ac fe'i gwrthodir ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.7 Cyd-leoli gwasanaethau lleol yn Ysgol Talwrn** | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | Ychydig iawn o le sydd ar gael yn Ysgol Talwrn, os o gwbl, er mwyn galluogi hyn. **Fel mesur** |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | **moderneiddio ysgol, gan nad yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.8 Sefydlu ysgol aml-safle, Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £3.4m i ymestyn y ddwy ysgol. (Byddai angen ymestyn y ddwy ysgol i ddarparu capasiti digonol) | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | **Trafodwyd yr opsiwn amgen rhesymol hwn yn adran 6.3.8 o'r Ddogfen Ymgynghori ac roedd sawl anfantais iddo. Gan nad yw'r opsiwn amgen rhesymol hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn fe'i gwrthodir ac, ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.9 Mynd i'r afael â gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yn Ysgol Talwrn**<br><br>Yn seiliedig ar fenthyca £360k dros 20 mlynedd.<br><br>Gellir dadansoddi'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 fel a ganlyn:<br>Gwaith mewnol £29,500<br>Gwaith allanol £80,500<br>Ystafell ddosbarth newydd dros dro £250,000<br>Derbyniwyd pris ar gyfer ystafell ddosbarth dros dro o faint tebyg gan y Cyngor yn Awst 2019 ac roedd y pris amcangyfrifiedig yn dod i gyfanswm o £308,000 (£185k ar gyfer yr ystafell ddosbarth symudol, £11k ar gyfer offer ychwanegol a £112k ar gyfer gwaith sylfaen a chysylltu'r | Darparodd 15 o ymatebwyr sylwadau a oedd yn awgrymu y byddai'n well ganddynt yr opsiwn hwn yn lle'r cynnig. | Nid yw'r opsiwn hyn yn mynd i'r afael â'r canlynol:<br>• Ceir ystodau oedran o fwy na 2 flynedd yn Ysgol Talwrn.<br>• Mae gan bennaeth Ysgol Talwrn ymrwymiad addysgu penodol sylweddol.<br>• Mae'n anodd teilwra'r dysgu mewn ysgol o faint Talwrn i dargedu anghenion pob disgybl, gan gynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r disgyblion Mwyaf Abl a Thalentog.<br>• Nid yw'n darparu amgylchedd addas i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru.<br>• Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn yr ysgol.<br>▪ Os ariennir y gwaith cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol drwy fenthyca digymorth, y gost ad-dalu flynyddol fyddai tua £28k.<br>▪ Colli cyfle am fuddsoddiad cyfalaf arwyddocaol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul |

| **Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor** | **Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad** | **Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny** |
|---|---|---|
| ystafell ddosbarth symudol â'r gwasanaethau cyfleustodau) | | disgybl a chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>▪ Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal.<br>▪ Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol wrth i nifer y disgyblion gynyddu, byddai hyn yn arwain at ddisgyblion yn cael cludo y tu allan i'w dalgylch, oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol am gost cludiant ychwanegol o £60k y flwyddyn.<br>▪ Dim arbedion refeniw.<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.10 Ffedereiddio Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn gydag Ysgol Gyfun Llangefni (Ysgol Uwchradd).**<br><br>**Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf** | Oni bai am ymateb Cymdeithas yr Iaith, ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | Trafodwyd yr opsiwn hwn yn adran 5.3 uchod. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r:<br>• angen am ragor o leoedd ysgol yn Llangefni – dengys rhagamcanion disgyblion sy'n cynnwys disgyblion o ddatblygiadau tai newydd ei bod yn debygol y bydd 764 o ddisgyblion yn y 4 ysgol gynradd (Bodffordd, Corn Hir, Talwrn a'r Graig) tra bo capasiti presennol y pedair ysgol gynradd yn darparu 646 o leoedd, **sy'n golygu diffyg o 118 o leoedd**.<br>• gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar bob un o'r ysgolion - y gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar bob un o'r 4 ysgol gynradd |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| | | ac Ysgol Gyfun Llangefni yw £4,385,500. **Ni fyddai** cynnig Cymdeithas yr Iaith **yn arwain at leihau'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol.**<br>• safon yr adeiladau ysgol – mae gan Ysgol Y Graig radd cyflwr o A, mae gan Ysgol Talwrn radd cyflwr o B, mae gan Ysgol Bodffordd radd cyflwr o B, mae gan Ysgol Corn Hir radd cyflwr o C, ac mae gan Ysgol Gyfun Llangefni radd cyflwr o C. **Ni fyddai** cynnig Cymdeithas yr Iaith **yn arwain at welliannau yn safon yr adeiladau ysgol.**<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.11 Adeiladu llawr arall ar Ysgol Talwrn**<br>Yn seiliedig ar gost adeiladu o tua £1.7m. Ni chynhwyswyd y gost bosibl o symud disgyblion i ysgol arall o fewn y gost uchod. | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | Gan dybio y gellid gwneud hyn, er diogelwch y plant, golyga'r opsiwn hyn y byddai rhaid symud i ysgol gynradd arall yn ystod cynnal gwaith adeiladu sylweddol yn yr ysgol.<br>Roedd adran 5.4 o'r Ddogfen Ymgynghori'n amlinellu y byddai nifer ragamcanol y disgyblion yn Ysgol y Graig yn 383 ym Medi 2023 ac y byddai uchafswm o 419 ym Medi 2027. Gan dybio y byddai'r cynnig hwn yn dyblu capasiti Ysgol Talwrn i 98, byddai 330 + 98 = 428 o leoedd ysgol gynradd rhwng Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn. Byddai hyn yn agos iawn i'r uchafswm rhagamcanol o 419 o ddisgyblion.<br>**Byddai'r opsiwn hwn yn cwrdd â mwyafrif yr heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn ac** |

| **Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor** | **Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad** | **Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny** |
|---|---|---|
| | | **eithrio'r gost y pen a chyllid. Fodd bynnag, byddai'n tarfu cryn dipyn ar ddisgyblion Ysgol Talwrn. Felly gwrthodir yr opsiwn hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.12 Gosod ystafelloedd dosbarth dros dro yn Ysgol Talwrn**<br><br>Yn seiliedig ar fenthyca £550k dros 10 mlynedd.<br><br>Y costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ar gyfer Ysgol Talwrn yw £360,000. Byddai Ystafell ddosbarth newydd dros dro bosibl yn costio £250,000.<br>Fodd bynnag, derbyniwyd pris ar gyfer ystafell ddosbarth dros dro o faint tebyg gan y Cyngor yn Awst 2019 ac roedd y pris amcangyfrifiedig yn dod i gyfanswm o £308,000 (£185k ar gyfer yr ystafell ddosbarth symudol, £11k ar gyfer offer ychwanegol a £112k ar gyfer gwaith sylfaen a chysylltu'r ystafell ddosbarth symudol â'r gwasanaethau cyfleustodau) | Nododd un ymatebwr yr ymddengys fod y gost o osod ystafell dros dro newydd yn ormodol, ac y byddai gosod ystafell ddosbarth dros dro newydd yn datrys y diffyg cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010. | Mae'r amcangyfrif a ddarperir o fewn y ddogfen hon yn seiliedig ar bris a dderbyniwyd ar gyfer ystafell ddosbarth dros dro newydd. Ni fyddai cael adeilad newydd yn lle'r adeilad dros dro ond yn datrys y materion o ran diffyg cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhannol.<br><br>▪ Mae'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael ag ychydig iawn o'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, ynghyd â'r gyrwyr allweddol a nodwyd ar gyfer y rhaglen:<br>▪ Ni fyddai prif adeilad Ysgol Talwrn yn cael ei wella.<br>▪ Ni fydd unrhyw newid yn yr amrywiad ym maint dosbarthiadau na nifer yr ystodau oedran a addysgir mewn dosbarthiadau yn Ysgol Talwrn. .<br>▪ Ni fydd y cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich arweinyddiaeth yn cael ei wireddu.<br>▪ Mae ymrwymiad addysgu Pennaeth Ysgol Talwrn yn 70%.<br>▪ Dim ond yn rhannol mae adeilad Ysgol Talwrn yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â mynediad i ddisgyblion anabl. |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| | | ▪ Nid yw adeilad Ysgol Talwrn yn cwrdd â safonau Ysgol yr 21ain Ganrif er mwyn creu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant yn y tymor canolig / hir.<br>▪ Nid yw adeilad Ysgol Talwrn yn darparu amgylcheddau dysgu allanol i hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly'n sefydlu'r amodau i ddarparu Cwricwlwm i Gymru (CIG) yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r lleoedd gweigion yn Ysgol Talwrn.<br>▪ Colli'r cyfle am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn amser o gyfyngiad cyllidol.<br>▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol<br>▪ Ni fyddai'n hyfyw yn ariannol yn y dyfodol oherwydd y costau cynnal a chadw cyfredol uchel fyddai ar ystâd yr adeiladau ysgol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl na chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o arian fesul disgybl.<br>Nid yw'n lleihau costau refeniw cyffredinol addysg yn yr ardal. Mae costau refeniw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol gan y disgwylir i boblogaeth y disgyblion gynyddu. Byddai hyn yn arwain at ddisgyblion yn cael eu cludo i ysgolion y tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti. Rhagwelir y |

| **Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor** | **Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad** | **Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny** |
|---|---|---|
| | | byddai angen 2 gytundeb bws ychwanegol yn y dyfodol am gost o tua £60k y flwyddyn.<br>Nid yw ychwaith yn mynd i'r afael â rhai o'r teimladau a nodwyd gan blant yr ysgol o ran y dymuniad i Ysgol Talwrn gael man chwarae allanol ar laswellt yn lle iard.<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.13 Ffedereiddio Ysgol Talwrn, Ysgol Y Graig, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd gydag Ysgol Gyfun Llangefni (Ysgol Uwchradd).**<br>Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf. | Oni bai am sylwadau Cymdeithas yr Iaith, ni chafwyd unrhyw sylwadau uniongyrchol yn erbyn yr opsiwn hwn, fodd bynnag, awgrymodd 3 ymatebwr y byddai'n well ganddynt gadw pob un o ysgolion Llangefni ar agor, gan ddod â hwy i safon 21ain Ganrif ac ystyried trefniadau ffedereiddio yn ddiweddarach. | ▪ Nid oedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn awgrymu unrhyw fuddion ychwanegol o ran ffedereiddio yn fwy na'r hyn a gynhwyswyd eisoes yn y ddogfen ymgynghori.<br>▪ Ni fyddai dod â'r holl adeiladau i Safon 21ain Ganrif yn darparu'r capasiti ychwanegol a fynnir o fewn ardal Llangefni, oni chynhwyswyd estyniadau hefyd. Byddai hyn yn costio mwy na'r hyn a glustnodwyd o fewn amlen Band B ar gyfer ardal Llangefni.<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn ond yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn yn rhannol, fe'i gwrthodir ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.14 Ffedereiddio Ysgol y Graig (YYG) ac Ysgol Corn Hir (Symud Ysgol Corn Hir (YCH) i ysgol newydd a chynyddu capasiti Corn Hir) Ehangu'r ffederasiwn ymhellach ymlaen i gynnwys Ysgol Bodffordd, Ysgol Talwrn ac Ysgol Gyfun Llangefni dan un corff llywodraethu.** | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | Byddai'r opsiwn hwn yn golygu gadael Ysgol y Graig, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn fel y maent. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r:<br>• angen am ragor o leoedd ysgol yn Llangefni – dengys rhagamcanion disgyblion sy'n cynnwys disgyblion o ddatblygiadau tai newydd ei bod yn debygol y bydd 764 o ddisgyblion yn y 4 ysgol gynradd (Bodffordd, y Corn |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| Yn seiliedig ar gost o tua £9.5m. | | Hir **newydd**, Talwrn a'r Graig) tra byddai'r capasiti yn y bedair ysgol gynradd, gan gynnwys Ysgol Corn Hir newydd, yn darparu 745 o leoedd, **sy'n golygu diffyg o 19 o leoedd.**<br>• byddai'r gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol y 4 ysgol gynradd ac Ysgol Gyfun Llangefni yn cael ei leihau i £4,151,500.<br>• safon yr adeiladau ysgol – mae gan Ysgol Y Graig radd cyflwr o A, mae gan Ysgol Talwrn radd cyflwr o B, mae gan Ysgol Bodffordd radd cyflwr o B, mae gan Ysgol Corn Hir radd cyflwr o C, ac mae gan Ysgol Gyfun Llangefni radd cyflwr o C. **Ni fyddai yn arwain at welliannau yn safon yr adeiladau ysgol heblaw am Ysgol Corn Hir.**<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.15 Ysgol pob oed newydd yn Llangefni i gynnwys Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Talwrn, Ysgol Y Graig, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.**<br>Ysgol Pob Oed yw ysgol sy'n cyfuno addysg gynradd ac uwchradd mewn un sefydliad. Yn seiliedig ar gost o tua £22.46m. | Ni chafwyd sylw uniongyrchol yn erbyn yr opsiwn hwn, fodd bynnag, awgrymodd 1 ymatebwr ysgol pob oed (aml-safle) i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Y Graig. | **Ystyrir bod yr opsiwn a gynigir yn opsiwn amgen rhesymol ac fe'i hystyrir ymhellach yn adran 6.3.3 o'r ddogfen hon.** |

| Dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynir gan y Cyngor | Sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad | Ymateb y Cyngor – eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i gefnogi hynny |
|---|---|---|
| **6.1.16 Ehangu'r holl ysgolion cynradd.**<br>Yn seiliedig ar amcan o fenthyca £7m dros 50 mlynedd. | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | ▪ Nid yw safle Ysgol Bodffordd yn ddigon mawr i gymryd estyniad ar gyfer 1 neu 2 ystafell ddosbarth, ynghyd â digon o le i barcio a man chwarae addysgiadol digonol sy'n ofynnol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac er mwyn dod â'r ysgol yn agos i safon Ysgol 21ain Ganrif.<br>▪ Byddai angen caffael tir ychwanegol o amgylch safle Ysgol Talwrn er mwyn i'r ysgol gynradd gael digon o le i barcio a man chwarae addysgiadol digonol sy'n ofynnol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac er mwyn dod â'r ysgol yn agos i safon Ysgol 21ain Ganrif.<br>▪ Nid oes digon o dir o amgylch Ysgol Corn Hir i'w ymestyn.<br>▪ Ni fyddai ymestyn Ysgol Y Graig i ddarparu 60 o leoedd ychwanegol yn creu digon o gapasiti yn ysgolion cynradd ardal Llangefni.<br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn yn darparu capasiti digonol i'r dyfodol, fe'i gwrthodir ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |
| **6.1.17 Clystyru, cydweithrediad rhwng ysgolion yn ardal Llangefni.**<br>Yn seiliedig ar ddim gwariant cyfalaf. | Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer yr awgrym hwn. | **Cafwyd awgrym bod cydweithrediad da yn digwydd rhwng ysgolion yn ardal Llangefni ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fel mesur moderneiddio ysgolion, nid yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, felly fe'i gwrthodir ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |

O'r adran uchod, opsiwn amgen rhesymol:

6.1.15 Ysgol pob oed newydd yn Llangefni i gynnwys Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Talwrn, Ysgol Y Graig, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.

sy'n cael ei ystyried ymhellach yn adran 6.3

## 6.2 OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL ERAILL A GYNIGWYD GAN RANDDEILIAID YN YSTOD Y CYFNOD YMGYNGHORI

Mae adran 3.6 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn nodi: “Yn ei adroddiad ymgynghori, bydd gofyn i’r cynigiwr esbonio ei asesiad o’r cynnig a’r opsiynau rhesymol eraill a nodwyd, sut mae’r asesiad hwn yn wahanol i’w asesiad cynharach (os o gwbl) a’i asesiad o unrhyw opsiynau rhesymol pellach. Yn olaf, bydd gofyn i’r cynigiwr gadarnhau a yw o’r farn mai gweithredu’r cynnig (yn llawn neu’n rhannol) yw’r ymateb mwyaf priodol i’r rhesymau a nodwyd dros y cynnig a rhoi rhesymau dros ei gasgliad.” Mae’r adran hon o’r adroddiad yn egluro asesiad Cyngor Sir Ynys Môn o’r opsiynau amgen rhesymol a awgrymwyd yn ystod y broses ymgynghori.

Gofynnwyd i’r rhanddeiliaid awgrymu opsiynau amgen rhesymol eraill yn lle cau Ysgol Talwrn, sy’n mynd i’r afael â’r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn. Amlygir yr opsiynau amgen rhesymol a awgrymwyd gan randdeiliaid yn y tabl isod, ac fe’u hasesir yn erbyn yr heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn, a chynhwysir ymateb y Cyngor hefyd.

Isod ceir rhestr o’r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn:

1. Niferoedd disgyblion.
2. Diffyg lle i gyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i dymor hir.
3. Y gost fesul disgybl – sydd 14% yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Ynys Môn.
4. Adeilad yr ysgol - mae gan yr adeilad gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 (2019) a gradd cyflwr B (Boddhaol – Perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad). Nid yw Ysgol Talwrn ond yn cydymffurfio’n rhannol â’r gofynion a ddisgwylir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
5. Safonau - gallai’r safonau presennol a welir yn Ysgol Talwrn fod yn anodd i’w cynnal yn y tymor canolig/hir.
6. Ymrwymiad Addysgu’r Pennaeth – mae’r ymrwymiad addysgu penodol yn 70% ar hyn o bryd.
7. Cyllid – mae’r gost fesul disgybl yn Ysgol Talwrn (£4,553) yn uwch na Chyfartaledd Ysgolion Cynradd Ynys Môn (£3,988), a cheir amrywiaeth eang yn y gost fesul disgybl rhwng Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig (£3,429). Mae’n debygol y bydd gofyn i’r awdurdod wneud arbedion sylweddol dros y 3 blynedd nesaf.

Yn adran 4 o’r Ddogfen Ymgynghori, nodwyd y gyrwyr newid allweddol yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion. Asesir pob cynnig a gyflwynir yn erbyn y gyrwyr hyn:

- Mae angen i **safonau** ar draws pob ysgol fod o leiaf yn dda neu’n rhagorol. Yn ogystal â hyn, byddai disgwyl i ysgolion yn yr ardal fod yn y categori gwyrdd, h.y. ysgolion sy’n perfformio’n dda ac angen y lefel isaf o gefnogaeth.
- Mae’n rhaid i **arweinyddiaeth a rheolaeth** fod yn dda neu’n well ym mhob ysgol. Yn y cyd-destun hwn, mae ar benaethiaid angen digon o amser digyswllt i gydbwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth ag ymrwymiad addysgu.
- Mae angen i’r **adeilad ysgol** ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a fydd yn annog bob disgybl i gyflawni eu potensial ar draws pob maes dysgu. Yn ogystal â hyn, mae’n rhaid i bob ysgol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant ag anableddau.
- Mae angen i **leoedd ysgol digonol** fod ar gael yn yr ardal i gwrdd â galw presennol, rhagolygon niferoedd y dyfodol yn ogystal â lleihau lleoedd gweigion. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau symudiad disgyblion oddi fewn ac o du allan i’r dalgylch os oes modd.

- Bydd angen i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal fod yn **gost effeithlon** h.y. mae angen lleihau'r costau refeniw ac unrhyw gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws ysgolion unigol.
- Bydd angen o leiaf cynnal **darpariaeth cyfrwng Cymraeg** a'i gwella.
- Mae angen cynnal **defnydd cymunedol** o adeiladau ysgol a chyfleusterau cysylltiedig, a'i gynyddu lle bo'n bosibl.

**Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori fel opsiynau amgen yn lle cau Ysgol Talwrn, ynghyd ag ymateb y Cyngor.**

| Rhif | Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori | A ydyw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? | Ymateb y Cyngor - Eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi |
|---|---|---|---|
| 1. | **Buddsoddi yn Ysgol Talwrn i ddod â hi i safon 21ain Ganrif** | Byddai'n mynd i'r afael ag ansawdd yr adeilad yn Ysgol Talwrn, gan sicrhau digon o le ac adnoddau digonol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru. Byddai'n sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>Byddai'n cynnal lefelau presennol o ddefnydd cymunedol, darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br><br>Gall safonau fod yn anodd i'w cynnal yn y tymor canolig/hirdymor (ni fyddai'n sicrhau dosbarthiadau gydag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd).<br><br>Ni fyddai'n mynd i'r afael ag ymrwymiad addysgu penodol y pennaeth.<br><br>Byddai'n arwain at gostau refeniw uwch i'r awdurdod, ac ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost fesul disgybl.<br><br>I ddod ag Ysgol Talwrn mor agos i safon 21ain Ganrif â phosibl, byddai angen gwneud y gwaith a ganlyn:<br>• Estyniad a phrynu tir<br>• Ffioedd contractwyr<br>• Cae pêl-droed a gwaith draenio<br>• Parcio ar gyfer rhieni<br>Byddai hyn oll yn costio tua **£1.4 miliwn.** | Nid yw'r opsiwn ond yn cwrdd â'r heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn yn rhannol.<br><br>Nid yw'r opsiwn ei hun yn mynd i'r afael â'r diffyg capasiti yn Ysgol y Graig.<br><br>Byddai'r gost o gynyddu capasiti Ysgol Y Graig a darparu cyfleuster 21ain Ganrif ar gyfer Ysgol Talwrn tua £1.4m yn uwch na hynny a glustnodwyd o fewn amlen gyllid Band B. Felly gellid cwestiynu gwerth am arian gwario £1.4m ar gyfer llai na 1% o ddisgyblion ysgol gynradd ym Môn.<br><br>**Gan nad yw'r opsiwn hwn ond yn cwrdd â'r heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn yn rhannol, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn a awgrymwyd gan randdeiliaid ac ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |

| Rhif | Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori | A ydyw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? | Ymateb y Cyngor - Eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi |
|---|---|---|---|
| 2. | **Agor ysgol ardal newydd i Ysgol Talwrn, Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Pentraeth** | Gallai fynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn. | Byddai'r angen am floc newydd i gynyddu capasiti Ysgol Y Graig yn parhau.<br><br>Gallai fod yn fforddiadwy trwy ailfodelu a chynyddu capasiti Ysgol Pentraeth er mwyn iddi gyflawni Safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br><br>Byddai hefyd yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir yn ardal Lligwy.<br><br>**Nid yw Ysgol Pentraeth yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ond gellid ei hystyried o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion i'r dyfodol. Felly ni chaiff yr opsiwn hwn ei ystyried ymhellach.** |
| 3. | **Adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir i liniaru'r pwysau yn Ysgol Y Graig. Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, ac ymestyn yr adeilad presennol yn Ysgol Y Graig (nid bloc newydd)** | Byddai'n cwrdd â'r heriau a wynebir gan Ysgol Talwrn yn rhannol pe bai'r Cyngor yn buddsoddi yn adeilad Ysgol Talwrn trwy'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif i ddod ag ysgolion yn agos i safonau Ysgolion 21ain Ganrif, fel y nodir yn y senario uchod. | Er tegwch, byddai angen i'r Awdurdod fuddsoddi i ddod ag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn mor agos i Safonau Ysgolion 21ain Ganrif â phosibl. Mae gadael Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn fel y maent wedi'i ddiystyru eisoes.<br><br>**Ceir gwerthusiad pellach o'r opsiwn hwn fel opsiwn amgen rhesymol – gweler opsiwn 6.3.1 isod.** |
| 4. | **Gadael Ysgol Talwrn fel y mae** | Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn. | Cafodd yr opsiwn hwn ei werthuso eisoes yn adran 6.3.2 o'r ddogfen ymgynghori. |

| Rhif | Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori | A ydyw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? | Ymateb y Cyngor - Eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi |
|---|---|---|---|
| | | | **Nid oedd yr opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn. Felly ni chaiff yr opsiwn hwn ei ystyried ymhellach.** |
| 5. | **Uno Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Talwrn**<br><br>**Yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai disgyblion o Lanbedrgoch yn trosglwyddo i Ysgol Talwrn. Byddai capasiti Ysgol Talwrn yn cynyddu, a byddai'r adeilad yn cael ei wella i safon 21ain Ganrif** | Gallai fynd i'r afael â'r angen i ddarparu cyfleuster dysgu addas i gyflwyno'r cwricwlwm newydd a darparu capasiti digonol.<br><br>Ni fyddai o reidrwydd yn sicrhau safonau da yn y tymor canolig/hir (ni fyddai'n sicrhau dosbarthiadau ag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd).<br><br>Mae ymrwymiad addysgu penodol y pennaeth yn debygol o barhau i fod yn sylweddol mewn ysgol o'r maint hwn.<br><br>Posibilrwydd o golli ased cymunedol o un ardal o leiaf.<br><br>Byddai'r opsiwn hwn yn cynnwys dod ag Ysgol Talwrn mor agos i safon 21ain Ganrif â phosibl, a byddai angen y gwaith a ganlyn:<br>• Estyniad a phrynu tir<br>• Ffioedd contractwyr<br>• Cae pêl-droed a gwaith draenio<br>• Parcio ar gyfer rhieni<br>• Ymestyn mannau chwarae<br>• Ymestyn y neuadd<br>Byddai hyn oll yn costio tua £2.0m – gallai hyn arwain at gwestiynau o ran gwerth am arian.<br><br>**Nid yw Ysgol Llanbedrgoch yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ond mae'n bosibl y caiff ei hystyried o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion i'r dyfodol.** | Byddai angen buddsoddiad sylweddol o tua £2m a fyddai ond yn mynd i'r afael ag anghenion yr ysgolion dan sylw yn rhannol. Canran fechan iawn o ddisgyblion yr ynys (tua 70 disgybl neu tua 1.4% o ddisgyblion ysgolion cynradd Môn) fyddai'n manteisio ar fuddsoddiad o'r fath.<br><br>Byddai'r angen am fuddsoddiad sylweddol i fynd i'r afael â diffyg capasiti o fewn Llangefni yn parhau.<br><br>**Nid yw Ysgol Llanbedrgoch yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ond gellid ei hystyried o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion i'r dyfodol. Felly ni chaiff yr opsiwn hwn ei ystyried ymhellach.**<br>**Nid oedd yr opsiwn yn cwrdd â gyrwyr allweddol y rhaglen moderneiddio ysgolion ac felly ni chaiff ei ystyried ymhellach.** |

| Rhif | Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori | A ydyw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? | Ymateb y Cyngor - Eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi |
|---|---|---|---|
| 6. | **Uno Ysgol Talwrn ac Ysgol Pentraeth** | Gallai'r opsiwn hwn fod yn fforddiadwy trwy ailfodelu a chynyddu capasiti Ysgol Pentraeth er mwyn iddi gyflawni Safonau Ysgolion 21ain Ganrif.<br><br>Gallai'r opsiwn hwn fynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn ond nid yw'n mynd i'r afael â chapasiti Ysgol y Graig. | **Nid yw Ysgol Pentraeth yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ond gellid ei hystyried o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion i'r dyfodol. Felly ni chaiff yr opsiwn hwn ei ystyried ymhellach.** |
| 7. | **Adleoli Ysgol Talwrn (gan gynyddu capasiti) i adeilad newydd ar gyrion Llangefni er mwyn lliniaru'r pwysau o ran bod ysgolion Llangefni dros eu capasiti** | Gallai'r opsiwn hwn fynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn sef:<br>1. Niferoedd disgyblion.<br>2. Diffyg lle i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i dymor hir.<br>3. Y gost fesul disgybl – sydd 14% yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Ynys Môn.<br>4. Adeilad yr ysgol - mae ganddi gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 (2019) a gradd cyflwr B (Boddhaol – Perfformio fel y dylai ond yn arddangos ychydig o ddirywiad). Nid yw Ysgol Talwrn ond yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion a ddisgwylir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<br>5. Safonau - gallai'r safonau presennol a welir yn Ysgol Talwrn fod yn anodd i'w cynnal yn y tymor canolig/hirdymor.<br>6. Ymrwymiad Addysgu'r Pennaeth – mae'r ymrwymiad addysgu penodol yn 70% ar hyn o bryd.<br>7. Cyllid – mae ar y Cyngor angen gwneud arbedion. | **Mae'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig felly fe'i gwerthusir ymhellach yn adran 6.3.2 isod.** |
| 8. | **Mynd i'r afael â'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcanol yn Ysgol Talwrn** | Nid yw'r opsiwn hwn ond yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn (fel y disgrifir o fewn rhan 6.3.9 o'r ddogfen ymgynghori). | **Cafodd yr opsiwn hwn ei werthuso eisoes yn adran 6.3.9 o'r ddogfen ymgynghori ac nid yw'n llwyddo i gwrdd â gyrwyr y strategaeth moderneiddio neu yn** |

| Rhif | Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori | A ydyw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? | Ymateb y Cyngor - Eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi |
|---|---|---|---|
| | | | **wir yr heriau cyfredol a wynebir gan yr ysgol.** |
| 9. | **Ffedereiddio Ysgol Talwrn ac Ysgol Llanbedrgoch ac ymestyn Ysgol Y Graig.** | Nid yw'r opsiwn hwn ond yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn:<br>• Ni fyddai o reidrwydd yn sicrhau safonau da yn y tymor canolig/hir (ni fyddai'n sicrhau dosbarthiadau ag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd).<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael ag ansawdd ac addasrwydd yr adeiladau ysgol presennol.<br>• Mae ymrwymiad addysgu penodol y pennaeth yn debygol o barhau mewn ysgol o'r maint hwn (70 o ddisgyblion).<br>• Ni fyddai'n golygu colli ased cymunedol.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r 56% o leoedd gweigion yn Ysgol Llanbedrgoch a'r 8% o leoedd gweigion yn Ysgol Talwrn. | Byddai'r angen am floc newydd i gynyddu capasiti Ysgol Y Graig yn parhau.<br><br>**Nid yw Ysgol Llanbedrgoch yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ond gellid ei hystyried o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion i'r dyfodol. Felly ni chaiff yr opsiwn hwn ei ystyried ymhellach.** |
| 10. | **Dod ag Ysgol Talwrn i Safon 21ain Ganrif, a ffedereiddio gydag Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Bodffordd** | Mae'n mynd i'r afael â'r mwyafrif o'r heriau sy'n wynebu Ysgol Talwrn.<br><br>Ni fyddai o reidrwydd yn sicrhau safonau da yn y tymor canolig/hir (ni fyddai'n sicrhau dosbarthiadau ag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd).<br><br>Nid yw'n mynd i'r afael â'r diffyg capasiti yn Ysgol Bodffordd. | Byddai'r angen am floc ychwanegol i fynd i'r afael â'r diffyg capasiti o fewn ardal Llangefni yn parhau.<br>Pe datblygwyd Ysgol Talwrn i Safon 21ain Ganrif, er tegwch i bob ysgol, byddai rhaid dod ag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Llanbedrgoch i safon debyg hefyd. Byddai'r gost o gyflawni'r pedwar prosiect dros £2.7m yn fwy na hynny a glustnodwyd ar gyfer yr ardal hon o fewn amlen gyllid Band B.<br><br>Byddai angen buddsoddiad sylweddol o tua £2.9m rhwng Ysgol Bodffordd, Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Talwrn, lle na fyddai ond |

| Rhif | Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori | A ydyw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? | Ymateb y Cyngor - Eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi |
|---|---|---|---|
| | | | nifer gymharol fach o ddisgyblion (tua 3% o ddisgyblion ysgol gynradd Môn) yn manteisio ar fuddsoddiad o'r fath.<br><br>**Nid yw Ysgol Llanbedrgoch yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ond gellid ei hystyried o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion i'r dyfodol. Felly ni chaiff yr opsiwn hwn ei ystyried ymhellach.** |
| 11. | **Cadw pob ysgol yn Llangefni ar agor, a buddsoddi i ddod â hwy i Safon 21ain Ganrif. Ystyried opsiynau o ran ffedereiddio yn nes ymlaen** | Nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Talwrn:<br><br>Ni fyddai o reidrwydd yn sicrhau safonau da yn y tymor canolig/hir (ni fyddai'n sicrhau dosbarthiadau ag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd).<br><br>Ni fyddai'n mynd i'r afael ag ymrwymiad addysgu penodol y penaethiaid.<br><br>Nid yw'n darparu'r capasiti a fynnir o fewn ardal Llangefni.<br><br>Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at amrywiadau hyd yn oed uwch yn y gost fesul disgybl. | Pe bai'r cynnig yn cynnwys adeilad newydd i Ysgol Corn Hir, ynghyd â bloc newydd yn Ysgol Y Graig i ddarparu'r capasiti ychwanegol a fynnir, a gwaith yn cael ei wneud i ddod ag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i safon ysgolion 21ain Ganrif, byddai'r gost yn tua £2.6m yn uwch na hynny a glustnodwyd o fewn amlen Band B ar gyfer yr ardal hon.<br><br>**Nid yw'r opsiwn hwn yn cwrdd â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Talwrn. Felly ni chaiff yr opsiwn hwn ei ystyried ymhellach.** |
| 12. | **Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn** | Byddai'n mynd i'r afael â llawer o'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol | Mae hwn yn wahanol i 6.3.12 yn y Ddogfen |

| Rhif | Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori | A ydyw'n cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn? | Ymateb y Cyngor - Eglurhad, diwygio'r cynnig, gwrthod pryderon gyda rhesymau'r Cyngor i'w cefnogi |
|---|---|---|---|
| | **Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**<br><br>**Defnyddio Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion Cyfnod Sylfaen o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**<br><br>**Adeilad newydd ar gyfer Corn Hir i gymryd disgyblion CA2 o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**<br><br>**Ysgol Gyfun i gymryd blynyddoedd 7-13.**<br><br>**Ailfodelu Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i ddod â hwy i Safon Ysgolion 21ain Ganrif.** | Talwrn ac ysgolion eraill o fewn ardal Llangefni. | Ymgynghori oedd yn ystyried darparu addysg gynradd ac uwchradd o fewn un sefydliad. Mae'r opsiwn hwn yn crybwyll ymagwedd aml-safle.<br>Er tegwch, byddai angen i'r Awdurdod fuddsoddi i ddod ag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn yn agos i Safonau Ysgolion 21ain Ganrif. Mae gadael Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn fel y maent wedi'i ddiystyru eisoes.<br><br>**Gwerthusir yr opsiwn hwn ymhellach yn adran 6.3.3 isod.** |

Mae'r Cyngor yn ystyried bod angen cynnal gwerthusiad pellach o'r opsiynau amgen rhesymol a ganlyn, a amlinellir yn 6.2 uchod:

6.2.3 Adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir i liniaru'r pwysau yn Ysgol Y Graig. Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir, ac ymestyn yr adeilad presennol yn Ysgol Y Graig (nid bloc newydd),
6.2.7 Adleoli Ysgol Talwrn (gan gynyddu capasiti) i adeilad newydd ar gyrion Llangefni er mwyn lliniaru'r pwysau o ran bod ysgolion Llangefni dros eu capasiti ac
6.1.15 a 6.2.12 Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.

Ystyrir y rhain ymhellach yn adran 6.3 isod.

**6.3 Opsiynau Amgen Rhesymol eraill a awgrymwyd gan Randdeiliaid y mae angen eu gwerthuso ymhellach**

Yn yr adran hon, mae'r opsiynau amgen rhesymol pellach a awgrymwyd gan randdeiliaid, fel y nodir uchod, yn cael eu gwerthuso yn erbyn y gyrwyr allweddol a nodwyd ar gyfer y rhaglen moderneiddio ysgolion.

| **6.3.1 Adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir i liniaru'r pwysau yn Ysgol Y Graig. Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir gyda chapasiti ar gyfer 420 o ddisgyblion, gadael Ysgol Y Graig fel y mae.**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £11m dros 50 mlynedd<br>A<br>**Gwella'r adeilad a'r safle yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i gyflawni safon Ysgolion 21ain Ganrif gan gadw eu capasiti presennol.**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £2.6m dros 35 mlynedd<br>Cyfanswm cost o £13.6 m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1. Safonau | ▪ Gellid cynnal y safonau cyfredol a welwyd (Mae pob ysgol wedi derbyn Categori gwyrdd / melyn gan GwE dros y 2 flynedd ddiwethaf) yn y tymor byr.<br>▪ Byddai gan bob ysgol amgylchedd dysgu addas i sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i lwyddo. | ▪ Ni fyddai'n sicrhau na fyddai gan ddosbarthiadau yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn ystod oedran o fwy na 2 flynedd. |
| 2.Arweinydd-iaeth a Rheolaeth | ▪ Gellid cynnal yr arfer da a welwyd ar hyn o bryd yn y tymor byr.<br>▪ Dywed Pennaeth Ysgol Bodffordd "'Does dim gwadu'r ffaith bod llawer o bwysau yn nhermau arweinyddiaeth a dysgu ar ysgolion bach pentref / gwledig, ond mae yna lawer o ffactorau cadarnhaol pwysig sy'n ei gwneud yn swydd ddiddorol, sy'n hogi'r meddwl – ceir amrywiaeth yng ngwaith y staff, mae'r gofynion a'r disgwyliadau'n heriol ac yn amrywiol, caiff pob aelod staff ei ddatblygu yn nhermau rolau arweinyddol a rheoli mewn ysgol fechan" | ▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r ymrwymiad addysgu penodol yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn.<br>▪ Pe bai newid o ran yr uwch dîm rheoli yn y dyfodol, byddai hyn yn creu risg sylweddol o ran na fyddai modd penodi olynydd addas, oherwydd y diffyg cystadleuaeth am swyddi o fewn ysgolion llai. |
| 3. Adeilad Ysgol | ▪ Byddai pob ysgol yn cwrdd â safonau 21ain ganrif gan ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig i ddisgyblion.<br>▪ Byddai arwynebedd safle newydd Ysgol Corn Hir yn ddigon mawr i gymryd ysgol â chapasiti ar gyfer 450 o ddisgyblion. | ▪ Nid yw safle Ysgol Bodffordd yn ddigon mawr i gymryd estyniad ar gyfer 1 neu 2 ystafell ddosbarth, ynghyd â digon o le i barcio a man chwarae addysgiadol digonol sy'n ofynnol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac er mwyn dod â'r ysgol yn agos i safon Ysgol 21ain Ganrif.<br>▪ Byddai angen caffael tir ychwanegol o amgylch safle Ysgol Talwrn er mwyn i'r ysgol gynradd |

| **6.3.1 Adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir i liniaru'r pwysau yn Ysgol Y Graig. Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir gyda chapasiti ar gyfer 420 o ddisgyblion, gadael Ysgol Y Graig fel y mae.**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £11m dros 50 mlynedd<br>A<br>**Gwella'r adeilad a'r safle yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i gyflawni safon Ysgolion 21ain Ganrif gan gadw eu capasiti presennol.**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £2.6m dros 35 mlynedd<br>Cyfanswm cost o £13.6 m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | gael digon o le i barcio a man chwarae addysgiadol digonol sy'n ofynnol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac er mwyn dod â'r ysgol yn agos i safon Ysgol 21ain Ganrif. |
| 4. Lleoedd Ysgol | ▪ Byddai'n darparu lleoedd digonol (862 o leoedd i 763 disgybl) yn yr ysgolion i gwrdd â'r galw presennol a'r dyfodol. | |
| 5. Ariannol | ▪ Gallai'r opsiwn hwn arwain at osgoi cost cludiant o tua £120k yn y dyfodol. Mae'r costau cludiant yn debygol o gynyddu o dan y ddarpariaeth bresennol, oherwydd y rhagamcanion y byddai nifer y disgyblion gryn dipyn yn uwch na chapasiti'r ysgolion fyddai'n golygu gorfod eu cludo i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, i'r ysgolion sydd â lleoedd gweigion. O dan y ddarpariaeth bresennol, os bydd y tueddiadau'n parhau, amcangyfrifir y bydd angen 5 cytundeb bws ychwanegol yn y dyfodol. O dan yr opsiwn amgen hwn, ni fyddai ond angen 1 bws ychwanegol.<br>▪ Byddai costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol yn gostwng o £728,000 i'r dyfodol. | ▪ Amcangyfrifir y byddai cynnydd o £31k yn y cyllid a ddyrannir i ysgolion trwy'r fformiwla cyllido ysgolion.<br>▪ Cost cyfalaf uchel i'r awdurdod, y byddai cyfran sylweddol ohoni'n cael ei hariannu trwy fenthyca digymorth. Amcangyfrifir y byddai'r gost ar gyfer benthyca yn tua £243k y flwyddyn am y 35 mlynedd cyntaf, a £188k y flwyddyn am 15 mlynedd arall. |
| 6. Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda sydd yn ei lle ar hyn o bryd. | |
| 7. Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'n gwella'r ddarpariaeth bresennol. | |
| 8. Materion Cyffredinol | | ▪ Gallai brofi'n anodd newid y dalgylchoedd er mwyn i'r nifer gofynnol o ddisgyblion drosglwyddo o Ysgol Y Graig i Ysgol Corn Hir. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 yn caniatáu i rieni ddewis pa |

| **6.3.1 Adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir i liniaru'r pwysau yn Ysgol Y Graig. Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir gyda chapasiti ar gyfer 420 o ddisgyblion, gadael Ysgol Y Graig fel y mae.**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £11m dros 50 mlynedd<br>A<br>**Gwella'r adeilad a'r safle yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i gyflawni safon Ysgolion 21ain Ganrif gan gadw eu capasiti presennol.**<br>Yn seiliedig ar gost o tua £2.6m dros 35 mlynedd<br>Cyfanswm cost o £13.6 m | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ysgol bydd eu plentyn yn ei mynychu.<br>Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r sefyllfa o ran parcio yn Ysgol Y Graig. |

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â:

- bod gan ddosbarthiadau yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd.
- Ymrwymiad addysgu penodol sylweddol y pennaeth yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mhwynt 2 uchod: "Dywed Pennaeth Ysgol Bodffordd ''Does dim gwadu'r ffaith bod llawer o bwysau yn nhermau arweinyddiaeth a dysgu ar ysgolion bach pentref / gwledig, ond mae yna lawer o ffactorau cadarnhaol pwysig sy'n ei gwneud yn swydd ddiddorol, sy'n hogi'r meddwl – ceir amrywiaeth yng ngwaith y staff, mae'r gofynion a'r disgwyliadau'n heriol ac yn amrywiol, caiff pob aelod staff ei ddatblygu yn nhermau rolau arweinyddol a rheoli mewn ysgol fechan".
- Gallai'r opsiwn hwn fod yn anodd i'w weithredu gan y gallai addasu'r dalgylchoedd er mwyn i'r nifer ofynnol o ddisgyblion drosglwyddo i un ysgol neu'i gilydd fod yn broblem. Byddai angen i'r Awdurdod ystyried pa ysgol yw'r agosaf yn ddaearyddol i gartref disgybl wrth adolygu'r dalgylchoedd. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu.

Am y rhesymau a restrir uchod, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn.

| **6.3.2 Adleoli Ysgol Talwrn (gyda chynnydd mewn capasiti i 150) i adeilad newydd ar gyrion Llangefni er mwyn lliniaru'r pwysau o ran bod ysgolion Llangefni dros eu capasiti**<br>**A**<br>**Gadael Ysgol Y Graig fel y mae. Adolygu dalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £4.163m dros 50 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1. Safonau | ▪ Y safonau cyfredol a welwyd (Mae'r ddwy ysgol wedi derbyn categori cymorth gwyrdd , a dyfarnwyd A am y gallu i wella yn ôl gweithdrefn gategoreiddio ysgolion GwE).<br>▪ Byddai gan Ysgol Y Graig ynghyd ag Ysgol Talwrn, fyddai wedi'i hadleoli, amgylcheddau dysgu addas i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i lwyddo. | ▪ . |

| **6.3.2 Adleoli Ysgol Talwrn (gyda chynnydd mewn capasiti i 150) i adeilad newydd ar gyrion Llangefni er mwyn lliniaru'r pwysau o ran bod ysgolion Llangefni dros eu capasiti<br>A<br>Gadael Ysgol Y Graig fel y mae. Adolygu dalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £4.163m dros 50 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | ▪ Byddai'n sicrhau na fyddai gan y dosbarthiadau yn Ysgol Talwrn, fyddai wedi'i hadleoli, ystod oedran o fwy na 2 flynedd. | |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Mae'n debygol y byddai mwy o arbenigedd yn yr ysgol, ynghyd â'r capasiti i fynd i'r afael ag anghenion plant mwy bregus a phlant mwy abl a thalentog.<br>▪ Posibilrwydd o ddatblygu cysondeb o ran methodoleg addysgu a dysgu.<br>▪ Gan dybio y byddai'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn trosglwyddo i'r ysgol fyddai wedi'i hadleoli, ni fyddai unrhyw lywodraethwyr a phennaeth profiadol yn cael eu colli. | ▪ Diffyg cyfle i rannu arfer da gyda staff o ysgolion eraill.<br>▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r ymrwymiad addysgu penodol sylweddol yn Ysgol Talwrn. |
| 3. Adeilad Ysgol | ▪ Byddai'r ddwy ysgol yn cwrdd â safonau 21ain Ganrif ac yn amgylchedd dysgu ysbrydoledig i ddisgyblion.<br>▪ Byddai dyluniad yr ysgol newydd yn sicrhau amgylcheddau dysgu addas yn yr awyr agored ac wedi'u dylunio i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru (CiG). | |
| 4. Lleoedd Ysgol | ▪ Bydd yn darparu 480 o leoedd ysgol gynradd, sef yr un nifer o leoedd ysgol a ddarperid gan y cynnig pe'i gweithredid. Byddai'n darparu digon o leoedd yn yr ysgolion i gwrdd â'r galw cyfredol a rhagamcanion i'r dyfodol. | ▪ Byddai'n anodd iawn canfod safle 5 erw ar gyfer ysgol gynradd newydd nad oedd yn rhy agos i Ysgol Y Graig ond a fyddai o fewn ffiniau datblygu Llangefni. |
| 5. Cyllidol | ▪ Byddai'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £360,000 yn cael eu dileu.<br>▪ Mae'n debygol y bydd llai o amrywiad yn y gost fesul disgybl o (Ysgol Talwrn £4,553, i Ysgol Y Graig £3,429). | ▪ Cost cyfalaf uchel i'r awdurdod, y byddai cyfran sylweddol ohoni'n cael ei hariannu trwy fenthyca digymorth. Amcangyfrifir y byddai'r gost ar gyfer benthyca yn tua £64k y flwyddyn dros gyfnod o 50 mlynedd. |

| **6.3.2 Adleoli Ysgol Talwrn (gyda chynnydd mewn capasiti i 150) i adeilad newydd ar gyrion Llangefni er mwyn lliniaru'r pwysau o ran bod ysgolion Llangefni dros eu capasiti**<br>**A**<br>**Gadael Ysgol Y Graig fel y mae. Adolygu dalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua £4.163m dros 50 mlynedd. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | ▪ Ni ragwelir unrhyw gostau cludiant ychwanegol. Mae'r costau cludiant yn debygol o gynyddu o dan y ddarpariaeth bresennol, oherwydd y rhagamcanion y byddai nifer y disgyblion gryn dipyn yn uwch na chapasiti'r ysgolion fyddai'n golygu gorfod eu cludo i ysgolion y tu allan i'r dalgylch, i'r ysgolion sydd â lleoedd gweigion. O dan y ddarpariaeth bresennol, os bydd y tueddiadau'n parhau, amcangyfrifir y bydd angen 2 gytundeb bws ychwanegol yn y dyfodol. O dan yr opsiwn amgen hwn, byddai angen 2 fws ychwanegol. yn y dyfodol. | ▪ Amcangyfrifir y bydd cynnydd o tua £5k yn y gyllideb a ddyrannir i ysgolion.<br>▪ Byddai'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £48,500 yn parhau ar gyfer Ysgol Y Graig. |
| 6. Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n debygol o gynnal y ddarpariaeth dda sydd yn ei lle ar hyn o bryd. | |
| 7. Defnydd Cymunedol | ▪ Cyfleuster gwell fyddai o fudd i'r gymuned. | ▪ Posibilrwydd o golli adeilad cymunedol o bentref Talwrn. |
| 8. Materion Cyffredinol | | ▪ Gallai fod yn anodd addasu'r dalgylchoedd er mwyn i'r nifer ofynnol o ddisgyblion drosglwyddo o Ysgol Y Graig i'r Ysgol Talwrn Newydd. Byddai angen i'r Awdurdod ystyried pa ysgol yw'r agosaf yn ddaearyddol i gartref disgybl wrth adolygu'r dalgylchoedd. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu. |

- Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r **gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol** o £48,500 o ran Ysgol Y Graig.
- Amcangyfrifir y byddai **cynnydd** o tua £5k yn y gyllideb a ddyrannir i ysgolion pe cymeradwyir yr opsiwn hwn.

Gallai fod yn anodd gweithredu'r opsiwn hwn – yn arbennig, addasu'r dalgylchoedd er mwyn i'r nifer ofynnol o ddisgyblion drosglwyddo i'r Ysgol Talwrn newydd. Byddai angen i'r

Awdurdod ystyried pa ysgol yw'r agosaf yn ddaearyddol i gartref disgybl wrth adolygu'r dalgylchoedd. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu. Gallai hefyd fod yn anodd iawn canfod safle 5 erw ar gyfer ysgol gynradd newydd nad oedd yn rhy agos i Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir ond a fyddai o fewn ffiniau datblygu Llangefni.

Am y rhesymau a restrir uchod, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn.

**6.3.3 Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**

**Defnyddio Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion Cyfnod Sylfaen o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**

**Adeilad newydd i gymryd disgyblion CA2 o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir (Capasiti – 450).**

**Ysgol Gyfun i gymryd blynyddoedd 7-13.**

**Yn cynnwys gwaith gwella yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i ddod â hwy i Safon Ysgolion 21ain Ganrif.**

Yn seiliedig ar gost o tua:

- tua £11.2m (dros 50 mlynedd) i adeiladu safle newydd i gymryd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol pob oed
- tua £650k dros 50 mlynedd i ddatrys problemau parcio yn Ysgol Y Graig.
- tua £2.6m dros 35 mlynedd i ailfodelu adeiladau Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn.

| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| 1.Safonau | ▪ Mae ganddo'r potensial i ddylanwadu ar safonau'r ystafell ddosbarth gan y gallai staff yn yr ysgol pob oed weithio gyda'i gilydd a rhannu arfer da a datblygu arbenigedd mewn meysydd penodol o'r cwricwlwm, ynghyd â mynd i'r afael ag anghenion disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a rhai mwy abl a thalentog (MAT).<br>▪ Mae ysgolion mwy (fel yr ysgol pob oed) yn dueddol o fod â mwy o arbenigedd a chapasiti i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy bregus a'r disgyblion mwy abl a thalentog.<br>▪ Posibilrwydd o ddatblygu cysondeb o ran methodoleg addysgu a dysgu mewn ysgol pob oed.<br>▪ Gall ysgolion pob oed wella'r trosglwyddiad o addysg gynradd i uwchradd. | ▪ Gall fod yn anoddach datblygu cysondeb o ran methodoleg dysgu ac addysgu mewn ysgol pob oed aml-safle – na phe byddai ar un safle.<br>▪ Gall fod yn anodd gwella'r trosglwyddiad o addysg gynradd i uwchradd na phe byddai ar un safle.<br>▪ Gall fod yn anoddach cynnig cwricwlwm ehangach na phe byddai ar un safle.<br>▪ Gall fod yn anoddach i staff sydd â phrofiad o ddysgu plant o oedran cynradd ac uwchradd weithio gyda'i gilydd i rannu arferion da a datblygu syniadau ar gyfer ffurfio a darparu cwricwlwm effeithiol yn yr ysgol pob oed na phe byddai ar un safle.<br>▪ Gall fod llai o gyfleoedd i ddisgyblion gael eu dysgu yn ôl pynciau penodol o gyfnod cynnar |

| | | |
|---|---|---|
| **6.3.3 Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**<br><br>**Defnyddio Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion Cyfnod Sylfaen o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**<br><br>**Adeilad newydd i gymryd disgyblion CA2 o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir (Capasiti – 450).**<br><br>**Ysgol Gyfun i gymryd blynyddoedd 7-13.**<br><br>**Yn cynnwys gwaith gwella yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i ddod â hwy i Safon Ysgolion 21ain Ganrif.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua:<br>▪ tua £11.2m (dros 50 mlynedd) i adeiladu safle newydd i gymryd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol pob oed<br>▪ tua £650k dros 50 mlynedd i ddatrys problemau parcio yn Ysgol Y Graig.<br>▪ tua £2.6m dros 35 mlynedd i ailfodelu adeiladau Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn. | | |
| | ▪ Gall ysgolion pob oed gynnig cwricwlwm ehangach a mwy effeithlon.<br>▪ Gall staff sydd â phrofiad o addysgu plant o oedran cynradd ac uwchradd weithio gyda'i gilydd i rannu arferion da a datblygu syniadau ar gyfer ffurfio a darparu cwricwlwm effeithiol yn yr ysgol pob oed.<br>▪ Cyfleoedd i ddisgyblion gael eu haddysgu yn ôl pynciau penodol o gyfnod cynnar yn eu dysgu yn yr ysgol pob oed, gan roi cyfle i'r disgyblion mwy abl a thalentog ddatblygu'n gynt. Gallai adeiladu ar y safonau da a welir yn yr ysgolion ar hyn o bryd.<br>▪ O ran y perfformiad da a welir ar hyn o bryd yn yr ysgolion, byddai'n haws cynnal hyn yn y tymor canolig/hir o ganlyniad i wella adeiladau a chyfleusterau'r ysgolion. | yn eu dysgu yn yr ysgol pob oed, na phe byddai ar yn safle.<br>▪ Ni allai Ysgol Talwrn ac Ysgol Bodffordd sicrhau nad yw'r ystod oedran mewn dosbarthiadau yn fwy na 2 flynedd. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Bydd yn bosibl datblygu ymhellach yr uwch dîm rheoli yn yr ysgol pob oedran a fyddai'n gwella arweinyddiaeth a rheolaeth.<br>▪ Fodd bynnag, dywed Pennaeth Ysgol Bodffordd: ''Does dim gwadu'r ffaith bod llawer o bwysau yn nhermau arweinyddiaeth a dysgu ar ysgolion bach pentref / gwledig, ond mae yna lawer o ffactorau cadarnhaol pwysig sy'n ei | ▪ Posibilrwydd o golli llywodraethwyr a phenaethiaid profiadol.<br>▪ Gall fod yn anodd arwain a rheoli 3 safle ar wahân.<br>▪ Ni fyddai ymrwymiadau addysgu penodol y pennaeth yn cael eu lleihau yn Ysgol Bodffordd neu Ysgol Talwrn. |

| |
|---|
| **6.3.3 Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**<br><br>**Defnyddio Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion Cyfnod Sylfaen o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**<br><br>**Adeilad newydd i gymryd disgyblion CA2 o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir (Capasiti – 450).**<br><br>**Ysgol Gyfun i gymryd blynyddoedd 7-13.**<br><br>**Yn cynnwys gwaith gwella yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i ddod â hwy i Safon Ysgolion 21ain Ganrif.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua:<br>▪ tua £11.2m (dros 50 mlynedd) i adeiladu safle newydd i gymryd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol pob oed<br>▪ tua £650k dros 50 mlynedd i ddatrys problemau parcio yn Ysgol Y Graig.<br>▪ tua £2.6m dros 35 mlynedd i ailfodelu adeiladau Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn. |

| | | |
|---|---|---|
| | gwneud yn swydd ddiddorol, sy'n hogi'r meddwl – ceir amrywiaeth yng ngwaith y staff, mae'r gofynion a'r disgwyliadau'n heriol ac yn amrywiol, caiff pob aelod staff ei ddatblygu yn nhermau rolau arweinyddol a rheoli mewn ysgol fechan' ". | |
| 3.Adeilad Ysgol | ▪ Byddai gostyngiad o £777k yn y gost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol.<br>▪ Byddai Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn yn agos at gwrdd â safonau 21ain ganrif a byddai'n amgylchedd dysgu ysbrydoledig i'r disgyblion.<br>▪ Byddai'r ysgolion yn cynnwys amgylcheddau dysgu addas yn yr awyr agored ac wedi'u cynllunio i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru (CiG), cymaint ag y bo'n bosibl ar gyfer y tymor canolig/hir. | ▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â chyflwr adeilad cyfredol Ysgol Gyfun Llangefni, gan na chafodd digon o gyllid ei glustnodi o fewn amlen Band B ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn. |
| 4.Lleoedd Ysgol | ▪ Yn cyflawni'r gofynion cyfredol ac i'r dyfodol o ran capasiti<br>▪ Yn lleihau symudiadau rhwng dalgylchoedd. | ▪ Byddai gan yr ysgol pob oed tua 1,500 o ddisgyblion, y gellir ei hystyried yn rhy fawr gan yr awdurdod. |
| 5.Cyllidol | ▪ Byddai gostyngiad o £777k yn y gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcanol. | ▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r annhegwch o ran cyllid. Ni fyddai'n lleihau'r amrywiaeth yn y gost y pen.<br>▪ Byddai angen ariannu cyfran o'r gost gyfalaf gan y Cyngor trwy fenthyca digymorth, yr amcangyfrifir y byddai'n costio £288k y flwyddyn am 35 mlynedd, |

| |
|---|
| **6.3.3 Agor ysgol pob oed (aml-safle) yn Llangefni i gymryd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**<br><br>**Defnyddio Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion Cyfnod Sylfaen o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir.**<br><br>**Adeilad newydd i gymryd disgyblion CA2 o Ysgol Y Graig ac Ysgol Corn Hir (Capasiti – 450).**<br><br>**Ysgol Gyfun i gymryd blynyddoedd 7-13.**<br><br>**Yn cynnwys gwaith gwella yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn i ddod â hwy i Safon Ysgolion 21ain Ganrif.**<br><br>Yn seiliedig ar gost o tua:<br>▪ tua £11.2m (dros 50 mlynedd) i adeiladu safle newydd i gymryd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol pob oed<br>▪ tua £650k dros 50 mlynedd i ddatrys problemau parcio yn Ysgol Y Graig.<br>▪ tua £2.6m dros 35 mlynedd i ailfodelu adeiladau Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | ynghyd â £228k y flwyddyn am 15 mlynedd arall.<br>▪ Yn arwain at gynnydd o £43k mewn costau refeniw trwy fformiwla ddirprwyedig yr ysgolion. |
| 6.Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth dda a geir ar hyn o bryd. | |
| 7.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r asedau cymunedol yn cael eu cadw, a'u cyflwr yn cael ei wella. | |
| 8.Materion Cyffredinol | | ▪ Problemau logistaidd i rieni sy'n gorfod codi plant o fwy nag un safle. |

Gallai'r opsiwn hwn ei wneud yn anoddach:

- datblygu cysondeb o ran methodoleg dysgu ac addysgu mewn ysgol pob oed aml-safle – na phe byddai ar un safle.
- gwella'r trosglwyddiad o addysg gynradd i uwchradd na phe byddai ar un safle.
- cynnig cwricwlwm ehangach na phe byddai ar un safle.
- i staff sydd â phrofiad o ddysgu plant o oedran cynradd ac uwchradd weithio gyda'i gilydd i rannu arferion da a datblygu syniadau ar gyfer ffurfio a darparu cwricwlwm effeithiol yn yr ysgol pob oed na phe byddai ar un safle.

Hefyd, gallai'r opsiwn hwn olygu:

- bod llai o gyfleoedd i ddisgyblion gael eu dysgu yn ôl pynciau penodol o gyfnod cynnar yn eu dysgu yn yr ysgol pob oed, na phe byddai ar yn safle.
- na allai Ysgol Talwrn ac Ysgol Bodffordd sicrhau nad yw'r ystod oedran mewn dosbarthiadau yn fwy na 2 flynedd.
- y posibilrwydd o golli llywodraethwyr a phenaethiaid profiadol.
- gall fod yn anodd arwain a rheoli 3 safle ar wahân.

- na fyddai ymrwymiadau addysgu penodol y pennaeth yn cael eu lleihau yn Ysgol Bodffordd neu Ysgol Talwrn.
- na fyddai'n mynd i'r afael â chyflwr adeilad cyfredol Ysgol Gyfun Llangefni, gan na chafodd digon o gyllid ei glustnodi o fewn amlen Band B ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn.
- byddai gan yr ysgol pob oed tua 1,500 o ddisgyblion, y gellir ei hystyried yn rhy fawr gan yr awdurdod
- ni fyddai'n mynd i'r afael â'r annhegwch o ran cyllid. Ni fyddai'n lleihau'r amrywiaeth yn y gost y pen.
- byddai angen ariannu cyfran o'r gost gyfalaf gan y Cyngor trwy fenthyca digymorth, yr amcangyfrifir y byddai'n costio £288k y flwyddyn am 35 mlynedd, ynghyd â £228k y flwyddyn am 15 mlynedd arall.
- arwain at gynnydd o £43k mewn costau refeniw trwy fformiwla ddirprwyedig yr ysgolion.
- problemau logistaidd i rieni sy'n gorfod codi plant o fwy nag un safle.

Am y rhesymau a restrir uchod, gwrthodir yr opsiwn amgen rhesymol hwn.

## 7. CASGLIAD

Ar ôl ystyried yr holl opsiynau a gyflwynwyd ynghyd â'r opsiynau amgen rhesymol (yn adran 6.3 uchod) a'r cryfderau a'r gwendidau a briodolir i bob un, y cynnig a argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith yw:

**"Cynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn"**

Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol o ganlyniad i'r cynnig, mae'r Awdurdod yn ymrwymo i:

- ddarparu cludiant i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn ar hyn o bryd i'r Ysgol Y Graig ehangedig, yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion.

Mae'r cynnig yn cwrdd â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig, sef:

1. Niferoedd disgyblion - mae'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol Y Graig. Hefyd bydd disgyblion o Dalwrn yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau lle mae'r ystod oedran yn llai. Bydd llai o ddisgyblion yn symud rhwng dalgylchoedd.
2. Byddai digon o le i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i'r tymor hir. Bydd yr Ysgol Y Graig ehangedig wedi'i hadeiladu'n bwrpasol i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CiG). Bydd ganddi adnoddau a chyfleusterau gwell i gyflwyno'r cwricwlwm cyfan mewn modd priodol, gwahaniaethol, eang ac amrywiol, a fydd yn fanteisiol i bob disgybl.
3. Y gost fesul disgybl – byddai gostyngiad yn y gost gyfartalog fesul disgybl yn yr ysgol ehangedig. Byddai'r gost ragamcanol fesul disgybl yn yr ysgol ehangedig newydd yn tua £3,436. Byddai hyn yn arwain at arbedion refeniw i'r Cyngor.
4. Adeilad Ysgol – dylunnir adeilad 21ain ganrif newydd a chanddo gostau cynnal a chadw isel ynghyd â graddiad BREEAM Rhagorol. Byddai costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol y ddwy ysgol o £408,500 yn cael eu dileu. Bydd yr ysgol ehangedig yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.

5. Safonau – bydd yr ysgol ehangedig newydd mewn sefyllfa i gynnal graddiad Estyn ac i gadw'r categoreiddiad gwyrdd yn y tymor canolig i dymor hir.
6. Ymrwymiad Addysgu'r Pennaeth - yn yr Ysgol y Graig ehangedig newydd, rhagwelir y bydd y pennaeth yn parhau i fod heb unrhyw ymrwymiad addysgu penodol. Mae'n bosibl adeiladu a datblygu uwch dîm rheoli ymhellach, a allai wella arweinyddiaeth a rheolaeth.
7. Cyllid – mae ysgolion mwy mewn sefyllfa well i gyflawni dosbarthiadau effeithlon o ran maint sy'n nes at y gymhareb ddisgybl-athro orau bosibl. Mae hyn yn ei wneud yn haws i ysgolion mawr gyfrannu tuag at arbedion a fynnir gan yr Awdurdod Lleol yn y dyfodol.

Byddai'r cynnig hefyd yn cwrdd â gofynion y gyrwyr newid allweddol a nodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion 2018. Mae'r rhain yn cynnwys gwella safonau addysgol; gwella arweinyddiaeth a rheolaeth; sicrhau bod adeiladau ysgol yn addas i'r diben; lleihau nifer y lleoedd gweigion; lleihau cost addysg yn gyffredinol a'r amrywiaeth yn y gost fesul disgybl; cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu defnydd cymunedol adeiladau ysgol. Mae'r cynnig yn cwrdd â gofynion y gyrwyr allweddol fel a ganlyn:

- Mae angen i **safonau** ar draws pob ysgol fod o leiaf yn dda neu'n rhagorol. Yn ogystal â hyn, byddai disgwyl i ysgolion yn yr ardal fod yn y categori gwyrdd, h.y. ysgolion sy'n perfformio'n dda ac angen y lefel isaf o gefnogaeth. – bydd yr ysgol ehangedig newydd mewn sefyllfa i gynnal graddiad Estyn ac i gadw'r categoreiddiad gwyrdd yn y tymor canolig i dymor hir.
- Mae'n rhaid i **arweinyddiaeth a rheolaeth** fod yn dda neu'n well ym mhob ysgol. Yn y cyd-destun hwn, mae ar benaethiaid angen digon o amser digyswllt i gydbwyso heriau arweinyddiaeth a rheolaeth ag ymrwymiad addysgu - yn yr Ysgol y Graig ehangedig newydd, rhagwelir y bydd y pennaeth yn parhau i fod heb unrhyw ymrwymiad addysgu penodol. Mae'n bosibl adeiladu a datblygu uwch dîm rheoli ymhellach, a allai wella arweinyddiaeth a rheolaeth.
- Mae angen i'r **adeilad ysgol** ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a fydd yn annog bob disgybl i gyflawni eu potensial ar draws pob maes dysgu. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant ag anableddau – dylunnir adeilad 21ain ganrif newydd a chanddo gostau cynnal a chadw isel ynghyd â graddiad BREEAM rhagorol. Byddai costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol y ddwy ysgol o £408,500 yn cael eu dileu. Bydd yr ysgol ehangedig yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Mae angen i **leoedd ysgol** digonol fod ar gael yn yr ardal i gwrdd â galw presennol, rhagolygon niferoedd y dyfodol yn ogystal â lleihau lleoedd gweigion. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau symudiad disgyblion o'r tu mewn a thu allan i'r dalgylch os oes modd - mae'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu lleoedd digonol yn Ysgol Y Graig. Hefyd bydd disgyblion o Dalwrn yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau lle mae'r ystod oedran yn llai. Bydd llai o ddisgyblion yn symud rhwng dalgylchoedd.
- Bydd angen i unrhyw ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal fod yn **gost effeithlon** h.y. mae angen lleihau'r costau refeniw ac unrhyw gostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol. Yn ogystal â hyn, mae angen lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws ysgolion unigol - byddai gostyngiad yn y gost gyfartalog fesul disgybl yn yr ysgol ehangedig. Byddai'r gost ragamcanol fesul disgybl yn yr ysgol ehangedig newydd yn tua £3,436. Byddai hyn yn arwain at arbedion refeniw i'r Cyngor.
- **Darpariaeth cyfrwng Cymraeg** - fan leiaf, byddai'r ddarpariaeth dda bresennol yn cael ei chynnal.
- Mae angen cynnal **defnydd cymunedol** o adeiladau ysgol a chyfleusterau cysylltiedig, a'i gynyddu lle bo'n bosibl – byddai'r gymuned yn parhau i gael budd trwy gael defnyddio'r adeilad ysgol newydd ehangedig.

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **18.07.23** |
| Pwnc / Testun: | **Darpariaeth Cinio am Ddim – Ysgol Bodffordd** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **?** |
| Cyfarwyddwr: | **Marc B. Hughes** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Angharad Fflur Jones, Rheolwr Perfformiad a Busnes y Gwasanaeth Dysgu**<br>**01248 752 341**<br>**Angharadjones@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Perthnasol i'r holl Aelodau Etholedig** |

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**Argymhelliad**

Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynllun i adleoli caban sydd ar safle'r hen Ysgol Corn Hir i Ysgol Bodffordd er mwyn sicrhau bod Ysgol Bodffordd yn gallu darparu cinio am ddim yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn ysgolion cynradd.

**Cefndir**

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn 2021 i gynnig cinio am ddim i blant ysgolion cynradd erbyn 2024, rhagwelwyd cynnydd yn niferoedd y disgyblion fyddai'n dewis cael cinio ysgol yn hytrach na dewis dod â phecynnau bwyd. Mae swyddogion o'r Gwasanaeth Dysgu wedi cydweithio â'r cwmni arlwyo Chartwells a swyddogion o'r Adran Eiddo i sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau perthnasol i wireddu'r cynllun hwn ar gyfer pob plentyn cynradd ar Ynys Môn.

Ers Medi 2022, mae plant Derbyn a Blwyddyn 1 pob ysgol yn derbyn cinio am ddim, a phlant Blwyddyn 2 ers Ionawr 2023.

Cyn cyflwyno'r cyflwyniad cyffredinol, roedd y nifer cyfartalog a fanteisiodd ar brydau ysgol yn ystod Mai 2022 fel a ganlyn:

- Derbyn: 28%
- Blwyddyn 1: 32%
- Blwyddyn 2: 57%

Ers i'r UPFSM gael eu cyflwyno i'r Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, mae'r ffigyrau derbyn diweddaraf ar gyfer y blynyddoedd hyn fel a ganlyn:

- Derbyn: 67%
- Blwyddyn 1: 88%
- Blwyddyn 2: 67%

Rhagwelir y bydd cynnydd tebyg yn y galw am ginio ysgol wrth i'r cynllun gael ei ymestyn i gynnwys darpariaeth ar gyfer blynyddoedd 3,4,5 a 6. Mae cynllunio ar y gweill rŵan er mwyn sicrhau bod ysgolion yn barod i ddarparu cinio ar gyfer holl ddisgyblion cynradd Ynys Môn erbyn 2024.

Er mwyn cyflawni hyn, mae angen recriwtio mwy o staff a gwneud gwaith addasu adeiladau mewn 3 ysgol.

Mae gwaith addasu dwy ysgol, er yn lled sylweddol, o fewn ôl troed yr adeilad presennol ac wedi ei raglennu ar gyfer gwyliau'r haf 2023.

Mae'r heriau sydd ynghlwm â hwyluso darpariaeth hyfyw yn Ysgol Bodffordd yn fwy sylweddol ac yn peri risg i allu'r Cyngor i gyflawni'r cynllun.

Ar hyn o bryd mae bwyd yn cael ei gario ar droli drwy ystafell ddosbarth ac yna'n cael ei drosglwyddo i lawr stepiau i droli arall ac yna i lawr coridor i'r gofod bwyta. Mae'r gofod bwyta o fewn y Ganolfan Gymunedol, ac yn cael ei rannu rhwng yr ysgol, y Cylch Meithrin a defnydd cymunedol arall.

Nid yw'r trefniadau cyfredol yn yr ysgol hon yn addas ar gyfer darparu cinio ar gyfer y galw presennol mewn gwirionedd, ac nid yw ymestyn y trefniadau i ddarparu ar gyfer mwy o blant yn ymarferol yn y tymor hir.

Mae'r trefniadau cyfredol yn llafurus iawn, ac mae rheoli risgiau iechyd a diogelwch i staff y gegin a phlant sydd yn y dosbarth drws nesaf i'r gegin, a'r risg i ansawdd y bwyd yn feichus.

Ar hyn o bryd mae 77 o blant yn mynychu Ysgol Bodffordd ac mae rhwng oddeutu 45 a 60 o blant yn derbyn cinio'n ddyddiol. Erbyn mis Medi 2023, bydd 74 o blant yn mynychu'r ysgol a bydd y plant hyn i gyd yn cael cynnig cinio am ddim, felly mae potensial o gynnydd o rhwng 15 a 30 pryd ychwanegol y dydd.

Mae ymweliadau ar y cyd wedi digwydd i'r ysgol rhwng swyddogion y Gwasanaeth Dysgu, Eiddo a Chartwells ac mae trafodaethau wedi digwydd gyda staff y gegin a'r Pennaeth.

Penderfynwyd mai'r unig opsiwn hyfyw o ganlyniad i osodiad yr adeilad a'r safle ehangach yw trosi un o'r dosbarthiadau sy'n cyffinio â'r gegin i fod yn gantîn, a fyddai'n caniatáu trosglwyddiad bwyd trwy agoriad gweini o'r gegin i'r gofod bwyta. Golyga hynny bod rhaid adleoli dosbarth, a gan nad oes gofod addas o fewn yr adeilad presennol, bod rhaid creu gofod newydd. Noder na ellir trosi'r gofod bwyta presennol i ddefnydd dosbarth gan ei fod yn ofod aml-ddefnydd cymunedol.

Byddai datblygu estyniad i'r adeilad presennol yn heriol oherwydd gosodiad a lefelau tir. Felly cynigir mai gosod caban ar safle'r ysgol, sydd ar wahân i'r prif adeilad ar gyfer defnydd fel dosbarth yw'r datrysiad mwyaf addas. Mae argaeledd caban mewn cyflwr da ar safle'r hen Ysgol Corn Hir yn golygu y gellir ei ail-bwrpasu a chynnig cyfle i uchafu gwerth am arian.

Bydd y gwaith i leoli caban, i gynnwys sicrhau caniatâd cynllunio, bodloni gofynion caffael ynghyd â gwneud gwaith tir a chysylltiadau gwasanaethau ynghyd â'r addasiadau angenrheidiol i'r gegin ar safle gweithredol, yn cael ei raglennu tros gyfnod o hyd at flwyddyn er mwyn rheoli risgiau a chyfyngu amhariaeth ar ddefnyddwyr yr ysgol.

Rhagwelir costau o hyd at £250,000 a byddant yn cael eu cyllido drwy'r grant cinio am ddim.

**Cynllun ac Amserlen Amlinellol**

| Dyddiad | Gweithred |
|---|---|
| Mehefin 2023 | Paratoi dogfennau tendro ar gyfer ail-leoli'r caban |
| Awst/Medi 2023 | Caffael y gwaith symud y caban |
| Ionawr 2024 | Symud y caban o hen safle Corn Hir i Bodffordd |
| Chwefror 2024 | Paratoi dogfennau tendro ar gyfer gwaith yn y gegin |
| Ebrill 2024 | Caffael y gwaith ar y gegin |
| Gwyliau'r Haf 2024 | Cwblhau'r gwaith cegin |

Gan na fydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau am flwyddyn a gan fod yr Awdurdod yn anelu i geisio darparu cinio am ddim i bob disgybl cynradd erbyn Medi 2023, mae trafodaethau ar y gweill er mwyn edrych ar opsiynau tymor byr gan gynnwys cynyddu nifer o staff yn yr ysgol hon dros dro ac adeiladu lifft platfform er mwyn hwyluso'r gwaith o symud y bwyd o'r gegin i'r neuadd.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Ystyriwyd gwneud dim a pharhau gyda'r trefniadau presennol, ond barnwyd fod y sefyllfa gyfredol yn annymunol a bod cyfle i gyflawni gwelliant i brofiad disgyblion, athrawon a staff y gegin trwy wneud addasiadau fyddai'n cael eu hariannu gan arian grant.<br><br>Nid oes datrysiadau amgen i'r heriau gweini bwyd ar gael heb ail-ddyluniad a gwaith sylweddol iawn i'r ysgol a fyddai tu hwnt i'r hyn y gallai'r grant ei gyllido. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan fod cost y gwaith yn sylweddol ac y bydd canran fawr o'r grant yn cael ei gwario ar y cynllun hwn. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydy |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r cynllun yn sicrhau ein bod yn ymateb i benderfyniad Llywodraeth Cymru o allu darparu cinio am ddim i bob plentyn cynradd. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Mae'r penderfyniad hwn yn cefnogi llesiant plant, a all leihau costau ar wasanaethau eraill yn yr hir dymor. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Do, rydym wedi ymgynghori gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion ar y cynllun darparu cinio am ddim i bob plentyn cynradd. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Panel Craffu Addysg<br>Tim Arweinyddiaeth | |

| F - Atodiadau: |
| --- |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
| --- |
| |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 18fed Gorffennaf 2023 |
| **Pwnc / Testun:** | Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) – Drafft Terfynol |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cyng. Neville Evans** (Hamdden, Twristiaeth a Morwrol) |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Christian Branch**<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **Andy Godber**<br>Rheolwr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol<br><br>andygodber@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i holl Aelodau Etholedig |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol newydd (2023-2028).**

Sefydlwyd Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad (1949). Maen nhw'n dirweddau arbennig sydd â gwarchodaeth drwy'r system gynllunio i warchod eu harddwch naturiol. Roedd Deddfwriaeth ddilynol – Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000 – yn gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol sy'n gweinyddu AHNE baratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli ar gyfer eu hardal, ac adolygu'r cynlluniau hyn bob 5 mlynedd. Mae hon yn ddyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol.

Diben Cynllun Rheoli AHNE yw gwerthuso a phennu nodweddion arbennig yr AHNE, ac mae'n nodi pa gamau sydd eu hangen i sicrhau bod y rhinweddau hyn yn cael eu cadw a'u gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'n ofyniad statudol ar y Cyngor Sir i baratoi Cynllun Rheoli AHNE

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

| |
|---|
| Mae'n gynllun statudol sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'r Cynllun Rheoli AHNE yn cyd-fynd yn llawn â Chynllun newydd y Cyngor, ac o ystyried ei gyfrifoldebau eang bydd yn helpu i gyflawni'r 6 blaenoriaeth allweddol sef:<br>▪ Gofal Cymdeithasol a Llesiant – gan ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir<br>▪ Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol<br>▪ Tai – sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref<br>▪ Economi – hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys<br>▪ Newid Hinsawdd – ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030<br>▪ Y Gymraeg - cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith<br><br>Roedd y Cynllun drafft yn destun proses ymgynghori gyhoeddus 6 wythnos. Ceir crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd, a'r newidiadau yn dilyn yr ymgynghoriad i'r Cynllun terfynol, yn yr Adroddiad Ymgynghori **(Atodiad B).** |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Mae cyllid wedi ei sicrhau gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu a gweithredu'r Cynllun.<br><br>Bydd ffynonellau cyllid allanol ychwanegol hefyd yn cael eu harchwilio i gyflawni'r Cynllun rhwng 2023 a 2028. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r Cynllun Rheoli yn darparu fframwaith i sicrhau rheolaeth briodol, hirdymor yr AHNE.<br><br>Mae'r Cynllun Rheoli yn canolbwyntio ar rinweddau arbennig yr AHNE i sicrhau eu cadwraeth a'u gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / | Darperir cyllid gan CNC i ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Rheoli |

| | | |
|---|---|---|
| | dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Rheoli, mewn cydweithrediad â'r Cydbwyllgor Cynghori. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid sy'n chwarae rhan weithredol o reoli'r AHNE. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Mae'r Cynllun Rheoli AHNE drafft wedi bod yn destun cyfnod o ymgynghori cyhoeddus |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| Atodiad A: Cynllun Rheoli AHNE (2023-2028)<br>Atodiad B: Adroddiad Crynodeb o'r Ymgynghoriad |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
| --- |
| |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales



# Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn 2023-2028

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. Ymwelwch a www.ynysmon.llyw.cymru am gopi digidol
This document is available in English. Visit www.Anglesey.gov.wales for digital copy



Biwmaris/Beaumaris


| Tudalen | Cynnwys |
|---|---|
| 3 | Cyflwyno'r AHNE |
| 6 | Gweledigaeth |
| 7 | Cyflwyno'r Themâu Allweddol |
| 8 | Prif Nodweddion yr AHNE |
| 13 | Ysgogwyr Newid Allweddol |
| 23 | 5 Themâu Allweddol ar gyfer Cynllun Rheoli 2023-28 |
| 29 | Rheoli a Llywodraethu |

# Cyflwyno'r AHNE

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn yn cwmpasu rhannau helaeth o arfordir dramatig Ynys Môn. Mae'n cynnwys rhan fwyaf o glogwyni a thraethau'r ynys, a llawer o'r tir amaethyddol a fforestydd sy'n ffurfio'r gefnlen i arfordir yr ynys. Mae Ynys Môn yn cadw ei statws fel cyrchfan wyliau boblogaidd oherwydd ei thraethau eang a'i chilfachau cudd. Ond, yn hanfodol, mae hefyd yn dirwedd waith o ffermydd a phentrefi, gydag economi arfordirol a gwledig llewyrchus ac amrywiol.

- Mae gan AHNE Ynys Môn un o'r tirweddau mwyaf arbennig, atyniadol ac amrywiol yn Ynysoedd Prydain. Cafodd ei ddynodi fel AHNE yn 1966 i amddiffyn apêl esthetig ac amrywiaeth tirwedd arfordirol yr ynys a'i chynefinoedd rhag datblygiad amhriodol. Ym mhedwerydd adroddiad ar bymtheg y Comisiwn Paciau Cenedlaethol ac adroddiad cyntaf y Comisiwn Cefn Gwlad a gyhoeddwyd yn 1968 disgrifir AHNE Ynys Môn fel a ganlyn:
- Mae'r ardaloedd sydd wedi eu dynodi ar Ynys Môn oddeutu 83 milltir sgwâr ac yn gorwedd ar hyd arfordir yr ynys gyda bylchau o amgylch yr ardaloedd trefol ac yng nghyffiniau Wylfa. Mae arfordir Ynys Môn, gyda nifer o rannau sy'n ynysig, yn cyfrannu llawer at apêl yr ynys. Mae'r clogwyni garw, y baeau tywodlyd, y corsydd a'r twyni, glannau cysgodol y Fenai a llethrau gwyntog mynydd Caergybi a Bodafon yn rhoi golygfeydd amrywiol gwych.
- Dynodiad arfordirol yw'r AHNE yn bennaf, yn cwmpasu'r rhan fwyaf o 201 km o arfordir Ynys Môn. Mae'n cynnwys Mynydd Caergybi a Mynydd Bodafon, ynghyd ag ardaloedd sylweddol o dir sy'n ffurfio cefnlen hanfodol yr arfordir. Maint cyfan yr AHNE yw oddeutu 221 km sgwâr (22,100 hectar).

Tudalen 298

# Ynghylch y cynllun rheoli hwn




Sefydlwyd Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol gan y Parciau Cenedlaethol a Deddf Mynediad i Gefn Gwlad (1949). Maent yn dirweddau arbennig sydd wedi eu gwarchod gan system gynllunio i gynorthwyo i warchod eu harddwch naturiol gyda'r prif bwrpas o warchod a gwella harddwch naturiol.

Deddfwriaeth Ddilynol - Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CGHT) - roedd y ddeddf hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol sy'n gweinyddu AHNE i baratoi a chyhoeddi cynllun rheoli ar gyfer eu hardaloedd, ac i adolygu'r cynlluniau hyn bob 5 mlynedd.

- Pwrpas Cynllun Rheoli AHNE yw gwerthuso a phenderfynu ar rinweddau arbennig yr AHNE, a nodi pa gamau sy'n ofynnol i sicrhau bod y rhinweddau hyn yn cael eu gwarchod a'u cyfoethogi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Paratowyd cynllun rheoli gwreiddiol AHNE Ynys Môn, o 2004, gyda chyfranogiad holl bartneriaid yr AHNE, perchnogion tir lleol a'r gymuned. Mae adolygiadau dilynol, yn cynnwys hwn, wedi diweddaru gwybodaeth bwysig ac asesu perthnasedd yr amcanion, y polisïau a'r gweithredoedd sy'n hanfodol i reoli'r AHNE yn effeithiol a chynaliadwy.
- Mae'r cynllun rheoli hwn ar gyfer pawb sydd â diddordeb mewn gwarchod a rheoli AHNE Ynys Môn. Mae'n gynllun ar gyfer tirwedd a morlun yr AHNE, i'r busnesau a'r cymunedau o fewn ei hardal, i'r ymwelwyr sy'n mwynhau ei golygfeydd, ei hawyr dywyll a'i llonyddwch, ac i bawb ar yr ynys gyfan sy'n gwerthfawrogi ei rhinweddau arbennig

# Prif Nodweddion yr AHNE

**Nodweddion AHNE Ynys Môn sy'n diffinio ei statws dynodedig**

- Nodweddion tirwedd arfordirol / morlun
- Nodweddion tirwedd amaethyddol traddodiadol
- Nodweddion geomorffolegol a daearegol

**Rhinweddau arbennig AHNE Ynys Môn sy'n diffinio ei statws dynodedig**

- Golygfeydd eang / morluniau
- Heddwch a llonyddwch
- Ynysoedd o amgylch Ynys Môn
- Coetir llydanddail
- Rhostiroedd arfordirol iseldir
- Ymylon ffyrdd sy'n gyfoethog o rywogaethau
- Cynefinoedd gwlypdir ac arfordirol sydd â phwysigrwydd ecolegol (yn cynnwys glannau creigiog, fflatiau llaid ac aberoedd, morfeydd heli, traethau a thwyni.
- Amgylchedd adeiledig yn cynnwys ardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig
- Archaeoleg a henebion hynafol / tirweddau hanesyddol, parciau a gerddi
- Cymunedau amaethyddol gwledig / arfordirol
- Yr Iaith Gymraeg
- Ansawdd y pridd, aer a dŵr
- Rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus
- Dŵr a thir hygyrch

# Gweledigaeth

Tudalen 300

Pwrpas yr AHNE yw gwarchod a gwella harddwch naturiol.

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn (AHNE) yn cael ei chydnabod fel ased lleol a chenedlaethol sy'n hanfodol i economi, amgylchedd, diwylliant a lles cymunedau Ynys Môn a'r rhai sy'n ymweld â'r Ynys. Mae cysylltiad cynyddol â'r rhinweddau arbennig hyn ac mae'r rhain yn cael eu gwarchod, eu gwella, eu gwerthfawrogi, eu deall a gallant fod wrth wraidd y gymuned a'r diwydiant ymwelwyr sy'n amgylchedd gyfrifol ac yn economaidd gynaliadwy.

Mae parhad ac atgyfnerthiad arferion a thraddodiadau, a'r defnydd o'r Gymraeg wedi ychwanegu at hunaniaeth a'r ymdeimlad o le. Mae AHNE Ynys Môn wedi gallu unioni'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac mae'n cael ei reoli mewn ffordd sy'n addasu a'n lliniaru effeithiau newid hinsawdd er mwyn gwarchod ei harddwch naturiol wrth gefnogi anghenion cymunedau lleol a busnesau gwledig.



Porth Dafarch

# Ynghylch yr AHNE



### Dynodiadau

Mae'r AHNE yn cynnwys nifer o gynefinoedd sydd â gwarchodaeth statudol oherwydd gwerth eu cadwraeth byd natur. Mae'r dynodiadau hyn yn cynnwys:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac ACA Morol GogleddCymru
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG Twyni Niwbwrch)
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
- Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl)
- Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol
- Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Byd Natur (SoBagCBN)
- Safleoedd Rhanbarthol o Bwysigrwydd Daearegol (SRhoBD)

Mae tair ardal o arfordir agored, heb eu datblygu hefyd wedi eu dynode fel Arfordir Treftadaeth:

- Gogledd Ynys Môn
- Mynydd Caergybi
- Bae Aberffraw

### Ffeithiau Allweddol

| | |
|---|---|
| Maint | 221 km sgwâr |
| Poblogaeth | Data cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021 i'w 'dorri' i derfyn AHNE |
| Dyddiad Dynodiad | 20 Rhagfyr 1966 |
| Dyddiad Cadarnhau | 13 Tachwedd 1967 |
| ACA | 5 |
| AGA | 3 |
| GNG | 1 |
| SoDdGA | 32 |
| GNL | 3 |
| Geoparc UNESCO | 1 |
| Safleoedd Treftadaeth y Byd | 1 |
| Henebion Hynafol Cofrestredig | 75 |
| Tirweddau Hanesyddol Eithriadol | 2 |
| Parciau a Gerddi Hanesyddol | 7 |
| Ardaloedd Cadwraeth | 4 |
| Adeiladau Rhestredig Gradd I | 32 |
| Adeiladau Rhestredig Gradd II* | 42 |
| Adeiladau Rhestredig Gradd II | 491 |
| Arfordir Treftadaeth | 50 km |
| Hawliau Tramwy Cyhoeddus | 370 km a 120 km o lwybr arfordir caniataol |
| Tir Comin | 504 hectar |

# Nodwedd Allweddol – Tirwedd

Tudalen 302

- Mae tirwedd yr AHNE yn adlewyrchu'r ddaeareg sylfaenol amrywiol ac mae'n gymysgedd amrywiol o gynefinoedd morol a daearol, yn cynnwys clogwyni garw, rhostir, twyni tywod, morfeydd heli a fflatiau llaid. Mae'r ynys yn cynnwys rhai o greigiau hynaf Prydain i'r de o Ucheldir yr Alban gyfan. Mae'r rhain yn cael eu dangos yn glir yn nhopograffi'r ynys, sy'n mynd o'r gogledd ddwyrain i'r de orllewin.

- Mynydd Caergybi, clogwynni Ynys Lawd ac Ynys Arw a'r cilfachau creigiog yw nodweddion amlycaf arfordir gogleddol hynafol Cyn-gambriaidd a Chambria'r ynys. Nodweddir arfordir y dwyrain gan glogwyni fertigol o galchfaen a thraethau tywod, wrth i arfordir y gorllewin fod yn llai garw gyda lleiniau o dwyni tywod a thraethau rhwng pentiroedd creigiog. Gellir ystyried y Fenai mewn dwy ran, y rhan orllewinol a'r rhan ddwyreiniol. Mae'r rhan orllewinol o Fiwmares i Borthaethwy yn llawn coed gydag aneddiadau eithaf mawr.

- Mae cymeriad y dirwedd wedi cael ei ddylanwadu gan ganrifoedd o ffermio, a chan ddiwydiannau traddodiadol megis y chwarel. Ar gyfer amaethu y defnyddir y rhan fwyaf o dir yr AHNE, ac mae waliau cerrig, y cloddiau, gwrychoedd a phatrymau caeau yn rhan annatod o'r dirwedd. Mae yna hefyd ardaloedd o rostir, coetir lled naturiol, gwlypdiroedd rhynglanwol a llynnoedd.

- Mae nifer o'r Ystadau o fewn yn yr AHNE gydag ardaloedd sylweddol o goetiroedd llydanddail. Mae'r rhain yn cynnwys Baron Hill, Bodior, Bodorgan, Dulas, Penrhos a Phlas Newydd. Mae'r AHNE hefyd yn cynnwys dwy blanhigfa goniffer sylweddol yn Niwbwrch a Phentraeth.

- Mae gan yr ynys hanes diwylliannol cyfoethog gyda thystiolaeth o weithredoedd dyn yn ymestyn dros 8000 o flynyddoedd. Mae yna dros 200 o Henebion Hynafol Rhestredig o siambrau claddu'r Oes Efydd i nodweddion canoloesol mwy diweddar. Mae nodweddion tirwedd mwy diweddar yn cynnwys tirweddau cynlluniedig ystadau mawr, megis Plas Newydd. Mae safle treftadaeth y byd UNESCO Castell Biwmares hefyd wedi ei leoli o fewn yr ardal ddynodedig.

- Mae disgrifiad manwl o dirwedd arfordirol Ynys Môn yn cael ei gynnwys yn Asesiad Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol NLCA01 Arfordir Ynys Môn.



# Nodwedd Allweddol – Morlun

- Mae morluniau yn rhan werthfawr iawn o olygfeydd Cymru. Gallant fod yn rhai o'n hardaloedd tirwedd 'wyllt' olaf ac yn cynorthwyo cyfoeth o dreftadaeth naturiol. Gellir diffinio morluniau'n fras fel "Ardal o fôr, arfordir a thir fel y gwelir gan bobl, y mae eu cymeriad yn deillio o weithredoedd a rhyngweithiadau y môr a'r tir, drwy ffactorau naturiol a/neu ddynol" (CDD 2010).

- Mae'r diffiniad hwn yn awgrymu'n gryf bod morluniau'n ymwneud â mwy na dim ond golygfa gan ei fod yn cwmpasu'r adnoddau ecolegol a diwylliannol yn yr amgylchedd morol ac arfordirol. Mae tirweddau arfordirol a warchodir yn gydrannau allweddol clir o forluniau o bwysigrwydd cenedlaethol.

- O amgylch AHNE Ynys Môn mae yna amrywiaeth o amgylcheddau daearol, rhynglanwol a morol. Mae'r rhain yn deillio o'r prosesau daearegol, geomorffoleg ac arfordirol o fewn yr ardal, a hefyd o weithgarwch dynol ar dir a môr ers miloedd o flynyddoedd. Mae cyfuniad o brosesau naturiol a diwylliannol yn parhau i siapio esblygiad ardal y morluniau.

- Mae gan forlun Ynys Môn arwyddocâd masnachol uchel hefyd. Mae'r rhan fwyaf o dwristiaeth a hamdden Ynys Môn yn seiliedig ar yr arfordir lle mae yna ddiddordebau masnachol eraill megis porthladdoedd a physgota. Gall unrhyw newid i isadeiledd masnachol arfordirol effeithio ar gymeriad y morlun a'r diddordebau masnachol mewn hamdden.

- Mae disgrifiad manwl o dirwedd arfordirol Ynys Môn yn cael ei gynnwys yn Asesiad Morlun Ynys Môn 2013 www.anglesey.gov.uk/aonb



Tudalen 303

# Nodwedd Allweddol – Hamdden a Thwristiaeth



- Ynys Môn yw'r sir sydd fwyaf dibynnol yn y DU ar y diwydiant Hamdden a Thwristiaeth, gan gynhyrchu dros £360m y flwyddyn yn yr economi leol, a'n cefnogi ~3,698 o swyddi'n uniongyrchol.

- Y brif atynfa ymwelwyr  yw'r cyfleoedd gweithgareddau hamdden fel cerdded, a gweithgareddau traeth.

- Mae 125 milltir o Lwybr yr Arfordir yn parhau i fod yn un o'r rhannau mwyaf poblogaidd Llwybr Arfordir Cymru, ac yn cynnig cyfle gwych i bobl leol ac ymwelwyr werthfawrogi rhinweddau arbennig yr AHNE

- Ar wahân i gerdded, mae'r mathau mwyaf poblogaidd o weithgareddau hamdden yn cynnwys ymweliadau teulu â'r traeth, hwylio, pysgota o'r lan neu o gwch, beicio, syrffio gwynt, cychod hamdden modurol, y defnydd o grefft dŵr personol (sgio dŵr), deifio, gwylio adar, marchogaeth ceffylau, nofio gwyllt a dringo.

- Mae gweithgareddau dŵr gan gynnwys caiacio a padlfyrddio yn gynyddol boblogaidd, gyda chyfleoedd caiacio môr Ynys Môn yn cael eu hystyried I fod yn arbennig o dda. (13)

- Mae'r rhain i gyd yn rhoi pwysau a galwadau ar yr AHNE. Ar yr un pryd, mae poblogrwydd yr AHNE ar gyfer gweithgareddau o'r fath yn darparu cyfraniad sylweddol a chadarnhaol i'r economi leol, ac yn gyfrwng i sicrhau gwell dealltwriaeth o rinweddau unigryw'r AHNE.



Lon Lâs Cefni

# Nodwedd Allweddol – Cymunedau

- Mae data cyfrifiad Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) 2021 wedi cofnodi bod poblogaeth Ynys Môn wedi gostwng 1.2%, o oddeutu 69,800 yn 2011 i 68,900 yn 2021. Amcangyfrifir fod dros chwarter poblogaeth yr ynys yn byw o fewn AHNE Ynys Môn (Data a geisir i'w 'dorri' i derfyn AHNE a'i gynnwys o fewn yr Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE (2022)).
- Mae aneddiadau sylweddol o fewn yr AHNE yn cynnwys Biwmares, y Fali, Niwbwrch a Moelfre. Nid yw ardaloedd sydd wedi datblygu ar raddfa fawr, Caergybi, Amlwch, Benllech, Porthaethwy, Wylfa a RAF y Fali yn benodol, yn cael eu cyfrif yn y dynodiad.
- Mae cyflogaeth o fewn yr AHNE yn seiliedig ar dwristiaeth ac amaeth yn bennaf. Mae Ynys Môn yn ardal boblogaidd ar gyfer hamdden i bobl Gogledd Cymru ac o Ogledd Orllewin Lloegr. Mae'r mwyafrif y cael eu denu i'r ynys gan ansawdd a nifer y traethau tywod a harddwch tirwedd yr arfordir.
- Mae Ynys Môn yn gadarnle'r Gymraeg, ac mae'r iaith yn cael ei siarad gan dros hanner o'i thrigolion. Er gwaetha'r dirywiad cyffredinol mewn siaradwyr Cymraeg, mae'r niferoedd sy'n defnyddio'r iaith yn ddyddiol ym Môn wedi aros yn gymharol gyson dros yr hanner canrif ddiwethaf.



Tudalen 305

# Nodwedd Allweddol – Datblygu Economaidd

- Mae cyflogaeth o fewn ardal AHNE Ynys Môn AHNE yn bennaf mewn busnes amaethyddol a busnesau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r sector twristiaeth a lletygarwch - yr olaf a yrrir gan ansawdd a nifer y traethau tywodlyd, harddwch y dirwedd arfordirol, asedau naturiol a threftadaeth ar hyd yr arfordir a'r hygyrchedd iddynt a ddarperir gan Lwybr Arfordirol Ynys Môn / Cymru.

- Nid oes unrhyw ddatblygiad diwydiannol mawr wedi'i leoli yn yr AHNE - y ffiniau wedi'u tynnu er enghraifft, er mwyn eithrio Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa a'r ganolfan hyfforddi jet-ymladdwyr cyflym yn RAF y Fali.  Fodd bynnag, nid yw hyn i ddweud na fydd eu gweithrediad a'u datblygiad posibl yn y dyfodol yn effeithio ar olygfeydd i mewn ac allan o'r AHNE ac ansawdd a phrofiad y rhai sy'n byw yn yr ardal ddynodedig, ac yn ymweld â'r ardal ddynodedig.

- Ers blynyddoedd bellach mae Cyngor Sir Ynys Môn, wedi blaenoriaethu cynhyrchu ynni 'gwyrdd' carbon isel, fel gyrrwr economaidd allweddol. Gwnaethpwyd hyn ar ffurf Rhaglen Ynys Ynni Môn, ac mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth strategol gorfforaethol allweddol i'r Cyngor.

- Mae ynni adnewyddadwy oddi ar y glannau hefyd yn parhau'n uchel ar yr agenda. Cafwyd caniatâd diweddar i ddatblygiad Morlais Menter Môn, gweithgareddau'r sector preifat fel prosiect ffrwd llanw llif isel cyntaf Minesto oddi ar Ddyfnderoedd Caergybi. Mae dyheadau i ddatblygu canolfannau gweithgynhyrchu a gwasanaethu ar gyfer rowndiau newydd o wynt oddi ar y glannau ym Môr Iwerddon yn ogystal â datblygiad Hwb Hydrogen yng Nghaergybi.



Tudalen 306

# Ysgogwyr Newid Allweddol - Cyd-destun Polisi

Mae llawer wedi newid o ran Polisi Rhyngwladol, Cenedlaethol a Lleol ers cyhoeddi'r cynllun rheoli diwethaf.

- Gweler Atodiad 1 ar gyfer Cyd-destun Polisi

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol a fydd yn bwynt canolog i benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar bob lefel; bydd yn darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Yn ei hanfod mae a wnelo'r cynllun â'n dymuniad i weithio gyda thrigolion Ynys Môn, cymunedau a phartneriaid a sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaethau gorau posib, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r meysydd allweddol y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

Tudalen 308

'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.'

## Ein chwe amcan strategol

**Yr Iaith Gymraeg**

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

**Gofal Cymdeithasol a Llesiant**

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir.

**Addysg**

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

**Tai**

Sicrhau fod gan pawb yr hawl i alw rhywle yn gartref.

**Economi**

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

**Newid Hinsawdd**

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael a newid gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn seiliedig ar werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.



## Gwerthoedd

### Parch
Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

### Cydweithio
Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.

### Gonestrwydd
Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.


### Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys
Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Ynys.

[Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)]

# Cylch Strategol

Mae’r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd mewn lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau ac amcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni’r amcanion strategol a’r gweledigaeth.




[Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)]

# Ysgogwyr Newid Allweddol – Adfer Byd Natur a Bioamrywiaeth

- Mae'r AHNE yn cynnwys nifer o gynefinoedd sydd â diogelwch statudol oherwydd gwerth eu cadwraeth natur. Mae'r dynodiadau hyn yn cynnwys: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA); Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA); Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG); Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA); Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl)

- Mae'r ardal yn cynorthwyo cyfoeth o gynefinoedd a bywyd gwyllt. Mae cynefinoedd sydd wedi eu nodi'n cynnwys: rhostir iseldir, clogwyni'r môr, twyni tywod, a glannau creigiog. Mae'r fflora sydd wedi eu nodi yn cynnwys: cor-rosyn rhuddfannog (blodyn Sirol Ynys Môn; mae'r clystyrau mwyaf y DU ar Ynys Cybi ar Ynys Môn), amrhydlwyd Ynys Lawd (sydd i'w weld ar greigiau Ynys Lawd yn unig) a thafolen y traeth (sydd yn y pen mwyaf gogleddol). Mae'r ffawna sydd wedi eu nodi'n cynnwys: brân goesgoch, gylfinir, morloi llwyd, llamidyddion, llygod y dŵr, gwiwerod coch, madfall gribog, glöyn byw glesyn serennog a rhywogaethau infertebratau eraill. Mae yna risg gan rywogaethau ymledol, plâu ac afiechydon yn ymledu o fewn yr AHNE megis Jac y Neidiwr, Clymog Japan, a rhai o'r rhywogaethau ymledol dyfrol.

- Mae Adroddiad Cyflwr Cyfoeth Naturiol Cymru 2020 yn asesiad o'r graddau y mae Cymru'n cyflawni rheoli cynaliadwy cyfoeth naturiol. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad nad yw Cymru'n cynnal cynnyrch o gyfoeth naturiol ac yn rhagweld y bydd rhywogaethau eiconig megis gylfinirod yn diflannu yng Nghymru o fewn dwy ddegawd.

- Mae gwytnwch ecosystemau'n dirywio'n unol â thueddiadau byd-eang. Mae nod llesiant Cymru i sicrhau 'Cymru wydn' yn ymwneud ag adeiladu ecosystemau gweithredol iach sy'n cynnal gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid hinsawdd). I sicrhau'r gwytnwch hwn, mae angen canolbwyntio ar adeiladu systemau iach, adfywiol, ac i systemau ffermio ddod yn fwy cynaliadwy yn nhermau economeg ffermydd ac i ddod yn fwy caredig i fyd natur.



*Tuberaria guttata*

# Ysgogwyr Newid Allweddol – Hawl, Hamdden a Llesiant



- Twristiaeth yw'r prif ddiwydiant ar Ynys Môn sy'n cynhyrchu dros £360 miliwn yn flynyddol, yn cyflogi dros 4,000 o bobl ac yn croesawu dros 1.7 miliwn o ymwelwyr. Mae heriau'n cynnwys yr effaith ar arferion ymwelwyr yn dilyn covid a'r pwysau cysylltiedig ar yr AHNE, cyflwyno'r ardoll twristiaeth, a hyrwyddo / gweithredu twristiaeth gynaliadwy. Gall mentrau sy'n cyfoethogi'r amgylchedd naturiol greu swyddi gwyrdd newydd, sicrhau cyflenwadau dŵr a bwyd lleol, a chynorthwyo iechyd cyhoeddus.

- Mae defnydd o weithgareddau hamdden wedi tyfu'n sylweddol, yn enwedig yn y cyfnod yn dilyn Covid 19 (gyda nifer uchel o bobl yn penderfynu aros gartref am 'wyliau' a mynd ar ymweliadau dydd mwy lleol er mwyn lleihau'r angen i deithio), gyda hyn yn cynyddu'r pwysau ar fioamrywiaeth, ecosystemau ac asedau treftadaeth

- Faniau gwersylla, maes carafanau a gwersylla ac mae'r angen am y cyfryw, yn tyfu o ganlyniad i'r uchod – gyda materion cynyddol yn ymwneud â defnyddiau 'gwrthgymdeithasol' a phroblem parcio faniau gwersylla a gwersylla mewn ardaloedd a chymunedau heb unrhyw wasanaethau na darpariaeth ffurfiol i ddarparu ar eu cyfer.

- Mae tagfeydd traffig yn broblem gynyddol wrth i fwy a mwy o ymwelwyr geisio mynediad a defnyddio'r arfordir a chefn gwlad - unwaith eto'n achosi parcio 'anghymdeithasol', tagfeydd traffig mewn cymunedau bach o fewn yr AHNE a chiwio mewn traffig llonydd i gyrraedd rhai o'r mannau mwyaf poblogaidd megis Llanddwyn.

- Er nad yw hyrwyddo gweithgareddau hamdden yn bwrpas statudol i'r dynodiad AHNE, bydd rheoli effeithiau'r gweithgareddau hamdden hyn yn dod yn fwyfwy pwysig i warchod a gwella nodweddion tirwedd eithriadol a rhinweddau arbennig yr AHNE. Mae lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn cyd-fynd yn agos â'r gweithgareddau hamdden a gynhelir ar yr ynys. Gall llwybrau hygyrch, parciau, gerddi, traethau, glan môr a chefn gwlad ehangach oll chwarae rhan bwysig i'r bobl o ran cefnogi iechyd a lles. Dylai fod mynediad teg i fannau gwyrdd a glas i bobl o bob oed a gallu.



# Ysgogwyr Newid Allweddol – Newid Hinsawdd

- Mae newid hinsawdd bellach yn bwnc diffiniol. Cyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020, gan ymrwymo i ddod yn gyngor carbon niwtral erbyn 2030. O ganlyniad, mae'r cyngor wedi cytuno ar y 'Cynllun Tuag at Sero Net 2022 i 2025' sy'n amlinellu ei ymrwymiad i'r argyfwng hinsawdd a sut mae'n bwriadu trawsnewid i ddod yn sefydliad sero net.

- O bersbectif AHNE Ynys Môn, mae effeithiau newid hinsawdd yn debygol o fod yn bellgyrhaeddol: tymheredd uchel, mwy o law, a lefelau'r môr yn codi yn golygu cynnydd mewn stormydd a risg uwch o lifogydd yn effeithio ar gynefinoedd, rhywogaethau a chymunedau ac isadeiledd bregus a rhyd yr arfordir. Bydd yna golli tir / cnydau amaethyddol, erydiad tir, colledion bioamrywiaeth [ac enillion], colli rhywogaethau brodorol, bygythiad i fioddiogelwch o ganlyniad i gynnydd mewn plâu ac afiechydon a difrod i asedau diwylliannol a hanesyddol. Bydd cyfnodau o sychder yn arwain ar fwy o alw am adnoddau dŵr, yn cynnwys cynnydd yn y gystadleuaeth rhwng aelwydydd, amaeth, diwydiant a'r amgylchedd naturiol.

- Mae'r Cynllun Rheoli Risg o Lifogydd yn nodi cymunedau Dwyran, Llangefni, Malltraeth ac y Fali fel ardaloedd sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd o afonydd; ac mae Cofrestr Cymunedau mewn Perygl yn nodi'r ardaloedd fel rhai mewn perygl o ddioddef llifogydd o'r môr.

- Mae yna gyfleoedd i ddatblygu partneriaeth gweithio rhwng pobl, cymunedau a busnesau i godi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gweithredu gyda mesurau addasu a lliniaru. Bydd y rhain yn cynnwys mabwysiadu datrysiadau seiliedig ar fyd natur a gweithredu i leihau'r angen i deithio, gwneud cludiant yn gynaliadwy, darparu cyfleoedd ar gyfer technolegau ynni carbon isel ac adnewyddadwy, a thrwy hyrwyddo dulliau dylunio carbon isel i leihau'r defnydd o ynni.



# Ysgogwyr Newid Allweddol – Datblygu a Chludiant

Mae'r polisïau cynllun datblygu'r defnydd o dir presennol a newidiadau posibl i'r dirwedd y bydd yn rhaid i gynllun datblygu'r defnydd o dir nesaf ar gyfer Ynys Môn ei wynebu'n cynnwys:

- Diogelu arfordir agored sydd heb ei ddatblygu
- Arallgyfeirio'r economi wledig sy'n cyflwyno gofynion newydd ar adnoddau'r AHNE.
- Amddiffyn safleoedd sydd wedi'u dynodi am eu pwysigrwydd cadwraeth byd natur
- Amddiffyn ac adnewyddu'r cyswllt rhwng cynefinoedd
- Cymunedau Gwledig Cynaliadwy
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg
- Yr her o newid dull o gynhyrchu ynni
- Hyrwyddo cynnyrch twristiaeth amrywiol ac o ansawdd uchel
- Newidiadau o ganlyniad i newid hinsawdd
- Lleihau llygredd golau

- Mae'r boblogaeth leol yn dibynnu ar geir fel cludiant ac mae yna gynnydd tymhorol mewn traffig yn ystod yr haf. Gall hyn arwain at drafferthion parcio a thagfeydd traffig yn ardaloedd mwyaf poblogaidd yr AHNE. Yn ychwanegol, mae anghenion isadeiledd yn newid; mae angen cynllunio ar gyfer mannau gwefru ceir trydan a dulliau amgen o deithio i'r ardal ac o'i hamgylch. Bydd yn ofynnol cael cysylltiadau i gynlluniau teithio actif.

# Ysgogwyr Newid Allweddo – Cymunedau ac economi arfordirol a chefn gwlad



- Mae yna ansicrwydd o ganlyniad i'r adferiad ar ôl Covid, yr argyfwng costau byw a'r economi'n arafu. Mae hyn oll yn effeithio ar gynnydd mewn tlodi, anghyfartaledd ym maes iechyd, prinder tai [cyffredinol a fforddiadwy], lleihad posibl mewn cyflogaeth a thwf, gofynion addasiadau a lliniaru newid hinsawdd a chymunedau cydlynol yn erydu.

- Myn amlygu ein hymrwymiad i gyfoethogi hyn ymhellach. Fodd bynnag, mae wedi dod yn fwyfwy amlwg dros y 3 blynedd ddiwethaf y gall twristiaeth sydd heb ei reoli gael effaith negyddol ar fywydau pobl a'r rhinweddau unigryw sy'n gwneud yr ynys mor nodweddiadol ac yn ysgogi'r mwyafrif helaeth o weithgareddau twristaidd.

- Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan sy'n alinio gyda'r cynllun hwn yn unioni'r anghydbwysedd a sicrhau, drwy grŵp aml ddiddordebau/sefydliadau newydd, bod buddion cynnig amrywiol a bywiog yn gallu cyfoethogi nodweddion allweddol yr iaith, diwylliant, amgylchedd a threftadaeth.

- Yn dilyn ymadawdiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, mae'r newidiadau deddfwriaethol yn debygol o gael goblygiadau sylweddol ar arferion amaeth, ac economi'r arfordir a chefn gwald o fewn yr AHNE ac o'i chwmpas. Mae ffermio'n hanfodol i'r gymuned wledig a'i heconomi, ac mae'r ansicrwydd presennol ynghylch sut y bydd cynlluniau cymhorthdal newydd yn gweithio yn achosi pryder. Fodd bynnag, fe all y cynigion bras a gyflwynir yn y Cynllun ffermio Cynaliadwy ddarparu buddion amgylcheddol sylweddol a systemau ffermio sy'n llai dibynnol ar fewnbynnau ac felly'n fwy hyfyw'n economaidd. Mae angen arloesi o fewn yr economi cefn gwlad a llwybrau at gyflogaeth i bobl leol o bob oed. Gellir cynorthwyo hyn drwy gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau cynaliadwy lleol a pholisïau caffael lleol.

- Mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o hunaniaeth Gymreig ac yn ganolog i'w diwylliant. Nododd cyfrifiad 2021 fod y nifer o siaradwyr Cymraeg yn y sir wedi gostwng 1.2% ers y cyfrifiad blaenorol yn 2011, o 19% i 17.8%. Er gwaethaf cyflwyno strategaeth iaith Llywodraeth Cymru, mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru wedi parhau i ostwng ers 2001.



# Mabwysiadu Dull Ecosystem

Ystyrir rhinweddau'r AHNE yn arbennig oherwydd eu gwerth cynhenid eu hunain, ond mae'n bwysig ystyried y buddion naturiol, diwylliannol a chymdeithasol maent yn eu darparu i gymdeithas. Gelwir y buddion hyn yn 'wasanaethau ecosystem'. Rhain yw'r buddion mae pobl yn eu cael o 'gyfalaf naturiol' ardal - y fforestydd, tir fferm, afonydd, llynnoedd ac arfordir ein tirwedd. Ymhlith y buddion hyn gellir cael:

- **Gwasanaethau darparu** - megis bwyd, coed a thanwydd
- **Gwasanaethau rheoleiddio** - megis dŵr glân, aer a phridd ffrwythlon
- **Gwasanaethau diwylliannol** - megis hamdden, gwerthoedd ysbrydol a synnwyr o le
- **Gwasanaethau cymorth** - megis ffurfio tir, cylchred dŵr a maetholion a sefydlogi carbon

Mae deall gwerth cyfalaf naturiol yr AHNE a'r gwasanaethau ecosystem maent yn eu darparu yn ein galluogi i gydnabod yn llawnach rinweddau arbennig yr AHNE. Mae o hefyd yn ein galluogi i ddeall effeithiau posibl, a chost lawn, difrodi'r rhinweddau hyn. Nod y cynllun rheoli hwn yw ymdrechu tuag at well dealltwriaeth o gyfalaf naturiol yr AHNE, i sicrhau rheolaeth sy'n cynnal a chyfoethogi ystod ac ansawdd y buddion cyhoeddus (y gwasanaethau ecosystem) mae AHNE Ynys Môn yn eu darparu.

**Mae Manylion Llawn y Gwasanaethau Ecosystem a ddarparwyd gan yr AHNE yn Atodiad 2.**

# 5 Themâu Allweddol ar gyfer Cynllun Rheoli 2023-28



Brân Goescoch/Chough

- **Cyfoethogi cefn gwlad lleol a chymeriad yr arfordir**
- **Mynd i'r Afael â'r Argyfwng Byd Natur**
- **Yr AHNE fel Lle i Fwynhau a Dysgu**
- **Cymunedau Bywiog mewn Tirwedd Weithredol**
- **Rheoli'r AHNE mewn hinsawdd sy'n newid**

Bydd y pum tudalen nesaf yn cyflwyno'r themâu hyn a fydd yn sail i waith y tîm Cyrchfan, Gwasanaethau eraill y Cyngor a phartneriaid.

Gweler Atodiad 3 am restr lawn o Amcanion, Polisïau a

Gweithredoedd Bydd cynllun prosiect blynyddol yn cael ei ddatblygu i

gyflawni amcanion y

# Cyfoethogi cefn gwlad lleol a chymeriad yr arfordir

## Pam mae hyn yn bwysig?

Cymeriad yr AHNE yw un o'i nodweddion diffiniol ac mae'n hanfodol i ddiffinio'r ynys, ei heconomi ymwelwyr a mwynhâd y cyhoedd

Tudalen 318

## Beth ydym am ei wneud?

- Mae'r dirwedd arfordirol a morlun yn cael eu diogelu yn weithredol, a thrwy reolaeth briodol.
- Mae safleoedd hanesyddol, archeolegol a diwylliannol yn cael eu diogelu rhag datblygiadau sy'n diraddio rhinweddau unigryw'r AHNE, a'i ddehongli i gynyddu dealltwriaeth pobl o'i werth.
- Mae polisïau cynllunio yn gwarchod rhinweddau unigryw yn y dirwedd, gan sicrhau fod yr holl ddatblygiadau o fewn a'n agos at ffiniau'r AHNE, yn cyd fynd ag amcanion y dynodiad a bod datblygiadau newydd yn gwella'r cymeriad lleol.
- Mae golygfeydd panoramig, awyr dywyll a llonyddwch heb ei difrodi yn cael eu diogelu rhag datblygiadau fyddai'n diraddio nodweddion unigryw'r AHNE.
- Cytunir ar fodel ymhlith partneriaid a rhanddeiliaid allweddol ar gyfer defnyddio dull ecosystem o reoli'r amgylchedd naturiol.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Ymgymryd ag asesiadau cymeriad a'u cynnal
- Sicrhau bod datblygiadau'n ystyried pwysigrwydd y dirwedd a'r morlun.
- Darparu a gweithio gyda phartneriaid yn uniongyrchol ar brosiectau cyfoethogi tirwedd a chynefinoedd.
- Parhau i gynorthwyo i ddarparu'r prosiect Awyr Dywyll
- Cynnal asesiad darpariaeth gwasanaethau ecosystem i arwain ar ddarparu'r prosiectau.
- Sicrhau bod nodweddion tirwedd traddodiadol megis coedlannau, gwrychoedd,
  waliau cerrig yn cael eu cynnal a'u gwella.
- Bydd safleoedd hanesyddol, diwylliannol ac archaeole gol yn cael eu deall a'u cofnodi,
  a lle fo'n bosibl, eu diogelu.

# Mynd i’r Afael â’r Argyfwng Byd Natur



## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae gan Ynys Môn doreth o safleoedd dynodedig pwysig a rhai nad ydynt yn ddynodedig yn cynorthwyo fflora a ffawna prin. Mae hyn yn nodweddion allweddol o’r AHNE. Mae cynefinoedd ar Ynys Môn dan bwysau cynyddol gyda mwyafrif sylweddol â chyflwr yn dirywio a’n mynd yn ddiraddiedig ac ynysig. Mae’r thema hon yn mynd i’r afael â’r broblem

## Beth ydym am ei wneud?

- Mae'r arfordir a chefn gwlad yn cael eu rheoli mewn modd sensitif er mwyn cynnal yr amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau mewn cyflwr ffafriol, ac i wella cysylltedd rhwng safleoedd.
- Mae ansawdd y pridd, aer a'r dŵr- dwr croyw a dŵr môr yn cael ei fonitro'n rheolaidd i gynnal safonau sy'n rhagori ar Safonau DU ac Ewrop.
- Mae safleoedd bywyd gwyllt statudol ac anstatudol yn cael eu rheoli oherwydd eu gwerth bioamrywiaeth, esthetig ac amwynder.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wneud y gorau o gynlluniau cymorth amaethyddol ac amgylcheddol hen a newydd.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu camau i fynd i’r afael ag effaith rhywogaethau ymledol ar gynefinoedd morol, dyfrol a’r tir.
- Byddwn yn datblygu cynllun cyfle cysylltedd cynefin graddfa tirwedd ar y cyd â phartneriaid, a chwilio am gronfeydd i’w gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys tir nad yw o fewn ffin yr AHNE. Gweithio gyda phartneriaid ar raddfa dalgylch i we lla ansawdd pridd a dŵr ac, o ganlyniad, gynefinoedd morol a thir.
- Gweithio gyda phartneriaid a’r sector amaeth a dyl anwadu arnynt i ddarparu newid sylweddol ar gyfe r byd natur o fewn yr AHNE

# Yr AHNE fel lle i fwynhau a dysgu



## Pam mae hyn yn bwysig?

- Twristiaeth yw'r cyfrannwr economaidd mwyaf i economi'r Ynys, ac mae'r rhinweddau unigryw sydd o fewn yr AHNE yn parhau i fod yn brif atyniad i bobl leol ac ymwelwyr. Mae'r dirwedd yn darparu antur, llonyddwch a chyfleoedd i ddysgu sy'n allweddol i lesiant pawb

## Beth ydym am ei wneud?

- Datblygu partneriaethau sy'n sicrhau gweithgareddau hamdden gynaliadwy, sy'n cefnogi gwasanaethau a chyflogaeth wledig, a chyfrannu at yr economi leol.
- Sicrhau bod yr AHNE yn parhau i fod yn lleoliad poblogaidd ar gyfer hamdden gynaliadwy gyda thrigolion ac ymwelwyr, a lleihau'r risg o niwed i rinweddau a nodweddion unigryw'r AHNE.
- Rheolir y rhwydwaith mynediad i safon uchel, gan ddarparu mynediad priodol i ddibenion y dynodiad.
- Mae'r gymuned gyfan yn ymwybodol o fuddion dynodiad yr AHNE trwy hyrwyddo'n rheolaidd rhinweddau a nodweddion unigryw'r AHNE, a'i anghenion rheolaeth.
- Datgelir ystyron rhinweddau a nodweddion unigryw'r AHNE trwy ddehongliad effeithiol.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Sicrhau bod y diwydiant twristiaeth yn gwneud cyfraniad allweddol a chynaliadwy i economi AHNE Ynys Môn
- Gweithio gyda phartneriaid a darparwyr addysg i gyfoethogi gwybodaeth am yr AHNE a'i nodweddion unigryw
- Darparu dehongliad ystyrlon a newydd i gynyddu dealltwriaeth ac ysbrydoli archwilio.
- Gwella mynediad a chyfleusterau ymwelwyr eraill mewn safleoedd arfordirol a chefn gwlad allweddol a gwella profiad Llwybr yr Arfordir.
- Gweithio gyda phartneriaid i ystyried gwelliannau ar gyfer isadeiledd cludiant cynaliadwy.
- Gweithio gyda'r sector addysg leol i alinio gwaith yr AHNE efo'r Cwricwlwm Gymraeg newydd gan gynnwys datblygu strategaeth addysgol
- Archwilio'r cyfleoedd i gyfoethogi model twristiaeth adfywiol
- Parhau i ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu ac i gymunedau/ysgolion gymryd rhan.

# Cymunedau Bywiog mewn Tirwedd Weithredol



## Pam mae hyn yn bwysig?

- Mae AHNE Ynys Môn yn lle byw sy’n anadlu a’r gymuned wrth ei wraidd. Mae’n rhaid i’r dynodiad gael ei weld o fudd i’r cymunedau hyn yn hytrach na mygu eu hanghenion.

## Beth ydym am ei wneud?

- Rheolwyr tir yn diogelu defnydd tir cynaliadwy sy'n cefnogi rhinweddau a nodweddion unigryw'r AHNE a'n cyfrannu at yr economi leol trwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau.
- Cynnal diwylliant lleol, gwasanaethau, cynnyrch a gweithgareddau gwledig, a sicrhau cartrefi fforddiadwy i bobl leol a chefnogi'r Gymraeg
- Mae Cymunedau AHNE yn cael eu cynnwys trwy ymgynghoriadau ystyrlon, eu grymuso i wella cyfranogiad, ffordd o fyw yn actif ac i ymfalchïo yn eu cymuned AHNE.
- Mae Busnesau yn yr AHNE yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr economi wledig iach gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl sy'n byw ar Ynys Môn.
- Mae cyfran uwch o boblogaeth breswyl yr AHNE yn mabwysiadu ffordd o fyw cynaliadwy.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Chwarae rhan weithredol mewn llunio a chyflwyno cynllun SFS.
- Gweithio gyda Gwasanaethau eraill y cyngor i ymgorffori ethos gwaith holistig.
- Drwy fod yn gydymdeimladol i anghenion y cymunedau trwy bartneriaethau ac ymgysylltu parhaus.
- Gwella isadeiledd gwasanaeth cymunedol drwy gydweithio â phartneriaid mewnol
- Cynorthwyo rheolwyr tir i amddiffyn tirweddau a chynefinoedd wrth gyfoethogi economeg fferm drwy fabwysiadu dulliau ffermio cynaliadwy.
- Diogelu dŵr yfed glân gyda rheolwyr tir, drwy ddull dalgylchol.
- Creu cyswllt gyda gwaith rheoli cyrchfan ehangach i sicrhau bod gwasanaethau o fewn y cymunedau gwledig yn cael eu cyfoethogi
- Cefnogi mentrau cynnyrch lleol

# Rheoli'r AHNE mewn hinsawdd sy'n newidA

## Pam mae hyn yn bwysig?

Tudalen 322

Bydd Newid Hinsawdd yn effeithio ar bob cymuned o'r AHNE, o newid arfordirol hyd at effaith ar amaethyddiaeth, a bydd yn cyfrannu at yr argyfwng natur. Bydd rhaid i ni gynllunio ymlaen i wneud yr AHNE a'r cymunedau oddi mewn yn fwy gwydn a'n gallu addasu i effeithiau newid hinsawdd.

## Beth ydym am ei wneud?

- Sicrhau bod sefydliadau partner a chymunedau yn ymwybodol o effeithiau newid hinsawdd ar harddwch naturiol ac economi'r AHNE.
- Gweithio gyda thirfeddianwyr a chymunedau sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd o liniaru effaith newid hinsawdd ar yr AHNE.
- Ymgorffori dull gwasanaeth ecosystem i'n gwaith a gwaith ein partneriaid.
- Gweithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr i nodi a deall eu cyfalaf naturiol a gwasanaethau ecosystem, cefnogi cynyddu bioamrywiaeth, atafaelu a storio carbon a rheoli llifogydd naturiol.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Casglu tystiolaeth i gynorthwyo tirfeddianwyr i wneud penderfyniadau cadarn i addasu i effaith newid hinsawdd.
- Cofleidio opsiynau rheoli llifogydd ac addasu arfordirol, a chysylltu'r rhain â'r cynnydd mewn cynefinoedd a phrofiad ymwelwyr.
- Gweithio gyda Chanolfan Monitro Arfordirol Cymru ar brosiectau addysg a gwyddoniaeth dinasyddiaeth sy'n canolbwyntio ar newid arfordirol .
- Plannu coed gyda rhagluniaeth leol sy'n addas i'r lleoliad, i liniaru newid yn yr hinsawdd, a gwella ansawdd dŵr yn ein nentydd a'n hafonydd .
- Ymgysylltu a gwybodaeth gymunedol.

# Rheoli a Llywodraethu -
# Pwyllgor Cynghori ar y Cyd Llywodraethu a Rheoli

Goruchwylir gweinyddiaeth yr AHNE gan Bwyllgor Cynghori ar y Cyd (JAC). Mae'r pwyllgor yn cynnwys aelodau etholedig a chynrychiolwyr cyfetholedig o sefydliadau sy'n dymuno cymryd rhan yn y gwaith o warchod, cyfoethogi a hyrwyddo'r AHNE.

Mae aelodaeth yn rhychwantu'r ystod eang o ddiddordebau sydd eu hangen ar gyfer rheoli effeithiol, ac mae'n cynnwys y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

Mae'r JAC yn cynorthwyo a goruchwylio'r gofyn statudol ar Gyngor Sir Ynys Môn i baratoi, cyhoeddi ac adolygu'r Cynllun Rheoli AHNE. CSYM, drwy'r Uned AHNE a Chefn Gwlad, sy'n gweinyddu a chydlynu'r JAC i alluogi monitro, cofnodi ac adrodd ar y cynllun gweithredu'r Cynllun Rheoli, darparu diweddariadau a rhannu gwybodaeth a meithrin cydweithio.

# Rheoli a Llywodraethu
# Staffio

Yn ganolog i ddarparu Cynllun Gweithredu'r Cynllun Rheoli mae datblygu Tîm AHNE effeithiol a phroffesiynol drwy'r Uned AHNE a Chefn Gwald CSYM drwy:

- greu cyfleoedd i recriwtio
- creu amgylchedd ar gyfer cynnal
- newid cytundebau dros dro i rai parhaol
- cyflwyno rhaglen flynyddol ar gyfer profiad gwaith i fyfyrwyr
- darparu datblygu a hyfforddiant
- datblygu llwybrau ar gyfer hyrwyddo gyrfa
- cynllunio olyniaeth
- cynnal a datblygu gweithio ar y cyd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid

# Rheoli a Llywodraethu – Gweithgareddau Craidd

Mae gweithgareddau craidd Uned Cefn Gwlad ac AHNE yn cynnwys:

- Cefnogi paratoi a chyflwyno Cynllun Rheoli AHNE a phwrpas AHNE Statudol
- Gweinyddu a hyrwyddo Cronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (SDF), Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (SLSP) a Chronfa Partneriaeth AHNE Cyfoeth Naturiol Cymru
- Dehongli a hyrwyddo'r AHNE gan gynnwys Cynllun Cyfathrebu a Marchnata
- Ymgysylltu â chymunedau ac ysgolion (cynradd ac uwchradd)
- Gweinyddu a chydlynu'r Cyd-bwyllgor Cynghori (JAC)
- Cydlynu Gwirfoddolwyr yr AHNE
- Cydlynu a arwain ar ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amcanion AHNE

# Llywodraethu a Rheoli - Cyllid



Ariennir costau rheoli'r AHNE gan Gyngor Sir Ynys Môn [CSYM], a gefnogir gan arian grant gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae Cynllun Darparu Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd CSYM yn sicrhau fod monitro chwarterol, cofnodi ac adrodd ar yr allbynnau y cytunwyd arnynt wedi'u halinio â'r Cynllun Rheoli AHNE.

Mae adrannau o’r Cynllun Gweithredu’r Cynllun Rheoli AHNE 2022-27 yn cael eu cefnogi a’u hariannu drwy’r canlynol:

- ‘AHNE Gwydn’ Llywodraeth Cymru (refeniw) 2022-25
- Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (TCLlC) 2022-25
- Cronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (CDC) 2022-25
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) 2022-24
- Cyngor Sir Ynys Môn (Cyfalaf) 2022-24
- Cyllid blynyddol Uned AHNE a Chefn Gwlad
- Cyllid ar gyfer y dyfodol
- Cyllid partneriaid

Unwaith y bydd Cynllun Rheoli AHNE 2022-27 wedi bod drwy ymgynghoriad, craffu, addasu a mabwysiadu partner a rhanddeiliad, bydd matrics cyllido 5 mlynedd manwl yn cael ei ddatblygu o fewn dau chwarter cyntaf y Cynllun yn cael ei fabwysiadu. Bydd hyn yn cynnwys trafodaethau cychwynnol gyda’r partneriaid cyllido uchod ar gyllid y dyfodol tu hwnt i 2024-25 a thrafodaethau gyda phartneriaid JAC ar eu blaenoriaethau ariannu wedi eu halinio i’r AHNE. Bydd yr holl gyllid arall sydd ar gael sy’n gyson â Chynllun Rheoli’r AHNE yn cael ei archwilio

# Llywodraethu a Rheoli – Monitro

Bydd Cynllun Gweithredu Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn yn cael ei weithredu drwy gynllun darparu pum mlynedd sy’n nodi’r themau allweddol, nodau, amcanion, polisïau, gweithredoedd, partneriaid darparu ac amserlen.

Unwaith y bydd Cynllun Rheoli AHNE 2032-28 wedi bod drwy ymgynghoriad, craffu, addasu a mabwysiadu partner a rhanddeiliad, bydd cynllun prosiect blynyddol yn cael ei gynhyrchu, fydd yn datblygu’r pwyntiau gweithredu ymhellach o brif gynllun gweithredu’r Cynllun Rheoli AHNE i bwyntiau gweithredu manylach. Bydd y cynllun prosiect hwn yn cael ei adolygu’n chwarterol ac fe fydd yna ddigon o hyblygrwydd i ystyried cyfleoedd newydd am gyllid a chyfleoedd newydd i weithio ar y cyd gyda phartneriaid. Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei pharatoi i’r JAC ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol i adrodd ar gynnydd, llwyddiannau a’r prif broblemau sydd angen gwaith a sylw pellach. Bydd adrodd chwarterol yn cael ei wneud drwy Gynllun Darparu Gwasanaeth (CDG) Rheoliadau a Datblygu Economaidd CSYM

Bydd Adroddiad Cyflwr AHNE 2022 ar gyfer AHNE Ynys Môn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd i weithredu ar argymhellion yr adroddiad ar gyfer casglu data, mewnbynnu bylchau data a dangosyddion perthnasol. Bydd hyn yn galluogi rheoli ffynhonnell ddata gynhwysfawr a chyfredol yn ogystal â darparu data sylfaenol cadarn ar gyfer paratoi Adroddiad Cyflwr nesaf yr AHNE sy'n gysylltiedig â Chynllun Rheoli AHNE nesaf AHNE ar gyfer AHNE Ynys Môn.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. Ymwelwch a www.ynysmon.llyw.cymru am gopi digidol
This document is also available in Welsh. Visit www.anglesey.gov.wales for a digital copy

**Ymgynghoriad Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol 28 Ebrill – 9 Mehefin 2023**

**Ymatebion**

**Mai/Mehefin 2023**

**Statws: Swyddogol**

## Paratowyd gan:

| Awdur Gwreiddiol | Fersiwn | Diwygiadau | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Andy Godber | 1 | Ymatebion hyd yma | 23.05.2023 |
| Andy Godber | 2 | Ymateb Swyddog | 27/5/23 |
| Alun Morgan Owen | 3 | Ymatebion hyd yma | 8/6/23 |
| Andy Godber | 4 | Ymateb Swyddog | 9/6/23 |

**Cyflwyniad**

Mae Cynllun Rheoli'r AHNE yn ddogfen statudol sy'n gofyn am broses ymgynghori gyhoeddus dros gyfnod o o leiaf 6 wythnos.

Roedd cyfyngiadau o ran amser yn golygu mai'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynllun hwn yw'r 6 wythnos o'r 28ain Ebrill a fydd yn dod i ben ar 9fed Mehefin.

Cafodd yr ymgynghoriad a gynhelir ar-lein yn unig ei hysbysebu trwy'r cyfryngau ac ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol, ac anfonwyd e-byst at randdeiliaid hysbys, Cynghorau Tref a Chymuned, Cynghorwyr Sir, ac aelodau o'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol presennol.

**Trosolwg Cryno**

Hyd yma, cafwyd 71 o ymatebion llawn, ac fe'u haseswyd i ffurfio'r sail ar gyfer yr adroddiad interim hwn. Mae maint y sampl yn fach ac, fel y cyfryw, mae'n annilys o safbwynt ystadegol, er bod yr ymatebion yn rhoi cipolwg ar y tueddiadau.


Mae'r ymatebion hyd yma wedi rhoi syniad o ran pa gamau allweddol y mae angen eu datblygu, ynghyd â'r hyn y dylid rhoi sylw iddo. Mae'n amlwg o'r ymatebion mai'r prif risgiau o ran uniondeb yr AHNE yw'r Argyfwng Natur presennol ac effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd. Ond mae'n ddiddorol nad yw effeithiau Cymunedol a Chymdeithasol ac Economaidd yn amlwg iawn yn y rhestrau o flaenoriaethau.

Ystyrir bod hyn o ganlyniad i un o blith dau reswm. Y rhain yw naill ai'r rhesymau y dylai'r AHNE ganolbwyntio arnynt, neu nid oes dealltwriaeth dda o'r AHNE, ac mae pobl yn ystyried ei bod yn fwy fel dynodiad cadwraeth natur yn hytrach na dynodiad tirwedd amlweddog.

O ystyried yr uchod, mae'n bwysig i ni ystyried dulliau o gyfathrebu nodau ac amcanion yr AHNE yn fwy effeithiol. Dylid sicrhau bod pobl yn ei deall yn well, a dylid ei gwneud yn fwy perthnasol trwy ganolbwyntio ar gyfathrebu ein gwaith, ynghyd â dolenni addysgiadol, a gwneud rhagor o waith gyda chymunedau Ynys Môn.

Mae canran sylweddol o'r ymatebwyr wedi cyfeirio at y mater yng nghyswllt datblygiad Penrhos o ran ei fod yn ffactor pwysig sydd wedi dylanwadu'n fawr ar yr ymatebion, ac felly bydd hyn wedi effeithio'r ymatebion a roddwyd i ryw raddau.

**C4 a C5 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r Weledigaeth?**





**Sylwadau**

Mae'r ymatebion hyd yma'n dangos bod 55% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y Weledigaeth yn cyd-fynd â'r disgwyliadau. O ystyried nifer yr ymatebwyr sydd wedi gwneud sylwadau ar sefyllfa Penrhos, a'u hanfodlonrwydd gyda safbwynt y cyngor, ystyrir bod hwn yn ffigwr cadarnhaol.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sylw | Ymddengys fod y sylw ar gynnal y *status quo* gyda newidiadau bach fesul tipyn a fydd o fantais i gymunedau lleol. Dyma'r ymagwedd a gymerwyd yn y 30 mlynedd ers i mi ddod i'r ynys, ac mewn gwirionedd, tydi hyn ddim wedi gweithio'n dda. Mae angen gweledigaeth gryfach o ran y dyfodol. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae angen cefnogi'r Weledigaeth gyda chynllun gweithredu uchelgeisiol a fydd yn cynnwys cerrig milltir clir ar gyfer cyflawni targedau yn y tymor hwy. Cyflwynir camau gweithredu yn y cyswllt hwn. |
| | Newidiad a Awgrymir | Gwneud cyfeiriad mwy eglur at y cynllun gweithredu a'r nodau blynyddol. |
| 2 | Sylw | Mae'r cyngor ei hun yn datgan 'argyfwng hinsawdd' ond yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer dinistrio coetir hynafol pwysig o safbwynt bioamrywiaeth (Penrhos). |
| | Ymateb y Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes ar gyfer Penrhos wedi dilyn y broses gynllunio briodol. Mae'r AHNE yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd. |
| | Newidiad a Awgrymir | Dim newid |
| 3 | Sylw | Mae'r syniad y tu ôl i'r cynllun yn weledigaeth gadarn dda OND mae'r difrod wedi'i wneud i'n hynys eisoes, ac rydym ar ei hôl hi ETO. Mae Ynys Môn erbyn hyn yn fan chwarae i bobl gyfoethog, mae ail gartrefi a llety gwyliau wedi cymryd drosodd pentrefi. Tydi'r bobl leol yn methu â mwynhau eu hynys am fisoedd diddiwedd oherwydd faint o dwristiaid sy'n dympio eu ceir ym mhob cwr o'r ynys. Ymddengys mai'r cynllun cyfan yw "sut fedrwn ni roi profiad gwell i ymwelwyr, mi geith y trigolion lleol fynd i'r diawl". Rydych yn dweud bod twristiaeth yn cyflogi 4,000 ar yr ynys, faint ohonyn nhw sydd mewn swyddi llawn amser trwy gydol y flwyddyn, ac nid ar yr isafswm cyflog, yn gwneud swyddi ar sail trefniant dim oriau, am 5 mis o'r flwyddyn? Hefyd, faint o'r 4,000 sy'n gorfod hawlio budd-daliadau dim ond i drio byw? Rydych yn dweud eich bod am warchod ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, ein SoDdGA a mannau eraill er mwyn i fyd natur gael ffynnu. Gallwch wneud hynny gan fod Traeth Llanddwyn ERBYN HYN o fewn GNC sydd â chyfyngiadau ar waith, ac rydych yn gwneud dim byd o gwbl i warchod y lle neu i orfodi'r cyfyngiadau, felly does fawr o obaith am unrhyw welliant. Pwyllgor arall ydi hwn a fydd ceisio edrych yn bwysig wrth eistedd o gwmpas y bwrdd dros baned a bisgedi, am y 10 mlynedd nesaf. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae'r cynllun yn amlygu'r angen i weithredu'n gyflym yng nghyswllt nifer o fygythion difrifol i'r AHNE, gan gynnwys yr Argyfwng Natur a'r Newid yn yr Hinsawdd, a dyma'r materion sydd wrth wraidd y cynllun. Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan hefyd yn amlygu'r angen i fynd i'r afael â nifer o'r materion a amlygwyd yn y sylw hwn, ac yn ceisio datrys sawl un ohonynt, gan gynnwys cyflogaeth o fewn y sector twristiaeth ynghyd â chynyddu hyfforddiant a sgiliau, a chael rhagor o gyflogaeth sy'n talu'n dda, a hynny trwy gydol y flwyddyn.<br>Mae Lles y Gymuned yn rhan allweddol o gynllun rheoli'r AHNE. |
| | Newidiad a Awgrymir | Ceir cyfeiriad at gamau gweithredu'r Cynllun Rheoli Cyrchfan o fewn yr adran berthnasol. |

**C6 a C7 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r Ysgogwyr Newid Allweddol ?**




**Sylwadau**

Mae canran uchel o rai nad ydynt yn Cytuno neu'n Anghytuno yn creu pryder nad yw'r cyhoedd yn deall cylch gwaith eang yr AHNE yn ddigonol. Mae C7 yn gofyn i ymatebwyr rhestru'r Ysgogwyr Newid allweddol yn nhermau eu blaenoriaeth o safbwynt risg, a dengys y canlyniadau bod 74% o'r ymatebwyr yn credu mai'r Argyfwng Natur a'r Newid yn yr Hinsawdd yw'r ffactorau a chanddynt y risg mwyaf, gyda'r effeithiau ar y Gymuned a'r Economi yn isel iawn. Mae hyn efallai'n almygu bod y cyhoedd at ei gilydd yn meddwl am yr AHNE fel dynodiad Natur, tebyg i Ardal Cadwraeth Arbennig, neu fod hyn yn golygu'n syml mai'r ddau fater hwn yw'r bygythion mwyaf difrifol y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy.

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Sylw | O'r diwedd, mae'n ymddangos eich bod yn cymryd ymwelwyr ac atyniadau i ystyriaeth. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae Cynllun yr AHNE yn ystyried bod mwynhad y cyhoedd a datblygu economaidd cynaliadwy'n agweddau hanfodol. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. |
| | Newidiadau | Dim |
| 5 | Sylw | Amharodrwydd Cyngor Môn i gadw Parc Natur Penrhos fel y mae, ac i atal Land and Lakes rhag ailddatblygu'r safle. |
| | Ymateb y Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes ar gyfer Penrhos wedi dilyn y broses gynllunio briodol. |


| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd. |
| | Newidiadau | None |
| 6 | Sylw | Dwi wedi rhoi 'Newid hinsawdd' ac 'Adfer byd natur a bioamrywiaeth' yn gydradd cyntaf - mae'r ddau'n mynd law yn llaw. Rhan o'r ateb o ran lleihau effeithiau eithafol y newid yn yr hinsawdd yw adfer byd natur a bioamrywiaeth. Rhaid i mi roi 'Hawl a hamdden' a 'Cymunedau ac economi arfordirol a chefn gwlad' yn gydradd ail hefyd, gan eu bod hefyd yn mynd law yn llaw. Mae'n holl bwysig fod cymunedau yn teimlo'r angen i adfer ein cynefin naturiol, a hynny drwy gynnwys trigolion yr ynys yn y gwaith hanfodol hwn. |
| | Ymateb y Swyddogion | Dylid mynegi'r cyfleoedd i ymrwymo'r cyhoedd a'u haddysgu ynghylch pwysigrwydd mynd i'r afael a'r Argyfwng Natur a'r Newid yn yr Hinsawdd yn gryfach. |
| | Newidiadau | Dylid cynnwys cam gweithredu ychwanegol yng nghyswllt datblygu portffolio addysgol ar y cyd â'r Adran Addysg. |
| 7 | Sylw | Rwy'n credu'n gryf y dylai gwarchod natur fod yn flaenoriaeth, o ran buddion hirdymor i drigolion lleol ac ymwelwyr, ynghyd â lleihau allyriadau carbon. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae'r ddau'n themâu allweddol o fewn y cynllun, ac mae'r ymgynghoriad yn nodi y dylai'r ddau fod yn flaenoriaeth fel camau gweithredu at y dyfodol. |
| | Newidiadau | Dim o ran y Cynllun – angen ystyried targedau uchelgeisiol ar gyfer y Cynllun Gweithredu. |
| 8 | Sylw | Gwelwyd cynnydd aruthrol yn yr ymwelwyr sy'n dod i'r ynys ers y pandemig, ac mae'r angen i letya rhagor o bobl sy'n dod i ymweld â'r ynys yn achlysurol mewn carafanau neu i wersylla (yn hytrach na pherchnogion ail gartrefi), yn enwedig yn nhermau isadeiledd, toiledau, parcio ac ati, yn gwbl hanfodol. A finnau'n byw yng Ngogledd yr ynys, rwy'n teimlo y byddai twristiaeth a thrigolion lleol fel ei gilydd yn cael budd o lwybrau beicio a cherdded diogel oddi ar y ffordd, e.e. troi hen reilffordd Llangefni i Amlwch yn llwybr |

| | | |
|---|---|---|
| | | amlddefnydd. Byddai hwn yn brosiect buddiol DROS BEN.<br>Er nad wyf yn enedigol o Ynys Môn, mae fy nghysylltiad â’r ynys yn mynd yn ôl i’r 1970au, ac erbyn hyn, rwyf wedi bod yn byw yma ers dros 20 mlynedd, sef y cyfnod hiraf i mi fod wedi byw yn rhywle ar hyd fy oes. Byddaf bob amser yn ystyried fy hun yn ddysgwr Cymraeg, ac nid yn siaradwr Cymraeg, ond rwy’n frwd dros warchod y Gymraeg a’i diwylliant. Mae hyn yn greiddiol i’r cynllun newydd, ac rwy’n falch iawn o hynny. |
| | Ymateb y Swyddogion | Rydym bob amser yn chwilio am gyfleoedd i weithio ag adrannau eraill o fewn y cyngor, ynghyd â phartneriaid, i wella mynediad i’r AHNE a chefn gwlad Ynys Môn. Mae hyn yn rhan ganolog o’n nodau o safbwynt lles, yn ogystal â gwerthfawrogiad o werth natur i fywydau trigolion lleol ac ymwelwyr. Mae’n galonogol cael derbyn y sylw am y Gymraeg. |
| | Newidiadau | Dim |
| 9 | Sylw | Rwy’n credu’n gryf y dylai gwarchod natur fod yn flaenoriaeth, o ran buddion hirdymor i drigolion lleol ac ymwelwyr, ynghyd â lleihau allyriadau carbon. |
| | Ymateb y Swyddogion | Nodwyd hyn, a bydd yn helpu i lywio’r cynllun gweithredu a’r targedau. |
| | Newidiad | Dim |
| 10 | Sylw | Gwelwyd cynnydd aruthrol yn yr ymwelwyr sy’n dod i’r ynys ers y pandemig, ac mae’r angen i letya rhagor o bobl sy’n dod i ymweld â’r ynys yn achlysurol mewn carafanau neu i wersylla (yn hytrach na pherchnogion ail gartrefi), yn enwedig yn nhermau isadeiledd, toiledau, parcio ac ati, yn gwbl hanfodol. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae’r isadeiledd ar gyfer ymwelwyr yn rhan allweddol o’r sylfaen ar gyfer adeiladu cynnig cadarn a chynaliadwy, sy’n canolbwyntio ar nodweddion unigryw Ynys Môn. |
| | Newidiad | Cyfeirio mwy at y Cynllun Rheoli Cyrchfan . |
| 11 | Sylw | Maen nhw’n annelwig, yn ddyblygol ac yn amwys. O ganlyniad, maen nhw’n anodd i’w rheoli, eu |

| | | |
|---|---|---|
| | | monitro ac i adrodd yn eu cylch, o ran "llwyddiannau" neu "fethiannau". Efallai mai dyna'r amcan... |
| | Ymateb y Swyddogion | Maer Ysgogwyr Newid Allweddol wedi dylanwadu ar y Themâu Allweddol a'r Camau Gweithredu. Mae'r rhain yn fesuradwy yn nhermau cyflawni newid. |
| | Newidiad | Dim |
| 12 | Sylw | Yn y dyddiau hyn o "les meddyliol", bod yn un â natur yw'r peth gorau, cerdded ymhlith coed, gweld bywyd gwyllt a chael cyfle i fyfyrio am bethau yw'r teimlad gorau erioed. Hefyd, coed yw ysgyfaint y byd ac maen nhw'n helpu ein hatmosffer/aer gymaint, ac yn werthfawr o safbwynt y newid yn yr hinsawdd, mae gweld coeden yn ei blodau'n olygfa fendigedig ac yn codi'r ysbryd. Mae cael mynediad i'r pleserau syml hyn yn hanfodol, po fwyaf o bobl sy'n dod, y mwyaf o arian y byddant yn ei wario, sydd wedyn yn hybu'r economïau lleol. |
| | Ymateb y Swyddogion | Rydym yn gweld bod buddion y dirwedd a byd natur yn hanfodol i iechyd a lles trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd, ac maen nhw'n rhan hanfodol o gamau gweithredu'r AHNE a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. |
| | Newidiad | Dim, ond mae'n sicr bod angen rhoi lle amlwg i hyn yn y cynllun gweithredu. |
| 13 | Sylw | Rwy'n hoffi'r pwyslais ar gadwraeth bioamrywiaeth, trwy gynefinoedd a chadwraeth rhywogaethau.<br>Mae eich dealltwriaeth o hamdden yn colli ffactor enfawr - caiacio môr. Ynys Môn yw un o'r prif gyrchfannau caiacio môr yn y byd, oherwydd ei fod yn cynhyrchu rhai o'r caiacs môr gorau a chael rhai o'r lleoliadau hyfforddi gorau. Yn aml mae gennym ymwelwyr o Ogledd America ac Ewrop (yn enwedig Sgandinafia), sy'n dod yn benodol i gaiaco môr.<br><br>Mae ffatrïoedd Ynys Môn yn cynhyrchu dros 3,000 o gaiacau môr y flwyddyn. Mae fy |

| | | |
|---|---|---|
| | | musnes hyfforddi/tywys caiacod môr yn troi dros £110,000 y flwyddyn ac yn dod â 600+ o ymwelwyr caiacio i'r ynys. Rhaid i gaiacio môr gyfrif am ychydig filiwn o'r refeniw twristiaeth £360 miliwn a ddyfynnir yn yr adroddiad. |
| | Ymateb y Swyddogion | Yn sicr, caiacio môr yw un o'r ffyrdd gorau o werthfawrogi arfordir Ynys Môn, ac ni ellir gwadu fod Ynys Môn yn atynfa i'r rhai sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn. Mae'r math hwn o hamdden pan gaiff ei wneud mewn modd sensitif yn cyd-fynd â nodau'r AHNE. Mae'r gweithgynhyrchu lleol o gaiacs môr uchel eu parch hefyd yn unol â'n hymdrechion i gefnogi diwydiannau lleol. |
| | Newidiad | Cyfeirio at caiacio môr yn yr adran Hamdden |

**C8 – I ba raddau ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â chynnwys y Polisi?**





**Sylwadau**

Mae’r adran hon braidd yn ‘drwm’ i’r cyhoedd, ac nid yw’r canlyniad a welir uchod yn annisgwyl. Cyfeirir at y polisi fel y mae o fewn yr egwyddorion o ran gofynion y cynllun fel y nodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

| | | |
|---|---|---|
| 14 | Sylw | Ymddengys mai eitemau polisi statudol / strategol yw’r rhain y mae’n rhaid eu hystyried / cydymffurfio â hwy. |
| | Ymateb y Swyddogion | Nodwyd |
| | Newidiad | Dim |
| 15 | Sylw | Ymddengys nad yw’n berthnasol o ran p’un a ydw i’n cytuno neu’n anghytuno â chyd-destun y polisi, oherwydd mai dyna yw ei ddiben fel polisi, ac rydych wedi’i ddiffinio felly. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae’n ymddangos y byddai’n gwneud synnwyr. Byddwn yn dweud nad oeddwn yn gyfforddus wrth ddarllen y cyd-destun deddfwriaethol yng ngolau’r datblygiad arfaethedig ym Mhenrhos, Caergybi. Er y ffaith y rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol, ni allaf weld sut mae Cynnig Land and Lakes yn unrhyw beth ond anghyfreithlon yn y cyd-destun presennol o ran |

| | | |
|---|---|---|
| | | polisi (heb sôn am hynny yn y dyfodol), ac rwy'n gobeithio y bydd CSYM yn ei ailystyried cyn gynted â phosib. Ni ellir ystyried mwyach bod y datblygiad 'o Fudd Cenedlaethol' (os fu erioed). |
| | Ymateb y Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes ar gyfer Penrhos wedi dilyn y broses gynllunio briodol. Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd. |
| | Newidiad | Dim |
| 16 | Sylw | Byddai'n well gen i weld pa "Gynlluniau" sydd gennych ar gyfer yr ardal cyn cynnig unrhyw farn. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae'r adran ar y 5 Thema Allweddol yn dangos y camau gweithredu y bwriadwn ymgymryd â hwy yn ystod cyfnod y cynllun. Caiff cynllun gweithredu blynyddol cyfredol ei lunio i ategu'r rhain. |
| | Newidiad | Dim |
| 17 | Sylw | Fel arfer, rydych yn gofyn cwestiynau chwerthinllyd. Does gen i mo'r amser i ddarllen hynny i gyd gyda ffydd bod y sawl sydd wedi llunio'r ddogfen wedi gwneud eu gwaith cartref. Ydych chi'n ceisio annog rhanddeiliaid i beidio â chwblhau'r holiadur? |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae'r modd y mae'r cynllun yn cyd-fynd â pholisïau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol yn ffurfio rhan o'r gofynion fel dogfen statudol. Rydym yn sylweddoli bod hyn yn creu adran braidd yn drwm. |
| | Newidiadau | Dim – byddai fawr o bwrpas mewn lleihau'r cynnwys. |

**C9 – Mabwysiadu Dull Ecosystem**





**Sylwadau**

Mae'n amlwg bod yr ymatebwyr at ei gilydd yn deall cysyniad y Dull Ecosystem o ganlyniad i wybodaeth flaenorol o'r testun o fewn y cynllun. Mae'n amlwg hefyd eu bod yn teimlo bod dull o'r fath yn briodol.

| | | |
|---|---|---|
| 18 | Sylw | Er bod y cynllun hwn yn canolbwyntio ar yr AHNE, mae'n bwysig ystyried ei effaith ar yr ardal ehangach. Dydw i ddim yn byw o fewn yr AHNE, ond tua 3 milltir i ganol y tir - mewn lle gwledig a hardd iawn, gydag awyr dywyll a chyfoeth o fywyd gwyllt, ynghyd ag 'ardal wyllt heb goed sydd wedi'i phori gan ddefaid' o'n cwmpas. Rydym yn plannu coed ac yn ceisio dad-ddofi rhywfaint o'n 5 erw o dir, fel ymgais i ddod yn hunangynhaliol ac i reoli'r tir orau y gallwn er bioamrywiaeth, heb gymorthdaliadau neu grantiau ffermio. Byddai'r materion sy'n berthnasol i'r AHNE yn sicr o fod yn berthnasol i rannau eraill o'r ynys, felly byddai ei hystyried ar wahân yn rhywbeth anghyfrifol, yn fy marn i. |
| | Ymateb y Swyddogion | I weithio ar raddfa tirwedd, ni allwch ddefnyddio ffin yr AHNE fel ffactor i bennu rheolaeth briodol. Mae afonydd yn enghraifft dda o ran bod effeithiau gormod o faetholion ar y tir yn effeithio cynefinoedd o fewn yr AHNE. Rydym yn nodi'r sylw ond eisoes yn gweithio y tu hwnt i'r ffin. |
| | Newidiad | Byddwn yn cynnwys cyfeiriad at weithio y tu hwnt i'r ffin. |

| | | |
|---|---|---|
| 19 | Sylw | Mae’n eithriadol o anodd darllen y grid a cheisio deall beth sy’n cael ei gynnig.<br>Fel “tyfwr”, hoffwn nodi nad dim ond “ffermwyr” sy’n cynhyrchu bwyd…Fyddwn i fyth yn ystyried fy hun yn ffermwr, ond dwi’n cynhyrchu llawer o fwyd, fel y mae nifer o dyfwyr eraill ar Ynys Môn. |
| | Ymateb y Swyddogion | Rydym am chwilio am ddarlun ar ffurf graff i symleiddio’r grid. |
| | Newidiad | Dylid cynnwys darlun ar ffurf graff os oes un ar gael. |
| 20 | Sylw | Dwi’n meddwl bod yr hyn sydd ar waith yn gweithio. |
| | Ymateb y Swyddogion | Bydd gweithio yn ôl Dull Ecosystem, ynghyd ag addysgu adrannau a phartneriaid eraill ond yn arwain at ragor o welliannau. |
| | Newidiad | Dim |

**C10 – I ba raddau ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â'r '5 thema ar gyfer cyflawni Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn'?**




**Sylwadau**


Mae 48% o'r ymatebion yn rhoi ymateb cadarnhaol o ran blaenoriaethu'r 5 thema allweddol dros oes y cynllun. Mae'r themâu allweddol hyn yn cyd-fynd â phwrpas yr AHNE ac yn cysylltu'n uniongyrchol â pholisiau lleol a chenedlaethol eraill. Ystyrir unwaith eto nad yw ymatebwyr yn llawn ddeall pa mor eang yw cylch gwaith yr AHNE.

| | | |
|---|---|---|
| 21 | Sylw | - Dwi'n ei chael yn anodd gwahanu'r nodau o safbwynt ''mynd i'r afael a'r dirywiad ym myd natur' a'r 'newid yn yr hinsawdd', ond yn derbyn bod yr hyn y maen nhw'n rhoi sylw iddo ychydig yn wahanol.<br>Byddai'n dda gweld y Cyngor yn ymrwymo i gyflogi pobl er mwyn MYND ATI i hybu bywyd gwyllt a chadwraeth natur, yn lle dim ond 'gweithio gyda phartneriaid', ac yn enwedig nid dim ond cael grwpiau o wirfoddolwyr neu elusennau i wneud y gwaith hwn. Gallai'r cyngor arwain trwy esiampl o ran creu rhagor o swyddi yn y cyswllt hwn. Ceir cyfleoedd aruthrol i greu cyflogaeth yma i bobl leol a chanddynt lawer o wybodaeth a phrofiad.<br>Byddwn hefyd yn hoffi gweld ymrwymiad i orfodaeth, nid dim ond 'gweithio gyda phartneriaid' i fynd i'r afael rhywogaethau goresgynnol, gan gynnwys y rhywogaethau goresgynnol sy'n bodoli ym Mhenrhos ar hyn o bryd. O ran hynny, ni allaf weld unrhyw dystiolaeth bod Land and Lakes wedi rheoli, heb sôn am 'daclo'r' rhywogaethau goresgynnol - yn enwedig y |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhododendron. Ond cyfeirir at sawl rhywogaeth arall yn eu harolwg amgylcheddol helaeth a gwblhawyd ar gyfer y cais cynllunio. Gellid ystyried eu bod yn disgwyl am ganiatâd llawn ar gyfer eu cais cynllunio cyn dechrau unrhyw waith - hyd yn oed hynny y gellid ei ystyried yn waith cynnal hanfodol er budd natur.<br>Mae llysiau'r gingroen yn bla ar Ynys Môn hefyd, sydd bob amser wedi fy synnu'r yn yr 20 mlynedd yr wyf wedi bod yn byw yma. Byddai rhyw fath o ymgyrch i fynd i'r afael â llysiau'r gingroen ledled yr ynys o fudd. Dwi'n gwerthfawrogi bod angen caniatáu i rywfaint ohono dyfu ar gyfer y gwyfyn claergoch a mathau eraill o bryfetach - yn wir, mae'r planhigyn yn tyfu ar ein tir ni, ac mae'n ymddangos yn amhosib i'w ddileu heb ei chwistrellu - ond mae'n doreithiog iawn yn y sir hon ac i'w weld yn tyfu allan o reolaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn. |
| | Ymateb y Swyddogion | Yn lle mae'n amlwg bod methiant o safbwynt delio â rhywogaethau estron goresgynnol, neu o ran lle ceir tystiolaeth o dorri amodau trawsgydymffurfio, byddwn bob amser yn hysbysu'r corff neu'r adran berthnasol a chanddynt bwerau gorfodi. |
| | Newidiad | Dim, ond nodwyd y sylwadau. |
| 22 | Sylw | Mae'n eithriadol o anodd deall yn iawn beth sy'n cael ei gynnig. Dylid bod wedi darparu crynodeb byr o'r ddogfen ar gyfer yr ymgynghoriad. |
| | Ymateb y Swyddogion | Ein bwriad yw darparu fersiwn byr o'r cynllun maes o law. |
| | Newidiad | Dim, ond nodwyd y sylwadau. |
| 23 | Sylw | Lleolir y rhan fwyaf o'r AHNE ar hyd yr arfordir. Cafodd rhai rhannau o'r AHNE eu dinistrio eisoes trwy benderfyniadau annoeth o ran lleoli carafanau. Mae meysydd carafanau'n dal i gael eu datblygu, heb ganiatâd cynllunio, o fewn yr AHNE. Dwi'n credu bod polisi cynllunio'n gwahardd datblygiadau o'r fath, ond maen nhw'n dal i ddigwydd. Byddwn yn croesawu ymateb cryfach i unrhyw ddatblygiadau o'r fath. |
| | Ymateb y Swyddogion | Caiff dynodiad yr AHNE ei ystyried yn y broses gynllunio. Dylid mynd i'r afael â pharciau carafanau |

| | | |
|---|---|---|
| | | nad oes unrhyw ganiatâd cynllunio ar eu cyfer trwy gamau gorfodaeth cynllunio. |
| | Newidiad | Dim, ond nodwyd y sylwadau. |

**C11 - Blaenoriaethu Themâu Allweddol**




**Sylwadau**


Mae'n ddiddorol iawn gweld yn amlwg bod ymatebwyr yn nodi bod dwy thema allweddol o'r pwys mwyaf. Y rhain yw Cyfoethogi'r Arfordir ac Ardaloedd Cefn Gwlad, ynghyd â mynd i'r afael â'r Argyfwng Natur. Mae maint y sampl yn fach iawn ond, unwaith eto, mae'n rhoi cipolwg ar y ffaith naill ai nad yw'r AHNE yn cael ei deall yn iawn neu, yn syml, bod y themâu uchod yn flaenoriaeth ym meddyliau pobl.

| | | |
|---|---|---|
| 24 | Sylw | Mae'r materion hyn wedi'u cysylltu mor agos, roedd yn anodd eu rhestru yn ôl pwysigrwydd. Ond, i mi'n bersonol, mae mynd i'r afael â'r argyfwng natur a'r newid yn yr hinsawdd yn brif flaenoriaethau oherwydd, heb y rhain, nid oes unrhyw bwynt meddwl am unrhyw rai o'r gweddill. Rhaid eu blaenoriaethu, waeth beth fo'r gost ariannol.<br>Os oedd angen cydbwyso anghenion yr amgylchedd naturiol gyda 'mwynhad' pobl, yna ni fyddwn yn gwrthwynebu cyfyngu (neu 'blismona') niferoedd yr ymwelwyr i rai ardaloedd, e.e. y nythfa o wenoliaid y môr yng Nghemlyn. Ni fyddai ots gen i am hynny. Fel pobl, dwi'n teimlo nad oes gennym 'hawl' i fwynhau'r ardal, er fy mod yn cydnabod yr angen i gydbwyso hyn â'r budd a geir o incwm gan dwristiaid. Ers i mi fod yn byw yma, mewn rhan wledig o'r ynys lle mae cymdogion yn brin - dwi'n teimlo bod diffyg ymdeimlad o gymuned ar adegau, ac mae angen mynd ati i chwilio am grwpiau ac i wneud cysylltiadau, sy'n golygu bod angen gyrru i'r dref. Gellir teimlo'n unig iawn, yn enwedig ers Covid (er, yn eironig, teimlwyd bod MWY o gymuned bryd |

| | | |
|---|---|---|
| | | hynny yn fwy na thebyg, gan y byddai pobl yn cerdded heibio'r tŷ, ac yn dweud helo, yn cadw llygaid ar gymdogion ac ati - cafwyd y teimlad ein bod ni i gyd yn yr un sefyllfa), ac felly dwi'n teimlo bod 'cymunedau bywiog mewn tirwedd weithredol' yn bwysig iawn hefyd. |
| | Ymateb y Swyddogion | Dylid sylweddoli gwerth byd natur, a'i allu i gysylltu pobl yn nhermau bod yn ynysig mewn ardal wledig. Yn yr un modd, dengys tystiolaeth bod cael y gymuned ffermio i gydweithio ar fentrau newydd yn lleihau ynysigrwydd ac agweddau eraill sy'n gwneud pobl yn fregus. Ychwanegir cyfeiriad at hyn. |
| | Newidiad | Ychwanegu testun i'r adran Cymunedau Bywiog. |
| 25 | Sylw | Dwi'n teimlo'n gryf mai'r *status quo* ar yr ynys yw'r math o feddwl o ran bod yn "siop leol i bobl leol", ac nid yw'r cynllun rheoli'n mynd i'r afael â'r broblem hon. Rhaid i'r economi leol - a'r diwylliant lleol - addasu i'r realiti newydd, nad oes diwydiant ar yr ynys, ac y gellir dadlau nad oes lle i ddiwydiant, ar wahân i dwristiaeth. |
| | Ymateb y Swyddogion | Nodwyd yr ymateb. |
| | Newidiad | Dim |
| 26 | Sylw | Argyfwng yr hinsawdd yw'r mater pwysicaf y mae brys mwyaf i fynd i'r afael ag ef. Mae'n dod yn fwy a mwy tebygol y gall fod yn ddigwyddiad a all arwain at ddifodiant, ac mae gan awdurdodau gyfrifoldeb dros yr amgylchedd. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae argyfwng yr hinsawdd yn fater sydd y tu hwnt i bob polisi lleol, ac mae mynd i'r afael â'r her yn ffurfio rhan sylweddol o'n gwaith o safbwynt cynllunio camau gweithredu. |
| | Newidiad | Dim |
| 27 | Sylw | Fel athrawes, mae'r ardaloedd yma'n hynod bwysig fel adnodd, ond hefyd mae'n rhaid gofalu am yr ardaloedd yma gan fod yr hinsawdd yn newid. Os bydd y Cyngor yn torri coedwigoedd hen ni fydd plannu coed newydd hefo'r un effaith. Wrth ofalu am yr ardaloedd, mae'r Cyngor yn anfon neges gref i eraill sy'n dweud bod ein parciau ac ardaloedd yn hollbwysig mewn byd o newid hinsawdd. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae gan y cynllun nod clir o ran mynd i'r afael â'r materion hyn, ac mae'r cynllun gweithredu'n amlygu'r angen am ymateb ar ran amryw sefydliadau/tirfeddiannwr o safbwynt lliniaru |

| | | |
|---|---|---|
| | | effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r cynllun corfforaethol yn adleisio'r her hon. |
| | Newidiad | Dim – ond nodwyd y sylwadau. |

C12 – Rheoli a Llywodraethu




**Sylwadau**

Mae'r arolwg yn awgrymu lefel sylweddol o ddifaterwch tuag at reoli a llywodraethu, ond mae'n debyg bod hyn oherwydd gwybodaeth gyfyngedig neu ddadrithiad o ganlyniad i ddatblygiad Penrhos, neu faterion eraill y mae pobl yn eu hystyried sy'n rhan o fethiant i warchod yr AHNE.


| | | |
|---|---|---|
| 28 | Sylw | Mae angen gwneud mwy. Mae angen diogelu ardaloedd a'u rheoli yn hytrach na gobeithio y bydd y gymuned yn gwneud o drosoch chi. Mae'n rhaid ysbrydoli pobl i blannu coed ac i ofalu am yr ardaloedd. Nid 'pass the buck' i'r gymuned. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae cymunedau'n chwarae rôl bwysig, ac maen nhw angen cael ymdeimlad o berchnogaeth o'r AHNE, ynghyd â theimlo y gallant wneud cyfraniad uniongyrchol o ran camau i wella |

| | | |
|---|---|---|
| | | pethau. Ond mae angen cefnogi hyn gydag ymrwymiad cryf i gyflawni'r newid cadarnhaol y mae ei angen i fynd i'r afael â heriau mawr. Mae'r strwythur staff yn gymharol gadarn ar hyn o bryd, a trwy feddylfryd cyfannol o fewn yr ALl, gellir cael cefnogaeth gan adrannau eraill. |
| | Newidiad | Ychwanegu testun mewn perthynas â'r mater hwn. |
| 29 | Sylw | Rhaid meddwl am hanes Cyngor Ynys Môn yn y gorffennol o safbwynt ei fod wedi dinistrio rhannau helaeth o'n hardaloedd cefn gwlad i letya parciau carafanau mawr, sy'n edrych fel gwersylloedd carcharorion rhyfel (cymrwch olwg ar 'Google Earth', mae tirwedd arfordir dwyreiniol yr ynys yn ddolur llygad). Does gen i fawr o obaith am y dyfodol o dan ei reolaeth. |
| | Ymateb y Swyddogion | Ni ddylai'r AHNE fod yn rhywbeth sy'n atal datblygiadau priodol, ond trwy sicrhau gwell dealltwriaeth o'i phwysigrwydd, dylai datblygiadau fod yn fwy priodol a mesurau lliniaru'n gryfach. Lle ystyrir bod cynigion yn amhriodol, dylai'r system gynllunio bresennol weithredu i warchod asedau pwysig Ynys Môn. |
| | Newidiad | Dim, ond nodwyd y sylwadau. |
| 30 | Sylw | Nid oes unrhyw beth da o reidrwydd o ran "cadw" staff, neu wneud swyddi dros dro'n barhaol. Y staff gorau ar gyfer y swydd yw'r rheiny sy'n gwneud y swydd. Os nad ydynt yn dda, dylent fynd. At ei gilydd, mae syniadau a chyfraniadau newydd yn beth da. Mae CSYM yn dueddol o fod yn amgylchedd marwaidd (gan siarad o brofiad). Efallai y byddai'n fwy buddiol cael mwy o gyfraniadau a gwerthusiadau o'r tu allan, gan amrywiaeth o gontractwyr, yn hytrach na pharhau i sefyll yn llonydd. |
| | Ymateb y Swyddogion | Nodwyd - mae gennym dîm ifanc ac egnïol o wardeiniaid sy'n frwdfrydig am eu gallu i gyflwyno nodau'r cynllun. |
| | Newidiad | Dim |
| 31 | Sylw | Mae'r adran hon yn eithaf annelwig. Rwy'n teimlo'n gymysglyd o ran yr ymadrodd 'dehongli a hyrwyddo'r AHNE' – dydw i ddim yn sicr beth mae 'dehongli' yn ei feddwl yn y cyd-destun |

| | | |
|---|---|---|
| | | hwn, fodd bynnag, mewn egwyddor, mae'n ymddangos ei bod yn set dda o amcanion. Tybed os allai 'rhanddeiliaid a phartneriaid' gynnwys sefydliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles hefyd (gan gynnwys y GIG), a ph'un a ellir meithrin gwell cysylltiadau â'r GIG, gan gynnwys cydweithredu â chynllun coed y GIG ('NHS Forest') ynghyd â mentrau eraill sy'n bodoli i hyrwyddo'r buddion o ran iechyd. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae angen Cynllun Cyfathrebu – mae angen cyfeirio at hyn yn yr adran hon. |
| | Newidiad | Ychwanegu testun. |
| 32 | Sylw | Mae diffyg y cyngor sir a llywodraeth Cymru o ran sicrhau dyfodol Parc Penrhos fel lle hollbwysig i'r gymuned leol yn boenus. |
| | Ymateb y Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes ar gyfer Penrhos wedi dilyn y broses gynllunio briodol. Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd. |
| | Newidiad | Dim |
| 33 | Sylw | Dwi'n anghytuno'n gryf oherwydd nad yw Cyngor Sir Ynys Môn yn rheoli'r mater o lywodraethu Penrhos, maen nhw'n boddio Land and Lakes a heb hyd yn oed gyfarfod ag unrhyw un o'r ymgyrchwyr iddyn nhw allu dangos i Gyngor Ynys Môn bod Land and Lakes wedi dweud celwydd wrth ddweud eu bod wedi dechrau gweithio ym Mhenrhos. Maen nhw wedi derbyn tystiolaeth ffotograffig er bod cynghorwyr wedi dweud y bydden nhw'n barod i ymweld â'r safle i weld y lle drostyn nhw eu hunain. Ac er tryloywder, nid yw'r pwyllgor cynllunio wedi gweld y lluniau hynny, mae'r tîm cyfreithiol yn gwadu'n gryf bod y gwaith wedi dechrau, fel y mae trigolion lleol a rhai cynghorwyr. Felly ymwelwch â'r safle hwn, a gwiriwch y sefyllfa a thynnwch luniau i'r pwyllgor cynllunio er mwyn iddyn nhw weld y sefyllfa drostyn nhw eu hunain. Wnewch chi ddechrau rheoli'r sefyllfa hon, da chi, i atal trychineb. |
| | Ymateb y Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes ar gyfer Penrhos wedi dilyn y broses gynllunio briodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd. |
| | Newidiad | Dim |

**C13 – I ba raddau ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda'r 'Cynllun Gweithredu'?**




**Sylwadau**

Caiff y mwyafrif o'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun eu derbyn, er nad oedd gan bron i 50% o'r ymatebwyr unrhyw farn gref.

| | | |
|---|---|---|
| 34 | Sylw | Syniadau gwych, mae angen gweithredu i'w rhoi ar waith. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae'n angenrheidiol i ni gyflawni'r camau gweithredu, ac yr un mor bwysig i ni basio storïau am ein gwaith ymlaen i'r cymunedau a'r ymwelwyr a fydd yn elwa ar hynny, er mwyn iddynt gael deall yr ardal yn well, ynghyd ag i godi proffil yr AHNE. |
| | Newidiad | Cynnwys gwybodaeth am y cynllun cyfathrebu. |
| 35 | Sylw | Mae'r geiriau i gyd yn swnio'n dda ond mae angen eu rhoi ar waith. Dwi'n cyfeirio unwaith eto at ddinistrio cynefin y coetir ym Mhenrhos, er anfantais i fyd natur a'r gymuned. Mae caniatáu mynediad yn ystod y dydd, am awr neu ddwy, i drigolion lleol ac ymwelwyr yn gwneud llai o ddifrod o lawer i fyd natur na 1,000 o bobl yn byw yno 24/7.<br>Cyfeirir at y syniad o dawelwch, ond eto caniatawyd i Trac Môn fodoli o fewn AHNE. Dwi'n gwerthfawrogi ei fod wedi bod yno am flynyddoedd lawer, ond mae nifer y digwyddiadau wedi cynyddu'n ddramatig, gan achosi problemau sylweddol o ran traffig yn y cyffiniau, ynghyd â sŵn parhaus, yn enwedig pan fydd digwyddiadau ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfer beiciau modur. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar fwynhad trigolion lleol ac ymwelwyr o dawelwch yr ardal. Fel yr 'Yr Ynys Ynni', a fyddai modd i'r Cyngor fynnu eu bod yn newid i ddefnyddio tanwydd nad yw'n danwydd ffosil, ynghyd â thechnoleg dawel ar gyfer rasio, yn bennaf oherwydd y newid yn yr hinsawdd os dim arall?! |
| | Ymateb y Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes ar gyfer Penrhos wedi dilyn y broses gynllunio briodol. Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd.<br><br>Mae'n bwysig i unigolion, a phob sector, gan gynnwys y sector preifat, ddod ynghyd i geisio datrysiadau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae hon yn elfen gyffredin o Gynllun yr AHNE a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. |
| | Newidiad | Dim – rydym yn teimlo ein bod wedi cynnwys hyn yn barod. |
| 36 | Sylw | Mi fyddwn wrth fy modd pe baech yn gwneud popeth yr ydych wedi'i ddweud, ond dwi'n meddwl mai dim ond ymarfer i dicio'r bocsys ydi hwn. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae'n angenrheidiol i ni gyflawni'r camau gweithredu, ac yr un mor bwysig i ni basio storïau am ein gwaith ymlaen i'r cymunedau a'r ymwelwyr a fydd yn elwa ar hynny, er mwyn iddynt gael deall yr ardal yn well, ynghyd ag i godi proffil yr AHNE. |
| | Newidiad | Cynnwys gwybodaeth am y cynllun cyfathrebu. |
| 37 | Sylw | Thema 1 – datblygiad amhriodol!<br>Penrhos (mae hwn yn dechrau swnio fel jôc), sut allwch chi gynnig y ddogfen hon, pan nad ydych yn dilyn ei chynnwys.<br>CC1.4<br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>Amcan 3 – datblygu!<br>CCC 3.3 – rhowch hwn ar waith ar unwaith. |
| | Ymateb y Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes ar gyfer Penrhos wedi dilyn y broses gynllunio briodol. Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Newidiad | Dim |
| 38 | Sylw | Fel y dywedais yn flaenorol, dwi'n teimlo bod angen i rai o'r camau gweithredu fod yn fwy beiddgar. |
| | Ymateb y Swyddogion | Ar adeg pan fo angen gweithredu i fynd i'r afael â nifer o'r heriau sy'n ein hwynebu, mae'n bwysig y dylem gael ein gweld yn arwain y gad. Bydd hyn yn gofyn am ymateb gan bartneriaid a chymunedau ar y cyd. Mae'r cynllun, ynghyd â'r cynllun gweithredu cysylltiedig, yn ddogfen weithio, a byddwn yn ymdrechu i fod mor uchelgeisiol â phosib wrth fynd ymlaen. |
| | Newidiad | Dim – caiff ei ystyried wrth gyflawni'r cynllun gweithredu. |

# Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn – Atodiad 1

# Cynnwys y Polisi

## Rhyngwladol

**Tirwedd Categori V yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur**

Mae AHNE Cymru, ochr yn ochr â'r rheini yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ynghyd â pharciau cenedlaethol y DU, yn rhan o deulu o ardaloedd gwarchodedig a ddiffinnir gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) fel rhai Categori V - tirweddau gwarchodedig. Gelwir y rhain yn dirweddau diwylliannol, a ffurfiwyd gan ryngweithio agos rhwng natur a gweithredoedd poblogaethau dynol. Mae tirweddau Categori V yn cael eu diffinio gan IUCN fel tirweddau lle:

'...mae'r rhyngweithio rhwng pobl a natur dros amser wedi creu ardal o gymeriad unigryw sydd â gwerth ecolegol, biolegol, diwylliannol a golygfaol sylweddol: ac mae diogelu uniondeb y rhyngweithio hwn yn hanfodol i ddiogelu a chynnal yr ardal a'i chadwraeth natur gysylltiedig a gwerthoedd eraill.'

Drwy'r categoreiddio hwn, gall y gwaith o reoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ddod yn enghraifft o ddatblygu cynaliadwy ar sail ardal a all amlygu cyfleoedd ar gyfer cynlluniau rheoli eraill sy'n seiliedig ar ardal.

**Y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd (ELC)**

Mae'r ELC yn gysyniad ledled Ewrop sy'n canolbwyntio ar ansawdd gwarchod, rheoli a chynllunio tirwedd. Fe'i mabwysiadwyd gan Gyngor Ewrop yn 2000 ac fe'i cadarnhawyd gan lywodraeth y DU yn 2006. Mae'r llofnodwyr wedi datgan eu bod:

'...yn awyddus i sicrhau datblygu cynaliadwy ar sail perthynas gytbwys a harmonig rhwng anghenion cymdeithasol, gweithgarwch economaidd a'r amgylchedd.'

Mae'n diffinio tirwedd fel:

'...rhan o'r tir, fel y mae pobl leol neu ymwelwyr yn ei weld, sy'n esblygu drwy amser o ganlyniad i rymoedd naturiol a phobl yn gweithredu arno.'

Dylai canfod ac asesu tirweddau fod yn gydweithrediad rhwng ymchwil maes gan weithwyr proffesiynol a chanfyddiadau trigolion lleol. Mae'n cynnwys pob tirwedd, o'r cyffredin i'r eithriadol, sy'n pennu ansawdd amgylchedd byw pobl.

Dylai pobl fod wrth galon polisïau rheoli tirwedd, gan ymgorffori eu dyheadau ar gyfer nodweddion tirwedd eu hamgylchedd. Mae'r cyhoedd yn cael eu hannog i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o warchod a rheoli'r dirwedd, gan helpu i ddylanwadu ar newidiadau a chynllunio'r gwaith o'i rheoli. Gall

Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'u haelodau partneriaeth wneud cyfraniad gwerthfawr at gyflawni nodau'r ELC.

## Cenedlaethol (y DU)

### Dyfodol Gwyrdd – Cynllun 25 mlynedd i Wella'r Amgylchedd (2018)

Roedd Cynllun Amgylchedd 25 mlynedd Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd yn 2018, yn nodi dull tymor hir o helpu'r byd naturiol i adfer a chadw iechyd da. Dyma'r prif bwyntiau yn y cynllun:

'Byddwn yn gwarchod ac yn gwella harddwch ein hamgylchedd naturiol, ac yn sicrhau y gall pawb ei fwynhau, ei ddefnyddio a gofalu amdano. Byddwn yn gwneud hynny drwy:

- Ddiogelu a gwella harddwch ein golygfeydd naturiol a gwella eu gwerth amgylcheddol ar yr un pryd â bod yn sensitif i ystyriaethau ynghylch eu treftadaeth.
- Sicrhau bod mannau naturiol hygyrch o ansawdd uchel yn agos at ble mae pobl yn byw ac yn gweithio, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, ac annog mwy o bobl i dreulio amser ynddynt er budd eu hiechyd a'u lles.
- Canolbwyntio ar gynyddu gweithredu i wella'r amgylchedd gan bob sector o gymdeithas.'

Mae'r cynigion allweddol yn cynnwys y llywodraeth yn ceisio sefydlu egwyddor 'budd amgylcheddol net' ar gyfer datblygu er mwyn cyflawni gwelliannau amgylcheddol yn lleol ac yn genedlaethol, a datblygu Rhwydwaith Adfer Natur a fydd yn darparu 500,000 hectar o gynefin bywyd gwyllt ychwanegol i gysylltu safleoedd a thirweddau sydd eisoes yn cael eu gwarchod. Ei nodau yw y bydd bywyd gwyllt sy'n cael ei adfer angen mwy o gynefin mewn cyflwr gwell mewn ardaloedd mwy sydd â chysylltiadau agosach.

### Deddf yr Amgylchedd 2021

Y Ddeddf yw fframwaith newydd y llywodraeth ar gyfer diogelu'r amgylchedd ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae cyfreithiau newydd yn ymwneud â diogelu naturiol, ansawdd dŵr, aer glân a gwarchodaeth amgylcheddol a ddaeth o'r UE yn wreiddiol. Mae'n gosod targedau hirdymor wedi'u rhwymo mewn cyfraith ar gyfer gwella'r amgylchedd, ac yn cryfhau'r ddyletswydd sydd ar gyrff cyhoeddus i warchod a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys cyflwyno enillion net ar gyfer bioamrywiaeth drwy'r system gynllunio.

### Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ac arwyddocâd Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

Mae dibenion Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi'u nodi yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000.

Mae adran 82 o'r Ddeddf yn diffinio mai prif ddiben y dynodiad yw gwarchod a gwella harddwch naturiol. Diffiniwyd dau bwrpas arall hefyd:

- Wrth fynd ar drywydd y prif bwrpas, dylid ystyried anghenion amaethyddiaeth, coedwigaeth, diwydiannau gwledig eraill ac anghenion economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol. Dylid rhoi sylw arbennig i hyrwyddo ffurfiau cynaliadwy o ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd sydd ynddynt eu hunain yn gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd.
- Nid yw hamdden yn un o amcanion dynodiad, ond dylid diwallu'r galw am hamdden i'r graddau bod hyn yn gyson â chadwraeth harddwch naturiol ac anghenion amaethyddiaeth, coedwigaeth a defnyddiau eraill.

Mae adran 85 yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i roi sylw i ddibenion gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal... Nid diben dynodiad yw atal datblygu, ond bydd yr awdurdodau cynllunio yn ystyried unrhyw gynnig datblygu i sicrhau nad yw'n niweidio cymeriad ac ymddangosiad yr AHNE yn ormodol.

Mae adran 89 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sydd ag AHNE yn eu hardal gynhyrchu cynlluniau rheoli AHNE ac yna adolygu a mabwysiadu'r cynlluniau hyn bob pum mlynedd o leiaf.

## Cenedlaethol (Cymru)

**Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol (2021)**

Mae'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Cymru yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer datblygu ar gyfer Cymru hyd 2040. Mae ei strategaeth yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, datgarboneiddio a chydnerthedd hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau. Mae'n ffurfio'r haen uchaf o gynllunio datblygu yng Nghymru.

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

Mae Deddf yr Amgylchedd yn nodi'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig. Ei nod yw gwneud Cymru yn economi werdd, carbon isel sy'n gallu addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Ddeddf yn hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol; yn darparu targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr; yn gwneud newidiadau i'r gyfraith ynghylch draenio tir ac is-ddeddfau gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac yn gwneud darpariaethau amrywiol ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff, trwyddedau pysgodfeydd a morol, ac yn sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gynhyrchu Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol sy'n asesu pa mor dda mae adnoddau'n cael eu rheoli'n gynaliadwy, mae'n galluogi Llywodraeth Cymru i lunio polisi cenedlaethol ar gyfer rheoli cynaliadwy ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gynhyrchu sylfaen dystiolaeth leol i helpu i roi blaenoriaethau ar waith.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r Ddeddf hon yn darparu diben cyffredin, wedi'i rwymo mewn cyfraith, i bob lefel o lywodraeth a chyrff cyhoeddus penodol er mwyn gwella llesiant Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau penodedig gyflawni datblygu cynaliadwy, gan ei gwneud yn egwyddor graidd iddynt wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gyda'r nod o gyflawni saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus – cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang, defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur, a datblygu poblogaeth fedrus sydd wedi'i haddysgu'n dda mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth.
- Cymru gydnerth – amgylchedd naturiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol.
- Cymru iachach – sicrhau'r lles corfforol a meddyliol gorau posibl i bobl.
- Cymru sy'n fwy cyfartal – galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau.
- Cymru o gymunedau cydlynus – cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.
- Cymru â'r Gymraeg yn fywiog ac yn ffynnu – hyrwyddo a gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg.
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang – gan ystyried effaith fyd-eang gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae'r Ddeddf yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried llesiant pobl ochr yn ochr â llesiant Cymru, gan gysylltu datblygu cynaliadwy â phobl ac ansawdd eu bywyd.

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael eu sefydlu ledled Cymru i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio i greu dyfodol gwell i bobl Cymru. Canfu pwyntiau allweddol o adroddiad pum mlynedd 2022 gan Fwrdd Ynys Môn ar gyfer materion amgylcheddol:

- Mae amgylchedd naturiol amrywiol Ynys Môn yn adnodd pwysig sy'n cael effaith gadarnhaol ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.
- Mae newid yn yr hinsawdd yn her fyd-eang sy'n cael effaith ar lesiant ar Ynys Môn, gan fod rhai cymunedau yn wynebu risg uchel o lifogydd, tywydd eithafol a thirlithriadau, ac mae'n rhoi byd natur a chynefinoedd yr ardal o dan bwysau cynyddol.
- Mae gwarchod byd natur a bioamrywiaeth yn bwysig ar gyfer datgarboneiddio.
- Mae Ynys Môn dan bwysau amaethyddol cymharol uchel ac mae ffermio anghynaladwy yn niweidio'r amgylchedd.

Bydd llawer o'r amcanion a'r camau gweithredu yn y cynllun rheoli hwn yn helpu i gyflawni'r saith nod llesiant.

**Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol 2016**

Mae'r Ddeddf yn gwella deddfwriaeth flaenorol, gan ddarparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer dynodi, diogelu a rheoli henebion cofrestredig yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi gwarchodaeth fwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig ac yn gwella'r mecanweithiau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy.

Bydd yn ei gwneud yn haws i berchnogion neu ddatblygwyr greu ffyrdd newydd cynaliadwy o ddefnyddio adeiladau hanesyddol sydd heb eu rhestru ac yn galluogi awdurdodau i weithredu'n gyflym os oes bygythiad i adeilad rhestredig o ganlyniad i waith anawdurdodedig.

**Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol 2018**

Mae'r adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru yn rhoi datganiad ar ddyfodol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru. Mae gan y datganiad bedwar nod:

- Eu bod yn Fannau Gwerthfawr sy'n ymestyn y tu hwnt i gynulleidfaoedd traddodiadol ac yn ymgysylltu â thrawstoriad mwy amrywiol o gymdeithas yng Nghymru er mwyn iddynt deimlo bod ganddynt fuddiant yn y tirweddau cenedlaethol hyn.
- Eu bod yn cynnwys Amgylcheddau Cydnerth lle mae gwerth byd natur yn cael ei wella a bod y dirywiad mewn bioamrywiaeth yn cael ei wrthdroi.
- Eu bod yn cefnogi Cymunedau Cydnerth lle mae'r berthynas rhwng pobl a'r amgylchedd wedi siapio'r tirweddau hyn a'u cymunedau.
- Rhaid i bartneriaethau AHNE ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol fabwysiadu Ffyrdd Cydnerth o Weithio lle maent yn hyrwyddo dulliau cydweithredol i fanteisio i'r eithaf ar y manteision a mynd i'r afael â'r heriau a wynebir yn y tirweddau hyn.

Roedd y datganiad yn pwysleisio y dylai Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol arddangos dulliau o gysoni tensiynau o ran gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd am adnoddau naturiol, a fydd yn cael eu cefnogi mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy'r cynllun rheoli.

**Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2018)**

6.3.13 Dyma'r cynllun morol cyntaf i Gymru ac mae wedi'i anelu at lywio datblygiad cynaliadwy'r ardal forol i gefnogi amcanion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Gweledigaeth y cynllun yw bod moroedd Cymru yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol:

- Mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, ac mae moroedd yn iach ac yn gydnerth, ac yn cefnogi economi gynaliadwy a ffyniannus
- Mae iechyd a lles yn gwella
- Mae mwy o swyddi a chyfoeth yn cael eu creu, gan helpu cymunedau arfordirol i ddod yn fwy gwydn, ffyniannus a theg gyda diwylliant bywiog
- Mae ardal forol Cymru yn gwneud cyfraniad cryf at dargedau diogelwch ynni ac allyriadau newid yn yr hinsawdd.

Mae amcanion y cynllun yn cyd-fynd yn agos ag amcanion y cynllun rheoli hwn drwy arwain y gwaith o reoli a datblygu'r arfordir a chymunedau arfordirol yn gynaliadwy.

**Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) (2017)**

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn gynllun ledled Ewrop a ddatblygwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd i wella ansawdd afonydd a dŵr. Mae'n darparu un fframwaith a fyddai'n cysoni polisi rheoli dŵr ledled Ewrop. Nodau allweddol y fframwaith yw:

- Ehangu cwmpas diogelu dŵr i bob dŵr, dŵr wyneb a dŵr daear.
- Sicrhau 'statws da' i bob dŵr erbyn dyddiad cau penodol
- Rheoli dŵr yn seiliedig ar fasnau afonydd
- Dull gweithredu cyfun ar gyfer gwerthoedd terfyn allyriadau a safonau ansawdd
- Cael y pris yn iawn
- Cael y dinesydd i gymryd mwy o ran
- Symleiddio deddfwriaeth

Mae'r Fframwaith yn gorfodi Prydain Fawr i gyrraedd targedau ar gyfer statws ecolegol a chemegol cyrff dŵr. Mae angen asesu unrhyw waith a allai effeithio ar hydroleg, ecoleg neu ansawdd dŵr unrhyw gorff dŵr dosbarthedig o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i ddangos sut bydd yr effeithiau'n cael eu lliniaru neu sut bydd y corff dŵr yn cael ei wella i sicrhau statws da. Mae dŵr daear hefyd yn cael ei asesu am ei statws meintiol a chemegol.

**Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 (2012)**

Mae Cynllun Rheoli Traethlin yn asesiad ar raddfa fawr o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag esblygiad arfordirol. Mae'n cyflwyno polisïau i fynd i'r afael â'r risgiau hyn i bobl ac i'r amgylchedd adeiledig, hanesyddol a naturiol, mewn modd cynaliadwy. Nid yw'n gosod polisi ar gyfer unrhyw beth ar wahân i reoli risg o ran bwyd ac erydu arfordirol. Fodd bynnag, ei nod yw darparu cyd-destun ar gyfer penderfyniadau rheoli mewn sectorau eraill o reolaeth arfordirol.

Mae arfordir Ynys Môn yn cael ei ystyried yng Nghynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru o dan ardaloedd arfordirol F a G. Mae'r rhain yn ystyried rhagfynegiadau ar gyfer cynnydd yn lefel y môr a newid yn yr hinsawdd am gyfnodau o 50 mlynedd a 100 mlynedd. Mae polisïau'n amrywio o wneud dim i gynnal y llinell arfordirol er mwyn gwarchod tir ac eiddo, a byddant yn dylanwadu ar reolaeth yr AHNE.

**Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru**

Mae'r datganiad ardal hwn, a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyda chyfranogiad cymunedol helaeth, yn rhoi trosolwg o dirwedd gogledd orllewin Cymru o safbwynt y bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Mae canlyniadau'r broses o gynhyrchu'r datganiad yn cynnwys nodi ystod eang o faterion sy'n effeithio ar amgylchedd yr ardal, llu o gamau gweithredu a all helpu i liniaru'r problemau ac ymrwymiad i gydweithio rhwng sefydliadau a chymunedau. Mae moeseg y dull hwn yn cyd-fynd yn dda â'r broses o ddatblygu a gweithredu'r cynllun rheoli hwn. Themâu allweddol y datganiad yw:

- Hybu economi gynaliadwy
- Ailgysylltu pobl â byd natur
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer ecosystem gydnerth
- Cefnogi rheoli tir yn gynaliadwy

Dwy thema drawsbynciol yw:

• Hinsawdd ac argyfwng

• Ffyrdd o weithio

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i Gynllluniau Rheoli AHNE  ystyried Datganiadau Ardal a'r Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR). Rhaid i Ddatganiadau Ardal ystyried cynllluniau perthnasol gan gynnwys Cynllluniau Rheoli AHNE o dan a901A o Ddeddf CRoW 2000.

## Datganiad Ardal Morol

Mae'r Datganiad Ardal Morol yn cwmpasu dyfroedd glannau Cymru, sy'n ymestyn hyd at 12 milltir môr o'r arfordir a'n cynnwys  43% o diriogaeth Cymru.

Mae'r Datganiad Ardal Morol yn cyd-fynd â'r Datganiadau Ardal ac mae ganddo dair thema graidd sy'n cysylltu ag ystod eang o'r themâu a'r camau gweithredu allweddol a gynhwysir yng Nghynllun Rheoli'r AHNE:

• Adeiladu gwydnwch ecosystemau morol
• Gwneud y mwyaf o gynllunio morol
• Addasu arfordirol ac atebion sy'n seiliedig ar natur

Mae'r Datganiad Ardal Morol hefyd yn hyrwyddo ailgysylltu pobl â moroedd Cymru trwy weithredoedd fel llythrennedd morol a gwyddoniaeth dinasyddion, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o'r buddion y gall ardaloedd morol ac arfordirol gael at gefnogi llesiant ehangach.

## Lleol

**Cynllun y Cyngor**

Mae Cynllun y Cyngor yn nodi blaenoriaethau'r awdurdod lleol ar gyfer y cyfnod 2023-28, gyda gweledigaeth glir i greu Ynys Môn sy'n iach ac yn ffyniannus lle gall pobl ffynnu.

Mae'n nodi 6 amcan allweddol y bydd ei gynnydd yn cael ei fesur yn eu herbyn. Y rhain yw:

**1.** Gofal Cymdeithasol a Lles – darparu'r gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn

**2.** Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

**3.** Tai – sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw i rywle yn y cartref

**4.** Economi – hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys

**5.** Newid yn yr Hinsawdd – ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030

**6.** Y Gymraeg – cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith

Mae'r cynllun yn cydnabod pwysigrwydd yr AHNE o ran cyflawni'r amcanion allweddol hyn, ac yn arbennig y rôl y mae'n ei chwarae o ran mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, a'r manteision economaidd a chymdeithasol i'r ynys.

**Cydgynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn 2011-2026**

Y cynllun hwn yw'r cynllun datblygu statudol ar gyfer Ynys Môn, sy'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol a phenderfynu ar faterion datblygu mewn perthynas â buddiannau cadwraeth.

Mae'r cynllun yn cydnabod bod gan Ynys Môn dirwedd unigryw ac amrywiol, ac mae'n cynnwys AHNE Ynys Môn a'r ynys gyfan fel Geoparc Byd-eang UNESCO. Mae'n gwerthfawrogi bod cymeriad a harddwch y dirwedd yn gwella ansawdd bywyd y trigolion yn sylweddol ac yn arwain at fanteision cymdeithasol a manteision iechyd sylweddol.

Mae Polisi Strategol PS19 y cynllun yn pennu y bydd datblygiad yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n gwarchod a, lle bo hynny'n briodol, yn gwella'r amgylchedd naturiol, y cefn gwlad a'r arfordir unigryw, a bydd cynigion sy'n cael effaith andwyol arnynt yn cael eu gwrthod oni bai fod manteision y datblygiad yn amlwg yn fwy na gwerth y safle.

Mae Polisi AMG1 yn ofyniad i gyfeirio at nodau ac amcanion y cynllun rheoli wrth ystyried cynigion cynllunio.

Rhaid i gynigion o fewn y lleoliad neu sy'n effeithio ar y lleoliad a / neu olygfeydd arwyddocaol i mewn ac allan o'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, lle bo hynny'n briodol, roi sylw i'r Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol perthnasol.

**Ynys Ynni Môn**

Sefydlwyd y Rhaglen Ynys Ynni yn 2010 ac mae'n rhan o ddull gweithredu Cyngor Ynys Môn ar gyfer datblygiad economaidd-gymdeithasol. Mae'r rhaglen yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod Ynys Môn yn esiampl o'r newid i economi carbon isel ffyniannus a chadarn.

Mae'r Rhaglen yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o dechnoleg, ymchwil a datblygu carbon isel sy'n cynnwys gwynt, hydrogen, llanw, solar a niwclear yn ogystal â'r seilwaith grid cysylltiedig.

Mae'r Rhaglen yn ceisio sicrhau bod pob datblygiad a phrosiect yn darparu swyddi lleol, addysg a chyfleoedd cadwyn gyflenwi o ansawdd uchel, gan ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol a galluogi'r Gymraeg a'i diwylliant i ffynnu mewn cymunedau bywiog.

Gweledigaeth Ynys Ynni Môn

Thema 1: 'Twf mewn technoleg newydd, ymchwil a datblygu, ac arloesi'

Lle sy'n galluogi twf mewn technoleg carbon isel newydd, ymchwil a datblygu, ac arloesedd, gan ddiogelu ac adeiladu ar gryfderau presennol sectoraidd fel yr economi ymwelwyr.

Thema 2: 'Creu swyddi lleol, meithrin sgiliau, busnesau ffyniannus'

Lle cynhwysol sy'n darparu mynediad at gyflogaeth, addysg a swyddi lleol newydd o ansawdd uchel sy'n cefnogi adferiad economaidd yr ynys a Gogledd Cymru ar ôl y pandemig.

Thema 3: 'Cymunedau cydnerth a chydlynol, sy'n cefnogi ymdeimlad cryf o le'

Lle i fod yn falch ohono, lle mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn ffynnu ac yn fywiog, gan feithrin balchder cymunedol ac ysbryd entrepreneuriaeth, gan alluogi ansawdd bywyd gwell i'n pobl.

Thema 4: 'Gweithredu cyfrifol, arloesol ac amserol ar y newid yn yr hinsawdd'

Ar flaen y gad o ran y newid i ynni carbon isel, gan fanteisio i'r eithaf ar swyddi lleol a chyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi.

Thema 5: 'Amgylchedd cytbwys'

Cefnogi llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy adeiladu partneriaethau gwaith tymor hir a chydweithio cymunedol, gyda'r angen i warchod, gwella a chyfoethogi bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a threftadaeth unigryw'r ynys.

O safbwynt AHNE Ynys Môn, mae'r Rhaglen yn amcanu i'r holl gynigion datblygu technoleg carbon isel roi sylw i ddynodiad yr AHNE a'i phrif bwrpas o warchod a gwella harddwch naturiol.

**Cynllun Rheoli Cyrchfan**

Mae'r economi ymwelwyr yn hanfodol i sefyllfa economaidd gynaliadwy Ynys Môn, ac mae'r strategaeth yn tynnu sylw at yr ymrwymiad i wella hyn ymhellach. Fodd bynnag, mae wedi dod yn fwyfwy amlwg dros y 3 blynedd diwethaf bod twristiaeth heb ei chyfyngu yn gallu cael effaith niweidiol ar fywydau pobl a'r rhinweddau unigryw sy'n gwneud i'r Ynys fod mor nodedig ac sy'n gyrru'r rhan fwyaf o weithgareddau twristiaid.

Bydd y Cynllun yn unioni'r anghydbwysedd hwn ac yn sicrhau, drwy grŵp aml-sefydliadol/buddiannau newydd, bod manteision cynigion bywiog ac amrywiol yn gallu gwella nodweddion allweddol o ran iaith, diwylliant, amgylchedd a threftadaeth.

Mae ymgyrch i wella seilwaith fel meysydd parcio ceir, toiledau a darpariaeth mynediad yn rhan allweddol o'r strategaeth, a thrwy sicrhau bod y blociau adeiladu hollbwysig hyn yn eu lle, bydd gennym fwy o gyfleoedd i ryddhau'r potensial cynigion gwell o ran twristiaeth gynaliadwy a fydd yn arwain at fanteision economaidd, cymdeithasol, iechyd a llesiant i ymwelwyr a phobl Ynys Môn.

Mae'r Cynllun yn dwyn ynghyd holl gyfrifoldebau a blaenoriaethau Cyrchfan a bydd yn gweithredu fel templed ar gyfer dull gweithredu mwy cydweithredol a holistaidd o reoli cyrchfannau wrth symud ymlaen.

Rydym wedi datblygu 4 egwyddor allweddol i lywio cyfeiriad ein gwaith, a chyfeiriad partneriaid a rhanddeiliaid.

Sef:

**1.** Dathlu, Parchu ac Amddiffyn ein Cymunedau, Hanes, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth

- Economi ymwelwyr lle mae'r cymunedau lleol yn teimlo eu bod yn berchen ar y model twristiaeth adfywiol ac yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso i fwrw ymlaen â'r model hwnnw.
- Economi ymwelwyr sy'n croesawu ac yn defnyddio cryfderau presennol ein hiaith a'n diwylliant mewn modd cynaliadwy, ac sy'n dod â'n treftadaeth i gynulleidfa ehangach.
- Economi ymwelwyr lle mae'r diwylliant yn cael ei gofleidio, ac wrth galon yr holl weithgareddau hyrwyddo a chynnyrch

**2.** Gwella Profiad Ymwelwyr a Chynaliadwyedd Economaidd

- Economi ymwelwyr sy'n gallu tyfu'n gynaliadwy ar sail darpariaeth o ansawdd uchel lle mae ymwelwyr yn gwerthfawrogi ac yn parchu diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd Ynys Môn.
- Economi ymwelwyr sy'n seiliedig ar weithgareddau a phrofiadau sy'n manteisio ar ddiwylliant, treftadaeth a'r amgylchedd, ond nad ydynt yn eu diraddio.
- Economi ymwelwyr lle mae seilwaith ymwelwyr o safon a darpariaeth mynediad yn cynnig cyfleoedd hamdden gwell, a gwell iechyd a lles o ganlyniad i hynny.

**3.** Cynnal, Gwella a Pharchu ein Hamgylchedd, a chynllunio i liniaru effeithiau Newid yn yr Hinsawdd

- Mae economi ymwelwyr lle mae'r amgylchedd naturiol yn cael ei ddeall a gwelliannau i gyfalaf naturiol yn arwain at fanteision o ran llesiant i bawb.
- Economi ymwelwyr lle mae gweithgareddau'n cyd-fynd â'r amgylchedd naturiol, ac yn gwella'r ddarpariaeth a'r tir a'r môr y maent yn digwydd arnynt.
- Economi ymwelwyr sy'n dod yn fwy 'barod am newid yn yr hinsawdd' ac sy'n gynyddol niwtral o ran carbon.
- Economi ymwelwyr lle mae defnyddwyr yn cael eu grymuso i gyfrannu'n uniongyrchol at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

**4.** Sicrhau bod y manteision i gymunedau Ynys Môn yn fwy nag unrhyw anfanteision, ac o ganlyniad gwelir manteision cymdeithasol a manteision o ran lles.

- Economi ymwelwyr y mae ei seilwaith a'i hadnoddau'n cael eu gwella er budd cymunedau lleol, ac yn addasu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Economi ymwelwyr lle mae pobl leol yn cael cyfleoedd i fod wrth galon y ddarpariaeth, gan fanteisio ar rolau crefftus newydd a chadwyni cyflenwi lleol.
- Economi ymwelwyr sydd â chynaliadwyedd wrth ei gwraidd ac sy'n gallu tyfu o ran gwerth economaidd a chymdeithasol a darparu cyfleoedd iechyd a llesiant i bawb.

**Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Ynys Môn 2013**

Mae'r strategaeth hon yn gam pwysig tuag at ddeall a rheoli'r perygl o lifogydd ar Ynys Môn. Mae'n tynnu sylw at sut y gall y Cyngor weithio'n well gyda mudiadau a chymunedau tuag at leihau'r risg o lifogydd tra'n cydbwyso anghenion cymunedau, yr economi a'r amgylchedd. Bydd y Cyngor, fel yr Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol, yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â pherygl llifogydd lleol, gan gynnwys llifogydd o ddŵr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr fel afonydd a nentydd. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am lifogydd o brif afonydd, ac mae'n cael ei arwain gan Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

# Cynllun Rheoli AHNE - Atodiad 2

## Buddion cyhoeddus AHNE Ynys Môn

| **Gwasanaethau darparu** | **Gwasanaethau rheoleiddio** | **Gwasanaethau diwylliannol** | **Gwasanaethau cefnogi** |
|---|---|---|---|
| **Cynhyrchion o ecosystemau megis dŵr, bwyd a chyflenwad o ddeunyddiau crai** | **Canlyniadau prosesau naturiol megis puro dw ac ansawdd aer** | **Buddion heb fod yn ddeunyddiau a ddaw o ganlyniad i'n rhwydweithio gyda'r amgylchedd naturiol** | **Swyddogaethau a ddarperir gan ecosystemau sy'n sail i'r holl wasanaethau eraill** |
| **Cyflenwad dŵr** | **Ansawdd yr aer** | **Gwerthoedd treftadaeth ddiwylliannol** | **Ffurfio pridd** |
| Mae dŵr glân yn hanfodol ar gyfer bywyd. Mae'r corstiroedd a'r corsleoedd yn nalgylch afonydd Ynys Môn yn chwarae rhan bwysig yn glanhau'r dŵr yfed a ddarperir | Mae coed a phlanhigion yn ganolog i'r cylch ocsigen a charbon deuocsid yn yr atmosffer. Maent yn chwarae rôl bwysig yn rheoleiddio lefelau llygredd aer | Gellir olrhain dylanwad dynol ac anheddiad yn ôl i'r ymgasglwyr hela Mesolithig ac amaethyddiaeth gynnar. Mae gan yr AHNE dreftadaeth hanesyddol gyfoethog o ran ei chelf, ei diwylliant, ei henebion, ei adeiladau hanesyddol a diwydiant. Mae gan hyn werth cymdeithasol gwych, yn ogystal â gwerth economaidd. Mae cymeriad rhanbarthol a synnwyr o le yn cyfoethogi hunaniaeth leol ac yn darparu natur unigryw drwy gynnal cymunedau Cymreig. | Ffurfir pridd drwy'r rhyngweithio rhwng planhigion, micro-organebau a'r ddaeareg sylfaenol. Rydym yn dibynnu ar bridd iach i dyfu bwyd. Mae pridd yn araf yn ffurfio ond yn gallu cael ei ddiraddio'n sydyn gan reoli tir gwael, erydiad ac effaith tywydd a hinsawdd |
| **Cynhyrchu bwyd** | **Rheoleiddio hinsawdd a storio carbon** | **Hamdden a thwristiaeth** | **Cynnyrch craidd** |
| Mae ffermwyr yn AHNE Ynys Môn yn cynhyrchu bwyd a deunyddiau crai eraill. Mae'r amgylchedd ffermio yn cynhyrchu swm sylweddol o ddefaid a gwartheg yn ogystal â chynnyrch lleol arall megis cawsiau a llysiau. Mae cynhyrchu bwyd yn yr AHNE yn cyfrannu i gyflogaeth uniongyrchol ac ategol. | Mae gan yr ystod o gynefinoedd o fewn a gerllaw'r AHNE ddylanwad ar yr hinsawdd ar raddfa leol a byd-eang drwy ddal a storio carbon o'r atmosffer. Mae'r corsydd sydd ar Ynys Môn yn ardaloedd eang o fawn sy'n helpu i storio oddeutu 750,000 tunnell o garbon | Mae hamdden a thwristiaeth yn elfen bwysig yn economi Ynys Môn a'r arfordir amrywiol, bywyd gwyllt toreithiog, llwybr yr arfordir ac atyniadau twristiaid eraill yr AHNE yn cyfrannu'n sylweddol i' diwydiant hwn. Mae cyflogaeth tymhorol a thrwy gydol y flwyddyn yn cyfrannu'n sylweddol i'r diwydiant hamdden a thwristiaeth | Rydym yn dibynnu llawer ar brosesau megis ffotosynthesis lle mae planhigion yn defnyddio ynni haul i droi dŵr, carbon deuocsid a maetholion yn ocsigen a thwf biolegol sy'n darparu bwyd a deunyddiau crai eraill |
| **Pren** | **Llif dŵr a rheoleiddio llifogydd** | **Iechyd a lles** | **Cylchu maetholion** |
| Mae coetir llydanddail a choedwigoedd conwydd, yn gorchuddio oddeutu 13.4% o gyfanswm arwynebedd yr AHNE. | Mae'r dalgylchoedd dŵr, afonydd, nentydd, morfeydd, a chorsydd yn helpu i reoleiddio llif y dŵr a draenio'r tir drwy | Mae tirweddau a morluniau AHNE Ynys Môn yn darparu cyfle i ystod o weithgareddau sy'n helpu i gyfrannu at | Mae planhigion, anifeiliaid a micro-organebau yn hanfodol i gylch naturiol maetholion a cyn helpu i gynnal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae nifer o goetiroedd ystâd yn cael eu rheoli'n dda. Mae yna botensial da i ddod ag ardaloedd eraill o goetir i reoli gweithredol drwy gyfranogiad cymunedol | storio a lleihau dŵr ffo ar yr wyneb. Os yw'n cael ei reoli'n briodol gallant helpu i leihau llifogydd pan mae'n bwrw'n drwm a chynnal llif afonydd a lefelau dŵr ar yr wyneb yn ystod sychder | iechyd a llesiant y cymunedau lleol, grwpiau gofal iechyd ac ymwelwyr | ansawdd pridd a dŵr. Mae lefelau cynyddol o faetholion megis nitradau a ffosffadau o garthffosiaeth a gwrteithwyr yn gallu achosi ansawdd gwae; mewn dŵr a cholli bioamrywiaeth |
| **Ynni** | **Rheoliad erydu** | **Llonyddwch** | **Y Cylch Dŵr** |
| Mae gan yr AHNE y potensial i ddarparu ar gyfer ystod o gynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n cyd-fynd â'i nodweddion arbennig. Mae yna gyfle i ddatblygu cynlluniau egni ar raddfa fach ac ar gyfer pentrefi. | Mae morlin Ynys Môn yn dioddef erydu mewn nifer penodol o leoliadau oherwydd y llanw ac yn gynyddol, digwyddiadau storm. Gall hyn fod yn gadarnhaol a negyddol. Mae ardaloedd o forfa heli yn amsugno ynni tonnau mewn stormydd a allai fel arall erydu'r morlin. Yn fewndirol, gellir rheoli'r perygl o erydu trwy orchudd coed a llystyfiant a thrwy gymryd gofal wrth amaethu dros ardaloedd mawr neu ar lethrau | Mae llonyddwch cymharol yn cael ei gydnabod fel nodwedd arbennig o'r AHNE. Mae'n darparu adnodd a budd sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr iawn. Mae llonyddwch hefyd yn bwysig yn y nos ac mae awyr dywyll Ynys Môn yn cael ei chydnabod fwyfwy fel un o bwysigrwydd mawr | Rydym yn dibynnu ar yr amgylchedd naturiol a'i swyddogaethau i ddarparu dŵr ffres i ni |
| **Amrywiaeth genetig** | **Ansawdd y pridd** | **Gwerthoedd ysbrydol ac ysbrydoledig** | **Bioamrywiaeth** |
| Mae bioamrywiaeth a'r storfa hadau o fewn yr AHNE yn adnoddau ar gyfer y dyfodol. Mae bridiau lleol yn helpu i gynnal amrywiaeth enetig bwysig ac yn cyfrannu at ein treftadaeth ddiwylliannol a hynodrwydd lleol | Mae gwahanol fathau o bridd yn darparu brithwaith o gynefinoedd a chnydau amrywiol | Mae Ynys Môn yn enwog am ei thirwedd arfordirol a'i synnwyr o le. Mae'r ardal wedi ysbrydoli artistiaid a llenorion. Mae'n parhau i roi cyfle i bobl ddeall a mwynhau ei nodweddion arbennig. Mae'r ardal yn galluogi pobl i ddianc, i gael eu hysbrydoli ac i ganfod adnewyddiad ysbrydol. | Mae planhigion ac anifeiliaid yn gyrru llawer o'r prosesau sy'n arwain at ecosystem iach â'r buddion a gawn ganddi. Mae'n hanfodol i warchod rhywogaethau a chynefinoedd, gan eu bod yn ategu'r prosesau rydym yn dibynnu arnynt i gynnal ein bywydau |
| | **Ansawdd dŵr** | | |
| | Mae rheoli afiechyd a phla a phrosesau naturiol megis ysglyfaethu ac amodau hinsoddol yn helpu i reoli lledaeniad clefydau a phla | | |
| | **Peillio** | | |
| | Mae peillio cnydau yn effeithiol gan wenyn a pheillwyr eraill yn hanfodol i gylchred bywyd llawer o blanhigion. Mae'r AHNE yn dibynnu ar y 'gwasanaeth naturiol' | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hwn ar gyfer tyfu cnydau bwyd a phlanhigion a blodfau gwylt eraill hefyd | | |

# Cynllun Rheoli AHNE
# Atodiad 3 – Amcanion a Chamau Gweithredu'r Polisi

**THEMA 1**

**Cyfoethogi cefn gwlad lleol a chymeriad yr arfordir**

7.1.2 Mae'r cysylltiad rhwng tirwedd a morlun AHNE Ynys Môn yn un o'i nodweddion diffiniol allweddol. Mae ei chlogwyni, traethau, twyni ac aberoedd yn cyferbynnu ac yn ategu'r rhostiroedd a'r glaswelltiroedd sy'n gefndir i'r arfordir. Mae cymunedau dros ganrifoedd wedi siapio'r tir ac wedi masnachu o'i chymunedau arfordirol gan ffurfio cyfuniad cyfoethog o nodweddion naturiol a'r rhai a wnaed gan ddyn. Mae ganddi harddwch naturiol ac ymdeimlad o lonyddwch sy'n rhoi iddi rinweddau arbennig sy'n ei gosod ar wahân i dir mawr Cymru.

7.1.3 Mae arfordir Ynys Môn gyda'i thraethau wedi bod yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid ers cenedlaethau. Mae pwysau ar gyfer datblygu a'r angen i warchod ei nodweddion naturiol a hanesyddol yn heriau i reolaeth yr AHNE.

**NOD**
**Bydd harddwch naturiol, rhinweddau arbennig a natur unigryw tirwedd AHNE Ynys Môn, gan gynnwys ei nodweddion naturiol, diwylliannol a hanesyddol, yn cael eu cynnal, eu gwarchod a'u gwella er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.**

| **Beth yw'r grymoedd allweddol ar gyfer newid?** | |
|---|---|
| Mwy o blannu mewn coetiroedd | Datblygu prysgwydd |
| Newidiadau i bolisïau ac arferion amaethyddol | Plannu conwydd |
| Arallgyfeirio incwm ar ffermydd | Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) |
| Pwysau a bygythiadau economaidd | Newid yn yr hinsawdd |
| Ail gartrefi, a'u heffaith ar ddiwylliant, cymuned ac iaith. | Datblygiad amhriodol |
| Cynnydd yn lefel y môr, a'r angen dilynol am amddiffynfeydd môr wedi'i glymu i encilio dan reolaeth | Esgeulustod a diffyg rheolaeth dros safleoedd treftadaeth ddiwylliannol |
| Pwysau hamdden | Llygredd morol |
| Llygredd | Diffyg ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd |
| Llai o bori ysgafn traddodiadol | Polisi'r Llywodraeth, gan gynnwys deddfwriaeth amgylcheddol ar ôl Brexit |

DRAFT

| Pwy yw'r partneriaid allweddol? | |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Uned Cefn Gwlad ac AHNE |
| Sefydliadau tirwedd a bywyd gwyllt | Llywodraeth Cymru |
| Cadw | Prifysgol Bangor |
| Tirfeddianwyr, cymunedau | JAC |
| Staff yr awdurdod lleol | |

| Beth yw'r prif ddylanwadau ar bolisi? | |
|---|---|
| Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd | Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr |
| Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru | Cynllun Datblygu Lleol |
| Deddf Amgylchedd y DU 2021 | Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru |
| Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Cynlluniau amaeth-amgylchedd a datblygu gwledig ar ôl Brexit |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru |
| Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 | Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 |
| Polisi Cynllunio Cymru 11 | Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru a Datganiad Ardal Forol |

Mae rhagor o ganllawiau CNC ar y canlynol i'w gweld yn y ddogfen Asesiad Amgylcheddol Strategol AHNE

- Sensitifrwydd gweledol lleoliadau morol o Dirweddau Dynodedig Cymru i ffermydd gwynt alltraeth
- Llonyddwch a Lle
- Defnyddio LANDMAP mewn Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Wele

DRAFT

**Amcan 1: Tirwedd/ Morwedd**
Mae'r dirwedd arfordirol a morlun yn cael eu cadw'n weithredol lle bo'n briodol, eu gwella.

**Polisïau**

**CCC 1.1** Defnyddir LANDMAP fel y broses ar gyfer gwerthuso ac asesu cymeriad tirwedd yr AHNE

**CCC 1.2** Defnyddir Asesiad Cymeriad Morwedd Ynys Môn i helpu i bennu effeithiau tebygol datblygiadau morol ar rinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.

**CCC 1.3** Mae angen cynnal hygyrchedd a diddordeb mewn cadwraeth safleoedd o bwysigrwydd daearegol a geomorffolegol.

**CCC 1.4** Bydd elfennau o'r dirwedd sydd wedi cael eu diraddio a cholli eu cymeriad yn cael eu hadfer a'u gwella i ddiogelu ansawdd y dirwedd.

**Amcan 2: Tirwedd a Diwylliant Hanesyddol**
Mae safleoedd hanesyddol, archeolegol a diwylliannol yn cael eu gwarchod rhag datblygiad sy'n diraddio rhinweddau arbennig yr AHNE ac yn cael eu dehongli i gynyddu dealltwriaeth pobl o'u gwerth.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**CCC 2.1** Annog asiantaethau perthnasol i weithio gyda'i gilydd i ganfod, amddiffyn a gwarchod adnoddau hanesyddol, archeolegol a diwylliannol yr AHNE.

**CCC 2.2** Cefnogi'r defnydd o sgiliau ac arferion traddodiadol wrth adfer nodweddion arbennig yr AHNE.

**CCC 2.3** Sicrhau bod deunydd dehongli cyson, cydlynol ac o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu i roi gwybod i bobl am hanes a diwylliant cyfoethog yr AHNE.

**Amcan 3: Datblygiad**
Mae Polisïau Cynllunio yn gwarchod rhinweddau arbennig y dirwedd, gan sicrhau bod yr holl ddatblygiadau o fewn ac wrth ymyl ffin yr AHNE yn gydnaws â nodau ac amcanion y dynodiad a bod datblygiadau newydd yn gwella cymeriad lleol. *(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**CCC 3.1** Bydd yr holl gynigion datblygu o fewn a hyd at 2Km i ffiniau'r AHNE yn cael eu hasesu'n drylwyr i leihau datblygiad amhriodol a allai niweidio rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.

**CCC 3.2** Disgwylir i'r holl ddatblygiadau ac ail-ddatblygiadau newydd o fewn a hyd at 2Km i ffiniau'r AHNE fabwysiadu dyluniad, deunyddiau a thirlunio o'r safon uchaf er mwyn cadw a gwella rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE a pharchu'r cyd-destun lleol. Bydd cynigion o faint a natur briodol, sy'n ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy, yn cael eu cefnogi.

**CCC 3.3** Sicrhau bod polisïau cynllunio yn adlewyrchu dyletswydd statudol y Cyngor i warchod a gwella rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.

**CCC 3.4** Parhau i annog gosod llinellau pŵer a ffôn presennol ac arfaethedig o dan y ddaear.

**CCC 3.5** Parhau i annog y safonau uchaf o ran dylunio offer ar gyfer mastiau telathrebu i leihau eu heffaith weledol ar rinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.

**Amcan 4: Heddwch a Llonyddwch**
Mae golygfeydd a llonyddwch panoramig na ddifethwyd yn cael eu diogelu rhag datblygiad a fyddai'n diraddio rhinweddau arbennig yr AHNE.
(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)

**Polisïau**

**CCC 4.1** Gweithio i gynnal a gwella unigedd, awyr dywyll a harddwch naturiol yr AHNE

**CCC 4.2** Gweithio tuag at sicrhau statws Awyr Dywyll ar gyfer Ynys Môn.

**CCC 4.3** Sicrhau bod ymyrraeth sŵn i'r AHNE o fewn terfynau derbyniol.

**Amcan 5: Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem**
Cytunir ar fodel ymysg partneriaid a rhanddeiliaid allweddol ar gyfer defnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem i reoli'r amgylchedd naturiol.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**CCC 5.1** Hyrwyddo'r rôl sydd gan y Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem mewn perthynas â dull integredig o reoli tir yn gynaliadwy a thirwedd ehangach yr AHNE a'r amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau y mae hyn yn eu darparu.

**CCC 5.2** Sicrhau bod effeithiau newid yn yr hinsawdd ar AHNE Ynys Môn yn cael eu cydnabod a'u deall a bod lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn cael eu sefydlu yn y Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem.

**CCC 5.3** Annog a chefnogi ymchwil i'r rôl y mae ecosystemau amrywiol yn ei darparu yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, gan sicrhau bod yr holl ffynonellau data yn cael eu nodi a'u bod yn hygyrch er mwyn gallu gwneud dewisiadau gwybodus.

**CCC 5.4** Annog partneriaid i aseinio gwerthoedd i'r gwahanol wasanaethau ecosystem, gan gydnabod y gwerth 'peidio â defnyddio' y mae rhai gwasanaethau'n ei ddarparu, a chreu mapiau cyfleoedd lle gallai newidiadau o ran rheoli tir ddarparu gwell gwasanaethau ecosystemau.

**THEMA 2**

## Mynd i'r Afael ag Argyfwng Byd Natur

7.1.4 Mae gan AHNE Ynys Môn gyfoeth o gynefinoedd, sy'n cynnal bioamrywiaeth eang ac amrywiol. Mae ei chlogwyni, ei thwyni tywod a'i morfeydd heli yn enwog yn rhyngwladol, ac mae ei rhostiroedd, ei gwlypdiroedd, ei gwelyau cyrs a'i choetiroedd yn cynnal rhywogaethau fel dyfrgwn, y wiwer goch, tegeirianau amrywiol a britheg y gors sy'n brin.

7.1.5 Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ynys Môn a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol yn gosod fframwaith ar gyfer diogelu a rheoli ei adnoddau naturiol a hyrwyddo cydnerthedd yn ei ecosystemau. Mae'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer y cynllun rheoli hwn, o ran gwarchod bioamrywiaeth yr ynys a chydnabod y rôl y gall pobl leol ac ymwelwyr ei chwarae o ran ei gwarchod a'i rheoli.

**Nod**
Mae'r gymuned gyfan wedi derbyn pwysigrwydd gwarchod y byd naturiol a bywyd gwyllt ac mae'n cefnogi deddfwriaeth sy'n gwarchod rhinweddau arbennig amgylchedd yr AHNE. Mae safleoedd bywyd gwyllt dynodedig yn cael eu rheoli'n sensitif ac maent yn rhan o fatrics cynyddol gyfoethog o gefn gwlad sy'n ystyriol o fywyd gwyllt. Bydd achosion o lygredd pridd, aer a dŵr yn yr AHNE yn cael eu lleihau.

| **Beth yw'r grymoedd allweddol ar gyfer newid?** | |
|---|---|
| Mwy o ynysu rhwng coetiroedd | Llygredd, gan gynnwys llygredd sy'n deillio o ddiwydiannau a gweithgareddau nad ydynt wedi'u lleoli yn yr AHNE |
| Esgeuluso coetiroedd yn gyffredinol | Pwysau datblygu |
| Gorbori sy'n arwain at golli corlwyni | Newidiadau mewn llywodraeth leol, deddfwriaeth a rheoliadau |
| Rhoi'r gorau i bori ar ben y clogwyn oherwydd pwysau hamdden | Twristiaeth a phwysau economaidd |
| Datblygu prysgwydd ar rostir | Cynhyrchu ynni |
| Newidiadau mewn polisi ac arferion rheoli tir | Effeithiau cronnus y rhwydwaith trafnidiaeth |
| Rhoi'r gorau i ddefnyddio tir comin | Mwy o alw am ddŵr ffres |
| Dirywiad mewn cyfundrefnau llosgi priodol ar rostir | Diffyg ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd |
| Cystadleuaeth gan rywogaethau estron goresgynnol | Polisi'r Llywodraeth, gan gynnwys deddfwriaeth amgylcheddol ar ôl Brexit |
| Newid yn yr hinsawdd | Cyllid (cynnydd a gostyngiad) |
| Cynnydd mewn tipio anghyfreithlon | Tocio gwrychoedd brodorol |

**Pwy yw'r partneriaid allweddol?**

| | |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwirfoddolwyr AHNE |
| Sefydliadau tirwedd a bywyd gwyllt | Cyfleustodau |
| Tirfeddianwyr, cymunedau | Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru |
| Uned Cefn Gwlad ac AHNE Cyngor Sir Ynys Môn | JAC / Partneriaid |
| Swyddogaeth Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn<br>Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru | Partneriaeth Natur Leol<br>RSPB |

| **Beth yw'r prif ddylanwadau ar bolisi?** | |
|---|---|
| Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru | Cynllun Datblygu Lleol |
| Deddf Amgylchedd y DU 2021 | Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol Ynys Môn 2022-2023 |
| Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Cynlluniau amaeth-amgylchedd a datblygu gwledig ar ôl Brexit |
| Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru |
| Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru a Datganiad Ardal Forol | |

**Amcan 1: Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau**
Mae'r arfordir a chefn gwlad yn cael eu rheoli'n sensitif i gynnal amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau mewn cyflwr ffafriol ac i wella cysylltedd rhwng safleoedd.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**NE 1.1** Parhau i gyflawni blaenoriaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ynys Môn a chamau gweithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cyngor Sir Ynys Môn.

**NE 1.2** Cynnal, adfer a gwella cynefinoedd â blaenoriaeth a bioamrywiaeth yn yr AHNE. Rhoddir sylw arbennig i safleoedd sydd â dynodiadau Rhyngwladol a Chenedlaethol fel Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

**NE 1.3** Hyrwyddo rhannu gwybodaeth sy’n cael ei chasglu mewn ymchwil yn agored â’r sefydliadau hynny sydd â diddordeb yn yr AHNE.

**NE 1.4** Defnydd parhaus o’r adnoddau sydd ar gael yn y Ganolfan Cofnodion Biolegol Lleol (COFNOD).

**NE 1.5** Canfod, lleoli, catalogio a chael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol.

**Amcan 2: Pridd, Aer a Dŵr**
Mae ansawdd y pridd, yr aer a’r dŵr – dŵr croyw a dŵr môr – yn cael ei fonitro’n rheolaidd i gynnal safonau sy’n rhagori ar safonau’r DU ac Ewrop.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi’u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i’r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**NE 2.1** Cymunedau, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i gydweithio i ddiogelu priddoedd, aer a dŵr rhag llygredd.

**NE 2.2** Monitro ansawdd pridd, aer a dŵr yn rheolaidd i sicrhau bod yr AHNE yn bodloni neu’n rhagori ar y safonau disgwyliedig.

**NE 2.3** Lleihau gwastraff drwy fynd ati i hyrwyddo a gweithredu mesurau effeithlonrwydd dŵr a phatrymau mwy cynaliadwy o ran defnyddio dŵr domestig, diwydiannol, amaethyddol a hamdden.

DRAFT

**Amcan 3: Ardaloedd Dynodedig a Safleoedd Pwysig Eraill**
Mae safleoedd bywyd gwyllt statudol ac anstatudol yn cael eu rheoli am eu gwerth o ran bioamrywiaeth, estheteg ac amwynder.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**NE 3.1** Uned AHNE, rheolwyr safle a sefydliadau eraill i gydweithio i gynnal, adfer, ehangu ac weithiau creu cynefinoedd bywyd gwyllt.

**NE 3.2** Sicrhau bod safleoedd bywyd gwyllt lleol anstatudol yn cael eu cydnabod fel cydrannau sylfaenol o'r AHNE a chefn gwlad ehangach Ynys Môn.

**NE 3.3** Sicrhau bod deunyddiau dehongli o ansawdd uchel ar gael yn rhwydd i drigolion ac ymwelwyr fel eu bod yn cael gwybod am ddiddordeb a gwerth amgylchedd naturiol a bywyd gwyllt yr AHNE.

DRAFT

## THEMA 3

## Yr AHNE fel Lle i Fwynhau a Dysgu

7.1.6 Mae Ynys Môn wedi bod yn gyrchfan boblogaidd ers tro byd i ymwelwyr domestig a rhyngwladol. Mae astudiaethau a thystiolaeth amrywiol hefyd yn dangos mai Ynys Môn yw'r sir yn y DU sy'n dibynnu fwyaf ar dwristiaeth, gyda'r diwydiant yn cyfrannu'n sylweddol at ffyniant ac ansawdd bywyd Ynys Môn.  Yr her yw sicrhau bod y manteision i gymunedau Ynys Môn yn fwy nag unrhyw anfanteision, ac o ganlyniad gwelir manteision cymdeithasol a manteision o ran lles.

7.1.7 Gall twristiaeth, oherwydd ei natur, gael effeithiau cadarnhaol a negyddol os na chaiff ei rheoli'n briodol. Gall arwain at ddatblygu amhriodol, tagfeydd ar ffyrdd ac erydu'r harddwch naturiol a'r llonyddwch sy'n brif atyniadau i Ynys Môn. Ond gall hefyd gyfrannu'n gadarnhaol drwy greu refeniw uwch, cynaliadwyedd drwy gydol y flwyddyn a chynnydd mewn gwyliau amgylcheddol a gwyliau i ymwelwyr, fel digwyddiadau a chyrsiau sgiliau traddodiadol a gwyliau cadwraeth natur.

**Nod**
Mae pobl yn deall ac yn cefnogi prif bwrpas yr AHNE. Maen nhw'n cael cyfleoedd i brofi a gwerthfawrogi ei nodweddion a'i nodweddion arbennig mewn ffordd gynaliadwy ac maen nhw'n cyfrannu'n gadarnhaol at y ffordd mae'n cael ei reoli ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

| Beth yw'r grymoedd allweddol ar gyfer newid? | |
|---|---|
| Cynnydd mewn tipio anghyfreithlon | Polisi a hyrwyddo twristiaeth |
| Nifer cyfyngedig o orsafoedd trosglwyddo gwastraff sydd ar gael | Ymwybyddiaeth o fanteision hamdden awyr agored o ran iechyd a lles |
| Cynnydd yn y gost o waredu gwastraff | Cyllid gan awdurdodau lleol a phartneriaid (cynnydd a gostyngiad) |
| Defnyddio hawliau tramwy | Y meini prawf dethol ar gyfer traethau gwobrwyog |
| Materion cyfreithiol tir comin | Trafodaethau ar lwybrau caniataol |
| Cyllid allanol | Cyfranogiad a chefnogaeth y gymuned |
| Polisi tirwedd a warchodir Llywodraeth Cymru | Gweithgareddau hamdden sy'n dod i'r amlwg, fel e-feicio |
| Newidiadau mewn llywodraeth leol | Defnyddio fferi, gydag ymwelwyr dros dro |
| Newidiadau mewn deddfwriaeth, fel Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru | Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru a Datganiad Ardal Forol |

| Pwy yw'r partneriaid allweddol? | |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Darparwyr twristiaeth |
| Awdurdodau lleol – Cyngor Sir Ynys Môn, Cynghorau Tref a Chymuned | Ysgolion, cymdeithasau a grwpiau diddordeb lleol |
| Sefydliadau tirwedd a bywyd gwyllt | Gwasanaethau gwirfoddol |
| Tirfeddianwyr, cymunedau | Menter Môn |
| Awdurdod twristiaeth – rhanbarthol cenedlaethol lleol | Croeso Cymru |
| Partneriaeth twristiaeth | Prifysgol Bangor |

| Beth yw'r prif ddylanwadau ar bolisi? | |
|---|---|
| Polisi twristiaeth Cymru a'r DU | Cynllun Datblygu Lleol |
| Deddfwriaeth a pholisi mynediad i Gymru a'r DU | Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn |
| Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus Ynys Môn |
| Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru | Cynllun statudol morol – cynllun gweithredu morol (asiantaeth Forol a gwylwyr y glannau) |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru a Datganiad Ardal Forol |

DRAFT

| **Amcan 1: Twristiaeth**<br>Datblygir partneriaethau sy'n sicrhau gweithgareddau hamdden gynaliadwy, yn cefnogi gwasanaethau gwledig a chyflogaeth, ac yn cyfrannu at yr economi leol.<br>*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)* |
|---|
| **Polisïau**<br><br>**UE 1.1** Sicrhau bod y diwydiant twristiaeth yn gwneud cyfraniad hanfodol a chynaliadwy i economi AHNE Ynys Môn.<br><br>**UE 1.2** Codi ymwybyddiaeth o rinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE sy'n asedau allweddol i'r sector twristiaeth.<br><br>**UE 1.3** Sicrhau bod y Cynllun Rheoli Cyrchfan yn cefnogi cadwraeth ac yn gwella nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE. |

| **Amcan 2: Hamdden**<br>Mae'r AHNE yn parhau i fod yn lleoliad poblogaidd ar gyfer hamddena cynaliadwy ymysg<br>trigolion ac ymwelwyr, ac mae'r risg o ddifrod i nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE yn lleihau.<br>*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)* |
|---|
| **Polisïau**<br><br>**UE 2.1** Hyrwyddo gweithgareddau a chyfleusterau hamdden daearol a morol cynaliadwy sy'n ategu rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.<br><br>**UE 2.2** Hyrwyddo mwynhad daearol a morol o'r AHNE i drigolion ac ymwelwyr drwy annog gweithgareddau hamdden ac adloniant sy'n cyd-fynd â chadwraeth nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE. |

| **Amcan 3: AHNE groesawgar** |
|---|

Mae effeithiau llygredd a hamdden ar rinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE yn cael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau bod unrhyw ddigwyddiadau o fewn terfynau derbyniol.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**UE 3.1** Hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth rhwng hamdden, cadwraeth a grwpiau buddiant lleol.

**EU 3.2** Gwaith i wella mwynhad pobl o'r AHNE drwy leihau digwyddiadau o ran taflu sbwriel, baw cŵn a thipio anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig.

**Amcan 4: Mynediad**
Trwy'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP) mae'r rhwydwaith mynediad yn cael ei reoli i safon uchel, gan ddarparu cyfleoedd mynediad sy'n briodol i ddibenion y dynodiad.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**UE 4.1** Hyrwyddo mynediad i bawb (lle bo hynny'n briodol), ar yr un pryd â diogelu nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE ac uniondeb safleoedd Ewropeaidd, gan sicrhau bod yna ddull cydlynol a phriodol o reoli a hyrwyddo mynediad cyhoeddus a gweithgareddau hamdden tawel.

**UE 4.2** Sicrhau bod rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn cael ei gynnal i safon uchel a bod gwybodaeth briodol ac arwyddion clir yn gwarchod ac yn gwella nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE ac uniondeb y safleoedd Ewropeaidd.

**UE 4.3** Sicrhau bod Llwybr Arfordir Cymru Gyfan yn ategu'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, a lle ystyrir bod hynny yn briodol, yn darparu cyfleoedd ar gyfer hamdden sy'n hygyrch i bawb. Monitro effeithiau defnyddio'r Llwybr Arfordir a nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE.

**Amcan 5: Dealltwriaeth a Dysgu Gydol Oes**
Mae'r gymuned gyfan yn ymwybodol o fanteision dynodiad AHNE drwy hyrwyddo rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE a'i hanghenion rheoli yn rheolaidd.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**UE 5.1** Cefnogi cynlluniau i blant a phobl ifanc ddeall mwy am dirwedd newidiol AHNE Ynys Môn a'i nodweddion a'i rhinweddau arbennig drwy ddysgu yn yr awyr agored sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm cenedlaethol newydd.

**UE 5.2** Gweithio gydag ysgolion i wella'r cysylltiadau rhwng nodweddion a rhinweddau arbennig AHNE Ynys Môn, newid tirwedd a'u gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm cenedlaethol newydd.

**UE 5.3** Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored i bob oed a gallu yn unol â nodau dysgu gydol oes a lles cymdeithasol.

**UE 5.4** Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod mwy o ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o AHNE Ynys Môn ymysg y rheini sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â'r AHNE.

**Amcan 6: Dehongli a Gwybodaeth**
Mae ystyr nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE yn cael eu datgelu drwy ddehongliad effeithiol.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**UE 6.1** Codi proffil yr AHNE drwy ddehongliad effeithiol a chyson a gwybodaeth i drigolion ac ymwelwyr.

**THEMA 4**

**Cymunedau Bywiog mewn Tirwedd Weithredol**

**Nod**
Mae cymunedau yn yr AHNE a'r cyffiniau yn cyfrannu at gadwraeth a gwella ei nodweddion a'i rhinweddau arbennig tra'n cynyddu eu gweithgareddau economaidd a chymdeithasol presennol yn gynaliadwy.

7.1.8 Mae'r AHNE yn gartref i dros 16,000 o bobl. Fe'u dosberthir mewn aneddiadau eithaf sylweddol megis Biwmares a Niwbwrch ac mewn cymunedau gwasgaredig ledled yr ardal. Felly, mae'r AHNE yn dirwedd warchodedig ac yn gymuned fyw a gweithio. Er bod llawer o bobl yn cymudo i ganolfannau cyflogaeth eraill ar yr ynys neu ar y tir mawr, mae cyflogaeth yn yr AHNE yn bennaf ym maes twristiaeth ac amaethyddiaeth. Felly, mae adnoddau naturiol yr ynys yn sylfaen bwysig i fywoliaeth pobl.

| **Beth yw'r grymoedd allweddol ar gyfer newid?** | |
|---|---|
| Dirywiad mewn olyniaeth a pherchnogaeth teulu mewn amaethyddiaeth a busnesau bach | Cyllid (cynnydd a gostyngiad) |
| Diffyg tai fforddiadwy | Traffig twristiaeth a mwy o ddiddordeb mewn beicio oddi ar y ffordd |
| Cynnydd yn nifer yr ail gartrefi | Newidiadau mewn llywodraeth leol |
| Diffyg cyfleoedd cyflogaeth | Y galw am gynnyrch lleol |
| Patrymau mudo a strwythurau poblogaeth | Ymwybyddiaeth o fanteision hamdden awyr agored o ran iechyd a lles |
| Colli traddodiadau a phatrymau cymunedol | Cyfranogiad a chefnogaeth y gymuned |
| Datblygu traddodiadau a sgiliau lleol | Darpariaeth band eang a gweithio gartref, gan alluogi mwy o bobl i ddefnyddio arferion gweithio rhithiol |
| Polisi'r Llywodraeth, gan gynnwys deddfwriaeth amgylcheddol ar ôl Brexit | Newid yn yr hinsawdd |
| Rhaglenni datblygu gwledig ar ôl Brexit | Effaith prosiectau seilwaith eraill |

| **Pwy yw'r partneriaid allweddol?** | |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Adrannau Awdurdod Lleol |
| Sefydliadau tirwedd a bywyd gwyllt | Cymdeithasau busnes |
| Undebau Ffermio | Menter Môn |
| Tirfeddianwyr, cymunedau | Llywodraeth Cymru |

| Beth yw'r prif ddylanwadau ar bolisi? | |
|---|---|
| Cynlluniau amaeth-amgylchedd a datblygu gwledig ar ôl Brexit | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru | Cynllun Datblygu Lleol |
| Deddf Amgylchedd y DU 2021 | Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn |
| Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru |
| Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru a Datganiad Ardal Forol | |

**Amcan 1: Rheoli Tir**
Mae rheolwyr tir yn diogelu gweithgareddau defnydd tir cynaliadwy sy'n cefnogi rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE ac yn cyfrannu at yr economi leol drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**LWL 1.1** Cefnogi ffermio fel ei fod yn parhau i fod yn un o'r prif ddefnyddiau tir yn AHNE Ynys Môn ac yn cyfrannu at gynnal ansawdd y dirwedd a nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE.

**LWL 1.2** Sicrhau hyfywedd parhaus amaethyddiaeth a'i busnesau cysylltiedig mewn ffyrdd sy'n gwarchod a gwella rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.

**LWL 1.3** Dylanwadu ar bolisïau, cynlluniau a ffrydiau cyllido sy'n cefnogi ffermwyr a thirfeddianwyr gwledig.

**LWL 1.4** Cefnogi rheoli cadarn ac ehangu coetiroedd yn briodol yn yr AHNE ar gyfer eu gwerth masnachol a chymdeithasol.

**LWL 1.5** Cefnogi cyfleoedd i ffermwyr a thirfeddianwyr ganfod a datblygu mentrau arallgyfeirio amgylcheddol gynaliadwy sy'n gwarchod ac yn gwella rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.

**LWL 1.6** Annog a chefnogi mesurau, gan gynnwys mentrau ariannol o dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol sydd wedi'u targedu at wella'r rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.

**Amcan 2: Cymunedau Hyfyw**
Mae diwylliant lleol a gwasanaethau, cynnyrch a gweithgareddau gwledig yn cael eu cynnal, gan sicrhau cartrefi fforddiadwy i bobl leol a chefnogaeth i'r Gymraeg.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**LWL 2.1** Hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth a busnes lleol sy'n cyfrannu at gadwraeth a gwella nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE;
cefnogi cymunedau lleol yn yr AHNE a chynyddu gallu pobl i fyw a gweithio'n lleol.

**LWL 2.2** Cydnabod angen cydnabyddedig am dai fforddiadwy yn yr AHNE yn unol â pholisïau cynllunio a thai perthnasol.

**LWL 2.3** Annog a gwella'r gwaith o gadw a darparu gwasanaethau lleol yng nghymunedau'r AHNE gan leihau'r symudiad tuag at drefoli.

**Amcan 3: Cyfranogiad y Gymuned**
Mae cymunedau'r AHNE yn cael eu cynnwys drwy ymgynghori a grymuso ystyrlon i wella cyfranogiad, cynhwysiant, ffyrdd egnïol o fyw ac i ymfalchïo yn eu cymuned yn yr AHNE.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**LWL 3.1** Cefnogi a galluogi cymunedau i ddatblygu a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, mentrau sy'n cael eu harwain gan y gymuned sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth, cadwraeth, a gwella rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.

**LWL 3.2** Gweithio gydag eraill i helpu i ddatblygu a chyflawni'r agenda iechyd a lles yn yr AHNE.

**LWL 3.3** Parhau i feithrin a chynnal y capasiti gwirfoddoli, ac amrywiaeth rolau gwirfoddoli a'r amrywiaeth o gyfleoedd sy'n cyflawni dibenion yr AHNE.

**Amcan 4: Busnes**
Mae busnesau yn yr AHNE yn cyfrannu'n gadarnhaol at economi wledig iach sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl sy'n byw ar Ynys Môn.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

| |
|---|
| **Polisïau**<br><br>**LWL 4.1** Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu argaeledd a chyflymder band eang a darpariaeth y rhwydwaith ffonau symudol, i hwyluso twf busnes, annog gweithio gartref a ffyrdd hybrid o fyw, a gwella ansawdd bywyd gwledig.<br><br>**LWL 4.2** Hyrwyddo economi prosesu bwyd lleol proffidiol o ansawdd uchel fel ffordd o adfywio incymau gwledig, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith trigolion lleol, sefydliadau ac ymwelwyr am y manteision i'r dirwedd/morlun, economi a gwead cymdeithasol o ganlyniad i brynu bwydydd lleol.<br><br>**LWL 4.3** Cefnogi cyfleoedd sy'n annog busnesau lleol yn yr AHNE i ddod yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol ac yn economaidd, yn enwedig mewn ffyrdd sy'n gwarchod rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE. |

| |
|---|
| **Amcan 5: Cynaliadwyedd**<br>Mae cyfran uwch o boblogaeth breswyl yr AHNE yn mabwysiadu ffyrdd cynaliadwy o fyw.<br>*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)* |
| **Polisïau**<br><br>**LWL 5.1** Sicrhau bod y cysyniad cynaliadwyedd yn cael ei gydnabod a'i ddeall fel gofyniad sylfaenol sy'n sail i bob polisi.<br><br>**LWL 5.2** Sicrhau bod y dirwedd a rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi fel ased economaidd, gan ddarparu gwybodaeth am brosiectau ac enghreifftiau o arferion gorau.<br><br>**LWL 5.3** Hyrwyddo defnydd effeithlon a chynaliadwy o adnoddau naturiol yr AHNE er mwyn gwarchod a gwella rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.<br><br>**LWL 5.4** Hyrwyddo amcanion yr Hierarchaeth Gwastraff yn yr AHNE, sef lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu, gan sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli'n gynaliadwy. |

**Amcan 6: Trafnidiaeth**
Mae asiantaethau trafnidiaeth cenedlaethol a lleol wedi rhoi polisïau, canllawiau a phenderfyniadau ar waith i warchod a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE, cynnal nodweddion unigryw lleol, darparu gwasanaethau a chefnogi economi wledig fywiog.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**LWL 6.1** Hyrwyddo integreiddio a defnyddio systemau trafnidiaeth gyhoeddus mwy cynaliadwy fel rhan o ddull gweithredu aml-ddull yn yr AHNE.

**LWL 6.2** Annog beicio at ddibenion cymudo a hamdden drwy ddatblygu a hyrwyddo rhwydwaith di-dor a mwy diogel a thrwy archwilio cyfleoedd ar gyfer seilwaith beicio oddi ar y ffordd yn y dyfodol.

**LWL 6.3** Sicrhau bod rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE yn cael eu parchu'n llawn wrth gynllunio, dylunio, darparu a rheoli pob math o gynlluniau trafnidiaeth.

**LWL 6.4** Hyrwyddo'r AHNE fel model ar gyfer safonau dylunio uchel mewn cynlluniau priffyrdd, seilwaith a thirweddu cysylltiedig sy'n ategu rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.

DRAFT

**Amcan 7: Gweithio Mewn Partneriaeth**
Bydd JAC yn chwilio'n barhaus am gyfleoedd i hyrwyddo cydweithio gyda rhanddeiliaid a rhyngddynt er mwyn sicrhau dibenion dynodi a sicrhau'r cyllid gorau posibl.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**LWL 7.1** Meithrin trefniadau partneriaeth a gweinyddol effeithiol i arwain a chydlynu'r gwaith o reoli'r AHNE drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol (JAC).

**LWL 7.2** Rhannu gwybodaeth, arferion gorau a sgiliau mewn rheoli tirwedd warchodedig drwy'r JAC a'r rhwydwaith Tirweddau Gwarchodedig.

DRAFFT

## THEMA 5

## Rheoli'r AHNE mewn Hinsawdd sy'n newid

**Nod**
Mae partneriaid a chymunedau'r AHNE yn gweithio'n gadarnhaol i leihau allyriadau carbon, mae mentrau ynni adnewyddadwy a chynaliadwy yn cael eu dilyn, ac mae egwyddorion addasu a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cael eu mabwysiadu i warchod harddwch naturiol a chymeriad tirwedd / morwedd yr AHNE.

DRAFT

7.1.9 Mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o gael effaith sylweddol ar amgylchedd Ynys Môn. Bydd cynnydd mewn tymheredd, patrymau glaw newidiol, stormydd yn digwydd yn amlach a chodiad yn lefel môr yn effeithio ar y dirwedd, ei chynefinoedd a'i rhywogaethau. Bydd yr effeithiau hyn yn cael effaith niweidiol ar unigolion, cymunedau, busnesau, iechyd a lles.

7.1.10 Mae'r effeithiau ar gynefinoedd yn cynnwys erydiad pridd ar gorsydd o ganlyniad i fwy o law, erydiad a newid mewn cynefinoedd twyni tywod, ac erydu clogwyni a morlinau gwaddod meddal. Bydd effeithiau hefyd ar ryngddibyniaeth ac amrywiaeth rhywogaethau, ar boblogaethau rhywogaethau prin ac mewn perygl, sy'n nodweddiadol o'r ynys, ac ar gymunedau yn yr AHNE ac Ynys Môn gyfan.

| **Beth yw'r grymoedd allweddol ar gyfer newid?** | |
|---|---|
| Effeithiau cronnus allyriadau carbon | Ymgysylltu â'r cyhoedd |
| Yr angen i ymateb i hinsawdd sy'n newid – fel rheoli llifogydd ac amddiffyn yr arfordir | Polisi'r Llywodraeth |
| Mwy o alw am ddŵr ffres | Cyllid gan y llywodraeth (cynnydd a gostyngiad) |
| Diffyg ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd | |

| **Pwy yw'r partneriaid allweddol?** | |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Uned Cefn Gwlad ac AHNE |
| Sefydliadau tirwedd a bywyd gwyllt | Llywodraeth Cymru |
| Tirfeddianwyr, cymunedau | Llywodraeth y DU |

| Beth yw'r prif ddylanwadau ar bolisi? | |
|---|---|
| Cynllun Amgylchedd 25 mlynedd Llywodraeth y DU | Cynllun Tuag at Sero Net CSYM |
| Deddf Amgylchedd y DU 2021 | Adroddiad asesiad risg Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU – Cymru |
| Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Cynllun Datblygu Lleol |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru |
| Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru |
| Cynllun Cyngor CSYM | |

**Amcan 1: Deall newid yn yr hinsawdd**
Mae sefydliadau partner a chymunedau yn fwy ymwybodol o effeithiau newid yn yr hinsawdd ar harddwch naturiol ac economi'r AHNE
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**CLCH 1.1** Sicrhau bod gweledigaeth a pholisïau Rhaglen Ynys Ynni Môn yn cael eu hyrwyddo yng nghymunedau AHNE.

**CLCH 1.2** Darparu gwybodaeth a dehongliad hawdd ei ddefnyddio, a rhaglenni addysg, ar y newidiadau sy'n debygol o ddigwydd yn yr AHNE o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

DRAFT

| **Amcan 2: Gweithredu ar newid yn yr hinsawdd**<br>Mae tirfeddianwyr a chymunedau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy’n helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ar yr AHNE.<br>*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi’u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i’r Cynllun Gweithredu)* |
|---|
| **Polisïau**<br><br>CLCH 2.1 Grymuso cymunedau i archwilio ffyrdd y gallant helpu i weithredu ar newid yn yr hinsawdd.<br><br>**CLCH 2.2** Sicrhau bod tirfeddianwyr a rheolwyr tir yn deall yr arferion gorau o ran dulliau o ddal a storio carbon a rheoli tir sy’n lleihau allyriadau carbon ac yn rheoli dalgylchoedd a llif dŵr ac yn gweithredu lle bynnag y bo’n briodol.<br><br>**CLCH 2.3** Annog rheolwyr cyrchfan a gweithredwyr twristiaeth i ddatblygu dulliau twristiaeth gynaliadwy sy’n lleihau allyriadau carbon ac sy’n lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd neu sy’n addasu i’r effeithiau hynny. |

DRAFT

**THEMA:** Rheoli'r AHNE mewn hinsawdd sy'n newid

**NOD:** Mae partneriaid a chymunedau'r AHNE yn gweithio'n gadarnhaol i leihau allyriadau carbon, mae mentrau ynni adnewyddadwy a chynaliadwy yn yr arfaeth, ac mae'r egwyddorion o addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a'u lliniaru yn cael eu mabwysiadu i ddiogelu harddwch naturiol chymeriad tirwedd / morwedd yr AHNE.

| Cyf. Polisi | Amcan | Camau gweithredu i gyflawni'r amcan hwn | Arweinydd | Partneriaeth/ Cydweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **CLCH 1.1- 1.2** | **Deall newid yn yr hinsawdd**<br>Mae sefydliadau partner a chymunedau yn fwy ymwybodol o effeithiau newid yn yr hinsawdd ar harddwch naturiol ac economi'r AHNE | 1. Cydweithio â sefydliadau partner a sefydliadau academaidd i ddeall yn well oblygiadau newid yn yr hinsawdd ar yr AHNE a rhoi mesurau ar waith i liniaru ac addasu trwy (lle bo'n bosibl), atebion sy'n seiliedig ar natur<br><br>2. Yr Uned AHNE, ar y cyd â phartneriaid, i ddarparu a gweithredu rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau a gweithgareddau i ysgolion er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o newid yn yr hinsawdd | Cyngor Sir Ynys Môn<br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br>Cyngor Sir Ynys Môn | JAC<br>Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru<br>Prifysgol Bangor<br><br>Ysgolion | 2023-25<br><br>Blynyddol |
| **CLCH 2.1- 2.3** | **Gweithredu ar newid yn yr hinsawdd**<br>Mae tirfeddianwyr a chymunedau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ar yr AHNE. | 1. Gweithio gyda thirfeddianwyr, tenantiaid a rheolwyr tir i hyrwyddo arferion gorau a chanfod cyfleoedd ar gyfer dal a storio carbon, dalgylchoedd dŵr ac addasu i'r hinsawdd drwy arferion amaethyddol<br><br>2. Helpu i baratoi Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy sy'n cyd-fynd â Chynllun Rheoli Cyrchfan Cyngor Sir Ynys Môn | Undebau Ffermio<br>Uned AHNE<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Uned Twristiaeth<br>Uned AHNE | JAC<br>Tirfeddianwyr / Rheolwyr tir<br><br>DAP<br>JAC<br><br>JAC | Blynyddol<br><br>i'w gadarnhau<br><br>2022-25 |



DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 3. Hyrwyddo a gweinyddu Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy a Chronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau datgarboneiddio ac adfer byd natur | Uned AHNE Cyngor Sir Ynys Môn | Tirfeddianwyr / Rheolwyr tir | |

DRAFT

**THEMA:** Cyfoethogi Cefn Glwad Lleol a Chymeriad yr Arfordir

**NOD:** Bydd harddwch naturiol, rhinweddau arbennig a natur unigryw tirwedd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, gan gynnwys ei nodweddion naturiol, diwylliannol a hanesyddol, yn cael eu cynnal, eu cadw a'u gwella er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

| Cyf. Polisi | Amcan | Camau gweithredu i gyflawni'r amcan hwn | Arweinydd | Partneriaeth/ Cydweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **CCC 1.1- 1.4**<br><br>Tudalen 393 | **<u>Tirwedd/ Morwedd</u>**<br>Mae tirwedd a morwedd yr arfordir yn cael eu gwarchod drwy reolaeth briodol. | 1. Defnydd parhaus o Landmap wrth asesu datblygiadau newydd ac arfaethedig.<br><br>2. Rhoi hyfforddiant Landmap a GIS i swyddogion, gan gynnwys ymgyfarwyddo â thechnoleg fapio a modelu newydd sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.<br><br>3. Asesiad Cymeriad Morwedd Ynys Môn yn cael ei ddefnyddio wrth asesu datblygiadau morol newydd ac arfaethedig<br><br>4. Parhau i fod yn aelod cyfetholedig o Fwrdd GeoMôn er mwyn dylanwadu a rhoi cyngor ar gyllid, gweithio ar y cyd a chadw statws Geoparc UNESCO. | Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn | CNC<br><br>CNC<br><br>CNC<br><br>GeoMôn CNC | Parhaus<br><br>Blaenoriaethau 2023/24<br><br>Parhaus<br><br>Yn chwarterol |
| **CCC 2.1- 2.3** | **<u>Tirwedd a Diwylliant Hanesyddol</u>**<br>Mae safleoedd hanesyddol, archeolegol a diwylliannol yn cael eu gwarchod rhag datblygiad sy'n diraddio rhinweddau arbennig yr | 1. Hyrwyddo'r gwaith o reoli a gwarchod nodweddion hanesyddol ac archeolegol yr AHNE<br><br>2. Amlinellu lleoliadau hanesyddol ac archeolegol allweddol yn yr AHNE y gellir eu defnyddio at ddibenion addysg sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm ysgol newydd | GAT<br><br>GAT / Uned AHNE | Uned AHNE / Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Ysgolion CSYM | 2023-24/ Ar y gweill<br><br>2023-24 / Ar y gweill |

DRAFT

**THEMA:** Cyfoethogi Cefn Glwad Lleol a Chymeriad yr Arfordir

**NOD:** Bydd harddwch naturiol, rhinweddau arbennig a natur unigryw tirwedd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, gan gynnwys ei nodweddion naturiol, diwylliannol a hanesyddol, yn cael eu cynnal, eu cadw a'u gwella er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 394 | AHNE ac yn cael eu dehongli i gynyddu dealltwriaeth pobl o'u gwerth. | 3. Darparu hyfforddiant mewn gweithgareddau sgiliau traddodiadol a gwledig drwy Raglen Gwirfoddolwyr yr AHNE<br><br>4. Nodi negeseuon a themâu allweddol a dulliau a deunyddiau priodol ar gyfer eu dehongli<br><br>5. Datblygu prosiect i ymchwilio, catalogio, gwarchod a hyrwyddo enwau lleoedd, traethau a chilfachau, afonydd / nentydd ac enwau caeau amaethyddol Cymraeg AHNE Ynys Môn | Uned AHNE<br><br>Uned AHNE / Oriel - Archifau | Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru SPF<br><br>Menter Iaith Ysgolion | 2023-24 / Ar y gweill<br><br>2023-25 |
| **CCC 3.1- 3.5** | **<u>Datblygu</u>**<br>Mae Polisïau Cynllunio yn gwarchod rhinweddau arbennig y dirwedd, gan sicrhau bod yr holl ddatblygiadau o fewn ac wrth ymyl ffin yr AHNE yn gydnaws â nodau ac amcanion y dynodiad a bod datblygiadau newydd yn gwella cymeriad lleol. | 1. Integreiddio'r Cynllun Rheoli AHNE newydd fel polisi o fewn adrannau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn.<br><br>2. Cynhyrchu a chyhoeddi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol perthnasol ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol i gefnogi'r Cynllun Rheoli AHNE a'r Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>3. Bydd yr Uned AHNE yn derbyn yr holl geisiadau Cynllunio yn ac o fewn 2km i ffiniau'r AHNE ac yn ymateb yn unol â hynny. | Uned AHNE / Uned Polisi Cynllunio<br><br>Uned AHNE / Uned Polisi Cynllunio<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn | Cyngor Sir Ynys Môn JAC<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn JAC<br><br>Uned AHNE | 2023-24<br><br>2023-24<br><br>Wythnosol<br><br>Chwemisol |

DRAFT

**THEMA: Cyfoethogi Cefn Glwad Lleol a Chymeriad yr Arfordir**

**NOD:** Bydd harddwch naturiol, rhinweddau arbennig a natur unigryw tirwedd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, gan gynnwys ei nodweddion naturiol, diwylliannol a hanesyddol, yn cael eu cynnal, eu cadw a'u gwella er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 4. Creu arferion gweithio agosach a hyfforddiant cyfatebol rhwng yr Uned AHNE a'r Gwasanaeth Cynllunio a Pholisi.<br><br>5. Gwella a datblygu'r ddeialog gyda mudiadau Adran 85 sy'n gwneud gwaith yn yr AHNE sy'n cyd-fynd â pholisïau Cynllun Rheoli'r AHNE, gan arwain at adroddiad blynyddol gydag argymhellion. | Rheoli Datblygu<br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE | Gwasanaeth Cynllunio a Pholisi<br><br>Cyfleustodau JAC | Chwemisol |
| **CCC 4.1 – 4.3** | **<u>Heddwch a Llonyddwch</u>**<br>Mae golygfeydd a llonyddwch panoramig, awyr dywyll na ddifethwyd yn cael eu diogelu rhag datblygiad a fyddai'n diraddio rhinweddau arbennig yr AHNE. | 1. Cais i'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA) i achredu ardal yn yr AHNE fel statws awyr dywyll.<br><br>2. Hyfforddiant Cyngor Sir Ynys Môn (Swyddog ac Aelod) a JAC i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o oleuo / awyr dywyll o safbwynt amgylcheddol, economaidd, iechyd / lles a diwylliannol.<br><br>3. Cynhyrchu a chyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol yr AHNE ar oleuadau i gefnogi'r Cynllun Rheoli AHNE a'r Cynllun Datblygu Lleol. | Uned AHNE Prosiect Nos<br><br>Uned AHNE Prosiect Nos<br><br>Uned Polisi Cynllunio | Cyngor Sir Ynys Môn<br>CNC<br>Tirfeddianwyr / Cymunedau<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>JAC<br><br>Uned AHNE Prosiect Nos | 2023-24<br><br>Blynyddol<br><br>2023-24<br><br>2022-25 |



DRAFT

**THEMA:** Cyfoethogi Cefn Glwad Lleol a Chymeriad yr Arfordir

**NOD:** Bydd harddwch naturiol, rhinweddau arbennig a natur unigryw tirwedd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, gan gynnwys ei nodweddion naturiol, diwylliannol a hanesyddol, yn cael eu cynnal, eu cadw a'u gwella er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 4. Parhau i gefnogi a gweithredu ôl-osod goleuadau ystyriol o awyr dywyll y tu allan i adeiladau cyhoeddus a phreifat drwy Gronfa Tirwedd Gynaliadwy, Mannau Cynaliadwy (SLSP) Llywodraeth Cymru<br><br>5. Ymgysylltu â'r rhanddeiliaid perthnasol i leihau nifer yr achosion o weithgareddau morol swnllyd ar hyd rhai rhannau o'r arfordir | Uned AHNE Prosiect Nos<br><br>Yr Uned Forwrol | Busnesau Y cyhoedd Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn | Tymhorol |
| **CCC 5.1- 5.3** | **<u>Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem</u>**<br>Cytunir ar fodel ymysg partneriaid a rhanddeiliaid allweddol ar gyfer defnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem i reoli'r amgylchedd naturiol. | **1.** Sefydlu prosiectau ymchwil newid yn yr hinsawdd wedi'u targedu gyda phartneriaid a chyrff addysg.<br><br>**2.** Cynnal cyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid i ganfod y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan Ecosystemau ar Ynys Môn a'u Heffaith ar rinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.<br><br>**3.** Casglu'r holl ffynonellau data perthnasol a mapio a sicrhau bod hynny ar gael i bartneriaid | Uned AHNE Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Uned AHNE Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Uned AHNE Cyngor Sir Ynys Môn | Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru JAC Prifysgol Bangor Coleg Menai<br><br>JAC Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru | 2023-25<br><br>Blynyddol<br><br>Parhaus |

DRAFT

**THEMA:** Cyfoethogi Cefn Glwad Lleol a Chymeriad yr Arfordir

**NOD:** Bydd harddwch naturiol, rhinweddau arbennig a natur unigryw tirwedd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, gan gynnwys ei nodweddion naturiol, diwylliannol a hanesyddol, yn cael eu cynnal, eu cadw a'u gwella er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru JAC | |

DRAFFT

**THEMA:** Yr AHNE fel Lle i Fwynhau a Dysgu

**NOD:** Mae pobl yn deall ac yn cefnogi prif bwrpas yr AHNE. Maen nhw'n cael cyfleoedd i brofi a gwerthfawrogi'r rhinweddau a'r nodweddion arbennig mewn ffordd sensitif a chynaliadwy a chyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o'i rheoli heddiw ac i'r dyfodol

| Cyf. Polisi | Amcan | Camau gweithredu i gyflawni'r amcan hwn | Arweinydd | Partneriaeth/ Cydweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **UE 1.1- 1.3** | **<u>Twristiaeth</u>**<br>Datblygir partneriaethau sy'n sicrhau gweithgareddau hamdden gynaliadwy, yn cefnogi gwasanaethau gwledig a chyflogaeth, ac yn cyfrannu at yr economi leol. | 1. Sicrhau bod Cynllun Rheoli'r AHNE a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn cyd-fynd yn agos<br><br>2. Arferion gweithio agosach a chydweithio rhwng Cydbwyllgor Cynghori'r AHNE a Phartneriaeth Cyrchfan Ynys Môn (DAP) | Uned AHNE<br>Uned Twristiaeth<br><br>Uned AHNE | JAC<br>DAP<br><br>JAC<br>DAP | 2023-24<br><br>2023-24/<br>Ar y gweill |
| **UE 2.1- 2.2** | **<u>Hamdden</u>**<br>Mae'r AHNE yn parhau i fod yn lleoliad poblogaidd ar gyfer hamdden gynaliadwy ymysg trigolion ac ymwelwyr, ac mae'r risg o niwed i rinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE yn lleihau. | 1. Yr Uned AHNE yn gweithio gyda phartneriaid perthnasol i ddarparu rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau a gweithgareddau<br><br>2. Hyrwyddo a gweinyddu cyllid Tirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau hamdden gynaliadwy | Uned AHNE<br><br>Uned AHNE | Cyflenwyr digwyddiadau<br><br>Busnesau<br>Cyflenwyr digwyddiadau | 2022-25<br><br>2022-25 |
| **UE 3.1- 3.2** | **<u>AHNE groesawgar</u>**<br>Mae effeithiau llygredd a hamdden ar rinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE yn cael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau bod | 1. Codi ymwybyddiaeth a threialu dulliau newydd / arloesol o reoli sbwriel, baw cŵn, tipio anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig o fewn yr AHNE a'r cyffiniau<br><br>2. Gwirfoddolwyr yr AHNE yn gweithio gyda phartneriaid, ysgolion a grwpiau cymunedol i drefnu glanhau traethau a didoli'r gwastraff morol i'w ailgylchu | Rheoli Gwastraff Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Uned AHNE | JAC | Parhaus |



DRAFT

**NOD:** Mae pobl yn deall ac yn cefnogi prif bwrpas yr AHNE. Maen nhw'n cael cyfleoedd i brofi a gwerthfawrogi'r rhinweddau a'r nodweddion arbennig mewn ffordd sensitif a chynaliadwy a chyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o'i rheoli heddiw ac i'r dyfodol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | unrhyw ddigwyddiadau o fewn terfynau derbyniol. | | | | |
| **UE 4.1- 4.2**<br><br>Tudalen 399 | **Mynediad**<br>Mae'r rhwydwaith mynediad yn cael ei reoli i safon uchel, gan ddarparu cyfleoedd mynediad sy'n briodol i ddibenion y dynodiad. | 1. Adolygu a gwella arwyddion rhwng pentrefi, trefi, llwybrau eraill a hyrwyddir, safleoedd cefn gwlad, meysydd parcio a chyfleusterau i ymwelwyr yn yr AHNE<br><br>2. Gwirfoddolwyr AHNE i helpu Uned Llwybr yr Arfordir i wella'r rhwydwaith llwybrau arfordirol a'i gynnal a'i gadw<br><br>3. Adolygu, ail-fuddsoddi ac ail-leoli offer monitro data yn yr AHNE. Casglu a dadansoddi'n chwarterol a'i ddosbarthu i bartneriaid perthnasol.<br><br>4. Cynhyrchu strategaeth rhostir a chynllun gweithredu i alluogi cadwraeth a gwella rhostir yr iseldir / tir comin at ddibenion mynediad a chadwraeth. | Unedau Llwybr yr Arfordir a Hawliau Tramwy Cyhoeddus<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE | JAC<br><br>Uned Llwybr yr Arfordir<br><br>Unedau Llwybr yr Arfordir / Hawliau Tramwy Cyhoeddus JAC<br><br>Unedau Llwybr yr Arfordir / Hawliau Tramwy Cyhoeddus JAC | 2023-25<br><br>Parhaus<br><br>2023-24<br><br>2023-24 |
| **UE 5.1- 5.4** | **Dealltwriaeth a Dysgu Gydol Oes** | 1. Uned AHNE a Phartneriaid i ddarparu rhaglen flynyddol o weithgareddau a digwyddiadau addysgol | Uned AHNE | Ysgolion | Wythnosol – Misol |

DRAFT

**THEMA:** Yr AHNE fel Lle i Fwynhau a Dysgu

**NOD:** Mae pobl yn deall ac yn cefnogi prif bwrpas yr AHNE. Maen nhw'n cael cyfleoedd i brofi a gwerthfawrogi'r rhinweddau a'r nodweddion arbennig mewn ffordd sensitif a chynaliadwy a chyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o'i rheoli heddiw ac i'r dyfodol



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r gymuned gyfan yn ymwybodol o fanteision dynodiad AHNE drwy hyrwyddo rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE a'i hanghenion rheoli yn rheolaidd. | 2. Uned AHNE i barhau i gefnogi a chymryd rhan yng ngwaith Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru ar Ynys Môn<br><br>3. Codi ymwybyddiaeth o'r adnoddau addysg sydd ar gael gan yr AHNE a defnyddio Parc Gwledig Morglawdd fel canolfan ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau ysgolion sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd. | Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE | <br><br><br>Ysgolion<br>JAC | Chwemisol<br><br>Wythnosol – Misol |
| **UE 6.1** | **Dehongli a Gwybodaeth**<br>Mae ystyr nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE yn cael eu datgelu drwy ddehongliad effeithiol. | 1. Gweithio gydag Uned Twristiaeth CSYM i adolygu ac adrodd ar yr holl ddehongliad awyr agored yn yr AHNE i werthuso cyflwr, perthnasedd, lleoliad, cydymffurfiaeth ac ati (gan gynnwys technoleg ddigidol fel rhan o'r adolygiad)<br><br>2. Datblygu cynllun dehongli a gwybodaeth ar gyfer yr AHNE sy'n gysylltiedig ag argymhellion yr adolygiad uchod.<br><br>3. Paratoi rhaglen blwyddyn o ddigwyddiadau a gweithgareddau i ddathlu 60 mlynedd ers dynodi AHNE Ynys Môn (1966-2026) | Uned Twristiaeth<br>Uned AHNE<br><br>Uned Twristiaeth<br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br>Cyngor Sir Ynys Môn | DAP<br>JAC<br><br>DAP<br>JAC<br><br>JAC<br>CNC<br>LIC | 2023-25<br><br>2023-24<br><br>2025 |

DRAFT

**THEMA:** Cymunedau Bwyiog mewn Tirwedd Weithredol

**NOD:** Mae cymunedau yn yr AHNE a'r cyffiniau yn cyfrannu at gadwraeth a gwella ei rhinweddau a'i nodweddion arbennig ar yr un pryd â chynyddu eu gweithgareddau economaidd a chymdeithasol presennol yn gynaliadwy.

DRAFT

| Cyf. Polisi | Amcan | Camau gweithredu i gyflawni'r amcan hwn | Arweinydd | Partneriaeth/ Cydweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **LWL 1.1- 1.6**<br><br>Tudalen 401 | **<u>Rheoli Tir</u>**<br>Mae rheolwyr tir yn diogelu gweithgareddau defnydd tir cynaliadwy sy'n cefnogi rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE ac yn cyfrannu at yr economi leol drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau. | 1. Dylanwadu ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'i hyrwyddo (cynllun amaeth-amgylcheddol newydd Llywodraeth Cymru) | Undebau Ffermio | Uned AHNE<br>LlC<br>JAC | 2023-25 |
| | | 2. Cefnogi a hyrwyddo cadwyni cyflenwi bwyd lleol a chynhyrchwyr bwyd lleol sy'n cyd-fynd â gwarchod a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE | Undebau Ffermio | Menter Môn<br>Uned AHNE | Parhaus |
| | | 3. Datblygu cynlluniau plannu coed / coetiroedd sy'n gymesur ag argaeledd ac addasrwydd tir | Uned AHNE | JAC<br>Tirfeddianwyr / Rheolwyr tir | Blynyddol |
| | | 4. Datblygu Meithrinfa Goed CSYM i gyflenwi coed ar gyfer cynlluniau plannu [ffermdir, cymunedau a thirlunio datblygiadau masnachol] | Uned AHNE | Gwirfoddolwyr | 2023-24 |
| | | 5. Parhau â Phrosiect Afonydd Ynys Môn (Afon Wygyr) i wella ansawdd dŵr [dyfroedd afonydd ac ymdrochi] gwella mynediad i'r cyhoedd, plannu coed a chynyddu bioamrywiaeth | Uned AHNE | NWRT<br>LlC<br>Tirfeddianwyr / Rheolwyr Tir | 2022-25 |
| | | 6. Hyrwyddo a gweinyddu cyllid Tirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau datgarboneiddio ac adfer byd natur | Uned AHNE | JAC<br>Tirfeddianwyr / Rheolwyr Tir<br>LlC | 2022-25 |

**THEMA:** Cymunedau Bwyiog mewn Tirwedd Weithredol

**NOD:** Mae cymunedau yn yr AHNE a'r cyffiniau yn cyfrannu at gadwraeth a gwella ei rhinweddau a'i nodweddion arbennig ar yr un pryd â chynyddu eu gweithgareddau economaidd a chymdeithasol presennol yn gynaliadwy.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| LWL<br>2.1- 2.3 | **Cymunedau Hyfyw**<br>Mae diwylliant lleol a gwasanaethau, cynnyrch a gweithgareddau gwledig yn cael eu cynnal, gan sicrhau cartrefi fforddiadwy i bobl leol a chefnogaeth i'r Gymraeg. | 1. Gwella'r ddeialog gydag adrannau mewnol Cyngor Sir Ynys Môn sy'n berthnasol i dai fforddiadwy yn yr AHNE yn ogystal ag asiantaethau allanol<br><br>2. Cefnogi ac alinio â Chynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn<br><br>3. Hyrwyddo a chychwyn cyfleoedd gwirfoddoli drwy Grŵp Gwirfoddoli'r AHNE gyda grwpiau cymunedol perthnasol ac asiantaethau cyflogi. | Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Datblygiad Economaidd CSYM<br><br>Uned AHNE | Uned AHNE<br><br>Rheoli Cyrchfannau Cymuned Leol<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>JAC<br>DWP | 2023-24<br><br>2023-25<br><br>2023-27 |
| **LWL**<br>**3.1- 3.3** | **Cyfranogiad y Gymuned**<br>Mae cymunedau'r AHNE yn cael eu cynnwys drwy ymgynghori a grymuso ystyrlon i wella cyfranogiad, cynhwysiant, ffyrdd egnïol o fyw ac i ymfalchïo yn eu cymuned yn yr AHNE. | 1. Wardeniaid Cymunedol AHNE yr Uned AHNE i gynnal a hyrwyddo cysylltiadau â chymunedau i ddatblygu prosiectau a mentrau.<br><br>2. Wardeniaid Cymunedol AHNE yr Uned AHNE i fynd ati'n frwd i annog pobl i ymaelodi â Grŵp Gwirfoddoli'r AHNE.<br><br>3. Yr Uned AHNE i ddarparu a gweithredu rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau a gweithgareddau.<br><br>4. Yr Uned AHNE i feithrin cysylltiadau agosach ag Adrannau perthnasol CSYM, Medrwn Môn a Menter Môn i gyflawni amcanion a mentrau cymunedol allweddol. | Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE | Cymunedau<br><br>Cymunedau<br><br>JAC<br>Darparwyr digwyddiadau<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Medrwn Môn<br>Menter Môn | Wythnosol – Misol<br><br>Misol<br><br>Wythnosol – Misol<br><br>2023-24 / Ar y gweill<br><br>2022-25 |



DRAFT

**THEMA:** Cymunedau Bwyiog mewn Tirwedd Weithredol

**NOD:** Mae cymunedau yn yr AHNE a'r cyffiniau yn cyfrannu at gadwraeth a gwella ei rhinweddau a'i nodweddion arbennig ar yr un pryd â chynyddu eu gweithgareddau economaidd a chymdeithasol presennol yn gynaliadwy.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 5. Hyrwyddo a gweinyddu Tirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. | | JAC<br>Cymunedau | |
| **LWL 4.1- 4.3**<br>Tudalen 403 | **<u>Busnes</u>**<br>Mae busnesau yn yr AHNE yn cyfrannu'n gadarnhaol at economi wledig iach sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl sy'n byw ar Ynys Môn. | 1. Cydweithio â nifer o bartneriaid i alluogi arferion gweithio mwy effeithiol, effeithlon a chynaliadwy<br><br>2. Cefnogi a hyrwyddo cadwyni cyflenwi bwyd lleol a chynhyrchwyr bwyd lleol sy'n cyd-fynd â gwarchod a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE<br><br>3. Hyrwyddo Cronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru fel catalydd ar gyfer cyllido prosiectau ar y cyd | Datblygiad Economaidd CSYM<br><br>Menter Môn<br><br>Uned AHNE | Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br>Cyflenwyr<br><br>Busnesau | Parhaus<br><br>Parhaus<br><br>2022-25 |
| **LWL 5.1- 5.4** | **<u>Cynaliadwyedd</u>**<br>Mae cyfran uwch o boblogaeth breswyl yr AHNE yn mabwysiadu ffyrdd cynaliadwy o fyw. | 1. Yr Uned AHNE i barhau i fabwysiadu a gweithredu egwyddorion ac arferion gweithio cynaliadwy<br><br>2. Nodi elfennau tirlun/morlun pwysig ac archwilio'r cysylltiadau rhwng rhinweddau arbennig yr AHNE a'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem | Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE | Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>JAC<br>CNC<br>Prifysgol Bangor | Parhaus<br><br>2023-24/<br>Ar y gweill |

DRAFT

**THEMA:** Cymunedau Bwyiog mewn Tirwedd Weithredol

**NOD:** Mae cymunedau yn yr AHNE a’r cyffiniau yn cyfrannu at gadwraeth a gwella ei rhinweddau a’i nodweddion arbennig ar yr un pryd â chynyddu eu gweithgareddau economaidd a chymdeithasol presennol yn gynaliadwy.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 3. Nodi’r defnydd presennol a’r defnydd yn y dyfodol o adnoddau naturiol yr AHNE ac archwilio’r cysylltiadau â’r dull rheoli ar lefel yr ecosystem | | JAC<br>CNC<br>Prifysgol Bangor | 2023-24/<br>Ar y gweill |
| | | 4. Cefnogi egwyddorion a strategaethau Rheoli Gwastraff Llywodraeth Cymru a CSYM | Rheoli Gwastraff Cyngor Sir Ynys Môn | Uned AHNE | Parhaus |
| | | 5. Hyrwyddo Cronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru fel catalydd ar gyfer cyllido prosiectau ar y cyd | Uned AHNE | Cymunedau Busnesau | Parhaus |
| **LWL 6.1- 6.4** | **<u>Trafnidiaeth</u>**<br>Mae asiantaethau trafnidiaeth cenedlaethol a lleol wedi rhoi polisïau, canllawiau a phenderfyniadau ar waith i warchod a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE, cynnal nodweddion unigryw lleol, darparu gwasanaethau a chefnogi economi wledig fywiog. | 1. Sicrhau bod yr Uned AHNE yn cael cyfle i gyfrannu at unrhyw gynlluniau a rhaglenni trafnidiaeth | Uned Drafnidiaeth Cyngor Sir Ynys Môn | Uned AHNE | Parhaus |
| | | 2. Sicrhau bod strategaethau trafnidiaeth a hawliau tramwyo cyhoeddus yn cefnogi amcanion a pholisïau Cynllun Rheoli’r AHNE | Unedau Trafnidiaeth a Hawliau Tramwy Cyhoeddus | Uned AHNE | Parhaus |
| | | 3. Cynhyrchu a chyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol i gefnogi’r Cynllun Rheoli AHNE a’r Cynllun Datblygu Lleol. | Uned Polisi Cynllunio<br>Uned Drafnidiaeth | Uned AHNE | 2024-25 |

DRAFT

**THEMA:** Cymunedau Bwyiog mewn Tirwedd Weithredol

**NOD:** Mae cymunedau yn yr AHNE a'r cyffiniau yn cyfrannu at gadwraeth a gwella ei rhinweddau a'i nodweddion arbennig ar yr un pryd â chynyddu eu gweithgareddau economaidd a chymdeithasol presennol yn gynaliadwy.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **LWL 7.1- 7.2** | **<u>Gweithio Mewn Partneriaeth</u>**<br>Bydd JAC yn chwilio'n barhaus am gyfleoedd i hyrwyddo cydweithio gyda rhanddeiliaid a rhyngddynt er mwyn sicrhau dibenion dynodi a sicrhau'r cyllid gorau posibl. | 1. Ymestyn contractau 2 o Wardeiniaid Cymunedol yr AHNE a Swyddog Prosiect Cynorthwyol yr AHNE er mwyn gallu rhoi Cynllun Gweithredu Cynllun Rheoli'r AHNE ar waith yn effeithiol<br><br>2. Adolygu a chryfhau rôl JAC, gan gynnwys llywodraethu a hyfforddi<br><br>3. Chwilio am adnoddau newydd ac ychwanegol i weithredu Cynllun Gweithredu Cynllun Rheoli'r AHNE<br><br>4. Trefnu 4 cyfarfod JAC bob blwyddyn [ac 1 o'r rhain yn ymweliad â'r safle/prosiect].<br><br>5. Mynychu a chyfrannu at Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol Cymru (NDLWP)<br><br>6. Parhau i fod yn aelodau, cymryd rhan a chyfrannu at NAAONB ac Europarc: mynychu cyfarfodydd, seminarau, gweithdai, digwyddiadau hyfforddi a chynadleddau pan fo hynny'n briodol | Uned AHNE<br>Cyngor Sir<br>Ynys Môn<br><br>Uned AHNE<br>Cyngor Sir<br>Ynys Môn<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE | LlC<br><br>JAC<br><br>LlC<br>CNC<br><br>JAC<br><br>NDLWP<br>LlC<br>CNC<br><br>NAAONB | 2024<br><br>2023-24<br><br>Parhaus<br><br>Yn chwarterol<br><br>Yn chwarterol<br><br>Parhaus |



DRAFT

**THEMA:** Mynd i'r Afael a'r Argyfwng Byd Natur

**NOD:** Mae'r gymuned gyfan wedi derbyn pwysigrwydd gwarchod y byd naturiol a bywyd gwyllt ac mae'n cefnogi deddfwriaeth sy'n diogelu rhinweddau arbennig amgylchedd yr AHNE. Mae safleoedd bywyd gwyllt dynodedig yn cael eu rheoli'n sensitif ac yn ffurfio rhan o fatrics cynyddol gyfoethog o gefn gwlad sy'n ystyriol o fywyd gwyllt. Bydd achosion o lygredd pridd, aer a dŵr yn yr AHNE yn cael eu lleihau.

| Cyf. Polisi | Amcan | Camau gweithredu i gyflawni'r amcan hwn | Arweinydd | Partneriaeth/ Cydweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **NE 1.1- 1.5**<br>Tudalen 406 | **<u>Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau</u>**<br>Mae'r arfordir a chefn gwlad yn cael eu rheoli'n sensitif i gynnal amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau mewn cyflwr ffafriol ac i wella cysylltedd rhwng safleoedd. | 1. Yr Uned AHNE i gynorthwyo a chyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer Ynys Môn a chamau gweithredu yng Nghynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol CSYM | PBNE | LNP<br>Uned AHNE | Parhaus |
| | | 2. Bydd yr Uned AHNE yn cydweithio'n agosach ag Uned Cynllunio, Adeiladu a'r Amgylchedd Naturiol Cyngor Sir Ynys Môn i rannu adnoddau, cyfnewid gwybodaeth a pharatoi ceisiadau am gyllid ar y cyd. | Uned AHNE | PBNE | Parhaus |
| | | 3. Yr Uned AHNE yn cydweithio â Phartneriaid i arwain a gweinyddu rhaglenni cyllid Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar weundir, dolydd blodau gwyllt, lleiniau ymyl ffordd / cadwraeth a rheoli cylchfannau. | Uned AHNE | Cyngor Sir Ynys Môn<br>JAC<br>Tirfeddianwyr / Rheolwyr tir<br>Cynghorau Cymuned | 2022-25 |
| | | 4. Yr Uned AHNE i arwain a chydlynu Partneriaeth Jac y Neidiwr a'i hehangu i Bartneriaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol [INNS] | Uned AHNE | JAC<br>CNC | Chwemisol |
| | | 5. Drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, cytuno ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Cofnod | | PBNE<br>Rheoli Datblygu | 2023-25 |

DRAFT

**THEMA:** Mynd i'r Afael a'r Argyfwng Byd Natur

**NOD:** Mae'r gymuned gyfan wedi derbyn pwysigrwydd gwarchod y byd naturiol a bywyd gwyllt ac mae'n cefnogi deddfwriaeth sy'n diogelu rhinweddau arbennig amgylchedd yr AHNE. Mae safleoedd bywyd gwyllt dynodedig yn cael eu rheoli'n sensitif ac yn ffurfio rhan o fatrics cynyddol gyfoethog o gefn gwlad sy'n ystyriol o fywyd gwyllt. Bydd achosion o lygredd pridd, aer a dŵr yn yr AHNE yn cael eu lleihau.



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Uned AHNE | Cyngor Sir Ynys Môn | |
| **NE 2.1- 2.3** | **<u>Pridd, Aer a Dŵr</u>**<br>Mae ansawdd y pridd, yr aer a'r dŵr – dŵr croyw | 1. Casglu data perthnasol y gellir ei ymgorffori a'i ddiweddaru yn Adroddiad Cyflwr yr AHNE a helpu i bennu'r gwerthoedd sy'n gysylltiedig â'r dull rheol ar lefel yr ecosystem | Cyngor Sir Ynys Môn | CNC<br>LlC | Blynyddol |

DRAFFT

**THEMA:** Mynd i'r Afael a'r Argyfwng Byd Natur

**NOD:** Mae'r gymuned gyfan wedi derbyn pwysigrwydd gwarchod y byd naturiol a bywyd gwyllt ac mae'n cefnogi deddfwriaeth sy'n diogelu rhinweddau arbennig amgylchedd yr AHNE. Mae safleoedd bywyd gwyllt dynodedig yn cael eu rheoli'n sensitif ac yn ffurfio rhan o fatrics cynyddol gyfoethog o gefn gwlad sy'n ystyriol o fywyd gwyllt. Bydd achosion o lygredd pridd, aer a dŵr yn yr AHNE yn cael eu lleihau.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | a dŵr môr – yn cael ei fonitro'n rheolaidd i gynnal safonau sy'n rhagori ar safonau'r DU ac Ewrop. | 2. Cefnogi gwaith CSYM ac asiantaethau i fonitro ac adrodd ar ansawdd pridd, aer a dŵr<br><br>3. Gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Undebau Ffermio i gasglu data perthnasol a deall y cysylltiadau â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn well | Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn | CNC<br>LIC<br>Dŵr Cymru<br><br>Undebau Ffermio | Blynyddol<br><br>2022-25 |
| **NE 3.1- 3.3** | **Ardaloedd Dynodedig a Safleoedd Pwysig Eraill**<br>Mae safleoedd bywyd gwyllt statudol ac anstatudol yn cael eu rheoli am eu gwerth o ran bioamrywiaeth, estheteg ac amwynder. | 1. Gweithio gyda JAC a phartneriaid i ganfod meysydd addas ar gyfer cydweithio, ceisiadau am gyllid ar y cyd a chyfleoedd gwirfoddoli | LNP | Uned AHNE<br>JAC | 2023-24 /<br>Ar y gweill |



DRAFT

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 18fed Gorffennaf 2023 |
| **Pwnc / Testun:** | Cynllun Rheoli Cyrchfan 2023-2028 |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | Cyng. Neville Evans (Hamdden, Twristiaeth a Morwrol) |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | Andy Godber<br>Rheolwr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol<br><br>andygodber@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i holl Aelodau Etholedig |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd (2023-2028).**

Mae'r Cynllun yn nodi uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer rheoli cyrchfan dros y 5 mlynedd nesaf ac yn ystyried strategaethau lleol a chenedlaethol.

Mae'r Cynllun **(Atodiad A)** yn nodi egwyddorion a chamau gweithredu a fydd yn arwain at fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, a bydd yn sicrhau bod rhinweddau a chymunedau arbennig yr Ynys wrth wraidd y cynnig twristiaeth, ac na fyddent yn cael ei effeithio'n andwyol o ganlyniad.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'r Cynllun newydd yn disodli'r fersiwn flaenorol a oedd yn rhychwantu'r cyfnod 2015-2020.  Cafodd y cynllun paratoadol ei ohirio gan, ac mae'n ystyried effeithiau'r pandemig Covid 19.

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Nid yw'n gynllun statudol, fodd bynnag mae fersiynau blaenorol wedi cael cymeradwyaeth lawn gan y cyngor.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'r Cynllun yn cyd-fynd yn llawn â Chynllun newydd y Cyngor ac mae ganddo'r egwyddor gyffredinol allweddol o gyflawni datblygu cynaliadwy wrth ei wraidd. Yn ogystal, bydd yn sicrhau erbyn 2028 ein bod wedi:<br>▪ manteisio ar fuddsoddiad ychwanegol er budd yr economi leol<br>▪ tyfu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr mewn modd parchus a chynaliadwy i sicrhau buddion i'n cymunedau a'n hymwelwyr<br><br>Mae'r economi ymwelwyr yn hanfodol i sefyllfa economaidd gynaliadwy Ynys Môn, ac mae'r Cynllun yn amlygu ymrwymiad y Cyngor i wella hyn ymhellach. Fodd bynnag, mae wedi dod yn fwyfwy amlwg dros y 3 blynedd diwethaf y gall twristiaeth nas wiriwyd - effeithio'n andwyol ar fywydau pobl a'r rhinweddau unigryw sy'n gwneud yr ynys mor gyfystyr a gyrru'r mwyafrif helaeth o weithgareddau i dwristiaid.<br><br>Bydd y Cynllun hwn yn unioni'r anghydbwysedd hwn ac yn sicrhau trwy ddull partneriaeth ddiwygiedig o weithio ar y cyd bod y buddion o gynnig bywiog ac amrywiol yn gallu gwella rhinweddau allweddol iaith, diwylliant, yr amgylchedd a threftadaeth.<br><br>Mae ymgyrch i wella seilwaith megis parcio ceir, toiledau a darpariaeth mynediad yn rhan allweddol o'r strategaeth, a thrwy sicrhau bod y sylfeini hanfodol hyn ar waith, bydd gennym fwy o gyfleoedd i ryddhau'r potensial o well cynigion twristiaeth gynaliadwy a fydd yn dod â buddion economaidd, cymdeithasol, iechyd a lles i ymwelwyr a phobl Ynys Môn.<br><br>Roedd y Cynllun drafft yn destun proses ymgynghori gyhoeddus 6 wythnos. Amlinellir crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd, a'r newidiadau dilynol i'r Cynllun terfynol, yn yr Adroddiad Ymgynghori **(Atodiad B).** |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Mae cyllid yn bodoli o fewn cyllidebau presennol y Swyddogaeth Gyrchfan i baratoi a gweithredu'r Cynllun. Bydd cyfleoedd cyllido allanol hefyd yn cael eu harchwilio i i wneud y mwyaf o gyflawni ac effaith y Cynllun rhwng 2023 a 2028. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae Twristiaeth yn parhau'n sector economaidd mwyaf yr Ynys. Nod y Cynllun yw gwneud y mwyaf posib o'r buddion, a lliniaru effeithiau, er mwyn |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwireddu buddion economaidd-gymdeithasol ystyrlon i Ynys Môn. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Nod y Cynllun yw buddsoddi mewn seilwaith twristiaeth i wella ansawdd, cryfhau gwytnwch a lleihau'r baich ariannol ar y Cyngor o seilwaith sydd angen buddsoddiad.<br><br>Mae'n Gynllun cydlynol i nodi a blaenoriaethu gweithgareddau i'r dyfodol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae cydweithio mewnol ac allanol wedi bod yn rhan annatod o ddatblygiad y Cynllun, gan gynnwys sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Roedd y broses ymgynghori ffurfiol yn cynnig cyfle i ddinasyddion gyfrannu tuag at y Cynllun terfynol a'i weithgareddau blaenoriaeth. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Nod y Cynllun yw darparu cynnig sydd â buddion i bob cymdeithas. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Nod y Cynllun yw gwella lles economaidd pobl Ynys Môn, a sicrhau cyfleoedd cyflogaeth newydd o dwristiaeth gynaliadwy. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae dathlu iaith a diwylliant Cymraeg yr Ynys yn rhan allweddol o'r Cynllun. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| | (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| **Atodiad A: Cynllun Rheoli Cyrchfan (2023 - 2028)**<br>**Atodiad B: Adroddiad Crynodeb o'r Ymgynghoriad** |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| **Cym Destination Scrutiny June 2023 13-6-23** |

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales

Tudalen 413

# Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn 2023 -2028

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. Ymwelwch a www.ynysmon.llyw.cymru am gopi digidol
This document is available in English. Visit www.Anglesey.gov.wales for digital copy




| Tudalen | Cynnwys |
|---|---|
| 3 | Gosod y cyd-destun |
| 5 | Gweledigaeth ar gyfer Ynys Môn 2023-2028 |
| 6 | Beth yw Rheoli Cyrchfan? |
| 7 | Pam Rheoli Cyrchfan? |
| 9 | Dull strategol |
| 11 | Cynllun Corforeithol |
| 14 | Effaith economi ymwelwyr Ynys Môn |
| 15 | Yr heriau a'r cyfleoedd i economi ymwelwyr Ynys Môn |
| 16 | Egwyddorion a Blaenoriaethau ar gyfer 2023-2028 |
| 17 | Cynllun gweithredu lefel uchel |
| 22 | Camau nesaf |

# Gosod y cyd-destun

Mae'r Cyrchfan ac economi ymwelwyr yn hanfodol i ffyniant a'r cynnig unigryw sydd gan Ynys Môn.

Rydym wedi ein bendithio ag amgylchedd amrywiol sy'n cyd-fynd â chwmpas amrywiol y cynigion i dwristiaeth a phrofiadau ymwelwyr.
Ynys Môn yw'r sir sy'n dibynnu fwyaf ar y diwydiant hwn yn y DU, gan gynhyrchu mwy na £360m y flwyddyn yn yr economi leol, ac yn gymorth uniongyrchol i ~3,698 o swyddi. Felly, mae'n hynod o bwysig bod y cynllun hwn yn cynorthwyo a darparu buddion ystyrlon i bobl a chymunedau sydd mor ddibynnol ar y sector hwn.

Fodd bynnag, mae yna fregusrwydd sylfaenol i economi Ynys Môn, wedi'i nodweddu gan lefelau uchel o ymfudo ymysg pobl ifanc, yn ogystal â diweithdra ag amddifadedd cymdeithasol. Un o'r prif anawsterau sy'n wynebu economïau ymylol fel Ynys Môn yw'r gallu i greu gwaith newydd. Twristiaeth yw un o'r sectorau sy'n gallu, ac wedi, cyfrannu at ffyniant lleol ac ansawdd bywyd ar Ynys Môn.

Mae'r bregusrwydd hwn yn cael ei adlewyrchu yn yr amgylchedd naturiol, gyda chynefinoedd a rhywogaethau'n dod yn fwy toredig a dan hyd yn oed fwy o fygythiad. Gall twristiaeth chwarae rhan arwyddocaol yn amlygu pwysigrwydd amgylchedd naturiol Ynys Môn, ac felly'n cynorthwyo'r 'argyfwng byd natur' yn ogystal â dod a buddion iechyd a llesiant.

Fodd bynnag, gall economi ymwelwyr gael effaith negyddol hefyd. Gall y cynnydd parhaus yn nifer yr ymwelwyr greu pwysau nad oes croeso iddo ar y gymuned leol.

O ganlyniad, ni ellir gadael i dwristiaeth dyfu heb ei reoli; mae'n rhaid iddo gael ei reoli mewn modd cynaliadwy, i wneud y gorau o'r buddion ffyniant hirdymor a lliniaru effaith negyddol posibl.

Drwy ddull cydweithredol, mae gan Ynys Môn y cyfle i weithredu nawr drwy weithredoedd a chynllunio ymlaen llaw clir. Mae angen cyfoethogi'r cynnig presennol drwy sicrhau bod yna anghenion sylfaenol megis seilwaith priffyrdd, mynediad cyhoeddus gwell, cyfleusterau cyhoeddus a darpariaeth gwybodaeth yn addas, a gwydn rhag pwysau megis newid hinsawdd.

Wrth sicrhau'r angen sylfaenol hwn, mae gennym gyfle i gynigion presennol gael eu cryfhau, gan deimlo'n ddiogel o wybod bod y profiad yn cael ei gyfoethogi ymhellach gan groeso Ynys Môn sydd eisoes yn gonglfaen i'r cynnig ymwelwyr.

O'r safle hwn sydd wedi ei gryfhau bydd cyfleoedd newydd yn codi, ac ar y cyd â phartneriaid a chymunedau, gallwn ddatblygu'r cynnig yn seiliedig ar briodweddau unigryw Ynys Môn mewn modd cynaliadwy.

# Ar gyfer pwy mae'r cynllun?

Tudalen 416

68,900
Trigolion

50Km
Arfordir
Treftadaeth



32
SSSI's
Safleoedd o Ddiddordeb
Gwyddonol Arbennig



221 KM Sgwâr
Maint ein
AHNE

3,698
Gweithwyr
mewn twristiaeth

5.2 miliwn
ymwelwyr



1
UNESCO
Geoparc byd-eang



75
Henebion
Rhestredig



.
Phorthladd
mordeithio prysuraf
Cymru

35,843
Gwelyau



125 Milltir
Llwybr yr Arfordir

55.8%
Siarad Cymraeg

# Gweledigaeth ar gyfer Ynys Môn 2023-2028

Mae Ynys Môn yn lle arbennig o unigryw, gyda hanes, diwylliant a threftadaeth doreithiog, ynghyd â thirweddau sydd heb eu difetha ac ag amrywiaeth ecolegol.

Rydym yn awyddus i gael economi ymwelwyr sy'n empathetig i ymdeimlad o le'r Ynys, ac sydd o fudd i'r bobl, yr amgylchedd, y diwylliant, y dreftadaeth a'r iaith, ac sy'n parhau i chwarae rhan hanfodol yn sefydlogrwydd economaidd yr ynys.

Mae'r cynllun hwn yn awyddus i gyfoethogi'r ysbryd o gydweithio a ffordd holistig o feddwl i ddatblygu cynnig sy'n gwella'r gwerthoedd allweddol hyn, a darparu buddion economaidd a chymdeithasol i'r cymunedau lleol.





# Beth yw Rheoli Cyrchfan?



Mae rheoli cyrchfan yn ymwneud â 'rheoli'r cyrchfan ar ei ffurf ehangaf er budd pawb'.

- Mae hwn yn gysyniad seiliedig ar le, sy'n ymwneud â'r holl amgylchedd lle mae ymwelwyr, pobl leol a thwristiaeth yn rhwydweithio.
- Mae'n canolbwyntio ar yr elfennau sy'n denu ymwelwyr, yn ogystal â'r seilwaith a'r gwasanaethau sy'n cynorthwyo eu hymweliad. Mae'r term 'ymwelwyr' yn berthnasol i'r rhai sy'n treulio'u gwyliau yn yr ardal fel twristiaid, ond mae hefyd yn cynnwys pobl leol sy'n ymweld â'r ardal am ddiwrnod neu lai.
- Nid yw rheoli cyrchfan felly'n cynnwys twristiaid yn unig, ond effaith ehangach pobl, yn cynnwys pobl leol ac ymwelwyr cyfagos, sy'n defnyddio gwasanaethau, seilwaith ac yn mwynhau asedau lleol. Mae'n ymestyn i bob agwedd o'r economi ac yn gofyn am gydweithio i'w gynnal yn effeithiol a chynaliadwy.
- Mae'n ymwneud â rheoli gweithredol, ariannol a ffisegol cyrchfan, yn ogystal â'i gynllunio, datblygu a marchnata.



# Pam Rheoli Cyrchfan?

Mae yna sawl ffactor yn ysgogi'r angen i ddiweddaru cynllun rheoli cyrchfan Ynys Môn i'w wneud yn barod i weithio gyda heriau a chyfleoedd 2023 a thu hwnt.

Mae'r economi ymwelwyr, a'r cyd-destun gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol ehangach yn wahanol iawn i'r hyn oedd yn 2015 pan gafodd y cynllun diwethaf ei ddrafftio.

Mae'r newidiadau hyn, ymysg eraill, yn cael eu dangos yn y graffig gyferbyn ac yn egluro'r angen am gynllun wedi ei ddiweddaru a model darparu.





Tudalen 420

**Cyd-destun y Polisi**

Mae angen y Cynllun Rheoli Dynodiad hwn i gydnabod y cyd-destun newid polisi ers y Cynllun Rheoli diwethaf yn 2016, yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

- Bolisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol (sy'n cael eu harchwilio ar y dudalen nesaf)
- Llai o gapasiti ar gyfer cymorth / darpariaeth gan Awdurdod Lleol
- Diogelu'r iaith Gymraeg
- Arian a Buddsoddiad Ffyniant Bro yng Nghaergybi
- Polisïau a threthi ail gartrefi

**Economi ymwelwyr**

Mae'r economi ymwelwyr wedi newid ers Cynllun Reoli Dynodiad 2016-2020. Bydd yn rhaid i'r strategaeth hon ymateb i:

- Newid yn y proffil ymwelwyr: ymwelwyr dydd yn erbyn ymwelwyr sy'n aros dros nos
- Cynnydd mewn perchnogi ail gartrefi
- Twf mewn gosod eiddo tymor byr (Airbnb a VrBo)
- Trawsnewid digidol



**Cynaliadwyedd a sero net**

Mae risg ffisegol newid hinsawdd, ynghyd â phwysau cynyddol nifer yr ymwelwyr ar yr amgylchedd yn ysgogi'r angen i fabwysiadu arferion mwy amgylcheddol cynaliadwy a'r trawsnewid i sero net. Adlewyrchir hyn yn y canlynol:

- Cynllun CSYM Tuag at Sero Net 2022-2025
- Cynllun Bioamrywiaeth
- Yr angen am wytnwch a rheoli adnoddau naturiol

**Cyd-destun economaidd**

Roedd pandemig Civid-19 yn amlygu'r angen i ymgorffori gwytnwch i reoli cyrchfan, gyda'r angen i fynd i'r afael â:

- Seilwaith a chapasiti: sut i gael y pethau sylfaenol yn gywir, sicrhau buddion ac osgoi unrhyw darfu ar bobl leol wrth ddarparu profiad ymwelwyr o ansawdd
- Bylchau mewn sgiliau a chyflogaeth yn y sector

# Dull strategol

Nod y Cynllun Rheoli Cyrchfan hwn yw ystyried a chynorthwyo'r amcanon strategol ehangach a nodir yn y polisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn y diagram gyferbyn. Mae cynlluniau a pholisïau allweddol wedi eu nodi â seren ac yn cynnwys:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, 2015

Agwedd allweddol o gynnig ymwelwyr Ynys Môn yw amlygu'r diwylliant a'r iaith ffyniannus yng Nghymru, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â dyheadau'r Ddeddf hon.

Croeso i Gymru: Mae blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr, 2020-2025



yn annog y sector i gyfuno ffocws lleol yn gyntaf yn dathlu diwylliant, sgiliau a busnesau cartref a chymunedau (Bro) gyda lefelau rhyngwladol o ansawdd ac uchelgeisiau (Byd). Mae hyn, ynghyd â blaenoriaethau allweddol Croeso Cymru yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn.

Cynllun Corfforaethol CSYM (2023-2028)

Mae twristiaeth yn rhan allweddol o Ynys Môn, felly mae angen i bolisïau a chynlluniau'r Ynys gynorthwy'r seilwaith twristiaeth a busnesau presennol yn ogystal â hyrwyddo'r cyfleoedd i ddatblygu yn y dyfodol. Yn yr un modd, bydd angen i'r cynllun hwn alinio'n agos â'r nodau mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ceisio eu cyflawni ar gyfer y gymuned leol.

Ar adeg paratoi'r cynllun hwn, nid oes eglurder ar weithredu'r ardoll dwristiaeth na chynllun cofrestru statudol. Os yw'n berthnasol, bydd y cynllun hwn yn cynorthwyo ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru i weithredu'r cynllun yn llwyddiannus.

**Deddfwriaeth**

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Cenedlaethol**

- Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr 2020-2025
- Strategaeth Digwyddiadau Cenedlaethol ar gyfer Cymru 2022 i 2030
- Y Genhadaeth Ail-adeiladu a Gwytnwch Economaidd
- *Ardoll Dwristiaeth a Chofrestru Statudol (i'w gadarnhau)*

**Lleol**

## CYNLLUNIAU CYNGOR SIR YNYS MÔN

- Cynllun Rheoli Cyrchfan 2023-2028
- Cynllun Y Cyngor
- Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025
- Cynllun Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) 2023- 2028
- Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn (CAEGYM)
- Cynllun Bioamrywiaeth (2021-2022)
- Cynllun Gweithredol Rheoli Ymwelwyr 2022
- Rhaglen Ynys Ynni Môn
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng CSYM a Grŵp Llandrillo Menai

Mae'r graffig yn dangos enghreifftiau o bolisïau, cynlluniau a deddfwriaeth berthnasol i'r Cynllun Rheoli Cyrchfan - nid yw'n rhestr gynhwysfawr

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol a fydd yn bwynt canolog i benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar bob lefel; bydd yn darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Yn ei hanfod mae a wnelo'r cynllun â'n dymuniad i weithio gyda thrigolion Ynys Môn, cymunedau a phartneriaid a sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaethau gorau posib, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r meysydd allweddol y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio arnynt.

### Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:

'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.'

Tudalen 423

## Ein chwe amcan strategol

**Yr Iaith Gymraeg**

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

**Gofal Cymdeithasol a Llesiant**

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir.

**Addysg**

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

**Tai**

Sicrhau fod gan pawb yr hawl i alw rhywle yn gartref.

**Economi**

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

**Newid Hinsawdd**

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael a newid gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

[Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)]

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn seiliedig ar werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.



[Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)](#)

## Gwerthoedd

### Parch
Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

### Cydweithio
Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.


### Gonestrwydd
Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

### Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys
Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Ynys.

# Cylch Strategol

Mae’r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd mewn lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau ac amcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni’r amcanion strategol a’r gweledigaeth.




[Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)]

# Effaith economi ymwelwyr Ynys Môn

Tudalen 426


## Effaith economaidd yn 2021:

effaith economaidd £342.87 miliwn

3,698 o weithwyr llawn amser (sectorau'n ymwneud â thwristiaeth)

Gwelwyd cynnydd o 46.7% yn yr effaith economaidd yn 2021 o gymharu â 2010

Mae 90% o effaith economaidd yn dod o 53% o ymwelwyr (y rhai sy'n aros dros nos). Mae ymwelwyr sy'n aros yn cyfrannu llawer mwy y pen yn nhermau effaith economaidd




## Niferoedd yr ymwelwyr yn 2021:

1.48 miliwn o ymwelwyr, 91% o lefel cyn 2020

5.28 miliwn dyddiau ymwelwyr

Mae 15% o ymwelwyr y flwyddyn (dros 250,000) yn ymweld ym

## Ffigyrau llety yn 2021:

0.76 miliwn o ymwelwyr (cyfanswm o 50%) yn aros mewn llety wedi'i dalu amdanoMae 97% o ymwelwyr gyda llety mewn llety heb wasanaeth

1,067 ıestr osod tymor (AirBnB aVrBo) byr

Cynnydd o 53% mewn rhestriadau ers 2017*

*Ffynhonnell: Sefydliad Bevan
Pob ffigwr arall o ddata STEAM 2021

# Yr heriau a'r cyfleoedd i economi ymwelwyr Ynys Môn

Mae'r cynllun hwn yn ystyried yr heriau sy'n wynebu economi ymwelwyr Ynys Môn, yn ogystal â'r cyfleoedd cydweithio, arloesi a thwf cynaliadwy.

**HERIAU:**

- Mae'r **cyllid sydd ar gael** i'r awdurdod lleol wedi gostwng yn sylweddol rhwng cyfnod y Cynllun Rheoli Cyrchfan diwethaf, yn enwedig i ddigwyddiadau anstatudol (megis twristiaeth) ac mae'r proffil cyllido'n aml yn dymor byr, sy'n cyfyngu'r gallu am newid strategol
- Gordwristiaeth a chyfyngiadau **capasiti**
- **Cynhwysiant** - gall y newid i dechnolegau **digidol** eithrio peth demograffeg. Dylid ystyried proffil oed ac iaith
- **Breguster amgylcheddol –** mae newid hinsawdd a datblygiad yn bygwth cynefinoedd a rhywogaethau lleol yn gynyddol.
- **Canfyddiadau** o dwristiaeth - ychydig o gydnabyddiaeth sydd i gyfraniad twristiaeth i'r Ynys ymysg y gymuned ehangach; fel cyflogwr allweddol, eginwr entrepreneuriaid a chyfrannwr i gyflogaeth ehangach mewn manwerthu, cyllid, telegyfathrebu a Phorthladd Caergybi.
- **Proffil** ymwelwyr - roedd gostyngiad mwy mewn ymwelwyr oedd yn aros o'i gymharu ag ymwelwyr dydd yn 2021 o'i gymharu â 2019*. Roedd yna 47% o ymwelwyr dydd yn 2021, er gwaetha'r ffaith mai dim ond 10% o'r gwariant ydyw (mae'n cyfrannu at yr heriau ynghylch capasiti a seilwaith)
- Perchnogion**Ail gartrefi ac Airbnb** yn cynyddu
- Diffyg **sgiliau** mewn sectorau

Tudalen 427

**CYFLEOEDD:**

- Mae 'darganfyddwch beth sydd ar garreg eich drws' a 'meddyliwch yn fyd-eang, **gweithredwch yn lleol**' wedi cael ei annog ymysg defnyddwyr ers tro, fodd bynnag, yn ystod pandemig covid-19 fe ddaeth hyn yn gysyniad mwy pendant
- **Dod yn gyrchfan gynaliadwy** – mae cwmpasu cynaladwyedd yn gyfle i Ynys Môn ddatblygu ei brand ymhellach, er enghraifft drwy hyrwyddo teithio mwy actif a chynaliadwy, cwmpasu'r diffyg adeiladau ffyrdd a dod y "ynys werdd"
- Mae'r economi ymwelwyr yn dod â niferoedd o **fuddion i'r gymuned leol**, ond mae yna gyfle i'r rhain gael eu datblygu ymhellach a'u cyfleu'n well.
- Mae **diwylliant, treftadaeth, a natur unigryw** yn cael ei danwerthu (hanes, yr iaith Gymraeg, Geo Park UNESCO, AHNE). Cyfle i wella ymwybyddiaeth o le drwy arwyddion a dathlu hunaniaeth leol a brand.
- **Twristiaeth Awyr Dywyll** Cynorthwyo a hyrwyddo buddion awyr dywyll ymhellach
- Trawsnewid **Digidol** a marchnata
- Strategaeth **Twristiaeth Bwyd**
- **Cynnydd mewn chwaraeon antur** a thwristiaeth llesiant
- **Cyfranogiad ysgol ac addysg** – cynyddu ymgysylltiad plant yn dysgu am eu lle
- **Cryfder a pherfformiad** y sector twristiaeth ar Ynys Môn: yn hanesyddol mae wedi perfformio'n well na chyfartaledd Cymru a Gogledd Cymru (dros y cyfnod 2006-2017)
- **Llwybr Arfordir Cymru** Buddsoddi yn y seilwaith, marchnata a datblygu llwybr yr arfordir

# Egwyddorion a Blaenoriaethau ar gyfer 2023-2028

**1. Dathlu a gwarchod ein diwylliant, iaith a treftadaeth**

- Economi ymwelwyr lle mae'r cymunedau lleol yn teimlo perchnogaeth a'r grymuster i ysgogi ac adfywio'r model twristiaeth.
- Economi ymwelwyr sy'n ymgorffori a defnyddio cryfderau presennol ein hiaith a'n diwylliant yn gynaliadwy ac yn dod â'n treftadaeth i gynulleidfa ehangach.
- Economi ymwelwyr lle mae'r diwylliant yn cael ei ymgorffori, ac wrth wraidd pob gweithgaredd a chynnyrch hyrwyddo

**2. Gwella ein profiadau ymwelwyr o safon a chynaliadwyedd economaidd**

- Economi ymwelwyr all ddatblygu'n gynaliadwy o amgylch cynnig o ansawdd uchel lle mae ymwelwyr yn gwerthfawrogi a pharchu diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd Ynys Môn
- Economi ymwelwyr seiliedig ar weithgareddau a phrofiadau sy'n manteisio ar ddiwylliant, treftadaeth ac amgylchedd ond heb ei ddiraddio.
- Economi ymwelwyr lle mae seilwaith ymwelwyr o ansawdd a hawl i ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd hamdden cyfoethocach ac o ganlyniad, iechyd a llesiant gwell.

**3. Cynnal a pharchu ein hamgylchedd a gweithredu i liniaru effeithiau newid hinsawdd**

- Economi ymwelwyr lle mae'r amgylchedd naturiol yn cael ei ddeall a gwelliannau i gyfalaf naturiol yn dod â buddion yn nhermau llesiant i bawb.
- Economi ymwelwyr lle mae gweithgareddau mewn cytgord â'r amgylchedd naturiol, ac yn cyfoethogi'r cynnig a'r tir a môr lle maent yn cael eu cynnal.
- Economi ymwelwyr sy'n fwy 'parod ar gyfer newid hinsawdd' ac yn gynyddol garbon niwtral.
- Economi ymwelwyr lle mae defnyddwyr wedi eu grymuso i gyfrannu'n uniongyrchol i fynd i'r afael ag argyfwng hinsawdd a byd natur.

**4. Sicrhau bod yr economi ymwelwyr yn darparu buddion cymdeithasol, economaidd a lles i'n cymunedau**

- Economi ymwelwyr lle mae ei seilwaith ac adnoddau'n cael eu cyfoethogi er budd y cymunedau lleol, ac sy'n addasu i liniaru effeithiau newid hinsawdd.
- Economi ymwelwyr lle mae pobl leol yn cael cyfleoedd i fod wrth wraidd y cynnig, gan fanteisio ar swyddi sgiliau newydd a chadwyni cyflenwi lleol.
- Economi ymwelwyr gyda chynaladwyedd yn greiddiol sy'n gallu datblygu mewn gwerth economaidd a chymdeithasol a darparu cyfleoedd iechyd a llesiant i bawb.

# Cynllun Gweithredu Lefel Uchel



# Dathlu a gwarchod ein diwylliant, iaith a treftadaeth

Tudalen 430

## Pam mae hyn yn bwysig?

Nid oes dim yn ymgorffori'r ysbryd o le yn fwy na'i bobl, ei iaith a'i ddiwylliant.

Mae diwylliant a threftadaeth unigryw Ynys Môn yn allweddol i'w synnwyr o le, gan ei wneud yn gyrchfan gofiadwy. Hyn, ynghyd â'n hamgylchedd naturiol, yw sylfaen y cynnig ymwelwyr. Mae yna gyfle i gyfleu a dathlu hyn ymhellach.

## Beth ydym am ei wneud?

- Byddwn yn darparu'r cynllun rheoli cyrchfan hwn mewn cydweithrediad agos â rhanddeiliaid cymunedol lleol i sicrhau eu bod yn teimlo wedi eu grymuso i ysgogi model twristiaeth adfywiol.
- Byddwn yn ymgorffori cryfderau presennol ein hiaith a'n diwylliant yn gynaliadwy ac yn dod â'n treftadaeth i gynulleidfa ehangach.
- Byddwn yn datblygu economi ymwelwyr lle mae'r diwylliant yn cael ei ymgorffori, ac wrth wraidd pob gweithgaredd a chynnyrch hyrwyddo.
- O wneud hynny, ein nod yw creu cyrchfan sy'n unigryw a dilys i'w fwynhau gan bobl Ynys Môn a chenedlaethau'r dyfodol.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'n treftadaeth ddiwylliannol unigryw ar draws yr holl elfennau o'r cynnig ymwelwyr, gan sicrhau cynhwysiant a'r diwylliant.
- Byddwn yn ymgorffori a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'n treftadaeth ddiwylliannol unigryw ar draws holl elfennau'r cynnig ymwelwyr, gan sicrhau bod cynhwysiant a diwylliant rhan greiddiol.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu'r buddsoddiad yn y Strategaeth Bwyd Môn, Llwybr Arfordir Cymru, twristiaeth Awyr Dywyll, chwaraeon antur a thwristiaeth llesiant a'u dathlu. Byddwn yn rheoli'r rhain gan ganolbwyntio ar dreftadaeth leol a chynaladwyedd.

# Gwella ein profiadau ymwelwyr o safon a chynaliadwyedd economaidd

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae seilwaith ymwelwyr cynaliadwy drwy gydol y flwyddyn yn sicrhau bod ymwelwyr yn profi Ynys Môn ar ei gorau. Bydd cael y rhain yn iawn, gyda chroeso cymhwysol a synnwyr o fod yn amgylchedd naturiol unigryw, yn ysgogi i bobl aros yn hirach a dychwelyd.

Bydd sicrhau'r seilwaith a'r cynnig hwn yn diogelu a chyfoethogi'r amgylchedd ac yn allweddol i dwf economi'r ymwelwyr mewn modd cynaliadwy.

## Beth ydym am ei wneud?

- Byddwn yn datblygu a hyrwyddo brand Ynys Môn a rennir ac ymrwymiad a rennir, gan ddathlu'r gymuned leol, yr iaith a'r dirwedd.
- Byddwn yn datblygu cynnig profiad ymwelwyr dynamig ac ysbrydoledig yn seiliedig ar fwyniant cynaliadwy o rinweddau unigryw Ynys Môn, gan ddechrau drwy gael y pethau sylfaenol yn gywir.
- Byddwn yn sicrhau bod cyfleusterau allweddol a seilwaith ymwelwyr o ansawdd uchel.
- Byddwn yn manteisio ar sefyllfa Caergybi fel porth i ymwelwyr rhyngwladol.
- Byddwn yn cryfhau cynnyrch gydol y flwyddyn ar Ynys Môn, gan ymestyn y tymor a datblygu nifer cynyddol o brofiadau ysgogol i ymwelwyr a thrigolion eu mwynhau tu mewn a thu allan.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Byddwn yn gwella cyfleusterau ymwelwyr yn cynnwys meysydd parcio, toiledau, a mannau gwefru cerbydau trydan, yn ogystal â rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio hygyrch o ansawdd.
- Byddwn yn ystyried ffyrdd gwell o gyfeirio at atyniadau, un ai drwy dechnoleg ddigidol neu wella arwyddion a dynodi llwybrau.
- Byddwn yn archwilio cyfleoedd i integreiddio ystyriaethau rheoli cyrchfan i bob penderfyniad cynllunio i sicrhau bod cludiant cyhoeddus, seilwaith a phrosiectau datblygu yn cynorthwyo'r economi ymwelwyr a phobl Ynys Môn
- Byddwn yn cydweithio i sicrhau bod ymwelwyr llongau mordeithio a rhai dros dro yn darparu buddion economaidd a chymdeithasol i'r Ynys yn y modd mwyaf cynaliadwy ac amgylcheddol bosibl.
- Ymgysylltu â phartneriaid i gasglu, cwestiynu a rhannu data ynghylch twristiaeth ar Ynys Môn, i ddeall effaith twristiaeth mewn gwahanol rannau o'r sir yn benodol.

# Cynnal a pharchu ein hamgylchedd a gweithredu i liniaru effeithiau newid hinsawdd



## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae tirweddau, morluniau ac amgylchedd naturiol Ynys Môn yn amrywiol a dramatig, ond dan fygythiad nifer o ffactorau yn cynnwys newid hinsawdd, gordwristiaeth a chynigion twristaidd sy'n diraddio'r gwerthoedd arbennig hyn.

Ni ellir tanbrisio gwerth cyrchfan ddilys, gydlynol sy'n doreithiog o asedau naturiol. Mae byd natur yn elfen greiddiol yn hunaniaeth brand Ynys Môn, yn cysylltu ymwelwyr a phobl leol i'r lle, ei werthoedd a'i gymeriad. Gall hyn ysgogi buddion diwylliannol, cymdeithasol, economaidd a llesiant mesuradwy a dylid ei ddathlu a'i warchod.

## Beth ydym am ei wneud?

- Byddwn yn ymgorffori egwyddorion rheoli cyrchfan cynaliadwy effeithiol ar draws pob un o'n meysydd gwaith, a sicrhau bod y cynnig yn cyfoethogi yn hytrach na diraddio'r amgylchedd naturiol.
- Byddwn yn defnyddio adnoddau diwylliannol a naturiol Ynys Môn i greu a hyrwyddo lle unigryw, arbennig, sy'n wahanol i gyrchfannau eraill.
- Byddwn yn gweithio â phartneriaid i gynllunio prosiectau sy'n canolbwyntio ar ddarparu tirwedd sy'n iachach, yn fwy ecolegol doreithiog a chysylltiol, ac yn gallu gweithredu fel catalydd ar gyfer cyfleoedd ymwelwyr newydd ac ailgysylltu rhwng pobl a byd natur.
- Byddwn yn sicrhau bod pwysigrwydd rheoli cyrchfan yn cael ei ddeall yn llawn ac y gallwn wneud ein heconomi ymwelwyr yn wydn i'r effeithiau hyn

## Sut ydym am wneud hyn?

- Byddwn yn rheoli safleoedd sensitif a datblygu ymyriadau i'w gwarchod, eu cyfoethogi a'u cadw nhw.
- Drwy'r broses gynllunio, byddwn yn rheoli datblygiad a allai fygwth ansawdd amgylched yr arfordir, apêl yr Ynys i ymwelwyr, neu gael effaith unigol anghymesur ar fusnesau twristiaeth.
- Byddwn yn sicrhau bod pwysigrwydd rheoli cyrchfan yn cael ei ymgorffori yng Ngwaith yr AHNE a phartneriaid yr amgylchedd naturiol.
- Byddwn yn defnyddio ymchwil i arfarnu effaith posibl newidiadau a ragwelir i natur dymhorol y tywydd ar y cynnig ymwelwyr, a chynllunio i liniaru'r effeithiau hyn.
- Byddwn yn archwilio cyfleoedd i gysylltu rheoli cyrchfan gyda phrosiectau addasu arfordir/rheoli llifogydd naturiol.

# Sicrhau bod yr economi ymwelwyr yn darparu buddion cymdeithasol, economaidd a lles i'n cymunedau

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae'r sector lletygarwch a thwristiaeth yn hanfodol i economi leol Ynys Môn, ac yn cyflogi llawer o bobl. Fodd bynnag, mae angen cymorth i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau a deall llawn botensial yr economi ymwelwyr yn darparu llesiant economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Ynys Môn.

Wrth i hyfforddiant fod yn un broblem posibl tu ôl i hyn, mae yna ffactorau cymhleth eraill, megis natur dymhorol nifer o fusnesau, neu'n wir y modd mae pobl ifanc yn gweld twristiaeth fel gyrfa yn y dyfodol.

## Beth ydym am ei wneud?

- Byddwn yn ymgysylltu â'r gymuned i hyrwyddo pwysigrwydd yr economi ymwelwyr a chynorthwyo seilwaith a gwasanaethau, fel bod preswylwyr, cyrff partneriaid a busnesau fel ei gilydd yn rhan o'r darparu profiad.
- Byddwn yn cydweithio gyda sefydliadau addysg, addysg bellach ac uwch a gweithio gyda phartneriaid i nodi'r set sgiliau allweddol a'r problemau adnoddau presennol ac i'r dyfodol.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i annog ymgysylltu pellach gyda chynhyrchwyr bwyd a chadwyni cyflenwi lleol.
- Byddwn yn cynorthwyo mentrau seiliedig ar y sector preifat sy'n darparu twf economaidd, gwaith teg, uwchsgilio a lleihad mewn ôl troed carbon ar yr Ynys: y math o ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer diwydiant twristiaeth cynaliadwy.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Byddwn yn mabwysiadu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth siliau uchel gydol y flwyddyn.
- Byddwn yn cydweithio â'r sector addysg i gydlynu gweithredu ar sgiliau, canfyddiad gyrfaoedd mewn twristiaeth, prinder sgiliau a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd y gall y sector lletygarwch a thwristiaeth eu cynnig.
- Sicrhau bod pobl leol yn cael cyfleoedd i fod wrth wraidd y cynnig, gan fanteisio ar swyddi sgiliau newydd a chadwyni cyflenwi lleol.
- Byddwn yn gweithio i sicrhau bod cadwyni cyflenwi cynaliadwy, carbon isel lleol yn cael eu datblygu ar draws y diwydiant.
- Sicrhau bod y cynnig twristiaeth yn cyfrannu at hyfywedd gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hanfodol i'r cymunedau hynny sy'n ei gynnal.

# Y camau nesaf

Y cam cyntaf i ddarparu Cynllun Rheoli Cyrchfan yw sefydlu model partneriaeth newydd ar gyfer Sefydliad Rheoli Cyrchfan (SRhC).

Argymhellir model partneriaeth newydd er mwyn:

- sicrhau cydweithio a chefnogaeth partneriaid sector cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat allweddol;
- gwneud y defnydd gorau o adnoddau presennol;
- hwyluso ffyrdd effeithiol o weithio a allai ddenu buddsoddiad pellach pan fo angen i gyflawni amcanion y Cynllun Rheoli Cyrchfan.

Unwaith mae'r SRhC wedi ei sefydlu a'i gynorthwyo gyda Chylch Gorchwyl, bydd yn grŵp yn cydweithio i ddiffinio'r camau blaenoriaeth nesaf gyda chynllun gweithredu SMART.





Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. Ymwelwch a www.ynysmon.llyw.cymru am gopi digidol
This document is also available in Welsh. Visit www.anglesey.gov.wales for a digital copy

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Ymgynghoriad y Cynllun Rheoli Cyrchfan 28ain Ebrill – 9fed Mehefin 2023**

**Ymatebion**

**Mai/Mehefin 2023**

**Statws: Swyddogol**

**Paratowyd gan:**

| Awdur Gwreiddiol | Fersiwn | Diwygiadau a Wnaed | Dyddiedig |
|---|---|---|---|
| Michael P. Thomas | 1 | Ymatebion hyd yma | 23.05.2023 |
| Andy Godber | 2 | Ymateb Swyddogion | 27/5/23 |
| Michael P. Thomas | 3 | Ymatebion hyd yma | 02.06.2023 |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

DRAFT

***Ymatebion i'r Cwestiynau ynghyd â'r adborth***

Cafwyd cyfanswm o 48 o ymatebion, gan gynnwys nifer o ymatebion manwl yn ychwanegol I'r rhai drwy'r system ar-lein.  Mae'r farn gyffredinol yn gadarnhaol, a derbyniwyd llawer o sylwadau a syniadau perthnasol, er bod mwyafrif helaeth o'r rhain yn ymwneud â cham nesaf y broses, sef llunio cynllun gweithredu ar y cyd â'r Sefydliad Rheoli Cyrchfan newydd.


Daethpwyd i'r amlwg y pwysigrwydd i sicrhau bod twristiaeth yn cael ei weld fel budd i gymunedau'r ynys, ac na ddylai twristiaeth effeithio'n negyddol ar rinweddau arbennig yr ynys.

Nodwyd yr ardoll ymwelwyr gan lawer, ac fel y disgwyliwyd, roedd safbwyntiau yn amrywio o sut y byddai'n effeithio'n gadarnhaol ar y sector ymwelwyr, i sylwadau negyddol o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol.

Codwyd yr heriau o fynd i'r afael â'r materion parhaus sy'n ymwneud â pharcio amhriodol neu anghyfreithlon a cherbydau gwersylla, hefyd roedd nifer sylweddol o ymatebion negyddol o ganlyniad i ddatblygiad Penrhos.

DRAFT

***Q4. I ba raddau ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â'r weledigaeth ar gyfer Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn?***




| | |
|---|---|
| Sylw 1 | Gormod o sylw ar dwristiaeth fel dyfodol i bobl ifanc ar yr ynys. Mewn realiti, mae nifer y swyddi'n isel, dydy'r gwaith ddim talu'n dda ac mae'r rhagolygon yn wael. Mae pobl ifanc yn gadael yn eu lluoedd i chwilio am waith medrus gyda chyflogau a rhagolygon da.<br><br>Mae angen cyfyngu ar dwristiaeth – mae'r ynys dan ei sang yn yr haf, fyddwn ni ddim yn mynd allan oherwydd bod pobman yn orlawn, dim lleoedd i barcio ac ati. Yn sicr, dydyn ni ddim eisiau i hyn gael ei annog drwy'r flwyddyn diolch!<br><br>Mae'n ymddangos bod y ddogfen hon braidd yn anghyson o ystyried y cynllun i blastro'r ynys gyda phaneli solar, tyrbinau gwynt ac ati, ond wedyn y gefnogaeth ddigywilydd i ddinistrio Parc Gwledig Penrhos, sy'n ased ym mhob agwedd, o ran yr hinsawdd, cynefinoedd, byd natur ac ati. |
| Ymateb Swyddogion | Mae'r economi ymwelwyr yn dal i fod y prif sbardun economaidd ar Ynys Môn, ac fel cyfryw, mae'n chwarae rôl hanfodol o ran gwneud y sir yn fwy gwydn o safbwynt economaidd.<br><br>Mewn blynyddoedd diweddar, gwelsom newid tuag at weld niferoedd anghynaliadwy o ymwelwyr sydd wedi difetha'r profiad a'r cymunedau sy'n eu lletya. Mae'r cynllun hwn yn ceisio unioni'r fantol ac yn ystyried bod nodweddion arbennig lleoliad o'r pwys mwyaf yn nhermau cyflawni model twristiaeth mwy cynaliadwy.<br><br>Law yn llaw â hyn, fe ddaw cyfleoedd cyflogaeth newydd, nid yn unig mewn rolau traddodiadol gydag ymwelwyr, ond rolau sy'n canolbwyntio |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | ar wella'r nodweddion arbennig hyn. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 2 | Rwy'n ysgrifennu fel un o'r teuluoedd sydd wedi cael eu gorfodi i symud allan o'r ardal oherwydd y diffyg cyfleoedd gwaith rydych wedi siarad amdanyn nhw. Rydw i hefyd yn un o'r genhedlaeth gyntaf o'm teulu nad ydym yn gwbl ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydw i wedi syfrdanu bod Parc Arfordirol Penrhos yn cael ei ystyried ar gyfer ei ddatblygu, dydw i ddim yn arbenigwr ar yr amgylchedd ond yn gwybod rhywbeth am yr ardal leol a pha mor ddibynnol y mae busnesau lleol ar dwristiaeth. Penrhos yw un o'r ychydig leoedd yn y wlad lle gallwch weld gwiwerod coch. Rwy'n byw yn Reading. Mae'n cymryd dwy awr i ni, ynghyd â thrip ar gwch, i allu gweld un. Y lle agosaf yw Brownsea Island yn Dorset, lle maen nhw'n denu twristiaid yn eu lluoedd o bob cwr o Dde Lloegr. Mae o hefyd yn adnodd ardderchog i bobl leol, rwy'n gwybod hyn oherwydd fo mod wedi cerdded cŵn fy nhaid a'm nain yno sawl gwaith. Pe bai pobl ifanc yn cael eu hannog i helpu gyda gwaith cadwraeth mewn lleoedd fel Penrhos, byddai o fudd i'r gymuned ac efallai'n lleihau'r lefelau troseddu mewn lleoedd fel Caergybi. Mae angen swyddi yn yr ardal (rwy'n gwybod hyn oherwydd, fel arall, mi fyddai fy nheulu'n dal i fod yno), ond gan siarad fel rhywun sydd hefyd yn byw mewn ardal a chanddi gyfradd droseddu uchel, ni fydd difetha ardaloedd cyfagos y dylid eu gwarchod yn helpu. Dydy'r math yna o adnoddau ddim yn bodoli yma, byddai'n dda gen i eu cael nhw. |
| Ymateb Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes wedi dilyn y broses gynllunio briodol. Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd.<br><br>Fodd bynnag, cydnabyddir y sylwadau ehangach o ran pwysigrwydd sicrhau amgylcheddau naturiol a rhywogaethau cysylltiedig er mwyn cynnig profiadau newydd i ymwelwyr, ac mae'n ffurfio sail y Cynllun Rheoli Cyrchfan a Chynllun Rheoli'r AHNE. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 3 | Mae rheoli ail gartrefi a lleoedd Airbnb ar yr ynys yn bwysig o ran dyfodol ein pobl ifanc a'n diwylliant a'r iaith. |
| Ymateb Swyddogion | Sylw dilys iawn. Mae'r ardoll ymwelwyr, newidiadau o ran trethiant a thrwyddedu statudol, i gyd yn cael eu hystyried o fewn Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol ar hyn o bryd. Mae'r ddogfen yn cyfeirio at y mater hwn, ond mae angen rhoi ystyriaeth bellach iddo yn y cynllun |

| | |
|---|---|
| | gweithredu. |
| Newidiad a Awgrymir | Cyfeirir at hyn yn y rhan berthnasol. |

| | |
|---|---|
| Sylw 4 | Mae'r syniadau yna, ond mae twristiaeth yn destun pryder o ran ei effaith ar isadeiledd, yr amgylchedd a chymunedau lleol, Mae gennym ddigon o ymwelwyr, gormod o draffig a dim ymgais go iawn i'w rheoli. Yn unol â dad-ddofi ardaloedd, dylid cael cyn lleied o ddatblygiadau newydd â phosib, tra mai gofalu am yr hyn sydd gennym yn barod (e.e. Penrhos) yw'r brif flaenoriaeth.<br><br>Mae dad-ddofi'n gofyn am waith cynllunio a rheoli o safbwynt yr amgylchedd. |
| Ymateb Swyddogion | Mae'r cynllun yn amlygu'r angen i fynd i'r afael â nifer o'r camau allweddol y mae eu hangen o safbwynt model cynaliadwy ar gyfer ymwelwyr, fel meysydd parcio, toiledau ac ati. Mae'r Awdurdod Lleol eisoes wedi mynd at i ddefnyddio ei gyllideb ei hun a grantiau allanol i wneud gwelliannau, a bydd hyn yn parhau.<br><br>Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn gweithio ochr yn ochr â Chynllun Rheoli'r AHNE, sy'n cynnwys cryn bwyslais ar wella cynefinoedd. Yn ychwanegol i hyn, mae prosiectau sy'n ymwneud â chreu dolydd ac adfer rhostiroedd ar waith gennym ar hyn o bryd. Mae gwaith o'r math hwn yn flaenoriaeth, a bydd yn cynyddu o ran ei faint a'i effaith mewn blynyddoedd i ddod. |
| Newidiad a Awgrymir | Cyfeirir at waith yng nghyswllt cynefinoedd ar raddfa tirwedd o fewn y camau gweithredu. |

| | |
|---|---|
| Sylw 5 | Nid oes llawer ynddo y gellir anghytuno ag ef mewn gwirionedd. Ond malu awyr â bwriadau da yw'r rhan fwyaf ohono, heb gyfeirio at naill ai problemau penodol o fewn ein diwydiant twristiaeth presennol neu gyfleoedd penodol ar gyfer yr ynys. Beth am rywfaint o gamau gweithredu ynglŷn â'r rhan ogleddol o lwybr beicio'r 'coridor gwyrdd' ar draws yr ynys, o Niwbwrch i Amlwch, sydd wedi'i addo ers tro byd? Mae hyn wedi bod yn destun siarad ers blynyddoedd, ond rhoddwyd stop ar bethau rhywsut am fod rhaid disgwyl i weld beth sydd am ddigwydd oherwydd y diddordeb brwd ymhlith rhai i ailagor y rheilffordd. Mae hynny'n iawn, beth am gael rheilffordd yn y diwedd, os gawn nhw fyth yr arian, ond yn y cyfamser, beth am beidio ag atal y llwybr beiciau.<br><br>O ran cyfleoedd eraill yng nghyswllt beicio, rwy'n credu bod Menter Môn wedi comisiynu adroddiad (gyda chyllid Leader) ar lwybr beiciau o amgylch yr ynys ychydig o flynyddoedd yn ôl o'r enw Olwyn Môn / 'Anglesey Wheel'. Beth am fynd ar drywydd hyn a'i roi ar waith os gwelwch yn dda - gan ddilyn hyn, yn ddelfrydol, neu ei gydamseru, gyda |

| | |
|---|---|
| | llwybr beiciau Cymru Gyfan, yn gyfochrog â llwybr yr arfordir a llwybr Clawdd Offa i gerddwyr.<br><br>Ac os yw'r syniadau hyn yn rhy anodd i Gyngor Ynys Môn, dylid o leiaf ailsefydlu'r 'llwybrau adar' (Telor, Giach, Hebog, a Nico) a ddatblygwyd flynyddoedd yn ôl, ond ymddengys nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach. Byddai rhywfaint o waith tacluso / ailosod arwyddion ac ail-farchnata yn 'gam cyflym' ymlaen o ran twristiaeth gweithgareddau ar yr ynys, yn ogystal â'r buddion i breswylwyr o safbwynt iechyd a ffitrwydd.<br><br>Rhywbeth arall sydd angen ei wneud yw gwella ansawdd ein bwytai lleol. Ystyriwch y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig mewn bwytai yn Florida er enghraifft - y gwydrau o ddŵr â rhew ar y bwrdd, yn syth ar ôl i chi gyrraedd - rhywbeth bach efallai, ond mae'n creu'r naws iawn ar unwaith, ac yn gwneud i'r cwsmer deimlo'n gartrefol. Mae gormod o'n bwytai'n cynnig 'bwyd tafarn' ond yn codi'r math o brisiau y byddech yn disgwyl eu cael mewn bwyty; naill ai mae'n rhaid cadw'r prisiau'n is, neu wella'r safon. A rhaid rhoi stop ar y nonsens o ran "rydyn ni eisiau ei bwrdd yn ôl erbyn x"; os ydw i'n cael cinio neu swper gyda ffrindiau, dwi eisiau amser i gael sgwrs, yn lle gorfod brysio trwy'r pryd. |
| Ymateb Swyddogion | Nodwyd y sylw - mae'r swyddogaeth Datblygu Economaidd yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i ddiwydiannau priodol newydd fuddsoddi ym Môn.<br><br>Sylwadau dilys iawn. Bydd datblygu isadeiledd ar gyfer beicio yn deillio o'r cynllun gweithredu, ac mae'n cyd-fynd â'r ymagwedd gynaliadwy a gaiff ei chynnig. |
| Newidiad a Awgrymir | Cyfeirir at hyn yn y rhannau perthnasol. |


| | |
|---|---|
| Sylw 6 | Mae'n anodd anghytuno â'r weledigaeth. Nodir bod blaenoriaeth i sicrhau bod y CRhC yn amddiffyn y gymuned a diwylliant yr Ynys. |
| Ymateb y Swyddog | Bydd y cynlluniau CRhC a'R AHNE yn gweithio mewn partneriaeth, a'n ategu at y cynllun corfforaethol i sicrhau bod cymuned a diwylliant wrth wraidd yr hyn sy'n cael ei gyflawni |
| Addasiad a awgrymir | Cyfeirio ato o fewn adrannau perthnasol |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Sylwadau 7 | Croesawu cofleidio twristiaeth gynaliadwy.  Rwy'n credu bod cyfleoedd i gofleidio ac ennill cymwysterau twristiaeth gynaliadwy, sy'n cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd a diwylliant. |
| Ymateb y Swyddog | Rydym yn cytuno ac mae'r ethos hwn yn sail i'r cynllun. |
| Addasiad a awgrymir | Dim |

DRAFT

Q5. Ydych chi'n cytuno ag egwyddorion a blaenoriaethau'r Cynllun Rheoli Cyrchfan?




| | |
|---|---|
| Sylw 8 | Mae'n rhaid i bob cynllun gweithredu ddilyn egwyddorion o ran ymwybyddiaeth o beth sy'n digwydd ar hyn o bryd yn nhermau cynhesu byd-eang a'i effeithiau. |
| Ymateb Swyddogion | Mae'r egwyddorion wedi'u nodi'n glir - caiff y cynllun gweithredu a ddiffinnir ei ddatblygu ar y cyd â'r Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 9 | Unwaith eto, mae'n amlwg bod angen rhagor o swyddi, ond dechreuwch wrando ar y bobl leol, da chi, sydd wedi bod yn sôn am yr effaith ar yr amgylchedd ers blynyddoedd. Dydw i ddim yn deall pam, o ystyried y gallu i weithio o bell, nad oes rhagor o ddiwydiannau ym maes gwasanaethau yn symud allan o Lundain. Does dim angen safleoedd gweithgynhyrchu mawr arnyn nhw, a gellir eu lleoli mewn adeiladau presennol yn y trefi. Pe byddech yn gwneud hynny, efallai y gallwn symud yn ôl! |
| Ymateb Swyddogion | Nodwyd y sylw - mae'r swyddogaeth Datblygu Economaidd yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i ddiwydiannau priodol newydd fuddsoddi ym Môn. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 10 | Dylai twristiaeth gyd-fynd â gofynion y boblogaeth leol bresennol a gweithio gyda nhw. Dylid rheoli twristiaeth ym Môn mewn modd sy'n hybu'r agweddau da ar dwristiaeth (prynu'n lleol, aros yn lleol, parchu pobl leol, profiadau cadarnhaol). Mae gan yr ynys gymaint i'w gynnig o safbwynt profiadau cyffredinol nad yw lleoliadau eraill (e.e. Blackpool neu |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Llundain) yn gallu, neu ddim yn bwriadu, eu cynnig. Rydym yn gymuned fechan (yr ynys yn gyffredinol), sy’n gallu hybu twristiaeth byd natur (gweld gwiwerod coch, barcutiaid, dolffiniaid, daeareg) yn ogystal â hanes (cylchoedd cerrig, caer Rufeinig yng Nghaergybi, siambrau claddu) a diwylliant (y Gymraeg, dawnsio gwerin, y wisg Gymreig). Dyma rai o gryfderau Ynys Môn, ynghyd â busnesau annibynnol (bwyd, diodydd, crefftau ac ati). |
| Ymateb Swyddogion | Cydnabyddir pob pwynt, o safbwynt y Cynllun Rheoli Cyrchfan a chynllun rheoli’r AHNE. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 11 | Rwy'n tueddu i gytuno ond mae'r CRhC yn llawer rhy gyffredinol a lefel uchel i fod yn ystyrlon iawn. Rwy'n gwerthfawrogi bod camau penodol I ddilyn ond mae'n anodd iawn cyflwyno sylwadau heb enghreifftiau penodol a fy marn i yw y dylai'r CRhC fod wedi cyfuno egwyddorion lefel uchel â chamau gweithredu penodol gan fod gwir angen iddo ddigwydd yn gyflym. |
| Ymateb y Swyddog | Rydym yn cytuno bod angen cynllun gweithredu cadarn sydd wedi ei greu ar y cyd - Ystyrir mai dim ond trwy CRhC newydd y gellir gwneud hyn.  Dyma'r man cychwyn. |
| Addasiad a awgrymir | Dim ond sylw wedi ei nodi |

DRAFT

***Q8. Ydych chi'n credu mai'r rhain yw'r blaenoriaethau a'r amcanion iawn ar gyfer Ynys Môn?***

| | |
|---|---|
| Sylw 12 | Llai o dwristiaid, ond o ansawdd uwch (o ran gwariant) ydy'r ffordd ymlaen. Does dim modd i ni ddarparu mymryn mwy o le i fwy o bobl – mae pobl fel ni sy'n byw'n lleol yn peidio â mynd i leoedd oherwydd eu bod nhw'n orlawn o bobl, ac nad oes unrhyw le i barcio ac ati. A dydyn ni ddim eisiau hyn, ar yr un lefel ag sydd gennym ar hyn o bryd, drwy gydol y flwyddyn, dim diolch! |
| Ymateb Swyddogion | Mae'r cynllun yn ceisio unioni'r sefyllfa o ran anghynaliadwyedd y niferoedd presennol o ymwelwyr, er bod y niferoedd eisoes wedi gostwng tuag at y lefelau hynny a welwyd cyn y pandemig Covid. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |


| | |
|---|---|
| Sylw 13 | Rhagor o atyniadau i dwristiaid, fel llwybrau beics MTB ac ar gyfer beiciau modur. |
| Ymateb Swyddogion | Mae cyfleoedd ar gyfer llwybrau beics newydd a llwybrau i feiciau mynydd yn ffurfio rhan o'r cynllun.<br><br>Mae TracMon yn dal i ffynnu fel atyniad ar gyfer rhai sydd â diddordeb brwd mewn chwaraeon ceir a beiciau modur. Gellid ystyried y byddai cyflenwi cyfleoedd newydd ar gyfer rhai sy'n reidio beiciau modur yn mynd yn groes i'n nodau o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 14 | Ydw, os mae pethau'n cael eu rheoli'n iawn. Mae'n anodd cael y cydbwysedd rhwng y Cyngor Sir yn annog busnesau lleol i ffynnu, ynghyd â bod potensial i gael gormod o fiwrocratiaeth ac ati, a allai gyfyngu ar y busnesau.<br><br>Mae angen i grwpiau, unigolion, cynghorau lleol a sirol, a sefydliadau weithio gyda'i gilydd ar gyfer dyfodol cynaliadwy.<br><br>Mae angen monitro'r stoc tai yn ofalus, er mwyn cael digon o dai fforddiadwy i'r boblogaeth leol eu defnyddio a'u prynu. Os nad yw pobl yn gallu prynu tai lleol, ceir risg mawr iawn y bydd rhai ardaloedd o Ynys Môn yn dod yn ardaloedd ar gyfer ail gartrefi'n unig (fel y mae rhai rhannau wedi cychwyn bod). Gwelwyd hyn mewn rhannau eraill o'r DU hefyd, yr hyn sy'n digwydd pan fydd gormod o gartrefi'n cael eu prynu fel ail gartrefi/cartrefi gwyliau a/neu'n cael eu troi'n llety i dwristiaid,<br><br>Ceir llawer o botensial i fanteisio arno o ran y sector twristiaeth. Cefais brofiad uniongyrchol o ddelio â thwristiaid (naill ai fel rhywun lleol a/neu dywysydd twristiaid cymwys). Mae'r mwyafrif helaeth o'r twristiaid yn parchu'r ffaith eu bod yn dod i leoliad rhywun arall. O ran y rheiny o'r |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | llongau mordeithio, mae'r teithwyr yn hoffi cyfarfod y bobl leol (bo'r rheiny'n dywyswyr twristiaid ai peidio) a chael eu cyfarch mewn modd cadarnhaol.<br><br>O ran y bobl leol - rydw i wedi gweld yr adborth negyddol tuag at dwristiaid sy'n cyrraedd yr ynys. Mae rhywfaint o hyn yn ymwneud â'r llongau mordeithio, ac mae llawer o'r negyddoldeb yn deillio o ddiffyg gwybodaeth. Ceir rhai ohonom sy'n ceisio dileu'r mythau o ran y llongau mordeithio - bod y mwyafrif helaeth o'r ymwelwyr yn aros ar ynys a hefyd yn ymweld â Chaergybi. Mae angen dileu'r mythau a'r sïon o ran beth mae twristiaid yn ei hoffi am Ynys Môn. Mae angen annog agwedd gadarnhaol, ynghyd â balchder o ran beth sydd ar gael yn barod ac sydd ar waith ar yr ynys. Bydd agwedd gadarnhaol a blaengaredd yn helpu i feithrin mwy o bositifrwydd.<br><br>Mae angen rheoli agweddau negyddol twristiaeth hefyd (o safbwynt twristiaid a phobl leol). |
| Ymateb Swyddogion | Mae'r ardoll twristiaid, newidiadau o ran trethiant a thrwyddedu statudol oll yn cael eu trafod ar hyn o bryd o fewn Llywodraeth Cymru a 'r Awdurdod Lleol. Mae'r ddogfen yn adlewyrchu'r mater hwn, ond mae angen gweld mwy yn y cynllun gweithredu.<br><br>Mae sicrhau bod cymunedau'n elwa ar y sector ymwelwyr yn angenrheidiol. Mae'n bwysig cydnabod gwerth twristiaeth, a bod y cyfleusterau a ddatblygir ar gyfer y sector yn ychwanegu gwerth hefyd ar gyfer y rheiny sy'n byw ar Ynys Môn. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim - does dim dwywaith y bydd hyn yn ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu a ddatblygir ar y cyd â'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. |

***Q9. Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno bod rheoli cyrchfan yn gyfrifoldeb a rennir rhwng busnesau preifat, yr awdurdod lleol, asiantaethau'r llywodraeth, y trydydd sector, cyrff llywodraethu cenedlaethol a Llywodraeth Cymru?***




| | |
|---|---|
| Sylw 15 | Ar wahân i gyllid ac egwyddorion ac amddiffyniadau lefel uchel, dylai hyn fod yn bennaf yn gydweithrediad rhwng yr awdurdod lleol, busnesau lleol a thwristiaeth a phartïon perthnasol eraill (yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac ati). Bydd cyfranogiad y Llywodraeth Genedlaethol yn rhwystro mentrau lleol. |
| Ymateb y Swyddog | Cytuno – bydd y CRhC yn gweithredu |
| Addasiad a awgrymir | Dim |
| Sylwadau | Bydd busnesau'n gwneud beth sydd orau iddyn nhw, h.y. i gynyddu eu helw – trosiant uchel gyda chyn lleied o orbenion â phosib. Mae'n anorfod y bydd hyn yn golygu cyfyngu ar y profiad i ymwelwyr, cyflogau staff ac ati. Mae angen rheoli hyn gan y llywodraeth. |
| Ymateb Swyddogion | Mae rheoliadau ar y gorwel yn nhermau llety gwyliau a llety arall, trwy'r broses drwyddedu statudol. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim - does dim dwywaith y bydd hyn yn ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu a ddatblygir ar y cyd â'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. |

| | |
|---|---|
| Sylw 16 | Mae'n rhaid i bob partner gymryd cyfrifoldeb llawn dros y gwaith hwn. Caiff y gwaith ei sbarduno gan yr awdurdod lleol bob amser, ac mae angen llawer mwy o fuddsoddiad preifat. |
| Ymateb Swyddogion | Yn cytuno â'r sylw. |
| Newidiad a Awgrymir | Cyfeirir at hyn eisoes. |

| | |
|---|---|
| Sylw 17 | Er y gall cwmnïau preifat gyfrannu at y weledigaeth, mae llawer o agweddau (amwynderau cyhoeddus ac ati) y tu hwnt i'w rheolaeth. Gellir 'prynu mewn' i gynllun sy'n cael ei gyfathrebu'n glir' a dylid ei ddilyn gyda Chyfathrebu/brandio cyhoeddus clir y gall busnesau eu defnyddio/cyfrannu ato a'u datblygu. |
| Ymateb y Swyddog | Bydd y CRhC newydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid i sicrhau bod y camau gweithredu yn unol â nodau'r cynlluniau. |
| Addasiad a awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 18 | Er y gall cwmnïau preifat gyfrannu at y weledigaeth, mae llawer o agweddau (amwynderau cyhoeddus ac ati) y tu hwnt i'w rheolaeth. Gellir 'prynu mewn' i gynllun sy'n cael ei gyfathrebu'n glir' a dylid ei ddilyn gyda Chyfathrebu/brandio cyhoeddus clir y gall busnesau eu defnyddio/cyfrannu ato a'u datblygu. |
| Ymateb y Swyddog | Bydd y CRhC newydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid i sicrhau bod y camau gweithredu yn unol â nodau'r cynlluniau. |
| Addasiad a awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 19 | Mae angen i bawb ohonom ganolbwyntio ar y pethau cadarnhaol. Yn anffodus, mae cost darparu, cynnal a chadw a gwasanaethu llety gwyliau wedi cynyddu'n aruthrol mewn blynyddoedd diweddar, wrth i gyflogau gweithwyr a chostau tanwydd godi. Bydd unrhyw gostau ychwanegol, fel yr ardoll twristiaid, yn arwain at lai o fusnesau bach oherwydd eu bod yn cael eu gorfodi i roi'r gorau iddi neu leihau nifer yr ymwelwyr wrth basio'r ardoll iddyn nhw. |
| Ymateb Swyddogion | Os caiff ei reoli'n iawn, bydd unrhyw ardoll neu gynllun trwyddedu'n gallu bod o fudd i'r sector twristiaeth trwy ail-fuddsoddi mewn anghenion o safbwynt isadeiledd, gwelliannau o ran hygyrchedd, deunydd dehongli a |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | marchnata er enghraifft. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim - does dim dwywaith y bydd hyn yn ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu a ddatblygir ar y cyd â'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. |

DRAFT

***Q10. Os ydych yn anghytuno bod y Cynllun Rheoli Cyrchfan yn gyfrifoldeb a rennir, sut ydych chi'n rhagweld y gellir rheoli'r gyrchfan er budd preswylwyr, cymunedau ac ymwelwyr fel ei gilydd?***

| | |
|---|---|
| Sylw 20 | Rheolaeth reoleiddiol – byddai lleihau niferoedd y llety Airbnb trwy drwyddedau / rheoliadau o safbwynt newid defnydd yn fan cychwyn. |
| Ymateb Swyddogion | Mae'r ardoll twristiaid, newidiadau o ran trethiant a thrwyddedu statudol oll yn cael eu trafod ar hyn o bryd o fewn Llywodraeth Cymru a 'r Awdurdod Lleol. Mae'r ddogfen yn adlewyrchu'r mater hwn, ond mae angen gweld mwy yn y cynllun gweithredu. |
| Newidiad a Awgrymir | Cynnwys hyn yn y cynllun gweithredu. |

***Q11. Oes gennych chi unrhyw ddealltwriaeth neu dystiolaeth o unrhyw gynlluniau rheoli cyrchfan o fath arall sy'n bodoli eisoes, neu o ddulliau gweithredu eraill sydd ar waith yn rhywle arall yn y byd, yr ydych yn meddwl y gallai Ynys Môn ddysgu ohonynt neu eu gweithredu?***

| | |
|---|---|
| Sylw 21 | Gwaith i ddad-ddofi'r tir ar dir sy'n eiddo i'r cyngor, plannu rhagor o goed, adeiladu ar safleoedd tir llwyd, h.y. yn Amlwch er enghraifft. |
| Ymateb Swyddogion | Mae cynllun rheoli'r AHNE yn dangos y dymuniad i gynyddu nifer y cynefinoedd allweddol a'u gwella. Mae gan y cynllun corfforaethol nodau yng nghyswllt lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, y mae plannu coed o'r rhywogaeth iawn, ac yn y lleoliad iawn, yn rhan ohono. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim – cynhwysir rhagor o wybodaeth yn y cynllun AHNE. |

| | |
|---|---|
| Sylw 22 | Byddwn yn ymweld â Sbaen yn aml. Mae pob ail gartref (sy'n eiddo i bobl amhreswyl, o bob cenedligrwydd) wedi'u rhwymo'n gyfreithiol i dalu Treth FLYNYDDOL i bobl amhreswyl, yn seiliedig ar werth stentaidd yr Eiddo (yn debyg i'r gwerth ardrethol). Codir y dreth hon ar y dybiaeth o safbwynt y rhent y gellid ei gael pe bai'r eiddo'n llety gwyliau (hyd yn oed os nad yw'n cael ei osod, ond yn cael ei ddefnyddio gan ei berchnogion yn unig) Does dim dewis, rhaid talu, neu bydd y swyddfa dreth yn rhoi gwaharddiad ar gyfrif banc y perchennog am y swm sy'n ddyledus.... |
| Ymateb Swyddogion | Mae'r ardoll twristiaid, newidiadau o ran trethiant a thrwyddedu statudol oll yn cael eu trafod ar hyn o bryd o fewn Llywodraeth Cymru a 'r Awdurdod Lleol. Mae'r ddogfen yn adlewyrchu'r mater hwn, ond mae angen gweld mwy yn y cynllun gweithredu. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | |
| Newidiad a Awgrymir | Dim – cynllun gweithredu. |

| | |
|---|---|
| Sylw 23 | Gellid datblygu rhagor o waith ym Mhorthladd Caergybi. Er enghraifft, yn Folkestone maen nhw wedi cyflawni nifer o brosiectau gyda'r sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector. Gellid efelychu'r math hwn o waith gan gynhyrchu cryn dipyn o fuddsoddiad a swyddi newydd. Yn ogystal â hyn, mae angen targedu deunydd marchnata am y gyrchfan mewn modd effeithiol. |
| Ymateb Swyddogion | Bydd menter y Porthladd Rhydd yn mynd i'r afael â'r sylw hwn. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 24 | Rhagor o gyfleusterau ar gyfer beiciau modur, o safbwynt mannau parcio a lleoedd storio diogel ar gyfer gwisgoedd, helmedau beiciau modur ac ati. |
| Ymateb Swyddogion | Caiff yr argymhelliad ei basio i'r Adran Priffyrdd |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 25 | O brofiad personol, pan fydd y llongau mordeithio'n dod i Gaergybi, mae'r trefnwyr lleol yn gweithio gyda'r tywyswyr twristiaid a chriwiau'r llongau mewn modd effeithlon iawn. |
| Ymateb Swyddogion | Mae rhoi croeso da i ymwelwyr yn rhan allweddol o'r profiad. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylwadau 26 | Oes, mae'r dreth twristiaid yn anneniadol iawn ac yn creu rhagor o anghydraddoldeb economaidd. Mae hi hefyd yn dreth eithriadol o annheg i bobl y mae'n rhaid i'w teuluoedd, er enghraifft, aros mewn llety lleol wrth ofalu am aelodau teulu anabl. Mae'n creu'r argraff hefyd mai'r twristiaid sydd ar fai, sy'n safbwynt a welir yn rhy aml o lawer ar Ynys Môn, fel y |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | nodwyd yn arweiniad y Cynllun Rheoli Cyrchfan. |
| Ymateb Swyddogion | Os caiff ei reoli'n iawn, bydd unrhyw ardoll neu gynllun trwyddedu'n gallu bod o fudd i'r sector twristiaeth trwy ail-fuddsoddi mewn anghenion o safbwynt isadeiledd, gwelliannau o ran hygyrchedd, deunydd dehongli a marchnata er enghraifft. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim – gwaith y cynllun gweithredu. |

| | |
|---|---|
| Sylw 27 | Ynysoedd y Sianel: annog dewisiadau eraill yn lle defnyddio cerbydau preifat; addasu i newid dewisiadau o ran gwyliau, ynghyd â gweithio i wneud y gorau o apêl atyniadau ynysoedd bach. |
| Ymateb Swyddogion | Bydd y CRhC newydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid i sicrhau bod y camau gweithredu yn unol â nodau'r cynlluniau. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 28 | Rwy'n nodi'r dymuniad yn y cynllun am ddulliau teithio llesol a chynaliadwy. Mae gan ynys Majorca yn Sbaen system drafnidiaeth gyhoeddus ardderchog, nifer o lwybrau beiciau, a rhoir blaenoriaeth i gerddwyr wrth groesi cyffyrdd sydd wedi'u marcio'n glir mewn du a gwyn, yn debyg i groesfannau i gerddwyr yn y DU. Mae ganddynt reolaeth dynn dros lety o fath Airbnb mewn mannau preswyl hefyd. |
| Ymateb Swyddogion | Bydd y CRhC newydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid i sicrhau bod y camau gweithredu yn unol â nodau'r cynlluniau. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 29 | Mae angen uwchraddio'r isadeiledd ar gyfer twristiaeth yn Ynys Môn yn sylweddol. Er enghraifft, mae maint ac arwyddion meysydd parcio yn gwbl annigonol ar gyfer economi'r haf ac mae'n rhwystredig iawn i dwristiaid a phobl leol. Mae angen adolygiad strategol o'r math o atyniadau twristiaid sydd angen dod i'r ynys ar gyfer y tymor hir. Mae angen enghreifftiau fel "Go Ape" a chanolfannau hamdden i ychwanegu at atyniadau naturiol yn Ynys Môn. Ar hyn o bryd mae Caergybi yn gyrchfan wael iawn ond gallai fod yn atyniad diddorol iawn ynddo'i hun pe bai ganddi marina, siopau a seilwaith twristiaeth briodol.<br><br>Rwy'n cwestiynu a oes angen newid meddylfryd o ran ei gwneud yn glir i'r ynys ei bod yn ddisgwyliedig ac yn briodol gwneud cymaint o arian â phosibl gan dwristiaeth yn ystod y tymor gwyliau (a gweithio'n galed iawn) a'i bod yn iawn i fod yn dawel a gweithredu oriau cyfyngedig yn ystod yr |

| | |
|---|---|
| | adegau tawel o’r flwyddyn. Nid yw'n ymddangos bod cymaint o fusnesau yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle ac yn parhau i fod yn gyfyngedig yn ystod cyfnod yr haf. |
| Ymateb y Swyddog | Mae'n hanfodol bod y swyddogaeth Cyrchfan yn gweithio gyda Gwasanaethau eraill i wireddu'r potensial rydych chi'n cyfeirio ato yn eich sylwadau. Mae cynllun y cyngor hefyd yn ceisio dull cydweithredol y dylai pob Gwasanaeth fod yn ceisio'r un nodau. |
| Addasiad a awgrymir | Rydym eisoes wedi cyfeirio ato |

DRAFT

***Q12. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y Cynllun Rheoli Cyrchfan?***

| | |
|---|---|
| Sylw 30 | Mae'n anodd gan nad wyf yn breswylydd. Rwyf wedi gweld rhannau eraill o'r wlad yn cael eu difetha gan benderfyniadau annoeth o safbwynt cynllunio. Rwy'n byw wrth ymyl darn o dir comin y bu pobl yn protestio i'r cyngor yn ei gylch i atal datblygiad. Roedd gormod o bobl yn arwain at gynyddu'r gyfradd droseddu. Po fwyaf o breswylwyr sy'n byw yno, y mwyaf o gwynion a dderbyniwyd gan y cyngor am ragor o adeiladu. Felly, adeiladwyd ar hanner y safle, tra bo'r hanner arall yn wag. Gwelwyd lleoedd yn cael e hadeiladu ar ddolydd dŵr hefyd, lle nad oes modd defnyddio tai a ffatrïoedd oherwydd llifogydd, a bod neb yn gwrando ar bryderon preswylwyr ynghylch yr effaith ar yr amgylchedd. Rhaid talu sylw i'r gwir breswylwyr lleol, y nhw sy'n byw yno ac maen nhw yn ôl bob tebyg yn adnabod yr ardal gyfagos yn well na chi, oherwydd eu bod wedi cael profiad uniongyrchol o'r lle. |
| Ymateb Swyddogion | Mae sicrhau ymdeimlad o berchnogaeth a chydweithredu gyda chymunedau Ynys Môn o'r pwys mwyaf wrth fynd ymlaen. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim o ran y Cynllun Rheoli Cyrchfan – dylid cynnwys hyn yng nghynllun gweithredu'r Cynllun Rheoli Cyrchfan a'i gysylltu â'r AHNE. |

| | |
|---|---|
| Sylw 31 | Rwy'n meddwl eich bod eisoes wedi ypsetio nifer o breswylwyr Caergybi a'r cyffiniau. Mae yna newid cyflym bellach o ran tacteg, yng nghyswllt bod eisiau'r hyn sydd gan Benrhos i'w gynnig o ran byd natur, ac rydych eisiau gorchuddio'r lle â sment ….. |
| Ymateb Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes wedi dilyn y broses gynllunio briodol. Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 32 | Rhaid cael rhagor o ddylanwad ar yr Adran Priffyrdd gan fod angen iddynt ddeall nad ystyriaeth yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol yw twristiaeth.<br>Mae'r croeso a roddir i longau mordeithio yng Nghaergybi yn wael o gymharu â phorthladdoedd eraill, p'un a ydynt yn farinas neu'n borthladdoedd dwfn. |
| Ymateb Swyddogion | Nid yw'r cynlluniau ar eu pen eu hunain a bydd y sylwadau'n cael eu bwydo drwodd i'r grŵp rheoli ymwelwyr a swyddogion priffyrdd i sicrhau bod cynllun cadarn yn cael ei gyflawni. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Newidiad a Awgrymir | Bydd hyn yn cael ei gynnwys ac yn dod allan o'r cynllun gweithredu |

| | |
|---|---|
| Sylw 33 | Ynys Môn yw un o'r prif gyrchfannau ar gyfer caiacio yn y byd, oherwydd ei bod yn cynhyrchu rhai o'r caiacau môr gorau, a bod y lleoliadau hyfforddi gorau i'w cael yma. Byddem yn aml yn cael ymwelwyr o Ogledd America ac Ewrop (yn enwedig Sgandinafia), sy'n dod yma'n arbennig i gaiacio.<br><br>Mae ffatrïoedd Ynys Môn yn cynhyrchu dros 3,000 o gaiacau môr y flwyddyn. Mae fy musnes hyfforddi/tywys ar gyfer caiacio yn dod â dros 600 o ymwelwyr i'r ynys i gaiacio bob blwyddyn. Ceir llawer mwy o fusnesau sy'n darparu hyfforddiant ar gyfer caiacio. Mae'n rhaid bod caiacio ar y môr yn cyfrif am sawl miliwn o'r £360 miliwn o refeniw'r diwydiant twristiaeth a nodwyd yn yr adroddiad.<br><br>Mae Ynys Môn yn lleoliad sydd gyda'r gorau yn y byd ar gyfer caiacio ar y môr, ac yn rhan o economi Ynys Môn sy'n tyfu. |
| Ymateb Swyddogion | Yn sicr, caiacio môr yw un o'r ffyrdd gorau o werthfawrogi arfordir Ynys Môn, ac ni ellir gwadu fod Ynys Môn yn atynfa i'r rhai sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn.<br><br>Mae'r math hwn o hamdden pan gaiff ei wneud mewn modd sensitif yn cyd-fynd â nodau'r yr cynllun. Mae'r gweithgynhyrchu lleol o gaiacs môr uchel eu parch hefyd yn unol â'n hymdrechion i gefnogi diwydiannau lleol. |
| Newidiad a Awgrymir | Cyfeirio at caiacio môr |

| | |
|---|---|
| Sylw 34 | Mae angen datblygu a hybu Llyn Alaw. Mae gan Dŵr Cymru safle ardderchog yn Llyn Brenig.<br>Mae angen hyrwyddo henebion yn well, ynghyd â gwella hygyrchedd.<br>Mae angen marchnata ar gyfer bob tymor.<br>Dylai gweithgareddau morol o bob math gael lle pwysig yn y cynllun. |
| Ymateb Swyddogion | Syniadau pwsig berthnasol i ddatblygiad y cynllun gweithredu. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

***Q13. Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud yr ydych yn meddwl y byddai'n helpu datblygiad parhaus ymagwedd newydd tuag at reoli cyrchfan?***

| | |
|---|---|
| Sylw 35 | Sut i gynnwys llai o draffig, mae hi eisoes yn amhosib parcio mewn sawl lle, mae'r sefyllfa bron yn anghynaliadwy. |
| Ymateb Swyddogion | Bydd rhan o'r cynllun gweithredu'n canolbwyntio ar opsiynau teithio cynaliadwy. Unwaith eto, mae hyn wedi'i gysylltu â'r AHNE. Rydym hefyd yn gweld budd mewn llwybrau hamdden aml-foddol tebyg i Lôn Las Cefni. |
| Newidiad a Awgrymir | Cynnwys opsiynau teithio cynaliadwy o fewn proses y cynllun gweithredu. |

| | |
|---|---|
| Sylw 36 | Fel y nodwyd yn flaenorol, mae angen cymorth i fusnesau bach sy'n dibynnu ar dwristiaeth, nid costau ychwanegol fel ardollau a phremiymau treth gyngor. |
| Ymateb Swyddogion | Os caiff ei reoli'n iawn, bydd unrhyw ardoll neu gynllun trwyddedu'n gallu bod o fudd i'r sector twristiaeth trwy ail-fuddsoddi mewn anghenion o safbwynt isadeiledd, gwelliannau o ran hygyrchedd, deunydd dehongli a marchnata er enghraifft. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim – cynllun gweithredu. |

| | |
|---|---|
| Sylw 37 | Fel y nodwyd yn flaenorol, mae angen cymorth i fusnesau bach sy'n dibynnu ar dwristiaeth, nid costau ychwanegol fel ardollau a phremiymau treth gyngor. |
| Ymateb Swyddogion | Wedi'i reoli'n gywir, gall unrhyw gynllun ardoll neu drwyddedu fod o fudd i'r sector twristiaeth drwy ailfuddsoddi i anghenion is-strwythurol, gwella mynediad, dehongli a marchnata er enghraifft. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |
| Sylw 38 | Rwy'n credu y byddai ehangu cwmpas y mathau o randdeiliaid yn syniad da yn ogystal ag ymgysylltu â'r ymwelwyr neu'r rhai nad ydynt yn ymwelwyr (i fynd i'r afael â thuedd cadarnhau) yn gamau da. |
| Ymateb Swyddog | Cytuno a dyma fwriad y CRhC newydd – mae angen iddo gael ystod ehangach o randdeiliaid. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Addasiad a awgrymir | Dim ond sylw wedi ei nodi |

DRAFT

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **18fed Gorffennaf 2023** |
| Pwnc / Testun: | **Gwella dibynadwyedd a chydnerthedd ar draws y Fenai** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cyng. Llinos Medi (Datblygu Economaidd) a'r Cyng. Dafydd Rhys Thomas (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Christian Branch**<br>**Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**<br>**Huw Percy**<br>**Pennaeth Gwasanaeth – Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Tudur H. Jones**<br>**2146**<br>**tudurjones@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol | **Yn berthnasol i bob Aelod Lleol** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**Argymhellion:**
**Bod y Pwyllgor Gwaith:**

1) **Yn cymeradwyo'r adroddiad a'i gasgliad na ddylai Llywodraeth Cymru ystyried mai prosiect ffordd syml yw Croesfan y Fenai, ynghyd â mabwysiadu safbwynt cadarnhaol o ran polisi sy'n cydnabod yr angen hanfodol i wella dibynadwyedd a chydnerthedd croesfannau'r Fenai.**
2) **Yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr gyflwyno sylfaen dystiolaeth y Cyngor i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru cyn y dyddiad cau ar Orffennaf 28ain.**

Mae Datganiad Cynnydd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (CTGC) yn Ionawr 2023 yn cydnabod bod Gogledd Cymru'n ddibynnol ar gerbydau preifat. Mae'n nodi…

*Ar hyn o bryd, mae diffyg dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy deniadol neu realistig yn hytrach na'r cerbyd preifat ar gyfer teithiau gan drigolion, gweithwyr, ac ymwelwyr yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn cyfrannu at ddibyniaeth ar gerbydau preifat a chyfyngu cysylltiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.*

O safbwynt Ynys Môn, mae'r sefyllfa'n hyd yn oed gwaeth. Mae'r tagfeydd a'r diffyg cydnerthedd o ran croesfannau'r Fenai yn cael effaith ddifrifol o ran y modd y maent yn cyfyngu ar gysylltiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol â gweddill y wlad. Yn waeth na hynny, mae'n rhwystro gallu'r ynys i ddenu'r busnesau a'r gweithgaredd economaidd y mae eu hangen arni i leihau cylch o golli swyddi, llai o gyflogaeth ar yr ynys, ynghyd â chynyddu dibyniaeth ar swyddi oddi ar yr ynys.

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Bydd penderfyniad Llywodraeth Cymru, fel yr argymhellwyd gan y Panel Adolygu Ffyrdd, i ganslo'r cynnig arfaethedig ar gyfer Trydedd Groesfan y Fenai yn dwysáu'r heriau a wynebir gan economi'r ynys ac yn atal camau i roi polisïau allweddol ar waith yn llwyddiannus, sy'n ceisio ailadeiladu ei sylfaen gyflogaeth a lleihau'r angen i'w phreswylwyr orfod gadael yr ynys i weithio.

Gwnaed gwaith brys ar Bont Menai yn ddiweddar oherwydd ei hoed, a arweiniodd at lai o gapasiti o ganlyniad i orfod ei chau'n rhannol neu'n gyfan gwbl. Yr oedd ar gau'n ddiweddar am gyfnod o 5 mis rhwng 21ain Hydref 2022 a 2il Chwefror 2023. Mae angen cynnal archwiliadau bob chwe wythnos i wirio'r gwaith hwn. O ganlyniad i orfod cau'r bont, cafwyd sawl adroddiad ynghylch yr 'anrhefn lwyr' https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/complete-chaos-menai-bridge-closure-25354509 a effeithiodd ymwelwyr, preswylwyr a busnesau.

Yn anffodus, ym mis Mai 2023, cafwyd gwrthdrawiad angheuol ar y ffordd ger Pont Britannia. Arweiniodd hyn at gau'r bont o 03:00 tan 12:35 ac roedd effeithiau hyn ar breswylwyr Ynys Môn yn sylweddol, gan gynnwys myfyrwyr Ysgol David Hughes a oedd yn sefyll arholiadau allanol pwysig. Cafwyd problemau eilaidd ehangach hefyd o ran gwyro traffig trwy Lanfairpwll, a oedd wedi gorfodi pob cerbyd i fynd ar yr hen A5, nad yw mwyach yn addas i'r diben ar gyfer cymaint o gerbydau a'u holl amrywiaeth o ran math.

Mae cysylltedd gwael a diffyg dibynadwyedd y rhwydwaith ffyrdd, yn ogystal â thagfeydd cynyddol, yn cael effaith negyddol ar atyniad Ynys Môn o ran denu buddsoddiad a chael busnesau i leoli eu hunain yma. Mae hyn yn cyfyngu ar dwf economaidd yn gyffredinol. Ond, yn arbennig, gallai rhwydwaith ffyrdd annibynadwy effeithio safle Ynys Môn fel y lleoliad gorau ar gyfer buddsoddiad yn y diwydiant niwclear, yn ogystal â chystadleurwydd Porthladd Caergybi, a ddynodwyd yn Borthladd Rhydd yn ddiweddar. Ceir perygl gwirioneddol na fydd y Porthladd Rhydd yn gallu gwneud y gorau o'i effeithiolrwydd, o ganlyniad i'r ansicrwydd a'r diffyg cydnerthedd a gynigir gan y rhwydwaith trafnidiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (CTGC) sydd wedi rhyddhau ei adroddiad interim (y ddolen ar ei gyfer yw https://www.gov.wales/north-wales-transport-commission-interim-report-june-2023) ond byddant yn croesawu rhagor o dystiolaeth hyd at 28ain Gorffennaf 2023, cyn cyflwyno eu hargymhellion terfynol. Mae'n hollbwysig i'r Cyngor gyfrannu at yr adroddiad hwn a dylanwadu ar ei ganlyniad.

I'r perwyl hwnnw, comisiynwyd Quod gan y Cyngor Sir i baratoi sylfaen dystiolaeth fanwl i gefnogi cyflwyniad y Cyngor Sir i CTGC ynghylch yr angen am well croesfan aml-ddull ar draws y Fenai.

Mae'r sylfaen dystiolaeth hon (gweler Atodiadau A a B), sy'n ymateb yn uniongyrchol i Gylch Gorchwyl CTGC (dolen Cylch Gorchwyl: Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru | GOV.WALES), wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

1. Ynys Môn yn ei chyd-destun - trosolwg o ddaearyddiaeth Ynys Môn, disgrifiad o ddwy groesfan y Fenai ynghyd â phatrymau cymudo cyffredinol.

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|
| 2. Patrymau teithio presennol rhwng Ynys Môn a'r tir mawr - trosolwg o'r tagfeydd ar draws y ddwy bont bresennol, ynghyd â chymhariaeth rhwng cerbydau preifat, trafnidiaeth gyhoeddus a beicio fel dull cymudo o amgylch yr ynys ac oddi arni.<br>3. Mae gwneud dim yn gwaethygu'r heriau economaidd gymdeithasol – disgrifiad o'r heriau economaidd gymdeithasol sy'n bodoli eisoes, ynghyd â'u cysylltiadau â mynediad dibynadwy a chydnerth i Ynys Môn o'r tir mawr.<br>4. Polisïau a chydweddiad strategol - gwerthusiad o'r modd y mae gwella dibynadwyedd a chydnerthedd ar draws y Fenai yn cydweddu ag amryw bolisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.<br>5. Dyfodol Ynys Môn o safbwynt economaidd - trosolwg o'r prosiectau sydd wedi'u cynllunio ym Môn i wella ei hamodau economaidd, ynghyd â'r modd y maent yn ddibynnol ar fynediad dibynadwy a chydnerth i Ynys Môn o'r tir mawr.<br>6. Manteision trydedd groesfan – crynodeb byr o'r modd y mae manteision Trydedd Groesfan dros y Fenai yn ymestyn y tu hwnt i'r rheiny o ran arbed amser.<br><br>Gellir crynhoi canfyddiadau allweddol y sylfaen dystiolaeth fel a ganlyn:<br>1. Yn ddiamau, ceir diffyg cydnerthedd o ran y sefyllfa bresennol sy'n cael effaith negyddol sylweddol ar draws yr holl agweddau o ran iechyd, addysg, yr economi, preswylwyr, ymwelwyr, mynediad i'r Porthladd a diwylliant.<br>2. Mae hyn yn fater ehangach na dim ond yr angen i wneud arbedion o ran amseroedd teithio.<br>3. Mae'r diffyg cydnerthedd yn arwain at bryderon o ran diogelwch a dibynadwyedd.<br>4. Mae'r diffyg o ran dulliau teithio hyfyw eraill - fel bysiau, y rheilffyrdd, cerdded, beicio - wedi arwain at nifer uchel o bobl yn berchen ar geir preifat, a hwn yw'r unig opsiwn gwirioneddol ar Ynys Môn.<br>5. Bydd dynodiad y Porthladd Rhydd, yr Ynys Ynni a MSParc yn sbarduno arloesedd a gwir botensial o ran creu cyfleoedd ar gyfer swyddi uchel eu gwerth.<br><br>Roedd canfyddiadau adroddiad interim CTGC ym Mehefin 2023 wedi amlygu'r opsiynau isod fel rhai a allai fod yn bosibl:<br><br>• Tair lôn dros Bont Britannia, neu drefniant 'llif llanw'.<br>• Ad-drefnu cyffyrdd yr A55 wrth ymyl Pont Britannia.<br>• Darpariaeth ar gyfer teithio llesol ar Bont Britannia.<br>• Blaenoriaeth ar gyfer teithio llesol ar Bont Menai.<br>• Blaenoriaeth i deithio llesol a bysiau ar y pontydd.<br>• Taflwyr gwynt ar Bont Britannia<br><br>Fodd bynnag, mae CSYM wedi ystyried yr opsiynau hyn yn flaenorol ac mae cyngor o'r farn na fydd yr opsiynau hyn yn ddigonol i fynd i'r afael â'r problemau o ran cydnerthedd a dibynadwyedd. |

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|
| Mae cydnerthedd a dibynadwyedd croesfan y Fenai yn mynd y tu hwnt i ddim ond manteision yng nghyswllt trafnidiaeth, mae'n fwy na dim ond cynllun ffordd syml, ac yn gofyn am sylw o fewn cyd-destun strategol ehangach, a mwy hirdymor.<br><br>Trwy gyflwyno'r sylfaen dystiolaeth hon, gobeithir y bydd y Comisiwn yn cael dealltwriaeth well o'r problemau parhaus o ran y modd y mae diffyg rhwydwaith trafnidiaeth cydnerth, yn ogystal â diffyg opsiynau cynaliadwy o ran trafnidiaeth, yn cael effaith negyddol ar Ynys Môn a'i phreswylwyr, o safbwynt effeithiau economaidd, ac o ran iechyd, addysg, effeithiau cymdeithasol, ac o ran hamdden ac etifeddiaeth o safbwynt buddsoddi. |
| |

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Nid yw gwneud dim yn opsiwn – o ystyried y materion hanesyddol o ran cydnerthedd y groesfan i'r tir mawr, rhaid i'r Cyngor gyflwyno'r dystiolaeth gryfaf bosibl i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae sicrhau cefnogaeth ffurfiol a chymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith yn bwysig o ystyried pwysigrwydd y testun dan sylw, ynghyd â'r lefel uchel o ddiddordeb yn y mater o safbwynt rhanddeiliaid lleol.<br><br>Mae hyn hefyd yn adeiladu ar drafodaethau blaenorol a gynhaliwyd, gan gynnwys hynny yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 23ain Mai 2023 https://democracy.anglesey.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=127&MId=4173&Ver=4&LLL=0 |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi. |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Nac ydi – nid oes unrhyw effaith ar y gyllideb. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / | Nac ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| | dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Naddo |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amherthnasol |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y Amh. 3 F1.3: Ebrill 2021 rhai sy'n profi anfantais economaiddgymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Dim sylw |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Dim sylw |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Dim sylw |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F – Atodiadau: |
|---|
| Gwella dibynadwyedd a chydnerthedd ar draws y Fenai; Sylfaen dystiolaeth fanwl<br>Gwella dibynadwyedd a chydnerthedd ar draws y Fenai; Canfyddiadau Allweddol |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
| --- |
| |

Ynys Môn
THE ISLE OF
Anglesey

# Gwella dibynadwyedd a chydnerthedd ar draws y Fenai

## Sylfaen dystiolaeth fanwl

Mehefin 2023

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales

# Cynnwys

1 Pwrpas y ddogfen hon ___ 3
2 Cyflwyniad ___ 4
3 Ynys Môn yn ei chyd-destun ___ 8
4 Patrymau teithio presennol rhwng Ynys Môn a'r tir mawr ___ 17
5 Mae gwneud dim yn gwaethygu'r heriau economaidd gymdeithasol ___ 31
6 Polisïau a chydweddiad strategol ___ 39
7 Dyfodol economaidd Ynys Môn ___ 48
8 Manteision trydedd groesfan ___ 54

Ffigur 3-1 Lleoliad ymylol Ynys Môn yng nghyd-destun Cymru ___ 10
Ffigur 3-2: Map o gyfleusterau cymunedol ac addysgol ___ 11
Ffigur 3-3: Preswylwyr sy'n cymudo oddi ar yr ynys ___ 14
Ffigur 3-4: Cyrchfannau yng Nghymru ___ 15
Ffigur 3-5: Patrymau cymudo o Gaergybi ___ 16
Ffigur 4-1: A55 – Traffig Dyddiol Blynyddol Cyfartalog Pont Britannia ___ 18
Ffigur 4-2: Traffig Dyddiol Blynyddol Cyfartalog cylchfan y B5420 a Phorthaethwy ___ 18
Ffigur 4-3: Traffig arferol yn ystod amser brig y bore (08:00-09:00 o'r gloch) ar y ddwy bont ___ 19
Ffigur 4-4: Traffig arferol yn ystod amser brig y prynhawn (16:00-17:00 o'r gloch) ar y ddwy bont 20
Ffigur 4-5: Cyfanswm yr unedau o draffig drwy'r porthladd (pob math o gerbyd) ym Mhorthladd Caergybi, fesul blwyddyn (miloedd) ___ 21
Ffigur 4-6: Amseroedd cyrraedd a gadael y porthladd ar ddiwrnod arferol ym Mhorthladd Caergybi ___ 21
Ffigur 4-7: Gyrru o gymharu â defnyddio Bws o Amlwch ___ 23
Ffigur 4-8: Gyrru o gymharu â defnyddio bws o Gaergybi ___ 23
Ffigur 4-9: Gyrru o gymharu â defnyddio bws o Langefni ___ 24
Ffigur 4-10: Gyrru o gymharu â defnyddio bws o Borthaethwy ___ 24
Ffigur 4-11: Dull teithio i'r gwaith ar Ynys Môn ___ 26
Ffigur 4-12: Teithiau 30 munud o ganol y prif drefi ___ 28
Ffigur 4-13: Dalgylch teithiau beic o 2.9 milltir o brif drefi Ynys Môn ___ 29
Ffigur 5-1: Dwysedd swyddi ar Ynys Môn ___ 32
Ffigur 5-2: Cyflogaeth ar Ynys Môn yn ôl diwydiant, o gymharu â Chymru a Lloegr ___ 35
Ffigur 5-3: Twf Gwerth Ychwanegol Gros (GYG/GVA) Ynys Môn o gymharu â Chymru (Wedi'i fynegeio, 100=1998) ___ 36
Ffigur 5-4: Y newid ym mhroffil oedran poblogaeth Ynys Môn rhwng 2011 a 2021 ___ 38
Ffigur 7-1: Twristiaid ar Ynys Cybi, 2022 ___ 52

Tabl 3-1: Mae Ynys Môn wedi parhau i fod yn ardal wledig yn bennaf ___ 8
Tabl 3-2: Mae dwysedd poblogaeth a chyflogaeth Ynys Môn yn isel o gymharu â Chymru ___ 9
Tabl 3-3: Problemau o ran Pont Menai a Phont Britannia ___ 11
Tabl 3-4: Allgymudo o Ynys Môn ___ 13
Tabl 5-1: Gweithgaredd economaidd (preswylwyr 16+, Cyfrifiad 2021) ___ 32
Tabl 5-3: Cyflogau canolrifol yng Nghymru (o gymharu â'r sector blaenllaw) ___ 35

# 1 Pwrpas y ddogfen hon

1.1 Mae'r ddogfen hon yn sylfaen dystiolaeth fanwl i gefnogi cyflwyniad Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (CTGC) ynghylch yr angen am groesfan aml-ddull dros y Fenai. Codwyd canfyddiadau allweddol o'r sylfaen dystiolaeth at ddibenion y cyflwyniad.

1.2 Lluniwyd y sylfaen dystiolaeth fanwl hon gan Quod, sef ymgynghoriaeth economeg a chynllunio arbenigol ar ran Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM).

# 2 Cyflwyniad

2.1 Mae Datganiad Cynnydd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru yn Ionawr 2023 yn cydnabod bod Gogledd Cymru'n ddibynnol ar gerbydau preifat.

*Ar hyn o bryd, mae diffyg dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy deniadol neu realistig yn hytrach na'r cerbyd preifat ar gyfer teithiau gan drigolion, gweithwyr, ac ymwelwyr yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn cyfrannu at ddibyniaeth ar gerbydau preifat a chyfyngu cysylltiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol*[1]

2.2 O safbwynt Ynys Môn, mae'r sefyllfa'n hyd yn oed gwaeth. Mae'r tagfeydd a'r diffyg cydnerthedd o ran croesfannau'r Fenai yn cael effaith ddifrifol o ran y modd y maent yn cyfyngu ar gysylltiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol â gweddill y wlad. Yn waeth na hynny, mae'n rhwystro gallu'r ynys i ddenu'r busnesau a'r gweithgaredd economaidd y mae eu hangen arni i leihau cylch o golli swyddi, llai o gyflogaeth ar yr ynys, ynghyd â chynyddu dibyniaeth ar swyddi oddi ar yr ynys.

2.3 Bydd penderfyniad Llywodraeth Cymru, fel yr argymhellwyd gan y Panel Adolygu Ffyrdd, i ganslo'r cynnig arfaethedig ar gyfer Trydedd Groesfan y Fenai[2] yn dwysáu'r heriau a wynebir gan economi'r ynys ac yn atal camau i roi polisïau allweddol ar waith yn llwyddiannus, sy'n ceisio ailadeiladu ei sylfaen gyflogaeth a lleihau'r angen i'w phreswylwyr orfod gadael yr ynys i weithio.

2.4 Lluniwyd yr adroddiad hwn gan CSYM i nodi'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael, ynghyd â goblygiadau peidio â gwneud dim o safbwynt economaidd a chymdeithasol, ynghyd â manteision y groesfan ychwanegol.

2.5 Nid yw gwneud dim yn golygu cadw pethau fel ag y maent – mae'n debygol o olygu rhagor o golledion o ran swyddi ar yr ynys, ynghyd â cholli cyfleoedd unigryw ym maes ynni carbon isel a thwristiaeth a fydd yn codi yn y ddegawd nesaf.

### Y cyd-destun ar gyfer yr adroddiad

2.6 Yn 2016, lluniwyd Achos Amlinellol Strategol (SOC) gan AECOM ar gyfer Trydedd Groesfan y Fenai.

2.7 Roedd y SOC yn nodi'r problemau allweddol sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa deithio bresennol. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â thagfeydd a gyrrwyr yn ceisio cymryd llwybrau cyflym ('rat-running') (a effeithir gan yr angen i deithio'n ôl ac ymlaen i'w gwaith, prysurdeb cyfnodau gwyliau, a thraffig cludo nwyddau), ynghyd â diffyg cydnerthedd y rhwydwaith o ganlyniad i ofynion o ran diogelwch a gorfod cau'r pontydd o ganlyniad i hynny.

2.8 Mae cysylltiadau gwael a phroblemau o ran cydnerthedd y rhwydwaith ffyrdd, yn ogystal â thagfeydd cynyddol, yn cael effaith negyddol ar allu Ynys Môn i ddenu buddsoddiad a chael

---

[1] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-01/nwtc-progress-statement-final.pdf
[2] https://www.gov.wales/programme-future-road-investment-html

busnesau i leoli yno. Mae hyn yn cyfyngu twf economaidd yr ardal yn gyffredinol ond, yn and dim, gallai rhwydwaith ffyrdd annibynadwy effeithio sefyllfa Ynys Môn fel y lleoliad gorau oll ar gyfer buddsoddiad gan y diwydiant niwclear, yn ogystal â chystadleurwydd Porthladd Caergybi (sydd wedi'i ddynodi'n ddiweddar fel Porthladd Rhydd a fydd yn gallu cynnal hyd at 13,000 o swyddi a £1bn o dwf economaidd).

2.9 I grynhoi, roedd Achos Strategol y SOC wedi canfod y byddai opsiwn 'Gwneud Dim' yn annerbyniol. Byddai peidio â mynd i'r afael â'r problemau presennol a'r twf a ragwelir o ran traffig yn risg mawr i dwf ac adfywiad economaidd Ynys Môn.

2.10 Ymhlith yr effeithiau a nodwyd o safbwynt gwneud dim y mae[3]:

- Mwy o dagfeydd traffig ar y pontydd presennol, o ganlyniad i dwf o 9% a ragwelir o ran nifer y teithiau car ar hyd a lled Gogledd Cymru rhwng 2015 a 2030.
- Arallgyfeirio masnach i ffwrdd o Borthladd Caergybi, o ganlyniad i fantais gymharol llwybrau dosbarthu nwyddau eraill.
- Colli cystadleurwydd economaidd, sy'n golygu bod busnesau'n lleoli eu hunain mewn mannau eraill.
- Tagfeydd sy'n gwneud lleoedd yn llai hygyrch i breswylwyr lleol, gan gynnwys ar gyfer manteisio ar gyfleoedd gwaith a defnyddio gwasanaethau arferol.
- Mae tagfeydd yn amharu ar atyniad yr ardal i dwristiaid, sy'n arwain at golled o ran gwariant gan ymwelwyr.

2.11 Daeth y SOC i'r casgliad y byddai trydedd groesfan yn dyblu capasiti'r A55, yn gwella amseroedd teithio (a pha mor ddibynadwy ydynt), yn gwella hygyrchedd ac ansawdd gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr nad ydynt yn defnyddio ceir, yn ogystal ag yn lleihau amlder a difrifoldeb damweiniau[4].

2.12 Ymhlith manteision ychwanegol gwella cydnerthedd croesfannau'r Fenai y mae:

- Manteision cymdeithasol fel cynhwysiant cymdeithasol, gwella ffitrwydd corfforol a mynediad haws at ddibenion gwaith, addysg, iechyd a gweithgareddau hamdden.
- Manteision amgylcheddol o ganlyniad i lai o giwio a segura sy'n golygu bod cerbydau'n fwy effeithlon ac yn creu llai o allyriadau, ynghyd â mwy o bobl yn defnyddio dulliau teithio llesol oherwydd y ddarpariaeth o gyfleusterau neilltuedig.
- Hybu atyniad yr ynys i ymwelwyr gan mai twristiaeth yw un o'r sectorau cyflogaeth mwyaf ar Ynys Môn.
- Cefnogi cyfleoedd cyflogaeth trwy fuddsoddiad mewnol o ganlyniad i ddynodiad diweddar Ynys Môn o ran y Porthladd Rhydd, ynghyd â Rhaglen Ynys Ynni Môn.

2.13 Fodd bynnag, ar 14 Chwefror 2023, roedd y Panel Adolygu Ffyrdd wedi cynghori Llywodraeth Cymru i stopio'r gwaith datblygu ar gyfer Trydedd Groesfan y Fenai, a derbyniwyd hynny gan Lywodraeth Cymru.[5] Daeth y panel i'r casgliad nad yw'r achos dros y cynllun yn cydweddu'n dda â nod Llywodraeth Cymru i leihau'r milltiroedd a deithir mewn ceir, er bod y panel yn

[3] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-01/180309atisn12021doc1_0.pdf
[4] Ibid.
[5] https://www.gov.wales/programme-future-road-investment-html

cydnabod bod tagfeydd a diffyg cydnerthedd y croesfannau yn gwneud Ynys Môn yn llai deniadol ar gyfer buddsoddiad, sy'n cyfyngu ar ei photensial at y dyfodol o safbwynt economaidd. Mae manteision y Groesfan yn cysylltu'n uniongyrchol â sawl polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Trafodir y rhain ymhellach yn Adran 6.

2.14 Mae gan y cynllun Gymhareb Cost a Budd (BCR) da o rhwng 1.8 a 2.2[6] , gyda 90% o gyfanswm y manteision yn deillio o arbedion o ran amser teithio. Mae'n debygol bod y BCR hon wedi'i thanddatgan oherwydd:

- Na chafodd y manteision o ran cydnerthedd a dibynadwyedd eu canfod yn llwyr.
- Mae'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yn tanbrisio gwerth cludo nwyddau. Porthladd Caergybi yw'r porthladd fferi 'gyrru i mewn ac allan' mwyaf ar ôl Dover.[7]
- Nid yw'r manteision yn nodi'r effeithiau o safbwynt buddsoddiad mewn busnes a newidiadau o ran defnydd tir, e.e. newidiadau o ran tripiau cludo nwyddau.

2.15 Tra bo CSYM yn cefnogi polisïau i gyflawni targedau Sero Net, mae'n anghytuno ag ymagwedd "un ateb sy'n addas i bawb" y panel tuag at leihau nifer y milltiroedd a deithir mewn car ar gyfartaledd, gan nad oes angen lleihau nifer gyfartalog y milltiroedd a deithir mewn cerbyd mewn rhai amgylchiadau. Fel y nododd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru mewn ymateb i ganfyddiadau'r panel:

*… gydag ardaloedd gwledig yn llai poblog, mae'n debygol bod teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn llai ymarferol ar gyfer mwy o deithiau nag yn ardaloedd trefol Cymru…" ac "Felly bydd angen i benderfyniadau a wneir heddiw amrywio yn dibynnu ar yr ardal leol…"*[8]

2.16 Mae Ynys Môn yn ardal wledig. Mae lleihau nifer gyfartalog y milltiroedd a deithir mewn cerbydau yn anodd ac mae dibyniaeth ar ddulliau teithio cyhoeddus a llesol yn her hefyd.

2.17 Mae Ynys Môn hefyd yn ardal ymylol ac wedi'i gwahanu o'r tir mawr. Mae'n cynnwys Porthladd Caergybi, sy'n gysylltiad hanfodol rhwng Gweriniaeth Iwerddon a gweddill Ewrop. Fe'i dynodwyd yn Borthladd Rhydd yn ddiweddar, ac ynghyd â'i gyfleoedd unigryw o safbwynt prosiectau ynni carbon isel, mae'n creu'r potensial ar gyfer cyflogaeth sydd o werth mawr ar yr ynys.

2.18 Mae'r nodweddion uchod yn gwneud Ynys Môn yn unigryw. Nid yw Trydedd Groesfan y Fenai yn gynllun ffordd arferol gan ei fod yn cynnwys manteision ar gyfer Ynys Môn a Chymru o safbwynt economaidd, cymdeithasol, ac o ran cydnerthedd a dibynadwyedd, ac mae'r manteision yn mynd ymhell y tu hwnt i rai arferol o ran arbed amser i ddefnyddwyr y ffordd.

## Strwythur yr adroddiad

2.19 Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

[6] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-02/the-future-road-investment-wales.pdf
[7] https://www.itv.com/news/wales/2019-10-08/holyhead-the-uk-s-second-biggest-ferry-port-absolutely-not-ready-for-a-no-deal-brexit
[8] https://nationalinfrastructurecommission.wales/2023/02/15/reviewing-roads-review/

- **Adran 3: Ynys Môn yn ei chyd-destun** - trosolwg o ddaearyddiaeth Ynys Môn, disgrifiad o ddwy groesfan y Fenai ynghyd â phatrymau cymudo cyffredinol.
- **Adran 4: Patrymau teithio presennol rhwng Ynys Môn a'r tir mawr** - trosolwg o'r tagfeydd ar draws y ddwy bont bresennol, ynghyd â chymhariaeth rhwng cerbydau preifat, trafnidiaeth gyhoeddus a beicio fel dull cymudo o amgylch yr ynys ac oddi arni.
- **Adran 5: Mae gwneud dim yn gwaethygu'r heriau economaidd gymdeithasol –** disgrifiad o'r heriau economaidd gymdeithasol sy'n bodoli eisoes, ynghyd â'u cysylltiadau â mynediad dibynadwy a chydnerth i Ynys Môn o'r tir mawr.
- **Adran 6: Polisïau a chydweddiad strategol** - gwerthusiad o'r modd y mae gwella dibynadwyedd a chydnerthedd ar draws y Fenai yn cydweddu ag amryw bolisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- **Adran 7: Dyfodol Ynys Môn o safbwynt economaidd** - trosolwg o'r prosiectau sydd wedi'u cynllunio ym Môn i wella ei hamodau economaidd, ynghyd â'r modd y maent yn ddibynnol ar fynediad dibynadwy a chydnerth i Ynys Môn o'r tir mawr.
- **Adran 8: Manteision trydedd groesfan –** crynodeb byr o'r modd y mae manteision Trydedd Groesfan dros y Fenai yn ymestyn y tu hwnt i'r rheiny o ran arbed amser.

# 3 Ynys Môn yn ei chyd-destun

3.1 Mae lleoliad ymylol Ynys Môn yn golygu mai ardal wledig yw hon yn bennaf, sy'n brin ei phoblogaeth. Mae nifer y swyddi a'u dwysedd yn isel, hyd yn oed ar gyfer ardal wledig. O ganlyniad, mae'r ardal yn dra dibynnol ar y tir mawr fel ffynhonnell gyflogaeth, ac ar gyfer cyfleusterau allweddol fel ysbyty acíwt a phrifysgol. Mae bron i 40% o breswylwyr Ynys Môn yn cymudo oddi ar yr ynys i weithio, ac mae'r mwyafrif yn byw'n agos i'r ddwy bont bresennol.

3.2 Ynys Môn yw'r unig ardal teithio i'r gwaith (TTWA) yng Nghymru sydd wedi'i gwahanu gan ddŵr. Nid yw mynediad i dir mawr Cymru ond yn bosib dros ddwy groesfan, y mae gan y ddwy broblem o ran dibynadwyedd a chydnerthedd. Mae hyn yn cymhlethu'r sefyllfa ar gyfer preswylwyr, ymwelwyr, busnesau a Phorthladd Caergybi.

3.3 Mae cyfuniad o leoliad ymylol Ynys Môn a'r ffaith ei bod wedi'i gwahanu o dir mawr Cymru yn creu problemau sylweddol i'w chymuned a'i heconomi.

### Trosolwg

3.4 Mae Ynys Môn yn ymestyn dros 67,300 ha o dir. Y dref fwyaf yw Caergybi, a'r mannau allweddol eraill yw trefi Llangefni, Amlwch, Porthaethwy, a Biwmares, ynghyd â phentref Llanfairpwllgwyngyll.

3.5 Mae'n gartref i Borthladd Caergybi hefyd, sef y porthladd Ro-Ro mwyaf ond un yn y DU (ar ôl Dover), a gorsaf bŵer niwclear Wylfa sydd bellach wedi'i datgomisiynu, ynghyd â nifer o safleoedd tir llwyd eraill, fel Aliwminiwm Môn a Rhosgoch.

3.6 Ceir 68,900 o breswylwyr, ynghyd â thua 23,000 o swyddi. Mae 58% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig ar hyn o bryd, ac mae hyn wedi parhau i fod yn gyson ers 2011, fel y dangosir yn Tabl 3-1 isod.

Tabl 3-1: Mae Ynys Môn wedi parhau i fod yn ardal wledig yn bennaf[9]

| | 2011 | 2021 |
|---|---|---|
| Poblogaeth drefol | 28,757 (41%) | 28,837 (42%) |
| Poblogaeth wledig | 40,994 (59%) | 40,037 (58%) |
| Cyfanswm | 69,751 | 68,874 |

3.7 Mae lleoliad ymylol Ynys Môn, a chanddi ddarpariaeth gyfyngedig o ran trafnidiaeth reilffordd a chyhoeddus, yn golygu nad yw ei phoblogaeth mor ddwys â gweddill Cymru, yn nhermau'r boblogaeth breswyl a'r boblogaeth sy'n gweithio. Dangosir y niferoedd yn Ffigur 3-1 a Thabl 3-2 isod.

[9] NOMIS 2023.

Tabl 3-2: Mae dwysedd poblogaeth a chyflogaeth Ynys Môn yn isel o gymharu â Chymru[10]


| | Nifer y preswylwyr | Nifer y preswylwyr fesul cilomedr sgwâr | Cyflogaeth | Cyflogaeth fesul cilomedr sgwâr |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 68,900 | **97** | 23,000 | **32** |
| Cymru | 3,107,500 | 150 | 1,335,500 | 64 |

3.8 Mae poblogaeth Ynys Môn yn 35% yn llai na Chymru, ac o ran dwysedd cyflogaeth, nid yw ond yn hanner hynny ar gyfer Cymru. Dengys hyn:

- Bod nifer uchel yn cymudo oddi ar yr ynys, sy'n gwneud cael croesfan ddibynadwy a chydnerth yn bwysig.
- Mae dulliau teithio cyhoeddus a llesol yn ddewisiadau llai addas ar yr ynys nag yn y mwyafrif o leoedd eraill yng Nghymru.

[10] NOMIS 2023, Business Register and Employment Survey (BRES) 2021.

Ffigur 3-1 Lleoliad ymylol Ynys Môn yng nghyd-destun Cymru




3.9 Ar ben hynny, o ran y cyfleusterau cymunedol agosaf, fel Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys (Ysbyty Gwynedd), gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl brys, dalfa, a chyfleusterau addysg uwch fel prifysgol, fe'u lleolir ar y tir mawr, fel y dengys yn Ffigur 3-2 isod. Mae mynediad i'r cyfleusterau hanfodol hyn yn ddibynnol ar ddibynadwyedd a chydnerthedd y croesfannau presennol dros y Fenai.

Ffigur 3-2: Map o gyfleusterau cymunedol ac addysgol




## Mae gan y ddwy bont eu hanfanteision

3.10 Ar hyn o bryd, ceir dwy bont sy'n cysylltu Ynys Môn â'r tir mawr - yr adeiladwyd y ddwy yn y 1800au:

- Pont Menai yr A5 – rhwng Bangor a Phorthaethwy.
- Pont Britannia yr A55 / E22 Britannia – rhwng Capel-y-graig a Llanfairpwllgwyngyll.

3.11 Pont Britannia yr A55 / E22 yw'r prif lwybr prifwythiennol ym Môn sy'n cysylltu'r tir mawr â Phorthladd Caergybi.

3.12 Oherwydd oed y pontydd a'u meintiau cyfyngedig, mae'r ddwy ar hyn o bryd yn wynebu problemau sylweddol sy'n effeithio ar ddibynadwyedd y rhwydwaith ffyrdd, fel y dengys yn Tabl 3-3 isod:

Tabl 3-3: Problemau o ran Pont Menai a Phont Britannia

| Pont Menai | Pont Britannia |
|---|---|
| Mae angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd oherwydd oed y bont (sy'n bron i 200 oed), sy'n golygu bod llai o gapasiti o ganlyniad i orfod ei chau'n rhannol neu'n gyfan gwbl. Bu ar gau'n ddiweddar am 5 mis rhwng 21 Hydref | Mae'n fwy na 150 oed, a heb gael unrhyw waith cynnal a chadw mawr ers blynyddoedd lawer, ac felly mae mewn perygl o orfod ei chau oherwydd effeithiau'r gwynt, ynghyd â digwyddiadau a damweiniau. |

2022 a 2 Chwefror 2023, ac mae angen cynnal archwiliadau bob chwe wythnos i wirio'r gwaith hwn.[11]

Mae'r adegau y bydd angen eu cau yn effeithio ar y Gwasanaethau Brys - mae'r ysbyty mawr agosaf a chanddi Uned Drawma ar y tir mawr.

Nid oes modd croesi ar feic neu ar droed yn ystod gwyntoedd cryf.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth ddiogel a digonol ar gyfer beicio. Gwaherddir beicwyr rhag defnyddio'r troedffyrdd neilltuedig, sy'n creu pryderon o ran beicwyr ac yn effeithio ar dagfeydd ar gyfer gyrwyr.

Ceir cyfyngiadau o ran y math o gerbydau sy'n gallu cael mynediad i'r bont hon (sef hyd at 7.5 tunnell yn unig), ac mae cyfyngiadau cyflymder 30mya yn effeithio ar wasanaethau bws lleol a symudiadau o ran cludo nwyddau rhwng y tir mawr a Phorthladd Caergybi.

Diffyg cyfleusterau mwy diogel, fel lleiniau caled – cydnerthedd gwael o ran cerbydau brys.

Hon yw'r unig ffordd unffrwd ar Lwybr E22 Rhwydwaith Ffyrdd Ewrop ac mae'n creu tagfeydd sylweddol o ran traffig cymudo ac ar adegau y bydd pobl yn mynd ar eu gwyliau. Mae felly'n fwy agored i ddamweiniau o gymharu â ffyrdd deuol, yn enwedig wrth nesáu at y ffordd unffrwd. Ar draws Cymru yn 2022, cafwyd dros **saith gwaith** cymaint o ddamweiniau ar ffyrdd unffrwd, o gymharu â ffyrdd deuol.[12]

Hon yw'r unig bont sydd ar gael ar gyfer llwythi llydan, uchel ac anarferol.

Cyfyngiadau cyflymder a chyfyngiadau ar feiciau modur, carafanau a beiciau yn ystod gwyntoedd uchel. Dim darpariaeth ddiogel a digonol ar gyfer beiciau. Mae'r bont hon wedi cael sawl achos hysbys o orfod cau o ganlyniad i wyntoedd mawr, o gymharu ag unrhyw ran arall o'r A55, sy'n dangos ei bod yn fwy agored i effeithiau'r gwynt.

Gwaherddir cerddwyr rhag cerdded dros y bont hon.

Yn ystod gwyntoedd uchel iawn (sy'n hyrddio dros 70mya) caiff y bont ei chau'n gyfan gwbl – heb unrhyw lwybr gwyro posibl ar gyfer cerbydau sydd dros 7.5 tunnell, sy'n golygu bod bysiau'n cael eu dal yn yr un ciwiau â cherbydau eraill ac felly'n atal gwasanaethau bws lleol rhag gweithredu. Ers 2017, cafodd y bont hon ei chau ddengwaith. Caiff HGVs eu hailgyfeirio i Barc Cybi yng Nghaergybi i ddisgwyl yno i'r cyfyngiadau gael eu codi. Fodd bynnag, nid oes digon o gapasiti yno, sy'n golygu bod HGVs yn gorfod parcio ar strydoedd preswyl, sy'n creu difrod o ran diogelwch, lles ac isadeiledd.

Cynghorir HGVs sy'n teithio i Ynys Môn oddi ar y tir mawr i stopio a pharcio mewn man diogel ar hyd yr A55, sy'n gallu bod yn beryglus oherwydd diffyg cyfleusterau. Defnyddiwyd Parc Bryn

[11] https://www.gov.wales/a5-menai-bridge-frequently-asked-questions#:~:text=What%20is%20happening%3F,the%20temporary%20work%20was%20completed.
[12] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Transport/Roads/Road-Accidents/Accident-Level-Data

Cegin yn y gorffennol hefyd pan fo angen.[13] Mae hwn yn barc diwydiannol gwag, a hwnnw'n werth miliynau lawer, sy'n ceisio denu busnesau. Mae defnyddio'r lleoliad hwn i barcio HGVs yn golygu bod man diwydiannol yn cael ei ddefnyddio heb gyfle i greu cyflogaeth a hybu'r economi leol.

Pryderon o ran diogelwch: Mae diffyg llain ganol ac agosrwydd y cyffyrdd ar y naill ochr i Bont Britannia i le mae'r ffordd ddeuol yn cyfuno'n ffordd unffrwd yn cynyddu'r risg o wrthdrawiadau. Ers 2017, cafwyd 12 o ddamweiniau difrifol, a dwy ddamwain angheuol. Yn yr achosion hyn, bu rhaid cau'r bont ar gyfer cynnal gwaith adfer ac ymchwiliadau.

3.13 Caiff yr adegau y mae angen cau'r pontydd, ynghyd â'r tagfeydd (a ddisgrifir yn yr adrannau a ganlyn), effeithiau negyddol ar gymunedau lleol (o safbwynt amseroedd teithio, yr effaith ar ansawdd aer, y Gwasanaethau Brys), ynghyd â busnesau lleol a thraffig y porthladd.

## Cymudo a tharddiad a chyrchfannau teithio

### Mae'r niferoedd sy'n allgymudo oddi ar yr ynys yn sylweddol

3.14 Mae lleoliad ymylol Ynys Môn yn golygu bod llawer o'r gyflogaeth yn hunangynhwysol, gyda dros 60% o'r boblogaeth yn gweithio ar yr ynys - mae'n debygol bod ffactorau fel amser a'r gost o gymudo i fannau eraill yn dylanwadu ar hyn. Fodd bynnag, mae dros 37% o breswylwyr sy'n gweithio yn cymudo oddi ar yr ynys, gyda'r mwyafrif yn gweithio mewn mannau eraill yng Nghymru (33%), fel y dengys yn Nhabl 3-4 isod.

Tabl 3-4: Allgymudo o Ynys Môn

| | | **Preswylwyr ym Môn sy'n cymudo** |
|---|---|---|
| Yn gweithio | Ar Ynys Môn | 63% |
| | Mewn mannau eraill yng Nghymru | 33% |
| | Oddi ar yr ynys (gan gynnwys mewn mannau eraill yn y DU) | 37% |

3.15 Mae nifer y rheiny sy'n cymudo i weithio ar Ynys Môn yn gryn dipyn yn is, dim ond 17% o'r rheiny sy'n gweithio ar Ynys Môn sy'n dod o'r tir mawr (Tabl 3-5 isod). Mae'r rhan fwyaf o'r symudiadau hyn yn tarddu o fannau eraill yng Nghymru, yn enwedig o Wynedd.

[13] https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/what-happens-britannia-bridge-closes-25330542


Tabl 3-5: Cymudo i Ynys Môn

| | | **Gweithwyr Gogledd Ynys Môn** |
|---|---|---|
| Yn byw | Ar Ynys Môn | 83% |
| | Mewn mannau eraill yng Nghymru | 15% |
| | Oddi ar yr ynys (gan gynnwys mewn mannau eraill yn y DU) | 17% |

Mae'r mwyafrif o'r cymudwyr sy'n byw oddi ar yr ynys yn byw'n agos i'r pontydd…

3.16 Mae'r mwyafrif o'r cymudwyr sy'n byw ar hyd a lled Ynys Môn yn teithio i'r tir mawr, fodd bynnag, ar y cyfan, maent yn byw mewn ardaloedd sy'n agos i'r ddwy bont, sy'n gymysgedd o ardaloedd gwledig a threfol. Mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd fel Llangefni, Llanfairpwllgwyngyll, Porthaethwy a Biwmares. Dengys hyn yn Ffigur 3-3 isod, yn lle mae'r mannau pinc yn dynodi ardaloedd trefol, a'r rhai gwyrdd yn ardaloedd gwledig.

Ffigur 3-3: Preswylwyr sy'n cymudo oddi ar yr ynys




3.17 Dengys Ffigur 3-3 uchod hefyd bod nifer sylweddol o breswylwyr yn byw yn eithafoedd trefol yr ynys, fel Amlwch a Chaergybi, sydd hefyd yn cymudo i'r tir mawr, ac felly'n ddibynnol ar y ddwy bont bresennol.

3.18 Fel y nodwyd yn flaenorol yn Nhabl 3-1, ac fel y dangoswyd yn Ffigur 3-2 uchod, ardal wledig yw Ynys Môn yn bennaf. Yng Ngogledd Cymru, yn yr ardaloedd mwy trefol, ceir cyfran uwch o deithiau byr sy'n llai na 5 cilomedr, ac ar Ynys Môn ceir y gyfran isaf o deithiau o dan 15 cilomedr (61-64%) yng Ngogledd Cymru.[14] Mae hyn yn golygu bod cymudwyr yn teithio'n bell i gael mynediad i'r tir mawr, yn enwedig o ardaloedd gwledig.[15]

### …ac yn teithio o Wynedd yn bennaf

3.19 Tra bo preswylwyr Ynys Môn yn cymudo i leoliadau ar hyd a lled y tir mawr, i Wynedd a Bangor y byddant yn teithio'n bennaf, fel y dengys yn Ffigur 3-3 uchod a Ffigur 3-4 isod. Mae hyn hefyd yn alinio â chanfyddiadau Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, bod symudiadau yn ôl ac ymlaen i Fangor yn bwysig.

Ffigur 3-4: Cyrchfannau yng Nghymru





3.20 Y diwydiannau mwyaf blaenllaw yng Ngwynedd yw gweithgareddau ym maes iechyd pobl a'r gwasanaethau cymdeithasol, y fasnach gyfanwerthu a manwerthu, ac addysg (Coleg Menai a

[14] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-01/nwtc-progress-statement-final.pdf
[15] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-01/nwtc-progress-statement-final.pdf

Phrifysgol Bangor ym Mangor). Felly, mae'n debygol bod preswylwyr Ynys Môn yn cymudo i weithio o fewn y diwydiannau hyn yng Ngwynedd.

Ffigur 3-5: Patrymau cymudo o Gaergybi[16]




3.21 Dengys Ffigur 3-5 uchod ymhellach y patrymau cymudo o dref fwyaf Ynys Môn, sef Caergybi. Er lleoliad ymylol Caergybi, gwelir bod nifer fawr o breswylwyr sy'n gweithio yn cymudo i'r tir mawr ac i Fangor.

3.22 Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu achos am drydedd groesfan dros y Fenai trwy asesu'r patrymau teithio ar draws y ddwy bont bresennol, ynghyd â'r effeithiau economaidd gymdeithasol cyfatebol ar Ynys Môn a Chymru, a'r DU.

---

[16] DataShine Commute 2023. Data: ONS, Data Cyfrifiad 2011

# 4 Patrymau teithio presennol rhwng Ynys Môn a'r tir mawr

4.1 Mae llif y traffig dros Bont Britannia wedi cynyddu dros amser, ond wedi lleihau ar Bont Menai oherwydd gostyngiad yn nifer y HGVs a chyfyngiad pwysau diweddar o 7.5 tunnell. Ceir tagfeydd gweladwy ar y ddwy bont ac yn eu cyffiniau yn ystod yr oriau brig yn y bore a diwedd y prynhawn. Gwaethygir y tagfeydd ymhellach o ganlyniad i draffig sy'n teithio'n ôl ac ymlaen o Borthladd Caergybi, o ystyried pwysigrwydd y porthladd hwn fel porth rhwng Gweriniaeth Iwerddon a gweddill y DU.

4.2 Y prif ddull o deithio o amgylch Ynys Môn ac ar gyfer cymudo oddi ar yr ynys yw cerbyd preifat. Mae hyn oherwydd cost, diffyg dibynadwyedd ac amseroedd teithio trafnidiaeth gyhoeddus o gymharu â cherbyd preifat.

## Tagfeydd ar draws y pontydd

### Mae llifau traffig dyddiol ar draws Pont Britannia yn uchel

4.3 Yr A55 yw'r llwybr strategol allweddol ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n rhedeg o Gaergybi i Gaer. Tra bo'r rhan fwyaf o'r llwybr o safon traffordd, mae'r rhan sy'n mynd ar draws Pont Britannia yn ffordd unffrwd.

4.4 Gan nad oes unrhyw lwybrau amgen i fynd yn ôl ac ymlaen i'r ynys, mae'r traffig dyddiol cyfartalog ar y ddwy bont yn uchel. Roedd y data mwyaf diweddar wedi cofnodi tua 42,000 o gerbydau ar draws y ddwy bont ar ddiwrnod arferol yn 2021. Hyd yma, nid yw'r traffig wedi codi i'r lefelau a gafwyd cyn y pandemig, a oedd yn gryn dipyn yn uwch – gyda chyfartaledd o 52,000 o gerbydau yn teithio ar draws y ddwy bont yn ddyddiol.


4.5 Fel y dengys yn Ffigur 4-1 a Ffigur 4-2, gwelwyd tuedd ar i fyny yn niferoedd yr holl gerbydau modur a HGVs ar y ddwy bont rhwng 2000 a 2008. Efallai bod y gostyngiad dilynol mewn niferoedd yn ganlyniad dirwasgiad 2008.

4.6 Ar Bont Britannia, dechreuodd niferoedd y cerbydau gynyddu unwaith eto yn 2012, a arweiniodd at gynnydd o 28% yn y traffig rhwng 2012 a 2019.


4.7 Mae Pont Menai yn gwasanaethu poblogaeth fwy lleol, a hithau'n cysylltu Porthaethwy a Bangor â ffordd unffrwd. Roedd gostyngiad o 60% yn niferoedd y HGVs 2 echel yn 2010 wedi arwain at gwymp sylweddol yn nifer y cerbydau a oedd yn croesi'r bont hon.[17] Yn fwy diweddar, cyfyngwyd pwysau'r cerbydau a ganiateir dros y bont i 7.5 tunnell.

[17] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-01/180309atisn12021doc1_0.pdf

Ffigur 4-1: A55 – Traffig Dyddiol Blynyddol Cyfartalog Pont Britannia[18]




Ffigur 4-2: Traffig Dyddiol Blynyddol Cyfartalog cylchfan y B5420 a Phorthaethwy[19]




[18] DfT, AADT data: https://roadtraffic.dft.gov.uk/local-authorities/9
[19] Ibid.

Mae tagfeydd ar draws y ddwy bont ac yn eu cyffiniau yn ystod oriau brig yn achosi oedi o ran amseroedd teithio

4.8 Mae'r tagfeydd ar draws y ddwy bont yn drwm yn ystod oriau brig dyddiau'r wythnos yn y bore (08:00-09:00 o'r gloch) ac ar ddiwedd y prynhawn (16:00-17:00), fel y dengys yn Ffigur 4-3 a Ffigur 4-4 isod. Mae'r traffig yn drymach yng nghyfeiriad y tir mawr yn ystod amser brig y bore, ac i'r gwrthwyneb, mae'n drymach i gyfeiriad Ynys Môn yn ystod yr amser brig ddiwedd y prynhawn.

4.9 Ceir oediadau sylweddol yn ystod yr oriau brig yn y bore a diwedd y prynhawn. Amcangyfrifir bod teithio o Gyffordd 7 yr A55 yng Ngaerwen i Bont Britannia tua'r dwyrain yn cymryd llai na 10 munud ar adegau tawel. Fodd bynnag, ar y dyddiau prysuraf yn ystod oriau brig y bore (08:00-10:00 o'r gloch), gall y daith hon gymryd hyd at 35 munud.[20]


4.10 I'r gwrthwyneb, effeithir ar oriau teithio o Gyffordd 10 yr A55 ym Mangor i Bont Britannia tua'r gorllewin gan dagfeydd yn ystod yr oriau brig ar ddiwedd y prynhawn (15:00-17:00 o'r gloch). Ar adegau tawel, yr amser teithio ar gyfer y rhan hon o'r llwybr yw 5 munud, ond mae'n cynyddu i 15 munud yn ystod yr oriau brig ar ddiwedd y prynhawn.[21]

Ffigur 4-3: Traffig arferol yn ystod amser brig y bore (08:00-09:00 o'r gloch) ar y ddwy bont[22]




20 Traffig Cymru, Cynllunio Siwrneiau ar Bont Britannia yr A55. 2023
21 Ibid.
22 Google Maps, 2023

Ffigur 4-4: Traffig arferol yn ystod amser brig y prynhawn (16:00-17:00 o'r gloch) ar y ddwy bont[23]




4.11 Yn ogystal â hynny, ceir tagfeydd ar yr A55 - Bont Britannia a'r prif lwybr prifwythiennol ym Môn sy'n cysylltu'r tir mawr â Phorthladd Caergybi yn ystod cyfnod yr haf.[24] Mae hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar nifer y twristiaid sy'n ymweld â'r ynys.

4.12 O ganlyniad i dagfeydd, a phobl yn cymryd llwybrau cyflym trwy bentrefi lleol ger y pontydd, mae hyn yn cynyddu llygredd aer a lefelau sŵn dirgryndod sy'n effeithio preswylwyr lleol.

### Mae traffig y porthladd yn gwaethygu'r tagfeydd ymhellach


4.13 Porthladd Caergybi yw'r porthladd fferi 'gyrru i mewn ac allan' mwyaf ond un yn y DU (ar ôl Dover).[25] Dyma'r prif borthladd ar gyfer trafnidiaeth sy'n cludo nwyddau a theithwyr dros y môr i Weriniaeth Iwerddon, ac fel rhan o Lwybr Ewropeaidd yr E22, mae'n darparu cysylltiad allweddol sy'n rhan o'r "bont dir" o Iwerddon i weddill Ewrop. Mae hwn yn dal i fod y llwybr cyflymaf er y cynnydd yn nifer y fferïau uniongyrchol o Rosslare i dir mawr Ewrop. Mae bron i 60% o'r nwyddau a gludir ar HGVs sy'n teithio rhwng Gweriniaeth Iwerddon ac Ewrop yn pasio trwy Borthladd Caergybi. Yn ogystal â hynny, mae'r porthladd hwn yn gyfrifol am dri chwarter y traffig o ran teithwyr rhwng Cymru a Gweriniaeth Iwerddon.[26]

---

[23] Google Maps, 2023
[24] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-01/nwtc-progress-statement-final.pdf
[25] https://www.itv.com/news/wales/2019-10-08/holyhead-the-uk-s-second-biggest-ferry-port-absolutely-not-ready-for-a-no-deal-brexit
[26] https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2021-12/sea-transport-2020.pdf

4.14 Dros y blynyddoedd, bu'r tunelledd o nwyddau a gludir trwy'r Porthladd hwn yn cynyddu, sydd wedi arwain at gynnydd yn nifer y cerbydau sy'n teithio yn ôl ac ymlaen i Ynys Môn i gludo'r nwyddau. Mae Ffigur 4-5 yn dangos y tuedd ar i fyny o ran y traffig blynyddol drwy'r porthladd (sy'n cynnwys cludo nwyddau a cheir teithwyr) ym Mhorthladd Caergybi, gan gyrraedd 953,000 o gerbydau (bob math) yn 2019. Ers 2019, roedd niferoedd y traffig wedi gostwng, yn bennaf oherwydd pandemig Covid-19 ac ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, ond gwelwyd cynnydd o 38% rhwng 2021 a 2022.

Ffigur 4-5: Cyfanswm yr unedau o draffig drwy'r porthladd (pob math o gerbyd) ym Mhorthladd Caergybi, fesul blwyddyn (miloedd)[27]




4.15 Caiff y traffig sy'n cyrraedd a gadael y porthladd ei amserlennu ar amryw adegau drwy gydol y dydd, fodd bynnag, yn enwedig o ran yr amseroedd brig yn y bore, mae cryn nifer o'r rheiny sy'n cyrraedd a gadael yn cyd-fynd â'r oriau brig (Ffigur 4-6 isod).

Ffigur 4-6: Amseroedd cyrraedd a gadael y porthladd ar ddiwrnod arferol ym Mhorthladd Caergybi[28]

Amseroedd cyrraedd a gadael y Porthladd ar 9fed Mai 2023

| | |
|---|---|
| Cyrraedd | 04:09, 04:27, **07:14, 08:38, 08:57**, 10:05, 10:30, 12:33, 13:03, 13:08, 13:13, 13:16, 14:47, **16:35, 17:02**, 22:48, 23:00 |
| Gadael | 01:11; 01:34, 07:05, **07:56**, **07:59**, 09:29, 11:17, 12:58, 13:07, 13:44, **15:39, 19:37, 19:40** |

### Mae'r tagfeydd yn gwaethygu'r sefyllfa

4.16 At ei gilydd, mae'r tagfeydd ar draws y ddwy bont yn arwain at ddefnyddio llwybrau cyflym trwy gymunedau, sy'n creu effeithiau negyddol o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol:

[27] Yr Adran Drafnidiaeth, Tabl PORT0301
[28] Awdurdod Porthladd Caergybi

- Mwy o lygredd o ran aer a sŵn – yn enwedig Lôn Refail yn Llanfairpwllgwyngyll, sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r A55 rhwng Cyffordd 8 a 8a a chanddo **lefelau uwch o lygredd aer, a sŵn a dirgryndod sy'n effeithio ar breswylwyr lleol.**
- Adeiladwyd ffordd osgoi yr A55(T) yn Llanfairpwllgwyngyll ar ddechrau'r 1980au, a bu'n lleoliad monitro rheolaidd ar gyfer tiwbiau tryledu $NO_2$ am dros 10 mlynedd. Roedd Asesiad Diweddaru a Sgrinio Ansawdd Aer 2015 CSYM wedi canfod mai ymyl ffordd yr A55(T) yn Llanfairpwllgwyngyll yw'r unig leoliad sydd wedi cofnodi lefelau uwch nag amcan blynyddol Llywodraeth Cymru o 40µg/m3 ar gyfer y llygrydd hwn.[29]
- Yr effaith ar ddatblygu twristiaeth a busnes oherwydd oediadau mewn amseroedd teithio.
- Yr effaith ar gludo nwyddau a theithwyr ym Mhorthladd Caergybi fel y mae amseroedd teithio yn ôl ac ymlaen i''r porthladd yn cynyddu.
- Yr effaith ar fynediad i'r gwasanaethau brys gan fod yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys agosaf ar y tir mawr, sy'n golygu nad yw staff a chleifion yn gallu cael mynediad i Ysbyty Gwynedd.
- Cydnerthedd gwael o safbwynt pob math o gerbydau, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, sydd felly'n llesteirio'r defnydd o fysiau, nad ydynt ond yn gallu croesi Pont Britannia oherwydd cyfyngiadau pwysau.
- Yr effaith ar addysg oherwydd nad yw disgyblion a staff yn gallu cael mynediad i ysgolion, yn enwedig Ysgol David Hughes, Ysgol Gynradd Porthaethwy ac Ysgol Llanfairpwll.
- Pryderon o ran diogelwch y ffordd y tu allan i ysgolion oherwydd y diffyg llwybrau amgen a HGVs sy'n defnyddio llwybrau cyflym.

## Mynediad o safbwynt bysiau, y rheilffordd a beicio


4.17 Nid yw gwasanaethau bws ar Ynys Môn yn rhedeg yn ddigon aml ac mae eu horiau gweithredu yn gyfyngedig. Mae gwasanaethau rheilffordd yn annhebygol gael effaith arwyddocaol. O fewn cyfnod teithio o 30 munud, nid yw cymudwyr yn gallu teithio'n bell ar fws neu feic o gymharu â cherbyd preifat, sy'n golygu eu bod yn debygol o ddefnyddio bws neu feic i gymudo o ardaloedd fel Porthaethwy i Fangor (sy'n agos i'r pontydd ar y tir mawr). At ei gilydd, mae'r cyfyngiadau ar ddulliau teithio cyhoeddus a llesol yn golygu mai cerbydau preifat yw'r dull teithio dewisol.

### Mae bysiau yn ddewis gwael yn lle car preifat


4.18 Mae taith 30 munud ar y bws yn ystod amser brig (08:30-09:00) y bore'n teithio pellter sydd gryn dipyn yn llai na hynny a wneir mewn cerbyd preifat. Defnyddiwyd patrymau cymudo gennym o Amlwch (Ffigur 4-7), Caergybi (Ffigur 4-8), Llangefni (Ffigur 4-9) a Phorthaethwy (Ffigur 4-10), ym mae pob un ohonynt yn lleoliadau trefol, i egluro'r pwynt hwn:

[29] https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Environmental-health/Pollution/Updating-and-Screening-Assessment-2015.pdf


Ffigur 4-7: Gyrru o gymharu â defnyddio Bws o Amlwch





Ffigur 4-8: Gyrru o gymharu â defnyddio bws o Gaergybi



Ffigur 4-9: Gyrru o gymharu â defnyddio bws o Langefni




Ffigur 4-10: Gyrru o gymharu â defnyddio bws o Borthaethwy



4.19 Mae mynediad i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ar Ynys Môn yn un o'r gwaethaf yng Ngogledd Cymru oherwydd nad ydynt yn mynd yn ddigon aml a bod eu horiau gweithredu'n gyfyngedig.[30]

4.20 Mae'r ddarpariaeth o wasanaethau bws, y mae'r cyfan o dan gontract, yn gyfyngedig, gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu rhwng Ynys Môn a Gwynedd (Llwybrau: 42 - Llangefni - Bangor; and 63 - Llannerchymedd - Bangor).

4.21 Mae bysiau ym Môn a Gwynedd yn ddrud. Mae tocyn dydd i oedolyn yn costio £6 a thocynnau consesiwn yn costio £4.[31] Mewn cymhariaeth, mae tocyn dydd i oedolyn yng Nghaerdydd yn costio £4 a thocynnau consesiwn yn £3.[32] Mae'r gost uchel, ynghyd â darpariaeth gyfyngedig o wasanaethau ar draws y bont, yn golygu unwaith eto mai car preifat yw'r dewis mwyaf cyfleus.


4.22 Er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith bysiau'n parhau i fod yn weithredol, caiff y llwybrau sy'n croesi'r pontydd lefel uchel o gymhorthdal gan CSYM, sy'n darparu swm blynyddol o £614,385 ar gyfer gwasanaethau o Ynys Môn i Wynedd. Ond, er hynny, mae nifer y teithwyr yn dal i fod yn isel. Ym mlwyddyn ariannol 22-23, roedd gwasanaeth rhif 42 wedi cludo 35,740 o deithwyr, a gwasanaeth rhif 63 ddim ond wedi cludo 10,448 o deithwyr. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 137 o deithwyr dyddiol (diwrnod gwaith) ar lwybr 42, a dim ond 40 i deithwyr dyddiol ar lwybr 63.[33] Gyda'i gilydd, mae'r ddau lwybr yn cario llai na 2% o gyfanswm y cymudwyr sy'n teithio i'w gwaith ar draws y bont (yn ôl ac ymlaen i Ynys Môn).

4.23 Mae hyn yn gyson â'r data ar gyfran y teithwyr sy'n defnyddio gwahanol ddulliau teithio ('modal share') i fynd i'r gwaith (Dull teithio i'r gwaith, Cyfrifiad 2021) – dim ond 1.6% o breswylwyr sy'n gweithio sy'n defnyddio bysiau i gyrraedd eu gweithle. Tra effeithir y data gan y newidiadau mewn patrymau gweithio o ganlyniad i bandemig Covid-19, at ei gilydd, mae cyfran y teithwyr sy'n defnyddio gwahanol ddulliau yn gyson â data Cyfrifiad 2011, a oedd yn dangos mai dim ond 2% o'r boblogaeth sy'n gweithio a oedd yn defnyddio bysiau i gymudo i'r gwaith, fel y gwelir yn Ffigur 4-11 isod.

---

[30] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-01/nwtc-progress-statement-final.pdf
[31] https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Parking-roads-and-travel/Travel-passes/1bws-Ticket.aspx
[32] Cardiff Bus, 2023
[33] Ar sail 260 diwrnod gwaith mewn blwyddyn.

Ffigur 4-11: Dull teithio i'r gwaith ar Ynys Môn [34]




4.24 Mae'r boblogaeth sy'n gweithio sy'n gyrru i'r gwaith yn tua 40 gwaith yn fwy na'r boblogaeth sy'n gweithio sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i fynd i'r gwaith. Mae Ffigur 4-11 uchod yn cynnwys gweithwyr sy'n byw oddi ar yr ynys sy'n teithio i Ynys Môn i weithio. Mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd, bod y gweithwyr hynny hefyd yn ddibynnol ar gerbydau preifat i gymudo i mewn i Ynys Môn, ac felly i ddychwelyd oddi ar yr ynys.

4.25 Mae bron i 85% o aelwydydd Ynys Môn yn berchen o leiaf un car neu fan. Mae hyn yn gryn dipyn yn uwch na'r gyfran ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd (81%) ac ar gyfer Cymru a Lloegr (77%).[35] **Mae hyn yn dangos ymhellach mai cerbyd preifat yw'r dewis cyntaf o ran dull teithio.**

4.26 Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth ar gyfer bysiau, sef "*rhwydwaith sefydlog a chydlynol o wasanaethau bysiau sy'n gwbl integredig â mathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus, ac sy'n ddibynadwy, yn fforddiadwy, yn hyblyg, yn hawdd eu defnyddio, yn garbon isel ac yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r bws yn hytrach na'u ceir.*"[36]

4.27 Fodd bynnag, nid yw'n glir p'un a gaiff y weledigaeth hon ei gwireddu ar gyfer Ynys Môn. Mae'n aneglur hefyd o ran y modd y mae'n cynorthwyo busnesau ar yr ynys, yn enwedig y rheiny sy'n ddibynnol ar Borthladd Caergybi.

4.28 Yn ogystal â hyn, nid yw oriau'r gwasanaethau bysiau yn addas ar gyfer y rheiny sy'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd (ac ysbytai eraill), sy'n gyflogwr sylweddol ar gyfer preswylwyr yr ynys, ynghyd â'r rheiny yn y diwydiant lletygarwch (sy'n ddiwydiant blaenllaw ar yr ynys).

4.29 At ei gilydd, mae trafnidiaeth gyhoeddus ddrud, nad yw'n rhedeg yn ddigon aml, yn arwain at nifer isel o deithwyr ac yn cael ei hadlewyrchu yn y niferoedd uchel sy'n defnyddio cerbyd

[34] Cyfrifiad 2021 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).
[35] Cyfrifiad 2021 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).
[36] Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 – 2027: https://www.gov.wales/sites/default/files/consultations/2022-07/national-transport-delivery-plan-2022-to-2027.pdf

preifat fel y prif ddull teithio. Mae hyn yn atgyfnerthu ymhellach yr angen am drydedd groesfan i wella dibynadwyedd y rhwydwaith ffyrdd ar gyfer y rheiny sy'n teithio i'r gwaith.

### Mae'r rheilffyrdd yn annhebygol o wneud gwahaniaeth sylweddol

4.30 Mae Trafnidiaeth Cymru (TfW) wedi lansio Rhaglen Metro Gogledd Cymru i'w wneud yn haws ac yn gyflymach i deithio ledled Gogledd Cymru. Ymhlith y prosiectau rheilffordd ar gyfer Ynys Môn, fel rhan o'r rhaglen hon, y mae[37]:

- Gwella gorsafoedd / cyfnewidfeydd lleol rhwng Bangor a Chaergybi.
- Gwella amlder y trenau a thrydaneiddio rhwng Bangor a Chaergybi.
- Estyniad newydd yn ffurf coridor rheilffordd rhwng y Gaerwen ac Amlwch.

4.31 Fodd bynnag, mae amseriad a ffynonellau cyllid y prosiectau hyn yn dal i fod yn aneglur. Amcangyfrifir y byddai cost estyniad newydd y coridor rheilffordd rhwng y Gaerwen ac Amlwch yn £530 miliwn, ond nid oes unrhyw awgrym o ran sut y caiff y coridor hwn ei ariannu.[38] Fel rhan o'r rhaglen hon, bydd trydaneiddio'r rheilffordd ledled Gogledd Cymru'n digwydd mewn tri cham - Caer i Gyffordd Llandudno, Cyffordd Llandudno i Fangor, ynghyd â Bangor i Gaergybi. Disgwylir y bydd y gost yn dyblu efallai fel y mae'r camau'n mynd yn eu blaenau. Mae hyn yn golygu bod gwelliannau i'r rheilffordd ar draws y Fenai yn annhebygol am flynyddoedd lawer. Mae nifer o bobl ym Môn yn byw yn bell o orsaf drenau ac felly'n dibynnu ar gerbydau preifat.


4.32 Yn ogystal â hynny, roedd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru'n cydnabod, o ran sawl rhan o Ogledd Ynys Môn, na fyddai gwelliannau i'r rheilffordd yn cael effaith arwyddocaol. Mae hyn yn atgyfnerthu ymhellach y ddibyniaeth ar gerbydau preifat, ac yn pwysleisio'r angen am Drydedd Groesfan dros y Fenai.

### Mae cyfyngiadau ar feicio hefyd

4.33 Tra bo defnyddio beic yn fodd o deithio'n bellach na bysiau yn ystod oriau brig y bore, nid yw'n galluogi rhywun i deithio'n bellach na hynny a fyddai'n bosib gyda cherbyd preifat (fel y disgwylir). Dengys hyn yn Ffigur 4-12 isod.


[37] https://tfw.wales/projects/metro/future-developments/north-wales
[38] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-12/atisn16848doc1_0.pdf p81

Ffigur 4-12: Teithiau 30 munud o ganol y prif drefi




4.34 Yn ôl yr Arolwg Teithio Cenedlaethol, y daith gyfartalog â beic yw 2.9 milltir. Mae **Error! Reference source not found.** isod yn dangos nad yw pellter o'r fath yn caniatáu i gymudwyr fynd yn bell iawn ar Ynys Môn, ac mae'r pellteroedd rhwng y trefi a'r tir mawr yn sylweddol.

Ffigur 4-13: Dalgylch teithiau beic o 2.9 milltir o brif drefi Ynys Môn




4.35 Ceir pryderon hefyd am ddiogelwch rhai llwybrau beicio, fel y llwybr sy'n arwain o Ffordd Pentraeth i Bont Menai, a adeiladwyd o gyfres o stepiau sydd wedi'u lefelu. Gallai gogwydd y llwybr fod yn "farwol", ac yn her i'r henoed a theuluoedd ifanc[39].

## Mae Ynys Môn, o reidrwydd, yn ddibynnol ar gerbydau preifat

4.36 Dengys yr adrannau uchod mai dim ond rhan fechan a chwaraeir gan ddulliau teithio cyhoeddus a llesol o safbwynt symudiadau cymudwyr. Fel y cydnabuwyd ym Mhapur Testun15: Trafnidiaeth[40], fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd, nid yw'r mwyafrif o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn gallu cystadlu â'r car preifat yn nhermau dibynadwyedd ac amseroedd teithio. Nid yw'n bosib darparu trafnidiaeth gyhoeddus i bob ardal ym Môn a Gwynedd, nad ydynt yn hygyrch iawn, neu ddim yn hygyrch o gwbl, oherwydd cyfyngiadau daearyddol ac ariannol.

4.37 Mae ceir preifat yn dal i fod yn rhad i'w cael, a byddant yn hyd yn oed rhatach i'w rhedeg wrth i dechnoleg ddatblygu. O safbwynt amgylcheddol, bydd effaith ceir yn llawer llai wrth newid i gerbydau trydan a rhoi'r gorau i ddefnyddio injans tanio mewnol erbyn 2030.

4.38 Tra bo buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus yn dal i fod yn bwysig, i ddod yn ddewis cystadleuol fel dull teithio, byddai rhaid i drafnidiaeth gyhoeddus gael hyd yn oed mwy o gymhorthdal gan y Cyngor. I drafnidiaeth gyhoeddus fod yn ddewis amgen deniadol, mae angen darpariaeth reolaidd o darddiad y daith i'w chyrchfan. Mae hyn yn annhebygol ac yn anghynaliadwy ar gyfer ardal wledig. Mae hyn yn arwain at berchnogi rhagor o geir preifat, ac

[39] https://www.northwaleschronicle.co.uk/news/15752373.lethal-menai-bridge-cycle-route-worries/
[40] https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Planning/Planning-policy/Local/Supporting/Topic-Paper-15-Transport.pdf

o ganlyniad, yr angen am groesfan ddibynadwy dros y Fenai i gynnal y ddibyniaeth fawr ar gerbydau preifat.

# 5 Mae gwneud dim yn gwaethygu'r heriau economaidd gymdeithasol

**Os yw'r tir mawr yn llai hygyrch, mae hyn yn creu'r posibilrwydd o dorri cysylltiad, sy'n gwahanu'r gymuned o gyfleusterau, ynghyd â'r gweithlu o gyflogaeth. Mae hyn wedyn yn amharu ar lesiant preswylwyr a gweithwyr Ynys Môn.**

5.1 Ni fydd peidio â buddsoddi mewn trydedd groesfan dros y Fenai yn golygu mai aros yr un fath wnaiff pethau - mae'r problemau gyda Phont Menai, y cyfyngiadau ar ddefnyddio Pont Britannia (yn enwedig gan gerbydau uchel ac yn ystod gwyntoedd cryfion), ynghyd â'r gwaith cynnal a chadw cyson a chau'r pontydd yn aml, yn golygu bod y **cydnerthedd a dibynadwyedd mynediad i Ynys Môn yn gwaethygu**.

5.2 Ar ben hynny, roedd yr adran flaenorol yn dangos:

- bod llif y traffig ar Bont Britannia wedi cynyddu,
- bod tagfeydd ar y ddwy bont neu'n gyfagos iddynt yn ystod oriau brig,
- bod y nwyddau a gludir trwy Borthladd Caergybi wedi cynyddu, sy'n cyfateb i gynnydd yn nifer y cerbydau sydd angen cael mynediad i'r porthladd,
- ceir nifer uchel o bobl yn allgymudo o Ynys Môn i weithio,
- ceir cryn ddibyniaeth ar gerbydau preifat i gymudo o gwmpas yr ynys ac oddi arni.

5.3 Fodd bynnag, mae goblygiadau mynediad gwael i Ynys Mon yn ymestyn y tu hwnt i effeithiau sy'n ymwneud â thraffig. Ceir effeithiau uniongyrchol ar ddefnyddwyr (pobl a busnesau) ond hefyd effeithiau amlwg sy'n golygu, er enghraifft, bod busnesau'n llai tebygol o leoli ei hunain ar yr ynys, neu fod twristiaid yn llai tebygol ddod i ymweld â hi.

5.4 Mae goblygiadau cymdeithasol ac economaidd gwneud dim yn cynnwys:

**Gallai problemau o ran mynediad achosi pobl i adael yr ynys i weithio. Mae hyn yn golygu na fyddai digon o swyddi'n parhau ynghyd â dwysedd isel o ran swyddi o amgylch yr ynys.**


5.5 Ym Môn, roedd y 23,000 o swyddi a gofnodwyd yn 2021 yn llai na 2% o gyfanswm nifer swyddi Cymru[41].

5.6 Mae dwysedd y swyddi yn isel o gymharu â Chymru - nid yw ond yn cynnig 32 o swyddi fesul cilomedr sgwâr, sy'n hanner dwysedd y swyddi yng Nghymru. Mae cyflogaeth ar Ynys Môn wedi'i chanolbwyntio'n bennaf yn y canolfannau trefol, fel Caergybi a Llangefni. Mae Ffigur 5-1 yn dangos mai manwerthu, llety, bwydydd, y celfyddydau ac adloniant yw'r rhai

[41] BRES, 2023

mwyaf amlwg, ond mewn rhai ardaloedd, yn nes at y tir mawr, ceir pocedi o swyddi ym maes gweithgynhyrchu.

Ffigur 5-1: Dwysedd swyddi ar Ynys Môn




5.7 Mae prinder swyddi hefyd yn golygu bod gweithgaredd economaidd yn parhau i fod yn isel. Mae cyfran y boblogaeth sy'n economaidd weithgar ar Ynys Môn (51%) yn is na chyfartaledd Cymru (54%), fel y dengys yn Tabl 5-1 isod. Mae hyn wedi lleihau o gymharu â data 2011, pan oedd 53% o boblogaeth Ynys Môn yn economaidd weithgar [42].

Tabl 5-1: Gweithgaredd economaidd (preswylwyr 16+, Cyfrifiad 2021)

| | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| Economaidd weithgar: Mewn cyflogaeth | 51% | 54% |
| Economaidd weithgar: di-waith | 3% | 3% |
| Economaidd anweithgar | 46% | 44% |

5.8 Mae nifer isel y swyddi ym Môn yn ganlyniad hanes hir o ergydion economaidd sydd wedi digwydd dro ar ôl tro, ac wedi arwain at golli dros 2,300 o swyddi dros yr 20 mlynedd diwethaf, sy'n cyfateb i 10% o'r gyflogaeth bresennol. Mae hyn yn cynnwys cwmnïau a sectorau a

[42] Cyfrifiad 2011 a 2021 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

chanddynt hanes hir, dros hanner canrif mewn rhai achosion, o weithredu o fewn cymuned Ynys Môn:

- Dechreuodd y gwaith o adeiladu gorsaf bŵer niwclear Wylfa yn y 1960au, a datgomisiynwyd y safle yn 2015, a arweiniodd at golli dros 300 o swyddi. Roedd atal y gwaith ar Wylfa Newydd yn ergyd arall i economi Ynys Môn.
- Dechreuodd Aliwminiwm Môn gynhyrchu aliwminiwm ar Ynys Môn ar ddechrau'r 1970au - bu'n gweithredu am dros 40 o flynyddoedd cyn cau yn 2009, a arweiniodd at golli dros 300 o swyddi.
- Dewiswyd safle Octel yn Amlwch yn y lle cyntaf ym 1949, i echdynnu bromin o ddŵr y môr, a dechreuodd y safle cynhyrchu ym 1953. Bu'n gweithredu tan 2004, pryd y collwyd dros 100 o swyddi.

5.9 Mae **Error! Reference source not found.** yn crynhoi'r holl golledion hysbys o ran swyddi, o ganlyniad i gau safleoedd ers 2004.

Tabl 5-2: Swyddi a gollwyd ym Môn o ganlyniad i gau safleoedd 2004[43]

| **Blwyddyn** | **Cwmni** | **Swyddi a Gollwyd** |
|---|---|---|
| 2004 | Octel | 100 i 120 |
| 2008 | Peboc | 60 |
| 2008 | Eaton Electrical | 265 |
| 2009 | Aliwminiwm Môn | 300 i 400 |
| 2013 | Welsh Country Foods | 300 i 350 |
| 2015 | Wylfa | 300 i 350 |
| 2019 | Rehau | 100 |
| 2019 | Marco Cable Management | 40 |
| 2022 | Orthios | 120 |
| 2023 | 2-Sisters | 730 |
| **CYFANSWM** | | **2,315 i 2,535** |

**Mae problemau o ran mynediad yn golygu bod busnesau uchel eu gwerth yn symud oddi ar yr ynys, neu fod busnesau newydd, a fyddai wedi lleoli eu hunain ym Môn, yn dewis peidio â gwneud hynny, sy'n effeithio ar gynhyrchiant ac yn golygu mai dim ond swyddi sy'n talu llai sydd ar ôl ar yr ynys. Mae prosiectau'r Rhaglen Ynys Ynni'n dod yn anoddach i'w cyflawni a / neu'n creu rhagor o effeithiau negyddol o ran yr economi.**

5.10 Roedd y swyddi a gollwyd, a ddisgrifiwyd uchod, mewn diwydiannau ynni a gweithgynhyrchu uchel eu gwerth, a bydd y Rhaglen Ynys Ynni arfaethedig (sy'n cynnwys datblygiad yn Wylfa) yn helpu i'w hadfer. Ar ôl y cyhoeddiad i gau ffatri 2-Sisters ym Môn yn Ionawr 2023, symudwyd

[43] Isle of Anglesey County Council

y gweithrediadau cynhyrchu i Gaer, yn rhannol oherwydd y gost uchel o gael mynediad i Ynys Môn o safbwynt trafnidiaeth.

5.11 Roedd Adolygiad Tir Cyflogaeth (ELR) diweddar gan Quod wedi datgelu bod galw am swyddfeydd gan fusnesau mewn ardaloedd sydd wedi'u sefydlu ar hyd yr A55 o Gaer i Gonwy yng Ngogledd Cymru, ond yn ddim pellach na hynny. Mae hyn yn debygol o fod wedi'i sbarduno gan y diffyg mynediad i Ynys Môn, ynghyd â'r costau uchel o ran trafnidiaeth i'r ynys.

5.12 Mae Parc Menai ym Mangor wedi gweld cyfleoedd o ran cyflogaeth, fel datblygu Campws Bangor Coleg Menai[44], ynghyd â chanolfan cefnogi busnes newydd[45]. Tra bo Parc Menai yn agos i Bont Britannia ar y tir mawr, nid yw busnesau wedi mynd heibio'r bont i Ynys Môn, yn rhannol oherwydd lleoliad ymylol Ynys Môn, a'r diffyg dibynadwyedd a chydnerthedd o ran cael mynediad i'r ynys.


5.13 Ar hyn o bryd, mae economi Ynys Môn yn ddibynnol ar yr economi sylfaenol [46]. Y sector mwyaf yw'r fasnach gyfanwerthu a manwerthu, sy'n 17% o gyflogaeth Ynys Môn (ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 15%), a ddilynir gan weithgareddau ym maes llety a gwasanaethau bwyd (14%), a gweithgareddau ym maes iechyd pobl a gwaith cymdeithasol (12%).

5.14 O ran y diwydiannau mwyaf blaenllaw ar yr ynys, cafwyd newid clir dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, tuag at y sector manwerthu ynghyd â llety a gwasanaethau bwyd, fel y dengys yn Ffigur 5-2 isod:

---

[44] https://www.gllm.ac.uk/news/work-commences-on-20-million-t%C5%B7-menai-transformation
[45] https://www.northwaleschronicle.co.uk/news/19135472.parc-menai-college-business-support-centre-contract-won-anglesey-based-construction-firm/
[46] Mae'r gwasanaethau a'r cynnyrch yn yr economi sylfaenol yn darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt a'r rhai sy'n ein cadw ni'n ddiogel, yn gadarn ac yn waraidd. Mae gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthu ar y stryd fawr i gyd yn enghreifftiau o'r economi sylfaenol.. https://businesswales.gov.wales/foundational-economy

Ffigur 5-2: Cyflogaeth ar Ynys Môn yn ôl diwydiant, o gymharu â Chymru a Lloegr [47]




5.15 Mae gan y sectorau mwyaf hyn ym Môn rai o'r cyflogau blynyddol canolrifol isaf ledled Cymru, fel y dengys yn **Error! Reference source not found.** isod.

Tabl 5-2: Cyflogau canolrifol yng Nghymru (o gymharu â'r sector blaenllaw)


| Diwydiant | Cyflogaeth Ynys Môn | Cyflog canolrifol blynyddol Cymru (£) |
|---|---|---|
| Cyflenwi trydan, nwy, stêm ac aerdymheru | 0% | £30,732 |
| Cloddio a chwarela | 0% | £42,206 |
| Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 0% | £26,820 |
| Gweithgareddau eraill ym maes gwasanaethau | 2% | £20,308 |
| Gweithgareddau ym maes eiddo tirol | 2% | £20,349 |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 2% | £29,803 |
| Cyflenwi dŵr, gweithgareddau carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adfer | 2% | £27,887 |
| Y celfyddydau, adloniant a hamdden | 2% | £16,946 |
| Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 3% | £24,560 |

[47] BRES, 2023

| | | |
|---|---|---|
| Gweithgareddau gweinyddol ac ym maes gwasanaethau cefnogi | 4% | £19,986 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol | 4% | £30,550 |
| Trafnidiaeth a storio | 5% | £24,560 |
| Adeiladu | 6% | £28,098 |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 6% | £22,969 |
| Addysg | 8% | £25,459 |
| Gweithgynhyrchu | 10% | £30,926 |
| Gweithgareddau ym maes iechyd pobl a gwasanaethau cymdeithasol | 12% | £22,327 |
| Gweithgareddau ym maes llety a gwasanaethau bwyd | 14% | £10,267 |
| Y fasnach gyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur | 17% | £17,907 |

5.16 Mae colli cyflogwyr mawr o fewn y diwydiannau ynni a gweithgynhyrchu uchel eu gwerth, fel y soniwyd uchod, wedi bod yn ffactor allweddol o ran yr effaith ar gynhyrchiant ym Môn.

Ffigur 5-3: Twf Gwerth Ychwanegol Gros (GYG/GVA) Ynys Môn o gymharu â Chymru (Wedi'i fynegeio, 100=1998)[48]




5.17 Dengys Ffigur 5-3 uchod bod GYG/GVA Ynys Môn wedi tyfu ar raddfa uwch na hynny ar gyfer Cymru hyd at 2004, a'i fod wedi dechrau dirywio wedyn o ganlyniad i'r gyfres o swyddi a gollwyd, a ddisgrifir yn **Error! Reference source not found.** uchod, ac ers hynny wedi bod yn llusgo ar ôl graddfa dwf Cymru.

5.18 Ym Môn y mae'r lefel isaf o GYG/GVA y pen yng Nghymru (£14,900[49]), a hon yw'r isaf ond dwy yn y DU.

[48] Gwerth ychwanegol gros (cytbwys) rhanbarthol y pen, ynghyd â chydrannau incwm, 2022, ONS
[49] Ibid.

**Caiff adferiad / twf ym Mhorthladd Caergybi ei gyfyngu os bydd cwmnïau logisteg yn chwilio am lwybrau masnach mwy dibynadwy (gan gynnwys y tu allan i'r DU).**

5.19 Roedd adran 4 uchod yn disgrifio pwysigrwydd Porthladd Caergybi fel y prif borthladd ar gyfer trafnidiaeth o ran cludo nwyddau a theithwyr dros y môr i Weriniaeth Iwerddon, yn enwedig o ran bod bron i 60% o'r nwyddau a gaiff eu cludo ar HGVs rhwng Gweriniaeth Iwerddon ac Ewrop yn mynd trwy'r porthladd.

5.20 Cludir nwyddau o Borthladd Caergybi ar draws llwybr yr E22 gan mai hon yw'r llwybr ffordd cyflymaf ar yr ynys. Mae oediadau o ganlyniad i'r ddwy groesfan yn peryglu'r llwybr hwn, ac yn lleihau'r galw am lwybrau uniongyrchol o Iwerddon i Ewrop. Y porthladd yw un o brif gyflogwyr Caergybi, a Chaergybi yw'r dref sydd yn fwyaf dibynnol ar borthladd am swyddi yng Nghymru gyfan.

5.21 Mae dibynadwyedd isel mynediad yn ôl ac ymlaen i Borthladd Caergybi yn golygu bod mwy a mwy o fasnach yn debygol o osgoi'r DU yn gyfan gwbl, a chymryd y llwybr hirach, arafach, sy'n fwy drud-ar-garbon o ran fferïau uniongyrchol o Iwerddon i dir mawr Ewrop.

**Mae problemau o ran mynediad yn arwain at allfudo, sy'n cael effeithiau ar gydnerthedd cymunedau, gofal iechyd, a'r Gymraeg, yn enwedig os bydd cenedlaethau o bobl ifanc yn symud allan. Bydd pobl hefyd yn dewis cymudo oddi ar yr ynys i gael swyddi sy'n talu cyflogau uwch.**


5.22 Dengys Ffigur 5-4 y newidiadau ym mhroffil oedran Ynys Môn. Mae'n dangos bod gan yr ardal boblogaeth sy'n heneiddio, sydd wedi gweld cynnydd o 23.6% yn nifer y bobl 70 oed neu drosodd (o tua 2,700 i 3,400). Mae'r oedran canolrifol wedi cynyddu hefyd, o 45 i 48 oed, rhwng dwy flwyddyn y Cyfrifiad [50].

5.23 Yn ogystal â'i phoblogaeth sy'n heneiddio, mae poblogaeth oedran gweithio Ynys Môn yn gostwng. Cafwyd gostyngiad o 17.2% yn nifer y bobl 35-49 oed (o tua 13,300 i 11,000).

5.24 Gwelwyd gostyngiad o 13.7% hefyd yn y gyfran o oedolion ifanc (15-29 oed) (o 11,300 i 9,800).

[50] https://www.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000001/

Ffigur 5-4: Y newid ym mhroffil oedran poblogaeth Ynys Môn rhwng 2011 a 2021




5.25 Bydd cadw'r boblogaeth iau ym Môn yn caniatáu rhannu gwybodaeth a diwylliant rhwng y cenedlaethau, i helpu i ffurfio cymuned gydnerth a bywiog. O safbwynt yr economi, bydd cadw poblogaeth iau yn helpu i fynd i'r afael â bylchau o ran sgiliau, datblygu talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth.

5.26 Mae'r effeithiau uchod yn peri risgiau a heriau i gymuned Ynys Môn, yng nghyswllt:

- mwy o bwysau ar gyfleusterau gofal iechyd
- cynnydd o ran y gymhareb ddibyniaeth a'r angen am ofal
- gostyngiad ym maint y farchnad lafur
- colli'r diwylliant Cymreig a siaradwyr Cymraeg

# 6 Polisïau a chydweddiad strategol

6.1 Ceir cysylltiad cryf rhwng cael cysylltiad dibynadwy a chydnerth dros y Fenai a chwrdd â gofynion nifer o bolisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r polisïau hyn yn canolbwyntio ar wella cyfleoedd o ran cyflogaeth sy'n talu'n dda, ynghyd â gwarchod diwylliant Cymru a chynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg, a hybu llesiant.

## Cydweddiad â Pholisïau Cenedlaethol

### Ailgodi'n Gryfach

6.2 Fel rhan o Gyllideb Mawrth 2021, nododd Llywodraeth y DU ei chynlluniau i gefnogi twf economaidd trwy fuddsoddiad sylweddol mewn isadeiledd, sgiliau ac arloesedd yn "Ailgodi'n Gryfach: ein cynllun ar gyfer twf", yn enwedig i gefnogi'r adferiad economaidd yn dilyn y pandemig Covid-19.

6.3 Mae'r cynllun Ailgodi'n Gryfach ar gyfer twf yn canolbwyntio ar dair colofn o fuddsoddiad, i weithredu fel y sail ar gyfer adeiladu'r adferiad economaidd a ffyniant bro: (1) codiad radical o ran buddsoddiad mewn isadeiledd (2) creu cyfleoedd newydd o ran hyfforddiant i hybu sgiliau ledled y DU, ynghyd â (3) meithrin yr amodau i ryddhau arloesedd.

*Cydweddiad*

6.4 **Bydd cael cysylltiad dibynadwy dros y Fenai yn rhoi hyder i fuddsoddi ar Ynys Môn, ynghyd â'r gallu i symud nwyddau i'r ynys ar gyfer prosiectau isadeiledd, a fydd wedyn yn darparu cyfleoedd cyflogaeth uchel eu gwerth.**

### Ffyniant Bro

6.5 Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn, Ffyniant Bro, yn Chwefror 2022.

6.6 Mae gan y Papur Gwyn bedwar nod. Yr un mwyaf perthnasol i'r cynllun hwn yw:

*"Hybu cynhyrchiant, tâl, swyddi a safonau byw, yn enwedig yn y lleoedd hynny lle maent yn llusgo ar ôl ardaloedd eraill."*

6.7 O dan y nodau hyn ceir cenadaethau, sy'n cynnwys:

- Safonau Byw: Erbyn 2030, bydd tâl, cyflogaeth a chynhyrchiant wedi cynyddu ym mhob ardal o'r DU, gyda phob un yn cynnwys dinas gystadleuol ar lefel fyd-eang, a bydd y bwlch rhwng yr ardaloedd sy'n perfformio orau, ac ardaloedd eraill, yn cau.
- Sgiliau: Erbyn 2030, bydd nifer y bobl sy'n llwyddo i gwblhau hyfforddiant mewn sgiliau o ansawdd uchel wedi cynyddu'n sylweddol ym mhob ardal o'r DU. Yn Lloegr, bydd hyn yn arwain at 200,000 yn fwy o bobl yn llwyddo i gwblhau hyfforddiant mewn sgiliau o ansawdd uchel yn flynyddol, ac yn cael ei yrru gan 80,000 yn fwy o bobl yn cwblhau cyrsiau o fewn y meysydd a chanddynt y lefel isaf o sgiliau.

- Llesiant: Erbyn 2030, bydd llesiant wedi gwella ym mhob ardal o’r DU, a bydd y bwlch rhwng yr ardaloedd sy’n perfformio orau, ac ardaloedd eraill, yn cau.

6.8 Mae’r Papur Gwyn yn nodi fframwaith y DU ar gyfer ehangu cyfleoedd i bobl ym mhob cwr o’r sir, ac fe’i hategir gan amrywiaeth o fetrigau a fydd yn olrhain cynnydd y 12 “Cenhadaeth” ar gyfer Ffyniant Bro.

6.9 Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd y Llywodraeth y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, a fydd yn rhoi rhai o’r egwyddorion a nodir yn y Papur Gwyn ar waith. Gwnaed rhagor o ddiweddariadau i’r bil yn Rhagfyr 2022. Bydd gan y cenadaethau statws mewn cyfraith, gan gynnwys rhwymedigaeth statudol i adrodd ar gynnydd yn flynyddol, tuag at eu cyflawni yn 2030.

6.10 Mae’r Gronfa Ffyniant Bro yn elfen allweddol o’r modd y mae’r Llywodraeth yn bwriadu cyflawni ei hagenda. Fel rhan o’r broses ddyrannu, mae’r Llywodraeth wedi grwpio ardaloedd awdurdod lleol yn dri chategori blaenoriaeth. Ynys Môn yw’r ardal categori dau uchaf yng Nghymru - a chydnabuwyd yr angen i sicrhau ffyniant Ynys Môn gan Lywodraeth y DU yn y dyfarniad diweddar o gylch 2 y Gronfa Ffyniant Bro.

*Cydweddiad*

6.11 **I gyflawni’r nodau Ffyniant Bro, mae cysylltiad dibynadwy rhwng Ynys Môn a’r tir mawr yn bwysig i sicrhau y gellir sefydlu cyfleoedd cyflogaeth uchel eu gwerth ar yr ynys, fel M-Sparc, Ynys Ynni Môn, a Phorthladd Rhydd Ynys Môn. Bydd hyn hefyd yn hybu cynhyrchiant ac yn gwella llesiant yn gyffredinol ar yr ynys.**

### Adolygiad Cysylltedd yr Undeb[51]

6.12 Mae’r adroddiad yn nodi mai’r canolbwynt o ran gwell cysylltedd o fewn yr Undeb yw “gwella cysylltedd rhwng Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr ar ffyrdd yr A55, yr M53 a’r M56…”.

6.13 Mae’n nodi hefyd bod “mynediad i ac o Gaergybi ar yr A55 yn ystyriaeth bwysig ar gyfer cysylltedd nwyddau i ac o Ogledd Iwerddon.”

*Cydweddiad*

6.14 **O ystyried pwysigrwydd Porthladd Caergybi, mae’r lefel isel o ddibynadwyedd o ran mynediad yn golygu efallai y bydd cwmnïau logisteg yn ceisio cael mynediad i borthladdoedd eraill yng Nghymru, ac unrhyw borthladdoedd eraill y tu allan i’r DU.**

### Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040[52]

6.15 Mae’r Cynllun yn nodi mai ‘Cymdeithas sy’n Newid’ yw un o’r Heriau a’r Cyfleoedd a wynebir gan Gymru o 2020 i 2040, gan nodi *“mae angen inni feddwl am y ffordd y gwnawn gadw a denu pobl ifanc i bob rhan o Gymru…”.*

---

[51] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1036027/union-connectivity-review-final-report.pdf
[52] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/future-wales-the-national-plan-2040.pdf

6.16 Polisi 1 yn y cynllun yw 'Ble bydd Cymru yn tyfu', sy'n nodi bod Gogledd Cymru'n Ardal Dwf Genedlaethol. Sonnir am Gaergybi'n benodol fel ardal yng Ngogledd Cymru y mae dyheadau ar ei chyfer o ran twf.

6.17 Polisi 5 yn y cynllun yw 'Cefnogi'r economi wledig', sy'n nodi ei bod yn *"bwysig bod cymunedau gwledig yn datblygu economïau cryf ac yn cefnogi mentergarwch lleol".*

*Cydweddiad*

**6.18 Bydd lefel isel o ddibynadwyedd rhwng Ynys Môn a'r tir mawr yn ei gwneud yn anoddach i gyflawni canlyniadau'r Cynllun Cenedlaethol:**

- **Bydd y niferoedd o'r boblogaeth iau sy'n allfudo, sydd eisoes yn uchel, yn parhau.**
- **Gall cwmnïau logisteg geisio cael mynediad i borthladdoedd eraill yng Nghymru, neu y tu allan i'r DU, yn lle Porthladd Caergybi.**
- **Mae natur wledig a lleoliad ymylol Ynys Môn yn golygu nad oes cysylltiadau cystal rhyngddi â thir mawr Cymru a gweddill y DU.**

### Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar yr Economi: Ffyniant i Bawb[53]

6.19 Mae gan y cynllun amcan i gryfhau'r sectorau sylfaenol yng Nghymru – yn benodol, twristiaeth, bwyd, manwerthu a gofal.

6.20 Mae'n nodi hefyd y bydd cefnogi'r sectorau hyn yn helpu i gyflawni'r targed a nodwyd o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

*Cydweddiad*

6.21 **O ystyried mai'r sectorau twristiaeth, bwyd a manwerthu yw'r rhai blaenllaw yn economi Ynys Môn erbyn hyn, bydd cysylltiad dibynadwy ar draws y Fenai yn helpu i gryfhau'r sectorau hyn ymhellach. Bydd hyn wedyn yn darparu gobeithion o yrfaoedd yn y sectorau hyn, ac yn helpu i gadw poblogaeth fwy o siaradwyr Cymraeg ar yr ynys.**

### Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (2021)

6.22 Nod y strategaeth yw gwella llesiant economaidd trwy:

- Godi lefelau cyflogaeth - yn enwedig yr angen i sicrhau bod 'ein buddsoddiad strategol yn y sector eiddo masnachol yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r cyflenwad cyfyngedig hwn yn ogystal â chynyddu'r cyfleoedd i ddenu a chadw buddsoddiad na fyddai'n dod i Gymru, na'n cael ei ail-fuddsoddi yng Nghymru, fel arall.'
- Gwella cynhyrchiant busnes – yn rhannol o ran 'Bydd buddsoddi mewn seilwaith eiddo masnachol sydd wedi'i leoli'n briodol yn galluogi twf yng nghynhyrchiant busnesau.'
- Cynyddu incwm gwirioneddol aelwydydd

---

[53] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/prosperity-for-all-economic-action-plan.pdf

*Cydweddiad*

6.23 **Mae cyflogaeth ym Môn yn isel o gymharu â Chymru, a'r sectorau cryfaf yw'r rhai sy'n darparu cyflogau isel. Bydd gwella rhwyddineb mynediad dros y Fenai yn rhoi hyder i fuddsoddwyr a chyflogwyr greu cyfleoedd cyflogaeth sy'n talu'n dda ar yr ynys, ac sydd wedyn yn gwella incymau gwirioneddol aelwydydd.**

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

6.24 Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol saith nod. Y rhai mwyaf perthnasol i'r prosiect hwn yw:

- Cymru lewyrchus: trwy annog cyflogaeth leol a rheoli cynaliadwyedd y prosiect ei hun.
- Cymru o gymunedau cydlynus: trwy fuddsoddi mewn cyfleusterau lleol i sicrhau mynediad i'r gymuned i gyfleoedd cyflogaeth, sy'n cefnogi cymunedau deniadol, diogel, hyfyw, ac sydd â chysylltiadau da.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: trwy sicrhau mynediad i gyfleoedd cyflogaeth sy'n addas i gadw pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal, gan leihau'r effeithiau ar allfudo net.
- Cymru sy'n fwy cyfartal: trwy wella mynediad i waith, cyfleoedd i gyfranogi, addysg ac iechyd.

*Cydweddiad*

**6.25 Mae lefel isel o ddibynadwyedd o ran mynediad i Ynys Môn yn golygu bod gostyngiad yn niferoedd y boblogaeth ifanc sy'n gweithio ar yr ynys. Mae cadw'r boblogaeth iau yn bwysig o ran rhannu gwybodaeth a diwylliant rhwng y cenedlaethau i helpu i ffurfio cymuned gydnerth a bywiog. Mae hyn yn peri risgiau yng nghyswllt gostyngiad ym maint y farchnad lafur, ynghyd â cholli siaradwyr Cymraeg.**

## Cydweddiad â Pholisïau Rhanbarthol

### Bargen Twf y Gogledd

6.26 Mae'r polisi hwn yn mabwysiadu gweledigaeth ar gyfer twf cynhwysol ar sail tri amcan allweddol:

- Gogledd Cymru Flaengar: gan ganolbwyntio ar arloesedd mewn sectorau economaidd gwerth uchel fel sail i symud perfformiad economaidd ymlaen
- Gogledd Cymru Wydn: gan ganolbwyntio ar gadw pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau er mwyn cyflawni twf cynhwysol.
- Gogledd Cymru Gysylltiedig: gan ganolbwyntio ar wella isadeiledd trafnidiaeth a digidol er mwyn gwella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac oddi mewn iddi.

6.27 Cyflawnir y nodau hyn trwy bum rhaglen o brosiectau cydberthnasol. Ymhlith y rhaglenni mwyaf perthnasol y mae:

- Gweithgynhyrchu uchel ei werth

- Bwyd-amaeth a thwristiaeth
- Ynni carbon isel

*Cydweddiad*

6.28 **Bydd prosiectau gweithgynhyrchu uchel eu gwerth a phrosiectau ynni carbon isel yn drwm o ran isadeiledd. Mae angen cysylltiad dibynadwy dros y Fenai i sicrhau y caiff deunyddiau a llafur eu cludo'n rhwydd.**

6.29 **O ystyried mai'r sectorau sy'n ymwneud â manwerthu, bwyd a thwristiaeth yw'r rhai blaenllaw erbyn hyn, bydd cysylltiad dibynadwy dros y Fenai yn ei wneud yn haws i dwristiaid ymweld â'r ynys ac i'r sectorau hyn barhau i gryfhau.**

### Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru[54]

6.30 Mae gan y fframwaith hwn sawl blaenoriaeth, gan gynnwys "hyrwyddo'r Gogledd yn hyderus fel rhanbarth sydd ag ystod eang o gyfleoedd economaidd…a darparu lle uchelgeisiol a deniadol iddynt fyw ynddo, i gael cyflogaeth fedrus sy'n talu'n dda ac i annog buddsoddiad."

*Cydweddiad*

6.31 **Mae lefel isel o ddibynadwyedd o ran mynediad i Ynys Môn yn golygu bod lefel isel o hyder o ran denu buddsoddiad i'r ynys, a fydd yn cyfyngu twf cyflogaeth sy'n talu'n dda ynghyd â'r boblogaeth sy'n gweithio.**

6.32 **Mae hyn yn cynnwys prosiectau Ynys Ynni Môn y disgwylir y byddant, ymhen amser, yn creu cryn dipyn o gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer ystod amrywiol o sgiliau fel y mae datblygiadau mawr yn symud tuag at eu cyfnodau adeiladu a gweithredu.**

## Cydweddiad â Pholisïau Lleol

### Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru (2015)[55]

6.33 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl) wedi'i baratoi ar y cyd gan chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam).

6.34 Y Weledigaeth ar gyfer Trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru, a nodir gan y CTLl, yw: Mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru'n anelu at gael gwared ar rwystrau i dwf economaidd, ffyniant a llesiant, trwy gyflwyno rhwydweithiau trafnidiaeth diogel, cynaliadwy, fforddiadwy ac effeithiol.

6.35 Mae Tasglu Gweinidogol Gogledd Cymru wedi archwilio'r problemau o ran trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru, ac o restr hir o 29 o faterion, nodwyd pum mater allweddol:

---

[54] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-12/north-wales-regional-economic-framework.pdf
[55] https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/LDP-evidence-base/Local/North-Wales-Joint-Local-Transport-Plan-2015.pdf

- Gallu’r coridorau ffyrdd a rheilffyrdd strategol i ddarparu’r cysylltedd da angenrheidiol, ar gyfer cludo pobl a llwythi yng Ngogledd Cymru, i’r porthladdoedd ac i weddill y DU i gefnogi’r economi a swyddi, yn cynnwys twristiaeth;
- Diffyg gwytnwch y rhwydweithiau ffordd a rheilffordd i ddigwyddiadau dirybudd a digwyddiadau oedd yn hysbys cynt, yn cynnwys tywydd garw;
- Yr angen am fynediad da i’r tri Pharth Menter yng Ngogledd Cymru a rhyngddynt;
- Diffyg dewisiadau amgen hyfyw a fforddiadwy yn hytrach na char i gael mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a gwasanaethau eraill; a
- Yr angen am gysylltiadau ffordd da i / o’r rhwydwaith cefnffyrdd i’r ardaloedd gwledig i helpu i gynnal hyfywedd busnesau lleol a chefnogi’r iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig.

6.36 Nododd y CTll bod coridor yr A55 o bwysigrwydd allweddol i’r rhanbarth fel catalydd ar gyfer twf economaidd ehangach. Roedd gwella coridor yr A55 i gynyddu cydnerthedd wedi’i nodi’n benodol fel ymyriad trafnidiaeth lefel uchel strategol i’w roi ar waith.

6.37 Ar ben hynny, roedd y CTLl yn nodi mai gwelliannau ar gyfer croesi’r Fenai oedd un o’i ymyraethau trafnidiaeth lefel uchel strategol allweddol i’w roi ar waith yn awr i’w gynnwys yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol nesaf.

*Cydweddiad*

6.38 **Mae lefel isel o ddibynadwyedd a chydnerthedd gwael o ran croesfannau’r Fenai yn rhwystro gallu’r rhwydwaith ffyrdd strategol i ddarparu cysylltedd da, i breswylwyr, ymwelwyr ac ar gyfer cludo nwyddau, sy’n cael effeithiau negyddol ar yr economi, gan gynnwys twristiaeth a hyfywedd busnesau lleol.**

6.39 **O ganlyniad i amseroedd teithio byrrach, cefnogi datblygiad economaidd Ynys Môn, gwella diogelwch y croesfannau i gerbydau, yn ogystal â cherddwyr a beicwyr, ynghyd â chynyddu trafnidiaeth lesol gynaliadwy trwy ddarparu cyfleusterau neilltuedig, gwelliannau, bydd Trydedd Groesfan y Fenai yn cwrdd ag o leiaf pedwar o flaenoriaethau rhanbarthol strategol y CTLl.**

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl ar y Cyd)**

6.40 Mae’r cynllun yn mabwysiadu’r weledigaeth “erbyn 2026, bydd Ynys Môn a Gwynedd yn cael eu cydnabod am eu cymunedau ffyniannus a llawn bywyd sy’n dathlu eu diwylliant, treftadaeth a’u hamgylchedd unigryw ac yn rhywle y bydd pobl yn dewis byw, gweithio ac ymweld.”

6.41 Bydd y Cynllun yn gwireddu ei weledigaeth trwy gyfres o amcanion strategol sy’n rhoi’r cyd-destun ar gyfer Polisïau Strategol a Pholisïau Manwl. O fewn ‘Thema 1: Cynnal a chreu cymunedau diogel, iach, nodedig a bywiog’, mae Amcan Strategol SO4 yn nodi’r angen i wella cysylltiadau ffyrdd strategol:

- SO4: Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a’r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a’r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol. Un o’r prif allbynnau ar gyfer yr amcan strategol hwn yw darparu ffyrdd newydd neu wneud gwelliannau hanfodol i ffyrdd ar y rhwydwaith ffyrdd presennol.

6.42 Thema 3: Cefnogi twf ac adfywiad a fydd yn trawsffurfio’r economi leol o dan ymbarél Rhaglen Ynys Ynni Môn a strategaethau a chynlluniau eraill, gan adeiladu ar yr elfennau o’i phroffil

economaidd unigryw sy'n cael eu hadnabod fel rhai arwyddocaol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

- Mae Thema 3 yn cynnwys amcanion strategol i gefnogi ac elwa ar ddatblygiad Wylfa a datblygiadau cysylltiedig er mwyn gwneud y gorau o gyfleoedd economaidd gymdeithasol ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy i bobl leol (SO9), arallgyfeirio economi wledig ardal y Cynllun, adeiladu ar gyfleoedd, cynnig cyfleoedd cyflogaeth lleol gyda swyddi o ansawdd, ac sy'n gweddu i'r gymuned leol ac yn parchu buddiannau amgylcheddol (SO12), rheoli'r ardal fel cyrchfan amgen a chynaliadwy ar gyfer ymwelwyr (SO14).
- Mae allbynnau allweddol yr amcanion hyn yn cynnwys rhagor o gyfleoedd gwaith yn lleol mewn sectorau cyflog uwch, cyfraddau gweithgaredd economaidd uwch, isadeiledd i gefnogi cyrchfannau deniadol a bywiog i ymwelwyr a phobl leol.

6.43 Mae Papur Testun 15: Trafnidiaeth (2015)[56] yn nodi, mae nodweddion ardaloedd gwledig gan gynnwys dwyseddau poblogaeth isel, cyfleoedd gwaith gwasgaredig a gwasanaethau wedi'u canolbwyntio mewn aneddiadau mwy o faint yn cyfyngu ar opsiynau teithio. Mae'r car yn bwysig ar gyfer hygyrchedd mewn ardaloedd gwledig ac mae'n debygol o barhau felly hyd y gellir rhagweld.

6.44 Mae Adran 6.7 o Bapur Testun 15[57] yn nodi nad yw'r mwyafrif o'r gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus ym Môn a Gwynedd yn gallu cystadlu â'r car preifat o ran amseroedd teithiau.

- Yn ystod yr amseroedd brig, defnyddir llawer o'r gwasanaethau bws i gludo disgyblion ysgol, gan fod gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan Ddeddf Trafnidiaeth 1985 i wneud y defnydd gorau o wasanaethau bysiau presennol i wasanaethu sefydliadau addysgol.
- Nid yw'n bosib darparu trafnidiaeth gyhoeddus i bob ardal ym Môn a Gwynedd, nad ydynt yn hygyrch iawn, neu ddim yn hygyrch o gwbl, oherwydd cyfyngiadau daearyddol ac ariannol.

*Cydweddiad*

6.45 **Mae'r lefel isel o ddibynadwyedd o ran y rhwydwaith ffyrdd strategol yn cael effaith negyddol ar allu Porthladd Caergybi i fod yn borth rhyngwladol mawr (coridor trafnidiaeth rhwng Iwerddon a'r DU / Porth Rhyngwladol).**

6.46 **Yn ogystal â hynny, mae sefyllfa bresennol croesfannau'r Fenai yn golygu bod lefelau hyder yn isel o safbwynt denu buddsoddiad mewn swyddi, busnesau ac isadeiledd i Ynys Môn, a allai gael effaith ar gyflawni amcanion strategol y CDLl ar y Cyd.**

### Cynllun Corfforaethol Cyngor Ynys Môn (2017-2022)

6.47 Mae Amcan 1 o fewn y cynllun yn ceisio 'sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir'. I wneud hyn, mae'n ymrwymo i 'hyrwyddo Ynys Môn i:

---

[56] https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Planning/Planning-policy/Local/Supporting/Topic-Paper-15-Transport.pdf

[57] Ibid.

- Annog datblygwyr mawr i fuddsoddi yn yr ynys ac yn defnyddio hyn fel catalydd ar gyfer datblygu busnesau a swyddi ar yr ynys.
- Gweithio â Chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru i ddenu buddsoddiad er mwyn sicrhau bod prosiectau allweddol sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth yn mynd yn eu blaenau.

*Cydweddiad*

6.48 **Mae lefel isel o ddibynadwyedd o ran mynediad dros y Fenai yn golygu bod lefel isel o hyder o ran buddsoddiad ar yr ynys gan ddatblygwyr mawr a chynghorau eraill Gogledd Cymru. Bydd hyn yn rhwystro'r amcan uchod o ran darparu cyflogaeth leol.**

### Rhaglen Ynys Ynni Môn

6.49 Mae Rhaglen Ynys Ynni Môn, a sefydlwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn, yn ymdrech ar y cyd rhwng nifer o randdeiliaid o fewn y sector cyhoeddus, sector preifat a thrydydd sector sy'n gweithio mewn partneriaeth er mwyn rhoi Ynys Môn ar y blaen o ran ymchwil a datblygiad ynni carbon isel, cynhyrchiant a gwasanaethu a sicrhau buddion economaidd anferthol posib.

6.50 Ymhen amser, disgwylir cyfleoedd sylweddol o ran cyflogaeth ar gyfer ystod amrywiol o sgiliau a phroffesiynau, wrth i ddatblygiadau mawr symud tuag eu cyfnodau adeiladu a gweithredu.

6.51 Mae Wylfa mewn sefyllfa dda i gyfrannu at gapasiti niwclear y DU at y dyfodol, ac mewn sefyllfa dda i gefnogi datblygiad Adweithyddion Modiwlar Bach (SMRs) neu safle gigawat. Byddai buddsoddiad o'r fath yn datgloi buddion sylweddol ar gyfer Gogledd Ynys Môn, gan gyflwyno cymaint â 1,000 o swyddi diogel, sy'n talu'n dda, yn ystod y cyfnod gweithredol, yn ogystal â diwallu'r angen sylweddol am gyfleoedd o ran cyflogaeth ym maes adeiladu, ynghyd ag o ran y gadwyn gyflenwi. Byddai unrhyw ddatblygiad arwyddocaol yn Wylfa yn arwain at fanteision o ran gwaith adeiladu a'r gadwyn gyflenwi a allai drawsnewid economi Gogledd Cymru.

6.52 Nid dim ond Wylfa yw testun sylw'r Rhaglen Ynys Ynni – ceir cyfleoedd ychwanegol:

- Yr Hwb Hydrogen ym Mharc Cybi yng Nghaergybi, sef y datblygiad cyntaf o'i fath yng Nghymru.
- Morlais - Ynni Morol Môn, sef prosiect ynni llanw a gyflwynwyd gan Menter Môn sy'n anelu at fod o fudd i gymunedau lleol, yr economi, ynghyd â helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy i gynhyrchu trydan carbon isel glân. Mae'n gyfle pwysig i Ynys Môn fod yn arweinydd byd eang ym maes datblygu, gweithgynhyrchu a gosod cyfarpar ynni llanw. Caiff y prosiect effeithiau sylweddol ar gyfer Ynys Môn a Chymru, a bydd yn chwarae rôl allweddol o ran cyflawni'r Ynys Ynni.

6.53 Ymhlith manteision y prosiectau hyn y mae:

- Ymhen amser, disgwylir cyfleoedd sylweddol o ran cyflogaeth ar gyfer ystod amrywiol o sgiliau a phroffesiynau, wrth i ddatblygiadau mawr symud tuag eu cyfnodau adeiladu a gweithredu.
- Ymrwymo Busnesau Bach a Chanolig lleol yng ngweithgareddau'r prosiectau hyn o ran y gadwyn gyflenwi.
- Y rhaglen a chyflawni ymrwymiadau o ran targedau Sero Net.

*Cydweddiad*

6.54 **Mae bob un o brosiectau Ynys Ynni Môn (ac yn enwedig prosiect Wylfa) yn drwm iawn o ran eu gofynion o safbwynt isadeiledd, a byddant yn gofyn am rwydwaith ffyrdd dibynadwy a chydnerth ar gyfer cludo deunyddiau, ac i wasanaethu anghenion y cynnydd o ran traffig gweithwyr yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu.**

**Strategaeth Economaidd Gymdeithasol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) (2020-2026)** [58][59]

6.55 Ar ôl cydnabod yr ansicrwydd o ran statws prosiect Wylfa Newydd, mae'r NDA wedi nodi ymrwymiad i amryw o brosiectau fel rhan o Gynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn (CAEGYM):

- Addysg, Sgiliau a Chyflogadwyedd – datblygu sgiliau a phrofiad gwaith i bobl leol, a pharhau i fuddsoddi yng nghampws peirianneg Grŵp Llandrillo-Menai, ynghyd â mewn cyfleoedd ehangach o ran arloesedd ac Ymchwil a Datblygu trwy M-Sparc Cymru.
- Mynydd Parys - datblygu'r safle ymhellach fel atyniad i dwristiaid, ynghyd â darparu cysylltiadau teithio yn ôl ac ymlaen iddo.
- Ardal Harbwr Cemaes – mynd ar drywydd cyfleoedd i wella atyniad a gwerth economaidd yr ardal.

*Cydweddiad*

6.56 **Mae croesfan ddibynadwy a chydnerth yn hanfodol i sicrhau nad yw pobl leol a'r genhedlaeth iau yn cael eu rhwystro rhag cael mynediad i'r ynys fel lle i gael eu haddysgu, eu huwchsgilio a'u cyflogi. Yn yr un modd, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng dibynadwyedd a chydnerthedd croesfannau'r Fenai a chynyddu atyniad yr ynys i ymwelwyr.**

[58] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/897130/NDA_local_social_and_economic_impact_strategy_2020_update.pdf

[59] https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Business/Regeneration/North-Anglesey-Economic-Regeneration-Plan.pdf

# 7 Dyfodol economaidd Ynys Môn

7.1 Mae'r prosiectau y cyfeirir atynt isod wedi'u cynllunio i wella economi Ynys Môn. Mae'r prosiectau hyn yn ddibynnol ar gael mynediad da i'r ynys er mwyn rhoi hyder ar gyfer buddsoddi ac o ran y gallu i symud nwyddau.

### Mae dynodiad Porthladd Rhydd Ynys Môn yn addo mwy o swyddi, sy'n talu'n dda

7.2 Yn dilyn cais llwyddiannus ar y cyd rhwng Stena Line a CSYM, bydd Ynys Môn bellach yn manteisio ar statws Porthladd Rhydd, a chanddo reolau symlach o ran tollau a masnach, a fydd yn darparu mwy o gymhellion ar gyfer buddsoddiad a masnach. Yn y dyfodol, ni fydd nwyddau sy'n mynd i mewn i Borth Caergybi yn ddarostyngedig i gyfundrefn treth a thollau arferol y DU, a fydd yn cefnogi buddsoddiad busnes hirdymor, ac yn hybu ffyniant Ynys Môn a Gogledd Cymru.

7.3 Disgwylir y gallai'r Porthladd Rhydd helpu i greu hyd at 13,000 o swyddi sy'n talu'n dda, a bydd yn gofyn am lefel uchel o sgiliau yng Ngogledd Cymru dros gyfnod o 15 mlynedd. Bydd yn cynyddu cynhyrchiant lleol ynghyd ag allbynnau o ran gweithgynhyrchu ledled Gogledd Cymru. Byddai statws Porthladd Rhydd hefyd yn rhoi hwb sylweddol i'r Rhaglen Ynys Ynni, ac yn cefnogi'r llwybr at Sero Net. Amcangyfrifir y byddai'n denu buddsoddiad o £800 miliwn.

7.4 Mae Stena Line a CSYM wrthi'n ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol (Prifysgol Bangor, M-Sparc, y Sefydliad Allforio a Masnach Rhyngwladol, Grŵp Llandrillo-Menai) ynghylch cynlluniau i integreiddio'r gwaith o gyflenwi'r Porthladd Rhydd gyda strategaethau lleol presennol, gan gynnwys y rheiny i uwchsgilio'r gweithlu lleol.

7.5 Ymhlith y cyfleoedd y mae cyflymu'r defnydd o gynhyrchiant ynni cynaliadwy a glân trwy adeiladu ar fentrau sero net presennol sy'n flaenllaw yn y diwydiant ym Môn, fel ynni gwynt ar y môr, ynghyd ag ynni niwclear, solar a'r llanw.

**7.6 I wneud y gorau o ddynodiad y Porthladd Rhydd, ac i gefnogi faint o nwyddau Ro-Ro a gludir ym Mhorthladd Caergybi (yr ail fwyaf yn y DU ar ôl Dover), mae angen trydedd groesfan dros y Fenai ar gyfer Ynys Môn. Os bydd y sefyllfa o ran teithio yn parhau'r un fath, disgwylir y bydd tagfeydd traffig yn gwaethygu, fel y rhagamcanir y bydd rhagor o nwyddau yn mynd i mewn i Ynys Môn ac yn ei gadael mewn blynyddoedd i ddod.**

### Bydd M-SParc yn sbarduno arloesedd ac yn denu rhagor o swyddi sy'n gofyn am lefel uchel o sgiliau

7.7 Wedi'i agor yn 2018, M-Sparc yw'r Parc Gwyddoniaeth cyntaf yng Nghymru sy'n cynnig 31,200 troedfedd sgwâr [60] o swyddfeydd, labordai a gweithdai ar osod ar gyfer hyd at 700 o bobl. Bydd yn sbarduno twf economaidd trwy arloesedd ac yn dod â swyddi uchel eu gwerth, sy'n gofyn am lefel uchel o sgiliau, i Ynys Mon, sy'n allweddol i leihau'r ddibyniaeth ar economi sylfaenol.

[60] https://www.willmottdixon.co.uk/projects/m-sparc-menai-science-park

7.8 Lleolir y parc gwyddoniaeth mewn man cyfleus wrth ymyl cyffordd 7 yr A55, ym mhentref y Gaerwen, ac mae'r cyfleuster yn cynnig mannau gwefru EV. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, yn ystod oriau brig, ceir oediadau sylweddol ar Bont Britannia a Phont Menai, sy'n cynyddu'r amseroedd teithio i'r rheiny sy'n cymudo i M-Sparc o fannau oddi ar yr ynys.

**7.9 Mae llwybr cymudo dibynadwy a chyfleus yn bwysig er mwyn i M-SParc barhau i fod yn gystadleuol a gallu denu talent a busnesau o fannau ledled Gogledd Cymru.**

### Ynys Ynni Môn

7.10 Mae Rhaglen Ynys Ynni Môn, a sefydlwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn, yn ymdrech ar y cyd rhwng nifer o randdeiliaid o fewn y sector cyhoeddus, sector preifat a thrydydd sector sy'n gweithio mewn partneriaeth er mwyn rhoi Ynys Môn ar y blaen o ran ymchwil a datblygiad ynni carbon isel, cynhyrchiant a gwasanaethu a sicrhau buddion economaidd anferthol posib.

7.11 Ymhen amser, disgwylir cyfleoedd sylweddol o ran cyflogaeth ar gyfer ystod amrywiol o sgiliau a phroffesiynau, wrth i ddatblygiadau mawr symud tuag at eu cyfnodau adeiladu a gweithredu.

7.12 Mae Wylfa mewn sefyllfa dda i gyfrannu at gapasiti niwclear y DU at y dyfodol, ac mewn sefyllfa dda i gefnogi datblygiad Adweithyddion Modiwlar Bach (SMRs) neu safle gigawat. Byddai buddsoddiad o'r fath yn datgloi buddion sylweddol ar gyfer Gogledd Ynys Môn, gan gyflwyno cymaint â 1,000 o swyddi diogel, sy'n talu'n dda, yn ystod y cyfnod gweithredol, yn ogystal â diwallu'r angen sylweddol am gyfleoedd o ran cyflogaeth ym maes adeiladu, ynghyd ag o ran y gadwyn gyflenwi. Byddai unrhyw ddatblygiad arwyddocaol yn Wylfa yn arwain at fanteision o ran gwaith adeiladu a'r gadwyn gyflenwi a allai drawsnewid economi Gogledd Cymru.

7.13 Mae Wylfa wedi'i ddosbarthu fel un o'r wyth safle posib yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd. Mae cydnerthedd dros y Fenai yn hanfodol er mwyn gwireddu'r polisi hwn.[61]

7.14 Nid dim ond Wylfa yw testun sylw'r Rhaglen Ynys Ynni – ceir cyfleoedd ychwanegol:

- Yr Hwb Hydrogen ym Mharc Cybi yng Nghaergybi, sef y datblygiad cyntaf o'i fath yng Nghymru.
- Morlais - Ynni Morol Môn, sef prosiect ynni llanw a gyflwynwyd gan Menter Môn sy'n anelu at fod o fudd i gymunedau lleol, yr economi, ynghyd â helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy i gynhyrchu trydan carbon isel glân. Mae'n gyfle pwysig i Ynys Môn fod yn arweinydd byd eang ym maes datblygu, gweithgynhyrchu a gosod cyfarpar ynni llanw. Caiff y prosiect effeithiau sylweddol ar gyfer Ynys Môn a Chymru, a bydd yn chwarae rôl allweddol o ran cyflawni'r Ynys Ynni.
- Prosiect Dyfnder Caergybi Minesto (mae'r enw'n deillio o enw'r pant mawr ar wely'r môr i'r gorllewin o Gaergybi) yw prosiect ffrwd lanw cyflymder isel cyntaf y byd. Mae'r ardal yn cyd-fynd â holl ofynion y safle trwy ddarparu ffrwd llanw ar gyflymderau isel (anterth llif cymedrig o 1.5-2 m/s) ar ddyfnder o 80-100 metr. Nid yw'r safle alltraeth hwn ond yn 8 cilomedr o borthladd a thref Caergybi, yn lle lleolir prif swyddfeydd Minesto UK. Mae presenoldeb y brif swyddfa wedi gweld nifer o swyddi llawn amser yn cael eu creu hyd

---

[61] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/47859/2009-nps-for-nuclear-volumel.pdf

yma, ac mae'r prosiect eisoes yn ysgogi busnesau trwy'r gadwyn gyflenwi. Cynllun hirdymor Minesto yw ehangu safle Dyfnder Caergybi i greu aráe lanw fasnachol a chanddi gyfanswm capasiti ar ôl ei gosod o 80MW, a fyddai'n cyflenwi ynni lleol a glân i bron i 70,000 o aelwydydd[62].

- Yn ogystal â hynny, Ynys Môn yw un o'r lleoliadau mwyaf deniadol ar gyfer datblygiad ynni gwynt ar y môr, ac mae'n lleoliad deniadol posib i sefydlu man glanio a gwasanaethu ar gyfer buddsoddiadau sylweddol ar y môr yn y dyfodol ym Môr Iwerddon.

7.15 Ymhlith buddion y prosiectau hyn y mae:

- Ymhen amser, disgwylir cyfleoedd sylweddol o ran cyflogaeth ar gyfer ystod amrywiol o sgiliau a phroffesiynau, wrth i ddatblygiadau mawr symud tuag eu cyfnodau adeiladu a gweithredu.
- Ymrwymo Busnesau Bach a Chanolig lleol yng ngweithgareddau'r prosiectau hyn o ran y gadwyn gyflenwi.
- Cyflenwad ynni lleol a glân.
- Y rhaglen a chyflawni ymrwymiadau o ran targedau Sero Net

**7.16 Mae bob un o brosiectau Ynys Ynni Môn (ac yn enwedig prosiect Wylfa) yn drwm iawn o ran eu gofynion o safbwynt isadeiledd, a byddant yn gofyn am rwydwaith ffyrdd dibynadwy a chydnerth ar gyfer cludo deunyddiau, ac i wasanaethu anghenion y cynnydd o ran traffig gweithwyr yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu.**

### Twristiaeth Gynaliadwy

7.17 Roedd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru'n cydnabod bod tagfeydd yn broblem i drefi bach, pentrefi, a lleoliadau yng nghefn gwlad ac ar yr arfordir. O ran tagfeydd yn ystod oriau brig ac amser gwyliau, ynghyd â gwaith cynnal a chadw rheolaidd a chau'r pontydd, mae tagfeydd yn debygol o fodoli ar hyd a lled Ynys Môn yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn golygu nad oes digon i annog twristiaid i ymweld ag Ynys Môn, sy'n cael effaith ddilynol o ran bod llai o wariant yn y sectorau manwerthu, llety a gwasanaethau bwyd sydd bellach yn flaenllaw ym Môn[63]. Yn yr un modd, mae cydnerthedd gwael croesfannau'r Fenai yn arwain at sylw negyddol yn y wasg, a allai arwain hefyd at lai o bobl yn ymweld â'r ynys.

7.18 Mae cydnerthedd y croesfannau'n bwysig oherwydd bod galw eisoes o ran twristiaid yn ymweld â'r ynys. Ar ôl Covid-19, cafwyd mewnlifiad mawr o ymwelwyr, a oedd ymhell y tu hwnt i gapasiti'r rhwydwaith ffyrdd, atyniadau twristiaeth ac o ran rheoli gwastraff, er cynnydd o 53% yn y llety a restrwyd ar yr ynys rhwng 2017 a 2021.[64] Tra cafwyd nifer fawr o ymwelwyr, mae peidio â gwella cydnerthedd y croesfannau'n golygu bellach na fydd y niferoedd hyn o ymwelwyr yn gynaliadwy yn y dyfodol.

7.19 Gan fod cyfyngiad ar gapasiti'r ynys o ran nifer y bobl y gallai eu lletya ar unrhyw adeg benodol, mae angen dull mwy cynaliadwy o fynd i'r afael â'r sefyllfa trwy:

---

[62] https://minesto.com/holyhead-deep/
[63] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-01/nwtc-progress-statement-final.pdf
[64] Cynllun Rheoli Cyrchfan Drafft 2023-2028 https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Council/Consultations/2023/destination-management-plan-2023-to-2028/Destination-Management-Plan-DMP-2023-to-2028.pdf

- Ddosbarthu twristiaid (a gwariant) yn fwy cyfartal ar hyd a lled yr ynys, yn hytrach na dim ond twf ychwanegol.
- Rheoli twristiaeth i sicrhau ei bod yn gynaliadwy o safbwynt cymdeithasol (gan gynnwys ymddygiad twristiaid).
- Twf twristiaeth werdd, sy'n gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol.

7.20 Mae'r fersiwn drafft o Gynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn 2023-2028 yn nodi'r weledigaeth ar gyfer yr economi ymwelwyr:

*"Rydym yn awyddus i gael economi ymwelwyr sy'n empathetig i ymdeimlad o le'r Ynys, ac sydd o fudd i'r bobl, yr amgylchedd, y diwylliant, y dreftadaeth a'r iaith, ac sy'n parhau i chwarae rhan hanfodol yn sefydlogrwydd economaidd yr ynys."*[65]

7.21 Mae egwyddorion arweiniol a blaenoriaethau'r Cynllun yn canolbwyntio ar:

- Ddathlu, Parchu a Diogelu ein Cymunedau, ein Hanes, ein Hiaith, ein Diwylliant a'n Treftadaeth - Dylai economi ymwelwyr Ynys Môn adeiladu ar gryfderau presennol ei hiaith a'i diwylliant a hyrwyddo treftadaeth leol i gynulleidfa ehangach.
- Cynnig Gwell i Ymwelwyr a Chynaliadwyedd Economaidd - Dylai economi ymwelwyr Ynys Môn ddatblygu'n gynaliadwy o amgylch cynnig o ansawdd uchel lle mae ymwelwyr yn gwerthfawrogi a pharchu diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd Ynys Môn. Yn ogystal, bydd seilwaith ymwelwyr o ansawdd yn cynnig cyfleoedd hamdden cyfoethocach ac o ganlyniad iechyd a llesiant gwell.
- Cynnal, Gwella a Pharchu ein Hamgylchedd, a chynllunio i liniaru effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd - Mae angen i economi ymwelwyr Ynys Môn fod yn fwy 'parod ar gyfer newid hinsawdd', ac yn gynyddol garbon niwtral. Mae angen i weithgareddau twristiaid fod mewn cytgord â'r amgylchedd naturiol.
- Sicrhau bod y manteision i gymunedau Ynys Môn yn gorbwyso unrhyw anfanteision, ac o ganlyniad mae buddion cymdeithasol ac o ran llesiant yn cael eu gweld - Mae angen i economi ymwelwyr Ynys Môn fod o fudd i gymunedau lleol, gan roi cyfleoedd i bobl leol wneud rolau newydd medrus a gweithio gyda chadwyni cyflenwi lleol.

7.22 Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan drafft yn ei gyfnod ymgynghori ar hyn o bryd. Yn dilyn y cyfnod hwn, y cam cyntaf o ran cyflenwi'r Cynllun fydd sefydlu model partneriaeth newydd ar gyfer Sefydliad Rheoli Cyrchfan. Ar ôl ei sefydlu, a gyda chymorth Cylch Gorchwyl, bydd y grŵp yn gweithio ar y cyd i ddiffinio'r camau nesaf sy'n flaenoriaeth, a hynny gyda chynllun gweithredu SMART.

7.23 Yn ogystal â hynny, yn 2022, mae CSYM wedi sicrhau cyllid 'Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy' (£575,000) gan Lywodraeth Cymru, am dair blynedd, i gefnogi'r gwaith o redeg nifer o brosiectau amgylcheddol.

---

[65] Draft Destination Management Plan 2023-2028 https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Council/Consultations/2023/destination-management-plan-2023-to-2028/Destination-Management-Plan-DMP-2023-to-2028.pdf

7.24 Bydd y prosiectau yn helpu i wella bioamrywiaeth ac yn cefnogi amcanion y Cyngor i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy bedair thema allweddol, y mae un ohonynt yn canolbwyntio ar 'Darparu Twristiaeth Gynaliadwy'

Ffigur 7-1: Twristiaid ar Ynys Cybi, 2022[66]



**7.25 Mae angen trydedd groesfan i gefnogi twf twristiaeth gynaliadwy ym Môn. Byddai llwybr o'r fath yn lleihau'r pwysau ar y cynnydd mewn traffig ar adeg gwyliau ar y ddwy bont bresennol.**

## Adfywio canol trefi a buddsoddi mewn isadeiledd lleol

### *Adfywio canol trefi*

7.26 Mae buddsoddi mewn canol trefi yn flaenoriaeth i Gyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru. Mae CSYM yn bwriadu cefnogi bob Cyngor Tref ar yr ynys i gefnogi arweinyddiaeth leol ac i wneud y defnydd gorau o'r ffynonellau cyllid sydd ar gael (gan gynnwys cyllid Llywodraeth Cymru) i wella canol eu trefi.

7.27 Mae'r Fframwaith Buddsoddi Drafft ar gyfer Canol Trefi yn nodi'r strategaeth gyffredinol o ran y modd y mae CSYM eisiau manteisio ar gyfleoedd ariannu newydd a chefnogi trefi Ynys Môn i fod yn lleoedd bywiog a llwyddiannus sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yr ynys.

7.28 Mae'r Cynlluniau Buddsoddi Drafft ar gyfer Canol Trefi ar gyfer y pum dref ym Môn (Caergybi, Amlwch, Llangefni, Porthaethwy, Biwmares) yn asesu'r heriau a'r cyfleoedd allweddol ym

[66] North Wales Chronicle: https://www.northwaleschronicle.co.uk/news/23487712.anglesey-draft-plan-highlights-challenges-managing-tourism/

mhob tref, ac yn nodi'r blaenoriaethau allweddol o ran buddsoddiad (sy'n cydweddu â Siarter Llunio Lleoedd Cymru [67]) ar gyfer cefnogi llwyddiant canol y trefi.

*Cyllid Ffyniant Bro*

7.29 Yn Ionawr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bu cais "Caergybi: Trawsnewid o safbwynt diwylliant a threftadaeth" ar gyfer Cylch 2 o'r Gronfa Ffyniant Bro yn llwyddiannus. Bydd yn helpu i drawsnewid y dref trwy sicrhau buddsoddiad o £22.5m, gan gynnwys £17 miliwn o'r Gronfa Ffyniant Bro, ac yn darparu mwy na £54m mewn buddion i'r gymuned leol.[68]

7.30 Bu Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Tref Caergybi, Môn CF, Canolfan Gelfyddydau Ucheldre a'r Eglwys yng Nghymru i ddeall anghenion yr ardal ac i gyflwyno pecyn o ymyriadau yng Nghaergybi a'r cyffiniau. Mae gan y dref rai i'r cymdogaethau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a bydd y Cyllid Ffyniant Bro yn gweld asedau lleol allweddol yn cael eu gwella i wneud yr ardal yn lle gwell i fyw ynddo ac i ymweld ag ef.

*Buddsoddiad mewn isadeiledd lleol*

7.31 Mae angen buddsoddiad mewn isadeiledd lleol i gefnogi swyddi a chymunedau lleol Ynys Môn. I wneud y gorau o fanteision y Rhaglen Ynys Ynni a dynodiad y Porthladd Rhydd, mae angen lle ar gyfer cyflogaeth er mwyn i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh) dyfu. Mae buddsoddiad yn hanfodol, ac mae diffyg cyflenwad hanesyddol o arwynebedd llawr i BBaCh, sy'n cyfyngu ar dwf economaidd ym mhob cwr o'r ynys.

7.32 Gan adeiladu ar Raglen Safleoedd ac Eiddo lwyddiannus CSYM, ysgrifennwyd Achos Amlinellol Strategol i gyflwyno unedau busnes newydd yn Amlwch i sicrhau bod gan fusnesau'r lleoedd iawn i sefydlu a/neu i dyfu. Yn seiliedig ar dystiolaeth o'r galw yn y farchnad, mae angen ymgymryd â rhagor o brosiectau tebyg i gefnogi'r ddarpariaeth o arwynebedd llawr ar gyfer cyflogaeth mewn lleoliadau eraill ym Môn. Ar hyn o bryd, mae gan CSYM bedair o unedau busnes yn Amlwch, y mae bob un wedi'i meddiannu, ac mae gan CSYM dros 75 o unedau ar hyd a lled Ynys Môn. Mae CSYM yn amcangyfrif bod y mwyafrif o'r tenantiaid yn breswylwyr ar Ynys Môn, sy'n awgrymu bod galw o blith busnesau lleol.

**7.33 Mae trydedd groesfan yn bwysig ar gyfer adfywio a buddsoddi yng nghanol trefi Ynys Môn yn llwyddiannus. Bydd llwybr dibynadwy dros y Fenai yn gwella'r teithiau rheolaidd a wneir ar gyfer preswylwyr, yn gwella'r canfyddiad o'r lle ar gyfer ymwelwyr, ac yn cynyddu hyder busnesau i leoli yng nghanol trefi Ynys Môn.**

[67] Placemaking Wales Charter (2020), http://dcfw.org/wp-content/uploads/2020/09/PlacemakingWales_A4Charter_ENG.jpg
[68] https://www.anglesey.gov.wales/en/Business/Economic-development/Levelling-Up-Fund-LUF/Levelling-Up-Fund-Holyhead-bid.aspx

# 8 Manteision trydedd groesfan

8.1 Nid yw Trydedd Groesfan dros y Fenai yn gynllun ffordd arferol - nid (dim ond) manteision traddodiadol i ddefnyddwyr trafnidiaeth sydd dan sylw yma, mae hyn hefyd yn darparu cydnerthedd hirdymor o ran sicrhau mynediad rhwng Ynys Môn a'r tir mawr, ac yn galluogi twf economaidd. Ni fyddai arfarniad trafnidiaeth arferol yn cwmpasu holl fanteision economaidd, cymdeithasol a chymunedol y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Manteision i'r gymdeithas:
  - Cynhwysiant cymdeithasol: bydd gwell cysylltedd a'r gallu i symud yn rhydd rhwng ardaloedd yn hybu cynhwysiant cymdeithasol trwy gysylltu cymunedau'n well.
  - Ffitrwydd corfforol – bydd cyfleuster neilltuedig i gerddwyr a beicwyr yn annog mwy o ddefnydd o ddulliau teithio llesol dros y Fenai, a fydd yn gwella ffitrwydd corfforol, Ni chaniateir i bobl gerdded dros Bont Britannia ar hyn o bryd.
  - Gwell mynediad i waith, addysg, cyfleusterau iechyd a gweithgareddau hamdden.
- Manteision amgylcheddol:
  - At ei gilydd, mae llai o draffig yn ciwio a segura sy'n golygu bod cerbydau'n fwy effeithlon ac yn creu llai o allyriadau. Mae CSYM yn cytuno y bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn lleihau allyriadau. Fodd bynnag, o ystyried bod y niferoedd sy'n defnyddio bysiau yn isel oherwydd nad ydynt yn mynd yn ddigon aml a'u bod yn ddrud, byddai ychwanegu rhagor o fysiau yn lle gwella cydnerthedd y croesfannau'n arwain at weithredu bysiau gwag a segura mewn traffig yng nghyffiniau'r croesfannau presennol. Mae hyn yn darparu canlyniad gwaeth o safbwynt amgylcheddol na gwella cydnerthedd y croesfannau a llif y traffig i bob math o gerbydau, yn enwedig cerbydau preifat.
  - Gan mai cerbydau preifat yw'r dull teithio a ffefrir ar hyn o bryd, bydd allyriadau'n dal i gael eu lleihau trwy'r defnydd o gerbydau trydan. Fel y nododd Llywodraeth Cymru yn ei Ail Gynllun Cyflawni Carbon Isel (2021-25), cyflymu'r niferoedd sy'n defnyddio cerbydau trydan yw *"un o'r camau pwysicaf sydd eu hangen"*.[69] Ar ben hynny, roedd adroddiad gan y Grŵp Llywio Arbenigol, ar gyfer Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Cymru, ar y defnydd o Gerbydau Carbon Isel (LCV), sy'n cynnwys cerbydau trydan, yn nodi:

    *"…mae'r Grŵp yn gwerthfawrogi'r diddordeb cynyddol mewn LCVs ar gyfer ardaloedd gwledig, i ffwrdd o lwybrau strategol, lle mae dewisiadau yn lle defnyddio car yn fwy cyfyngedig, lle mae cerdded neu feicio yn llai tebygol o fod yn ddewis ar gyfer cymudo a lle mae trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy cyfyngedig."*[70]

    Mae Ynys Môn yn ardal wledig a chanddi ddim ond un llwybr strategol (A55/E22) yn rhedeg trwy'r ynys. Bydd croesfan fwy dibynadwy a chydnerth yn helpu o ran defnyddio cerbydau trydan yn lle cerbydau petrol a diesel preifat yn lleol. Bydd

[69] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-10/net-zero-wales-carbon-budget-2-2021-25.pdf
[70] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/low-carbon-vehicle-steering-group-final-report.pdf

allyriadau'n lleihau a bydd y groesfan yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru o ran defnyddio cerbydau trydan.

- Bydd y cyfleuster neilltuedig ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn annog y defnydd o ddulliau teithio llesol, a fydd wedyn yn lleihau allyriadau. Tra bo'r defnydd o gerbydau preifat yn dal i fod yn flaenllaw, mae cynnydd o ran y defnydd o ddulliau teithio llesol yn dal i fod yn fanteisiol i'r amgylchedd.

- Manteision o ran yr economi:
  - Yr economi ymwelwyr - mae nifer yr ymwelwyr sy'n teithio i Ynys Môn wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar, ac mae'n un o'r sectorau cyflogaeth mwyaf. Bydd y drydedd groesfan yn sicrhau bod niferoedd yr ymwelwyr y gallu parhau i fod yn uchel (gan y bydd cydnerthedd y rhwydwaith ffyrdd yn gwella) a bydd poblogrwydd yr ynys fel cyrchfan gynaliadwy i ymwelwyr yn parhau.
  - Cysylltu cymunedau a nwyddau – Porthladd Caergybi yw'r porthladd gyrru i mewn ac allan prysuraf ond un yn y DU (ar ôl Dover) ac mae'n rhan hanfodol o'r "bont dir" rhwng Iwerddon, y DU a thir mawr Ewrop. Mae dibynadwyedd a chydnerthedd y cyswllt hwn yn hanfodol i gynnal twf a phwysigrwydd yr ardal o safbwynt strategol. Caiff cysylltedd â Pharthau Menter eu gwella hefyd.
  - Prisiau rhatach o ran nwyddau / gwasanaethau o ganlyniad i well amseroedd teithio.
  - Gostyngiad o ran costau trafnidiaeth / logisteg.
  - Cefnogir cyfleoedd cyflogaeth trwy fewnfuddsoddiad a datblygu defnydd tir yng Ngogledd Cymru. Bydd croesfan fwy cydnerth a dibynadwy yn helpu i leihau allgymudo o Ynys Môn ac yn cynyddu'r niferoedd sy'n teithio i Ynys Môn o ganlyniad i greu swyddi.
  - Dynodiad y Porthladd Rhydd - Yn dilyn cais llwyddiannus ar y cyd rhwng Stena Line a CSYM, bydd Ynys Môn bellach yn manteisio ar statws Porthladd Rhydd, a chanddo reolau symlach o ran tollau a masnach, a fydd yn darparu mwy o gymhellion ar gyfer buddsoddiad a masnach. Yn y dyfodol, ni fydd nwyddau sy'n mynd i mewn i Borth Caergybi yn ddarostyngedig i gyfundrefn treth a thollau arferol y DU, a fydd yn cefnogi buddsoddiad busnes hirdymor, ac yn hybu ffyniant Ynys Môn. Gallai hyn ddatgloi hyd at 13,000 o swyddi ar yr ynys, a fyddai'n gyfuniad o weithwyr sy'n byw ar yr ynys, ynghyd â rhai sy'n cymudo i'r ynys i weithio.
  - Rhaglen Ynys Ynni Môn - mae daearyddiaeth Ynys Môn yn golygu ei bod mewn sefyllfa unigryw i gyflenwi prosiectau ynni. Mae hyn yn cynnwys ynni niwclear (gigawat neu SMR) yn Wylfa, ond hefyd ynni hydrogen a llanw (ar Ynys Môn y mae'r cynllun ynni llanw mwyaf sydd wedi'i ganiatáu yn y byd). Mae hyn yn bwysig, nid yn unig i Ynys Môn a Gogledd Cymru, ond i'r DU yn ei chyfanrwydd.
- Manteision o ran trafnidiaeth:
  - Gwell amseroedd teithio ar hyd yr A55 yn ystod cyfnodau brig.
  - Gwell dibynadwyedd o ran amseroedd teithio.
  - Rhwydwaith mwy cydnerth o safbwynt digwyddiadau, fel gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i drefnu, ynghyd ag achosion brys fel damweiniau neu effeithiau tywydd garw.

- Ni fydd y cynllun yn arwain at unrhyw effeithiau negyddol o ran diogelwch y ffordd, a bydd hefyd yn gwella diogelwch y groesfan trwy wella dyluniad cyffyrdd ac ati er enghraifft.
- Cysylltiad neilltuedig i gerddwyr a beicwyr er mwyn gwella hygyrchedd a diogelwch rhwng siroedd Ynys Môn a Gwynedd ar gyfer dulliau teithio llesol.
- Gwelliant o ran amseroedd ymateb y gwasanaethau brys.

Ynys Môn
THE ISLE OF Anglesey

# Gwella dibynadwyedd a chydnerthedd ar draws y Fenai

## Canfyddiadau Allweddol

Mehefin 2023

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales

# Cynnwys

1 Cyflwyniad ____ 3
2 Ymateb i'r Adolygiad Ffyrdd ____ 7
3 Perfformiad y croesfannau presennol ____ 11
4 Heriau Ynys Mon ____ **Error! Bookmark not defined.**
5 Dyfodol economaidd Ynys Mon ____ **Error! Bookmark not defined.**
6 Yr angen am ddatrysiadau aml-ddull ____ 28

Table 1-1: Problemau o ran Pont Menai a Phont Britannia ____ 4

Ffigur 3-1: Cyfanswm yr unedau o draffig drwy'r porthladd (pob math o gerbyd) ym Mhorthladd Caergybi, fesul blwyddyn (miloedd) ____ 12
Ffigur 4-1: Y cyfleusterau cymunedol agosaf ____ 15
Ffigur 4-2: Proffil oedran y gymuned yn 2021 o gymharu â 2011 ____ 18
Ffigur 4-3: Dalgylch teithiau beic o 2.9 milltir o brif drefi Ynys Mon ____ 19
Ffigur 4-4: Gyrru am 30 munud o gymharu â theithio mewn bws ____ 20

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae CSYM yn croesawu'r cyfle i allu cyflwyno tystiolaeth i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (CTGC) ar yr angen am groesfan aml-ddull ar draws y Fenai.

1.2 O ran y croesfannau presennol dros y Fenai, maent wedi'u cyfyngu'n aruthrol o safbwynt traffig lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Pont Britannia yw'r unig bwynt ar rwydwaith cefnffyrdd y DU sy'n rhan o lwybr Rhwydwaith Ffyrdd Traws Ewropeaidd yr E22, lle mae'r gerbytffordd yn culhau o 4 lôn i ddwy – un ym mhob cyfeiriad. Mae'n dal i fod yn ased hanfodol fel rhan o "bont dir" y DU, sy'n galluogi masnachu rhwng Iwerddon a'r DU, ac mae'n allweddol i hyfywedd Porthladd Caergybi at y dyfodol. Mae'r pwynt hwn hefyd yn gweld tagfeydd sylweddol o ran traffig cymudwyr a theithwyr ar eu gwyliau.

1.3 Tra bo tagfeydd o ganlyniad i'r croesfannau presennol dros y Fenai yn broblem, y pwynt pwysicaf i'w nodi yw bod diffyg cydnerthedd y croesfannau presennol yn cael effeithiau canlyniadol ar y gymuned a'r gweithlu.

1.4 Fel yr oedd Datganiad Cynnydd y Comisiwn yn Ionawr 2023 yn cydnabod, mae Ynys Mon mewn sefyllfa unigryw, a hithau mewn lleoliad ymylol ac ynysig ym mhen gogledd-orllewinol pellaf Cymru, ac yn gweithredu fel y porth yn ôl ac ymlaen i'r UE trwy Borthladd Caergybi.

1.5 Fel y mae'r Datganiad yn cydnabod, mae Ynys Môn, fel yn achos llawer o ardaloedd yng Ngogledd Cymru, yn ddibynnol ar gerbydau preifat.

*Ar hyn o bryd, mae diffyg dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy deniadol neu realistig yn hytrach na'r cerbyd preifat ar gyfer teithiau gan drigolion, gweithwyr, ac ymwelwyr yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn cyfrannu at ddibyniaeth ar gerbydau preifat a chyfyngu cysylltiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.*

1.6 O safbwynt Ynys Mon, mae'r sefyllfa'n hyd yn oed gwaeth. Mae'r tagfeydd a'r diffyg cydnerthedd o ran croesfannau'r Fenai yn cael effaith ddifrifol o ran y modd y maent yn cyfyngu ar gysylltiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol â gweddill y wlad. Yn waeth na hynny, mae'n rhwystro gallu'r ynys i ddenu'r busnesau a'r gweithgaredd economaidd y mae eu hangen arni i leihau cylch o golli swyddi, llai o gyflogaeth ar yr ynys, ynghyd â chynyddu dibyniaeth ar swyddi oddi ar yr ynys.

1.7 Bydd penderfyniad Llywodraeth Cymru, fel yr argymhellwyd gan y Panel Adolygu Ffyrdd, i ganslo'r cynnig arfaethedig ar gyfer Trydedd Groesfan y Fenai yn dwysáu'r heriau a wynebir gan economi'r ynys ac yn atal camau i roi polisïau allweddol ar waith yn llwyddiannus, sy'n ceisio ailadeiladu ei sylfaen gyflogaeth a lleihau'r angen i'w phreswylwyr orfod gadael yr ynys i weithio.

1.8 Roedd y cyngor yn siomedig iawn ynghylch canlyniad yr Adolygiad Ffyrdd, gan ein bod yn teimlo nad oedd wedi cydnabod amgylchiadau arbennig yr ynys, ynghyd â'r problemau a achosir gan y croesfannau presennol.

1.9 Ceir problemau sylweddol o ran y ddwy bont, fel y dengys yn Tabl 1-1 isod.

Tabl 1-1: Problemau o ran Pont Menai a Phont Britannia

| Pont Menai | Pont Britannia |
|---|---|
| Mae angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd oherwydd oed y bont (bron i 200 oed), sy'n golygu bod llai o gapasiti o ganlyniad i orfod ei chau'n rhannol neu'n gyfan gwbl. Bu ar gau'n ddiweddar am 5 mis rhwng 21 Hydref 2022 a 2 Chwefror 2023, ac mae angen cynnal archwiliadau bob chwe wythnos i wirio'r gwaith hwn.[1]<br><br>Mae'r adegau y bydd angen ei chau yn effeithio ar y Gwasanaethau Brys - mae'r ysbyty mawr agosaf a chanddo Uned Drawma ar y tir mawr.<br><br>Nid oes modd croesi ar feic neu ar droed yn ystod gwyntoedd cryf.<br><br>Nid oes unrhyw ddarpariaeth ddiogel a digonol ar gyfer beicio. Gwaherddir beicwyr rhag defnyddio'r troedffyrdd neilltuedig, sy'n creu pryderon o ran beicwyr ac yn effeithio ar dagfeydd ar gyfer gyrwyr.<br><br>Ceir cyfyngiadau o ran y math o gerbydau sy'n gallu cael mynediad i'r bont hon (sef hyd at 7.5 tunnell yn unig) ac mae cyfyngiadau cyflymder o 30mya yn effeithio ar wasanaethau bws lleol a symudiadau o ran cludo nwyddau rhwng y tir mawr a Phorthladd Caergybi.<br><br>Diffyg cyfleusterau mwy diogel, fel lleiniau caled – cydnerthedd gwael o ran cerbydau brys. | Mae'n fwy na 150 oed, a heb gael unrhyw waith cynnal a chadw mawr ers blynyddoedd lawer, ac felly mae mewn perygl o orfod ei chau oherwydd effeithiau'r gwynt, ynghyd â digwyddiadau a damweiniau.<br><br>Hon yw'r unig ffordd unffrwd ar Lwybr E22 Rhwydwaith Ffyrdd Ewrop ac mae'n creu tagfeydd sylweddol o ran traffig cymudo ac ar adegau y bydd pobl yn mynd ar eu gwyliau. Mae felly'n fwy agored i ddamweiniau o gymharu â ffyrdd deuol, yn enwedig wrth nesáu at y ffordd unffrwd. Ar draws Cymru yn 2022, cafwyd dros **saith gwaith** cymaint o ddamweiniau ar ffyrdd unffrwd, o gymharu â ffyrdd deuol.[2]<br><br>Hon yw'r unig bont sydd ar gael ar gyfer llwythi llydan, uchel ac anarferol.<br><br>Cyfyngiadau cyflymder a chyfyngiadau ar feiciau modur, carafanau a beiciau yn ystod gwyntoedd uchel. Dim darpariaeth ddiogel a digonol ar gyfer beiciau. Mae'r bont hon wedi cael sawl achos hysbys o orfod cau o ganlyniad i wyntoedd mawr, o gymharu ag unrhyw ran arall o'r A55, sy'n dangos ei bod yn fwy agored i effeithiau'r gwynt.<br><br>Gwaherddir cerddwyr rhag cerdded dros y bont hon.<br><br>Yn ystod gwyntoedd uchel iawn (sy'n hyrddio dros 70mya) caiff y bont ei chau'n gyfan gwbl – heb unrhyw lwybr gwyro posibl ar gyfer cerbydau sydd dros 7.5 tunnell, sy'n golygu bod bysiau'n cael eu dal yn yr un ciwiau â cherbydau eraill ac felly'n atal gwasanaethau bysiau lleol rhag gweithredu. Rhwng 2017 a 2022, cafodd y bont hon ei chau saith gwaith.[3] Caiff HGVs eu hailgyfeirio i Barc Cybi yng Nghaergybi i |

[1] https://www.gov.wales/a5-menai-bridge-frequently-asked-questions#:~:text=What%20is%20happening%3F,the%20temporary%20work%20was%20completed.
[2] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Transport/Roads/Road-Accidents/Accident-Level-Data
[3] https://www.thebangoraye.com/menai-suspension-bridge-closure-your-questions-answered/

ddisgwyl yno i'r cyfyngiadau gael eu codi.[4] Fodd bynnag, nid oes digon o gapasiti yno, sy'n golygu bod HGVs yn gorfod parcio ar strydoedd preswyl, sy'n creu difrod o ran diogelwch, lles ac isadeiledd.

Cynghorir HGVs sy'n teithio i Ynys Môn oddi ar y tir mawr i stopio a pharcio mewn man diogel ar hyd yr A55, sy'n gallu bod yn beryglus oherwydd diffyg cyfleusterau. Defnyddiwyd Parc Bryn Cegin yn y gorffennol hefyd pan fo angen.[5] Mae hwn yn barc diwydiannol gwag, a hwnnw'n werth miliynau lawer, sy'n ceisio denu busnesau. Mae defnyddio'r lleoliad hwn i barcio HGVs yn golygu bod man diwydiannol yn cael ei ddefnyddio heb gyfle i greu cyflogaeth a hybu'r economi leol.

Pryderon o ran diogelwch: Mae diffyg llain ganol ac agosrwydd y cyffyrdd ar y naill ochr i Bont Britannia i lle mae ffordd ddeuol yn cyfuno'n ffordd unffrwd yn cynyddu'r risg o wrthdrawiadau. Ers 2017, cafwyd 12 o ddamweiniau difrifol, a dwy ddamwain angheuol. Yn yr achosion hyn, bu rhaid cau'r bont ar gyfer cynnal gwaith adfer ac ymchwiliadau.

1.10 Mae'r tagfeydd presennol a'r angen i gau'r pontydd am gyfnodau yn creu gofid, straen ac yn arwain at golli enillion o ran preswylwyr a busnesau ar Ynys Môn.

1.11 Yn y 15 mlynedd diwethaf, mae Ynys Môn wedi colli hanner ei chyflogwyr mawr, gan gynnwys Aliwminiwm Mon, Welsh Country Foods a Wylfa. Y mis diwethaf, 2-Sisters oedd y diweddaraf i gau, sydd wedi gadael yr ynys gyda dim ond pedwar busnes sy'n cyflogi dros 250 o bobl. Arweiniodd cau ffatri 2-Sisters at golli 730 o swyddi, sy'n cyfateb i dros 3% o weithlu'r ynys. Mae lleoliad ymylol yr ynys a chysylltiadau trafnidiaeth gwael yn ffactor allweddol, ac mae 2-Sisters yn symud eu gweithrediadau i Gaer, sy'n caniatáu iddynt wasanaethau eu cwsmeriaid yn well.

1.12 Mae'r diffyg cydnerthedd gwirioneddol, a'r perygl y bydd busnesau eraill yn cau yn y dyfodol yn waeth o ganlyniad i'r diffyg cydnerthedd amlwg ym meddyliau darpar fuddsoddwyr ac ymwelwyr. Mae trafodaethau â busnesau wedi amlygu bod y trafferthion o ran croesi yn ôl ac ymlaen o'r ynys wedi gwneud i sawl un geisio buddsoddi ar y tir mawr yn lle'r ynys, gan y byddai hynny'n cynyddu costau. Er enghraifft, trafodwyd swm o £40m â Llywodraeth y DU i gadw'r ffatri 2-Sisters sydd wedi cau'n ddiweddar ar agor, ond hyd yn oed wedyn, ni allai'r cwmni warantu y byddai'r cyfleuster yn parhau i fod ar agor yn y tymor canolig i'r tymor hir pe darparwyd cymorth o'r fath.[6] Caiff twristiaeth ei heffeithio'n ddifrifol gan y risgiau amlwg hefyd,

[4] https://traffic.wales/a55-britannia-bridge-high-winds
[5] https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/what-happens-britannia-bridge-closes-25330542
[6] https://www.northwaleschronicle.co.uk/news/23375240.2-sisters-close-anglesey-factory-month/

mae llawer o ymwelwyr a fyddai fel arall wedi bwriadu ymweld â'r ynys wedi dewis edrych ar gyrchfannau amgen ar y tir mawr. Yn dilyn gwrthdrawiad angheuol trasig ar 23 Mai 2023[7], cafodd Pont Britannia ei chau i draffig o'r ddau gyfeiriad am nifer o oriau, gan achosi milltiroedd lawer o giwiau, ac atgyfnerthu delwedd negyddol croesfannau'r ynys ymhellach.

1.13 Mae'r diffyg hyder hwn yn niweidio cysondeb, diogelwch a dyfodol Ynys Môn, ac yn ei wneud yn anoddach denu buddsoddiad i greu swyddi ar yr ynys, sy'n cynyddu dibyniaeth ein preswylwyr ymhellach ar y gallu i groesi'r pontydd i gael swyddi ar y tir mawr. Mae hyn yn creu cylch gofid hunangyflawnol.

1.14 Nod y cynigion i wella Croesfannau'r Fenai yw nid dim ond arbed amser teithio. Y mater dan sylw yw hygyrchedd sylfaenol a chysylltedd yn ôl ac ymlaen o ynys a leolir ar y cyrion, sy'n dal i fod yn un o'r hybiau pwysicaf o ran masnach yn y DU. Heb yr hygyrchedd a'r cysylltedd a fynnir, bydd Ynys Môn yn dal i gael trafferth denu'r buddsoddiad o'r sector preifat y mae taer angen amdano. Mae hyn hefyd yn effeithio mynediad i'r gwasanaethau brys, gan fod yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys agosaf ar y tir mawr, a allai beryglu bywydau mewn argyfwng.

1.15 Mae'r ddogfen hon yn nodi cyfyngiadau'r croesfannau presennol a'r modd y maent yn effeithio bywyd bob dydd ein preswylwyr a'n busnesau. Rydym yn nodi bod Cylch Gorchwyl y Comisiwn yn cynnwys dadansoddiad o batrymau teithio ar ffyrdd (gan gynnwys ar gyfer cludo nwyddau) trwy'r rhanbarth ac oddi mewn iddo, ar adegau gwahanol o'r dydd drwy'r flwyddyn, ynghyd â'r modd y defnyddir trafnidiaeth gyhoeddus a dulliau teithio llesol. Mae'r cyflwyniad hwn gan CSYM yn mynd i'r afael â'r materion hynny'n uniongyrchol, yn enwedig o ran y modd y maent yn ymwneud â chydnerthedd Croesfannau'r Fenai.

[7] https://www.northwaleschronicle.co.uk/news/23541707.man-dies-early-morning-crash-near-britannia-bridge/

# 2 Ymateb i'r Adolygiad Ffyrdd

### Pwrpas y Panel Adolygu Ffyrdd

2.1 Nodwyd amcanion yr adolygiad ffyrdd ym mis Medi 2021[8]:

2.1.1 Sicrhau bod buddsoddiad ar y ffyrdd yn cyd-fynd yn llwyr â chyflawni: Uchelgeisiau a blaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru Mehefin 2021 (RhL) a'r ail gynllun cyflawni carbon isel sydd i ddod - Sero Net Cymru.

2.1.2 Datblygu cyfres o feini prawf sy'n nodi amgylchiadau priodol lle y dylid gwario cronfeydd Llywodraeth Cymru ar ffyrdd, gan ystyried yr uchod.

2.1.3 Defnyddio'r meini prawf hyn i wneud argymhellion o ran pa rai o'r cynlluniau presennol o blith prosiectau buddsoddi ar y ffyrdd y dylid eu cefnogi, eu haddasu, neu y dylai cymorth gan Lywodraeth Cymru gael ei dynnu yn ôl.

2.1.4 Darparu canllawiau ar gyfer ailddyrannu gofod ffyrdd ar rannau o'r rhwydwaith ffyrdd a allai elwa yn y dyfodol o wariant gwella.

2.1.5 Ystyried sut y gellid dyrannu unrhyw arbedion, er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â phroblemau ar y rhwydwaith ffyrdd, ac yn benodol gwneud argymhellion ar sut i fynd i'r afael â'r holl waith cynnal a chadw ffyrdd sydd wedi cronni.

2.2 Mae CSYM wedi ysgrifennu at y Gweinidogion, gan nodi siomedigaeth y Cyngor yng nghyswllt canlyniad yr adolygiad ffyrdd. Credwn fod angen dull trawslywodraethol i fynd i'r afael â'r mater hwn, sy'n ymestyn y tu hwnt i ystyriaethau o ran trafnidiaeth a'r newid yn yr hinsawdd. Mae angen cael cydbwysedd rhwng diwallu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Ynys Môn, Gogledd Cymru, a Chymru yn ei chyfanrwydd.

2.3 Credwn hefyd nad yw canlyniad yr adolygiad ffyrdd yn adlewyrchu rhai o amcanion allweddol y Rhaglen Lywodraethu (PfG)[9] yn llawn, sef:

- *"Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol"* - bydd prosiectau a gynllunnir, fel Rhaglen Ynys Ynni Môn yn canolbwyntio ar ynni carbon isel ac yn creu cyflogaeth uchel ei gwerth. Bydd cysylltiad dibynadwy rhwng tir mawr Cymru ac Ynys Môn yn hwyluso trafnidiaeth at ddibenion llafur a chludo deunyddiau ar gyfer datblygu prosiectau o'r fath.
- *"Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu"* - bydd cysylltiad dibynadwy yn helpu i ddenu pobl i aros neu i symud i Ynys Môn, ac yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar yr ynys. Yn yr un modd, bydd cysylltiad dibynadwy yn denu ymwelwyr i'r ynys ac yn cyfrannu at dwristiaeth, sy'n sector blaenllaw ar yr ynys ar hyn o bryd.

---

[8] https://www.gov.wales/roads-review-panel/terms-reference
[9] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-06/programme-for-government-2021-to-2026-well-being-statement.pdf

- *“Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a’n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt”* – mae cysylltiad dibynadwy yn golygu na chaiff pobl eu rhwystro rhag cael mynediad i’r ynys, a fydd wedyn yn gwella ei hatyniad fel lleoliad i fyw a gweithio ynddo.

2.4 Fel ynys, mae’r A55 dros Bont Britannia a’r A5 dros Bont Menai yn rhannau annatod o’r isadeiledd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Maent yn darparu’r unig gysylltiad, cydnerthedd, a symudiadau yn nhermau’r economi, cyflogaeth, iechyd, addysg, hamdden, a thwristiaeth. Caiff y problemau a geir yn nhermau croesi’r Fenai, ynghyd â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â pharhau â’r drydedd bont, effaith negyddol ar yr ynys, a dyfodol Gogledd Cymru.

### Ceir cefnogaeth gref o safbwynt polisïau ar gyfer gwella’r croesfannau - gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU

2.5 Mae polisïau Llywodraeth y DU yng nghyswllt Ffyniant Bro (sy’n cynnwys buddsoddiad gwerth £17m yng Nghaergybi), Cysylltedd yr Undeb (sy’n gofyn am well cysylltedd rhwng Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr ar hyd yr A55), ynghyd ag Ailgodi’n Gryfach, yn cefnogi datblygiad economaidd ym Môn yn gryf, yn ogystal â’r angen am well cysylltedd. Nid yw’r lefel isel o ddibynadwyedd o ran croesfannau’r Fenai yn cydweddu ag un o nodau Cysylltedd yr Undeb o ran sicrhau cysylltedd ar gyfer cludo nwyddau ar hyd a lled y DU gyda phorthladdoedd, a phorthladdoedd rhydd ar adeg eu sefydlu.[10]

2.6 Yng Nghymru, mae Cynllun Cenedlaethol 2040 yn cydnabod yr angen am dwf economaidd i gadw pobl ifanc ym mhob rhan o Gymru, ac mae’n cyfeirio’n benodol at Gaergybi fel rhan o’r dyheadau o ran twf ar gyfer Gogledd Cymru, yn ogystal â’r angen i gefnogi economïau gwledig. Mae’r Cynllun Gweithredu ar yr Economi: Ffyniant i Bawb yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth a’r rôl a chwaraeir ganddi o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

2.7 Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol saith nod. Y rhai mwyaf perthnasol i’r cynllun hwn yw:

- Cymru lewyrchus: trwy annog cyflogaeth leol a rheoli cynaliadwyedd y prosiect ei hun.
- Cymru o gymunedau cydlynus: trwy fuddsoddi mewn cyfleusterau lleol i sicrhau mynediad i’r gymuned i gyfleoedd cyflogaeth, sy’n cefnogi cymunedau deniadol, diogel, hyfyw, ac sydd â chysylltiadau da.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu: trwy sicrhau mynediad i gyfleoedd cyflogaeth sy’n addas i gadw pobl ifanc sy’n siarad Cymraeg yn yr ardal, gan leihau’r effeithiau ar allfudo net
- Cymru sy’n fwy cyfartal: trwy wella mynediad i waith, cyfleoedd i gyfranogi, addysg ac iechyd.

2.8 Mae Bargen Twf y Gogledd yn mabwysiadu gweledigaeth ar gyfer twf cynhwysol ar sail tri amcan allweddol yng nghyswllt arloesedd, cydnerthedd a chysylltedd, ac mae lleihau allyriadau carbon yn rhan annatod ohoni. Ei nod yw denu buddsoddiad sylweddol o’r sector

---

[10] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1036027/union-connectivity-review-final-report.pdf

preifat (£1bn dros 10-15 mlynedd). I wireddu'r weledigaeth hon, mae angen i fuddsoddwyr ystyried Ynys Môn fel cyfle hygyrch, ynghyd â rhoi Rhaglen Ynys Ynni Môn ar waith yn llwyddiannus.

2.9 Mae'r polisïau uchod sy'n ymwneud â thwf economi Ynys Môn yn gofyn am groesfannau mwy cydnerth dros y Fenai.

2.10 Mae gan Raglen Ynys Ynni Môn brosiectau fel Morlais, sy'n helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy i gynhyrchu trydan carbon isel glân. Bydd gwella cydnerthedd croesfannau'r Fenai yn helpu i gludo deunyddiau a gweithwyr ar gyfer y rhaglen hon, ac wedyn yn helpu i gyfrannu at dargedau cenedlaethol ar gyfer lleihau allyriadau carbon.

2.11 Mae CSYM yn cytuno'n gryf â'r safbwynt a nodir yn Ymateb Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC) i'r Adolygiad Ffyrdd[11] sy'n pwysleisio y bydd ardaloedd trefol a gwledig yn gwneud cyfraniadau gwahanol tuag at leihau allyriadau carbon. Tra nad yw adroddiad CSCC yn benodol iawn o ran yr ardaloedd sydd dan sylw ganddo, mae'n nodedig mai un llun a ddangosir ar glawr yr adolygiad – o Bont Menai.

2.12 Mae'n amlwg bod CSCC yn ystyried y sefyllfa o safbwynt hirdymor (2030 – 2100) ac mae'n amlygu dau gwestiwn y mae CSYM yn credu eu bod yn arbennig o berthnasol:

- A fydd natur trafnidiaeth wledig yn parhau i ffafrio, a chael ei dominyddu gan, drafnidiaeth ceir preifat? Beth mae newidiadau economaidd a chymdeithasol hirdymor yn ei olygu i'r ffyrdd gwledig sy'n cyfrif am 78% o holl rwydwaith ffyrdd Cymru?
- Sut mae cynnal a datblygu seilwaith trafnidiaeth wledig sydd hefyd yn galluogi trafnidiaeth gymdeithasol a thymhorol bwysig ar gyfer sectorau fel lletygarwch a thwristiaeth?

2.13 O dan yr adran ar "Heriau rhanbarthol a gwledig" rydym yn rhannu cefnogaeth CSCC "*i ddefnyddio dull cydgysylltiedig amlfodd rhanbarthol lle defnyddir problemau lleol i lywio asesiad strategol o sut i gyflawni system drafnidiaeth integredig gynaliadwy*." Rydym hefyd yn cytuno â'u pwynt, "*mae'n debygol bod teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn llai ymarferol ar gyfer mwy o deithiau nag yn ardaloedd trefol Cymru.*"

2.14 Mae hyn yn wir am ardaloedd gwledig yn gyffredinol, ond mae'n arbennig o wir yn achos Ynys Môn a Chroesfannau'r Fenai. Fel y nodir gennym isod, mae'r croesfannau'n fannau cyfyng lle nad yw trafnidiaeth gyhoeddus a dulliau teithio llesol yn darparu dewisiadau amgen digonol ar gyfer ceir preifat a defnyddwyr sy'n cludo nwyddau. Felly mae CSYM yn cytuno'n gryf ag awgrymiadau CSCC

- Rhaid ystyried cynlluniau ffyrdd arfaethedig gyda datblygiadau seilwaith ehangach, sy'n cynnwys tai, cyflenwad trydan, datblygiadau economaidd a diwydiannol posibl, seilwaith cymdeithasol a chydlyniant cymunedol.
- Dylid gwerthuso buddsoddiadau ffyrdd yn y dyfodol ar sail dull rhanbarthol amlfodd. Mae CSCC yn cefnogi'r targedau o ostyngiad o 10% yn y defnydd o geir preifat ar gyfartaledd

---

[11] https://nationalinfrastructurecommission.wales/2023/02/15/reviewing-roads-review/

ledled Cymru ac wrth gydnabod gwahanol anghenion cymunedau trefol a gwledig, yn yr ardaloedd trefol y daw'r cyfle mwyaf i leihau allyriadau carbon.

2.15 Mae'r cyfraniad gwahanol a wneir gan ardaloedd trefol a gwledig yn allweddol, yn enwedig ar gyfer ardal wledig fel Môn, sydd hefyd yn ynys a chanddi borthladd mawr. Felly mae CSYM yn croesawu'r gydnabyddiaeth yn Natganiad Cynnydd y Comisiwn, o safbwynt ymarferol, bod y llai o gyfleodd i ddefnyddio dulliau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig.

2.16 Nodwn yn arbennig y datganiad y gwneir cyfran uwch o deithiau byr o lai na 5 cilomedr (t.7) mewn ardaloedd mwy trefol. Tra ein bod yn cytuno bod diffygion o ran y ddarpariaeth o ddulliau teithio llesol, sy'n annog pobl i ddefnyddio ceir (t.9), oherwydd pellteroedd y teithiau dros y croesfannau, mae'n debygol na fydd dulliau teithio llesol fyth yn ddewis amgen ymarferol a fyddai'n cael eu hystyried yn o ddifrif yn lle bod yn berchen ar gar preifat.

2.17 Rydym hefyd yn croesawu cydnabyddiaeth y Comisiwn ei bod yn debygol mai'r mynediad i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn ein hisranbarth yw'r gwaethaf o blith yr holl isranbarthau, ac nad yw gwasanaethau bysiau ym Môn yn rhedeg yn ddigon aml, a bod eu horiau gweithredu'n gyfyngedig (t.16)

2.18 Mae'r Datganiad yn nodi y bydd y gwelliannau arfaethedig i'r rheilffyrdd yn gwneud ychydig iawn i fod o fudd i Ynys Môn (t.29) ac felly mae buddsoddi mewn bysiau yn allweddol. Mae CSYM yn cytuno, ond yn bryderus mai ychydig iawn o sicrwydd a geir o ran a gyflwynir unrhyw un o'r mesurau a awgrymir gan y Comisiwn. Hyd yn oes os bydd hynny yn digwydd, ac y bydd problemau fel y rheiny o ran integreiddio a thocynnu yn gwella, ychydig iawn o obaith sydd o gynnydd o ran amlder y byddai ei angen i gyflawni unrhyw newid sylweddol o ran y dulliau teithio a ddefnyddir. Yn ogystal â hynny, ni wnaiff gwella trafnidiaeth gyhoeddus fawr ddim o ran gwella cydnerthedd y croesfannau presennol.

2.19 Mae CSYM yn rhannu pryder y Comisiwn y bydd "cyfyngiadau ariannol bob amser yn cyfyngu ar y cynnydd y gellir ei wneud o ran gwella trafnidiaeth a'i wneud yn fwy cynaliadwy." (t.32).

2.20 Mae'r cymorthdaliadau a roddir i weithredwyr bysiau (a'u defnyddwyr) ym Môn yn fawr eisoes (ac mae niferoedd y defnyddwyr yn isel) ac maent yn debygol o leihau yn y tymor byr. Mae diwedd Gwasanaeth Brys Llywodraeth Cymru ar gyfer bysiau yng Ngorffennaf 2023 yn debygol o olygu y bydd Ynys Môn yn colli 35 - 50 y cant o'i gwasanaethau bysiau.[12] [13]

2.21 Ar ben hynny, ni wnaiff buddsoddiad mewn dulliau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus helpu ein busnesau, yn enwedig defnyddwyr y porthladd, y mae cludo nwyddau yn fater hanfodol iddynt.

[12] Cyfarfod Cyngor Sir Ynys Môn ar ddydd Mawrth 23 Mai 2023 am 10:30am - https://democracy.anglesey.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=127&MID=4173#AI15205&LLL=0
[13] https://ynysmon.public-i.tv/core/portal/webcast_interactive/758945/start_time/0 - Timestamp 0:11:30

# 3 Perfformiad y croesfannau presennol

3.1 Fel y nodwyd yn Nhabl 1.1, ceir problemau a chyfyngiadau sylweddol eisoes o ran y croesfannau presennol. Mae Datganiad Cynnydd y Comisiwn yn cydnabod rhai o'r materion hyn, ond yn tanbrisio eu graddfa, eu heffaith a'r ffaith eu bod mor anodd i'w datrys.

3.2 Mae'r adroddiad hwn yn nodi y ceir tagfeydd yng nghyffiniau'r Fenai yn ystod cyfnod yr haf (t.9), ac yn y cyfnodau brig tymhorol, nad yw'r isadeiledd ffyrdd yn gallu cynnal y galw o safbwynt preswylwyr ac ymwelwyr, sy'n arwain at dagfeydd a llygredd sy'n effeithio preswylwyr ac ymwelwyr (t.15).

3.3 Y realiti yw bod tagfeydd yn arferol drwy'r flwyddyn. I ryw raddau, mae natur dymhorol i'r ddwy bont, ond nid yw'r cyfnod brig yn yr haf mor amlwg ag yr oedd – erbyn hyn, mae'r galw wedi'i ledaenu'n fwy cyfartal drwy gydol y flwyddyn. Ar Bont Britannia, roedd cyfanswm y Traffig Dyddiol Cyfartalog Blynyddol (AADT) yn Awst 2022, i gyfeiriad y tir mawr (tua'r gorllewin), ychydig yn llai na 18,500 ond roedd yn uwch na 17,000 bob mis rhwng Ebrill a Gorffennaf 2022.

3.4 Mae'r traffig ar draws Bont Britannia wedi cynyddu i lefel uwch na hynny a gafwyd cyn y pandemig. Mae'r traffig dros Bont Menai wedi lleihau dros amser oherwydd gostyngiad o 60% yn niferoedd y HGVs 2 echel yn 2010, a arweiniodd at gwymp sylweddol yn nifer y cerbydau a oedd yn croesi'r bont hon.[14] Yn fwy diweddar, cyfyngwyd pwysau'r cerbydau a ganiateir dros y bont i 7.5 tunnell. Mae hyn yn golygu nad yw Bont Menai mwyach yn llwybr hyfyw ar gyfer LGVs a HGVs.

3.5 Ar dudalen 21 mae'r Datganiad Cynnydd yn nodi, o ran teithiau gan ymwelwyr / o ran twristiaeth, mai "mater i drefi bach, pentrefi, a lleoliadau yng nghefn gwald ac ar yr arfordir yw tagfeydd lleol." Nid yw hyn yn wir yn achos Ynys Môn. Nid problemau lleol mo'r rhain - mae tagfeydd ar y croesfannau'n effeithio'r ynys gyfan, gan nad yw preswylwyr ac ymwelwyr yn gallu eu croesi. Mae hyn yn arwain at dagfeydd ar yr ynys ac o fewn y cymunedau sy'n byw yn union o fewn cyffiniau'r croesfannau, fel Porthaethwy a Llanfairpwllgwyngyll.

### Mae tagfeydd ar draws y ddwy bont ac yn eu cyffiniau yn ystod oriau brig yn achosi oedi o ran amseroedd teithio

3.6 Mae'r tagfeydd ar draws y ddwy bont yn drwm yn ystod oriau brig dyddiau'r wythnos yn y bore (08:00-09:00 o'r gloch) ac ar ddiwedd y prynhawn (16:00-17:00). Mae'r traffig yn drymach yng nghyfeiriad y tir mawr yn ystod amser brig y bore, ac i'r gwrthwyneb, mae'n drymach i gyfeiriad Ynys Môn yn ystod yr amser brig ddiwedd y prynhawn.

3.7 Ceir oediadau sylweddol yn ystod yr oriau brig yn y bore ar ddiwedd y prynhawn. Amcangyfrifir bod teithio o Gyffordd 7 yr A55 yng Ngaerwen i Bont Britannia tua'r dwyrain, yn cymryd llai na

[14] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-01/180309atisn12021doc1_0.pdf


10 munud ar adegau tawel. Fodd bynnag, ar y dyddiau prysuraf yn ystod oriau brig y bore (08:00-10:00 o'r gloch), gall y daith hon gymryd hyd at 35 munud.[15]

### Mae traffig y porthladd yn gwaethygu'r tagfeydd ymhellach

3.8 Porthladd Caergybi yw'r porthladd fferi 'gyrru i mewn ac allan' mwyaf ond un yn y DU (ar ôl Dover). [16] Dyma'r prif borthladd ar gyfer trafnidiaeth cludo nwyddau a theithwyr dros y môr i Weriniaeth Iwerddon, ac fel rhan o Lwybr Ewropeaidd yr E22, mae'n darparu cysylltiad allweddol sy'n rhan o'r "bont dir" o Iwerddon i weddill Ewrop. Mae hwn yn dal i fod y llwybr cyflymaf er y cynnydd yn nifer y fferïau uniongyrchol o Rosslare i dir mawr Ewrop. Mae bron i 60% o'r nwyddau a gludir ar HGVs sy'n teithio rhwng Gweriniaeth Iwerddon ac Ewrop yn pasio trwy Borthladd Caergybi. Yn ogystal â hynny, mae'r porthladd hwn yn gyfrifol am dri chwarter y traffig o deithwyr rhwng Cymru a Gweriniaeth Iwerddon.[17]

3.9 Dros y blynyddoedd, bu'r tunelledd o nwyddau a gludir trwy'r Porthladd hwn yn cynyddu, sydd wedi arwain at gynnydd yn nifer y cerbydau sy'n teithio yn ôl ac ymlaen i Ynys Môn i gludo'r nwyddau. Mae Ffigur 3-1 yn dangos y tuedd ar i fyny o ran y traffig blynyddol drwy'r porthladd (sy'n cynnwys cludo nwyddau a cheir teithwyr) ym Mhorthladd Caergybi, gan gyrraedd 953,000 o gerbydau (bob math) yn 2019. Ers 2019, roedd niferoedd y traffig wedi gostwng, yn bennaf oherwydd pandemig Covid-19 ac ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, fodd bynnag ond gwelwyd cynnydd o 38% rhwng 2021 a 2022.

Ffigur 3-1: Cyfanswm yr unedau o draffig drwy'r porthladd (pob math o gerbyd) ym Mhorthladd Caergybi, fesul blwyddyn (miloedd)[18]




[15] Traffig Cymru, Cynllunio Teithiau Pont Britannia y A55. 2023
[16] https://www.itv.com/news/wales/2019-10-08/holyhead-the-uk-s-second-biggest-ferry-port-absolutely-not-ready-for-a-no-deal-brexit
[17] https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2021-12/sea-transport-2020.pdf
[18] Table PORT0301: UK major port freight traffic by port and year (filter by direction and cargo type), from 2000 and Table PORT0503: UK major port traffic by port (filter by direction and cargo group estimate), quarterly from 2018

3.10 Mae rhai o'r rheiny sy'n cyrraedd a gadael yn cyd-fynd hefyd ag oriau brig traffig y bore a diwedd y prynhawn, sy'n gwaethygu'r tagfeydd ymhellach ar draws y pontydd.

3.11 At ei gilydd, mae'r tagfeydd ar draws y ddwy bont arwain at ddefnyddio llwybrau cyflym trwy gymunedau, sy'n creu effeithiau negyddol o safbwynt economaidd a chymdeithasol:

- Mwy o lygredd o ran aer a sŵn – yn enwedig Lôn Refail yn Llanfairpwllgwyngyll, sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r A55 rhwng Cyffordd 8 a 8a a chanddo lefelau uwch o lygredd aer, a sŵn a dirgryndod sy'n effeithio ar breswylwyr lleol.
- Adeiladwyd ffordd osgoi yr A55(T) yn Llanfairpwllgwyngyll ar ddechrau'r 1980au, a bu'n lleoliad monitro rheolaidd ar gyfer tiwbiau tryledu $NO_2$ am dros 10 mlynedd. Roedd Asesiad Diweddaru a Sgrinio Ansawdd Aer 2015 CSYM wedi canfod mai ymyl ffordd yr A55(T) yn Llanfairpwllgwyngyll yw'r unig leoliad sydd wedi cofnodi lefelau uwch nag amcan blynyddol Llywodraeth Cymru o 40µg/m3 ar gyfer y llygrydd hwn.[19]
- Yr effaith ar ddatblygu twristiaeth a busnes oherwydd oediadau mewn amseroedd teithio.
- Yr effaith ar gludo nwyddau a theithwyr ym Mhorthladd Caergybi fel y mae amseroedd teithio yn ôl ac ymlaen i''r porthladd yn cynyddu.
- Yr effaith ar fynediad i'r gwasanaethau brys gan fod yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys agosaf ar y tir mawr sy'n golygu nad yw staff a chleifion yn gallu cael mynediad i Ysbyty Gwynedd.
- Cydnerthedd gwael o safbwynt pob math o gerbydau, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, sydd felly'n llesteirio'r defnydd o fysiau, nad ydynt ond yn gallu croesi Pont Britannia oherwydd cyfyngiadau pwysau.
- Yr effaith ar addysg oherwydd nad yw disgyblion a staff yn gallu cael mynediad i ysgolion, yn enwedig Ysgol David Hughes, Ysgol Gynradd Porthwethwy ac Ysgol Llanfairpwll.
- Pryderon o ran diogelwch y ffordd y tu allan i ysgolion oherwydd y diffyg llwybrau amgen a HGVs sy'n defnyddio llwybrau cyflym.

### Diogelwch a Dibynadwyedd

3.12 Yn ogystal â thagfeydd rheolaidd, ceir problemau difrifol o ran dibynadwyedd, gyda risg uchel o gau o ganlyniad i dywydd garw a digwyddiadau.

3.13 Roedd Pont Menai ar gau am bron i bedwar mis rhwng 21 October 2022 a 2 Chwefror 2023 oherwydd pryderon o ran diogelwch y cyhoedd. Ailgyfeiriwyd y traffig i Bont Britannia, gan achosi rhagor o dagfeydd ac oediadau ar y bont honno, ynghyd â difrod economaidd ym Mhorthaethwy ac ardal dde-ddwyreiniol ehangach Ynys Môn.[20]

3.14 Rhwng 2017 a 2022, cafodd Pont Britannia ei chau saith gwaith oherwydd gwyntoedd cryf iawn (yn hyrddio dros 70mya).[21] Ers 2017, cafwyd 12 o ddamweiniau difrifol, ynghyd â dwy ddamwain angheuol ar Bont Britannia, a chafwyd 11 o ddamweiniau difrifol ar Bont Menai. Digwyddodd y ddamwain angheuol fwyaf diweddar ar Bont Brittania ar 23 Mai 2023 a arweiniodd at gau'r bont am nifer o oriau yn y bore, ynghyd ag ailgyfeirio'r traffig yn ystod oriau

---

[19] https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Environmental-health/Pollution/Updating-and-Screening-Assessment-2015.pdf
[20] https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/menai-bridge-reopened-traffic-after-26135720
[21] https://www.thebangoraye.com/menai-suspension-bridge-closure-your-questions-answered/

brig, a oedd wedi cynyddu amseroedd teithio yn sylweddol.[22] Roedd busnesau wedi nodi hefyd y bu cau'r bont yn "hunllef" iddynt.[23]

3.15 IYn gyffredinol, bydd achosion o gau Bont Britanna o ganlyniad i ddamweiniau angheuol yn para tua wyth awr. Bydd cau'r bont am resymau eraill yn achosi oediadau o hyd at bum awr, ac am bellter o gymaint â phum milltir.

---

[22] https://www.northwaleschronicle.co.uk/news/23541707.man-dies-early-morning-crash-near-britannia-bridge/
[23] https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-64422707

# 4 Heriau Ynys Môn

4.1 Mae preswylwyr Ynys Môn yn anarferol o ddibynnol ar y ddwy bont. Lleolir nifer o gyfleusterau allweddol o ran gofal iechyd, addysg, a throsedd ac anrhefn ar y tir mawr. Ynys Môn yw'r unig ardal teithio i'r gwaith (TTWA) yng Nghymru sydd wedi'i gwahanu gan ddŵr. Nid yw mynediad i dir mawr Cymru ond yn bosib dros ddwy groesfan, y mae gan y ddwy broblemau o ran dibynadwyedd a chydnerthedd. Mae hyn yn cymhlethu'r sefyllfa ar gyfer preswylwyr, ymwelwyr, busnesau a Phorthladd Caergybi.

### Dibyniaeth ar y tir mawr

4.2 O ran y cyfleusterau cymunedol agosaf, fel Adran Ddamweiniau ac Achosion brys, ysbyty acíwt a phrifysgol, fe'u lleolir i gyd ar y tir mawr ym Mangor. Lleolir y ddalfa agosaf yng Nghaernarfon (ar y tir mawr), sydd hyd yn oed yn bellach o'r ddwy groesfan, a lleolir y gwasanaethau iechyd meddwl brys yn Ysbyty Gwynedd. Mae mynediad i'r cyfleusterau hanfodol hyn yn ddibynnol ar ddibynadwyedd a chydnerthedd y croesfannau presennol dros y Fenai. Dengys y rhain yn Ffigur 4-1 isod.

Ffigur 4-1: Y cyfleusterau cymunedol agosaf




4.3 Fel y nodwyd gan CSCC, dylid ystyried ffyrdd fel rhan o system o fewn y seilwaith teithio gwyrdd a glas, cymdeithasol ac economaidd ehangach.

4.4 Yn ogystal â bod yn gyfleusterau cymunedol allweddol, mae’r rhain hefyd yn ffynonellau pwysig o ran swyddi i breswylwyr Ynys Môn.

### Colli swyddi mewn sectorau gwerth uchel

4.5 Ym Môn, roedd y 23,000 o swyddi a gofnodwyd yn 2021, yn llai na 2% o gyfanswm nifer swyddi Cymru [24] ac o ran dwysedd y swyddi, roedd yn hanner hynny a geir yng Nghymru. Mae nifer isel y swyddi ym Môn yn ganlyniad hanes hir o ergydion economaidd sydd wedi digwydd dro ar ôl tro, ac wedi arwain at golli dros 2,300 o swyddi dros yr 20 mlynedd diwethaf, sy’n cyfateb i 10% o’r gyflogaeth bresennol. Mae hyn yn cynnwys cwmnïau a sectorau a chanddynt hanes hir, dros hanner canrif mewn rhai achosion, o weithredu o fewn cymuned Ynys Môn:

- Dechreuodd y gwaith o adeiladu gorsaf bŵer niwclear Wylfa yn y 1960au, a datgomisiynwyd y safle yn 2015, a arweiniodd at golli dros 300 o swyddi. Roedd atal y gwaith ar Wylfa Newydd yn ergyd arall i economi Ynys Mon.
- Dechreuodd Aliwminiwm Mon gynhyrchu aliwminiwm ar Ynys Môn ar ddechrau’r 1970au – bu’n gweithredu am dros 40 o flynyddoedd cyn cau yn 2009, a arweiniodd at golli dros 300 o swyddi.
- Dewiswyd safle Octel yn Amlwch gyntaf ym 1949 i echdynnu bromin o ddŵr y môr, a dechreuodd y safle cynhyrchu ym 1953. Bu’n gweithredu tan 2004, pryd y collwyd dros 100 o swyddi

4.6 Erbyn hyn, mae’r economi sylfaenol[25] wedi cymryd drosodd y diwydiannau fu unwaith yn flaenllaw ym Môn - gweithgynhyrchu, ynni, trafnidiaeth a storio. Y sector mwyaf yw’r fasnach gyfanwerthu a manwerthu, sy’n 17% o gyflogaeth Ynys Môn (ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 15%), a ddilynir gan weithgareddau ym maes llety a gwasanaethau bwyd (14%), a gweithgareddau ym maes iechyd pobl a gwaith cymdeithasol (12%).[26] Fel arfer, yn y sectorau hyn y mae rhai o’r cyflogau blynyddol canolrifol isaf ledled Cymru, ond, yn hanesyddol, y sector blaenllaw oedd y sector â’r swyddi uchel eu gwerth oedd yn talu’n dda.

### Swyddi

4.7 Mae colli swyddi yn golygu bod dwysedd y swyddi erbyn hyn yn isel, o safbwynt gofodol a fesul pen.

4.8 Mae gan Ynys Môn bellach 32 o swyddi fesul cilomedr sgwâr - sy’n ddim ond hanner hynny a geir yng Nghymru. Canolbwyntir y swyddi’n bennaf yn yr ardaloedd trefol, fel Caergybi a Llangefni. Mae hyn hefyd wedi golygu bod cynhyrchiant ym Môn yn llusgo ar ôl hynny ar gyfer Cymru.

4.9 O ran dwysedd ei swyddi, Ynys Môn sydd ag un o’r lefelau isaf fesul 1,000 o breswylwyr o oedran gweithio. O ganlyniad, mae bron i 40% o breswylwyr sy’n gweithio yn cymudo oddi ar yr ynys.[27] Mae’r cymudwyr hyn yn teithio i Wynedd yn bennaf, ac yn enwedig Bangor, sy’n

---

[24] BRES, 2023
[25] Mae'r gwasanaethau a'r cynnyrch yn yr economi sylfaenol yn darparu’r nwyddau a’r gwasanaethau sylfaenol mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt a'r rhai sy’n ein cadw ni’n ddiogel, yn gadarn ac yn waraidd. Mae gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthu ar y stryd fawr i gyd yn enghreifftiau o’r economi sylfaenol. https://businesswales.gov.wales/foundational-economy
[26] BRES, 2023.
[27] NOMIS, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

cydweddu â darganfyddiadau Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru bod symudiadau yn ôl ac ymlaen i Fangor yn bwysig.[28] Y gweithgareddau blaenllaw yn yr ardaloedd hyn yw'r rheiny ym maes iechyd pobl a gwaith cymdeithasol, y fasnach gyfanwerthu a manwerthu, ac addysg uwch. Mae cryn nifer o bobl yn teithio i weithio yng Ngholeg Menai ac ym Mhrifysgol Bangor.

4.10 I'r gwrthwyneb, mae nifer y rheiny sy'n cymudo i weithio ar Ynys Môn yn llawer is, dim ond 17% o'r rheiny sy'n gweithio ym Môn sy'n dod o'r tir mawr.[29] Daw'r mwyafrif o'r symudiadau hyn o Wynedd.

### Mae costau trafnidiaeth uchel yn golygu nad yw busnesau'n symud i'r ynys ac mae ganddi ddiffyg swyddi

4.11 Roedd Quod yn ddiweddar wedi ymgymryd ag Adolygiad Tir Cyflogaeth (ELR) ar ran CSYM, Cyngor Gwynedd (CG) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) i gefnogi'r adolygiad o gynlluniau datblygu lleol perthnasol yr awdurdodau. Datgelodd yr astudiaeth bod galw am swyddfeydd gan fusnesau mewn ardaloedd sydd wedi'u sefydlu ar hyd yr A55 o Gaer i Gonwy yng Ngogledd Cymru, ond yn ddim pellach na hynny. Mae hyn yn debygol o fod wedi'i sbarduno gan y diffyg mynediad i Ynys Môn, ynghyd â'r costau uchel o ran trafnidiaeth i'r ynys.


4.12 Mae Parc Menai ym Mangor wedi gweld buddsoddiad sylweddol a chyfleoedd o ran cyflogaeth, fel datblygu Campws Bangor Coleg Menai[30] ynghyd â chanolfan cefnogi busnes newydd.[31] Tra bo Parc Menai yn agos i Bont Britannia ar y tir mawr, nid yw busnesau wedi mynd heibio'r bont i Ynys Môn, yn rhannol oherwydd lleoliad ymylol Ynys Môn, a'r diffyg dibynadwyedd a chydnerthedd o ran cael mynediad i'r ynys. Mae hyn yn golygu bod busnesau'n teimlo nad oes anogaeth iddynt symud i'r ynys, ac ni fydd cyfleoedd cyflogaeth yn codi.

### Colli'r boblogaeth ifanc sy'n gweithio, ynghyd â'r Gymraeg a'i Diwylliant

4.13 Fel y dengys yn Ffigur 4-1 isod, mae poblogaeth oedran gweithio Ynys Môn yn gostwng. Cafwyd gostyngiad o 17.2% yn nifer y bobl 35-49 oed (o tua 13,300 i 11,000). Mae'r gyfran o'r boblogaeth sy'n heneiddio yn cynyddu - gwelwyd cynnydd o 23.6% yn nifer y bobl 70 oed neu drosodd (o tua 2,700 i 3,400). Mae'r oedran canolrifol wedi cynyddu hefyd, o 45 i 48 oed, rhwng dwy flwyddyn y Cyfrifiad[32.]

[28] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-01/nwtc-progress-statement-final.pdf
[29] NOMIS, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).
[30] https://www.gllm.ac.uk/news/work-commences-on-20-million-t%C5%B7-menai-transformation
[31] https://www.northwaleschronicle.co.uk/news/19135472.parc-menai-college-business-support-centre-contract-won-anglesey-based-construction-firm/
[32] https://www.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000001/

Ffigur 4-2: Proffil oedran y gymuned yn 2021 o gymharu â 2011




4.14 Bydd cadw'r boblogaeth iau ym Môn yn caniatáu rhannu gwybodaeth a diwylliant rhwng y cenedlaethau, i helpu i ffurfio cymuned gydnerth a bywiog. O safbwynt yr economi, bydd cadw poblogaeth iau yn helpu i fynd i'r afael â bylchau o ran sgiliau, datblygu talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Mae'r effeithiau uchod yn peri risgiau a heriau i gymuned Ynys Môn, yng nghyswllt:

- mwy o bwysau ar gyfleusterau gofal iechyd
- cynnydd o ran y gymhareb ddibyniaeth a'r angen am ofal
- gostyngiad ym maint y farchnad lafur
- colli'r diwylliant Cymreig a siaradwyr Cymraeg


## Mae Ynys Môn yn ardal wledig a chanddi amseroedd cymudo hir

4.15 Mae bron i 60% o boblogaeth Ynys Môn yn byw mewn ardal wledig. Mae ei natur wledig yn golygu bod hyd at 40% o bob taith yn fwy na 15 cilomedr.[33] Mae hyn yn golygu bod cymudwyr yn teithio'n bell, yn enwedig o ardaloedd gwledig, i groesi'r pontydd.

4.16 O ganlyniad, gall teithio llesol chwarae rôl lai yma nag mewn lleoedd eraill. Y daith arferol ar feic yw 2.9 milltir.[34] Mae Ffigur 4-3 isod yn dangos nad yw pellter o'r fath yn caniatáu i gymudwyr fynd yn bell iawn ar Ynys Môn, ac mae'r pellteroedd rhwng y trefi a'r tir mawr yn sylweddol.

[33] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-01/nwtc-progress-statement-final.pdf
[34]

Ffigur 4-3: Dalgylch teithiau beic o 2.9 milltir o brif drefi Ynys Môn





4.17 Ceir pryderon hefyd am ddiogelwch rhai llwybrau beicio, fel y llwybr sy'n arwain o Ffordd Pentraeth i Bont Menai, a adeiladwyd o gyfres o stepiau sydd wedi'u lefelu. Gallai gogwydd y llwybr fod yn "farwol", ac yn her i'r henoed a theuluoedd ifanc.[35]

## Dibyniaeth uchel ar gerbydau preifat gan fod pellteroedd gan ddefnyddio dulliau teithio llesol yn rhy fyr, mae'r rhwydwaith bysiau yn ddifrifol ac ni chaiff y rheilffordd unrhyw effaith

4.18 Dengys Ffigur 4-4 isod gymhariaeth o ran y pellter ychwanegol y gellir ei deithio mewn car o gymharu â bws mewn 30 munud yn ystod amser brig y bore o Borthaethwy - y pwynt agosaf ar Ynys Môn i'r tir mawr. Hyd yn oed mewn car, nid yw'r pellter hwn yn fawr, ac o ran canolfannau poblogaeth mawr fel Llangefni, mae'n amlwg bod y sefyllfa'n waeth.

[35] https://www.northwaleschronicle.co.uk/news/15752373.lethal-menai-bridge-cycle-route-worries/

Ffigur 4-4: Gyrru am 30 munud o gymharu â theithio mewn bws




4.19 Mae'r ddarpariaeth o wasanaethau bws, y mae'r cyfan o dan gontract, yn gyfyngedig, gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu rhwng Ynys Môn a Gwynedd. Mae tocynnau dydd i oedolion yn ddrud (£6 ym Môn o gymharu â £4 yng Nghaerdydd) ac mae lefel y cymhorthdal yn uchel. Ond mae nifer y defnyddwyr yn dal i fod yn isel. Nid yw oriau'r gwasanaeth bws yn addas ar gyfer y rheiny sy'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd (ac ysbytai eraill), sy'n gyflogwr sylweddol ar gyfer preswylwyr yr ynys, ynghyd â'r rheiny yn y diwydiant lletygarwch (sy'n ddiwydiant blaenllaw ar yr ynys).

4.20 Ar ben hynny, ceir pryderon na fydd cymorth Llywodraeth Cymru i Ynys Môn trwy'r Cynllun Brys ar gyfer Bysiau (BES3), sydd i fod i orffen ar Orffennaf 24, yn parhau.[36] Gallai hyn olygu bod preswylwyr yr ynys, yn enwedig pobl fregus a'r henoed, heb gysylltiad y tu hwnt i gyffiniau eu cartref. Mae hyn yn atgyfnerthu'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat i deithio.

4.21 Mae Trafnidiaeth Cymru (TfW) wedi lansio Rhaglen Metro Gogledd Cymru i'w wneud yn haws ac yn gyflymach i deithio ledled Gogledd Cymru.[37] Fodd bynnag, mae amseriad a ffynonellau cyllid y prosiectau hyn yn dal i fod yn aneglur ac roedd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru'n cydnabod, o ran sawl rhan o Ogledd Ynys Môn, na fyddai gwelliannau i'r rheilffordd yn cael effaith arwyddocaol. Yn ogystal, fel rhan o'r rhaglen hon, bydd trydaneiddio'r rheilffordd ledled Gogledd Cymru'n digwydd mewn tri cham - Caer i Gyffordd Llandudno, Cyffordd Llandudno i Fangor, ynghyd â Bangor i Gaergybi. Disgwylir y bydd y gost yn dyblu efallai fel y mae'r camau'n mynd yn eu blaenau. Mae hyn yn golygu bod gwelliannau i'r rheilffordd ar draws y

---

[36] https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/anglesey-councils-rural-bus-funding-26977540
[37] https://tfw.wales/projects/metro/future-developments/north-wales

Fenai yn annhebygol am flynyddoedd lawer. Mae’r ffactorau hyn yn pwysleisio ymhellach yr angen i ddefnyddio cerbydau preifat.

4.22 Mae nifer o bobl ym Môn yn byw yn bell o orsaf drenau ac felly’n dibynnu ar gerbydau preifat. Yn gyffredinol, i drafnidiaeth gyhoeddus fod yn ddewis amgen deniadol, mae angen darpariaeth reolaidd o darddiad y daith i’w chyrchfan. Mae hyn yn annhebygol ac yn anghynaliadwy ar gyfer ardal wledig. Mae hyn yn arwain at berchnogi rhagor o geir preifat, ac o ganlyniad, yr angen am groesfan ddibynadwy dros y Fenai i gynnal y ddibyniaeth fawr ar gerbydau preifat.

### Niferoedd uchel o berchnogion ceir

4.23 At ei gilydd, mae trafnidiaeth gyhoeddus ddrud, nad yw’n rhedeg yn ddigon aml, yn arwain at nifer isel o deithwyr ac yn cael ei hadlewyrchu yn y niferoedd uchel o rai sy’n defnyddio cerbydau sy’n defnyddio cerbyd preifat fel y prif ddull teithio. Mae nifer y boblogaeth sy’n gweithio sy’n gyrru i’w gwaith yn 40 gwaith yn fwy na nifer y boblogaeth sy’n gweithio sy’n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i fynd i’w gwaith. Mae hyn yn atgyfnerthu ymhellach yr angen am ddibynadwyedd a chydnerthedd o ran croesfannau’r Fenai ar gyfer y rheiny sy’n teithio i’w gwaith.

### Caiff adferiad / twf ym Mhorthladd Caergybi ei gyfyngu os bydd cwmnïau logisteg yn chwilio am lwybrau masnach mwy dibynadwy (gan gynnwys y tu allan i’r DU)

4.24 Cludir nwyddau o Borthladd Caergybi ar draws llwybr yr E22 gan mai hon yw’r llwybr ffordd cyflymaf ar yr ynys. Mae oediadau o ganlyniad i’r ddwy groesfan yn peryglu’r llwybr hwn, ac yn lleihau’r galw am lwybrau uniongyrchol o Iwerddon i Ewrop. Y porthladd yw un o brif gyflogwyr Caergybi, a Chaergybi yw’r dref sydd yn fwyaf dibynnol ar borthladd am swyddi yng Nghymru gyfan.

4.25 Mae dibynadwyedd isel mynediad yn ôl ac ymlaen i Borthladd Caergybi yn golygu bod mwy a mwy o fasnach yn debygol o osgoi’r DU yn gyfan gwbl, a chymryd y llwybr hirach, arafach, sy’n fwy drud-ar-garbon o ran fferïau uniongyrchol o Iwerddon i dir mawr Ewrop.

# 5 Dyfodol economaidd Ynys Môn

5.1 Mae'r prosiectau y cyfeirir atynt isod wedi'u cynllunio i wella economi Ynys Môn. Mae'r prosiectau hyn yn ddibynnol ar gael mynediad da i'r ynys er mwyn rhoi hyder ar gyfer buddsoddi ac o ran y gallu i symud nwyddau.

### Mae dynodiad Porthladd Rhydd Ynys Môn yn addo mwy o swyddi, sy'n talu'n dda

5.2 Yn dilyn cais llwyddiannus ar y cyd rhwng Stena Line a CSYM, bydd Ynys Môn bellach yn manteisio ar statws Porthladd Rhydd, a chanddo reolau symlach o ran tollau a masnach, a fydd yn darparu mwy o gymhellion ar gyfer buddsoddiad a masnach. Yn y dyfodol, ni fydd nwyddau sy'n mynd i mewn i Borthladd Caergybi yn ddarostyngedig i gyfundrefn treth a thollau arferol y DU, a fydd yn cefnogi buddsoddiad busnes hirdymor, ac yn hybu ffyniant Ynys Môn a Gogledd Cymru.

5.3 Disgwylir y gallai'r Porthladd Rhydd helpu i greu hyd at 13,000 o swyddi sy'n talu'n dda ac yn gofyn am lefel uchel o sgiliau yng Ngogledd Cymru dros gyfnod o 15 mlynedd, bydd yn cynyddu cynhyrchiant lleol ynghyd ag allbynnau o ran gweithgynhyrchu ledled Gogledd Cymru. Byddai statws Porthladd Rhydd hefyd yn rhoi hwb sylweddol i'r Rhaglen Ynys Ynni, ac yn cefnogi'r llwybr at Sero Net. Amcangyfrifir y byddai'n denu buddsoddiad o £800 miliwn.

5.4 Mae Stena Line a CSYM wrthi'n ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol (Prifysgol Bangor, M-Sparc, y Sefydliad Allforio a Masnach Rhyngwladol, Grŵp Llandrillo-Menai) ynghylch cynlluniau i integreiddio'r gwaith o gyflenwi'r Porthladd Rhydd gyda strategaethau lleol presennol, gan gynnwys y rheiny i uwchsgilio'r gweithlu lleol.

5.5 Ymhlith y cyfleoedd y mae cyflymu'r defnydd o gynhyrchiant ynni cynaliadwy a glân trwy adeiladu ar fentrau sero net presennol sy'n flaenllaw yn y diwydiant ym Môn, fel ynni gwynt ar y môr, ynghyd ag ynni niwclear, solar a'r llanw.

**5.6 I wneud y gorau o ddynodiad y Porthladd Rhydd, ac i gefnogi faint o nwyddau Ro-Ro a gludir ym Mhorthladd Caergybi (yr ail fwyaf yn y DU ar ôl Dover), mae angen trydedd groesfan dros y Fenai ar gyfer Ynys Môn. Os bydd y sefyllfa o ran teithio yn parhau'r un fath, disgwylir y bydd tagfeydd traffig yn gwaethygu, fel y rhagamcanir y bydd rhagor o nwyddau yn mynd i mewn i Ynys Môn ac yn ei gadael mewn blynyddoedd i ddod.**

### Bydd M-SParc yn sbarduno arloesedd ac yn denu rhagor o swyddi sy'n gofyn am lefel uchel o sgiliau

5.7 Wedi'i agor yn 2018, M-Sparc yw'r Parc Gwyddoniaeth cyntaf yng Nghymru sy'n cynnig 31,200 troedfedd sgwâr [38] o swyddfeydd, labordai a gweithdai ar osod ar gyfer hyd at 700 o bobl. Bydd yn sbarduno twf economaidd trwy arloesedd ac yn dod â swyddi uchel eu gwerth,

[38] https://www.willmottdixon.co.uk/projects/m-sparc-menai-science-park

sy'n gofyn am lefel uchel o sgiliau, i Ynys Môn, sy'n allweddol i leihau'r ddibyniaeth ar economi sylfaenol.

5.8 Lleolir y parc gwyddoniaeth mewn man cyfleus wrth ymyl cyffordd 7 yr A55, ym mhentref y Gaerwen, ac mae'r cyfleuster yn cynnig mannau gwefru EV. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, yn ystod oriau brig, ceir oediadau sylweddol ar Bont Britannia a Phont Menai, sy'n cynyddu'r amseroedd teithio i'r rheiny sy'n cymudo i M-Sparc o fannau oddi ar yr ynys.

**5.9 Mae llwybr cymudo dibynadwy a chyfleus yn bwysig er mwyn i M-SParc barhau i fod yn gystadleuol a gallu denu talent a busnesau o fannau ledled Gogledd Cymru.**

### Ynys Ynni Môn

5.10 Mae Rhaglen Ynys Ynni Môn, a sefydlwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn, yn ymdrech ar y cyd rhwng nifer o randdeiliaid o fewn y sector cyhoeddus, sector preifat a thrydydd sector sy'n gweithio mewn partneriaeth er mwyn rhoi Ynys Môn ar y blaen o ran ymchwil a datblygiad ynni carbon isel, cynhyrchiant a gwasanaethu a sicrhau buddion economaidd anferthol posib.

5.11 Ymhen amser, disgwylir cyfleoedd sylweddol o ran cyflogaeth ar gyfer ystod amrywiol o sgiliau a phroffesiynau, wrth i ddatblygiadau mawr symud tuag eu cyfnodau adeiladu a gweithredu.

5.12 Mae Wylfa mewn sefyllfa dda i gyfrannu at gapasiti niwclear y DU at y dyfodol, ac mewn sefyllfa dda i gefnogi datblygiad Adweithyddion Modiwlar Bach (SMRs) neu safle gigawat. Byddai buddsoddiad o'r fath yn datgloi buddion sylweddol ar gyfer Gogledd Ynys Môn, gan gyflwyno cymaint â 1,000 o swyddi diogel, sy'n talu'n dda, yn ystod y cyfnod gweithredol, yn ogystal â diwallu'r angen sylweddol am gyfleoedd o ran cyflogaeth ym maes adeiladu, ynghyd ag o ran y gadwyn gyflenwi. Byddai unrhyw ddatblygiad arwyddocaol yn Wylfa yn arwain at fanteision o ran gwaith adeiladu a'r gadwyn gyflenwi a allai drawsnewid economi Gogledd Cymru.

5.13 Mae Wylfa wedi'i ddosbarthu fel un o'r wyth safle posib yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd. Mae cydnerthedd dros y Fenai yn hanfodol er mwyn gwireddu'r polisi hwn.[39]

5.14 Nid dim ond Wylfa yw testun sylw'r Rhaglen Ynys Ynni – ceir cyfleoedd ychwanegol:

- Yr Hwb Hydrogen ym Mharc Cybi yng Nghaergybi, sef y datblygiad cyntaf o'i fath yng Nghymru.
- Morlais - Ynni Morol Môn, sef prosiect ynni llanw a gyflwynwyd gan Menter Môn sy'n anelu at fod o fudd i gymunedau lleol, yr economi, ynghyd â helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy i gynhyrchu trydan carbon isel glân. Mae'n gyfle sylweddol i Ynys Môn fod yn arweinydd byd eang ym maes datblygu, gweithgynhyrchu a gosod cyfarpar ynni llanw. Caiff prosiect effeithiau sylweddol ar gyfer Ynys Môn a Chymru, a bydd yn chwarae rôl allweddol o ran cyflawni'r Ynys Ynni.
- Prosiect Dyfnder Caergybi Minesto (mae'r enw'n deillio o enw'r pant mawr ar wely'r môr i'r gorllewin o Gaergybi) yw prosiect ffrwd lanw cyflymder isel cyntaf y byd. Mae'r ardal yn cyd-fynd â holl ofynion y safle trwy ddarparu ffrwd llanw ar gyflymderau isel (anterth

[39] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/47859/2009-nps-for-nuclear-volumel.pdf

llif cymedrig o 1.5-2 m/s) ar ddyfnder o 80-100 metr. Nid yw'r safle alltraeth hwn ond yn 8 cilomedr o borthladd a thref Caergybi, yn lle lleolir prif swyddfeydd Minesto UK. Mae presenoldeb y brif swyddfa wedi gweld nifer o swyddi llawn amser yn cael eu creu hyd yma, ac mae'r prosiect eisoes yn ysgogi busnesau trwy'r gadwyn gyflenwi. Cynllun hirdymor Minesto yw ehangu safle Dyfnder Caergybi i greu aráe lanw fasnachol a chanddi gyfanswm capasiti ar ôl ei gosod o 80MW, a fyddai'n cyflenwi ynni lleol a glân i bron i 70,000 o aelwydydd.[40]

- Yn ogystal â hynny, Ynys Môn yw un o'r lleoliadau mwyaf deniadol ar gyfer datblygiad ynni gwynt ar y môr, ac mae'n lleoliad deniadol posib i sefydlu man glanio a gwasanaethu ar gyfer buddsoddiadau sylweddol ar y môr yn y dyfodol ym Môr Iwerddon.

5.15 Ymhlith buddion y prosiectau hyn y mae:

- Ymhen amser, disgwylir cyfleoedd sylweddol o ran cyflogaeth ar gyfer ystod amrywiol o sgiliau a phroffesiynau, wrth i ddatblygiadau mawr symud tuag eu cyfnodau adeiladu a gweithredu.
- Ymrwymo Busnesau Bach a Chanolig lleol yng ngweithgareddau'r prosiectau hyn o ran y gadwyn gyflenwi.
- Y rhaglen a chyflawni ymrwymiadau o ran targedau Sero Net

**5.16 Mae bob un o brosiectau Ynys Ynni Môn (ac yn enwedig prosiect Wylfa) yn drwm iawn o ran eu gofynion o safbwynt isadeiledd, a byddant yn gofyn am rwydwaith ffyrdd dibynadwy a chydnerth ar gyfer cludo deunyddiau, ac i wasanaethu anghenion y cynnydd o ran traffig gweithwyr yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu.**

### Twristiaeth Gynaliadwy

5.17 Roedd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru'n cydnabod bod tagfeydd yn broblem i drefi bach, pentrefi, a lleoliadau yng nghefn gwlad ac ar yr arfordir. O ran tagfeydd yn ystod oriau brig ac amser gwyliau, ynghyd â gwaith cynnal a chadw rheolaidd a chau'r pontydd, mae tagfeydd yn debygol o fodoli ar hyd a lled Ynys Môn yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn golygu nad oes digon i annog twristiaid i ymweld ag Ynys Môn, sy'n cael effaith ddilynol o ran bod llai o wariant yn y sectorau manwerthu, llety a gwasanaethau bwyd sydd bellach yn flaenllaw ym Môn.[41] Yn yr un modd, mae cydnerthedd gwael croesfannau'r Fenai yn arwain at sylw negyddol yn y wasg, a allai arwain hefyd at lai o bobl yn ymweld â'r ynys.

5.18 Mae cydnerthedd y croesfannau'n bwysig oherwydd bod galw eisoes o ran twristiaid yn ymweld â'r ynys. Ar ôl Covid-19, cafwyd mewnlifiad mawr o ymwelwyr, oedd ymhell y tu hwnt i gapasiti'r rhwydwaith ffyrdd, atyniadau twristiaeth ac o ran rheoli gwastraff, er cynnydd o 53% yn y llety a restrwyd ar yr ynys rhwng 2017 a 2021.[42] Tra cafwyd nifer fawr o ymwelwyr, mae peidio â gwella cydnerthedd y croesfannau'n golygu bellach na fydd y niferoedd hyn o ymwelwyr yn gynaliadwy yn y dyfodol.

---

[40] https://minesto.com/holyhead-deep/
[41] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-01/nwtc-progress-statement-final.pdf
[42] Cynllun Rheoli Cyrchfan Drafft 2023-2028 https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Council/Consultations/2023/destination-management-plan-2023-to-2028/Destination-Management-Plan-DMP-2023-to-2028.pdf

5.19 Gan fod cyfyngiad ar gapasiti'r ynys o ran nifer y bobl y gallai eu lletya ar unrhyw adeg benodol, mae angen dull mwy cynaliadwy o fynd i'r afael â'r sefyllfa trwy:

- Ddosbarthu twristiaid (a gwariant) yn fwy cyfartal ar hyd a lled yr ynys, yn hytrach na dim ond twf ychwanegol.
- Rheoli twristiaeth i sicrhau ei bod yn gynaliadwy o safbwynt cymdeithasol (gan gynnwys ymddygiad twristiaid).
- Twf twristiaeth werdd, sy'n gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol

5.20 Mae'r fersiwn drafft o Gynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn 2023-2028 yn nodi'r weledigaeth ar gyfer yr economi ymwelwyr:

*"Rydym yn awyddus i gael economi ymwelwyr sy'n empathetig i ymdeimlad o le'r Ynys, ac sydd o fudd i'r bobl, yr amgylchedd, y diwylliant, y dreftadaeth a'r iaith, ac sy'n parhau i chwarae rhan hanfodol yn sefydlogrwydd economaidd yr ynys."*

5.21 Mae egwyddorion arweiniol a blaenoriaethau'r Cynllun yn canolbwyntio ar:

- Ddathlu, Parchu a Diogelu ein Cymunedau, ein Hanes, ein Hiaith, ein Diwylliant a'n Treftadaeth - Dylai economi ymwelwyr Ynys Môn adeiladu ar gryfderau presennol ei hiaith a'i diwylliant a hyrwyddo treftadaeth leol i gynulleidfa ehangach.
- Cynnig Gwell i Ymwelwyr a Chynaliadwyedd Economaidd - Dylai economi ymwelwyr Ynys Môn ddatblygu'n gynaliadwy o amgylch cynnig o ansawdd uchel lle mae ymwelwyr yn gwerthfawrogi a pharchu diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd Ynys Môn. Yn ogystal, bydd seilwaith ymwelwyr o ansawdd yn cynnig cyfleoedd hamdden cyfoethocach ac o ganlyniad iechyd a llesiant gwell.
- Cynnal, Gwella a Pharchu ein Hamgylchedd, a chynllunio i liniaru effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd - Mae angen i economi ymwelwyr Ynys Môn fod yn fwy 'parod ar gyfer newid hinsawdd', ac yn gynyddol garbon niwtral. Mae angen i weithgareddau twristiaid for mewn cytgord â'r amgylchedd naturiol.
- Sicrhau bod y manteision i gymunedau Ynys Môn yn gorbwyso unrhyw anfanteision, ac o ganlyniad mae buddion cymdeithasol ac o ran llesiant yn cael eu gweld - Mae angen i economi ymwelwyr Ynys Môn fod o fudd i gymunedau lleol, gan roi cyfleoedd i bobl leol wneud rolau newydd medrus a gweithio gyda chadwyni cyflenwi lleol

5.22 Yn ogystal â hynny, yn 2022, mae CSYM wedi sicrhau cyllid 'Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy' (£575,000) gan Lywodraeth Cymru, am dair blynedd, i gefnogi'r gwaith o redeg nifer o brosiectau amgylcheddol.

5.23 Bydd y prosiectau yn helpu i wella bioamrywiaeth ac yn cefnogi amcanion y Cyngor i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy bedair thema allweddol, y mae un ohonynt yn canolbwyntio ar 'Ddarparu Twristiaeth Gynaliadwy'. Rhwng 2010 a 2021, cafwyd cynnydd o bron i 50% o ran effaith economaidd economi ymwelwyr Ynys Môn.

**5.24 Mae angen trydedd groesfan i gefnogi twf twristiaeth gynaliadwy ym Môn. Byddai llwybr o'r fath yn lleihau'r pwysau ar y cynnydd mewn traffig ar adeg gwyliau ar y ddwy bont bresennol.**

## Adfywio canol trefi a buddsoddi mewn isadeiledd lleol

### *Adfywio canol trefi*

5.25 Mae buddsoddi mewn canol trefi yn flaenoriaeth i Gyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru. Mae CSYM yn bwriadu cefnogi bob Cyngor Tref ar yr ynys i gefnogi arweinyddiaeth leol ac i wneud y defnydd gorau o'r ffynonellau cyllid sydd ar gael (gan gynnwys cyllid Llywodraeth Cymru) i wella canol eu trefi.

5.26 Mae'r Fframwaith Buddsoddi Drafft ar gyfer Canol Trefi yn nodi'r strategaeth gyffredinol o ran y modd y mae CSYM eisiau manteisio ar gyfleoedd ariannu newydd a chefnogi trefi Ynys Môn i fod yn lleoedd bywiog a llwyddiannus sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yr ynys.

5.27 Mae'r Cynlluniau Buddsoddi Drafft ar gyfer Canol Trefi ar gyfer y pum dref ym Môn (Caergybi, Amlwch, Llangefni, Porthaethwy, Biwmares) yn asesu'r heriau a'r cyfleoedd allweddol ym mhob tref, ac yn nodi'r blaenoriaethau allweddol o ran buddsoddiad (sy'n cydweddu â Siarter Llunio Lleoedd Cymru[43]) ar gyfer cefnogi llwyddiant canol y trefi.

### *Cyllid Ffyniant Bro*

5.28 Yn Ionawr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bu cais "Caergybi: Trawsnewid o safbwynt diwylliant a threftadaeth" ar gyfer Cylch 2 o'r Gronfa Ffyniant Bro yn llwyddiannus. Bydd yn helpu i drawsnewid y dref trwy sicrhau buddsoddiad o £22.5m, gan gynnwys £17 miliwn o'r Gronfa Ffyniant Bro, ac yn darparu mwy na £54m mewn buddion i'r gymuned leol.[44]

5.29 Bu Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Tref Caergybi, Môn CF, Canolfan Gelfyddydau Ucheldre a'r Eglwys yng Nghymru i ddeall anghenion yr ardal ac i gyflwyno pecyn o ymyriadau yng Nghaergybi a'r cyffiniau. Mae gan y dref rai o'r cymdogaethau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a bydd y Cyllid Ffyniant Bro yn gweld asedau lleol allweddol yn cael eu gwella i wneud yr ardal yn lle gwell i fyw ynddo ac i ymweld ag ef.

### *Buddsoddiad mewn isadeiledd lleol*

5.30 Mae angen buddsoddiad mewn isadeiledd lleol i gefnogi swyddi a chymunedau lleol Ynys Môn. I wneud y gorau o fanteision y Rhaglen Ynys Ynni a dynodiad y Porthladd Rhydd, mae angen lle ar gyfer cyflogaeth er mwyn i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh) dyfu. Mae buddsoddiad yn hanfodol, ac mae diffyg cyflenwad hanesyddol o arwynebedd llawr i BBaCh, sy'n cyfyngu twf economaidd ym mhob cwr o'r ynys.

5.31 Gan adeiladu ar Raglen Safleoedd ac Eiddo lwyddiannus CSYM, ysgrifennwyd Achos Amlinellol Strategol i gyflwyno unedau busnes newydd yn Amlwch i sicrhau bod gan fusnesau'r lleoedd iawn i sefydlu a/neu i dyfu. Yn seiliedig ar dystiolaeth o'r galw yn y farchnad, mae angen ymgymryd â rhagor o brosiectau tebyg i gefnogi'r ddarpariaeth o arwynebedd llawr ar gyfer cyflogaeth mewn lleoliadau eraill ym Môn. Ar hyn o bryd, mae gan CSYM bedair o unedau busnes yn Amlwch, y mae bob un wedi'i meddiannu, ac mae gan CSYM dros 75 o

---

[43] Siarter Llunio Lleoedd Cymru (2020), http://dcfw.org/wp-content/uploads/2020/09/PlacemakingWales_A4Charter_ENG.jpg
[44] https://www.anglesey.gov.wales/en/Business/Economic-development/Levelling-Up-Fund-LUF/Levelling-Up-Fund-Holyhead-bid.aspx

unedau ar hyd a lled Ynys Môn. Mae CSYM yn amcangyfrif bod y mwyafrif o'r tenantiaid yn breswylwyr ar Ynys Môn, sy'n awgrymu bod galw o blith busnesau lleol.

**5.32 Mae trydedd groesfan yn bwysig ar gyfer adfywio a buddsoddi yng nghanol trefi Ynys Môn yn llwyddiannus. Bydd llwybr dibynadwy dros y Fenai yn gwella'r teithiau rheolaidd a wneir ar gyfer preswylwyr, yn gwella'r canfyddiad o'r lle ar gyfer ymwelwyr, ac yn cynyddu hyder busnesau i leoli yng nghanol trefi Ynys Môn.**

# 6 Yr angen am ddatrysiadau aml-ddull

6.1 Mae CSYM yn teimlo'n gryf o blaid cefnogi mesur i leihau'r defnydd o geir ac i hyrwyddo teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, ac eisiau gweld gwasanaethau bysiau'n cael eu hintegreiddio'n well, ynghyd â gwell opsiynau o ran teithio llesol, gan gynnwys croesfannau'r Fenai.

6.2 Fodd bynnag, o ystyried amgylchiadau'r ynys, ceir cyfyngiadau o ran yr hyn y gallant ei gyflawni. Mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC) yn nodi, mewn ardaloedd gwledig, ei bod yn bod yn debygol bod teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn llai ymarferol ar gyfer mwy o deithiau nag yn ardaloedd trefol Cymru. Dangoswyd tystiolaeth o hyn yn gynharach yn yr adroddiad hwn o ran cost uchel trafnidiaeth gyhoeddus, y ffaith nad yw'n rhedeg yn ddigon aml, ynghyd â'r teithiau hir. Roedd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (CTGC) yn nodi hefyd nad oedd gwasanaethau bysiau ym Môn yn rhedeg yn ddigon aml a bod eu horiau gweithredu yn gyfyngedig.

6.3 Roedd CTGC yn nodi hefyd:

- *"Ar hyn o bryd, mae diffyg dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy ddeniadol neu realistig yn hytrach na'r cerbyd preifat ar gyfer teithiau gan drigolion, gweithwyr, ac ymwelwyr yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn cyfrannu at ddibyniaeth ar gerbydau preifat a chyfyngu cysylltiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol."*
- Ni chaiff gwelliannau o ran rheilffyrdd unrhyw effaith sylweddol ar sawl rhanbarth yng Ngogledd Cymru.

6.4 Yn adroddiad interim CTGC ar gyfer Mehefin 2023[45], nododd y Comisiwn ei fod yn bwriadu archwilio opsiynau ar gyfer gwella cydnerthedd y croesfannau presennol o ran:

- Tair lôn dros Bont Britannia, neu drefniant 'llif llanw'.
- Ad-drefnu cyffyrdd yr A55 wrth ymyl Pont Britannia.
- Darpariaeth ar gyfer teithio llesol ar Bont Britannia.
- Blaenoriaeth ar gyfer teithio llesol ar Bont Menai.
- Blaenoriaeth i deithio llesol a bysiau ar y pontydd.
- Taflwyr gwynt ar Bont Britannia.

6.5 Fodd bynnag, mae CSYM wedi ystyried yr opsiynau hyn yn flaenorol ac mae cyngor o'r farn na fydd yr opsiynau hyn yn ddigonol i fynd i'r afael â'r problemau o ran cydnerthedd a dibynadwyedd.

6.6 Tra bo Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei gweledigaeth ar gyfer bysiau yn Llwybr Newydd a Bws Cymru, ceir ychydig iawn o sicrwydd ynglŷn â dyfodol hyn ar hyn o bryd. Er y lefel uchel o gymhorthdal i wasanaethau bysiau ym Môn, mae niferoedd y teithwyr yn dal i fod yn isel. Ar

[45] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-06/north-wales-transport-commission-interim-report-june-2023.pdf

ben hynny, mae'r gwasanaeth bysiau'n annhebygol o helpu busnesau sy'n ddibynnol ar drafnidiaeth i gludo nwyddau o Borthladd Caergybi.

6.7 Er ei fod wedi cynghori Llywodraeth Cymru yn erbyn trydedd groesfan dros y Fenai, roedd y Panel Adolygu Ffyrdd yn cydnabod pwysigrwydd trafnidiaeth sy'n cludo nwyddau ar y ffyrdd yn ôl ac ymlaen i Gaergybi, ynghyd â'i dibyniaeth ar gydnerthedd y rhwydwaith. Roedd y panel hefyd yn cydnabod, pe bai'r cynllun hwn yn lleihau amseroedd teithio ac yn gwella dibynadwyedd bysiau, gallai wella mynediad i gyfleoedd cyflogaeth, ynghyd â gwella mynediad i ddulliau teithio llesol. Byddai cysylltedd â safle Gorsaf Bŵer Wylfa yn cael ei wella hefyd.[46]

6.8 Mae gan y cynllun Gymhareb Cost a Budd (BCR) da o rhwng 1.8 a 2.2[47] gyda 90% o gyfanswm y manteision yn deillio o arbedion o ran amser teithio. Mae'n debygol bod y BCR hon wedi'i thanddatgan oherwydd:

- Na chafodd y manteision o ran cydnerthedd a dibynadwyedd eu canfod yn llwyr.
- Mae'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yn tanbrisio gwerth cludo nwyddau. Porthladd Caergybi yw'r porthladd fferi 'gyrru i mewn ac allan' mwyaf ar ôl Dover.[48]
- Nid yw'r manteision yn nodi'r effeithiau o safbwynt buddsoddiad mewn busnes a newidiadau o ran defnydd tir, e.e. newidiadau o ran tripiau cludo nwyddau.

6.9 Fel yr oedd CSCC yn nodi, targed cyfartalog yw prif darged Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau'r milltiroedd a deithir mewn cerbyd - bydd rhai ardaloedd yn cyflawni mwy, rhai eraill yn cyflawni llai. Bydd Ynys Môn yn ei chyfanrwydd yn chwarae ei rhan, ac yn lleihau nifer y milltiroedd a deithir mewn car o fewn yr ynys. Nid yw hynny'n golygu na ellir datrys y safbwynt presennol o ran y groesfan trwy wella opsiynau preifat o ran teithio.

6.10 Fel y soniwyd yn yr Achos Amlinellol Strategol yn 2019, mae manteision trydedd groesfan dros y Fenai yn cynnwys:

- Manteision yng nghyswllt trafnidiaeth, fel rhwydwaith mwy cydnerth yn sgil digwyddiadau fel gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i drefnu, ynghyd ag argyfyngau neu effeithiau tywydd garw.
- Llai o allyriadau o ganlyniad i lai o draffig yn ciwio, ynghyd ag injans ceir yn rhedeg yn fwy effeithlon.
- Manteision cymdeithasol fel gwell cynhwysiant cymdeithasol trwy gymunedau sydd wedi'u cysylltu'n well.
- Amgylchedd mwy diogel i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr cerbydau modur ar y ffordd.
- Manteision o ran yr economi, gan gynnwys gwell cysylltedd ar hyd a lled Gogledd Cymru, gyda'r DU ac Iwerddon, hyrwyddo twristiaeth a gwell cyfleoedd ar gyfer mewnfuddsoddiad.

---

[46] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-02/the-future-road-investment-wales.pdf
[47] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-02/the-future-road-investment-wales.pdf
[48] https://www.itv.com/news/wales/2019-10-08/holyhead-the-uk-s-second-biggest-ferry-port-absolutely-not-ready-for-a-no-deal-brexit

6.11 At ei gilydd, nid yw'n ddoeth i ystyried gwaith cynnal a chadw ffyrdd ar wahân. Dylid ystyried y modd y mae hyn yn effeithio tai, isadeiledd gwyrdd a glas at y dyfodol, cyflenwadau trydan, datblygiadau economaidd a diwydiannol posib, isadeiledd cymdeithasol a chydlyniant.

**6.12** Gan fod y materion o ran cydnerthedd a dibynadwyedd croesfan y Fenai yn mynd y tu hwnt i fanteision nad ydynt ond yn ymwneud â thrafnidiaeth, a'u bod yn effeithio datblygiadau ehangach o ran isadeiledd at y dyfodol, **mae'n fwy na dim ond cynllun ffordd**.

6.13 Mae'r dystiolaeth a gynhwysir yn yr adroddiad crynodeb hwn, ac o fewn dogfen ategol y sylfaen dystiolaeth, yn nodi pwysigrwydd y croesfannau o ran dyfodol Ynys Môn a'i heconomi. Mae Ynys Môn wedi brwydro yn y gorffennol o ganlyniad i golli cyflogwyr allweddol mewn blynyddoedd diweddar, yn rhannol oherwydd ei lleoliad ymylol, ynghyd â chost cynnal busnes o'r ynys.

6.14 O ganlyniad i hyn, mae'r ynys wedi dod yn hyd yn oed mwy dibynnol ar y tir mawr am swyddi ar gyfer ei phreswylwyr ynghyd â mynediad i gyfleusterau cymunedol allweddol.

6.15 Mae natur annibynadwy'r croesfannau presennol, ynghyd â'r tagfeydd, yn gwneud bywyd yn boen i'r rheiny sy'n ceisio eu croesi, ac i'r rheiny sy'n byw yn eu cyffiniau. Mae hyn yn effeithio ysgolion, yr heddlu a'r gwasanaethau iechyd, yn ogystal â busnesau a phreswylwyr yr ynys.

6.16 Mae'n rhwystr i fuddsoddwyr a darpar ymwelwyr, ac yn bygwth llesteirio cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i wrthdroi dirywiad Ynys Môn a'r preswylwyr a gollwyd gyda chyfleoedd o ran y Porthladd Rhydd a chyflenwi prosiectau ynni carbon isel ar yr ynys. Mae Ynys Môn yn cystadlu am fuddsoddiad, a heb welliannau i fynd i'r afael â thagfeydd, a dibynadwyedd a chydnerthedd y croesfannau, gellid colli'r cyfle.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **18 Gorffennaf 2023** |
| Pwnc: | **Porthladd Rhydd Ynys Môn – Diweddariad** |
| Aelod Portffolio: | **Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd)** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Dylan Williams**<br>**Prif Weithredwr** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost | **Christian Branch a Tudur H. Jones**<br><br>**christianbranch@ynysmon.llyw.cymru**<br>**tudurjones@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Mae'n berthnasol i bob Aelod Etholedig** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**Argymhelliad / argymhellion:**

Argymhellir bod:

**(a) Aelodau'n nodi llwyddiant bid Porthladd Rhydd Ynys Môn wrth gyflawni statws Porthladd Rhydd**

**(b) Aelodau'n cymeradwyo llofnodi'r Cytundeb Cydweithio Cychwynnol rhwng CSYM a Stena Line, a gynhwysir yn Atodiad 1**

**(c) Awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod perthnasol o'r Pwyllgor Gwaith) i gytuno ar unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cytundeb Cydweithio Cychwynnol arfaethedig**

**(d) Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn yn cael ei ddynodi fel cynrychiolydd ar Gorff Llywodraethu'r Porthladd Rhydd a bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo iddo wneud unrhyw benderfyniadau angenrheidiol ynghylch amcanion Porthladd Rhydd Ynys Môn a bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo iddo enwebu person arall i fynychu yn ei le, a bydd gan y person enwebedig hawl hefyd i wneud unrhyw benderfyniadau angenrheidiol**

**(e) Aelodau yn cymeradwyo gwneud unrhyw gytundeb grant rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU i dderbyn arian cyhoeddus gan y Llywodraeth (hyd at £300,00 ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol)**

**Crynodeb Gweithredol**

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Ar 23 Mawrth 2023, yn dilyn penderfyniad ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, hysbyswyd y Cyngor bod Porthladd Rhydd Ynys Môn wedi cael ei ddewis fel bid llwyddiannus yn y gystadleuaeth am Borthladd Rhydd yng Nghymru.

Mae Porthladd Rhydd Ynys Môn yn bartneriaeth gyhoeddus/breifat rhwng CSYM (fel yr awdurdod lleol lletyol a'r corff atebol) a Stena Line (gweithredwr Porthladd Caergybi). Mae'n cael ei gefnogi gan randdeiliaid eraill, gan gynnwys perchnogion tir, Prifysgol Bangor a M-Sparc, Grŵp Llandrillo Menai, Uchelgais Gogledd Cymru, yn ogystal â busnesau sector preifat amrywiol, gan gynnwys buddsoddwyr posib. Serch hynny, CSYM sy'n cael ei ystyried fel 'Corff Atebol' gan y ddwy lywodraeth ar gyfer ystod o faterion llywodraethu a rheolaeth ariannol ac, o'r herwydd, y risgiau sy'n gysylltiedig â hynny.

Y cam nesaf yn y broses yw datblygu a chyflwyno Achos Busnes Amlinellol yn ystod ffenestr fras o chwe i naw mis (mae arian refeniw ar gael i CSYM gan y llywodraeth i gyflawni hyn). Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan yr Achos Busnes Llawn ac mae hynny'n debygol o gymryd hyd at 12 mis.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r broses y bydd rhaid ei dilyn i gyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol ac mae'n nodi'r awdurdod dirprwyedig a geisir gan swyddogion i gyfrannu at y gwaith hwn.

Mae'n cael ei rannu'n ddwy ran:

i) Rhan A: Diweddariad ar gynnydd a phenderfyniadau
ii) Rhan B (cyfrinachol): Diweddariad ar y trefniadau cyfreithiol a masnachol gyda Stena Line a chyllid gan Lywodraeth y DU

**Rhan A**

**Cefndir**

Yn ei gyfarfod ar 24 Hydref 2022, mynegodd y Pwyllgor Gwaith ei gefnogaeth i'r bid Porthladd Rhydd a chyflwynwyd y bid ym mis Tachwedd. Roedd y bid yn llwyddiannus a chyhoeddwyd y canlyniad yn ystod ymweliad gan y Prif Weinidog Rishi Sunak AS, a Phrif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AoS, â Chaergybi ar 23 Mawrth.

Mae'r Porthladd Rhydd yn cynnig cyfle i ddenu buddsoddiad sector preifat newydd sylweddol ar Ynys Môn ar ôl colli cyflogwyr mawr yn ddiweddar, megis 2 Sisters. Mae llwyddiant y bid yn arwydd sylweddol o hyder yn y Cyngor a'i gynlluniau ar gyfer Ynys Môn, yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Ionawr am y bid Cronfa Ffyniant Bro llwyddiannus.

Mae'r broses yn symud ymlaen i'r cam llunio achos busnes yn awr. Nid yw Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi unrhyw ganllawiau penodol ar gyfer rhaglen Porthladdoedd Rhydd Cymru eto, ond maent wedi nodi y dylai gwaith datblygu Porthladd Rhydd Ynys Môn fynd rhagddo gan ddefnyddio'r

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

canllawiau a gyhoeddwyd yn barod. Pan gyhoeddir canllawiau Cymru bydd y Cyngor yn ystyried a oes angen iddo newid ei ffordd o weithio.

Mae gofynion y broses sydd angen sylw ar unwaith yn cael eu nodi yng ngweddill yr adroddiad.

Gofynnir i Aelodau nodi hefyd:

- y cyfrifoldebau y bydd rhaid i'r Cyngor eu hysgwyddo fel Corff Atebol ar gyfer rhaglen Porthladd Rhydd Ynys Môn, a
- gofynion yn ystod y cyfnod hwn i sefydlu mecanweithiau llywodraethu addas i ddyrannu, yn y dyfodol, cyllid cyfalaf sbarduno a chyfraddau busnes a gedwir. Darperir adroddiad pellach maes o law i gadarnhau manylion mecanweithiau o'r fath.

**Rhaglen Porthladd Rhydd**

Mae'r Rhaglen Porthladd Rhydd yng Nghymru'n cynnig cyfle i fanteisio ar botensial economaidd toreithiog Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddylunio model porthladd rhydd sy'n cyflawni tri phrif amcan:

- Hyrwyddo adfywio a chreu swyddi o safon uchel
- Sefydlu'r Porthladd Rhydd fel hwb cenedlaethol ar gyfer masnach fyd-eang a buddsoddiad ym mhob rhan o'r economi
- Meithrin amgylchedd arloesol

Mae'r canllawiau ar gyfer Porthladdoedd Rhydd Cymru hefyd yn pwysleisio disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag amddiffyn hawliau gweithwyr a safonau amgylcheddol, cyfrannu at gyflawni Sero Net ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn benodol, mae'r rhaglen yn cynnwys polisïau Llywodraeth Cymru ar waith teg a phartneriaethau cymdeithasol i sicrhau:

- fod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo'n deg, eu clywed a'u cynrychioli
- fod gweithwyr yn gallu datblygu mewn amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol
- fod hawliau gweithwyr yn cael eu parchu


Bydd busnesau, yn eu tro, yn elwa o fod yn rhan o barth arbennig. Mae hyn yn cynnwys:

- trefniadau tollau symlach
- rhyddhad ar dollau tramor
- buddiannau treth
- hyblygrwydd datblygu

Mae Porthladdoedd rhydd yn bartneriaeth rhwng porthladdoedd gweithredol a'u hawdurdodau lleol lletyol. Maent yn cynnwys dynodi safleoedd penodol lle bydd busnesau'n derbyn y buddion hyn o fewn "ffin allanol" nad yw fwy na 45km o'r porthladd.

| A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| Mae trosolwg o'r Porthladdoedd Rhydd wedi'i gynnwys fel Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.<br><br><u>Porthladd Rhydd Ynys Môn</u><br><br>Bu'r Cyngor yn gweithio ochr yn ochr â Stena Line i ddatblygu un bid Porthladd Rhydd sy'n adeiladu ar y Rhaglen Ynys Ynni, sef trefniadau cydweithio sydd eisoes yn bodoli rhwng rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Bydd partneriaeth y Porthladd Rhydd yn adeiladu ar ddaearyddiaeth unigryw Ynys Môn fel ynys, ac yn cefnogi twf masnach drwy borthladd Caergybi, sef yr ail borthladd gyrru mewn ac allan (Ro-Ro) mwyaf yn y DU, ar ôl Dover.<br><br>Ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn, CSYM a Stena Line yw'r unig awdurdod lleol a gweithredwr porthladd. Mae hyn yn symleiddio'r strwythur llywodraethu'n sylweddol o gymharu â'r rhan fwyaf o Borthladdoedd Rhydd eraill yn y DU.<br><br>Y ffin allanol yw'r ynys gyfan.<br><br>Wrth lunio'r bid, y safleoedd penodol a fyddai'n gallu manteisio ar wahanol reolau tollau, trethi a rheoleiddio oedd:<br>• Porthladd Caergybi<br>• Parc Cybi a hen safle Alwminiwm Môn<br>• M-Sparc (safle treth yn unig), a<br>• Rhosgoch (safle treth yn unig).<br><br>Maent i'w gweld yn y diagram isod: |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau




Yn ystod y cyfnod sefydlu bydd y safleoedd hyn yn cael eu hadolygu yn erbyn y meini prawf a gyhoeddwyd ac efallai y bydd angen eu diwygio.

Mae’r bid yn amlinellu strategaeth i ganolbwyntio buddsoddiad a datblygiad o amgylch y porthladd, gan ailddatblygu ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio i ganiatáu iddynt gyrraedd eu llawn botensial a chynyddu gweithgarwch economaidd yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiadau cyfalaf sylweddol sy’n gallu manteisio orau ar y pecyn penodol o fesurau treth a ddarperir gan y Porthladd Rhydd, megis:

- Prosiect Morlais – Aráe Ynni Llanw yng ngwely’r môr gerllaw
- Ynni gwynt ar y môr (e.e. Awel y Môr)
- Gweithgynhyrchu (e.e. Westinghouse, Rolls Royce, Bechtel a NewCleo)
- Technoleg Niwclear
- TG a phrosesu data

Mae Porthladd Rhydd Ynys Môn yn hanfodol o ran cyflawni uchelgeisiau ehangach yn gysylltiedig â datgarboneiddio, ac amcangyfrifir y byddai adfer y bont dir yn arwain at ostyngiad o 17.9% mewn allyriadau $CO_2e$ o gymharu â’r llwybr presennol (Dulyn i Calais), ac i bartneriaid allweddol sydd yn arloesi ym maes ynni llanw, gwynt, morol a niwclear.

**Camau Nesaf**

| A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
| --- |
| Cyhoeddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ganllawiau penodol ar gyfer Cyfnod Sefydlu'r Porthladdoedd Rhydd ar [rhowch y dyddiad]. Mae'n nodi'r hyn y mae'n rhaid ei ddarparu i'r ddwy Lywodraeth yn yr Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes llawn er mwyn i'r Porthladd Rhydd ddod yn weithredol ac er mwyn i'r gwahanol fuddion treth a thollau fod ar gael i fuddsoddwyr.<br><br>Yn amodol ar ddatblygu a derbyn cymeradwyaeth i'r Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn, bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn derbyn hyd at £26 miliwn o gyllid gan y Llywodraeth a bydd yn cael ei reoli gan CSYM fel Corff Atebol. Mae hyn yn ychwanegol at y buddion polisi eraill y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Mae'r swm o £26 miliwn yn cynnwys cyllid cyfalaf sbarduno gwerth £25 miliwn a chyfraniad refeniw o £1 miliwn tuag at ddatblygu'r achos busnes. Mae cyllid yn cael ei ddatgloi trwy gyflwyno cynigion buddsoddi derbyniol i lywodraethau yn unol â Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Fawrhydi. Mae rhai buddion yn cael eu datgloi yn ystod y cam Achos Busnes Amlinellol a'r gweddill yn ystod y cam Achos Busnes Llawn.<br><br>Bydd y cyllid cyfalaf sbarduno gwerth £25 miliwn yn cael ei reoli gan y Cyngor a chaiff ei wario'n bennaf ar safleoedd allweddol er mwyn darparu mynediad i drafnidiaeth, adfer a galluogi tir, ynghyd â phrosiectau isadeiledd allweddol eraill. Mae'n bosib hefyd y caiff rhywfaint o'r cyllid cyfalaf sbarduno ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau sgiliau, arloesi a charbon isel, sy'n mynd i'r afael â chyfleoedd a heriau yn gysylltiedig â'r Porthladd Rhydd. Mae'r Cyngor yn parhau i asesu ffrydiau cyllido posib i ddeall y lefel arfaethedig o fuddsoddiad fydd ar gael i gefnogi'r broses.<br><br>Fel Corff Atebol ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn, bydd gan CSYM gyfrifoldeb am oruchwylio materion gweinyddol ac ariannol y Porthladd Rhydd. Mae'n ofynnol dynodi awdurdod lleol fel Corff Atebol ac mae'n amod er mwyn derbyn cyllid gan y llywodraeth. Fel Corff Atebol, bydd CSYM yn cytuno i fod yn atebol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru am nifer o faterion, ac mae'n debygol y byddant yn cynnwys:<br><br>(1) Datblygu Achos Busnes<br><br>(2) Derbyn a rheoli arian cyhoeddus, gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ar ran y Porthladd Rhydd, yn unol â'r holl ddyletswyddau, polisïau a phrotocolau sector cyhoeddus perthnasol.<br><br>(2) Sicrhau fod arian o'r fath yn cael ei ddefnyddio'n briodol, yn unol â'r gyfraith, ac y gellir dangos gwerth am arian, yn unol â'r holl amodau grant perthnasol a bennir gan y llywodraeth.<br><br>(3) Sefydlu a chynnal systemau ariannol a llwybrau archwilio cadarn i roi cyfrif am yr holl arian cyhoeddus a dderbyniwyd ac a rannwyd yn unol â'r uchod.<br><br>(4) Materion ariannol eraill yn ymwneud â, e.e., trethi busnes a gedwir, defnyddio pwerau benthyca sector cyhoeddus i ddatblygu'r rhaglen Porthladd Rhydd a sicrhau fod y materion hyn yn cael eu cofnodi a'u hadrodd yn briodol. |

| A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| (5) Rheoli risg, a sicrhau fod llywodraethiant da yn cael ei wreiddio yn yr holl drefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau.<br><br>(6) Y broses gynllunio defnydd tir sy'n gysylltiedig â gweithrediad y Porthladd Rhydd i hwyluso datblygiad ar safleoedd dynodedig, ac, o bosib, materion iechyd yr amgylchedd yn ymwneud â'r porthladd.<br><br>(7) Materion sydd o ddiddordeb a phryder penodol i Lywodraeth Cymru, yn cynnwys safonau amgylcheddol a safonau cyflogaeth, yn ogystal â'r iaith Gymraeg.<br><br>(8) Monitro ac arfarnu parhaus a therfynol o'r raglen gyfan.<br><br>Bydd angen capasiti ychwanegol i gefnogi'r rôl hon, yn bennaf yn y gwasanaeth Datblygu Economaidd a'r swyddogaethau ariannol a chyfreithiol. Yn ogystal, bydd yn cael effaith ar swyddogaethau rheoleiddio maes o law, oherwydd y rôl a ragwelir ym maes cynllunio, yn ogystal ag iechyd yr amgylchedd yn gysylltiedig â'r porthladd.<br><br>Bydd angen ymrwymiad amser gan uwch swyddogion hefyd er mwyn cymryd rhan yn y strwythurau llywodraethu. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio awdurdod i gymryd rhan yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer cam nesaf y prosiect. Er mwyn datblygu'r cynigion ar gyfer y cam Achos Busnes Amlinellol, mae angen sefydlu trefniadau llywodraethu diwygiedig. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu nodi yn y Cytundeb Cydweithio Cychwynnol fydd yn cael ei lofnodi gan y ddau bartner – Cyngor Sir Ynys Môn a Stena Line. Mae rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr lofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn un o'r penderfyniadau allweddol y gofynnir amdano yn Rhan B yr adroddiad hwn. Bydd trefniadau llywodraethu i'r dyfodol, ar gyfer y cyfnod gweithredol, yn destun adroddiadau pellach yn y dyfodol.<br><br>I gefnogi ei fewnbwn i'r broses o ddatblygu'r Achos Busnes Amlinellol, mae CSYM wedi penodi Cyfarwyddwr Bid Porthladd Rhydd dros dro drwy Gytundeb Fframwaith y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ar gyfer materion economaidd. Bydd hyn yn darparu adnodd ac arbenigedd ychwanegol i gefnogi'r Cyngor yn ystod y broses. Mae Llywodraeth y DU yn darparu cyllid ar gyfer y rôl hon. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn Rhan B y papur hwn. |
| |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Nad yw'r Cyngor Sir yn datblygu'r bid Porthladd Rhydd. Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn opsiwn realistig gan y gallai gael effaith andwyol ar uchelgais y Cyngor i greu swyddi a chyfleoedd yn yr economi leol, yn ogystal â thanseilio ei hygrededd gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a chreu cyhoeddusrwydd negyddol. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Graddfa ac arwyddocâd strategol y Porthladd Rhydd a rôl CSYM fel Corff Atebol a rheoli'r risgiau cysylltiedig. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi. Mae'n alinio â Gweledigaeth Cynllun y Cyngor, sef "Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu" ac Amcan Strategol yr Economi o "hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys". Mae'n cefnogi tri o'r pedwar ymrwymiad:<br>• ysgogi adfywiad economaidd a chymunedol<br>• cefnogi'r economi a busnesau lleol i dyfu a ffynnu<br>• cynyddu ac annog datblygiad prosiectau carbon isel<br><br>O dan y pennawd "Adfywio a Datblygu Economaidd" bydd yn cyfrannu at:<br>ii. Gweithio gyda pherchnogion tir i ailddatblygu hen safleoedd diwydiannol<br>vi. Cydweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i gryfhau rôl Caergybi a'r Porthladd fel 'Porth' Rhyngwladol allweddol.<br>vii. Parhau i weithio mewn partneriaeth drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i greu cyfleoedd lleol a rhanbarthol newydd.<br>viii. Parhau i elwa ar gyfleoedd i dderbyn arian allanol er mwyn sicrhau fod anghenion economaidd yr Ynys yn derbyn sylw.<br>ix. Cynnal, cadw a datblygu ein hisadeiledd allweddol. |
| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| Ydi. Bydd y Cyngor yn derbyn cyllid ychwanegol i ddatblygu'r achos busnes. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae ardaloedd o Gaergybi'n dioddef amddifadedd sydd ymysg yr uchaf yng Nghymru. Gallai sicrhau statws Porthladd Rhydd wireddu gwelliannau a buddion gwirioneddol i'r dref gan greu swyddi a chyfleoedd. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Mae ganddo'r potensial i atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol trwy ysgogi twf a ffyniant economaidd yng Nghaergybi ac ar Ynys Môn. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Ydym – gweithio gyda chydweithwyr o Lywodraeth y DU a sefydliadau tu allan i'r Cyngor Sir, megis Stena. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Na – dim eto. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar yr agenda Cydraddoldeb a'r Gymraeg | Rydym yn rhagweld y gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar bob dinesydd drwy greu swyddi a chyfleoedd. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Rydym yn rhagweld y gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar bob dinesydd, yn enwedig o ystyried fod Caergybi'n dioddef amddifadedd a bod nifer o breswylwyr yn wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Dim sylw |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Dim sylw |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Dim sylw |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F – Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 2 – Cefndir y rhaglen Porthladdoedd Rhydd |

| Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Gellir gweld adroddiad Hydref 2022 yma: https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s19167/Cais%20am%20Borthladd%20Rhydd.pdf?LLL=1 |

**Atodiad 2 – Gwybodaeth Gefndir am Borthladdoedd Rhydd**

**Cyflwyniad**

Ardaloedd arbennig o fewn ffiniau'r Deyrnas Unedig (DU) lle mae rheoliadau economaidd gwahanol yn gymwys yw Porthladdoedd Rhydd. Dewiswyd y safleoedd hyn yn ofalus oherwydd eu haddasrwydd i gael eu datblygu gan awdurdodau lleol a phartneriaid preifat allweddol ac maent wedi'u lleoli o fewn ffin allanol, sy'n cynrychioli'r lleoliad daearyddol lle mae manteision porthladdoedd rhydd yn cael eu targedu ac nad yw ynddo'i hun yn rhoi unrhyw statws treth, tollau neu arbennig arall. Mae Porthladdoedd Rhydd yn bartneriaeth rhwng o leiaf un gweithredwr porthladd ac awdurdod lleol.

Mae'r Rhaglen Porthladd Rhydd yng Nghymru wedi'i dylunio i helpu i hyrwyddo adfywio ar draws economïau a chymunedau, gan sbarduno twf cynhwysol a chynaliadwy yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae disgwyl i'r Porthladd Rhydd gyfrannu at wella gallu Cymru i ddenu buddsoddiad a busnesau newydd, gan ddod â thwf a ffyniant i rai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig a chefnogi'r broses o gyflawni'r ymrwymiadau twf economaidd allweddol a amlinellir yng Nghynllun Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Cymru.

Mae'r rhaglen Porthladd Rhydd wedi'i alinio ag amcanion polisi ehangach yn ogystal, sy'n ceisio gwneud Cymru'n genedl fwy cynaliadwy, a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Mae'r Rhaglen Porthladd Rhydd yn darparu mynediad i gymysgedd o gymhellion ariannol, yn seiliedig ar lywodraethiant da a chefnogi partneriaeth gref rhwng rhanddeiliaid yn y sector preifat a chyhoeddus. Bwriedir iddo integreiddio â strategaethau lleol presennol ar gyfer sgiliau, arloesi a chadwyni cyflenwi.

**Safleoedd Tollau**

Mae safle tollau Porthladd Rhydd (a elwir hefyd yn 'barth rhydd') yn barth tollau diogel, wedi'i amgáu, lle nad yw rhai rheolau trethi a thollau arferol yn cael eu gweithredu. Mae angen o leiaf un safle tollau er mwyn i Borthladd Rhydd fod yn weithredol.

Gall busnesau awdurdodedig fewnforio nwyddau penodedig i safle tollau Porthladd Rhydd gyda dogfennau tollau symlach a heb dalu tariffau.

Gall busnesau awdurdodedig sy'n gweithredu o fewn safleoedd tollau Porthladd Rhydd storio neu gynhyrchu nwyddau gan ddefnyddio nwyddau a fewnforiwyd. Trwy wneud hyn, gallant ychwanegu gwerth cyn allforio'r nwyddau unwaith eto ac ni fydd rhaid iddynt dalu tollau mewnforio, os ydynt yn cydymffurfio ag amodau penodedig. Os yw nwyddau'n cael eu datgan fel rhai ar gyfer cylchrediad rhydd yn y DU (defnydd cartref), rhaid talu tollau perthnasol cyn eu rhyddhau o'r safle tollau. Gellir storio nwyddau domestig ar safleoedd tollau hefyd a'u defnyddio mewn unrhyw weithgaredd brosesu.

Mae'r safleoedd tollau'n cynnig y manteision isod i fusnesau sydd wedi'u lleoli ynddynt:

- Mynediad at drefniadau atal tollau (h.y. ni thelir tollau ar nwyddau a gludir i'r Porthladd Rhydd o du allan i Brydain Fawr hyd nes y byddant yn dod i mewn i farchnad Prydain Fawr), eithrio tollau tramor ar nwyddau sy'n cael eu hailallforio (ni thelir tollau mewnforio) a hyblygrwydd ynghylch sut y caiff tollau eu cyfrifo (gellir defnyddio gwerth y mewnbynnau neu'r nwyddau gorffenedig, pa un bynnag sydd isaf).
- Mae'n caniatáu gweithgareddau storio a phrosesu ar safle tollau Porthladd Rhydd o dan un weithdrefn dollau arbennig ar y cyd ar gyfer y Porthladd Rhydd, yn hytrach nag awdurdodiadau lluosog
- Symleiddio'r broses ar gyfer dod â nwyddau i mewn i safleoedd tollau Porthladd Rhydd, yn ogystal â rhwng safleoedd tollau, a'u hallforio
- Caniatáu symud nwyddau rhwng safleoedd tollau ac i weithdrefnau arbennig eraill, i gyd-fynd ag anghenion y busnes.

Er mwyn manteisio ar y buddiannau hyn, fel arfer bydd angen i nwyddau fod wedi eu lleoli mewn safle tollau Porthladd Rhydd.

**Safleoedd Treth**

Bydd gan bob Porthladd Rhydd hyd at dri safle treth dynodedig. Mae safleoedd treth yn annibynnol ac maent yn cael eu hawdurdodi ar wahân i safleoedd tollau Porthladd Rhydd, ond gallant gynnwys yr un darn o dir.

Gall busnesau cymwys mewn safleoedd trethi Porthladd Rhydd fanteisio ar ystod o gymhelliannau treth. Mae hyn yn cynnwys gwell lwfansau cyfalaf a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer gweithwyr newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnig Treth Trafodiadau Tir penodol ar gyfer Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru, a bydd angen cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer hynny. Bydd busnesau newydd cymwys sy'n symud i safle treth Porthladd Rhydd, a rhai busnesau presennol sy'n ehangu, hefyd yn manteisio ar Ryddhad Ardrethi Annomestig llawn yng Nghymru.

Dyluniwyd y cynlluniau rhyddhau trethi uchod i annog cymaint â phosib o fusnesau i agor, ehangu a buddsoddi mewn Porthladdoedd Rhydd, a bydd hynny, yn ei dro, yn hwb i gyflogaeth.

Mae'r tabl isod yn crynhoi manylion ac amseriad y buddion

| **Rhyddhad Treth** | **Manylion** | **Amseriad** |
|---|---|---|
| **Treth Trafodiadau Tir** | Rhyddhad ar drafodiadau tir perthnasol o fewn safleoedd trethi (lle bydd yr eiddo'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgarwch masnachol) | Yn amodol ar gadarnhad (Mae'n ofynnol i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno gerbron y Senedd), ond, fel enghraifft: roedd rhyddhad cyfatebol gan Lywodraeth y DU am gyfnod o hyd at bum mlynedd |
| **Lwfans Strwythurau ac Adeiladau Gwell (SBA)** | Cyfradd well i gwmnïau sy'n adeiladu neu'n adnewyddu strwythurau ac adeiladau at ddefnydd annomestig o fewn safleoedd treth Porthladd Rhydd | Mae'n caniatáu i gwmnïau leihau eu henillion trethadwy gan 10% o'r gost fuddsoddi bob blwyddyn am ddeng mlynedd (o gymharu â'r gyfradd safonol o 3% y flwyddyn dros 33 1/3 blynedd sydd ar gael yn genedlaethol) |

| | | |
|---|---|---|
| **Lwfansau Cyfalaf Gwell (ECA)** | Rhyddhad treth gwell i gwmnïau sy'n buddsoddi mewn asedau peiriannau a pheirianwaith newydd cymwys. | Gall cwmnïau hawlio 100% o'r gwariant cymwys yn erbyn yr elw o'u gweithgarwch cymwys yn yr un cyfnod treth ag y cafwyd y gost |
| **Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr (NICs)** | Bydd cyflogwyr sy'n gweithredu mewn safle treth Porthladd Rhydd yn talu cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr ar gyfradd o 0% ar gyflogau unrhyw weithiwr newydd sy'n gweithio yn safle treth y Porthladd Rhydd am 60% neu fwy o'i amser (ac o fis Ebrill 2023 ymlaen, bydd hyn hefyd yn berthnasol i'r Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol) | Byddai'n gymwys am hyd at dair blynedd fesul gweithiwr o ddechrau ei gyflogaeth ar enillion hyd at drothwy o £25,000 y flwyddyn. Bydd ar gael tan Chwefror 2028 (ond rhoddir ystyriaeth i estyniad pellach hyd at 2031) |
| **Rhyddhad Ardrethi Annomestig (NNDR)** | Mae'n bosib y bydd busnesau'n gymwys i gael hyd at 100% o ryddhad ardrethi annomestig ar gyfer rhai mathau o eiddo a gwelliannau i eiddo o fewn safleoedd treth dynodedig | Byddai'n berthnasol am hyd at bum mlynedd o'r adeg pan fydd y buddiolwr yn cael y rhyddhad gyntaf<br>Mae'n rhaid i geisiadau ar gyfer y rhyddhad hwn gael eu derbyn erbyn 31 Mawrth 2028 |

## Arian Cyfalaf Sbarduno

Bydd cyfle i Borthladdoedd Rhydd llwyddiannus gael cyllid cyfalaf sbarduno o hyd at £25 miliwn – a bydd £1 miliwn o gyllid refeniw ar gael hefyd. Mae'r swm a geir yn dibynnu ar gyflwyno'r achos busnes amlinellol ac achos busnes llawn, ansawdd yr achosion busnes hynny a sut mae'r cynigion yn cyd-fynd â'r polisi'n strategol.

Bydd achosion busnes yn cael eu cymeradwyo gan fwrdd y Rhaglen Porthladd Rhydd, gyda chynrychiolaeth ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd unrhyw gyllid a ddarperir yn cael ei gyfateb neu ei gyfateb yn rhannol gan fuddsoddiad sector preifat, benthyciadau awdurdod lleol a chyd-ariannu gan gyrff cyhoeddus eraill, lle y bo'n berthnasol. Pan fydd cyllid yn cael ei ryddhau, caiff ei roi i'r awdurdod lleol yng nghorff llywodraethu'r Porthladd Rhydd. Nhw fydd yn atebol i Lywodraeth Cymru am wario a rheoli'r cyllid cyfalaf sbarduno.

Mae'n rhaid gwario'r arian cyfalaf sbarduno o fewn y ffin allanol (h.y. o fewn Ynys Môn) a'r bwriad yw y caiff ei ddefnyddio ar gyfer cydosod tir, adfer safleoedd, a seilwaith trafnidiaeth mewnol ar raddfa fach i gysylltu safleoedd o fewn y Porthladd Rhydd â'i gilydd, yr ardal uniongyrchol o'u hamgylch neu asedau economaidd eraill.

## Cadw Trethi Busnes

Bydd yr awdurdod lleol y mae'r safleoedd treth Porthladd Rhydd wedi'u lleoli ynddo yn cadw'r twf ardrethi annomestig o fewn ffiniau'r safle treth uwchben llinell sylfaen gytunedig. Bydd hyn yn cael ei warantu am 25 mlynedd, gan roi'r sicrwydd y mae ei angen ar awdurdodau lleol i fenthyca er mwyn buddsoddi mewn adfywio a seilwaith a fydd yn cefnogi twf ychwanegol. Dylid defnyddio'r derbyniadau a gadwyd i dalu am gostau benthyca (pan fo'n berthnasol); ail-fuddsoddi yn safle treth y Porthladd Rhydd i gynhyrchu twf ychwanegol; neu wrthbwyso effeithiau disgwyliedig unrhyw weithgarwch economaidd lleol a ddadleolir o ardaloedd difreintiedig.

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***Symud Rhaglen Porthladd Rhydd Ynys Môn ymlaen i'r Cam Achos Busnes Amlinellol***

***Progressing Anglesey Freeports Programme to the Outline Business Case Stage***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff(au) 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 14, of Schedule 12A Local Government Act 1972</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF / THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd i'r cyhoedd o ddatgelu sef:-<br><br>Bydd y cyhoedd â diddordeb i weld sut y mae'r Cygnor a'u partneriaid wedi gweithredu y rhaglen a dyrannu arian Cronfa Ffyniant Gyffredin:<br><br>• Adolygu atebolrwydd a thryloywder<br>• Herio penderfyniadau a wneir<br>• Deall a chymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch dyrannu cyllid yn y dyfodol<br><br>• Deall a chymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch dyrannu cyllid yn y dyfodol<br><br>There is a public interest in disclosure as:-<br><br>The public will be interested in how the Council and its partners has implemented the programme and allocated the Shared Prosperity Fund funding:<br><br>• Review accountability and transparency<br>• Challenge decisions made<br>• Understand and participate in decisions regarding future allocation of funding</td><td>Y budd i'r cyhoedd o beidio datgelu yw:<br><br>Gallai datgelu rhagfarnu a chael effaith andwyol ar fuddiannau busnes, ariannol a masnachol partner datblygu/ ymgeiswyr a'u prosiectau.<br><br>Gallai datgelu niweidio trafodaethau'r Cyngor gyda phartneriaid/ rhanddeiliaid wrth fwrw ymlaen â gweithgareddau ffrwd gwaith y Porthladd Rhydd.<br><br>The public interest in not disclosing is:-<br><br>Disclosure could adversely impact and prejudice the financial and business affairs and commercial interests of a development partner/ applicants and their projects.<br><br>Disclosure may adversely prejudice the Council's discussions with partners/ stakeholders in progressing the Freeports workstream activities.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae'r budd i'r cyhoedd o gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth<br><br>The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.</td></tr>
</table>

Document is Restricted

This page is intentionally left blank